Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Cyllideb Ddrafft 2023-24

# Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar y dyraniadau o fewn pob Prif Grwp Gwariant

Rhagfyr 2022

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46224, Fersiwn 2, ISBN digidol 978-1-80535-398-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Mynegai**

Cafodd y papurau tystiolaeth canlynol eu cyflwyno i Bwyllgorau'r Senedd gan Weinidogion Cymru i gefnogi'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24:


Papur 1 - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – 11 Ionawr 2023 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ....1

Papur 01a – Atodiad A – Llinellau Gwariant yn y Gyllideb – Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ....43

Papur 01b – Atodiad B - Sylwadau lefel cam gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ....44

Papur 02 - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – 11 Ionawr 2023 – tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ....54

Papur 02a - Atodiad A - Dadansoddiad Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2023-24, alldro rhagolygol 2022-23 ac alldro terfynol 2021-22 ....94

Papur 02b – Atodiad B - Sylwadau lefel cam gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Adnodd ....100

Papur 02c – Atodiad C - Trosglwyddiadau a ragwelir ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn Ail Gyllideb Atodol 2022-23 ....110

Papur 02d – Atodiad D - Dyraniadau Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol ar gyfer 2022-23....111

Papur 02e – Atodiad E - Dyraniadau Grant Refeniw ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd ....112

Papur 02f – Atodiad F - Dyraniadau 2022-23 i golegau Addysg Bellach ....113

Papur 02g – Atodiad G - Tybiaethau Rhagolwg Ariannol Addysg Bellach 2022- 23...114

Papur 02h – Atodiad H - Gwerthoedd Rhaglenni 2022/23 ar gyfer cyfrifo cyllid AB a Chweched dosbarth....116

Papur 02i – Atodiad I - Grantiau: Alldro 2021-22 a gwariant rhagamcanol y pedair blynedd wedyn ar gyfer: Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf amser llawn (GGALl; Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf ran-amser (GGRA; Grant Cynhaliaeth GGRA; Elfen grant Cyllid Meistr; Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA); Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLlC(AB)) ....127

Papur 03 - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – 12 Ionawr 2023 – tystioaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ....128

Papur 03a - Dadansoddiad Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ....137

Papur 04 - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 12 Ionawr 2023 – tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi....140

Papur 04a – Atodiad A – Llinell Wariant y Gyllideb – Prif Grwp Gwariant yr Economi174

Papur 04b – Atodiad B - Sylwadau ar gamau gweithredu’r Prif Grwp Gwariant .........178

Papur 04c – Atodiad C - Manylion y Rhaglen Gyflogadwyedd...................................186

Papur 05 - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 12 Ionawr 2023 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig ......................................188

Papur 05a – Atodiad A - Strwythur y Gyllideb (yn ôl SPA a BEL) ...............................203

Papur 06 – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 16 Ionawr 2023 - tystioaeth ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ........213

Papur 06a – Atodiad A - Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a'r adnoddau a ddyrennir i weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder.......................217

Papur 07 - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – 16 Ionawr 2022 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ..........................223

Papur 07a – Atodiad A - Llinell Gwariant y Gyllideb .................................................245

Paper 08 - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Ionawr 2023 - tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon........................................................247

Papur 08a – Atodiad A - Trosolwg o Gyllid Diwylliant a Threftadaeth.........................272

Papur 08b – Atodiad B - Sylwebaeth ar lefel camau gweithredu ...............................276

Papur 08c – Atodiad C - Prosiectau a Ariennir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (28 Tachwedd 2022)..........................................................................277

Papur 08d – Atodiad D - Buddsoddiad yng Nghronfa Sgrin Cymru (11 Tachwedd 2020) ...............................................................................................................................278

Papur 08e – Atodiad E - Buddsoddiad yn Stiwdios Bad Wolf (Tachwedd 2021) ........284

Paper 09 - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Ionawr 2022 - tystiolaeth ysgrifenedig gan gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ...............................................................................................................286

Papur 09a – Atodiad A - Cyllidebau y Gymraeg yng Nghyllideb Ddrafft Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg ar gyfer 2023-24, Rhagolygon 2022-23 ac Alldro Terfynol 2021-22.....................................................................................................302

Papur 09b – Atodiad B - Dyraniadau Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg – Hydref 2021.......................................................................................................................303

Papur 10 - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – 18 Ionawr 2023 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ...............................................................................................................................304

Papur 10a – Atodiad A - Sylwadau ar bob un o Gamau Gweithredu y cyllidebau Plant yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o’r newidiadau rhwng Cyllideb Derfynol 2022-23 a Chyllideb Ddrafft 2023-24....................................................................................................329

Papur 11 - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – 19 Ionawr 2022 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd .........................................................331

Papur 11a – Atodiad A - Dadansoddiad Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ........................................................................................ 349

Papur 12 - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – 25 Ionawr 2023 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ........................................ 352

Papur 12a – Llinellau Gwariant y Gyllideb – Prif Grwp Gwariant Newid Hinsawdd .... 373

Papur 13 - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol – papur yn unig ................................................ 374

Papur 14 - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Prif Weindog – papur un unig .............. 383

Papur 1 - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – 11 Ionawr 2023 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Diben** | ~~t.6~~ |
| **Cyflwyniad** | ~~t.6~~ |
| **Sylwadau ar gamau gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb** | ~~t.9~~ |
| **1.** Dadansoddiad o ddyraniadau'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023-24 yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb. Gweler Atodiad A. | ~~t.9~~ |
| **2.** Dyraniadau dangosol MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25 a 2025-26. Gweler Atodiad A. | ~~t.9~~ |
| **3.** Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau. Dylai'r waelodlin at y diben hwn fod yn gyson â'r waelodlin sydd wedi'i nodi yn y tablau gwariant a naratif y gyllideb. Gweler Atodiad B. | ~~t.9~~ |
| **Gwybodaeth arall** | ~~t.9~~ |
| **Rhoi pobl wrth galon iechyd a gofal cymdeithasol** | ~~t.9~~ |
| **4.** Rhowch fanylion ynghylch sut bydd y dyraniadau'r gyllideb drafft ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys buddsoddi yn yr ystad gofal sylfaenol a rhwydweithiau gofal sylfaenol, yn cyfrannu at nod polisi Llywodraeth Cymru o symud gofal o ysbytai i leoliadau cymunedol neu ofal sylfaenol. Sut byddwch yn asesu a yw'r dyraniadau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. | ~~t.10~~ |
| **5.** Rhowch fanylion y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan, a sut byddwch yn asesu a yw'r dyraniadau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. A fydd y dyraniadau'n galluogi dull gweithredu 'system gyfan' ar gyfer gwella iechyd a llesiant pobl, yn ogystal â thargedu adnoddau (a chyflawni canlyniadau mesuradwy) mewn meysydd sy'n peri pryder allweddol. | ~~t.16~~ |
| **6.** Amlinellwch sut mae eich blaenoriaethau ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddrafft ar draws portffolios a Phrif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru, a sut bydd effaith y dyraniadau'n cael ei hasesu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Rhowch fanylion y canlynol hefyd: | ~~t.20~~ |
| • Unrhyw ostyngiadau neu gynnydd sy'n ymwneud â dyraniadau iechyd meddwl penodol mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol (ee, grantiau'n cael eu lleihau neu eu cynyddu, neu'n cael eu cyflwyno neu eu dileu).<br>• Dyraniadau yn y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl; llesiant ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc; dementia; awtistiaeth a niwroamrywiaeth; a gweithredu 'Pwysau Iach, Cymru Iach'. | |

| | |
|---|---|
| **7.** Sut bydd dyraniadau'r gyllideb drafft yn lliniaru effaith costau byw cynyddol ar iechyd y cyhoedd, gan gynnwys yr effaith ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl yng Nghymru, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. | ~~t.24~~ |
| **Arloesi er mwyn gwella** | ~~t.27~~ |
| **8.** Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn helpu i ddatblygu 'dull gweithredu ar sail system gyfan', gan integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well, fel y disgrifir yn Cymru Iachach. Yn benodol, eglurwch sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn cydbwyso'r angen i ddiwallu'r pwysau presennol ar wasanaethau â'r angen i drawsnewid gwasanaethau a datblygu modelau gofal newydd. | ~~t.27~~ |
| **9.** Sut bydd y broses o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau'n cael cefnogaeth yn y tymor hwy er mwyn gwneud cynnydd parhaus ar yr agenda trawsnewid, i sicrhau pwyslais ar gyflwyno a phrif ffrydio'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau peilot llwyddiannus, ac i osgoi dibynnu ar gyllid ychwanegol parhaus. Sut bydd y Gronfa Arloesi Rhanbarthol yn cael ei defnyddio a pha ganlyniadau mesuradwy y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl? | ~~t.28~~ |
| **10.** Rhowch asesiad o refeniw a chostau cyfalaf y broses o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer technoleg ddigidol a data, fel y mae'n cael ei disgrifio yn Cymru Iachach, gan gynnwys mwy o gefnogaeth ar gyfer gofal digidol a gofal ar-lein. Dylai hyn hefyd gynnwys manylion y gwariant ar elfennau digidol sydd wedi cael ei ariannu drwy'r Gronfa Arloesi Ranbarthol (RIF), a manylion cyfran y gwariant drwy'r RIF sydd wedi cael ei wario ar ddata ac elfennau digidol. | ~~t.29~~ |
| **Y gweithlu Iechyd a gofal cymdeithasol** | ~~t.32~~ |
| **11.** Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at ddarparu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, ac yn lleihau a rheoli'r gwariant ar staff asiantaeth. | ~~t.32~~ |
| **12.** Pa ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud yn y gyllideb ddrafft i feithrin a chynnal morâl ac iechyd a llesiant corfforol a meddyliol y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl, a sut byddwch yn asesu effaith y mesurau hyn. | ~~t.34~~ |
| **Annhegwch ac anghydraddoldebau iechyd** | ~~t.36~~ |
| **13.** Amlinellwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn sicrhau bod y bobl fwyaf difreintiedig yn cael blaenoriaeth, a bod mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn targedu anghydraddoldebau y mae'r pandemig wedi'u gwaethygu, neu'r rheini sy'n deillio o effaith anghymesur y pandemig ar iechyd neu lesiant grwpiau penodol (fel oedolion hŷn, pobl o gymunedau du ac ethnig lleiafrifol, neu bobl ar incwm isel neu sydd fel arall yn ansicr yn ariannol). | ~~t.36~~ |

| | |
|---|---|
| **Sicrhau adferiad ar ôl y pandemig** | ~~t.37~~ |
| **14.** Eglurwch sut mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhowch enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o ganlyniad i COVID-19. Wrth ateb y cwestiwn hwn, rhowch sylw i'r canlynol:<br>• Y tybiaethau sy'n sail i ddyraniadau a wnaed o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys sut byddwch chi'n sicrhau bod digon o arian wrth gefn ar gael petai'r senario yn cael ei uwchraddio o un Covid Sefydlog i un Covid Brys.<br>• Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i helpu i gynyddu capasiti gwasanaethau neu i gynyddu adnoddau staff wrth i'r ymateb i'r pandemig barhau, gan gynnwys gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai, gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, a'r rhaglen frechu.<br>• Y dyraniadau ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. | ~~t.37~~ |
| • Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i gynnal cyflenwad digonol a phriodol o gyfarpar diogelu personol. | |
| **15.** Pa ddyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad o amseroedd aros. Yn eich ateb, esboniwch pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o effaith a chanlyniadau'r adnoddau a ddyrannwyd yn ystod 2022-23, a sut bydd dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn cael eu targedu. | ~~t.40~~ |
| **Gofal cymdeithasol** | ~~t.43~~ |
| **16.** Amlinellwch y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys:<br>• Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2023-24, a sut bydd y cyllid hwnnw'n cael ei dargedu.<br>• Sut bydd y dyraniadau yn sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref.<br>• Pa gymorth y bydd y gyllideb ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth o wariant penodol ar ofal seibiant a chymorth ariannol i ofalwyr.<br>• Mesurau yn y gyllideb ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol.<br>• Sut bydd y gyllideb ddrafft yn helpu'r sector gofal cymdeithasol i ymateb i gostau byw cynyddol, gan gynnwys costau ynni cynyddol. Yn eich ateb, rhowch dystiolaeth o wariant penodol i gefnogi gweithwyr gofal cartref, a gofalwyr di-dâl a phobl anabl, a'u teuluoedd. | ~~t.43~~ |
| **Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol** | ~~t.47~~ |

| | |
|---|---|
| **17.** Rhowch yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd. Dylai gynnwys:<br>• Y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer byrddau iechyd, gan gynnwys nodi'r rhai sydd wedi parhau i fethu â chyflawni eu dyletswyddau ariannol<br>• Y rheini sydd wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn, a graddau'r cymorth hwnnw a'i hyd arfaethedig. | ~~t.48~~ |
| • Manylion ynghylch sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda byrddau iechyd i adfer cydbwysedd ariannol GIG Cymru.<br>• Gwybodaeth am ba ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud mewn ymateb i gostau ynni cynyddol. | |
| **Effaith y gyllideb ddrafft ar grwpiau a chymunedau penodol** | ~~t.50~~ |
| **18.** Sut rydych chi wedi ystyried cyllidebu ar sail rhywedd yn y gyllideb hon wrth baratoi eich cynlluniau gwariant. | ~~t.50~~ |
| **19.** Amlinellwch pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar grwpiau neu gymunedau penodol, gan gynnwys menywod a merched, cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc, a phobl hŷn. | ~~t.50~~ |

## Diben

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog

Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi cytuno i fynd i gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 11 Ionawr 2022, i roi tystiolaeth ar eu cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft.

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, fel yr amlinellir mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor dyddiedig 8 Tachwedd 2022.

### Trosolwg o'r Gyllideb

| | **2023-24** |
|---|---|
| **Refeniw** | **£m** |
| Gwaelodlin Refeniw yn unol â Chyllideb Derfynol 2022-23 | 9,793.30 |
| Addasiadau i'r Waelodlin | (4.3) |
| Ailflaenoriaethu'r Gyllideb | (23.7) |
| Dyraniad MEG | 457.80 |
| Trosglwyddo'r gyllideb gyfredol i mewn (Grant CCG) | 160.20 |
| **DEL Diwygiedig yn unol â Chyllideb Ddrafft 2023-24** | **10,383.30** |
| | |
| **Cyfalaf** | |
| Gwaelodlin Cyfalaf yn unol â Chyllideb Ddrafft 2022-23 | 339.3 |
| Dyraniad Ychwanegol | 35.7 |
| **DEL Diwygiedig yn unol â Chyllideb Ddrafft 2023-24** | **375** |
| **Cyfanswm Cyffredinol Cyllideb Ddrafft yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **10,758.30** |

*Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol, sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.*

### Sut cafodd cynigion y Gyllideb eu llunio

Mae'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y refeniw craidd a'r cyllid cyfalaf ar gyfer GIG Cymru, ynghyd â chyllid i ategu iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chynorthwyo plant. Mae'n cefnogi ein hamcanion llesiant i ddarparu gofal iechyd cynaliadwy, effeithiol o ansawdd uchel, ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed. Mae hefyd yn cefnogi'r broses o roi Cymru Iachach ar waith, sef ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2023-24 a 2024-25. Mae setliadau'r MEG wedi cael eu hasesu drwy'r broses pennu cyllideb gyda chytundeb y Cabinet i ddiogelu gwasanaethau craidd rheng flaen, cyn belled ag y bo modd.

Roedd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yn darparu ar gyfer cynnydd o £824 miliwn

yng nghyllid rheolaidd y GIG, er bod y gyllideb hon wedi'i phennu ar adeg pan oedd disgwyl i'r cyfraddau chwyddiant fod oddeutu pedwar y cant, a chyn i'r rhyfel yn Wcráin achosi cynnydd sylweddol mewn prisiau ynni.

Gyda'r cyllid hwn, llwyddom i ddarparu cynnydd craidd o £180 miliwn i sefydliadau'r GIG ar ddechrau blwyddyn ariannol 22-23, er mwyn bodloni'r twf yn y galw a chostau craidd, ac ynghyd â'r £170 miliwn a ddyrannwyd gennym i gefnogi'r gwaith o adfer gofal wedi'i gynllunio; bydd hyn yn rheolaidd ar gyfer 23-24.

Bydd yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu o'r waelodlin refeniw wedi'i haddasu o £9.789 biliwn i £10.38.8 biliwn ar gyfer 2023-24 a £10.613 biliwn ar gyfer 2024-25.

Mae setliad yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu ar gyfer cynnydd net yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer 'Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG' yn 2023-24, sef £407.3 miliwn, gyda chynnydd pellach o £204 miliwn yn 2024-25.

Yn ogystal â'r cynnydd yng nghyllid y GIG a ddyrannwyd ar gyfer 2023-24, mae setliad yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cynnwys dyraniadau penodol ar gyfer:

- Iechyd meddwl – £75 miliwn ar gyfer 2023-24, gan godi i £90 miliwn erbyn 2024-25
- Gofal cymdeithasol – £55 miliwn, gan gynyddu i £60 miliwn erbyn 2024-25 a;
- Gofal plant a blynyddoedd cynnar – £28 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2022-23, gan gynyddu i £30 miliwn yn 2023-24.

Mae cyllid refeniw rheolaidd o £170 miliwn ar gyfer adferiad y GIG yn dal ar gael ar gyfer 2023-24 a bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu i'r GIG i gefnogi'r gwaith o roi cynlluniau ar waith i gryfhau gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio a helpu i leihau amseroedd aros mewn ysbytai.

Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn dull o adfer sy'n seiliedig ar werth yn y tymor canolig, gan ganolbwyntio ar wella'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion; mae £19 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn yn 2023-24. Bydd y dyraniad hwn hefyd yn helpu i adfer y GIG, gyda phwyslais ar ddarparu ymyriadau gwerthfawr sy'n sicrhau gwell canlyniadau i gleifion ac yn cefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau, ac yn lleihau'r amseroedd aros am driniaeth yn y tymor canolig. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i gleifion, a bydd yn ategu'r gwaith o weithredu cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddelio â'r cleifion sy'n aros am driniaeth.

Mae'r buddsoddiadau hyn, gyda'i gilydd, yn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad i fuddsoddi £1biliwn ar gyfer adferiad y GIG yn ystod cyfnod y Senedd hon.

Rydym wedi neilltuo cyllid yn y gyllideb hon ar gyfer ymyriadau Covid parhaus – yn benodol, profi, olrhain cysylltiadau, brechu torfol, a darparu cyfarpar diogelu personol i'r GIG ac i'r maes gofal cymdeithasol. Mae'r cyllid hwn wedi cael ei leihau, yn unol â'r cynlluniau, yn 2022-23 a bydd yn cael ei adolygu wrth i ni weithio drwy heriau

parhaus Covid.

Bydd £17.8 miliwn yn fwy o gyllid i gefnogi'r cynllun comisiynu Addysg a Hyfforddiant, gan fuddsoddi yng ngweithlu'r dyfodol yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru. Dyma fydd ein buddsoddiad mwyaf erioed mewn hyfforddiant i'r gweithlu ar gyfer y GIG. Byddwn ni hefyd yn parhau i ddarparu £7 miliwn tuag at gyflawni ein hymrwymiad i sefydlu ysgol feddygol newydd yng Ngogledd Cymru.

Rydym hefyd yn buddsoddi dros £657m o gyfalaf cyffredinol ar gyfer Seilwaith Digidol, Cyfarpar y GIG, a Seilwaith y GIG yn ystod 2023-24 a 2024-25. Gyda buddsoddiadau cyfalaf ychwanegol o £105 miliwn ar gyfer Gofal Cymdeithasol ar draws 2023-24 a 2024-25.

Rydym hefyd yn dyrannu £10 miliwn ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ehangu Dechrau'n Deg i helpu i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed (Cam Un), gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hon hefyd yn elfen allweddol o'r cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru.

**<u>Sylwadau ar gamau gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb</u>**

**1. Dadansoddiad o ddyraniadau'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023-24 yn ôl Maes Rhaglen Wariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.**

Cyfeiriwch at Atodiad A.

**2. Dyraniadau dangosol MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25 a 2025-26.**

Mae dyraniadau'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2024-25 wedi'u cynnwys yn nhablau'r BEL yn Atodiad A. Nid oes gennym gyllidebau dangosol ar gyfer 2025-26.

**3. Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau. Dylai'r waelodlin at y diben hwn fod yn gyson â'r waelodlin sydd wedi'i nodi yn y tablau gwariant a naratif y gyllideb.**

Cyfeiriwch at Atodiad B.

**<u>Gwybodaeth arall</u>**

Yn ogystal â'r pedair thema arferol, sef gwerth am arian, blaenoriaethu, gwariant ataliol a fforddiadwyedd, ac arwydd o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'i phum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y canlynol (lle nad yw wedi'i chynnwys eisoes yn y sylwebaeth ar bob Cam Gweithredu).

**Rhoi pobl wrth galon iechyd a gofal cymdeithasol**

**4. Rhowch fanylion ynghylch sut bydd y dyraniadau'r gyllideb drafft ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol, gan gynnwys buddsoddi yn yr ystad gofal sylfaenol a rhwydweithiau gofal sylfaenol, yn cyfrannu at nod polisi Llywodraeth Cymru o symud gofal o ysbytai i leoliadau cymunedol neu ofal sylfaenol. Sut byddwch yn asesu a yw'r dyraniadau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriedir.**

Sefydlwyd clystyrau fel mecanweithiau i gyfeirio gwaith cynllunio oddi wrth flaenoriaethau gwasanaethau unigol a thuag at anghenion unigolion a chymunedau gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael ym mhob ardal glwstwr i gael yr effaith fwyaf bosibl.

Mae clwstwr yn dod â'r holl wasanaethau lleol sy'n ymwneud ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol at ei gilydd, gan wasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu'n well i hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau.

Mae clystyrau wrth galon y Model Gofal Sylfaenol i Gymru, sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth Cymru Iachach o wasanaeth iechyd a gofal integredig sy'n canolbwyntio ar hybu iechyd a llesiant ac sydd wedi'i ddylunio i ddarparu mynediad at y gofal iawn ar yr adeg iawn gan y gweithiwr proffesiynol neu'r gwasanaeth priodol, yn y cartref neu'n agos iddo. Mae Cymru Iachach yn cydnabod na ddylai pobl fynd i ysbyty cyffredinol dosbarth oni bai mai dyma'r unig fan lle y gellir darparu'r driniaeth sydd ei angen ar yr unigolyn hwnnw.

Yn ystod 2023-24, rydym yn cyflymu gwaith clystyrau ac yn gwahaniaethu rhwng eu swyddogaethau cynllunio a chyflawni. Erbyn mis Mawrth 2024, bydd Cydweithrediadau Proffesiynol yn cael eu sefydlu ar gyfer meddygon teulu, fferyllwyr, optometryddion, deintyddion, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a nyrsys. Cynrychiolir y Cydweithrediadau hyn yn y clwstwr i sicrhau y darperir y gwasanaeth amlbroffesiwn gorau posibl. Er mwyn cryfhau'r swyddogaeth cynllunio clwstwr, mae byrddau iechyd a'u partneriaid yn yr awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau cynllunio ar draws clystyrau (PCPG) sydd, wrth iddynt wreiddio, yn gallu cyd-fynd yn well â gwaith cynllunio strategol ar lefel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPB). Wrth i waith cynllunio RPB a PCPG gryfhau, dylai hyn ailgydbwyso'r system iechyd a gofal gan symud y gweithlu a buddsoddiad oddi wrth ysbytai a salwch er mwyn canolbwyntio ar iechyd a llesiant yn ein cymunedau.

Mae amrywiaeth o gamau gweithredu cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ailgydbwyso'r system iechyd a gofal i greu gwasanaeth llesiant sydd ar gael yn lleol, yn cael eu harwain drwy'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal, y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng. O 2023-24 ymlaen, bydd y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio yn dechrau gyrru'r gwaith o weithredu llwybrau gofal cenedlaethol sydd wedi'u llunio i symud o fodel gofal meddygol, episodig i fodel person cyfan a chymdeithasol gydol oes gyda mwy o bwyslais ar hunanofal, atal, a gwasanaethau lleol.

Er mwyn helpu i ddod â gwasanaethau lleol at ei gilydd i gydweithio drwy glystyrau a

darparu gwell mynediad at y gweithwyr proffesiynol cywir, rydym yn cymryd y camau canlynol:

**Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol**

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £17 miliwn mewn Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) drwy'r cytundeb contract GMS ar gyfer 2022-23. Cyhoeddwyd y cytundeb hwn ar 28 Hydref 2022 o ganlyniad i drafodaethau teiran rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a GPC Cymru ac mae'n golygu newidiadau i gontractau a fydd yn gwella gwasanaethau i gleifion ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar feddygon teulu, gan eu galluogi i ganolbwyntio ar ddarparu gofal o ansawdd uchel.

Bydd hyn yn cyflwyno'r newid mwyaf i'r contract GMS ers 2004. Yn amodol ar ymgynghoriad yn ystod gwanwyn 2023, bydd Contract Unedig symlach newydd yn dod i rym o 1 Hydref 2023 ymlaen. Nod y Contract Unedig yw symleiddio'r gwasanaethau y mae'n rhaid i bob practis meddygon teulu yng Nghymru eu darparu. Disgwyliwn i hyn ddileu biwrocratiaeth ddiangen i feddygon teulu a'u timau, yn ogystal â'i gwneud yn gliriach i ddinasyddion pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael gan feddygon teulu yn unrhyw le yng Nghymru.

Rydym yn parhau i gymryd camau i wella mynediad at GMS. Yn 2019, fe wnaeth ein Safonau Mynediad ein rhoi ar y trywydd i wella a sicrhau cysondeb ledled Cymru. Mae'r llwyddiant wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall dros y tair blynedd diwethaf, gydag 89 y cant o bractisau bellach yn cyflawni'r holl safonau. Rydym wedi parhau i adeiladu ar y dull gweithredu hwn: ym mis Ebrill 2022 fe wnaethom gyflwyno newidiadau i'r contract meddygon teulu i wella mynediad at apwyntiadau ac i ddatrys y problemau sy'n ymwneud â'r cyfnodau prysur iawn am 8am. Bydd y cytundeb cyswllt ar gyfer 2022-23 yn cadarnhau ein disgwyliadau o ran mynediad ymhellach, wrth i arferion symud o ddangos eu bod wedi cyflawni'r Safonau Mynediad, i gael eu gorfodi o dan gontract i'w cynnal o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein gweithlu gofal sylfaenol i gryfhau a gwella capasiti o fewn y gwasanaeth. Yn 2021 fe wnaethom ddarparu £2 miliwn o gyllid ychwanegol i gefnogi capasiti ychwanegol mewn gwasanaethau meddygol cyffredinol dros gyfnod heriol y gaeaf. Cafodd hyn ei gynyddu i £4 miliwn o 1 Ebrill 2022 ymlaen ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf. Er mwyn diwallu anghenion iechyd cymhleth pobl yng Nghymru, mae angen amrywiaeth eang o rolau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws gofal sylfaenol. Mae hyn yn galluogi pobl i weld y person addas ar gyfer eu hanghenion, ac mae'n bwysig nodi nad meddyg teulu yw hwn bob amser.

**Fferyllfa Gymunedol**

Mae buddsoddiad parhaus yn cael ei wneud drwy'r Fframwaith Cytundebol

Fferylliaeth Gymunedol i ddarparu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Clinigol a'r Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferylliaeth Gymunedol ledled Cymru, gan gefnogi pobl i gael mynediad at gyngor a thriniaeth am ddim yn y gymuned, yn aml heb fod angen aros am apwyntiad.

**Canolfannau Iechyd a Gofal Integredig**

Bydd ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu hybiau a chanolfannau iechyd a gofal cymunedol yn rhoi cyfle i gefnogi darpariaeth gwasanaethau di-dor drwy greu

pwyntiau mynediad unigol lleol a chydleoli staff a gwasanaethau sy'n darparu llwybrau gofal integredig.

Bydd y prosiectau'n cyd-fynd yn llwyr ag egwyddorion y Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru a Cymru Iachach: Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2019), wrth ddarparu dull system gyfan sy'n dangos integreiddiad gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae hyn wedi hwyluso prosesau cydweithio ac ymgynghori er mwyn dod i gonsensws ynghylch y math o ddarpariaeth gofal sylfaenol sydd, ym marn cleifion a staff, yn rhoi'r gefnogaeth orau i bobl, yn rhoi mynediad hawdd at wasanaethau lleol ar gyfer gofal ac yn sicrhau bod atebion technolegol yn gwella mynediad at hunanofal.

Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar swyddogaethau hyblyg a chynllun addasadwy sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau sy'n newid. Mae adborth o weithgareddau ymgysylltu wedi tynnu sylw at yr egwyddorion allweddol canlynol sy'n elfennau pwysig o ddatblygiad yr ystad gofal sylfaenol yng Nghymru yn y dyfodol:

- Pwysigrwydd sefydlu cyfleusterau newydd fel ffocws i'r gymuned ehangach.
- Yr angen i symud oddi wrth fodelau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol pur un partner, gan ffafrio gwasanaethau amlddisgyblaethol mwy cynaliadwy a chydweithredol sydd wedi'u cyd-leoli.
- Yr angen i wneud y defnydd gorau posibl o'r ystad gyhoeddus ehangach (ee llyfrgelloedd a neuaddau cymunedol).
- Cydnabod y gallai gwahanu llwybrau gofal sylfaenol a chymunedol brys / heb eu trefnu fod angen cyfleusterau gwahanol.
- Dim dull sy'n defnyddio cynllun 'un ateb i bawb' – rhaid i'r strategaeth fod yn hyblyg ac yn gallu ymateb i anghenion lleol.
- Mae'n hanfodol bwysig sicrhau tegwch i bob claf o ran mynediad, y gwasanaeth a gynigir a'r amgylchedd.

## Gofal a Chymorth Adsefydlu

Mae pobl hŷn sydd hefyd yn eiddil yn fwy tebygol o gael eu derbyn yn annisgwyl ac maent yn fwy agored i heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, deliriwm ac anawsterau o ran cynnal maeth, hydradiad a gofal croen da. O ganlyniad, mae pobl hŷn eiddil fel arfer yn aros yn hirach, mae eu cyfraddau marwolaeth ac aildderbyn yn uwch, ac maent yn fwy tebygol o gael eu rhyddhau i ofal preswyl (meddyliwch am eiddilwch, NHS Improvement Scotland)).

Bydd llwybrau eiddilwch, sy'n seiliedig ar asesiad uniongyrchol o eiddilwch a mynediad at dimau amlbroffesiwn (sy'n cynnwys geriatregwyr, nyrsys pobl hŷn, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion o leiaf) yn arwain at wella'n gyflym.

Dim ond os lleolir therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion ychwanegol i hwyluso'r broses o adsefydlu a rhyddhau cleifion ac os defnyddir yr egwyddor o beidio ag atgyfeirio cleifion i gartref gofal o wely acíwt (D2RA) y bydd wardiau ar gyfer pobl hŷn yn cael eu hailddynodi fel gwelyau gofal mwy dwys neu ofal llai dwys (yn yr un modd ag y gwnawn gyda'r gwaith capasiti cymunedol o ddarparu gofal llai dwys er mwyn gwella).

Er mwyn lleihau nifer y bobl sy’n cael eu derbyn i’r ysbyty’n gyfan gwbl, mae ysbyty yn y cartref (ee wardiau rhithwir neu a arweinir gan feddygon teulu); troi o amgylch yn y drws ffrynt (Cadw’n Iach Gartref) a Thimau Adnoddau Cymunedol sy’n darparu gofal ‘mwy dwys’ yn ogystal â gofal ‘llai dwys’ yn adnoddau hollbwysig.

Y broblem ar hyn o bryd yw bod gormod o fyrddau iechyd yn cadw eu hadnoddau therapi galwedigaethol a ffisiotherapi ar wardiau meddygol, llawfeddygol neu orthopedig heb lwybr eiddilwch ac nad ydynt yn manteisio i’r eithaf ar wasanaethau adsefydlu ac osgoi derbyn. Mae hyn yn atal gweithredu effeithiol i leihau hyd yr arhosiad a’r llif.

Mae’r Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd: Edrych Ymlaen Gyda’n Gilydd yn nodi’r weledigaeth ar gyfer trawsnewid gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd, gan gynnwys mwy o fynediad, cyfran fwy o’r gweithlu mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, a’r cynnydd mewn adsefydlu cymunedol.

Mae’r Arweinydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd (AHP) Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn aelod o dîm y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol ac mae’n arwain gwaith i ddatblygu cydweithio proffesiynol ymysg y Proffesiynau Perthynol i Iechyd fel rhan o’r seilwaith Cymunedol a’r Rhaglen Datblygu Clystyrau Carlam. Mae’n gweithio gyda grŵp arweinyddiaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd cenedlaethol ym maes Gofal Sylfaenol i gytuno ar y ffordd orau o gefnogi Grwpiau Cynllunio ar draws Clystyrau er mwyn comisiynu gwasanaethau amlbroffesiwn ar gyfer poblogaethau penodol.

Mae angen ‘sbardun’ i symud adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd i mewn i’r gwasanaethau hyn. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn golygu datganiad neu ofyniad i wneud hyn naill ai fel rhan o’r Rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol neu’r rhaglen Chwe Nod, a ddylai fod wedi'u hategu gan gyllid os oes modd. Yn 2021/22, nodwyd £5 miliwn i gynyddu mynediad at weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd mewn gwasanaethau sylfaenol a chymunedol. Dylai hyn fod yn rheolaidd o fis Ebrill 2022 ymlaen er mwyn sicrhau bod Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn cael eu trawsnewid o ddarpariaeth yn yr ysbyty i wasanaethau sylfaenol a chymunedol y gellir cael mynediad uniongyrchol iddynt, sy’n ‘tynnu’ pobl allan o’r ysbyty yn ôl adref ar sail llwybrau D2RA, yn ogystal ag atal derbyniadau drwy ddarparu dewisiadau yn y gymuned yn hytrach na derbyn pobl i’r ysbyty. Bydd gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd integredig yn y gymuned yn cyflawni nodau cyffredin pob un o’r rhaglenni Cenedlaethol. Heb fuddsoddiad, bydd yn anodd dechrau’r newid sy’n ofynnol o ran gwaith y Proffesiynau Perthynol i Iechyd a thrwy hynny gefnogi’r gweithlu i gyflawni Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wella mynediad at weithwyr iechyd proffesiynol.

**Deintyddiaeth**

Mae cyllid o £167.7 miliwn yn cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol y GIG bob blwyddyn. Ategir hyn gan y Refeniw Codi Tâl ar Gleifion sy’n rhoi cyllideb â chyfanswm o ychydig dan £202 miliwn. Mae’r gyllideb ddeintyddol wedi cael ei chynyddu yn unol ag argymhelliad y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion ar gyfer 2022-23, heb gynnig unrhyw ostyngiad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio ar raglen ddiwygio ym maes deintyddiaeth sy’n ceisio symud o system sy’n seiliedig ar gyflawni Unedau o Weithgarwch Deintyddol i system sy’n gallu mynd i’r afael ag anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar risgiau

ac anghenion cleifion ond sy'n seiliedig ar atal. Bydd y dull hwn yn gwella mynediad ac ansawdd gwasanaethau.

Ers mis Ebrill 2022 mae practisau deintyddol wedi cael cyfle i optio i mewn i amrywiad contract sy'n disodli'r hen fesur Unedau Gweithgarwch Deintyddol â metrigau maint. Gyda 90 y cant o'r cyllid deintyddol dan gontract bellach yn gweithio dan drefniadau diwygiedig, mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gwreiddio'r dull gweithredu hwn.

Mae baich cysylltiedig â chlefydau'r geg yn dal yn uchel ymysg y boblogaeth, er eu bod at ei gilydd yn anhrosglwyddadwy ac yn gallu cael eu hatal. Prif glefydau'r geg yw pydredd dannedd (caries) a chlefyd y deintgig (periodontitis). Gellir atal clefydau iechyd y geg drwy gyfuniad o addasu deiet (lleihau lefel y siwgr, alcohol a thybaco a ddefnyddir), brwsio dannedd yn rheolaidd gyda phast dannedd sy'n cynnwys fflworid, a chanllawiau gan weithwyr proffesiynol deintyddol, gan gynnwys defnyddio farnais fflworid yn ychwanegol.

O ran atal yn benodol, mae pump y cant o werth y contract ar gyfer pob practis sy'n rhan o'r broses diwygio contractau yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni metrig maint sy'n gysylltiedig â darparu farnais fflworid i gleifion y byddai o fudd iddynt.

O ran mesur canlyniadau, mae diwygio deintyddol yn cyflwyno'r defnydd o'r offeryn Asesu Risg ac Anghenion Clinigol y Geg (ACORN) sy'n categoreiddio cleifion fel rhai Coch, Oren a Gwyrdd ar gyfer hanes periodontol, cymdeithasol a phydredd yn y dannedd. Bydd y data a gynhyrchir drwy ddefnyddio'r adnodd hwn yn rhoi gwell darlun o iechyd y geg ymysg y boblogaeth ac yn ein galluogi i olrhain gwelliannau ar lefel leol a chenedlaethol.

**Y Cynllun Gwên**

Mae'r Cynllun Gwên (D2S) yn gynllun cenedlaethol, sy'n dilyn egwyddorion iechyd y cyhoedd o gyffredinoliaeth gymesur[i]. Mae'n seiliedig ar ddarparu dulliau a argymhellir yng nghanllawiau NICE[ii]. Mae cyllid ar gyfer D2S wedi'i gynnwys yn nyraniadau cyffredinol y byrddau iechyd, gyda chyfanswm o ychydig o dan £4 miliwn y flwyddyn. Nid yw hyn wedi newid ers 2023-24.

Mae D2S yn cynnwys rhaglen ataliol gyffredinol ar gyfer plant o'u genedigaeth, wedi'i hintegreiddio yn Rhaglen Plant Iach Cymru a rhaglen ataliol wedi'i thargedu ar gyfer plant ysgolion meithrin a chynradd, sy'n cynnwys darparu rhaglenni brwsio dannedd a farnais fflworid ar gyfer plant i helpu i amddiffyn dannedd rhag pydredd.

Y nodau yw dechrau arferion da yn gynnar drwy roi cyngor i deuluoedd sydd â phlant ifanc ac annog mynd i bractis deintyddol yn rheolaidd. Mae'r elfen hon o D2S yn cyd-fynd â rhaglen Plant Iach Cymru a'i dull o ddarparu cymorth cyffredinol a gwell. Darperir pecynnau brwsio dannedd gartref a chwpanau bwydo i blant sydd angen lefel uwch o gymorth. Anogir pob ysgol gynradd yng Nghymru i gymryd rhan yn Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru, ac o fewn hynny, ymgorffori arferion da ar gyfer ymddygiad iach fel rhan o ddull gweithredu 'ysgol gyfan'. Mae hyn yn cynnwys bwyta'n iach ar gyfer iechyd y geg a hylendid y geg, a pholisïau ar ddarpariaeth bwyd a diod yn y lleoliad. Mae D2S yn gweithio'n agos gyda Chydgysylltwyr Ysgolion Iach a'r rhaglen Sgiliau Maeth am Oes. Mae adnoddau addysgu D2S ar gael i bawb ar Hwb (https://hwb.gov.wales/) er mwyn helpu gweithwyr addysg proffesiynol sy'n darparu addysg ar iechyd y geg ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd y

geg.

Mae D2S yn darparu rhaglen ataliol wedi'i thargedu ar gyfer plant ysgolion meithrin a chynradd sy'n cynnwys darparu rhaglenni brwsio dannedd mewn ysgolion a rhaglenni farnais fflworid ar gyfer plant er mwyn helpu i amddiffyn dannedd rhag pydredd. Darperir pecynnau brwsio dannedd yn y cartref hefyd i annog arferion da yn y cartref. Mae'r agweddau hyn ar D2S wedi'u targedu at ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru, gydag oddeutu 70 y cant o feithrinfeydd ac ysgolion yn cael eu gwahodd i gymryd rhan. Mae plant hyd at oedran Blwyddyn Dau (plant rhwng chwech a saith oed) wedi'u cynnwys. Hefyd, gwahoddir pob meithrinfa sydd â statws Dechrau'n Deg, a phob ysgol sydd â darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, i gymryd rhan.

Yn bennaf, mae 2022-23 wedi bod yn flwyddyn o adfer ar ôl y pandemig, ond rydym yn hyderus y bydd y rhaglen hon yn cael ei hailsefydlu'n llwyr yn 2023-24.

**5. Rhowch fanylion y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan, a sut byddwch yn asesu a yw'r dyraniadau'n cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. A fydd y dyraniadau'n galluogi dull gweithredu 'system gyfan' ar gyfer gwella iechyd a llesiant pobl, yn ogystal â thargedu adnoddau (a chyflawni canlyniadau mesuradwy) mewn meysydd sy'n peri pryder allweddol.**

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gymryd camau sylweddol i newid yr agwedd o drin i atal ac ymyrryd yn fuan. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn y weledigaeth rydym wedi'i sefydlu yn Cymru Iachach, lle rydym yn canolbwyntio'n gadarn ar atal ac ymyrryd yn fuan er mwyn helpu i alluogi ac annog iechyd a llesiant da gydol oes.

Mae'r camau gweithredu presennol i fynd i'r afael ag atal ac ymyrryd yn fuan wedi'u gwreiddio ar draws ystod eang o weithgareddau. Mae gan Fyrddau Iechyd yng Nghymru gyfrifoldeb craidd dros iechyd a llesiant eu poblogaethau, a bydd llawer o'u gwaith atal yn cael ei ariannu drwy eu dyraniadau craidd. Mae hyn yn cynnwys gwaith maent yn ei wneud mewn partneriaeth drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Un o ddibenion craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru yw lleihau anghydraddoldebau, cynyddu disgwyliad oes iach a gwella iechyd a llesiant pawb yng Nghymru, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae eu cyllid craidd drwy'r gyllideb hon ar gyfer 2023/24 yn £134 miliwn.

Oherwydd y gwaith cynllunio strategol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a thrwy ein dull gweithredu iechyd ym mhob polisi sy'n cael ei gefnogi gan broses yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA), yn aml iawn nid yw'r gyllideb sy'n cael ei dyrannu'n benodol i fynd i'r afael ag atal yn gallu cael ei gwahanu oddi wrth gyfanswm gwariant y llywodraeth. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau penodol yn bodoli, gan gynnwys cyllid Atal a Blynyddoedd Cynnar gwerth £7.2 miliwn y flwyddyn, a ddyrennir i Fyrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithredu fel cyllid sbarduno i gefnogi gweithgarwch atal. Ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25, mae gweinidogion wedi gorchymyn bod y rhai sy'n derbyn y cyllid yn defnyddio'r rhan fwyaf ohono i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag ysmygu yn ystod beichiogrwydd, i sefydlu gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu yn yr Ysbyty, ac i ddarparu cymorth ar gyfer atal sy'n cyd-fynd â'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Mae ein strwythurau llywodraethu, ein gwaith trawslywodraethol a'n cydweithrediad â Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ein galluogi i fabwysiadu dull system gyfan, ac ymgorffori prosesau

gwerthuso mewn prosiectau.

Mae datblygu dull systemau cyfan ar gyfer atal a lleihau nifer y bobl sydd dros bwysau ac yn ordew yn rhan annatod o'r cynllun cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach ar gyfer 2022-24. Mae swyddogion yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau iechyd y cyhoedd lleol i adeiladu ar rôl saith cydlynydd rhanbarthol a'r ystod eang o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n rhan annatod o'r system i newid ein harferion bwyta a gweithgarwch, ac i ystyried sut mae pob rhan o'r system yn chwarae ei rhan wrth fynd i'r afael â'r newid hwn. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ddyraniad o £1.2 miliwn drwy gyllideb y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.

Ochr yn ochr â hyn, mae cyllid wedi'i dargedu at raglenni atal ac ymyrryd yn fuan penodol, gan gynnwys £600,000 i gefnogi cynllun peilot Plant a Theuluoedd, sy'n cael ei dreialu ym Merthyr Tudful, Caerdydd ac Ynys Môn; ac £1 miliwn i ddatblygu Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, sy'n cael ei chyflwyno ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd. Mae prosesau gwerthuso wedi'u cynnwys yn y rhaglenni hyn, gyda byrddau rhaglenni penodol wedi'u datblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni a monitro llwyddiant. Ar gyfer pob rhaglen o fewn Pwysau Iach: Cymru Iach, mae'r gwaith o gyflwyno'r llwybr rheoli pwysau diwygiedig ar gyfer Cymru gyfan wedi dechrau ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd. Mae lefel un y llwybr yn canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan ac mae byrddau iechyd wedi cael cymorth i ddatblygu eu cynlluniau cyflawni i gefnogi poblogaethau lleol. Mae cynnig digidol lefel un cenedlaethol ar gyfer rheoli wedi cael ei ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith hwn ymhellach, ac mae swyddogion yn monitro llwyddiant drwy drafodaethau a monitro rheolaidd yn yr is-grŵp Gwerthuso, Ymchwil a Chanlyniadau wrth i eitemau penodol ar yr agenda godi.

Rydym hefyd yn canolbwyntio'n sylweddol ar wella'r gwaith o reoli cyflyrau cronig er mwyn lleihau cynnydd clefydau a'r risg o ddatblygu cymhlethdodau eilaidd. Mae ein dull gweithredu wedi'i nodi mewn cyfres o ddatganiadau ansawdd ar gyfer gwasanaethau clinigol mawr, fel clefyd y galon, strôc, clefyd anadlol, clefyd yr arennau a chyflyrau niwrolegol. Mae'r datganiadau hyn yn nodi sut beth ddylai gwasanaethau clinigol da fod er mwyn helpu'r GIG yng Nghymru i gynllunio gwasanaethau. Maent hefyd yn cynnwys llwybrau clinigol a chanllawiau rheoli clinigol y cytunwyd arnynt yn genedlaethol i helpu gwasanaethau'r GIG i ganolbwyntio ar reoli cyflyrau cronig yn rhagorol. Mae gennym dimau arweinyddiaeth glinigol ar waith ym meysydd y cyflyrau hyn, sy'n gweithio gyda gwasanaethau i gasglu data a gwella'r ddarpariaeth graidd. Er enghraifft, mae ansawdd y gwaith arferol o reoli clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) ac asthma yn cael ei fonitro drwy'r Rhaglen Genedlaethol Archwilio Asthma a COPD. Mae'r arweinydd clinigol cenedlaethol ar gyfer meddygaeth anadlol yn gweithio gyda byrddau iechyd yng Nghymru i ymateb i'r canfyddiadau hyn a datblygu offer cefnogol a all helpu i annog ymyriadau gofal iechyd mwy cyson ac o ansawdd uchel. Caiff hyn ei gefnogi gan grwpiau cleifion, adsefydlu ysgyfeiniol a darparu apiau hunanreoli a all helpu pobl i ddod yn arbenigwyr ar reoli eu cyflwr.

Rydym hefyd yn datblygu Datganiad Ansawdd ar gyfer Diabetes a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar gwblhau prosesau gofal allweddol, mynediad at addysg strwythuredig, cyflawni targedau triniaethau a chyflwyno gwasanaeth gwellhad ar gyfer pobl â diabetes math 2. Bydd hyn yn adeiladu ar y Prosiect Gwella Diabetes ar gyfer 150 o gleifion ledled Cymru i hwyluso'r broses o golli pwysau ac arwain at wellhad a/neu atchweliad diabetes. Bydd yn galluogi deietegwyr ar draws pob un o'r saith bwrdd iechyd i ddarparu cymorth dwys i 150 o gleifion dros gyfnod o 12 mis a

100 y cant o gyllid ar gyfer y cynnyrch cyfnewid prydau. Mae treialon clinigol wedi dangos bod rheoli pwysau yn ymyriad effeithiol i'r rheini sydd â symptomau cyn-diabetes er mwyn atal hynny rhag datblygu i fod yn ddiabetes, ac i wella diabetes math 2. Mae'r ymyriad yn cynnwys rhoi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau gwrth-ddiabetig a gwrth-orbwysedd, fformiwla i ddisodli deiet yn gyfan gwbl, sef 825-853 o galorïau bob dydd am dri i bum mis, wedi'i ddilyn gan broses o ailgyflwyno bwyd fesul cam dros ddwy i wyth wythnos, a chymorth strwythuredig ar gyfer cynnal arferion colli pwysau yn y tymor hir. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael cymorth diabetig dwys dros gyfnod o 12 mis, sy'n cynnwys therapi ymddygiad gwybyddol.

**Pwysigrwydd Brechu – fel mesur iechyd ataliol**

Mae brechu'n rhan hanfodol o ddarpariaeth GIG Cymru i amddiffyn ein dinasyddion a'n cymunedau ac mae ganddo rôl bwysig o ran atal clefydau difrifol ac ymateb iddynt. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod brechu'n atal hyd at dair miliwn o farwolaethau ledled y byd bob blwyddyn. Mae brechiadau'n cael effaith ataliol gadarnhaol ar glefydau difrifol – gan leihau nifer y bobl sydd angen gofal iechyd ac arbed pobl rhag niwed sy'n gallu cael effeithiau gydol oes – a marwolaethau ymysg ein poblogaeth.

Mae sicrhau ein bod i gyd yn cael ein himiwneiddio rhag clefydau yn bwysig er mwyn rheoli ein hiechyd personol ac i atal epidemigau a lefelau difrifol o salwch a allai lethu'r GIG. Mae elfen gref o werth am arian yn perthyn i frechu hefyd, fel mecanwaith atal iechyd. Mae tystiolaeth yn awgrymu, er enghraifft, fod enillion ariannol ar fuddsoddiad rhaglen MMR y DU yn tua 14:1.

Drwy'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, rydym yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig ac yn rhoi sail i benderfyniadau ynghylch cyflwyno pob rhaglen frechu. Drwy wneud brechu'n fwy hygyrch a derbyniol, ein nod yw sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn cael eu brechu a sicrhau cydraddoldeb. Elfen greiddiol o'r nod hwn yw gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf i wella iechyd a llesiant ac amddiffyn rhag niwed y gellir ei atal ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

Rydym nawr yn rhoi'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol ar waith a bydd gan Weithrediaeth y GIG ran allweddol i'w chwarae yn hyn o beth yn y dyfodol. Mae angen dull system gyfan i feithrin diwylliant o wella. Yn unol ag egwyddorion gofal iechyd darbodus, mae'n hanfodol hyrwyddo ymdrechion systematig i leihau amrywiadau amhriodol, drwy ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gyson ac yn dryloyw.

Mae effeithlonrwydd gwasanaethau hefyd yn elfen bwysig o'r Fframwaith newydd a'n hagwedd at frechu. Rydym wedi gweld hyn yn sgil rhoi pigiad atgyfnerthu COVID-19 yr hydref a'r brechiad rhag y ffliw gyda'i gilydd y gaeaf hwn. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd fel hyn ar draws ein rhaglenni brechu.

Bydd atebolrwydd byrddau iechyd yn aros yr un fath, gyda byrddau'n asesu angen lleol, comisiynu, rheoli perfformiad a gwerthuso'r ddarpariaeth yn unol â'r cyfeiriad strategol cenedlaethol. Ein bwriad yw cefnogi'r broses honno, galluogi gwelliannau a chynyddu nifer y bobl sy'n cael eu brechu ar draws yr holl raglenni imiwneiddio.

6. **Amlinellwch sut mae eich blaenoriaethau ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb ddrafft ar draws portffolios a Phrif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru, a sut bydd effaith y dyraniadau'n cael ei hasesu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir. Rhowch fanylion y canlynol hefyd:**

   - **Unrhyw ostyngiadau neu gynnydd sy'n ymwneud â dyraniadau iechyd meddwl penodol mewn cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol (ee, grantiau'n cael eu lleihau neu eu cynyddu, neu'n cael eu cyflwyno neu eu dileu).**
   - **Dyraniadau yn y gyllideb ddrafft sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl; llesiant ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc; dementia; awtistiaeth a niwroamrywiaeth; a gweithredu 'Pwysau Iach, Cymru Iach'.**

### Iechyd Meddwl

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu llesiant ac iechyd meddwl, a ddangosir gan y ffaith ein bod, er gwaethaf pwysau parhaus ar y gyllideb, wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu agweddau'r gyllideb ar lesiant ac iechyd meddwl.

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i weithredu cynllun y gweithlu iechyd meddwl, sy'n cynnwys y GIG, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae datblygu'r cynllun hirdymor hwn ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl yn gam allweddol yn ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl tuag at gefnogi gwelliannau i wasanaethau a sicrhau gweithlu iechyd meddwl sefydlog a chynaliadwy.

Yn Fframwaith Cynllunio'r GIG 2023-2026, mae iechyd meddwl a CAMHS wedi cael eu diffinio fel un o'r blaenoriaethau gweinidogol a bydd hyn yn ein galluogi ni i asesu effaith dyraniadau.

Roedd gwaith modelu a wnaed i lywio'r gwaith paratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, yn awgrymu cynnydd posibl o rhwng 20 a 40 y cant mewn gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol a rhwng 20 a 25 y cant mewn gwasanaethau eilaidd (ar sail data cyhoeddedig a meincnodi'r GIG). Roedd y dystiolaeth hon yn caniatáu i ni sicrhau adnoddau ychwanegol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant gyda £50 miliwn yn 2022-23, £75 miliwn yn 2023-24 a chynnydd i £90 miliwn yn 2024-25.

Yn 2022-23 mae'r £50 miliwn wedi cynnwys tua £25 miliwn i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yn uniongyrchol, gyda gweddill y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi meysydd allweddol sy'n effeithio ar iechyd meddwl, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, cyflogadwyedd ac atal. Mae hyn wedi'n galluogi ni i sicrhau ein bod yn cefnogi'r gwaith o adfer gwasanaethau yn ogystal â chadw hyblygrwydd i gefnogi'r datblygiadau gwasanaeth a nodwyd yng Nghynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.

### Llesiant Meddyliol

Mae gwella llesiant meddyliol Cymru wrth galon popeth a wnawn, diolch i'n Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol arloesol ac mae hyn wedi'i gynnwys yn ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, Cymunedau Cysylltiedig, a'n strategaeth iechyd meddwl, Cyflawni Law yn Llaw at

Iechyd Meddwl.

Nod ein carreg filltir genedlaethol newydd yw gwella llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu'r bwlch mewn llesiant meddyliol cymedrig rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru. I gyflawni hyn, byddwn yn nodi ac yn deall ymyriadau sy'n helpu pobl i deimlo'n gydnerth ac yn rhan o gymuned, ac yn edrych ar dystiolaeth i gefnogi'r ymyriadau hyn ac ymyriadau eraill. Byddwn yn cydnabod yr hyn sy'n digwydd eisoes ledled Cymru ac yn pennu lle mae bylchau, a byddwn yn dod â hyn i gyd ynghyd â chamau gweithredu pendant yn adran llesiant meddyliol y strategaeth iechyd meddwl newydd ar gyfer Cymru.

**Camddefnyddio Sylweddau**

Mae camddefnyddio sylweddau yn fater iechyd o bwys sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, a'r stigma sy'n gysylltiedig â hynny, yn dal yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, rydym yn buddsoddi bron i £64 miliwn yn ein hagenda camddefnyddio sylweddau, ac mae dros £36 miliwn yn mynd i'n Byrddau Cynllunio Ardal drwy ein Cronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau. Cynyddodd y dyraniadau hyn £11 miliwn, o £25 miliwn i £36 miliwn, yn 2022-23 fel rhan o'r Gyllideb.

Mae hyn yn cynnwys:

- £3 miliwn i gefnogi Therapi Disodli Opioidau amgen parhaus (Buvidal) ar gyfer cyn-ddefnyddwyr heroin sydd mewn perygl.
- £4 miliwn i helpu i fynd i'r afael ag amseroedd aros, gweithredu argymhellion yn y Fframwaith Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol a chefnogi gwelliannau i wasanaethau gan gynnwys datblygu gwasanaethau sy'n wybodus am drawma.
- Cynnydd o £1 miliwn yn y dyraniad adsefydlu preswyl sydd wedi'i glustnodi i gefnogi'r cynnydd yn y galw am y gwasanaethau hyn ers dechrau'r pandemig.
- Cynnydd o £1 miliwn yn y dyraniad sydd wedi'i glustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc, i £3.75 miliwn. Ar ben hynny, rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r swm hwn i £5.25 miliwn a £6.25 miliwn yn 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno.
- £2 miliwn i gefnogi gwasanaethau i bobl ag anghenion tai ac anghenion cymhleth, gan gynnwys achosion o gamddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd. Rydym yn gwybod bod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar y rheini sydd â'r anghenion a'r gwendidau mwyaf cymhleth. Bydd y cyllid hwn hefyd yn cynyddu dros y ddwy flynedd nesaf i gyfanswm o £4.5 miliwn yn 2024-25.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried olynydd i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau presennol 2019-22, a fydd yn cael ei ddatblygu yn y flwyddyn i ddod. Mae'r ymgysylltu cynnar ar hyn eisoes wedi dechrau gyda rhanddeiliaid allweddol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygu Fframwaith Canlyniadau Camddefnyddio Sylweddau i sicrhau ein bod yn mesur yr effaith ar y canlyniadau a fwriedir.

**Gwasanaethau niwrolegol**

Rydym yn parhau i flaenoriaethu gwelliannau mewn gwasanaethau niwroddatblygiadol. Ar 6 Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi £12 miliwn ychwanegol dros dair blynedd hyd at fis Mawrth 2025; mae £4.5 miliwn ar gael yn 2023-24 i gyflawni rhaglen wella gan ddefnyddio dull systemau cyfan sy'n canolbwyntio ar

ymyrraeth gynnar, cymorth i deuluoedd, a gwasanaethau asesu a chefnogi cynaliadwy. Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig llwyddiannus a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau gwella.

**Pwysau Iach: Cymru Iach**

Mae cyflawniad Pwysau Iach: Cymru Iach yn cael ei gefnogi yn 2022-24 gan ddyraniad o £6.6 miliwn y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu cefnogi i gyflawni a chynnal pwysau iach drwy amrywiaeth o raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi cael eu datblygu gyda gwerthusiadau'n rhan ohonynt i fonitro llwyddiant.

**Arolwg Iechyd a Llesiant i Fyfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**

Mae Arolwg Iechyd a Llesiant i Fyfyrwyr SHRN, sy'n digwydd bob dwy flynedd, yn darparu data o ansawdd uchel ar iechyd a llesiant pobl ifanc 11-16 oed yng Nghymru. Cymerodd dros 120,000 o fyfyrwyr ran yn yr arolwg yn 2021/22. Mae astudiaeth ddichonoldeb hefyd yn cael ei chynnal ar hyn o bryd ynghylch ymestyn SHRN a'r arolwg cysylltiedig i'r sector ysgolion cynradd.

**Cyllideb**

Yn gynharach eleni, cytunodd y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a ddarparu'r canlynol ar y cyd:

- £433,019 ym mlwyddyn ariannol 2022-23 a £257,210 ym mlwyddyn ariannol 2023-24 ar gyfer gwaith ar Arolwg Iechyd a Llesiant i Fyfyrwyr SHRN mewn ysgolion uwchradd.
- £438,982 ym mlwyddyn ariannol 2022-23 a £455,370 ym mlwyddyn ariannol 2023-24 ar gyfer cwblhau astudiaeth ddichonoldeb ar ymestyn SHRN a'r Arolwg cysylltiedig ar Iechyd a Llesiant Myfyrwyr i ysgolion cynradd.
- Mae'r gyllideb wedi'i rhannu rhwng BEL 0231 Gwella Iechyd a Gweithio Iach a'r rhaglen Dull Ysgol Gyfan yn BEL 0270 Iechyd Meddwl.

**Gwerth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**

Mae'r data o ansawdd uchel a gesglir yn cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd:

- i fonitro amrywiaeth o ddangosyddion iechyd a llesiant (ee llesiant meddyliol, ffyrdd iach o fyw) a ddefnyddir nid yn unig gan Lywodraeth Cymru ond gan ysgolion, awdurdodau lleol ac amrywiaeth o bartneriaid fel Estyn, yn ogystal ag ar gyfer cymariaethau rhyngwladol.
- i ysgolion gynllunio a monitro eu polisïau a'u gweithgareddau iechyd a llesiant eu hunain; mae'n arbennig o bwysig o ystyried y newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru.
- i gyfrannu at werthuso blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, fel Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant Emosiynol a Meddyliol.

Mae seilwaith data yn hwyluso astudiaethau cysylltiadau data ac yn helpu i ddenu cyllid ymchwil i Gymru (ee roedd gan gais Wolfson thema wedi'i chynllunio o amgylch SHRN). Mae buddsoddiad wedi caniatáu i ni ehangu cyrhaeddiad yr astudiaeth, gyda maint y sampl mawr yn caniatáu dadansoddiad pellach o nodweddion gwarchodedig, rhywbeth nad yw'n bosibl gyda llawer o setiau data presennol o'r math hwn. Mae'r gallu i ymestyn y gwaith hwn i'r sector ysgolion

cynradd yn helpu i fynd i'r afael â bwlch tystiolaeth hirsefydlog. Ystyrir bod gweithio ar draws meysydd polisi mewn ffordd gydgysylltiedig yn arbennig o bwysig, o ystyried y rôl bwysig y mae ysgol yn ei chwarae yn iechyd a llesiant pobl ifanc.

**Presgripsiynu Cymdeithasol**

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflwyno fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol sy'n cyflawni gweledigaeth o bresgripsiynu cymdeithasol yng Nghymru sydd o safon uchel, gyson ar draws y wlad. Mae chwarter miliwn o bunnoedd wedi'i ymrwymo ar gyfer 2023-24 a 2024-25 er mwyn helpu i gyflawni rhaglen waith sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

**7. Sut bydd dyraniadau'r gyllideb drafft yn lliniaru effaith costau byw cynyddol ar iechyd y cyhoedd, gan gynnwys yr effaith ar iechyd a llesiant corfforol a meddyliol pobl yng Nghymru, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith yr argyfwng costau byw ar iechyd a llesiant y boblogaeth, ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw hwn drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r rheini sydd ei angen fwyaf a thrwy raglenni a chynlluniau sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl. Yn y flwyddyn ariannol hon, mae hyn yn werth tua £1.6bn ar draws holl gyllideb Llywodraeth Cymru.

Bydd dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn parhau i gynnig cymorth i'r rhai mwyaf anghenus, drwy amrywiaeth o raglenni a chynlluniau gros y llywodraeth. Er enghraifft, byddwn yn parhau i gynnig talebau Cychwyn Iach i ddarparu cymorth ychwanegol i brynu ffrwythau a llysiau iach yn ystod beichiogrwydd ac i rieni plant ifanc. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ein dull system gyfan o wella llesiant meddyliol mewn ysgolion a darparu mynediad rhwydd at gymorth iechyd meddwl, er enghraifft ein llinell gymorth CALL a therapi ar-lein.

Mae'r Cabinet wedi cytuno yn y gyllideb ddrafft i'r cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol aros ar y lefelau presennol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf (£38.5 miliwn), gan ddarparu £18.8 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar gyfer y gyllideb sylfaenol. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol yn edrych ar opsiynau polisi o ran yr hyblygrwydd presennol a gweithrediad y contract newydd sy'n dechrau ym mis Ebrill 2023, a bydd yn gwneud cyhoeddiad pan fydd y cynlluniau'n cael eu cwblhau. Mae partneriaid yn dweud bod y gronfa hon yn hanfodol, yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw. Ers mis Ebrill 2022 mae wedi darparu bron i £20 miliwn o gymorth i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol, gan gynnwys cymorth ar gyfer taliadau tanwydd oddi ar y grid.

Bydd ymdrechion ar y cyd i roi arian yn ôl ym mhocedi pobl yn parhau, drwy raglenni fel y cynnig gofal plant am ddim, prydau ysgol am ddim i bawb yn ogystal â chynnal y cymorth presennol, fel presgripsiynau am ddim.

Rydym yn cydnabod yr effaith y mae bod yn ddi-waith yn gallu ei chael ar lesiant y gweithlu, a bydd ein cyllideb ddrafft yn ein galluogi i ddarparu Cymorth yn y Gwaith parhaus tan fis Mawrth 2025, sy'n adeiladu ar y Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith presennol a ariennir gan Ewrop er mwyn ehangu'r cymorth a ddaw o'i ddarpariaeth bresennol yng Ngogledd a De-orllewin Cymru i Gymru gyfan o fis Ebrill 2023 ymlaen.

Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl sy'n absennol o'r gwaith, neu sydd mewn perygl o fod yn absennol oherwydd eu salwch corfforol neu feddyliol, i gael cymorth iechyd galwedigaethol am ddim i aros mewn gwaith.

Rydym hefyd yn darparu cymorth cyflogadwyedd parhaus i bobl sy'n gwella o salwch meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau ac sy'n ddi-waith. Mae'r cymorth mentora cyfoedion hwn yn cael ei ddarparu tan fis Mawrth 2025 a bydd yn helpu'r bobl sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf ac sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i gael gwaith cynaliadwy, yn codi incwm aelwydydd ac yn darparu llwybr allan o dlodi gan ddod â sicrwydd i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer parhad ein Cronfa Gymorth i Ofalwyr lwyddiannus. Sefydlwyd y gronfa yn 2020, a'i nod yw lliniaru effaith ariannol y costau byw cynyddol ar ofalwyr di-dâl drwy grantiau uniongyrchol a datblygu gwasanaethau cymorth lleol. Mae'r gronfa wedi llwyddo i leihau caledi ariannol ar unwaith, gan gysylltu mwy o ofalwyr di-dâl â chefnogaeth barhaus. Ers ei lansio, mae wedi bod o fudd i dros 10,000 o ofalwyr di-dâl. Yn 2021-22, nid oedd gwasanaethau'n hysbys i 33 y cant o'r buddiolwyr o'r blaen. Mewn rhai ardaloedd roedd y ffigur hwn mor uchel â 70 y cant. Felly, drwy'r cynllun hwn, mae mwy o ofalwyr di-dâl yn cael cymorth ataliol i wella eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

**Cyflog Byw Gwirioneddol**

Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn ymrwymiad allweddol yn ein rhaglen lywodraethu i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Bydd sicrhau gwell cyflog drwy godi'r Cyflog Byw Gwirioneddol sydd yn ein cyllideb ddrafft yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector, yn cefnogi'r argyfwng costau byw ac yn gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Mae'r Cyflog Byw

Gwirioneddol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau a bywoliaeth pobl, a dyma'r gwahaniaeth sy'n sicrhau bod gwaith yn talu a bod modd talu costau byw.

Bydd lefel brys yr argyfwng recriwtio a chadw yn y sector gofal cymdeithasol hefyd yn cael effaith fawr ar flaenoriaethau allweddol eraill ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi gweledigaeth Cymru Iachach, sef y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau iachach a hapusach, a gallu aros yn egnïol ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag y bo modd. Bydd codi'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynghylch colli gweithwyr o'r sector a bydd yn cefnogi'r agenda ehangach o ran y baich cynyddol ar ofalwyr di-dâl, mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty, llai o dderbyniadau i'r ysbyty, gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gallu cael gofal gartref a'r pwysau cynyddol ar gartrefi gofal.

**<u>Arloesi er mwyn gwella</u>**

**8. Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn helpu i ddatblygu 'dull gweithredu ar sail system gyfan', gan integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well, fel y disgrifir yn Cymru Iachach. Yn benodol, eglurwch sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn cydbwyso'r angen i ddiwallu'r pwysau presennol ar wasanaethau â'r angen i drawsnewid gwasanaethau a datblygu modelau gofal newydd.**

Mae llawer o arian wedi cael ei ddarparu drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i helpu partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gydweithio'n agosach a datblygu chwe model cenedlaethol o ofal integredig a fydd yn cynnig gwasanaethau ataliol a di-dor i bobl yn y gymuned.

Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol pum mlynedd, sy'n darparu £144.6 miliwn y flwyddyn o gyllid refeniw i gefnogi trawsnewid a'r Gronfa Integreiddio ac Ail-gydbwyso newydd gwerth £50 miliwn, sy'n cefnogi uchelgais y Llywodraeth yn uniongyrchol i sefydlu 50 o hybiau iechyd a gofal integredig ledled Cymru.

Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn sefydlu chwe model cenedlaethol o ofal integredig, pob un wedi'i gynllunio i fabwysiadu dull integredig, system gyfan sydd â ffocws allweddol ar atal. Fodd bynnag, mae tri o'r modelau'n gweithio'n benodol ac yn uniongyrchol i greu capasiti cymunedol sy'n hanfodol er mwyn mynd i'r afael â phwysau ein system. Sef:

- **Cydlynu cymunedau ataliol:** Cefnogi gweithgareddau fel presgripsiynu cymdeithasol a helpu pobl i gysylltu â'r gwasanaeth cymorth sy'n lleol iddyn nhw.
- **Gofal cymhleth yn nes at adref:** Helpu pobl i gadw'n iach gartref ac i atal yr angen i fynd i'r ysbyty
- **Gartref o'r ysbyty:** Helpu pobl i symud o'r ysbyty yn nes at adref, i'w cymuned, yn ddiogel ac yn gyflym gyda'r nod o atal y dadgyflyru niweidiol sy'n digwydd yn sgil chyfnodau estynedig diangen yn yr ysbyty

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cefnogi'r prosiectau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at feithrin capasiti cymunedol er mwyn bod yn barod i gefnogi pwysau'r gaeaf, gan ddarparu >360 o welyau gofal llai dwys ychwanegol hyd yma.

Mae'r tri model gofal sy'n weddill, a fydd hefyd yn chwarae rhan yn y gwaith o leihau'r pwysau ar wasanaethau statudol, yn canolbwyntio ar:

- Hybu iechyd a lles emosiynol da.
- Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd a rhoi cymorth therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal.
- Atebion sy'n seiliedig ar lety.

**9. Sut bydd y broses o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau'n cael cefnogaeth yn y tymor hwy er mwyn gwneud cynnydd parhaus ar yr agenda trawsnewid, i sicrhau pwyslais ar gyflwyno a phrif ffrydio'r gwersi a ddysgwyd o gynlluniau peilot llwyddiannus, ac i osgoi dibynnu ar gyllid ychwanegol parhaus. Sut bydd y Gronfa Arloesi Rhanbarthol yn cael ei defnyddio a pha ganlyniadau mesuradwy y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl?**

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adeiladu ar y dysgu a'r cynnydd a wnaed o dan y Gronfa Gofal Integredig flaenorol a'r Gronfa Trawsnewid a bydd yn ceisio creu newid cynaliadwy i'r system drwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Prif nod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yw sefydlu a phrif ffrydio chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig. Yn dilyn y buddsoddiad a wnaed a'r profion a gynhaliwyd gan y

Gronfa Gofal Integredig a’r Gronfa Trawsnewid, mae’r chwe model gofal hyn wedi’u datblygu i wahanol raddau, gyda rhai o weithgareddau’r prosiect bellach yn barod i’w prif ffrydio ac eraill yn dal i fod ar gamau cynnar eu datblygiad.

Mae fframwaith canlyniadau wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae hwn yn cyflwyno dau ganlyniad lefel uchel bwriadedig, penodol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chyfres o ddangosyddion a mesurau ar gyfer pob Model Gofal. Mae’r fframwaith canlyniadau yn rhoi enghreifftiau o’r hyn a ddisgwylir o’r modelau cenedlaethol o ofal integredig. Mae Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn cael ei ddefnyddio i fesur cynnydd, ac i ddeall ac adrodd ar rôl y modelau cenedlaethol o ofal integredig o ran cefnogi pobl (hynny yw, a ydynt wedi gweithio, beth sydd wedi cael ei newid, a beth sydd wedi cael ei ddysgu). Mae’r fethodoleg adrodd hon hefyd yn cyfleu profiadau pobl o’r modelau cenedlaethol o ofal integredig, i ddangos beth oedd yn gweithio, ar gyfer pwy, ac ym mha gyd-destunau/amgylchiadau. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o effaith a manteision canlyniad o ran gwella anghenion llesiant pobl.

Disgwylir y bydd cysondeb yn y defnydd o ddulliau (mesurau) dilys ar gyfer y modelau cenedlaethol a ariennir ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth integredig. Bydd hyn yn cynnwys offer sy’n dangos/mesur y pellter a deithir gan unigolion o ganlyniad i’r gefnogaeth a gawsant. Mae rhanbarthau wedi cael eu hannog i ddefnyddio dulliau safonol fel *Y Newid Mwyaf Arwyddocaol*, Sêr Canlyniadau, a mesurau fel Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick Caeredin (WEMWBS) a’r EQ-5D. Y nod o ddarparu’r fframwaith canlyniadau a phroses fonitro ac adrodd gadarn i sicrhau cysondeb a chymharedd, a oedd yn her i werthuswyr y Gronfa Gofal Integredig a’r Gronfa Trawsnewid.

Yn ogystal, mae’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn gronfa bum mlynedd sydd â chynaliadwyedd hirdymor wrth ei wraidd drwy arian cyfatebol. Ar hyn o bryd, disgwylir arian cyfatebol gan bartneriaid o’r flwyddyn gyntaf ymlaen; disgwylir 10 y cant ar gyfer cyflymu newid a 30 y cant ar gyfer gwreiddio modelau.

Ochr yn ochr â chyllid tymor hir, mae’r cymorth hwn sy’n lleihau’n raddol yn un o nodweddion allweddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Ei bwrpas yw sicrhau bod modelau gofal cenedlaethol yn cael eu gwreiddio a’u prif ffrydio yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau craidd drwy ddenu cefnogaeth o gyllidebau craidd sefydliadau statudol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y sefyllfa ariannol wedi newid ers lansio’r RIF ac efallai y bydd angen i ni adolygu ein huchelgeisiau ar gyfer hyn yn y dyfodol tymor byr i ganolig.

**10. Rhowch asesiad o refeniw a chostau cyfalaf y broses o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer technoleg ddigidol a data, fel y mae'n cael ei disgrifio yn Cymru Iachach, gan gynnwys mwy o gefnogaeth ar gyfer gofal digidol a gofal ar-lein. Dylai hyn hefyd gynnwys manylion y gwariant ar elfennau digidol sydd wedi cael ei ariannu drwy’r Gronfa Arloesi Ranbarthol*, a manylion cyfran y gwariant drwy’r RIF sydd wedi cael ei wario ar ddata ac elfennau digidol.** *(*Sylwch mai’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yw RIF).*

Cyllideb y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF) ar gyfer 2023-24 yw £45 miliwn o Refeniw a £20 miliwn o Gyfalaf. Bydd hyn yn cyflawni Trawsnewid Digidol yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn unol â’r hyn a amlinellwyd yn

wreiddiol yn Cymru Iachach ac a ailddilysir yn y Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddiwygiedig.

Mae DPIF yn cael ei dargedu i gefnogi'r gwaith o drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n gwneud hynny drwy ddarparu cyllid strategol ar gyfer prosiectau a rhaglenni digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n creu manteision i ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol. Mae'r prosiectau a'r rhaglenni hyn yn cynnwys blaenoriaethau strategol fel:

- y Gwasanaethau Digidol ar gyfer y Cyhoedd a Chleifion (DSPP, datblygu Ap GIG Cymru),
- y Gronfa Ddata Genedlaethol (NDR, canoli cofnodion cleifion i wneud y data hwn yn hygyrch ar draws systemau ac ar draws ffiniau byrddau iechyd),
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS, rhannu cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol),
- y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol (DMTP, digideiddio'r daith presgripsiynau a meddyginiaethau ledled Cymru; cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel e-bresgripsiynu).

Yn 2023-24, mae gan DPIF eisoes ymrwymiadau o tua £31 miliwn o'r gyllideb refeniw £45 miliwn. Byddwn yn cymeradwyo rhagor o gynigion gan sefydliadau Gofal Cymdeithasol a'r GIG yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at ymrwymiad PfG i "Fuddsoddi a chyflwyno technoleg newydd sy'n helpu i ddarparu cyngor a thriniaethau cyflym ac effeithiol".

Fel rhan o'n proses weithio, gyda Chyfarwyddwyr Digidol yn y GIG, rydym yn herio cynigion i sicrhau bod pob un yn darparu gwerth i gleifion a gweithwyr proffesiynol yn gyflym ac yn gymesur â'r buddsoddiad maent yn ei geisio.

Rydym wedi clustnodi arian o fewn y DPIF ar gyfer y Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol, sy'n ymrwymiad PfG ("Cyflwyno e-bresgripsiynau a chefnogi datblygiadau sy'n galluogi i'r clefydau cywir gael eu canfod drwy ddeallusrwydd artiffisial"). Er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau ar y cyflymder a ddangosir hyd yma, mae £8.7 miliwn wedi'i ymrwymo'n rheolaidd yn 2023-24 ar gyfer Meddyginiaethau Digidol, gyda £4.3 miliwn arall wedi'i glustnodi ar gyfer cynigion a ddisgwylir yn ystod y misoedd nesaf. Rydym hefyd yn bwriadu clustnodi arian o fewn y DPIF ar gyfer cynigion deallusrwydd artiffisial er mwyn gallu ariannu'r rhain. Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y GIG ac ym maes Gofal Cymdeithasol i bennu'r math o gynigion y gallwn eu disgwyl a sut y byddent yn mynd i'r afael â'r rhan hon o'r ymrwymiad.

Mae cydnabyddiaeth glir bod gan dechnoleg rôl gynyddol i'w chwarae o ran helpu pobl i ofalu amdanynt eu hunain, i aros yn iach ac i fyw'n annibynnol. Daeth hyn yn fwyfwy amlwg yn ystod pandemig Covid 19 a oedd yn gorfodi unigolion, cymunedau a darparwyr gwasanaethau i feddwl yn wahanol am sut roeddent yn cefnogi llesiant unigol pobl. Ein nod yw y byddwn, erbyn diwedd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol pum mlynedd, wedi sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwe model cenedlaethol newydd o ofal integredig er mwyn i ddinasyddion Cymru, ble bynnag y maent yn byw, gael sicrwydd y byddant yn cael profiad effeithiol a di-dor o wasanaeth mewn perthynas â:

- Gofal yn y gymuned – atal a chydlynu cymunedol
- Gofal yn y gymuned – gofal cymhleth yn nes at adref
- Hybu iechyd a lles emosiynol da
- Cefnogi teuluoedd i aros gyda’i gilydd yn ddiogel, a darparu cymorth therapiwtig i blant sydd â phrofiad o ofal
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty
- Atebion sy’n seiliedig ar lety

Er mwyn cyflwyno’r modelau gofal cenedlaethol hyn yn effeithiol, gofynnwyd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried a gwneud defnydd da o sawl dull galluogi allweddol. Un o’r rhain oedd technoleg ac atebion digidol, ac mae’r enghreifftiau’n cynnwys:

- Apiau hunanofal
- Atebion adrodd digidol
- Technoleg yn y cartref a chartrefi clyfar
- Gwybodaeth, cyngor ac ymgynghoriadau rhithwir

O ystyried bod systemau digidol yn rhan annatod o gyflawni’r chwe model gofal hyn, nid oes gennym ddadansoddiad ariannol penodol o lefel y buddsoddiad mewn technoleg ac atebion digidol.

**<u>Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol</u>**

**11. Eglurwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at ddarparu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, ac yn lleihau a rheoli’r gwariant ar staff asiantaeth.**

Bydd materion sy’n ymwneud â’r gweithlu yn parhau i fod yn bryder sylweddol wrth symud ymlaen. Bydd parhau i recriwtio gweithwyr proffesiynol cofrestredig a gweithwyr gofal iechyd sydd wedi’u hyfforddi’n llawn yn heriol iawn yn dilyn sawl blwyddyn o ganolbwyntio ar Covid 19 ac mewn marchnad cyflogaeth gystadleuol, gyda phrinder sgiliau a heriau byd-eang i’r gweithlu yn y sectorau iechyd a chymdeithasol.

Rydym yn darparu ateb cynaliadwy i staffio GIG Cymru drwy fuddsoddi mewn hyfforddi pobl ar gyfer y dyfodol. Yn 2023-24, byddwn yn gwneud ein buddsoddiad ariannol mwyaf erioed mewn hyfforddiant i'r gweithlu, ond rhaid i ni hefyd ganolbwyntio ar ffyrdd o ddefnyddio ein gweithlu presennol a gweithlu’r dyfodol yn fwy effeithiol. Nid oes atebion sydyn, ond mae’n rhaid i ni edrych ar yr holl ddulliau arloesol o newid – nid yn unig ein ffyrdd o weithio ond hefyd ein ffyrdd o feddwl. Un maes penodol y canolbwyntir arno fydd defnyddio gweithwyr asiantaeth a chamau y gellir eu cymryd i leihau gwariant yn y maes hwn.

Rydym yn bryderus iawn ynghylch lefel y gwariant ar staff locwm ac asiantaethau, a

byddwn yn gweithio gyda'r sefydliadau perthnasol i ganolbwyntio ar reoli'r gwariant hwn wrth weithio'n agos gydag undebau llafur. Ein nod yw cyflawni gwaith yn gyflym er mwyn deall y sefyllfa bresennol yn glir, lleihau gwariant a dibyniaeth ar staff asiantaeth a locwm cyn gynted â phosibl, a sicrhau ein bod mewn sefyllfa well yn y dyfodol. Drwy fframwaith cenedlaethol byddwn yn ystyried terfynau a thargedau ar gyfer defnyddio a gwario ar staff locwm ac asiantaethau, wedi'u hategu gan systemau gweithredu safonol.

### Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae'r cynnydd mewn costau byw a'r gwahaniaeth mewn cyflogau yn y sector gofal cymdeithasol yn golygu bod cyflogau ac amodau'n cael eu derbyn fel ffactorau pwysig o ran recriwtio a chadw staff ym maes gofal cartref a chartrefi gofal. Mae'r pandemig wedi rhoi hyd yn oed mwy o bwysau ar y sector hwn sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd, ac mae wedi atgyfnerthu pwysigrwydd cael strategaeth ar gyfer y gweithlu sy'n croesi iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd darparu'r codiad Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael effaith fanteisiol ar ddarparu gofal digonol yn y tymor hwy a gallai leddfu'r pwysau ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.

### Grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

I gydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i'r sector ar ffurf grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r grant wedi'u pennu'n fras. Mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio'r cyllid i gefnogi codiadau cyflog, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn seyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl. Mae'r grant hwn wedi cael ei roi i awdurdodau lleol bob blwyddyn ers 2019 a bydd yn £45 miliwn ar gyfer 2023-24.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu cymwys, rydym yn darparu dros £1.4 miliwn yn 2023-24 i wella'r pecyn cymorth ariannol ar gyfer y radd Gwaith Cymdeithasol, gan barhau â'r cynnydd yn y Bwrsari ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n dechrau yn 2022 a chynnydd ar gyfer myfyrwyr presennol. Yn ogystal â hyn, mae cyllid [o £400,000] o fewn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yn cael ei ddarparu i barhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu er mwyn cynyddu prentisiaethau gofal cymdeithasol a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i faes gofal cymdeithasol.

O fewn cyllidebau craidd SSID, dyrannwyd cyllid i gefnogi gwaith y Fforwm Gwaith Teg ym maes Gofal Cymdeithasol er mwyn gwella telerau ac amodau ar gyfer staff gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddatblygu fframwaith cyflogau a chynnydd ar gyfer y sector; fframwaith ar gyfer cydfargeinio i'w brofi gyda'r sector; yn ogystal â datblygu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o hawliau'r gweithlu ymysg staff a sicrhau llais cryfach i weithwyr.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd wedi cael ei ariannu o 2022 i 2025 i gefnogi'r sector gydag arloesedd ac ar draws y maes gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cymorth hyfforddi i feithrin perthnasoedd, hyder a sgiliau ym maes arloesi a datblygu dull o ddatblygu sgiliau er mwyn helpu i wreiddio arloesedd mewn ymarfer. Bydd hyn yn nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl, y rhai sydd ganddynt, lle gallant

gael mynediad at ddatblygu sgiliau, ac unrhyw fylchau neu ddatblygiad pellach sydd ei angen.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) yn parhau i arwain Strategaeth Gweithlu ar y cyd AaGIC a GCC ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gyhoeddwyd yn 2020. Mae'n gynllun deng mlynedd ar gyfer y sector, gyda chamau gweithredu ar draws saith thema, sef: gweithlu brwdfrydig, iach a llawn cymhelliant; denu a recriwtio; modelau gweithlu di-dor; adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol; addysg a dysgu rhagorol; arweinyddiaeth ac olyniaeth, a chyflenwad a siâp y gweithlu. Mae rhaglen grantiau datblygu'r gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru yn gronfa fawr i helpu gweithlu'r sector gofal cymdeithasol i ddatblygu yng Nghymru. Mae'r grant yn helpu i ariannu amrywiaeth o raglenni gwaith, gan gynnwys dysgu, datblygu a chymwysterau. Hefyd, mae'r ymgyrch Gofalwn.Cymru yn hyrwyddo amrywiaeth o rolau sydd ar gael ym maes gofal cymdeithasol drwy ddeunyddiau ar y we a hysbysebion teledu. Mae'r deunyddiau hyn ar y we yn cael eu defnyddio ar draws y sector annibynnol a chyhoeddus i gefnogi'r gwaith o recriwtio i swyddi gofal, er enghraifft, drwy ffeiriau gyrfaoedd, gweithio gyda phartneriaid cyflogadwyedd fel Gyrfa Cymru, a gweithgareddau allgymorth eraill. Mae hyn i gyd wedi'i anelu at hyrwyddo'r proffesiwn a'i wneud yn gynaliadwy ar gyfer y tymor hir.

**12. Pa ddarpariaeth sydd wedi'i gwneud yn y gyllideb ddrafft i feithrin a chynnal morâl ac iechyd a llesiant corfforol a meddyliol y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl, a sut byddwch yn asesu effaith y mesurau hyn.**

Mae gofalwyr di-dâl yn dweud yn gyson bod peidio â chymryd seibiant oddi wrth ofalu yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant. Mewn ymateb, rydym yn buddsoddi £9 miliwn dros dair blynedd i sefydlu cynllun seibiant byr; mae £3.5 miliwn wedi'i ddyrannu i'r cynllun yn 2023-24. Yn dilyn proses gystadleuol, penodwyd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn gorff cydlynu cenedlaethol a bydd yn gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r trydydd sector i ddatblygu prosiectau lleol sy'n cynnig detholiad o seibiannau byr i ofalwyr di-dâl sydd wedi'u teilwra i ddiwallu eu hanghenion unigol. Bydd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru hefyd yn gwerthuso effaith y cynllun. Gallai seibiant byr olygu unrhyw beth o'r cyfle i ddysgu sgil newydd, mynd i'r gampfa, prynu dodrefn gardd neu fynd ar daith oddi cartref. Y prif nod yw rhoi cyfle i ofalwyr di-dâl ymlacio a chymryd camau i gynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Rydym hefyd yn parhau i ariannu Gofalwyr Cymru i gyflawni'r prosiect Llesiant a Grymuso Gofalwyr. Nod y prosiect, a ariennir drwy gynllun grant trydydd sector y Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, yw hysbysu, cefnogi a grymuso gofalwyr di-dâl i reoli eu rôl gofalu gan ofalu am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae Gofalwyr Cymru yn cefnogi gofalwyr di-dâl i ofalu am eu llesiant eu hunain, i wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac i wneud y gorau o'u bywydau.

Dyrennir miliwn o bunnoedd i fyrddau iechyd er mwyn cefnogi gofalwyr di-dâl pan fydd y bobl y maent yn gofalu amdanynt yn cael eu derbyn i'r ysbyty neu'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae tystiolaeth o fyrddau iechyd lleol a'u partneriaethau gofalwyr ynghylch sut defnyddiwyd y dyraniad yn 2021-22 yn dangos enghreifftiau o weithgarwch sydd eisoes ar waith i wella'r cyfathrebu â gofalwyr di-dâl mewn ysbytai, ac ymgysylltu â nhw yn y broses ryddhau.

O ran cymorth iechyd meddwl a llesiant i staff iechyd a gofal cymdeithasol, byddwn yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth Canopi sydd wedi cael ei gontractio gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2025 am £1.5 miliwn y flwyddyn.

Mae Canopi yn cynnig mynediad at gymorth iechyd meddwl a llesiant cyfrinachol, heb fod yn argyfwng, yn rhad ac am ddim i'r holl staff Gofal Cymdeithasol a'r GIG sy'n gweithio yng Nghymru.

Nod Canopi yw:

• darparu cymorth seicolegol ac iechyd meddwl cynaliadwy ac aml-haen o ansawdd uchel i'r gweithlu gofal cymdeithasol a'r GIG yng Nghymru.
• meithrin a chynyddu cydweithrediad gyda sefydliadau ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol.
• cyfrannu at hyrwyddo iechyd meddwl yn gadarnhaol.
• gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau cymorth iechyd meddwl a llesiant presennol a'u hategu.
• galluogi datgeliad i'r rheini sy'n teimlo nad ydynt yn gallu cael gafael ar wasanaethau sy'n seiliedig ar gyflogwyr.

Cafodd Canopi ei lansio'n ffurfiol ar 26 Mai 2022 (y gwasanaeth blaenorol oedd Iechyd ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Cymru). Ers ei lansio, mae Canopi wedi gweld tuedd barhaus tuag at dwf ac ymwybyddiaeth gynyddol yn y sector ymhlith staff iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae wedi cefnogi 1,500 o gleientiaid o'r ddau sector. Bydd Canopi yn parhau i gydgynhyrchu'r gwasanaeth gyda phobl sydd â phrofiad uniongyrchol, adlewyrchu egwyddorion gofal darbodus a mabwysiadu dull parhaus o wella gwasanaethau. Bydd anghenion y gweithlu sy'n datblygu yn cael eu hadolygu, eu hasesu a'u diwallu'n rheolaidd drwy gydweithio strategol, dadansoddi data ac adborth.

**Annhegwch ac anghydraddoldebau iechyd**

**13. Amlinellwch sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd, dylai hyn nodi sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn sicrhau bod y bobl fwyaf difreintiedig yn cael blaenoriaeth, a bod mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut bydd y Gyllideb Ddrafft yn targedu anghydraddoldebau y mae'r pandemig wedi'u gwaethygu, neu'r rheini sy'n deillio o effaith anghymesur y pandemig ar iechyd neu lesiant grwpiau penodol (fel oedolion hŷn, pobl o gymunedau du ac ethnig lleiafrifol, neu bobl ar incwm isel neu sydd fel arall yn ansicr yn ariannol).**

Ein nod yw gwella iechyd meddwl a llesiant gan leihau anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar gryfhau ffactorau amddiffynnol. Mae ffocws penodol ar y dull hwn fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl presennol ar gyfer Cymru. Roedd hyn yn ffocws penodol wrth i ni adnewyddu'r cynllun ym mis Hydref 2020 wrth i ni gryfhau'r meysydd hynny sy'n diogelu iechyd meddwl da. Mae hyn yn seiliedig ar amrywiaeth o ymrwymiadau sy'n cael eu datblygu ar draws gwahanol adrannau Llywodraeth Cymru, fel mynediad gwell at wasanaethau a rhaglenni cyngor a

chynhwysiant ariannol sy'n helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl i gael gwaith neu i aros mewn gwaith. Mae'r gwaith hwn yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Rhaglen Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru. Mae aelodau Bwrdd y Rhaglen yn cynnwys swyddogion o Adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru.

Mae cyflawni Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sbardun allweddol yn ein holl benderfyniadau polisi. O ystyried bod hyn yn cynnwys Cymru Iachach a Cymru sy'n Fwy Cyfartal, mae camau gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd yn cael eu prif ffrydio ar draws holl weithgarwch a dyraniadau cyllidebau Llywodraeth Cymru. Mae ein dull gweithredu iechyd ym mhob polisi (a gefnogir gan y broses Asesu'r Effaith ar Iechyd) a'n dull integredig o bennu dyraniadau cyllideb, yn golygu nad yw'n bosibl meintioli'r union ffigurau o gyfanswm dyraniadau'r gyllideb sy'n ymwneud â lleihau anghydraddoldebau iechyd yn unig.

Fodd bynnag, mae enghreifftiau penodol o wariant y llywodraeth sy'n cyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cynnwys ein rhaglen Dechrau'n Deg a'n gwaith i fynd i'r afael â dau o'r rhesymau mwyaf dros anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru: gordewdra ac ysmygu. Yn ystod y pandemig, cafodd ysmygu a gordewdra eu nodi fel ffactorau risg allweddol a oedd yn cyfrannu at ganlyniadau gwaeth i bobl a oedd wedi cael COVID-19. O ystyried bod cyfraddau ysmygu a gordewdra yn gyffredinol uwch ymysg rhai grwpiau o bobl (gan gynnwys pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a phobl o rai cefndiroedd ethnig lleiafrifol), gwyddom fod y ffactorau risg hyn wedi chwarae rhan allweddol mewn gwaethygu anghydraddoldebau iechyd yn ystod y pandemig. O ran gordewdra, mae ein Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2022-24 yn cynnwys camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau iechyd a deiet ar draws y boblogaeth yn ei chraidd. O ran ysmygu, mae ein Strategaeth Rheoli Tybaco a'n cynllun cyflawni dwy flynedd cyntaf ar gyfer 2022-24 yn cynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel un o themâu craidd y strategaeth.

Gan droi at y dyraniadau craidd a roddir i fyrddau iechyd lleol, mae gweinidogion yn disgwyl i gamau gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd fod wrth wraidd holl waith y GIG. Yn hyn o beth, mae Fframwaith Cynllunio'r GIG a gyflwynwyd i fyrddau iechyd lleol yn cadarnhau y dylai gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd fod yn llinyn aur drwy Gynlluniau Tymor Canolig Integredig. Am y rheswm hwn, yn yr un modd â Llywodraeth Cymru, nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng agweddau penodol ar ddyraniadau cyllid craidd byrddau iechyd sy'n anelu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn unig. Er hynny, mae enghreifftiau penodol o raglenni gwaith sy'n ymwneud â byrddau iechyd sy'n cyfrannu at ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cynnwys dynodi ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent fel Rhanbarth Marmot yn ddiweddar, yn ogystal â phrosiect Gogledd Cymru Iach.

## <u>Sicrhau adferiad ar ôl y pandemig</u>

**14. Eglurwch sut mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhowch enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o ganlyniad i COVID-19. Wrth ateb y cwestiwn hwn, rhowch sylw i'r canlynol:**

- **Y tybiaethau sy’n sail i ddyraniadau a wnaed o ganlyniad i’r pandemig, gan gynnwys sut byddwch chi’n sicrhau bod digon o arian wrth gefn ar gael petai’r sefyllfa o ran Covid yn cael ei huwchraddio o un Sefydlog i un Frys.**
- **Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i helpu i gynyddu capasiti gwasanaethau neu i gynyddu adnoddau staff wrth i’r ymateb i’r pandemig barhau, gan gynnwys gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac ysbytai, gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, a’r rhaglen frechu.**
- **Y dyraniadau ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl i’r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.**
- **Y dyraniadau sydd wedi cael eu gwneud i gynnal cyflenwad digonol a phriodol o gyfarpar diogelu personol.**

Mae ein tybiaethau yn nyraniad y gyllideb ar gyfer y cymorth parhaus gyda Covid yn seiliedig ar senario Covid Sefydlog, hynny yw, rydym yn disgwyl tonnau ychwanegol o haint ac i amrywiolion newydd ddod i’r amlwg, a gallai rhai fod yn drechol. Ond ni fydd y tonnau hyn yn rhoi pwysau anghynaliadwy ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Disgwylir i frechlynnau ac ymyriadau fferyllol eraill barhau i fod yn effeithiol wrth atal salwch difrifol, yn y mwyafrif helaeth o achosion. Rydym yn credu mai dyma’r senario mwyaf tebygol, ond bydd gwyliadwriaeth barhaus yn bwysig i helpu ein polisi a’n gwaith cynllunio, ar gyfer Covid ac unrhyw bandemig arall yn y dyfodol.

Bydd ein cyllid yn cefnogi senario Covid Sefydlog ac yn darparu’r sail i’n galluogi i gynllunio a chamu i’r adwy mewn senario Covid Brys. Gallai amrywiolion newydd ddod i’r amlwg sy’n gwrthsefyll y brechlyn i raddau helaeth, neu fwtaniadau eraill sy’n rhoi nifer fawr o bobl mewn perygl o gael salwch difrifol, fel y gwelwyd yn ystod y don alffa ym mis Rhagfyr 2020. Nid yw’r cyllid yn cynnwys rhoi’r gweithgarwch a allai fod yn ofynnol mewn senario Covid Brys, ac unrhyw ehangu posibl, ar waith.

Mae’r prif feysydd y bydd y cyllid yn eu cefnogi yn cynnwys:

- Profi ac olrhain
- Gwyliadwriaeth
- Rhaglen frechu
- Darpariaeth cyfarpar diogelu personol i’r GIG a gofal cymdeithasol

Mae’r cyllid arfaethedig hefyd yn darparu capasiti ychwanegol o fewn y system diogelu iechyd i helpu gyda sgrinio ar gyfer ceiswyr lloches, achosion o glefydau heintus a chynllunio ar gyfer y gaeaf.

Yn ystod 2022-23, rydym wedi gostwng elfennau o’n hymateb i Covid yn unol â dileu’r cyfyngiadau cyfreithiol ddiwedd mis Mai, ac rydym wedi cyflwyno rhaglen frechu lwyddiannus sy’n arwain at lai o niwed a salwch difrifol. Rydym wedi lleihau ein gweithgarwch profi ac olrhain yn sylweddol a, gyda llai o achosion, rydym wedi gweld gostyngiad yn y galw am gyfarpar diogelu personol. Bydd ein cyllid ar gyfer 2023-24 yn darparu capasiti ychwanegol o ran gwasanaethau iechyd a gofal yn y meysydd allweddol a restrir, wrth i ni symud tuag at drefniadau cynaliadwy tymor hwy.

Mae ein cynlluniau ar gyfer 2023-24 yn ein galluogi i gynnal system diogelu iechyd sy'n rheoli sefydlogrwydd Covid ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cynnal lefel sylfaenol o seilwaith er mwyn gallu camu i'r adwy, pe bai'r angen yn codi. Bydd y cyllid hwn yn parhau i gael ei adolygu wrth i ni weithio drwy oblygiadau parhaus statws a lefel heintiau Covid, bygythiadau a pheryglon eraill, a sicrhau ein bod yn barod ar gyfer unrhyw bandemig yn y dyfodol. Bydd hyn yn adeiladu ar y dysgu, y buddsoddiadau a'r gallu rydym wedi'i ddatblygu yn ein hymateb i bandemig Covid, gan gynnwys cyfleusterau profi mewn labordai, systemau olrhain a genomeg GIG Cymru.

Rydym hefyd wedi buddsoddi yn ein dull gweithredu ein hunain o ran gwyliadwriaeth, modelu ystadegol a rhybudd cynnar. Bydd hyn yn ein helpu i adnabod unrhyw fygythiadau yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau mewn amrywiolion Covid. Mae hyn i gyd yn cryfhau ein hymateb brys i fygythiadau yn y dyfodol ac yn cynnal lefel y gwrthfesurau sydd eu hangen, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol a meddyginiaethau, er mwyn ymateb yn effeithiol pan fo angen.

Rydym hefyd wedi buddsoddi'n rheolaidd mewn rhaglenni newydd, penodol a sefydlwyd o ganlyniad i bandemig Covid, er enghraifft:

- Y Rhaglen Adferiad ar gyfer Covid Hir
- Parhau â phrofion heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STI) ar-lein – dechreuwyd yn ystod y pandemig i gefnogi'r gwasanaeth presennol.
- Ymchwil a Datblygu – canolfan tystiolaeth Covid

Un o'n buddsoddiadau allweddol yw'r rhaglen frechu Covid a fydd yn parhau tan 2023-24, gyda chyllid yn cael ei neilltuo i gefnogi'r ddarpariaeth. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, dyma'r mesur ataliol allweddol sydd wedi cael yr effaith fwyaf o ran lleihau lledaeniad Covid a difrifoldeb y symptomau pan fydd unigolion yn cael y feirws. Yn dilyn cyhoeddi Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru, mae'r ffocws nawr ar roi'r blaenoriaethau a'r ffyrdd newydd o weithio y mae'n eu disgrifio ar waith. Gan symud tuag at sylfaen fwy cynaliadwy a busnes-fel-arfer, mae'r holl raglenni brechu wedi'u hintegreiddio ac mae'r gwersi o'n profiad o'r pandemig yn cael eu dysgu a'u cymhwyso ar draws ein rhaglenni brechu.

Mae arbedion effeithlonrwydd gwasanaethau yn elfen bwysig o'r Fframwaith newydd a'n hagwedd at frechu. Rydym wedi gweld hyn yn sgil y ffocws mwy ar roi pigiad atgyfnerthu COVID-19 yr hydref a'r brechiad rhag y ffliw gyda'i gilydd y gaeaf hwn. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd fel hyn ar draws ein rhaglenni brechu.

Fel y disgrifir uchod (t.37), bydd mynd i'r afael â chymorth iechyd meddwl a llesiant i staff iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i gael ei gefnogi gan wasanaeth Canopi, sydd wedi cael ei gontractio gan Lywodraeth Cymru am dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2025 am £1.5 miliwn y flwyddyn.

Rydym wedi gosod y gyllideb hon ar sail senario Covid sefydlog a byddwn yn parhau i wneud y gorau o bob punt o gyllid er mwyn cefnogi gwasanaethau rheng flaen craidd wrth iddynt barhau i adfer. Mae ein gallu i addasu ac ymateb os bydd y costau ymateb i Covid yn cynyddu yn gyfyngedig o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol, ac os bydd yn rhaid i ni symud i ymateb ar lefel uwch, bydd y mesurau wrth gefn yn galw am ymdrech Llywodraeth gyfan.

**15. Pa ddyraniadau sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer mynd i'r afael â'r ôl-groniad o amseroedd aros. Yn eich ateb, esboniwch pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o effaith a chanlyniadau'r adnoddau a ddyrannwyd yn ystod 2022-23, a sut bydd dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn cael eu targedu.**

Rydym wedi dyrannu £170 miliwn eleni i fyrddau iechyd yng Nghymru i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ofal wedi'i gynllunio. Mae'r arian hwn yn rheolaidd i'r GIG a bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen trawsnewid ac adfer gofal wedi'i gynllunio a lansiwyd ym mis Ebrill 2022. Mae'r Gweinidog wedi bod yn glir y bydd yn cymryd holl dymor y Senedd i'r GIG adfer ar ôl y pandemig.

### Y buddsoddiad ychwanegol o £170 miliwn

Cafodd yr arian ei roi yn y system cyn lansio'r rhaglen ym mis Ebrill 2022. O ganlyniad, roedd sefydliadau'n gwneud dewisiadau unigol yn hytrach na chael eu harwain gan y cyfeiriad strategol rydym yn ei ddilyn yn awr. Mae hyn wedi golygu bod cyfleoedd fel gweithio rhanbarthol yn cael eu colli, ond mae rhai cyfleoedd rhanbarthol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, fel diagnosteg ranbarthol.

Roedd sefydliadau'n defnyddio'r adnoddau gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol yn bennaf:

- Cael y capasiti mewnol mwyaf posibl
- Dod â seilwaith i'r safle – ee theatrau llawdriniaethau
- Capasiti ychwanegol gyda'r sector preifat
- Diagnosteg
- Gwelliannau mewn llwybrau gofal brys i leihau'r posibilrwydd o ganslo

Mae penawdau allweddol o'r crynodeb data arbenigol a dderbyniwyd gan yr Uned Cyflawni Ariannol (FDU) yn cynnwys:

- Offthalmoleg £18 miliwn, gweithgaredd 39,945
- Orthopedeg £13 miliwn, gweithgaredd 18,519
- Mae Gofal wedi'i Gynllunio / Mwy nag un arbenigedd / Amrywiol yn cyfrif am tua £42 miliwn
- Gofal Heb ei Drefnu/Meddyginiaeth/Gofal Brys £22 miliwn

Rydym wedi gweld capasiti ychwanegol mewn cleifion allanol, ond mae wedi cymryd amser i'r data hwn ddod i'r amlwg, ac nid yw'n cael ei gynrychioli ym mhob arbenigedd.

### Cronfa trawsnewid gofal wedi'i gynllunio gwerth £15 miliwn

Hyd yma, mae £3.4 miliwn o'r gronfa trawsnewid gofal wedi'i gynllunio wedi cael ei gyhoeddi yn Ch1/Ch2, gyda chyllid ar gyfer Ch3/Ch4 yn cael ei ryddhau yn unol ag adolygiadau prosiect a chyflawni yn erbyn cerrig milltir prosiectau. Gwelir isod y prif feysydd effaith a welwyd yn ystod y chwe mis cyntaf; mae meysydd eraill yn fwy hirdymor a thrawsnewidiol, ac nid yw'r manteision i'w gweld yn ystod y chwe mis

cyntaf.

## Prosiectau trawsnewid cleifion allanol

Mae prosiectau trawsnewid cleifion allanol yn cefnogi'r gwaith o roi dulliau a mentrau arloesol ar waith, sy'n cyfrannu at drawsnewid cleifion allanol yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thimau gofal sylfaenol i edrych ar lif atgyfeiriadau a nodi pa atgyfeiriadau y mae angen iddynt ddod i'r amlwg. Rhwng mis Ebrill ac Awst 2022 bu gostyngiad llwyr yn nifer yr atgyfeiriadau (18,802) ar draws yr holl fyrddau iechyd ar gyfer y saith arbenigedd gofal wedi'i gynllunio. Mae hyn yn erbyn cynnydd cyffredinol mewn atgyfeiriadau, a oedd yn uwch na'r un cyfnod yn 2019, cyn covid. Mae tystiolaeth o ostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau ar draws yr holl fyrddau iechyd mewn orthopedeg (gostyngiad o dros 18,800) ac ENT (gostyngiad o dros 6,300) yn awgrymu bod gwaith cenedlaethol yn y meysydd hyn yn cael effaith gynnar.

## Dewisiadau eraill yn lle apwyntiadau dilynol

Ledled Cymru, o fis Ebrill 2022 i fis Medi 2022, mae 89,000 o lwybrau Sylw yn ôl Symptomau (SOS) a Chamau Dilynol wedi'u Sbarduno gan Gleifion (PIFU) wedi dechrau, sy'n ddewis amgen i'r apwyntiad dilynol wyneb yn wyneb traddodiadol. O'r 89,000 o lwybrau, rhagwelir y gall 10 y cant newid i fod angen apwyntiad dilynol. Fodd bynnag, gallai'r gostyngiad yn nifer yr apwyntiadau dilynol sydd eu hangen (tua 80,100) ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer apwyntiadau newydd. Mae hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer cynlluniau'r flwyddyn nesaf.

## Teledermosgopi

Mae tystiolaeth gan Aneurin Bevan a Hywel Dda wedi dangos bod tua 50 y cant o'r cleifion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth Teledermosgopi wedi cael eu rhyddhau (o'i gymharu â 25 y cant o'r cleifion yn cael eu rhyddhau yn flaenorol). Mae arbenigwyr yn gallu cynnal 24 adolygiad digidol lle byddent o'r blaen yn cynnal 12 adolygiad wyneb yn wyneb yn ystod yr un sesiwn. Mae gan Fyrddau Iechyd sydd â Telederm ar waith – Bae Abertawe, Aneurin Bevan ac, yn fwy diweddar, Hywel Dda – niferoedd sy'n sero neu'n lleihau dros 52 wythnos mewn adrannau cleifion allanol.

## Dilysu

Mae cwmni dilysu a reolir yn ganolog wedi cael ei sicrhau i gefnogi dilysu ar raddfa eang ar draws tri Bwrdd Iechyd: Betsi Cadwaladr, Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe. Mae'r dystiolaeth hyd yma ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn dangos cyfradd dileu o 18 y cant, yn seiliedig ar 7,786 dilysiad gweinyddol a 6,6386 dilysiad dros y ffôn. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, bydd 41,594 wedi cael eu dilysu ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, 39,228 yng Nghwm Taf Morgannwg, 31,900 yn Hywel Dda a 30,582 ym Mae Abertawe.

## Symud ymlaen

Mae'r cyllid wedi'i ddyrannu ar sail reolaidd. Mae byrddau iechyd, fel rhan o'u cynlluniau, yn parhau i geisio cynyddu gweithgarwch dewisol, gan gydbwyso gofynion gofal brys a gofal mewn argyfwng ar yr un pryd. Mae byrddau iechyd yn parhau i archwilio cyfleoedd i allanoli cleifion ac i fewnoli gweithgarwch.

## Gofal cymdeithasol

**16. Amlinellwch y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys:**

- **Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2023-24, a sut bydd y cyllid hwnnw'n cael ei dargedu.**
- **Sut bydd y dyraniadau yn sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref.**
- **Pa gymorth y bydd y gyllideb ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth o wariant penodol ar ofal seibiant a chymorth ariannol i ofalwyr.**
- **Mesurau yn y gyllideb ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol.**
- **Sut bydd y gyllideb ddrafft yn helpu'r sector gofal cymdeithasol i ymateb i gostau byw cynyddol, gan gynnwys costau ynni cynyddol. Yn eich ateb, rhowch dystiolaeth o wariant penodol i gefnogi gweithwyr gofal cartref, a gofalwyr di-dâl a phobl anabl, a'u teuluoedd.**

Cyflwynwyd y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ym mis Ebrill 2022 i gefnogi gweithgarwch i hybu'r gwaith o ddiwygio a gwella gofal cymdeithasol, er mwyn ategu'r cyllid a ddarperir yn y setliad Llywodraeth Leol.

Defnyddir y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddiwygio Gofal Cymdeithasol, i wella'r ddarpariaeth ac i wella cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid y system gyfan ac, wrth ei gwraidd, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau gyda llawer llai angen mynd i ofal. Rydym hefyd am sicrhau bod pobl ifanc mewn gofal am gyfnod mor fyr â phosibl.

Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r ffordd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc er mwyn gallu gwneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol. Mae'n ymwneud â rhoi'r math iawn o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio a chydgysylltu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a chefnogi'r rhai sy'n gofalu am blant yn well.

Bydd y cynnydd o £10 miliwn yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol yn 2023-24, i

£52 miliwn, a'r swm a ailddyrennir o gyfanswm y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i wella'r cymorth a roddir i Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i'n

gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol i gefnogi cynigion i gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

**Dileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal**

Mae'r dyraniad yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer dileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o £10 miliwn yn 2022-23 i £16 miliwn yn 2023-24.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid y system gyfan ac, wrth ei gwraidd, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau gyda llawer llai angen mynd i ofal. Rydym hefyd am sicrhau bod pobl ifanc mewn gofal am gyfnod mor fyr â phosibl.

Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r ffordd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc er mwyn gallu gwneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sy'n lleol, wedi'u cynllunio'n lleol ac yn atebol yn lleol. Mae'n ymwneud â rhoi'r math iawn o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio a chydgysylltu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a chefnogi'r rhai sy'n gofalu am blant yn well.

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae ymrwymiad clir i 'leihau elw preifat o ofalu am blant sy'n derbyn gofal' fel elfen allweddol o'r agenda radical hon.

Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am gael gofal gan sefydliadau preifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant sy'n wynebu heriau penodol yn eu bywydau ac mae'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i roi terfyn ar hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y gofal i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau sector cyhoeddus, elusennol neu nid-er-elw.

Ein nod yw sicrhau nad yw'r arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal i blant sy'n derbyn gofal yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond ei fod yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc, gan roi sylw i ddatblygu a gwella gwasanaethau a datblygiad proffesiynol pellach i staff. Rydym yn bwriadu canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar ofal preswyl a gofal maeth i blant.

Dros weddill tymor y Senedd hon, mae angen i ni ganolbwyntio ar weithio gyda phlant sydd â phrofiad o ofal, awdurdodau lleol a phartneriaid i gynyddu darpariaeth gyhoeddus ac nid-er-elw er mwyn sicrhau bod sylfaen gref i bontio i ofal nid-er-elw sy'n diwallu anghenion a hawliau plant a phobl ifanc.

**Diwygio Radical**

Mae'r dyraniad yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer diwygio gwasanaethau plant yn radical wedi cynyddu o £3 miliwn yn 2022-23 i £10 miliwn yn 2023-24.

Rydym wedi ymrwymo drwy ein Rhaglen Lywodraethu i edrych ar ddiwygiad radical

y gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal a’r rhai sy’n gadael gofal er mwyn gwireddu gweledigaeth ac uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar ymarfer cyson, ymddygiadau llai gwrth-risg a dulliau adferol cenedlaethol sy’n cael eu mabwysiadu ledled Cymru. Nid cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn unig yw cyflawni’r weledigaeth hon; mae’n gofyn am weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau’r trydydd sector.

Bydd y rhaglen yn darparu ymyriadau ataliol i deuluoedd sydd â phlant ar ffiniau gofal, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth i rieni, cynadleddau grŵp i deuluoedd, diwygio Cyfiawnder Teuluol a fframwaith ymarfer cenedlaethol. Bydd hefyd yn galw am fwy o ymyrraeth a chefnogaeth i awdurdodau lleol nad ydynt yn cyflawni ein huchelgais i leihau nifer y plant sydd mewn gofal yn sylweddol; mae ymweliadau gweinidogol diweddar ag awdurdodau lleol wedi canolbwyntio ar hyn a bydd yn parhau felly ar gyfer gweddill yr ymweliadau hyn.

**Cyflog Byw Gwirioneddol**

Bydd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 23-24 yn cynnwys cyllid rheolaidd o tua £70 miliwn i gyd, er mwyn codi cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol, fel rhan o’n hymrwymiad ehangach i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen. Bydd y cynnydd yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal ac ym maes gofal cartref (gwasanaethau oedolion a phlant) a gweithwyr gofal cartref cofrestredig mewn lleoliadau byw â chymorth. Bydd hefyd yn cael ei dderbyn gan bob cynorthwyydd personol sy’n cael ei ariannu drwy daliad uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.

Bydd sicrhau gwell cyflog drwy’r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu i fynd i’r afael â chyflogau isel sy’n gysylltiedig â’r sector ac yn gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Mae hyn yn sicrhau gwelliannau i’r gweithlu gofal cymdeithasol, yn ogystal â gwella lefelau cadw’r gweithlu a’r canlyniadau i bobl sy’n cael gofal a chymorth. Er na fydd y cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol ar ei ben ei hun yn mynd i’r afael â phob her ym maes Gofal Cymdeithasol, bydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd ac uchelgais tymor hwy i godi proffil y sector fel lle proffesiynol i weithio, gwella cyfleoedd i unigolion ddatblygu eu gyrfaoedd, a helpu i wella’r broses recriwtio a chadw staff. Nod y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer y gweithlu Gofal Cymdeithasol yw integreiddio â chydnabyddiaeth y Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol o heriau sy’n ymwneud â chyflogau isel yn y sector. Mae hefyd yn cysylltu ag amcanion polisi Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ynghylch hybu iechyd a llesiant pobl sy’n defnyddio gwasanaethau. Mae’n cyfrannu at alluogi unigolion i gyflawni canlyniadau cadarnhaol a gall gael effaith gadarnhaol ar gapasiti a morâl y gweithlu.

**Bwrsari Gweithwyr Cymdeithasol**

Bydd cyllid yn cael ei ddarparu i roi cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer bwrsarïau gweithwyr cymdeithasol i fyfyrwyr er mwyn helpu myfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau yn 2021-22 ac ym mis Medi 2022 i barhau â’u hastudiaethau a helpu i sicrhau bod gennym gyflenwad cynaliadwy o weithwyr cymdeithasol yn y dyfodol.

Bydd y cymorth ariannol ychwanegol ar gael i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yng Nghymru drwy’r Bwrsari Gwaith Cymdeithasol. Mae cynyddu’r bwrsari yn golygu bod ein cyllid ar gyfer y rhaglen hon bron yn £10 miliwn dros y tair blynedd nesaf i helpu i hyfforddi gweithwyr cymdeithasol y dyfodol. O’r pecyn cyllid hwn sy’n werth £10 miliwn, mae'r newidiadau rydym yn eu gwneud yn costio cyfanswm o £3.5 miliwn dros y tair blynedd. Mae hyn yn gynnydd o fwy na 50 y cant i'r bwrsari presennol i

israddedigion ac ôl-raddedigion.

Mae gweithwyr cymdeithasol yn cyflawni rôl hanfodol yn ein cymunedau, gan gefnogi pobl i fod yn gyfrifol am eu bywydau eu hunain. Maent wrth wraidd ein system gofal cymdeithasol ac maent yn allweddol i ddarparu gofal effeithiol. Mae'r bwrsari Gwaith Cymdeithasol i fyfyrwyr yn cefnogi pobl sydd â'r priodoleddau a'r sgiliau priodol i allu ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Ei nod yw cyfrannu at dwf gweithlu gwaith cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru ac mae'n cyfrannu at y costau a wynebir gan unigolion sy'n hyfforddi i fod yn weithwyr cymdeithasol.

**Grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (grant gweithlu)**

I gydnabod y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol craidd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i'r sector ar ffurf grant Gweithlu a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r grant wedi'u pennu'n fras. Mae awdurdodau lleol wedi gallu defnyddio'r cyllid i gefnogi codiadau cyflog, ond hefyd ar gyfer ymyriadau eraill sydd â'r nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i sicrhau eu bod mewn sefyllfa well i ateb galw cynyddol neu annisgwyl. Yn ymarferol, mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o fesurau – o godi cyflogau i gamau gweithredu sydd wedi'u hanelu at gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r grant hwn wedi cael ei roi i awdurdodau lleol bob blwyddyn ers 2019 a bydd yn £45 miliwn ar gyfer 23-24.

Yn ogystal â'r setliad cyllid blynyddol i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i gyflawni eu dyletswyddau statudol i ddarparu cymorth i ofalwyr di-dâl, dyrennir £3.5 miliwn i barhau â'r Cynllun Seibiant Byr a fydd yn cynyddu'r cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant o'u rôl fel gofalwyr.

Bydd y Gronfa Gymorth i Ofalwyr (£1.75 miliwn yn 2023-24) yn helpu gofalwyr di-dâl i ymdopi â chostau byw cynyddol drwy ddarparu grantiau i brynu eitemau hanfodol sylfaenol, fel bwyd, eitemau i'r cartref ac eitemau electronig, neu fynediad at gwnsela, cyngor ariannol, llesiant a chymorth gan gymheiriaid.

**<u>Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol</u>**

**17. Rhowch yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd. Dylai gynnwys:**

- **Y sefyllfa ariannol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer byrddau iechyd, gan gynnwys nodi'r rhai sydd wedi parhau i fethu â chyflawni eu dyletswyddau ariannol**
- **Y rheini sydd wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ystod y flwyddyn, a graddau'r cymorth hwnnw a'i hyd arfaethedig.**
- **Manylion ynghylch sut bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda byrddau iechyd i adfer cydbwysedd ariannol GIG Cymru.**
- **Gwybodaeth am ba ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud mewn ymateb i**

**gostau ynni cynyddol.**

Roeddem yn ymwybodol y byddai 2022-23 yn flwyddyn o drawsnewid ariannol i'r GIG wrth iddo symud oddi wrth ddibyniaeth ar y lefelau sylweddol o gyllid heb fod yn rheolaidd a oedd wedi cael ei ddarparu yn ystod y ddwy flynedd ariannol flaenorol i gefnogi'r ymateb i bandemig Covid. Roedd effaith barhaus y pandemig yn 2022-23 yn golygu y byddai angen i gost yr ymatebion hyn barhau er bod y cymorth ariannol heb fod yn rheolaidd hwn wedi dod i ben.

Roedd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yn darparu ar gyfer cynnydd o £824 miliwn yng nghyllid rheolaidd y GIG, er bod y gyllideb hon wedi'i phennu ar adeg pan oedd disgwyl i'r cyfraddau chwyddiant fod oddeutu pedwar y cant, a chyn i'r rhyfel yn Wcráin achosi cynnydd sylweddol mewn prisiau ynni. Gyda'r cyllid hwn, llwyddom i ddarparu cynnydd craidd o £180 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i sefydliadau'r GIG er mwyn bodloni costau craidd a thwf yn y galw. Roedd hyn ar ben y £170 miliwn o gyllid roeddem wedi'i ddyrannu i gefnogi'r gwaith o adfer gofal wedi'i gynllunio. Rydym hefyd wedi neilltuo cyllid i dalu costau dyfarniad cyflog y GIG, ac i dalu costau'r rhaglenni ymateb cenedlaethol i Covid, gan gynnwys y rhaglenni brechu, profi ac olrhain, a darparu cyfarpar diogelu personol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ystod y broses gynllunio ar gyfer 2022-23, cadarnhaodd sefydliadau'r GIG y byddai costau parhaus o ganlyniad i'r pandemig yn ogystal â chostau chwyddiant newydd sylweddol yn llawer mwy na'r cyllid roeddem yn gallu ei ddarparu. Er mwyn darparu dull cyson o ddatblygu a chyflawni'r cynllun ariannol, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'n darparu cyllid ychwanegol, pan fyddai ar gael, i fodloni'r eitemau cost eithriadol hyn. Hyd yn oed gyda'r cymorth ychwanegol hwn, nid oedd tri bwrdd iechyd (Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf Morgannwg a Hywel Dda) yn gallu cyflwyno cynlluniau ariannol cytbwys ar gyfer 2022-23.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae tri bwrdd iechyd arall (Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Phowys) wedi nodi gwyriadau sylweddol oddi wrth eu cynlluniau, gan ragweld diffygion yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhesymau dros y diffygion hyn yn ymwneud yn bennaf ag anallu sefydliadau i gyflawni yn erbyn eu cynlluniau cynilo cychwynnol; lefelau uchel o daliadau amrywiol, yn enwedig costau asiantaethau; yr angen i gynnal capasiti gwelyau heb eu hariannu; a chynnydd sylweddol yn y gost a'r galw am ofal iechyd parhaus. O ganlyniad, mae'r alldro a ragwelir ar gyfer GIG Cymru ym mis wyth yn ddiffyg o £167 miliwn. Bydd pob un o'r chwe bwrdd iechyd sy'n nodi diffyg yn methu eu targed statudol i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol os caiff diffyg alldro ei gadarnhau.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, tair Ymddiriedolaeth y GIG a dau Awdurdod Iechyd Arbennig yn parhau i ragweld alldro ariannol cytbwys. Ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddyraniad rheolaidd o £24.4 miliwn i fwrdd iechyd Bae Abertawe i gydnabod ei fod wedi cael ei danariannu'n sylweddol yn erbyn y fformiwla dyrannu adnoddau o'i gymharu â byrddau eraill, ac i gefnogi ei gynllun tymor canolig integredig.

Mae'r dirywiad yn sefyllfa ariannol y GIG yn adlewyrchiad o'r heriau sylweddol y mae sefydliadau'n eu hwynebu eleni o ran rheoli lefelau sylweddol o ofal brys a phwysau o ran chwyddiant, ond nid yw'n sefyllfa y mae Llywodraeth Cymru yn barod i'w chefnogi na'i gwarantu. Mae'r tri bwrdd iechyd a gyflwynodd ddiffygion yn eu cynlluniau ariannol wedi cael eu rhoi mewn lefel uwchgyfeirio uwch, ac mae

swyddogion a'r Uned Cyflawni Cyllid nawr yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn i ddatblygu dealltwriaeth glir o'r rhesymau dros eu dirywiad, ac i ddatblygu llif o gyfleoedd i'w galluogi i weithio tuag at adfer sefydlogrwydd ariannol. Er nad oes unrhyw gamau ffurfiol wedi'u cymryd eto gyda'r tri bwrdd iechyd sydd wedi nodi diffygion yn ystod y flwyddyn, mae swyddogion a'r Uned Cyflawni Ariannol yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn wrth iddynt ddatblygu a gweithredu cynlluniau adfer ariannol.

Fel yr amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid yn y flwyddyn ariannol gyfredol i fodloni costau eithriadol y cynnydd mewn prisiau ynni y mae sefydliadau'r GIG yn eu hwynebu.

**<u>Effaith y gyllideb ddrafft ar grwpiau a chymunedau penodol</u>**

**18. Sut rydych chi wedi ystyried cyllidebu ar sail rhyw yn y gyllideb hon wrth baratoi eich cynlluniau gwariant.**

Ein nod yw gwella iechyd meddwl a llesiant gan leihau anghydraddoldebau drwy ganolbwyntio ar gryfhau ffactorau amddiffynnol. Mae ffocws penodol ar y dull hwn fel rhan o'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl presennol ar gyfer Cymru a, lle bo hynny'n berthnasol, mae wedi cynnwys camau gweithredu sy'n benodol i rywedd, er enghraifft iechyd meddwl amenedigol.

Wrth i ni ddatblygu olynydd i Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, sef Siarad â Fi 2 – strategaethau a chynllun cyflenwi ar gyfer camddefnyddio sylweddau, byddwn yn ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer ein gwaith arfaethedig. Bydd hyn yn cynnwys datblygu asesiad effaith integredig a fydd yn ein galluogi i ystyried yr effeithiau ar draws nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys rhywedd.

Byddwn yn parhau i weithio ar draws y llywodraeth i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl wrth gefnogi iechyd meddwl ar draws portffolios, gan wneud yn siŵr bod cefnogi a diogelu iechyd meddwl yn ffactor allweddol mewn unrhyw benderfyniadau buddsoddi rydym yn eu hystyried.

**19. Amlinellwch pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar grwpiau neu gymunedau penodol, gan gynnwys menywod a merched, cymunedau du ac ethnig lleiafrifol, plant a phobl ifanc, a phobl hŷn.**

Fel rhan o'r gwaith modelu a wnaed ar gyfer iechyd meddwl, y cyfeirir ato yng nghwestiwn chwech, roeddem yn cydnabod effaith anghymesur y pandemig ar rai grwpiau, gan gynnwys pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn ei dro wedi llywio dyraniad y gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf, yn ogystal â'n hymatebion polisi. Un enghraifft o hyn oedd sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen (sy'n cael ei gadeirio gan Gynghrair Iechyd Meddwl Cymru) gyda'r trydydd sector a mudiadau cymunedol yn edrych ar ffyrdd o wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a'u hansawdd ar gyfer pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd y gwaith hwn yn rhoi sail i ddatblygiad ein strategaeth iechyd meddwl olynol a amlinellir yng nghwestiwn 18.

**Cyflog Byw Gwirioneddol**

Datblygwyd y polisi sy'n gyfrifol am godi'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn

partneriaeth â rhanddeiliaid ar draws y sector gofal cymdeithasol ac ar sail arolygon penodol. Cynhaliwyd asesiad effaith integredig llawn hefyd, a oedd yn ystyried nifer o feysydd gan gynnwys cydraddoldeb a hawliau plant. Yn ogystal, sefydlwyd y Fforwm Gwaith Teg mewn Gofal Cymdeithasol i weithredu amcanion y Comisiwn Gwaith Teg ar draws gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddodd y Fforwm gyngor i weinidogion ar gyflwyno'r ymrwymiad Cyflog Byw Gwirioneddol lle byddai pob grŵp a chymuned wedi cael eu hystyried.

Mae'r pandemig wedi datgelu dibyniaeth cymdeithas ar waith sy'n cael ei wneud yn anghymesur gan fenywod fel gofalwyr di-dâl ac fel gweithwyr ym maes gofal a gwaith cymdeithasol. Mae tystiolaeth yn dangos bod y rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol yn fenywod dros 40 oed nad ydynt yn annibynnol yn ariannol er eu bod mewn gwaith amser llawn. Bydd sicrhau gwell cyflog drwy'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector ac yn gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Mae'r cynnydd yn y gronfa Cyflog Byw Gwirioneddol eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb gan fod y cynnydd hefyd yn berthnasol i bob grŵp sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr rhan-amser a grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae pobl â phroblemau iechyd parhaus sydd ar absenoldeb salwch, menywod beichiog (a allai hefyd fod wedi cymryd amser i ffwrdd) a rhieni neu warcheidwaid ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu hefyd wedi derbyn y cynnydd os ydynt mewn swyddi cymwys.

### Rhaglen Trawsnewid

Er nad yw'n benodol i unrhyw grwpiau neu gymunedau neilltuol, mae'r Rhaglen Trawsnewid drwy gynllun Cymru Iachach yn parhau i gefnogi prosiectau peilot trawsnewidiol ar draws nifer o ddisgyblaethau sydd wedi'u hanelu at ymyriadau byr a dwys y gellir eu huwchraddio i lefel genedlaethol a'u hintegreiddio i wasanaethau prif ffrwd pan fydd tystiolaeth bod pobl Cymru yn manteisio o wasanaeth gwell a/neu arbedion ariannol.

Dyma rai enghreifftiau o brosiectau neu rolau a ariennir gan y Prosiect Trawsnewid sy'n benodol i grwpiau neu gymunedau neilltuol:

- **Mislif Fi – (Merched, Pobl Ifanc) –** Nod y Prosiect Trawsnewid yw adeiladu ar lwyddiant y Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod (WHIG) o Mislif Fi, yr adnodd i godi ymwybyddiaeth o'r mislif, sy'n grymuso pobl ifanc sy'n cael mislif i ehangu'r sgwrs ynghylch iechyd mislif fel nad oes yn rhaid i bobl ifanc ddioddef yn dawel. Mae'r Rhaglen Trawsnewid wedi ymrwymo i gyllid ychwanegol i gynnal arolwg arall i bobl ifanc (ar ôl covid) i weld beth fyddent yn hoffi ei weld nesaf, ee addysg mislif ac a yw wedi'i integreiddio yng Nghwricwlwm Cymru, cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol fel sianeli YouTube a phresenoldeb ar TikTok a Snapchat. Bydd y cyllid hwn yn galluogi'r tîm Mislif Fi i ddatblygu cynnwys sy'n ymwneud â 'Pwy sy'n cael mislif' a gweithio'n agos gyda'r tîm cydraddoldeb i sicrhau bod iaith gynhwysol o ran hunaniaeth rhywedd yn cael ei defnyddio, yn ogystal ag adnabod heriau o ran anabledd a diwylliant sy'n gysylltiedig â'r mislif.
- **Secondai i'r Ymddiriedolaeth Addysg ac Iechyd Trofannol (THET) – (Tegwch ym maes gofal iechyd) –** Roedd yr adroddiad *Experts in our Midst: recognising the contribution diaspora NHS staff make to global health,* a gyhoeddwyd yn 2021, yn edrych ar y rôl mae gweithwyr iechyd sydd ar

wasgar (a ddiffinnir yn y cyd-destun hwn fel staff y GIG sydd â threftadaeth o wledydd incwm isel a chanolig [LMIC]) yn ei chwarae ym maes gofal iechyd yn y DU ac yn y systemau iechyd mewn gwledydd incwm isel a chanolig. Mae eu cyfraniad yn sylweddol, er enghraifft, dod â phrofiadau a dealltwriaeth ddiwylliannol i'r GIG a dychwelyd cyfraniadau ariannol ac ymarferol i wledydd treftadaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos nad yw'r cyfraniadau hyn yn cael eu cydnabod na'u gwerthfawrogi'n ddigonol, sy'n cael effeithiau niweidiol ar unigolion, y GIG a systemau iechyd yn fyd-eang. Mae argymhellion yr adroddiad yn annog THET, y GIG, Partneriaethau Iechyd a llywodraethau i ddeall a chefnogi pŵer gweithwyr iechyd sydd ar wasgar yn well. Mae THET yn dadlau bod hyn yn hanfodol i'r GIG o ran datblygu diwylliant cynhwysol a gwrth-hiliol, lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn perthyn. Ers ei gyhoeddi, mae'r adroddiad wedi bod yn gwneud cynnydd gyda chyrff allweddol gan gynnwys Health Education England a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae THET nawr yn datblygu 'rhwydwaith amrywiaeth' i greu aelodaeth amlddisgyblaeth o arweinwyr y GIG, hyrwyddwyr cydraddoldeb ac amrywiaeth y GIG, a Phartneriaethau Iechyd. Y nod cyffredinol yw bod mudiadau sy'n cymryd rhan yn teimlo ac yn gweld yn well beth yw manteision gwerthfawrogi cysylltiadau ar wasgar gyda gwledydd treftadaeth. Mae'r Rhaglen Trawsnewid wedi ymrwymo cyllid i secondai o GIG Cymru gael ei wreiddio yn y grŵp craidd. Bydd yn adeiladu ar gynllun peilot presennol THET, 'Rhwydwaith Amrywiaeth', gan ddatblygu a gweithredu cynllun ymgysylltu ar wasgar sy'n cyflawni amcanion ehangach y sefydliad. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau'r manteision gorau posibl i'r GIG ledled y DU ac i systemau iechyd byd-eang, a bydd yn arwain y gwaith o ryngweithio ag aelodau presennol a darpar aelodau'r Rhwydwaith, gan gynnwys byrddau ac ymddiriedolaethau'r GIG, cymdeithasau proffesiynol ar wasgar a Phartneriaethau Iechyd, a bydd yn cynnull ac yn cynnal grŵp llywio o arbenigwyr rhyngwladol i arwain y gwaith.

- **Rhaglen Gymorth ar gyfer Diogelwch Newyddenedigol a Mamolaeth – (Menywod, Plant a Phobl Ifanc) -** Mae nifer o ffactorau sy'n sbarduno newid, gan gynnwys iechyd y boblogaeth a thueddiadau demograffig, yr angen i wella ansawdd, pwysau'r gweithlu a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg o adroddiadau amrywiol ac edrych yn fanwl ar y gwasanaeth. Mae adroddiadau ac archwiliadau penodol sy'n dangos problemau sylweddol gyda diogelwch Gwasanaethau Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol yng Nghymru yn cynnwys:
    - ❖ ***Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr: Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Cwm Taf (Ionawr 2019)***
    - ❖ **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru – Adolygiad Cenedlaethol o ansawdd a diogelwch gwasanaeth mamolaeth - Adroddiad Cam Un**
    - ❖ Mae tri **adroddiad Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol** wedi cael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2021 ac mae gan bob un argymhellion i wella diogelwch mamau a babanod:
        1) **Adroddiad Cenedlaethol y Dull Adolygu Marwolaethau Amenedigol – *Dysgu o Adolygiadau Safonedig pan fydd Babanod yn Marw*** cyhoeddwyd 13 Hydref 2021
        2) **Adroddiad Goruchwylio MBRRACE-UK ar Farwolaethau Amenedigol – Marwolaethau Amenedigol yn y DU ar gyfer Genedigaethau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2019** cyhoeddwyd

14 Hydref 2021

3) Yr **Archwiliad Amenedigol a Mamolaeth** cyhoeddwyd 14 Hydref 2021

Prif sbardun y rhaglen yw gwella diogelwch, profiad a chanlyniadau gofal mamau a babanod newydd-anedig, a darparu cymorth i alluogi timau i ddarparu profiad gofal iechyd o ansawdd uchel i'r holl bobl feichiog, babanod a theuluoedd mewn lleoliadau gofal mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru.

---

[i] Marmot M. Social determinants of health inequalities. Public Health (2005). 365:6

[ii] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Canllawiau PH55 ar Iechyd y Geg: awdurdodau lleol a phartneriaid (2014) https://www.nice.org.uk/guidance/ph55

# Papur 01a – Atodiad A – Llinellau Gwariant yn y Gyllideb – Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae manylion y Llinellau Gwariant ar y Gyllideb ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gael yma:

Tablau ategol ar gyfer tystiolaeth ysgrifenedig gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd

# Papur 01b – Atodiad B - Sylwadau lefel cam gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Atodiad B**

**Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2023-24 a Chyllideb Derfynol 2022-23.**

| Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m | Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m |
| 9,468.565 | 141.673 | 9,610.238 | 9,668.565 | 146.224 | 9,814.789 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ategu'r prif gyllid i'r GIG yng Nghymru yn ogystal â chyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru a chorff y GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

**Esboniad o'r Newidiadau i Gyflawni Gweithrediad Gwasanaethau Craidd y GIG Dyraniadau newydd ar gyfer 23-24 a 24-25 (Rheolaidd)**

- **£165.000m** - Cyllideb Ddrafft 23-24 a 24-25 ar gyfer cyllid ychwanegol Adnoddau Cyllidol;
- **£5.000m (23-24) a £9.000m (24-25)** - Cyllideb Ddrafft ar gyfer cyllid ychwanegol Adnoddau Anghyllidol.

**Gostyngiad yr Ymarfer Blaenoriaethu Cyllideb**

- **(£12.722m)** – Cyllideb Ddrafft gostyngiadau rheolaidd 23-24 a 24-25.

**Addasiadau i’r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **(£15.605m) ar gyfer 23-24 a (£15.054m) ar gyfer 24-25 –** addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau’r GIG ar gyfer 23-24.

| Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau’r GIG wedi'u Targedu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m | Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m |
| 89.472 | (14.645) | 74.827 | 86.361 | (14.645) | 71.716 |

Mae’r cam gweithredu hwn yn cefnogi cyllidebau iechyd amrywiol eraill gan gynnwys Gweithlu’r GIG, *Cymru Iachach* a chyllidebau iechyd eraill.

**Esboniad o'r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau’r GIG wedi'u Targedu**

**Gostyngiad yr Ymarfer Blaenoriaethu Cyllideb**

- **(£8.500m)** – Cyllideb Ddrafft gostyngiadau rheolaidd 23-24 a 24-25.

**Addasiadau i’r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **(£6.145m) –** addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau’r GIG ar gyfer 23-24.

| Cam Gweithredu: Ategu Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m | Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m |
| 27.295 | 5.291 | 32.586 | 27.295 | 5.291 | 32.586 |

Mae addysg a hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau’r GIG yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir i gynorthwyo'r gwaith o sicrhau gweithlu cynaliadwy sy’n meddu ar y sgiliau i fynd i'r afael â'r gofynion ar y gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol. Mae mwyafrif yr arian yn y cam gweithredu hwn yn talu am y costau ychwanegol a ysgwyddir gan Fyrddau Iechyd Prifysgol ac Ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru ar gyfer addysgu (cynnal) myfyrwyr meddygol a deintyddol fel rhan o'u hastudiaethau israddedig. Yn ogystal, mae'n ategu hyfforddiant nifer o leoliadau hyfforddi ôl- raddedig ledled Cymru, gan gynnwys swyddi academaidd clinigol. Mae cyllid o fewn y cam gweithredu hwn hefyd yn ategu dyfarniadau rhagoriaeth glinigol Ymgynghorwyr a roddir am ansawdd, rhagoriaeth a chyfraniadau personol eithriadol.

**Esboniad o'r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG**

**Addasiadau i’r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£5.291m –** addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau’r GIG ar gyfer 23-24.

| Cam Gweithredu: Ategu Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m** |
| 113.212 | (29.611) | 83.601 | 128.212 | (31.673) | 96.539 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn cefnogi amrywiaeth o:

- Gamau datblygu a darparu polisi iechyd meddwl, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), therapïau seicolegol, atal hunanladdiad a hunan-niweidio, cymorth iechyd meddwl amenedigol a chyllid ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector drwy'r grant iechyd meddwl adran 64

- Deddfwriaethau iechyd meddwl, gan gynnwys Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

- Anghenion gofal iechyd grwpiau agored i niwed, (y rhai a ddiffinnir fel rhai sydd â nodweddion gwarchodedig) gan gynnwys ceiswyr lloches a ffoaduriaid, cymorth i gyn-filwyr, gofal iechyd troseddwyr, canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, sipsiwn a theithwyr ac unigolion trawsryweddol.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Cefnogi Polisïau a Deddfwriaethau Iechyd Meddwl**
**Gostyngiad yr Ymarfer Blaenoriaethu Cyllideb**

- **(£1.000m)** – Cyllideb Ddrafft gostyngiadau rheolaidd 23-24 a 24-25.

**Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **(£28.611m) ar gyfer 23-24 a (£30.673m) ar gyfer 24-25 –** addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 23-24.

| Cam Gweithredu: Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m** |
| 28.585 | 19.400 | 47.985 | 28.585 | 21.400 | 49.985 |

Mae mwyafrif y cyllid camddefnyddio sylweddau yn y cam gweithredu hwn yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Cynllunio Ardal drwy fformiwla cyllido i'w helpu i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a amlinellir yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau diweddaraf 2019-22.

**Esboniad o'r Newidiadau i Gronfa Weithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau**
**Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£19.400 ar gyfer 23-24 a £21.400 ar gyfer 24-25 –** addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb 23-24.

| Cam Gweithredu: Asiantaeth Safonau Bwyd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m | Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m |
| 5.110 | 0 | 5.110 | 5.110 | 0 | 5.110 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru. Darperir y dyraniad cyllideb hwn i gwrdd â chost y blaenoriaethau gwaith a nodir yng 'Nghytundeb Darparu Gwasanaeth Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru' yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Darperir yr arian ar y sail y bydd Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, lle mae budd ar y cyd, yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'i blaenoriaethau, gan gynnwys cymorth parhaus i gyflawni a gweithredu cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru, fel y'i sefydlwyd gan Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yn y Gyllideb Derfynol.

| Cam Gweithredu: Rhaglenni Iechyd Cyhoeddus | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m | Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m |
| 18.796 | 2.380 | 21.176 | 15.796 | 1.829 | 20.625 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn ariannu amrywiaeth o raglenni iechyd cyhoeddus fel Trawsblannu Organau a Meinwe, Imiwneiddio, Taliadau i Public Health England sy'n darparu nifer o wasanaethau diogelu iechyd arbenigol a rhai gwasanaethau labordy cyfeirio i Gymru, Cychwyn Iach a NICE.

**Esboniad o'r Newidiadau i Raglenni Iechyd y Cyhoedd**
**Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£2.380m ar gyfer 23-24 a £1.829m ar gyfer 24-25 –** addasiadau technegol rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys ailosod ymrwymiadau cyllideb a throsglwyddo dyraniadau'r GIG ar gyfer 23-24.

| Cam Gweithredu: Trefniadau Parodrwydd am Argyfwng Iechyd Effeithiol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m** |
| 6.007 | 0.040 | 6.047 | 6.007 | 0.040 | 6.047 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod GIG Cymru yn gwbl barod a chadarn i ddelio â'r holl beryglon a bygythiadau a nodir mewn Asesiadau Risg Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y risg uchaf o bandemig ffliw a rheoli canlyniadau iechyd digwyddiad terfysgol sy'n cynnwys deunyddiau peryglus.

**Esboniad o'r Newidiadau i Drefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfwng Iechyd**
**Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£0.040m –** addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau'r gyllideb).

| Cam Gweithredu: Corff Llais y Dinesydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m** |
| 0.000 | 5.503 | 5.503 | 0.000 | 5.503 | 5.503 |

Mae Corff Llais y Dinesydd yn gorff annibynnol, newydd a fydd yn ymgysylltu â phobl ledled Cymru i gynrychioli buddiannau'r cyhoedd yng nghyswllt gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Bydd wrth galon sgyrsiau gyda'r cyhoedd yng Nghymru, gan gydweithio â chyrff y GIG ac awdurdodau lleol, ac ochr yn ochr â sefydliadau cyhoeddus, annibynnol a gwirfoddol eraill i ganfod a chryfhau llais dinasyddion yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd Corff Llais y Dinesydd hefyd yn darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion i helpu pobl sydd angen cwyno am y gwasanaethau Iechyd neu'r gwasanaethau Cymdeithasol y maent wedi'u derbyn.

**Esboniad o'r Newidiadau i Gorff Llais y Dinesydd**
**Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£5.503m –** ailosod ymrwymiadau rheolaidd y gyllideb rhwng Camau Gweithredu yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i greu cyllideb ar gyfer Corff Llais y Dinesydd sydd newydd gael ei sefydlu.

| Cam Gweithredu: Datblygu a Gweithredu Gwaith Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m | Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m |
| 42.545 | 4.000 | 46.545 | 42.545 | 4.000 | 46.545 |

Mae'r cam gweithredu hwn yn ategu gwaith Adran Ymchwil a Datblygu Llywodraeth Cymru sy'n rhan o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n arwain ar strategaeth, polisi, comisiynu, cyllido, rheoli contractau a llywodraethu ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Drwy ei 'brand allanol', Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae'r Is-adran Ymchwil a Datblygu yn darparu seilwaith i ategu a chynyddu capasiti mewn Ymchwil a Datblygu, yn rhedeg amrywiaeth o gynlluniau cyllido ymatebol ac yn rheoli adnoddau i hyrwyddo, cynorthwyo a darparu ymchwil. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau partneriaeth ar draws cyllidwyr lle mae'r rhain yn dod â manteision i Gymru. Mae'n cefnogi ymchwil drosi sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymchwil iechyd cymhwysol ac iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i atal, canfod a gwneud diagnosis o afiechydon; datblygu a gwerthuso ymyriadau; a darparu, trefnu a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Is-adran hefyd yn gweithio i helpu i weithredu canfyddiadau ymchwil yn ymarferol.

Mae gan yr Is-adran gysylltiadau allweddol o fewn Llywodraeth Cymru â thimau Gwyddorau Bywyd ac Arloesi Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru a'r Adran Addysg a Sgiliau. Mae'r Is-adran hefyd yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr sydd â rolau tebyg yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, cynghorau ymchwil y Deyrnas Unedig, cyllidwyr ymchwil eraill a'r Comisiwn Ewropeaidd.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Gwaith Ymchwil a Datblygu er Budd Cleifion a'r Cyhoedd**
**Gostyngiad yr Ymarfer Blaenoriaethu Cyllideb**

- **(£1.000m)** – Cyllideb Ddrafft gostyngiadau rheolaidd 23-24 a 24-25.

**Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£5.000m –** addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau'r gyllideb).

| Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol a Chymorth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m | Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m |
| 6.035 | -0.850 | 5.185 | 6.035 | -0.850 | 5.185 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer Diogelu ac Eiriolaeth a Gofalwyr Pobl Hŷn a Phobl ag Anableddau.

Mae hefyd yn cyllido rhaglenni gwaith i gynorthwyo gofalwyr i gyflawni eu rolau fel gofalwyr a chynnal eu hiechyd a'u llesiant eu hunain ar yr un pryd. Mae hyn yn ganolog i sicrhau bod yr hawliau i ofalwyr yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gwneud gwahaniaeth o ddifri wrth gefnogi gofalwyr, ac mae'n cynnwys elfen gref o fuddsoddi i arbed gan yr amcangyfrifir bod gofalwyr anffurfiol, di-dâl yn darparu 96% o'r gofal yng Nghymru, gofal y byddai'n rhaid ei ddarparu o gyllidebau gofal cymdeithasol fel arall.

Ym mis Mehefin 2018, lansiwyd cyllid i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu rhaglenni i wella cyfleoedd bywyd pobl anabl ac yn benodol y Rhaglen Gwella Bywydau i Bobl ag Anabledd Dysgu. Defnyddir cyllid hefyd i symud ymlaen o fewn y Fframwaith Gweithredu i Bobl sydd â'r Fframwaith Integredig ar gyfer Gweithredu Gofal a Chymorth i Bobl sy'n Fyddar neu sy'n Byw gyda Cholled Clyw.

**Esboniad o'r Newidiadau i'r Cam Gweithredu Gofal Cymdeithasol a Chymorth Addasiadau i'r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **(£0.850m) –** addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau'r gyllideb).

| Cam Gweithredu: Partneriaethau ac Integreiddio | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m** |
| 0.526 | 0 | 0.526 | 0.526 | 0 | 0.526 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid i helpu i integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn ogystal, mae hefyd yn cyllido gwelliannau i gyngor ac arweiniad ar ofal iechyd parhaus a ddylai helpu pobl i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i ddiwallu eu hanghenion iechyd. Mae hefyd yn helpu’r gwaith o ystyried ardoll gofal cymdeithasol a fydd yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru lewyrchus a chydnerth, drwy ystyried opsiynau i ddarparu'r cyllid y rhagwelir y bydd ei angen yn y dyfodol i ateb y gofynion cynyddol am ofal cymdeithasol o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Derfynol 2022.

| Cam Gweithredu: Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m** |
| 109.715 | 0 | 109.715 | 114.715 | 0 | 114.715 |

Mae mwyafrif y Cam Gweithredu hwn yn cyllido'r grant i’r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy.

Mae’r arian yn y Cam Gweithredu hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i ategu'r gwaith o gyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gweithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 (RISCA) a gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, sy'n cyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru sy'n gwella llesiant ac yn rhoi pobl a'u hanghenion yng nghanol yr holl ofal a chymorth. Mae ein hegwyddorion yn cynnwys meithrin ymarfer sy’n hyrwyddo llais a rheolaeth, annibyniaeth, cydgynhyrchu, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar.

Ar gyfer 2022-23 mae grant y gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi cael ei drosglwyddo i’r cam gweithredu hwn, yn ogystal â’r gronfa newydd ar gyfer Diwygio Gofal Cymdeithasol.

Mae'r cyllid yn aros ar yr un lefel ag y mae yng Nghyllideb Derfynol 2022.

| Cam Gweithredu: Gofal Cymdeithasol Cymru |
|---|

| Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m | Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m |
|---|---|---|---|---|---|
| 25.613 | -0.030 | 25.583 | 25.613 | -0.030 | 25.583 |

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar ffurf cymorth grant i Gofal Cymdeithasol Cymru, corff a noddir gan Lywodraeth Cymru.
Cyllidir Gofal Cymdeithasol Cymru i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol, magu hyder ymysg y gweithlu, ac arwain a chefnogi gwelliant mewn gofal cymdeithasol.

**Ymhlith y blaenoriaethau allweddol mae:**

- pennu safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan eu gwneud yn atebol am eu gwaith
- datblygu'r gweithlu fel bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau i amddiffyn, grymuso a chynorthwyo'r rhai sydd angen help
- gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ar gyfer meysydd y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol
- pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gasglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda
- rhannu arfer da gyda'r gweithlu fel y gallant ddarparu'r ymateb gorau
- darparu gwybodaeth am ofal a chymorth i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill.

**Esboniad o’r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Gofal Cymdeithasol Cymru Dyraniadau newydd ar gyfer 23-24 a 24-25 (Rheolaidd)**

- **(£0.030m)** - Cyllid Adnoddau Anghyllidol ychwanegol rheolaidd y Gyllideb Ddrafft.

| Cam Gweithredu: Cefnogi Plant | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m** |
| 111.256 | 170.235 | 281.491 | 112.106 | 177.685 | 289.791 |

Mae mwyafrif y cyllid yn y cam gweithredu hwn yn ategu'r cynnig gofal plant (sy'n destun craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid y cam gweithredu hwn ar gyfer Grant Pontio Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu cyllid ar gyfer nifer o fentrau sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant Agored i Niwed, sy'n cynorthwyo plant sydd wedi cael eu mabwysiadu i sicrhau eu bod nhw a’u teulu yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau cymorth angenrheidiol i ddechrau eu bywyd teuluol.

**Esboniad o’r Newidiadau i’r Cam Gweithredu Cymorth i Blant Trosglwyddiadau MEG i MEG (Rheolaidd)**

- **£160.235m (23-24) a £167.685m (24-25)** – Trosglwyddiad rheolaidd cyllid y Grant Cymunedau a Phlant i mewn i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Addasiadau i’r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£10.000m –** addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau’r gyllideb).

| Cam gweithredu: CAFCASS Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-2024 (2024-25) £m** |
| 14.725 | 0.470 | 15.195 | 17.725 | 0.470 | 15.195 |

Mae CAFCASS Cymru yn wasanaeth gweithredol sy'n cael ei arwain ar sail galw, sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr CAFCASS Cymru yn gweithio gyda bron i 9,000 o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teulu, gan sicrhau bod ein hymyriadau'n hyrwyddo llais y plentyn, yn canolbwyntio ar eu hawliau, eu llesiant a'u budd pennaf er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plentyn sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Teulu yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teulu a gwasanaethau i blant yng Nghymru, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant o Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi.
Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant i helpu rhieni sydd wedi gwahanu i gael cyswllt â'u plant, ar gyfarwyddyd y Llys Teulu. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido'r gwaith o ddarparu'r rhaglen Gweithio Gyda'ch Gilydd er Lles Plant, sy'n cefnogi rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn cael y brif flaenoriaeth.

**Esboniad o’r Newidiadau i’r Cam Gweithredu CAFCASS Cymru**

**Addasiadau i’r gyllideb o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£0.470m –** addasiadau technegol rheolaidd rhwng Camau Gweithredu o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailosod ymrwymiadau’r gyllideb).

Papur 02 - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – 11 Ionawr 2023 – tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am gynigion Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg a amlinellwyd yng Nghyllideb ddrafft 2023-24[1], a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2022. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Cyllideb Drafft 2023-24 yw'r ail gyllideb a gyhoeddwyd ar gyfer y 6ed Senedd ac mae'n rhoi diweddariad ar yr adolygiad o wariant aml-flwyddyn a gyhoeddwyd y llynedd, yn dilyn Cyllideb yr Hydref a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 17 Tachwedd 2022.

## 1. Meysydd Trawsbynciol

### 1.1 Cyflwyniad ar Dryloywder y gyllideb

1.1.1 Yn y tabl isod rhoddir trosolwg o'r cynlluniau dangosol ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2023-24:

| Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg – Crynodeb | £000oedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022 £000oedd | Newidiadau 2023-24 £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022) £000oedd | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2022 £000oedd | Newidiadau 2024-25 £000oedd | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 (Rhagfyr 2022) £000oedd |
| Adnoddau cyllidol (refeniw) | 1,769,483 | 13,458 | 1,782,941 | 1,806,983 | 13,458 | 1,820,441 |
| Adnoddau anghyllidol | 488,480 | 3,187 | 491,667 | 514,811 | 3,139 | 517,950 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **2,257,963** | **16,645** | **2,274,608** | **2,321,794** | **16,597** | **2,338,391** |
| **Cyfalaf** | **372,777** | **0** | **372,777** | **359,614** | **0** | **359,614** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a Chyfalaf** | **2,630,740** | **16,645** | **2,647,385** | **2,681,408** | **16,597** | **2,698,005** |
| AME Adnoddau[1] | -129,589 | -115,538 | -245,127 | -163,720 | 61,800 | -101,920 |
| AME Cyfalaf | 1,161,411 | 71,802 | 1,233,213 | 1,277,302 | 342,458 | 1,619,760 |
| **Cyfanswm AME** | **1,031,822** | **-43,736** | **988,086** | **1,113,582** | **404,258** | **1,517,840** |
| **Cyfanswm – Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg** | **3,662,562** | **-27,091** | **3,635,471** | **3,794,990** | **420,855** | **4,215,845** |

[1] Yn y papur hwn, mae '/' yn cyfeirio at flwyddyn academaidd sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf ac mae '-' yn cyfeirio at flwyddyn ariannol sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.

*[1] Gwariant a Reolir yn Flynyddol*

*Adnoddau cyllidol (refeniw)*

1.1.2 Pan wnaethom gyhoeddi ein Hadolygiad o Wariant Cymru 2022, gwnaethom nodi ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer addysg hyd at 2024-25. Mae cyllideb ddrafft y flwyddyn ddiwethaf yn nodi cynnydd o £188m (12.3%) mewn refeniw i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2022-23, gyda chynnydd pellach o £50m (2.9%) yn 2023-24 a £38m (2.2%) yn 2024-25. Mae'r gyllideb hon yn adeiladu ar y cyllidebau dangosol hynny a bennwyd yn flaenorol, drwy ddarparu cynnydd net pellach o £13.5m mewn refeniw i'r Prif Grŵp Gwariant yn 2023-24 a 2024-25, fel y crynhoir yn y tabl isod.

| **Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg: Newidiadau i'r Gyllideb Refeniw** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2023-24 £000** | **2024-25 £000** |
|---|---|---|---|
| **Dyraniadau o Gronfeydd wrth Gefn:** | | | |
| Addysg Bellach ac Adrannau Chweched Dosbarth | Darpariaeth Ôl-16 | 9,000 | 9,000 |
| Grant Datblygu Disgyblion | Grant Datblygu Disgyblion | 9,000 | 9,000 |
| Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau | Grant Gwella Ysgolion | 5,500 | 5,500 |
| Rhoi Anghenion Dysgu Ychwanegol ar Waith | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 4,500 | 4,500 |
| Costau Byw – cyflog: | | | |
| CCAUC | Gwariant Rhaglen CCAUC | 240 | 240 |
| Cymwysterau Cymru | Cymwysterau Cymru | 390 | 390 |
| Estyn | Cefnogi Safonau Ysgolion | 560 | 560 |
| Comisiynydd y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | 150 | 150 |
| Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 60 | 60 |
| **Cyfanswm Refeniw o Gronfeydd wrth Gefn** | | **29,400** | **29,400** |
| **Ailflaenoriaethu cyllid i Gronfeydd wrth Gefn:** | | | |
| Sefydlu | Datblygu a Chefnogi Athrawon | -620 | -620 |
| Diwygio PCET | Diwygio Addysg Ôl-orfodol a Hyfforddiant | -1,000 | 0 |
| Rhaglen Hwb | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | -500 | -500 |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | -11,822 | -12,822 |
| Rhaglen y Model Buddsoddi Cydfuddiannol | Seilwaith Addysg | -2,000 | -2,000 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a Drosglwyddir i Gronfeydd wrth Gefn** | | **-15,942** | **-15,942** |
| **Trosglwyddiadau Net o Gronfeydd wrth Gefn** | | **13,458** | **13,458** |

1.1.3 Rhoddir rhagor o fanylion ar ddyraniadau i'r Prif Grŵp Gwariant o gronfeydd wrth gefn canolog sy'n gwneud cyfanswm o £29.4m yn yr adrannau perthnasol o'r papur hwn ac yn Atodiad B (gweler para 1.2.1).

1.1.4 Yn ddiau, bu'r broses o ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft hon ar gyfer 2023-24 yn un o'r anoddaf ers datganoli. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu er mwyn rhyddhau cyllid o bortffolios i'w ailddyrannu ar draws y Llywodraeth. Yr egwyddorion

wrth wraidd yr ymarfer ailflaenoriaethu hwn oedd darparu cyllideb gytbwys, diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a diogelu'r Rhaglen Lywodraethu.

1.1.5 Yn dilyn yr ymarfer hwn, mae cynlluniau ar gyfer y gyllideb ddrafft yn adlewyrchu £15.9m a ddychwelir i gronfeydd wrth gefn canolog o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2023-24, gyda gostyngiadau wedi'u cynnwys yn y llinell sylfaen yn 2024-25. Crynhoir y newidiadau hyn yn y tabl uchod. Wrth wneud hynny, rydym wedi diogelu'r gwasanaethau rheng flaen a ddarperir er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â'r gostyngiadau hyn. Rhagwelir na chaiff y gostyngiadau unrhyw effaith ar y ddarpariaeth yn y meysydd hyn o'r rhaglen, am fod y rhan fwyaf o gyllidebau a nodwyd yn seiliedig ar alw. Felly, er bod rhywfaint o risg o hyd, os bydd gwariant yn gwyro oddi wrth y rhagamcanion, dylai'r gostyngiadau fod yn gyflawnadwy yn seiliedig ar ragamcanion gwariant hanesyddol a rhagamcanion gwariant ar gyfer y dyfodol. Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau hyn yn y papur hwn ac yn Atodiad B (gweler para 1.2.1), gyda newidiadau i grantiau cymorth i fyfyrwyr yn cael eu nodi o dan adran 2.18.

### *Adnoddau anghyllidol (nad ydynt yn arian parod)*

1.1.6 Yn dilyn y cynnydd sylweddol yn y gyllideb heb fod yn arian parod ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yng nghyllideb y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â benthyciadau i fyfyrwyr, mae'r gyllideb heb fod yn arian parod ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg wedi cynyddu £3.2m yn 2023-24 a £3.1m yn 2024-25 fel y crynhoir isod.

| **Addysg a'r Gymraeg: Dyraniadau Cyllidebol heb fod yn arian parod** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2023-24** | **2024-25** |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** |
| CCAUC yn newid yn CTER | Diwygio Addysg Ôl-orfodol a Hyfforddiant | 650 | 650 |
| Amorteiddio yn gysylltiedig â Thrwydded Microsoft Genedlaethol Hwb | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 2,488 | 2,488 |
| Dibrisiant Comisiynydd y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | 49 | 1 |
| **Cyfanswm Heb Fod yn Arian Parod o Gronfeydd wrth Gefn** | | **3,187** | **3,139** |

### *Cyfalaf*

1.1.7 Nid oedd unrhyw ddyraniadau cyfalaf i Gymru yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU ac, felly, nid yw'r cynlluniau cyfalaf wedi newid o gymharu â chyllidebau dangosol a bennwyd yn flaenorol ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Pennodd cyllideb ddrafft y flwyddyn ddiwethaf gynlluniau cyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf tan 2024-25, gan gynnwys £300m y flwyddyn ar gyfer Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, £20m y flwyddyn ar gyfer Addysg Uwch, £15m y flwyddyn ar gyfer cyfalaf cyfrwng Cymraeg a £25m yn 2023-24 a 2024-25 ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (gweler 2.21-2.23).

1.1.8 Nid oes unrhyw newidiadau i gyfalaf Trafodiadau Ariannol yn y gyllideb hon. Yn unol â'r flwyddyn ddiwethaf, caiff cyfalaf Trafodiadau Ariannol ei ddyrannu fel rhan o Gyllideb Derfynol 2023-24.

### *Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)*

1.1.9 Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn gysylltiedig â benthyciadau myfyrwyr a arweinir gan alw ac sy'n sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macroeconomaidd eraill ac felly mae'n anodd ei rhagamcanu. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i hariennir yn llawn. Mae ffigurau Cyllideb ddrafft AME yn adlewyrchu'r rhagamcanion a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Awst 2022.

## 1.2 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb

1.2.1 Ceir dadansoddiad o'r newidiadau i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn ôl y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn **Atodiad A**. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23, alldro rhagamcanol 2022-23 (cyfnod 7) ac alldro terfynol 2021-22 fel y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor. Hefyd ceir sylwadau yn egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant yn **Atodiad B**. Darparwyd esboniad naratif tryloyw er mwyn egluro cynnydd a gostyngiadau, lle na chwmpesir hynny yn y papur tystiolaeth, a chadarnhad o ble y mae'r trosglwyddiadau wedi'u dyrannu iddo/ohono. Ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, mae'r dyraniadau dangosol a gyflwynir yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 wedi'u defnyddio fel y gyllideb sylfaen at ddibenion cymharu.

## 1.3 Blaenoriaethau Addysg a Blaenoriaethau Strategol Eraill

1.3.1 Yn anad dim, ein cenhadaeth genedlaethol yw mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a phennu safonau uchel i bawb fel y gallwn gefnogi pob dysgwr. Mae ein Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i weithredu ein rhaglen diwygio addysg hirdymor, a sicrhau bod anghyfartaleddau addysgol yn lleihau a bod safonau yn codi. Addysg yw un o'n hadnoddau mwyaf pwerus i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac mae'n fuddsoddiad allweddol yn ein dyfodol. Mae addysg yn chwarae rôl allweddol er mwyn helpu pobl Cymru i ddelio â'r argyfwng costau byw.

1.3.2 Felly, ein blaenoriaeth o hyd yw sicrhau bod gennym ddigon o gyllid er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i fuddsoddi yn y Grant Datblygu Disgyblion (GDD). I'r perwyl hwnnw, gan adeiladu ar y cyllid ychwanegol gwerth £20m a fuddsoddwyd yng nghyllideb y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn dyrannu £9m arall i'r GDD o 2023-24 ymlaen er mwyn cefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn economaidd (ceir manylion llawn yn adran 2.3).

1.3.3 Mae'r gyllideb ddrafft yn cefnogi blaenoriaethau a meysydd gwaith allweddol o dan y Rhaglen Lywodraethu. Er mwyn cefnogi ein diwygiadau addysg a sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial, byddwn hefyd yn rhoi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith. Yn dilyn y £7m ychwanegol a ddyrannwyd y llynedd o 2022-23 ymlaen, rydym yn buddsoddi £4.5m arall o 2023-24 ymlaen er mwyn helpu i drosglwyddo plant a phobl ifanc i'r system newydd (ceir manylion pellach yn adran 2.10).

1.3.4 Gan gydnabod yr effaith y mae pandemig COVID-19 wedi'i chael ar blant a phobl ifanc ac er mwyn eu helpu i adfer, rydym yn parhau i fuddsoddi yn y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau er mwyn ariannu hyd at 1,800 o aelodau ychwanegol o staff mewn ysgolion

er mwyn helpu dysgwyr i adfer, gyda buddsoddiad ychwanegol gwerth £5.5m o 2023-24 ymlaen. Bydd cyllid yn parhau i gael ei dargedu at y dysgwyr mwyaf agored i niwed a mwyaf difreintiedig.

1.3.5 Rydym hefyd yn parhau â'r buddsoddiad ychwanegol a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i gefnogi'r ymrwymiadau eraill yn y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys:

- cefnogi Taith, sef ein Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu, gyda chyllid gwerth £8.1 miliwn y flwyddyn (gweler adran 2.19);
- Parhau â'r cyllid ychwanegol gwerth £3m o 2022-23 ymlaen er mwyn darparu £4.5m y flwyddyn ar gyfer y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol;
- Parhau â'r buddsoddiad ychwanegol gwerth £2.5m yn 2023-24 a £0.4m arall yn 2024-25 er mwyn datblygu argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim a gweithredu arnynt er mwyn atgyfnerthu darpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae hyn yn cynyddu cyfanswm y ddarpariaeth i £4.9m erbyn 2024-25 (gweler adran 2.15);
- Cryfhau ein darpariaeth addysg Gymraeg drwy barhau i ddyrannu £2.2m y flwyddyn er mwyn ehangu ein rhaglen trochi hwyr cyfrwng Cymraeg a pharhau â'r buddsoddiad ychwanegol gwerth £3.5m erbyn 2024-25 er mwyn helpu Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg a helpu pob athro i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg (gweler adran 2.13);
- Parhau i gynnig darpariaeth gwnsela ychwanegol, gyda'r cyllid yn cynyddu i £4m erbyn 2024-25 (gweler adran 2.6).

1.3.6 Mae'r gyllideb hon hefyd yn parhau â'r dyraniadau cyllidebol hynny a gyhoeddwyd y llynedd fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, yn benodol:

- refeniw gwerth £70m yn 2023-24 a £90m yn 2024-25 er mwyn cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yn ystod oes y cytundeb (gweler adran 2.3);
- £4.5m yn 2023-24 ac £8m yn 2024-25 i sicrhau y gall y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gynyddu cyfran y prentisiaethau a'r cyfleoedd addysg bellach sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a darparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed (gweler adran 2.19).

1.3.7 Fel rhan o baratoadau cyllidebol, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a minnau wedi cael sawl cyfarfod dwyochrog i drafod lefel yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol, gan gynnwys cyllid craidd i ysgolion a ddarperir drwy'r setliad Llywodraeth Leol (gweler adran 2.1). O ran effeithiau trawsbynciol ein cynlluniau gwariant, mae cefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i'r argyfwng costau byw, yn ogystal â darparu cyllid i gefnogi llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yn dal i fod yn flaenoriaeth wrth ddyrannu adnoddau.

1.3.8 Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau, yn enwedig wrth i ni fynd ati i adfer ar ôl y pandemig. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae gennym brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein cydberthnasau â phartneriaid cyflawni. Mae'r cynigion cyllidebol hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cymaint â phosibl.

## 1.4 Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

*Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant*

1.4.1 Rydym yn parhau i faentumio bod dull integredig o gynnal asesiadau effaith yn ein galluogi i ddeall effaith penderfyniadau gwario yn well, er mwyn deall effaith groestoriadol ac anfwriadol gwariant yn well a sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

1.4.2 Ar y llaw arall, mae risg y bydd ystyried maes effaith ar ei ben ei hun yn cael canlyniadau anfwriadol megis yr effaith negyddol mewn un maes yn cael ei llywio gan effaith gadarnhaol mewn maes arall. Gall gwell dealltwriaeth o'r ffordd mae gwahanol feysydd wedi'u hintegreiddio ei gwneud yn bosibl i gyllid gael ei dargedu'n well, gan sicrhau y gall gael yr effaith fwyaf bosibl.

1.4.3 Credwn fod dull gweithredu o'r fath yn ein galluogi i roi ystyriaeth gytbwys a dyledus yn fwy effeithiol i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r dull hwn o weithredu yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth a gwybodaeth gan gynnwys asesiadau manwl o effaith polisi, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, eu cynnal fel rhan o'n prosesau parhaus ar gyfer datblygu ac adolygu polisïau.

1.4.4 Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn ystyried sut rydym yn cynnal ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol. Sefydlwyd is-grŵp ac mae cynllun gwaith a rennir yn cael ei ddatblygu gyda rhai newidiadau a wnaed i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â dogfennaeth y gyllideb ddrafft ar 13 Rhagfyr 2022. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i adolygu ein dull o asesu effeithiau yn barhaus fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb blynyddol a byddem yn fodlon ystyried sut y gallwn adlewyrchu hawliau plant yn well fel rhan o'r gwaith hwn. Rydym yn fodlon cynnig sesiwn friffio dechnegol ar yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a'r gwelliannau rydym yn eu gwneud drwy Gynllun Gwella'r Gyllideb i'r Pwyllgor.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

1.4.5 Rydym yn parhau i gael ein llywio gan y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau. Rydym yn cydnabod yr angen i gydweithio â'n partneriaid a defnyddio adnoddau ein gilydd yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd i ddod. Mae ein buddsoddiad ychwanegol yn y GDD ac ADY yn cydnabod pwysigrwydd blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol.

1.4.6 Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac arbenigwyr amrywiol i asesu'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae ein cwricwlwm newydd yn eang, yn gytbwys, yn gynhwysol ac yn heriol. Hefyd rydym yn cydnabod na fydd diwygio'r cwricwlwm ar ei ben ei hun yn sicrhau newid cynaliadwy. Mae'r cwricwlwm newydd wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at bob un o'r nodau llesiant cymaint â phosibl.

## 1.5 Costau Deddfwriaeth

***Manylion dyraniadau yng nghyllideb 2023-24 a fwriedir i weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a diwygiadau cysylltiedig i gymwysterau.***

1.5.1 Nodir y costau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ar waith yn adran 2.5 sy'n ymdrin â diwygio'r cwricwlwm.

***Manylion dyraniadau ar gyfer rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach ar waith.***

1.5.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran cyflwyno Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, y Cod ADY a rheoliadau ategol. Dechreuodd yr ail flwyddyn weithredu ym mis Medi 2022 ac mae'r system yn barod i gael ei rhoi ar waith.

1.5.3 Rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn y rhaglen Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn parhau i wneud cynnydd o ran rhoi'r system ADY ar waith a symud plant a phobl ifanc i'r system honno dros y tair blynedd nesaf.

1.5.4 Mae'r gyllideb yn sicrhau buddsoddiad gwerth £14.165m yn y costau sy'n gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Gweithredu ADY ehangach yn 2023-24, a delir o Linell Wariant yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ceir rhagor o fanylion am gyllid ADY ehangach yn adran 2.10.

***Manylion dyraniadau yng nghyllideb 2023-24 a fwriedir i weithredu diwygiadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil.***

1.5.5 Y gyllideb refeniw a ddyrannwyd ar gyfer rhoi'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil ar waith, gan gynnwys sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER), yw £6m yn 2023-24 a 2024-25. Mae'r cyllid a ddyrannwyd yn talu'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â chreu'r Comisiwn a'i gostau cylchol. Ni fydd y gostyngiad o £1m o'r swm dangosol a ddyrannwyd yng nghyllideb ddrafft y flwyddyn ddiwethaf yn effeithio ar y broses o roi Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ar waith a sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu asesiad diwygiedig o'r cyllid sydd ei angen i roi'r Ddeddf ar waith o gymharu â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol, yn unol â'r amserlen a amlinellwyd i'r Pwyllgor yn fy llythyr dyddiedig 23 Tachwedd 2022. Nid oes unrhyw effeithiau ar ddarpariaeth sydd wedi'u hasesu'n llawn: Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) – asesiad effaith.

1.5.6 Mae dyraniad ychwanegol gwerth £0.65m ar gyfer dibrisiant nad yw'n arian parod ar sail buddsoddiad cyfalaf mewn TG a'r costau sefydlu. Mae'r ddarpariaeth gyfalaf gwerth £3.9m wedi'i chynnwys yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg. Mae'r cyllid a ddyrannwyd yn talu'r costau trosiannol sy'n gysylltiedig â chreu'r Comisiwn a'i gostau cylchol.

***Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU.***

1.5.7 Roedd Deddf y Coronafeirws 2020, a basiwyd gan Lywodraeth y DU, yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i gymryd camau priodol er mwyn diogelu ysgolion a disgyblion. Cynhaliwyd asesiadau effaith unigol, gan gynnwys datblygu Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, lle roedd angen.

***Goblygiadau Ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2023-24.***

1.5.8 Mae'r gyllideb yn parhau i gyfrif am is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2022-23. Mae asesu costau rhoi deddfwriaeth ar waith a'r effaith ar y rhai sy'n destun deddfwriaeth yn rhan hanfodol o sicrhau bod egwyddorion “Cyfraith Dda” yn cael eu dilyn. Mae rheoliadau drafft yn destun asesiad cadarn o gostau a buddiannau, a gyflawnir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, wrth ddatblygu asesiadau effaith rheoleiddiol. Diben hyn yw sicrhau bod ein penderfyniadau yn cael eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

## 1.6 Effaith pandemig COVID-19

***Gwybodaeth am effaith y pandemig ar Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2022-23 ac unrhyw oblygiadau parhaus yn 2023-24, gan gynnwys diweddariad ar y trefniadau cyllidebol i ddarparu ar eu cyfer, er enghraifft, a oes Cronfa wrth Gefn ganolog ar gyfer COVID-19 o hyd neu a ddisgwylir bellach i gyllidebau amsugno costau.***

1.6.1 Mae toreth o dystiolaeth yn dod i'r amlwg ar effaith negyddol pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn parhau i fonitro, adolygu ac asesu tystiolaeth ac effeithiau'r pandemig. Mewn ymateb i'r argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, rwyf wedi ymrwymo i ddarparu diweddariadau bob chwe mis ar yr adferiad ar ôl pandemig COVID-19 a sut rydym yn helpu ein plant a'n pobl ifanc i ddod dros yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar eu cynnydd addysgol. Caiff y diweddariad cyntaf ei anfon at y Pwyllgor yn fuan a chaiff ei gyflwyno yn y cyfarfod ar 15 Rhagfyr.

1.6.2 Amlinellodd y cynllun Adnewyddu a Diwygio, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 ac a ddiweddarwyd ym mis Medi 2021, ein hymrwymiad i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19. Roedd y cynllun yn cefnogi system addysgol gadarn sydd wedi'i hadfywio ac yn canolbwyntio ar ddiwygio, sy'n rhoi lles ac iechyd corfforol a meddyliol dysgwyr wrth wraidd ei dull gweithredu.

1.6.3 Nid oes unrhyw Gronfa wrth Gefn ganolog ar gyfer COVID-19 ar waith o 2022-23 ymlaen. Yn lle hynny, rhaid i gostau sy'n gysylltiedig ag ymateb i effeithiau'r pandemig eu hamsugno yng nghyllidebau presennol Prif Grwpiau Gwariant. Fel rhan o'r gyllideb hon, rydym yn buddsoddi £5.5m ychwanegol o 2023-24 ymlaen er mwyn cefnogi'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau. Mae'r rhaglen wedi recriwtio a chadw 1,800 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn er mwyn datblygu adnoddau a meithrin gallu i gefnogi dysgwyr yn sgil y pandemig, yn unol â'r ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn sicrhau y gallwn gynnal cyllid yn 2023-24 ar £37.5m, gyda chyllid yn lleihau yn ôl y bwriad ond ar lefel uwch ar gyfer 2024-25, sef £28.5m.

***Manylion a dadansoddiad o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer ymateb y sector addysg i'r pandemig, yn 2021-22 a 2022-23, yn ogystal ag unrhyw ddyraniad yn 2023-24 (sydd i bob diben yn ddiweddariad o baragraffau 1.6.3-1.6.6 ym mhapur y flwyddyn ddiwethaf).***

1.6.4 Rydym wedi darparu cyllid gwerth ychydig o dan £500m er mwyn cefnogi ymateb y system addysg i COVID-19 yn ystod y pandemig. O'r cyllid hwn, dyrannwyd £278m yn 2021-22:

- £68.9m i gefnogi'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau;

- £31m i ysgolion a cholegau ddarparu cymorth dysgu i Flynyddoedd 11, 12 a 13 sy'n symud ymlaen i ysgolion, AB ac AU;
- £23m i ariannu amrywiaeth o weithgareddau yn y rhaglenni 'haf o hwyl' a 'gaeaf llawn lles';
- £11.4m i alluogi hyd at 1,400 o athrawon i gwblhau eu cymwysterau'n hyderus a symud i mewn i addysgu;
- £0.2m i ymestyn rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau;
- £15m ar gyfer technoleg addysgol mewn ysgolion;
- £33m i gefnogi dysgwyr ôl-16 sy'n dechrau cyrsiau newydd mewn ysgolion, y chweched dosbarth ac AB;
- £0.65m ar gyfer e-adnoddau i gefnogi dysgu cyfunol ac adolygu;
- £13m i gefnogi darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a lleoliadau nas cynhelir;
- £23.8m o gyllid ychwanegol i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol;
- £10m ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, mewn ymateb i bwysau yn deillio o bandemig COVID-19;
- £2m i gynyddu cynllun Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion (GDD);
- £4.85m i gefnogi rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf;
- £6.25m i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ysgolion, a datblygu cadernid ar gyfer achosion pellach o COVID-19 a chynllunio tymor hwy;
- £1.5m ar gyfer y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol (NSERE) i gefnogi'r Rhaglen Adnewyddu a Diwygio;
- £2.4m i gefnogi'r Gymraeg, yn cynnwys darpariaeth trochi hwyr a'r Eisteddfod Genedlaethol;
- £10m i gynyddu cyfleoedd PLA;
- £5.1m i ddarparu llyfrau a deunyddiau i ysgolion ac yn uniongyrchol i ddysgwyr fel rhan o gynllun gweithredu llafaredd a darllen plant;
- £5.5m i brynu offerynnau cerdd ar gyfer prosiectau dosbarth cyfan;
- £7.1m i ddarparu adnoddau ar gyfer ysgolion ac Awdurdodau Lleol er mwyn iddynt fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â thegwch a waethygwyd gan bandemig COVID-19;
- £0.05m i brynu a dosbarthu fersiynau Cymraeg a Saesneg o 'History Grounded' i bob ysgol;
- £3m ar gyfer ymyriadau peilot wedi'u targedu ar gyfer darpariaeth Ôl-16 a blynyddoedd pontio.

1.6.5 Wrth i'r rhaglen ddod i ben, parhaodd llawer o elfennau o gyllid fel rhan o'r trefniadau busnes fel arfer. Roedd cyllidebau 2022-23 yn cynnwys y cyllid canlynol sy'n ymwneud ag Adnewyddu a Diwygio:

- £37.5m i barhau â'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau;
- £5.33m i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ysgolion;
- £7m ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- £2m ar gyfer darpariaeth gwnsela ychwanegol (iechyd meddwl pobl ifanc);
- £3.5m ar gyfer presenoldeb i gefnogi ac annog dysgwyr sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio.

1.6.6 Yn 2023-24, byddwn yn parhau i gefnogi pob un o'r meysydd hyn, gyda £4.5m ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (adran 2.10); a chynnal y dyraniad ar gyfer y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau ar £37.5m y bwriadwyd iddo ddechrau lleihau yn 2023-24.

***Statws "Adnewyddu a Diwygio", sef y cynllun adfer addysg ar ôl pandemig COVID-19 , ac a yw'n dal i gael cyllid dynodedig.***

1.6.7 Fel yr amlinellwyd uchod, mae diweddariad ar adfer ar ôl pandemig COVID-19, gan gynnwys cynllun adfer Adnewyddu a Diwygio, wedi'i roi i'r Pwyllgor. Er bod y rhaglen Adnewyddu a Diwygio bellach wedi dod i ben, mae cyllid i barhau i helpu plant a phobl ifanc i ddod dros effaith y pandemig wedi'i brif ffrydio i weithgarwch busnes fel arfer. Mae Prosiect Parhad Dysgu wedi'i sefydlu, gan ystyried agweddau ar raglen Adnewyddu a Diwygio.

## 1.7 Effaith Brexit

***Diweddariad ar b'un a oes i ymadawiad y DU â'r UE unrhyw oblygiadau ariannol penodol i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg 2023-24, ac unrhyw ddyraniadau a wnaed i'w lliniaru.***

1.7.1 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw brosiectau Ewropeaidd o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ac, felly, nid oes unrhyw effaith ar ddyraniadau cyllidebol ar gyfer 2023-24. Er i gymhorthdal yr UE ar gyfer llaeth mewn ysgolion gael ei dynnu'n ôl, a oedd yn cyfateb i tua £0.5m y flwyddyn, rydym wedi llwyddo i gynnwys costau llawn y cynllun yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Bwyd a Maeth mewn Ysgolion.

1.7.2 Rhoddir rhagor o fanylion am y Rhaglen ILE (Taith), a gyhoeddwyd yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i dynnu'n ôl o gynllun Erasmus+, yn adran 2.19. Mae'n golygu y gall Cymru a'i phartneriaid rhyngwladol barhau i fanteisio ar drefniadau cyfnewid mewn ffordd debyg i'r cyfleoedd a ddeilliodd o Erasmus+, yn Ewrop ac ymhellach i ffwrdd.

## 1.8 Effaith pwysau costau byw ar y ffordd y darperir gwasanaethau addysg

***Gwybodaeth am effaith pwysau costau a phrisiau ynni uchel ar ddarpariaeth weithredol sefydliadau addysg – yn y blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant.***

1.8.1 Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae costau ynni, yn enwedig pris cyfanwerthu nwy, trydan a thanwydd cerbydau modur wedi cynyddu i lefelau nas gwelwyd o'r blaen a gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd ym mhrisiau bwyd ac adnoddau megis pren a deunyddiau eraill. Er bod Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni Llywodraeth y DU wedi rhoi rhywfaint o ryddhad yn y byrdymor, rydym yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd yn ddigon, gan fod busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu cynnydd o hyd at bum gwaith yn eu biliau ynni. Dim ond rhyddhad dros dro a rydd y mesurau ac nid ydynt yn rhoi fawr ddim sicrwydd er mwyn helpu ein gwasanaethau cyhoeddus i gynllunio at y dyfodol.

1.8.2 Mae costau ynni a chwyddiant uchel a wynebir gan bob gwasanaeth, gan gynnwys ysgolion, wedi effeithio ar awdurdodau lleol. Mae trafodaethau ag awdurdodau lleol wedi cadarnhau bod y Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni yn annhebygol o fod o fudd i lawer o ysgolion yng Nghymru gan fod gan lawer ohonynt gontractau eisoes, sy'n well na'r cap ar brisiau a gynigir, tan ddiwedd y flwyddyn ariannol pan ddaw'r cynllun i ben.

1.8.3 Ar gyfer y sector AB, ym mlynyddoedd academaidd 2021/22 a 2022/23, darperais gyllid ychwanegol er mwyn helpu i dalu costau uwch nwyddau traul (gan gynnwys bwyd yn

2022/23) er mwyn sicrhau na fydd dysgwyr galwedigaethol o dan anfantais wrth gwblhau eu llwybrau galwedigaethol. Ar gyfer 2022/23, roedd hyn yn cyfateb i £2.583m ychwanegol.

1.8.4 Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r sector AB er mwyn nodi cynnydd mewn costau eraill megis costau ynni a chludiant, gyda llawer yn rhagweld cynnydd o hyd at 200% ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Yn debyg iawn i sectorau eraill, mae'r sefyllfa hon sy'n cynnwys llawer o senarios yn newid drwy'r amser a bydd swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector er mwyn nodi unrhyw arbedion effeithlonrwydd posibl wrth brynu ynni.

1.8.5 Ym mis Tachwedd 2021, gwnaed ymrwymiad a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob prosiect o dan don fuddsoddi bresennol Band B yn y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, nad oedd ei achos busnes amlinellol wedi'i gymeradwyo erbyn 1 Ionawr, gael ei gyflawni i safon Carbon Sero Net. Er mwyn helpu awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach i dalu'r costau cyfalaf ychwanegol sy'n gysylltiedig â datblygu a darparu amgylcheddau dysgu Carbon Sero Net newydd ac wedi'u hadnewyddu, gwnaed ymrwymiad pellach i ddarparu cyllid i dalu'r holl gostau ychwanegol (hyd at 12.5% o gost gros prosiect) rhwng bodloni gofyniad safonol Rhagorol BREEAM a gofyniad safon Carbon Sero Net.

1.8.6 Yn debyg i weddill cymdeithas, mae pwysau costau byw a phwysau chwyddiannol eraill yn effeithio ar Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau). Maent yn parhau i dalu costau mesurau i gefnogi staff a myfyrwyr drwy'r argyfwng costau byw parhaus o'u hadnoddau eu hunain.

### 1.9 Monitro'r gyllideb

***Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau drwy gydol y flwyddyn, nodi diffygion a gwargedion posibl a chymryd camau unioni neu ddyrannu cyllid ychwanegol i ddarparu ar gyfer unrhyw ddiffygion, yn enwedig yn sgil y pandemig.***

1.9.1 Mae'r holl gyllidebau yn dal i gael eu monitro a'u herio bob mis yn ystod 2022-23, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau yn y gyllideb fel sydd angen. Caf ddiweddariadau ariannol rheolaidd ar y rhagolygon ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant er mwyn sicrhau bod cyllidebau yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyflawni blaenoriaethau. Gwnawn waith monitro gofalus iawn er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae ei angen orau wrth gefnogi ein blaenoriaethau – yn y man cywir, ar yr adeg gywir.

***Manylion unrhyw newidiadau i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg 2022-23 a ragwelir eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol.***

1.9.2 Cynllunnir nifer o drosglwyddiadau bach ar gyfer Ail Gyllideb Atodol 2022-23, a fydd yn golygu cynnydd net o £2.4m ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg. Fe'u crynhoir yn y tabl yn **Atodiad C** (sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu'r papur hwn).

## 2. <u>Meysydd penodol</u>

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol ar gais y Pwyllgor.

### 2.1 Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

***Esboniad o'r ffordd mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 (ym Mhrif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol a Phrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg) ac wedi cyfrif am adolygiad Sibieta o wariant ysgolion wrth fynd ati i bennu'r gyllideb hon.***

2.1.1 Y brif ffynhonnell cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yw'r cyllid a roddir i awdurdodau lleol drwy'r setliad llywodraeth leol. Mae £227m ychwanegol yn 2023-24 a £268m ychwanegol yn 2024-25 yn cael eu darparu drwy'r setliad llywodraeth leol er mwyn cefnogi pob gwasanaeth, gan gynnwys ysgolion. Mae hyn yn adeiladu ar y setliad uwch a ddarparwyd fel rhan o Adolygiad o Wariant y flwyddyn ddiwethaf.

2.1.2 Er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bennu cyllidebau ysgolion, rydym yn parhau i ddarparu cryn dipyn o gyllid grant o'n cyllideb Addysg er mwyn cefnogi gwariant o fewn rhaglenni ysgolion, rhaglenni athrawon a rhaglenni addysg ehangach ac arnynt. Mae'r cyllid grant refeniw a ddarparwyd drwy Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg i gefnogi awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn fwy na £580m ar gyfer 2023-24.

2.1.3 O ganlyniad i benderfyniadau gwario a wnaed gan Lywodraeth y DU ar gyfer addysg yn Lloegr, cafodd Cymru gyllid ychwanegol yn 2023-24 a 2024-25 yn Natganiad yr Hydref. Er ei bod yn un o egwyddorion pwysig datganoli nad yw'r cyllid a gaiff Cymru o ganlyniad uniongyrchol i fesurau gwario a gyhoeddir yn Lloegr wedi'i glustnodi at ddibenion penodol, mae'r cyllid hwn yn cael ei drosglwyddo'n llawn i awdurdodu lleol ar gyfer ysgolion. Mae'r cyllid yn cael ei gyfeirio'n bennaf drwy'r setliad llywodraeth leol gyda chynnydd bach i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg.

2.1.4 Mae adolygiad Luke Sibieta o wariant ysgolion yng Nghymru yn darparu tystiolaeth werthfawr i lunwyr polisi i lywio penderfyniadau ynghylch cyllid a pholisi yn y dyfodol. Mae'r dystiolaeth hon yn parhau i gael ei hystyried fel rhan o baratoadau cyllidebol 2023-24. Nodwyd nifer o feysydd yn yr adroddiad lle dylid cyfeirio cyllid ychwanegol. Roedd cyllid amddifadedd yn faes allweddol, ac argymhellwyd y dylid cyflawni hyn drwy grantiau penodol, gan gynnwys y GDD. Yn y gyllideb hon, rydym yn dyrannu £9m arall i gefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn economaidd drwy'r GDD.

***Diweddariad ar y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda rhanddeiliaid er mwyn ystyried diwygiadau i Reoliadau Cyllid Ysgolion (Cymru) 2010 (y cyfeirir atynt yn llythyr y Gweinidog i'r Pwyllgor dyddiedig 20 Gorffennaf 2022).***

2.1.5 Mae ymarfer ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid er mwyn ceisio eu barn ar adolygiad arfaethedig a diwygiadau posibl i Reoliadau 2010 wedi'i gynnal. Yn dilyn yr ymgynghoriad anffurfiol, dadansoddwyd yr ymatebion a sefydlwyd gweithgor sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol ar ddiwygiadau arfaethedig ar ddechrau 2023.

***Unrhyw ystyriaeth a roddwyd wrth bennu cyllideb 2023-24 er mwyn adlewyrchu argymhelliad Sibieta y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i adrannau chweched dosbarth.***

2.1.6 Mae nifer mawr o bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru yn mynd i goleg er mwyn parhau â'u haddysg ôl-16, gan gynnwys mwy na thraean o ddarpariaeth Safon Uwch yng Nghymru. Felly, mae'n bwysig ystyried argymhellion yr adolygiad hwn mewn perthynas â'r garfan gyfan o bobl ifanc 16-18 oed, ac nid dim ond adrannau chweched dosbarth.

2.1.7 Ers i adroddiad Luke Sibieta gael ei gyhoeddi yn 2019, mae'r model cyllido wedi'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn demograffeg er mwyn adlewyrchu'n fwy cywir y cyllid sydd ei angen yn y sector. O ganlyniad, ar gyfer adrannau chweched dosbarth, cynyddodd y gyllideb o £90.728m yn 2019-20 i £105.477m 2022-23, sef cynnydd o 16.26%. Ar gyfer colegau AB, cynyddodd y gyllideb o £300.455m yn 2019/20 i £368.765m yn 2022/23, sef cynnydd o 22.74% mewn cyllid.

2.1.8 Unwaith eto, bydd dyraniadau 2023-24, unwaith y cytunir arnynt, yn blaenoriaethu darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed ac yn cydnabod unrhyw newidiadau demograffig yn y garfan.

## 2.2 Cyllid i wella ysgolion

***Esboniad o'r ffordd mae Cyllideb Ddrafft 2023-24 yn helpu i wella ysgolion a chodi safonau addysg.***

2.2.1 Mae cyllidebau ar draws Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cefnogi'r gwaith o wella ysgolion a chodi safonau ysgolion; mae codi safonau ysgolion yn amcan sylfaenol o ran diwygio addysg. Mae gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir drwy awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol hefyd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Fel rhan o gyllideb y flwyddyn ddiwethaf, mae £25.5m a ddyrannwyd drwy'r gyllideb Codi Safonau Ysgolion wedi'i brif ffrydio i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn y Prif Grŵp Gwariant sy'n cefnogi amrywiaeth o weithgareddau gwella ysgolion, gan gynnwys Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol, presenoldeb a chyrhaeddiad ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

2.2.2 Rydym hefyd wedi parhau i ddarparu cyllid ychwanegol a oedd yn rhan o'r Rhaglen Adnewyddu a Diwygio yn wreiddiol. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o wella ysgolion a chodi safonau ysgolion, er enghraifft drwy'r Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau sy'n darparu swyddi ychwanegol er mwyn diwallu anghenion pob dysgwyr yn dilyn effeithiau'r pandemig.

***Manylion dyraniadau Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol yn 2022- 23, wedi'u dadansoddi yn ôl 'amcan' a disgrifiad o'r cyllid (neu ba benawdau bynnag sy'n briodol) – sydd i bob pwrpas yn ddiweddariad o Atodiad E i bapur y flwyddyn ddiwethaf. Manylion am faint o Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol a dalwyd i bob consortiwm a/neu awdurdod lleol yn 2022- 23.***

2.2.3 Mae'r tablau yn **Atodiad D** yn dadansoddi Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol sy'n cyfateb i £162.8m ar gyfer 2022-23, ynghyd â chyfanswm y cyllid yn ôl consortiwm neu awdurdod lleol.

***Gwybodaeth am elfen Grant Gwella Addysg Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol a diweddariad ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio'n strategol a bod ei effaith yn cael ei gwerthuso.***

2.2.4 Y Grant Gwella Addysg yw £120.159m ar gyfer 2022-23 ac fe'i defnyddir i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer ysgolion a'r sector addysg. Mae'r cyllid hwn yn cael ei gynnal ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Er bod y Grant Gwella Addysg wedi gallu cael ei ddefnyddio'n hyblyg gan gonsortia rhanbarthol i gefnogi ein blaenoriaethau cenedlaethol, mae'n parhau i ganolbwyntio ar y Cyfnod Sylfaen, cefnogi Cynlluniau Strategol Cymraeg

mewn Addysg a gwella addysgu a dysgu yn bennaf. Rhaid cynnal cyfradd ddirprwyo i ysgolion o 80% o leiaf ac mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd ynghylch hyn.

2.2.5 Telerau ac amodau'r grant yw'r dull o sicrhau y glynir wrth gymarebau staff i ddisgyblion mewn ysgolion. Mae'n ofynnol i gonsortia bennu eu fformiwla dosbarthu i ysgolion er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni'r cymarebau a argymhellir i gyflawni Cyfnod Sylfaen o'r radd flaenaf. Hefyd rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi ymarferwyr Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir i ddarparu addysg o'r radd flaenaf.

2.2.6 Disgwylir i gonsortia rhanbarthol ddangos tystiolaeth o elfennau ychwanegol y cyllid a'u heffaith. Caiff y gwaith o gyflwyno'r cyllid ei fonitro drwy gerrig milltir a dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yng nghynlluniau busnes consortia.

***Diweddariad ar yr adolygiad arfaethedig o Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol (y cyfeirir ato yn llythyr y Gweinidog dyddiedig 22 Gorffennaf 2022).***

2.2.7 Mae'r blaenoriaethau a nodir yng Ngrant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol wedi'u cydgrynhoi yn ystod y ddau gyfnod grant diwethaf. Gwnaed hyn mewn ymgynghoriad â'r consortia a phartneriaethau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y broses gydgrynhoi a'r angen i sicrhau bod gwariant Llywodraeth Cymru yn y gwahanol feysydd polisi yn ddigon tryloyw.

2.2.8 Oherwydd y cymhlethdodau yn y system gyllido a'r argymhelliad ynghylch tryloywder cyllid consortia a wnaed yn yr Adolygiad o Gyllid Ysgolion, rydym wedi dechrau ar adolygiad o'r Grant Gwella Addysg sy'n rhan o Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol ar hyn o bryd. Rydym wedi bod yn ymgynghori â chonsortia a phartneriaethau awdurdodau lleol i gael gwybodaeth er mwyn meithrin dealltwriaeth glir o fodelau'r Grant Gwella Addysg a ddefnyddir yn y rhanbarthau fel rhan o'r broses hon.

## 2.3 Lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol

***Gwybodaeth am y ffordd y mae adnoddau ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cael eu defnyddio i gyflawni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol (yn sgil ymrwymiad y Gweinidog i wneud penderfyniadau o safbwynt anghenion dysgwyr a'u llesiant, gan ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau addysgol a sicrhau'r deilliannau gorau i bawb).***

2.3.1 Rydym wedi nodi'n glir bod mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad wrth wraidd ein cenhadaeth genedlaethol ym maes addysg. Mae gwrthsefyll effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc wrth wraidd ein GDD blaenllaw. O flwyddyn i flwyddyn, rydym wedi ymestyn y GDD er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gyda chyllid o fwy na £130m ar gyfer 2022-23.

2.3.2 Byddwn yn adeiladu ar arferion effeithiol presennol drwy sicrhau ein bod yn targedu'r cyllid er mwyn cael yr effaith fwyaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr rhanbarthol GDD i nodi'r meysydd hynny lle gall cyllid gael yr effaith fwyaf, yn enwedig yng nghyd-destun argymhellion adroddiad Luke Sibieta ar yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru, gan flaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion mwy difreintiedig a gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau fformiwlâu cyllido ysgolion mwy cyson a thryloyw.

2.3.3 Er mai ysgolion a ddylai benderfynu yn y pen draw sut y defnyddir y GDD, mae angen dylanwadu'n fwy strategol ar y penderfyniadau hyn a sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth well ac yn cael eu monitro'n ofalus i weld pa effaith y maent yn ei chael. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi diweddaru telerau ac amodau'r grant a byddwn yn llunio canllawiau newydd i ysgolion ar sut i ddefnyddio'r GDD gan weithio'n agos gyda'r Sefydliad Gwaddol Addysgol. Rydym hefyd yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor sy'n gwneud gwaith ymchwil ar Dargedu Cyllid Amddifadedd Ysgolion yn Effeithiol yng Nghymru.

2.3.4 Mae Plant sy'n Derbyn Gofal ymhlith ein plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed. Yn ogystal â chymorth drwy'r GDD, ers 2021-22 rydym wedi rhoi cyllid grant cychwyn i sawl awdurdod lleol ledled Cymru er mwyn rhoi model Ysgolion Rhithwir ar waith y bwriedir iddo wella profiadau a deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol. Y gyllideb ar gyfer 2022-23 yw £1.1m a chynllun peilot parhaus yw hwn a fydd yn parhau tan ei flwyddyn olaf yn 2023-24.

2.3.5 Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol: *Buddsoddi yn amgylchedd dysgu Ysgolion Bro, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol.* Mae hyn yn rhan allweddol o'r gwaith o sicrhau cydraddoldeb addysgol drwy ein polisi ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae hefyd yn rhan o'n nod i greu cymunedau sy'n ffynnu, wedi'u grymuso ac sy'n gysylltiedig. Ein nod yw sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn Ysgol Fro - sy'n ymateb i anghenion eu cymuned, yn creu partneriaeth gref â rheini ac yn cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill.

2.3.6 Yn 2022-23, rydym wedi buddsoddi:

- £3.84m er mwyn cynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan ysgolion, y mae rhan o'u rôl yn canolbwyntio ar wella lefelau presenoldeb disgyblion, ac rydym yn bwriadu parhau i gyllido'r ddarpariaeth hon yn 2023-24;
- £660k er mwyn treialu cynllun i benodi rheolwyr ysgolion bro;
- cyfalaf gwerth £20m er mwyn i ysgolion allu datblygu ymhellach fel asedau cymunedol, gan wneud yr ysgol yn fwy hygyrch ac agored i'w chymuned leol (gweler adran 2.21).

***Manylion darpariaeth gyllidebol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) a chronfa Mynediad GDD ac esboniad o'r ffordd y bydd yn rhain yn parhau i gael eu targedu at y disgyblion mwyaf difreintiedig, o ystyried bod y prif feini prawf cymhwyso (sef cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim) yn symud i ddarpariaeth gyffredinol mewn ysgolion cynradd.***

2.3.7 Gan adeiladu ar yr £20m ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o Adolygiad o Wariant y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn dyrannu £9m arall i Linell Wariant yn y Gyllideb Grant Datblygu Disgyblion o 2023-24 ymlaen er mwyn cefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn economaidd. Ar gyfer 2023-24, rhagamcenir y bydd y ddarpariaeth gyllidebol yn cyfateb i £127.9m ar gyfer y GDD ac i £13.6m ar gyfer Mynediad GDD.

2.3.8 Cydnabu'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, wrth gynnig pryd ysgol am ddim i bob dysgwr o oedran ysgol gynradd, ei bod yn bosibl na fyddem yn gallu defnyddio cymhwystra i gael Prydau Ysgol am Ddim fel dangosydd procsi ar gyfer anfantais ymhlith plant yn y grŵp oedran hwn mwyach.

2.3.9 Nododd y Datganiad fod angen inni, felly, weithio'n agos gyda phartneriaid a phob rhan o'r Llywodraeth, er mwyn ystyried effaith unrhyw newidiadau posibl i'r ffordd rydym yn cofnodi'r unigolion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac unrhyw setiau data

cysylltiedig. Diben hyn yw sicrhau ein bod yn lleihau anwadalrwydd ar gyfer dyraniadau cyllid, yr hyn y mae gan ddysgwyr a theuluoedd hawl i'w gael a ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

2.3.10 Mae rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu hannog mewn ymgyrch gyfathrebu i barhau i gofrestru eu cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim am fod hyn yn rhan o'r meini prawf ar gyfer cyllid ar gyfer y GDD a Mynediad GDD (a ailfrandiwyd yn 'Hanfodion Ysgol').

***Gwybodaeth am y ffordd y mae adnoddau ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cael eu defnyddio er mwyn helpu dysgwyr mewn addysg ôl-16 i ymdopi ag effaith pwysau costau byw a mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau (gan gynnwys, er enghraifft, drwy gyllid caledi ychwanegol i ddarparwyr neu drwy gyllid cymorth presennol i fyfyrwyr megis Lwfans Cynhaliaeth Addysg).***

2.3.11 Gall dysgwyr amser llawn yng Nghymru gael addysg bellach am ddim, ni waeth beth fo'u hoedran, sy'n lleihau'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag cael addysg amser llawn. Mae methodoleg cyllido ôl-16 yn cynnwys cynnydd amddifadedd addysgol, sy'n dyrannu cyllid i Awdurdod Lleol neu goleg AB yn seiliedig ar bedwar degradd uchaf maes Addysg ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae hyn yn creu cynnydd o £3.394 yn y cyllid ar gyfer adrannau chweched dosbarth a chynnydd o £16.795m yn y cyllid ar gyfer colegau AB.

2.3.12 Gall y Gronfa Ariannol Wrth Gefn helpu dysgwyr cymwys mewn coleg AB sy'n wynebu anawsterau ariannol. Gallai hyn helpu i dalu costau megis ffioedd, costau sy'n gysylltiedig â chyrsiau a chostau cludiant, prydau bwyd a gofal plant. Y coleg AB unigol sy'n penderfynu ar y math o gymorth a ddarperir a chymhwystra. Yn 2022-23, cafodd y Gronfa Ariannol wrth Gefn ei chynyddu £1.345m er mwyn cydnabod effeithiau costau byw uwch a chefnogi'r dysgwyr hynny y mae'n bosibl na fyddent fel arall yn manteisio ar gyfleoedd addysg. Roedd y swm hwn yn ychwanegol at y cyllid craidd ar gyfer y Gronfa Ariannol wrth Gefn, sef £6.33m.

2.3.13 Yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu, rydym yn ymrwymedig i barhau â'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg hyd at ddiwedd tymor y Llywodraeth gan ddarparu £30 yr wythnos i bobl ifanc cymwys sy'n cael addysg ôl-orfodol. Yn y gyllideb ddrafft, rydym yn cynnal y gyllideb bresennol gwerth £17.4m.

***Costau ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim yn 2022-23, 2023-24 ac mewn blynyddoedd ar ôl hynny a diweddariad ar yr amserlen ar gyfer ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim i bob grŵp oedran mewn ysgolion cynradd.***

2.3.14 Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, mae ymrwymiad i gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yn ystod oes y cytundeb. Mae refeniw gwerth £200m wedi'i ddyrannu dros dair blynedd i gyflawni'r ymrwymiad hwn: £40m yn 2022-23, £70m yn 2023-24 a £90m yn 2024-25.

2.3.15 At hynny, rydym wedi dyrannu cyllid cyfalaf ychwanegol drwy adnoddau presennol ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, gyda £25m yn 2021-22 a £35m yn 2022-23.

2.3.16 Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn cyflwyno cam cyntaf y cynnig gyda 45,000 o blant ychwanegol eisoes yn gymwys i gael pryd ysgol am ddim ers dechrau blwyddyn academaidd 2022/23. Disgwylir i'r ffigur hwn gynyddu i fwy na 60,000 o blant erbyn mis Ebrill wrth i'r

mwyafrif o'r awdurdodau gynyddu eu darpariaeth y tu hwnt i'r dosbarth Derbyn i Flynyddoedd 1 a 2. Mae pob awdurdodau lleol wedi cael dyraniad ym mlwyddyn ariannol 2022-23 sy'n adlewyrchu eu cynlluniau i gyflwyno'r cynllun yn ystod tymor yr Hydref 2022 a thymor y Gwanwyn 2023.

2.3.17 Ni chytunwyd eto ar yr union amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun o fis Medi 2023 ymlaen. Bydd proses gynllunio ffurfiol gydag awdurdodau lleol yn dechrau unwaith eto yn y flwyddyn newydd ac yn llywio'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynllun ym mlwyddyn academaidd 2023/24 a thu hwnt.

2.3.18 Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i roi'r cynllun ar waith cyn gynted â phosibl mewn ymateb i'r argyfwng costau byw cynyddol. Fodd bynnag, mae angen inni gydbwyso cyflymder y broses o gyflwyno'r cynllun â gallu awdurdodau lleol ac ysgolion i sefydlu'r seilwaith a'r trefniadau angenrheidiol i sicrhau ansawdd, diogelwch a pheidio â rhoi'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn draddodiadol o dan anfantais.

***Dadansoddiad pellach o'r cyllid a ddarparwyd i awdurdodau lleol er mwyn helpu i ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim (yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ynghylch Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23).***

2.3.19 Fel y cadarnhawyd i'r Pwyllgor Cyllid yn flaenorol, gwnaed dyraniadau refeniw ar gyfer 2022-23 a chynigiwyd grantiau i bob awdurdod lleol ar y sail ganlynol:

- Bydd awdurdodau lleol yn parhau i gyflawni'r ddyletswydd[2] sy'n gysylltiedig â darparu bwyd i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan feini prawf sy'n ymwneud â budd-daliadau;
- Bydd cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim i bob disgybl newydd sy'n gymwys i'w cael o ganlyniad i'r ymrwymiad hwn;
- Mae'r gyfradd uned fesul pryd o fwyd a ddarperir drwy'r grant wedi'i phennu ar £2.90;
- Mae dyraniadau cyllid yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd 86% o ddysgwyr cymwys newydd yn manteisio ar y cynnig yn ôl cynlluniau pob awdurdod lleol ar gyfer cyflwyno'r cynllun ym mlwyddyn gyntaf y ddarpariaeth (mae cyfrifiadau yn seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng pob disgybl ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) 2021 llai'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o dan feini prawf sy'n ymwneud ag incwm/budd-daliadau neu drwy drefniadau Diogelwch Trosiannol, sef y ddarpariaeth estynedig lawn ddisgwyliedig).
- Mae ffi i dalu costau gweinyddol ychwanegol y maent yn mynd iddynt drwy weinyddu'r cynnig hefyd wedi'i chynnwys mewn dyraniadau grant. Ar gyfer y flwyddyn gyntaf, cytunwyd y caiff y ffi hon ei phennu ar 6% o ddyraniad grant pob awdurdod lleol. Mae hyn yn arferol yn achos rhaglenni o'r maint hwn ac yn adlewyrchu natur gymhleth y broses o gyflwyno'r cynnig hwn.
- Caiff cyllid ei ddosbarthu fel rhan o'r Grant Addysg i Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar y galw. Bydd angen i awdurdodau lleol baratoi hawliadau misol yn seiliedig ar union nifer y prydau bwyd a ddarparwyd. Caiff unrhyw amrywiannau sy'n llai neu'n fwy na 86% o brydau bwyd a ddarparwyd eu haddasu yn y taliadau a wneir.

[2]Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cinio ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys o dan y darpariaethau presennol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn Neddf Addysg 1996. Wrth gyflwyno'r cynnig cyffredinol, bydd y gofyniad hwn yn parhau'n gymwys. Mae hyn yn golygu y bydd y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd o dan feini prawf sy'n ymwneud ag incwm/budd-daliadau yn parhau i gael eu hariannu gan gyllidebau awdurdodau lleol (gan gynnwys y Grant Cynnal Refeniw) pan fydd y cynnig cyffredinol yn dechrau. Caiff y disgyblion "newydd" y tu allan i ddarpariaethau Deddf 1996 sy'n cael pryd o fwyd eu hariannu drwy grant i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru.

- Caiff y gyfradd uned ei hadolygu yn ystod blwyddyn gyntaf y ddarpariaeth, gan ddefnyddio data amser real ar gostau/nifer y disgyblion a gafodd brydau ysgol am ddim a ddarperir gan awdurdodau lleol, er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth a, lle y bo'n briodol, fireinio'r gyfradd at gyfer y dyfodol.

2.3.20 Nodir dyraniadau refeniw awdurdodau lleol ar gyfer 2022-23 yn **Atodiad E**. Cafodd y rhain eu dyrannu ar y sail a nodwyd uchod ac roeddent yn adlewyrchu bwriadau pob awdurdod lleol o ran cyflwyno'r ddarpariaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Nid oes dyraniadau refeniw ar gyfer 2023-24 a thu hwnt ar gael eto a chânt eu llywio gan y broses gynllunio a gynhelir mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn y flwyddyn newydd, fel y cyfeiriwyd ati yn yr ateb blaenorol uchod.

2.3.21 Nodir dyraniadau cyfalaf awdurdodau lleol ar gyfer 2022-23 yn Atodiad E hefyd. Roedd y cyllid cyfalaf yn seiliedig ar adolygiad o archwiliadau o seilwaith a thrafodaethau ag awdurdodau lleol. Dosbarthwyd y cyllid i awdurdodau lleol ar sail fformiwla, a ystyriodd nifer y dysgwyr a nifer yr ysgolion yn yr ardal. Sicrhaodd hyn fuddsoddiad teg ledled Cymru.

***Unrhyw gyllid arall o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a'r berthynas negyddol rhwng amddifadedd/cyrhaeddiad, er enghraifft newyn adeg gwyliau a phrosiectau gwella gwyliau'r haf/haf o hwyl.***

2.3.22 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf, gydag ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i barhau i “adeiladu” ar y rhaglen. Yn 2022-23, dyrannwyd £4.85 miliwn ar gyfer y Rhaglen, gyda 139 o gynlluniau yn cael eu cynnal dros yr haf eleni a oedd yn cynnig bron i 8,000 o leoedd i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, gan gynnwys cymorth ar gyfer darpariaeth un i un ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r gyllideb hon yn cael ei chynnal o 2023-24.

2.3.23 Mae'r cynllun peilot i roi brecwast i ddisgyblion Blwyddyn 7 wedi'i ymestyn tan ddiwedd blwyddyn academaidd 2022/2023, gyda chostau o £0.391m yn dod o fewn blwyddyn ariannol 2023-24. Mae'r cynllun peilot yn rhoi lwfans ychwanegol gwerth hyd at £1 y dydd i ddisgyblion Blwyddyn 7 sy'n cael prydau ysgol am ddim er mwyn iddynt gael brecwast ar ddechrau'r diwrnod ysgol heb ddefnyddio eu credyd ar gyfer pryd o fwyd amser cinio.

2.3.24 Rydym yn parhau i ddyrannu £3.2m ar sail flynyddol ar gyfer y cynllun Llaeth mewn Ysgolion sy'n rhoi llaeth am ddim i ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen a llaeth a gymorthdelir i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 ledled Cymru. Nid yw'n orfodol ac, felly, mae'n ofynnol i ysgolion yng Nghymru optio i mewn i'r cynllun.

## 2.4 Y Gweithlu Addysg

***Manylion dyraniadau cyllidebol i ariannu Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a dysgu proffesiynol i athrawon presennol, gan gynnwys yng ngoleuni'r broses barhaus o roi diwygiadau addysg ar waith.***

Addysg Gychwynnol i Athrawon

2.4.1 Mae cyllid dynodedig o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chymorth Athrawon i gefnogi AGA fel a ganlyn:

- Tua £3.350m i gyflwyno'r TAR rhan-amser a'r TAR cyflogedig sydd, ochr yn ochr â'r TAR amser llawn, yn ffurfio ein cyfres gydlynol o lwybrau o ansawdd uchel i addysgu. Bydd y TAR rhan-amser a'r TAR cyflogedig yn dal i fod ar gael ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Mae'r gyllideb yn darparu grant hyfforddi a grant cyfraniad at gyflog i fyfyrwyr AGA ar y TAR cyflogedig, sef cynllun seiliedig ar gyflogaeth sy'n paratoi athrawon uwchradd mewn pynciau â blaenoriaeth (Gwyddoniaeth, Mathemateg, Saesneg, Cymraeg, Dylunio a Thechnoleg a Chyfrifiadura) i'r gweithlu. Mae'r rhaglenni yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio. Yn 2023-24, caiff rhywfaint o'r cyllid ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o ymestyn yr arbenigeddau pwnc sydd ar gael o flwyddyn academaidd 2023/24 ymlaen er mwyn cynnwys Dylunio a Thechnoleg a Chyfrifiadura yn unol â'n hymrwymiadau o dan Gynllun y gweithlu Cymraeg mewn Addysg a Chynllun Cymru Wrth-hiliol.

- Tua £3.2m i barhau i gyflawni'r cynlluniau cymhelliant ar gyfer pynciau â blaenoriaeth a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig er mwyn cefnogi recriwtio i'r proffesiwn. Mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i raglenni AGA amser llawn.

- Darperir £0.160m arall yn 2023-24 i gefnogi costau'n ymwneud â datblygu polisi seiliedig ar dystiolaeth i barhau i gefnogi diwygiadau AGA Llywodraeth Cymru. Cynigir y bydd y cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith parhaus o recriwtio pobl BAME i AGA yn ogystal â chefnogi digwyddiadau i aeddfedu a chefnogi'r Partneriaethau AGA.

- Tua £0.745m ar gyfer cynllun cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory, sydd wedi'i dargedu at athrawon dan hyfforddiant sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r Gymraeg fel pwnc. Mae'r llinell yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i raglenni AGA. Caiff y cynllun cymhelliant ei dalu ar ddau bwynt yng ngyrfa gynnar athro (wrth ddyfarnu statws athro cymwysedig ac ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu statudol) ac mae gan geisyddion sawl blwyddyn i hawlio pob rhandaliad. Felly mae dyraniad cyllidebol pob blwyddyn yn cwmpasu sawl carfan hyd at eu priod ddyddiadau terfyn ac mae'r dyraniad olaf a'r gwariant yn amrywio yn dibynnu ar alw yn ystod y flwyddyn flaenorol.

- Caiff hyd at £0.250m ei ddyrannu unwaith eto yn 2023-24 i barhau â'r ymgyrch cyfathrebu a marchnata ar gyfer Addysgu yng Nghymru.

<u>Dysgu proffesiynol i'r gweithlu</u>

2.4.2 Rydym am sicrhau bod dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i bob ymarferydd er mwyn iddo allu darparu safonau uchel a dyheadau i bawb. Bydd yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, yn chwarae rôl allweddol yn ein taith tuag at gyflawni hyn. Mae'r Hawl yn nodi sut y bydd datblygiad parhaus ymarferwyr yn helpu'r ysgolion neu'r lleoliadau lle maent yn gweithio a'u dysgwyr i gyflawni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, gan gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac ymgorffori tegwch, llesiant a'r Gymraeg ym mhob rhan o gymuned yr ysgol.

2.4.3 Yn 2023-24 byddwn yn dyrannu tua £36m o Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chymorth Athrawon i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o tua £1.5m o gymharu â'r £37.5m a ddyrannwyd yn 2022-23. Mae

arbedion effeithlonrwydd wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn cydweithio'n agosach wrth iddynt ddatblygu a darparu dysgu proffesiynol er mwyn sicrhau bod rhaglen dysgu proffesiynol gyson o ansawdd uchel ar gael i ymarferwyr ledled Cymru. Hefyd, mae rhai o'n rhaglenni, er enghraifft y rhaglen Meistr a'r rhaglen sefydlu, yn seiliedig ar alw ac, felly, mae rhagamcanion yn seiliedig ar dueddiadau o ran nifer yr unigolion sy'n dilyn y rhaglenni hyn.

2.4.4 Dyrennir cyllid mewn ffyrdd amrywiol, yn cynnwys y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a phrifysgolion i gefnogi nifer o flaenoriaethau a galluogi pob ymarferydd, gan gynnwys athrawon, athrawon cyflenwi, cynorthwywyr addysgu ac arweinwyr, i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol.

***Gwybodaeth gyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i Gyngor y Gweithlu Addysg.***

2.4.5 Mae cyllid grant o £7.927m wedi'i roi i Gyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer 2022-23 i gefnogi'r gweithgareddau canlynol:

- Gweinyddu a rhoi gwybod am Statws Athro Cymwysedig (SAC);
- Apeliadau ac ardystiadau sefydlu;
- Gweinyddu'r rhaglen Sefydlu i Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru;
- Cynnal a datblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol;
- Hyrwyddo gyrfaoedd yn y proffesiynau cofrestredig;
- Addysg a hyfforddiant ôl-16 fel llwybr i addysgu;
- Partneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon;
- Safonau Proffesiynol ar gyfer AB a Dysgu Seiliedig ar Waith;
- Astudiaeth Mapio AB a SAC;
- Darparu a dadansoddi data;
- Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau ac Amodau Cymru;
- Ysgrifenyddiaeth i'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol (NSERE);
- Darparu a dadansoddi data;
- Cyfrannu at gofrestru;
- Arolwg o'r Gweithlu AB a Dysgu Seiliedig ar Waith 2022.

2.4.6 Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Chyngor y Gweithlu Addysg ddechrau 2023 i drafod ei ddyfarniad grant ar gyfer 2023-24.

***Manylion cyllid ar gyfer awdurdodau lleol tuag at gostau dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, yn cynnwys dadansoddiad rhwng blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24 a'r priod fecanweithiau a ddefnyddir (p'un a yw'n grant uniongyrchol neu'n rhan o'r setliad llywodraeth leol).***

2.4.7 Mae'r cynnydd o 5% ar draws holl bwyntiau graddfa athrawon a lwfansau o fis Medi 2022 yn cyfateb i gynnydd amcangyfrifedig at y bil cyflogau cyffredinol o £43.5 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2022-23 (mis Medi 2022 i fis Mawrth 2023) a £74.6 miliwn ar gyfer effaith blwyddyn lawn ym mlwyddyn ariannol 2023-24.

2.4.8 Er nad yw'r cyllid a ddarperir drwy'r setliad llywodraeth leol wedi'i neilltuo ac mai mater i bob awdurdod lleol yw pennu ei flaenoriaethau ei hun, ffactor sylweddol ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid ar gyfer y setliad ar gyfer 2022-23 9.4%, ar gyfartaledd,

oedd cydnabod effaith cyflog athrawon. Felly disgwyliwyd i gostau unrhyw ddyfarniad cyflog yn 2022-23 gael eu talu drwy gyllid a ddyrannwyd i awdurdodau lleol drwy'r setliad a'u gallu i godi cyllid drwy'r dreth gyngor. Fel yr amlinellwyd o dan adran 2.1, mae £227m ychwanegol yn 2023-24 a £268m ychwanegol yn 2024-25 yn cael eu darparu drwy'r setliad llywodraeth leol er mwyn cefnogi pob gwasanaeth, gan gynnwys cymorth ar gyfer cyflog athrawon. Mae hyn yn ychwanegol at y cynnydd yn y setliad o 3.5% (£177m) yn 2023-24 a 2.4% yn 2024-25.

***Gwybodaeth am unrhyw gyllid i gefnogi polisi ynglŷn â'r gweithlu athrawon cyflenwi.***

2.4.9 Ym mis Awst 2022, cytunais ar gynlluniau i ddiwygio cyflog, amodau a chyflogaeth athrawon cyflenwi, er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir o fan y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Fel rhan o'r diwygiadau, mae model cyflogaeth newydd yn cael ei gaffael ar hyn o bryd, ynghyd â fframwaith asiantaethau cyflenwi diwygiedig; disgwylir i'r ddau ohonynt gael eu rhoi ar waith o fis Medi 2023 ymlaen.

2.4.10 Bydd cost rhoi'r model ar waith a'i weithredu yn dibynnu ar nifer yr awdurdodau lleol a'r ysgolion sy'n ei fabwysiadu. Nid eir i unrhyw gostau ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Bydd y costau ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25 yn dibynnu ar y modd y caiff y model ei gyflwyno a'r roi ar waith ar ôl i'r contract gael ei ddyfarnu ym mis Ebrill 2023 (yr amcangyfrifir y byddant yn cyfateb i £0.5m ac £1.05m y flwyddyn ariannol), a delir o Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon. Nid yw'r costau rhagamcanol presennol yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol y gallai fod yn rhaid i awdurdodau lleol eu talu er mwyn cefnogi'r platfform, am fod y trafodaethau hyn yn parhau i fynd rhagddynt.

## 2.5 Diwygio'r Cwricwlwm

***Gwybodaeth am gyllid i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, yn cynnwys dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu.***

2.5.1 Er mwyn cefnogi'r broses barhaus o weithredu'r cwricwlwm yn ein hysgolion a'n lleoliadau, gan gynnwys ein pwyslais ar gynnydd dysgwyr, rydym yn parhau â'r buddsoddiad ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer 2023-24 (£5m) a 2024-25 (£1.66m). Mae hyn yn golygu mai cyfanswm y ddarpariaeth yn ein cyllideb ar gyfer 2023-24 i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru yw oddeutu £36m, sy'n adlewyrchu'r flaenoriaeth rydym yn ei rhoi i gefnogi ysgolion a lleoliadau wrth iddynt roi'r diwygiadau hyn ar waith.

2.5.2 Mae'r cyllid yn dal i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau y caiff ein cwricwlwm trawsnewidiol ei gyflwyno'n llwyddiannus drwy gefnogi cyfranogiad parhaus ymarferwyr ac ysgolion yn y broses o ddiwygio eu cwricwlwm, Cymwysterau Cymru a'r gwaith parhaus o ddatblygu adnoddau dwyieithog cysylltiedig.

2.5.3 Ceir manylion pellach am ddysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu yn adran 2.4 (y gweithlu addysg).

## 2.6 Iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc

***Darpariaeth gyllidebol o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2023-24 ar gyfer y dull/system ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol.***

2.6.1 Nid oes unrhyw newidiadau i gyllideb y dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant o gymharu â'r cynlluniau hynny a gyhoeddwyd yn flaenorol. Fel yr amlinellwyd yng nghyllideb aml-flwyddyn y flwyddyn ddiwethaf, cynyddodd cyllid ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg i gefnogi'r dull ysgol gyfan £2.2m yn 2023- 24, i £7.4m. Erbyn 2024-25, bydd cyfanswm y cyllid i gefnogi'r dull ysgol gyfan ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn codi i £9.6m. Drwy gynyddu cyllid yn y maes hwn o 2022-23 ymlaen gallwn atgyfnerthu gweithgareddau ymhellach ac ymgorffori llesiant ar draws addysg, y tu hwnt i ysgolion a gynhelir, a thargedu rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed.

***Manylion am gyllid o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ategu gwaith mewn ysgolion ar y maes hwn.***

2.6.2 Cynhelir £7m ar gyfer y dull ysgol gyfan ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod cyfnod y gyllideb, gan gydnabod natur drawsbynciol y gwaith hwn a phwysleisio ein hymrwymiad i ddatblygu'r agenda hon. Ynghyd â'r cyllid ychwanegol ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, bydd cyllid yn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi anghenion llesiant, o feithrin gwydnwch i ymyriadau sydd wedi'u targedu'n fwy ar gyfer dysgwyr er mwyn sicrhau bod modd diwallu eu hanghenion y tu hwnt i wasanaethau arbenigol, gan greu arbedion effeithlonrwydd i'r gwasanaethau hynny.

2.6.3 Yn 2022-23, rydym wedi rhoi £5.3m i Fyrddau Iechyd er mwyn iddynt allu parhau i gyflwyno'r gwasanaeth CAMHS mewngymorth mewn ysgolion. Mae'r gwasanaeth yn darparu ymarferwyr iechyd meddwl dynodedig mewn ysgolion sy'n darparu gwasanaeth ymgynghori, cyswllt, cyngor a hyfforddiant i athrawon a staff eraill ysgolion, er mwyn sicrhau y caiff problemau iechyd meddwl eu nodi'n gynnar ac y darperir cymorth priodol ac amserol. Ers mis Medi 2022, mae'r gwasanaeth wedi bod yn gwbl weithredol ym mhob ardal Bwrdd Iechyd.

***Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi iechyd emosiynol a meddyliol pobl ifanc mewn addysg ôl-16.***

2.6.4 Mae £6m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r sector AB ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 er mwyn cefnogi mentrau iechyd meddwl a lles ar gyfer staff a dysgwyr. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys cyllid craidd gwerth £2m ynghyd â £4m ychwanegol ar gyfer 2022/23 yn unig, er mwyn helpu i fynd i'r afael ag effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl a lles. Mae'r cyllid wedi'i rannu'n dair elfen er mwyn cefnogi gweithgarwch a phrosiectau ar lefelau sefydliadol, cydweithredol a chenedlaethol.

2.6.5 Dyrennir £5.25m i'r elfen Sefydliadol i feithrin gallu mewn sefydliadau AB unigol er mwyn iddynt barhau i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr a staff. Bydd y buddsoddiad eleni yn helpu i ddarparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen i gynyddu maint timau llesiant/lles er mwyn iddynt allu ymateb i'r nifer cynyddol o atgyfeiriadau, darparu gwasanaethau cwnsela i ddysgwyr ac ariannu gweithgareddau i feithrin gwydnwch a chefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr.

2.6.6 Mae hyd at £0.625m wedi'i ddyrannu er mwyn cefnogi tri phrosiect cydweithredol strategol a arweinir gan golegau a darparu dulliau cynaliadwy o ymdrin ag iechyd meddwl yn y sector AB. Mae cyllid cydweithredol wedi'i gwneud yn bosibl i golegau ddod ynghyd er

mwyn rhannu arferion gorau a datblygu strategaethau ac adnoddau newydd i gefnogi iechyd meddwl a lles staff a dysgwyr.

2.6.7 Mae hyd at £0.125m wedi'i ddyrannu i'r elfen Genedlaethol er mwyn datblygu adnoddau arbennig a/neu ddarpariaeth hyfforddiant i'r sector AB. Ymhlith y prosiectau ar gyfer 2022/23 mae:

- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu adnoddau a hyfforddiant ar gyfer Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod er mwyn helpu sefydliadau i fabwysiadu dull system gyfan o ymdrin â llesiant, meithrin gwydnwch ac ymgorffori arferion sy'n ystyriol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod/Trawma.
- Gweithio gydag Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) er mwyn ymgorffori'r rolau Iechyd Meddwl a Llesiant/Lles yng Nghanghennau'r Undeb Llafur fel adnodd cynaliadwy allweddol i gefnogi staff AB. Bydd y prosiect ar gyfer 2022/23, a elwir yn **'Digging in'**, yn ystyried ac yn cefnogi argymhellion o'r prosiect peilot yn 2021/22 sy'n cynnwys lleihau beichiau gwaith, lles proffesiynol a chymryd rhan mewn dysgu proffesiynol.

2.6.8 Mae cefnogi iechyd a lles myfyrwyr, gan gynnwys iechyd meddwl, yn parhau i fod yn flaenoriaeth gyda £2m wedi'i glustnodi unwaith eto eleni yn nyraniad refeniw CCAUC. Mae'r cyllid yn galluogi CCAUC i flaenoriaethu cymorth i sefydliadau er mwyn iddynt allu datblygu eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer iechyd a lles ymhellach a'u cyflawni.

***Manylion cyllid ar gyfer unrhyw fentrau ychwanegol neu wedi'u teilwra i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg yn ystod pandemig COVID-19 a phwysau costau byw presennol.***

2.6.9 Rydym o'r farn bod rhaglen waith ein dull ysgol gyfan yn rhan annatod o'r ddarpariaeth i gefnogi plant a phobl ifanc, gan gynnwys yn ystod cyfnodau o ansicrwydd, fel yr un sydd wedi'i achosi gan bandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw presennol.

2.6.10 Yn ystod y pandemig, gwnaethom weithredu'n gyflym er mwyn helpu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion i symud ar-lein drwy ariannu hyfforddiant ar-lein a chost trwyddedau meddalwedd i ymarferwyr. Gwnaethom hefyd greu adnodd ar-lein sy'n hyrwyddo'r nifer mawr o adnoddau digidol a gynlluniwyd yn benodol i gefnogi pobl ifanc gyda'u hiechyd meddwl a'u lles emosiynol eu hunain. Mae Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc yn cysylltu pobl ifanc 11-25 oed â gwefannau, apiau, llinellau cymorth a mwy er mwyn meithrin gwydnwch a'u cefnogi drwy'r pandemig a thu hwnt.

2.6.11 Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau y gallwn ddarparu amrywiaeth o adnoddau, hyfforddiant a chymorth er mwyn diwallu anghenion llesiant plant a phobl ifanc a phoblogaeth ehangach ysgolion.

***Darpariaeth gyllidebol ar gyfer y cynllun gweithredu a'r ymateb ehangach i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr.***

2.6.12 Ar gyfer 2023-24, mae cyllideb gwerth ychydig dros £6m wedi'i dyrannu o Linell Wariant yn y Gyllideb Trechu Dadrithiad er mwyn mynd i'r afael ag absenoldeb disgyblion a diogelu

disgyblion. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth gyllidebol sydd ei hangen i ymateb i argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

## 2.7 Absenoldeb disgyblion

***Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth gyllidebol benodol i fynd i'r afael â chyfraddau absenoldeb disgyblion neu nodi pa linellau'r gyllideb yn cefnogi gwaith o'r fath yn fwy cyffredinol.***

2.7.1 Fel y nodwyd uchod, mae £6m wedi'i ddyrannu er mwyn mynd i'r afael ag absenoldeb disgyblion a diogelu disgyblion o 2023-24 ymlaen. Ar fesurau ataliol a sicrhau y caiff cydberthnasau cadarnhaol eu datblygu rhwng teuluoedd ac ysgolion y dylid rhoi'r pwyslais mwyaf ar gyfer annog presenoldeb da. Mae rhieni yn fwy tebygol o annog presenoldeb llawn pan fyddant yn teimlo eu bod yn rhan o gymuned yr ysgol. Gall swyddogion ymgysylltu â theuluoedd gefnogi'r cydberthnasau rhwng teuluoedd ac ysgolion ac annog a datblygu cysylltiadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb. Fel yr amlinellwyd o dan adran 2.3, rydym yn parhau â'n buddsoddiad er mwyn i awdurdodau lleol allu recriwtio a chadw swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn 2023-24 drwy gyllid sydd wedi'i ddyrannu yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion Cymunedol.

## 2.8 Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

***Gwybodaeth am y ffordd y mae Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cefnogi'r gwaith o ddarparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol i blant a phobl ifanc, boed hynny yn yr ysgol neu'r tu allan iddi, a'r berthynas rhwng hyn ag unrhyw gyllid ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol megis ar gyfer Pwysau Iach, Cymru Iach.***

2.8.1 Fel rhan o'r gwaith o gyflwyno Pwysau Iach: Cymru Iach 2022-24, rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth er mwyn ystyried y posibilrwydd o ddatblygu cynnig gweithredol dyddiol i ysgolion a fydd yn cyd-fynd â Chynllun Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Mae rhaglenni megis Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf ac Ysgolion Bro, er enghraifft, yn gysylltiedig â Chynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach a byddwn yn parhau i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â sefydliadau allanol allweddol, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn ystyried sut i ddatblygu cynnig a all gefnogi ysgolion a datblygu dulliau gweithredu lleol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i symud bob dydd sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm.

2.8.2 Rydym hefyd yn cyd-fuddsoddi yn Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion â Phrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n helpu ysgolion cynradd ac uwchradd i ystyried iechyd a lles eu disgyblion, gan gynnwyd ymddygiadau sy'n ymwneud â gweithgarwch corfforol.

## 2.9 Cymorth i ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

***Manylion cyllid i gefnogi addysg dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn 2023-24 a sut y caiff ei ddosbarthu.***

2.9.1 Cynhelir cyfanswm o £11m yn 2023-24 ar gyfer ein dysgwyr o gymunedau Ethnig Lleiafrifol a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

2.9.2 Yn 2021, yn dilyn argymhellion gweithgor, cytunodd Awdurdodau Lleol i newid i fformiwla dosbarthu sy'n seiliedig ar nifer y plant sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, ynghyd â nifer y plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er mwyn lliniaru effaith y newid yn y fformiwla, ar gyfer 2022-23, mae dyraniadau yn seiliedig ar 50% o gyfran pob Awdurdod Lleol o'r grant yn 2021-22. Mae'r 50% arall yn defnyddio data diweddaraf CYBLD. Mae hyn yn lliniaru effaith y newidiadau ariannol ac yn sicrhau bod y dull yn symud yn agosach i un sy'n seiliedig ar y data diweddaraf. Ar ddibenion dosbarthu'r grant yn 2023-2024, caiff y Gweithgor ei ailsefydlu er mwyn cytuno (ym mis Ionawr 2023) ar y cam nesaf yn y broses o newid i'r fformiwla dosbarthu newydd.

## 2.10 Anghenion Dysgu Ychwanegol

***Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau wrth gyflwyno darpariaeth AAA/ADY bresennol, effaith cyllid ychwanegol mewn blynyddoedd blaenorol ac a ddarperir cyllid ychwanegol pellach yn 2023-24.***

2.10.1 Ynghyd â'r sector rydym wedi gwneud cryn gynnydd o ran paratoi ar gyfer Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae Estyn yn nodi bod bron pob darparwr wedi dechrau rhoi elfennau allweddol ar ddiwygiadau i'r system ADY ar waith, megis arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynlluniau datblygu unigol, er mwyn nodi dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arbenigol arnynt a mapio darpariaeth gyffredinol i eraill.

2.10.2 Mae adroddiad diweddar gan arweinydd y rhaglen weithredu genedlaethol yn cytuno â'r canfyddiadau hynny ac yn nodi hefyd waith effeithiol sy'n cael ei wneud mewn byrddau iechyd gan Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau'r Ddeddf a'r system ADY a sicrhau bod gan deuluoedd fwy o hyder yn y system. Mae gan bron pob awdurdod lleol (ALl) hyder yn ei allu i reoli'r broses o symud y grwpiau gorfodol a phenodol o ddysgwyr yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol, sef yr ail flwyddyn weithredu.

2.10.3 Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn nodi galw cynyddol am wasanaethau cynhwysiant, lefelau cynyddol o blant ag ADY cymhleth, yr angen i ymateb i effeithiau'r pandemig a phwysau i gefnogi lles academaidd, cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr. Mae gan ALlau ac ysgolion bryderon ynghylch symud yr holl ddysgwyr o'r system AAA i'r system ADY yn y drydedd flwyddyn weithredu. Mae angen gwneud rhagor o waith i atgyfnerthu trefniadau gweithio amlasiantaethol ALlau a'r sector iechyd, rheoli'r galw i gymryd rhan mewn gwasanaethau iechyd a sefydlu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr ag ADY yn y sector ôl-16 y mae angen darpariaeth arbenigol arnynt.

2.10.4 Fel rhan o gyllideb y llynedd, gwnaethom fuddsoddi £7m ychwanegol o 2022-23 ymlaen yn Llinell Wariant yn y Gyllideb ADY er mwyn darparu adnoddau ychwanegol i drosglwyddo plant a phobl ifanc o'r system AAA i'r system ADY. Mae'r gyllideb hon yn cynyddu'r buddsoddiad yn sylweddol, gyda £4.5m arall yn cael ei ddyrannu er mwyn cefnogi ADY. Mae'r swm hwn wedi'i ddyrannu er mwyn cynyddu'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhoi'r system ADY ar waith i £12m, er mwyn parhau â'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran trosglwyddo plant a phobl ifanc o'r system AAA i'r system ADY dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd y cyllid yn darparu rhagor o adnoddau er mwyn i Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynllunio ar gyfer diwallu anghenion dysgwyr ag ADY. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i ALlau er mwyn iddynt allu cyflawni eu dyletswyddau ôl-16 yn ystod y cyfnod pontio wrth i bobl ifanc ‘lifo drwodd’ i'r system ADY.

2.10.5 Mae'r gyllideb yn cynnwys parhau â'r £9.155m a ddyrannwyd yn 2022-23 ar gyfer Darpariaeth i Ddysgwyr ag ADY, sy'n gysylltiedig â'r Grant Adfer ar ôl COVID-19 (ADY), i awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau AB er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Ar gyfer 2022-23, mae'r cyllid wedi'i roi'n uniongyrchol er mwyn cynnig Darpariaeth Ddysgu well a/neu Ychwanegol i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol cymhleth, er mwyn cefnogi'r broses gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a mapio'r ddarpariaeth yn yr ardal leol, gan gynyddu nifer y gwasanaethau er mwyn sicrhau y caiff anghenion eu diwallu. Cynlluniau Datblygu Unigol.

2.10.6 Yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl-16, cynhelir y cyllid ar gyfer Addysg Bellach, sef gyllideb gwerth £15.525m, i ddysgwyr ag ADY mewn addysg ôl-16. Mae'r cyllid hwn yn helpu colegau i ddarparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen i ddysgwyr ag ADY lwyddo yn eu rhaglenni astudio dewisol.

2.10.7 Ar gyfer 2023-24, yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Lleoliadau Arbenigol Ôl-16, rydym hefyd yn cynnal £13.9m ar gyfer darpariaeth AB arbenigol er mwyn ateb y galw cynyddol ar gyfer dysgwyr ag ADY ac anghenion cymhleth hyd at 25 oed, y mae angen darpariaeth AB arbenigol arnynt er mwyn cael addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas i'w hanghenion.

***Gwybodaeth am y cyllid a ddarperir ar gyfer Rhaglen Trawsnewid ADY ac i roi Deddf 2018 ar waith, gan gynnwys asesiad wedi'i ddiweddaru o b'un a yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y diwygiadau ADY yn gost niwtral.***

2.10.8 Rydym yn parhau i fuddsoddi er mwyn cefnogi'r cyfnod gweithredu, gan gydnabod y newid sylweddol mewn diwylliant ac arferion a'r angen i drosglwyddo plant a phobl ifanc o'r system AAA i'r system ADY fel un o ddatblygiadau allweddol diwygiadau ADY.

2.10.9 Daeth yr asesiad effaith rheoleiddiol a wnaed ochr yn ochr â datblygu'r Bil ADY i'r casgliad na fyddai'r system ADY yn mynd i gostau parhaus ychwanegol ar ôl iddi gael ei rhoi ar waith. Mae'r costau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2023-24 yn rhai byrdymor tra bydd y system ADY yn cael eu cyflwyno.

2.10.10 Mae diwygiadau ADY yn ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu yn y gyllideb hon yn golygu mai cyfanswm Llinell Wariant yn y Gyllideb ADY yw £25.591m o 2023-24 ymlaen. Fel y nodir yn adran 1.5, y costau sy'n gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach yw £14.165m yn 2023-24 o Linell Wariant yn y Gyllideb ADY.

***Y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid i hyfforddi seicolegwyr addysgol yng Nghymru a'r trefniant cyllid grant â Phrifysgol Caerdydd.***

2.10.11 Mae cyllid gwerth £0.9m wedi'i gynnal yn Llinell Wariant yn y Gyllideb ADY yn 2023-24 er mwyn parhau i dalu ffioedd cyrsiau a bwrsarïau i 10 o fyfyrwyr y flwyddyn ar y rhaglen hyfforddi broffesiynol Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol tair blynedd.

2.10.12 Yn ddiweddar dyfarnodd Llywodraeth Cymru gontract tair blynedd newydd i Brifysgol Caerdydd er mwyn cynyddu'r cyflenwad o Seicolegwyr Addysgol tra hyfforddedig ar gyfer y gweithlu yng Nghymru. Bydd y trefniant cyllido ar waith tan fis Awst 2025.

2.10.13 O fis Medi 2022 ymlaen, mae cytundeb clymu newydd yn ei gwneud yn ofynnol i hyfforddeion newydd a ariennir gytuno i weithio mewn awdurdod lleol yng Nghymru am ddwy flynedd yn union ar ôl iddynt raddio. Rhaid i o leiaf un bwrsari fod ar gyfer myfyrwyr a all eisoes weithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu a allai wneud hynny. Cafodd y mwyafrif helaeth o garfan 2022 o raddedigion waith mewn Awdurdod Lleol yng Nghymru.

## 2.11 Estyn

***Manylion dyraniad cyllidebol craidd Estyn ar gyfer 2023-24 o Brif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol a manylion unrhyw gyllid ychwanegol o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer rôl Estyn mewn diwygiadau addysg.***

2.11.1 Cynhelir cyfanswm dyraniad cyllidebol Estyn o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Estyn o Brif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol ar £11.473m y flwyddyn o 2023-24 ymlaen, yn cynnwys adnoddau cyllidol (£11.023m), adnoddau anghyllidol (£0.2m) a chyfalaf (£0.25m).

2.11.2 Fel yr amlinellwyd yng nghyllideb y llynedd, rydym hefyd yn rhoi cyllid ychwanegol gwerth £2.9m i Estyn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Safonau Ysgolion ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn of £2.9m yn 2023-24, a fydd yn cynyddu i £4m erbyn 2024-25. Diben hyn yw helpu Estyn i gynnal mwy o arolygiadau am weddill y cylch presennol, ar ôl i weithgarwch arolygu gael ei atal dros dro rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2022; ac er mwyn cefnogi gwaith i gynllunio trefniadau arolygu mwy rheolaidd a pharatoi i'w cyflwyno o fis Medi 2024 ymlaen. Yn y gyllideb ddrafft hon, rydym yn dyrannu £0.56m ychwanegol i Estyn o 2023-24 ymlaen er mwyn helpu i dalu am godiadau cyflog.

## 2.12 Cymwysterau

***Manylion y cyllid a ddarperir i Cymwysterau Cymru yn 2023-24 a manylion unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer ei waith ar ddiwygio cymwysterau yng nghyd-destun y Cwricwlwm newydd i Gymru.***

2.12.1 Mae cyllideb refeniw Cymwysterau Cymru wedi cynyddu £0.39m o 2023-24 ymlaen er mwyn darparu ar gyfer codiad cyflog, sy'n golygu bod cyfanswm ei gyllideb refeniw ychydig dros £10m ar gyfer 2023-24. O fewn y ffigur hwn, mae cyllideb gwerth £1.35m o hyd y bwriedir iddi gael ei defnyddio'n benodol i gefnogi ymrwymiadau'r rhaglen ddiwygio, a gaiff ei monitro ar wahân a'i hawlio dim ond pan fydd angen. Cynhelir y gyllideb nad yw'n arian parod (ar gyfer dibrisiant) a'r gyllideb gyfalaf ar £0.25m ar gyfer 2023-24.

***A ragwelir unrhyw gyllid ychwanegol i Cymwysterau Cymru neu CBAC ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2023 yng nghyd-destun unrhyw drefniadau arbennig o ganlyniad i effaith y pandemig.***

2.12.2 Ar yr adeg hon, nid ydym yn rhagweld y bydd angen unrhyw drefniadau arbennig na chyllid ychwanegol yn 2023, mewn perthynas â dyfarnu unrhyw gymwysterau yr effeithiodd y pandemig arnynt.

## 2.13 Addysg Cyfrwng Cymraeg

***Manylion darpariaeth gyllidebol i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, yn ogystal â rôl y sector addysg yn y broses o gyflawni targed miliwn o siaradwyr Cymraeg 2050.***

2.13.1 Mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, yn nodi ein cynllun ar gyfer pum mlynedd nesaf tymor y Senedd hon. Mae gan y sector addysg rôl bwysig i'w chwarae o ran cyflawni targedau lefel uchel *Cymraeg 2050*: sef dyblu'r defnydd a wneir o'r iaith bob dydd a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae sawl cyllideb o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg mewn Addysg, a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb eraill ar draws y Prif Grŵp Gwariant, sy'n cyfrannu at ein gwaith o gyrraedd y targedau hynny yn y sector addysg.

2.13.2 Yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg, rydym yn parhau i ddyrannu cyllid er mwyn cefnogi gwaith ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau). Mae pob CSCA wedi'i gymeradwyo ac wedi bod yn weithredol ers mis Medi 2022. Yn 2023-24, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion er mwyn helpu awdurdodau lleol i roi eu CSCAau 10 mlynedd newydd ar waith. Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio cyllid o amrywiaeth o ffynonellau eraill i roi eu CSCAau ar waith, er enghraifft cyllid drwy raglenni megis Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, grant cyfalaf Gofal Plant a'r Grant Cynnal Refeniw. Bydd cyllid penodol ar gyfer y Gymraeg megis y grant cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Grant Trochi Hwyr yn parhau i gefnogi a chyflwyno gweithgareddau sy'n cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o weithredu CSCAau.

2.13.3 Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg yn y Prif Grŵp Gwariant yn darparu cyllideb er mwyn meithrin gallu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cefnogi darpariaeth trochi hwyr a helpu dysgwyr o bob oedran i wella eu sgiliau Cymraeg a'u hyder i ddefnyddio'r iaith. Cyhoeddwyd swm o £30m ym mis Mawrth 2021 i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg yn ôl anghenion CSCA lleol. Hon yw'r ail gyfran o fuddsoddiad o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, a sefydlwyd yn 2018 i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â chefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Bydd y buddsoddiad hwn yn arwain at greu 933 o leoedd ychwanegol mewn addysg cyfrwng Cymraeg, 285 o leoedd trochi hwyr, 2 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd a mwy o leoedd mewn 10 ysgol cyfrwng Cymraeg sydd eisoes wedi'u sefydlu. Ym mis Hydref 2022, cymeradwywyd £7.1m ychwanegol er mwyn cefnogi nifer o brosiectau a oedd ar y rhestr wrth gefn ar gyfer y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg yn flaenorol.

2.13.4 Mae trochi hwyr yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith a wnawn i gynyddu canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Felly, byddwn yn parhau i ddyrannu £2.2m o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg yn 2023-24 er mwyn ymestyn y ddarpariaeth trochi hwyr ymhellach i gefnogi cynnydd dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Yn 2022-23, sefydlwyd Rhwydwaith Trochi Hwyr Cyfrwng Cymraeg er mwyn helpu awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol ddarpariaethau, datblygiadau ac arferion da sydd ar waith ledled Cymru. Bydd y rhwydwaith hwn yn parhau yn ystod 2023-24.

2.13.5 O 2023-24 ymlaen, byddwn yn parhau i roi £3.031m i'r Mudiad Meithrin er mwyn ehangu ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth hon. Bydd cyllid hefyd yn parhau i alluogi'r Mudiad Meithrin i gynnal rhaglen Sefydlu a Symud sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd mewn ardaloedd o Gymru lle ceir diffyg gwasanaethau o'r fath ar hyn o bryd fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

2.13.6 Byddwn yn parhau i ddyrannu ychydig dros £3m er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o addysg cyfrwng Cymraeg ac adnoddau dwyieithog er mwyn cefnogi'r cwricwlwm a'i gymwysterau. Yn 2022-23, ymgorfforwyd Adnodd, sef un o is-gwmnïau Llywodraeth Cymru,

er mwyn rhoi trosolwg strategol o'r ffordd y caiff adnoddau eu darparu a'u comisiynu. Daw Adnodd yn weithredol ar 1 Ebrill 2023 a chaiff cyllid grant ei ddyrannu yn 2023-24 er mwyn cefnogi Adnodd. Caiff cynllun pontio tair blynedd ei ddatblygu gyda rhai contractau a grantiau yn cael eu hariannu a'u rheoli'n uniongyrchol o Lywodraeth Cymru.

***Gwybodaeth am y cyllid a ddyrannwyd er mwyn cynyddu'r gweithlu Cymraeg mewn Addysg a helpu dysgwyr ac ysgolion i symud ar hyd y continwwm Cymraeg.***

2.13.7 Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg gydag ymrwymiad i gynyddu'r cyllid a ddyrennir er mwyn helpu i roi ein camau gweithredu i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg a helpu pob athro i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg ar waith.

2.13.8 Fel rhan o gyllideb y llynedd, darparwyd cyllid o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon. Cafodd cyfanswm o £1.845m ei ddyrannu yn 2022-23 (cynnydd o £1m) gyda chynnydd pellach o £0.5m yn 2023-24 a £2m yn 2024-25.

2.13.9 Cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn 2023-24 yw £8.720m, y mae £6.1m o'r swm hwnnw wedi'i ddyrannu ar gyfer dysgu proffesiynol (gweler isod). Caiff gweddill y cyllid ei flaenoriaethu er mwyn helpu i gyflawni nodau'r cynllun a chaiff ei dargedu'n bennaf at gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg.

2.13.10 Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dyrannu £0.150m o'i grant, a ariennir o Linell Wariant yn y Gyllideb Addysg a'r Gymraeg, yn 2022-23 er mwyn datblygu dau brosiect penodol, sef:

- treialu ysgoloriaeth ariannol a darpariaeth fentora i ddysgwyr israddedig er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer AGA drwy gyfrwng y Gymraeg
- datblygu rhwydweithiau er mwyn ymgysylltu â graddedigion sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio yn Lloegr a hyrwyddo cyfleoedd iddynt ddychwelyd i Gymru er mwyn paratoi i addysgu.

2.13.11 Y gobaith yw y bydd y Coleg yn parhau i ddyrannu cyllid o'i grant yn 2023-24 er mwyn parhau â'r prosiectau hyn.

2.13.12 Rydym yn parhau i gymell athrawon dan hyfforddiant o Gymru sy'n gwneud AGA ac rydym wedi cynnal cymhelliant Iaith Athrawon Yfory o £5,000 ar gyfer pob myfyriwr sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.13.13 Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn arwain prosiect peilot i gymell siaradwyr Cymraeg ifanc i ddychwelyd o brifysgolion i helpu i addysgu Cymraeg mewn ysgolion. Cynhaliwyd cynllun peilot ym mis Gorffennaf 2022 lle y dilynodd 15 o fyfyrwyr o Brifysgolion ledled y DU gwrs 2 wythnos ym Mhrifysgol Caerdydd. Cynhelir ail brosiect peilot ym mis Gorffennaf 2023 a fydd hefyd yn cynnwys lleoliad mewn ysgol uwchradd. Y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn denu pobl ifanc i'r byd addysgu a'r sector Dysgu Cymraeg, ac yn helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ar yr un pryd.

2.13.14 Mae dysgu proffesiynol yn nodwedd allweddol ar ein dull o atgyfnerthu gallu addysgu cyfrwng Cymraeg a helpu ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y caiff ymarferwyr eu nodi a'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn gwella'r ffordd y caiff Cymraeg ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a helpu pob ysgol i symud ar hyd y continwwm.

Caiff tua £6.1m ei ddyrannu yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2023-24 i'r perwyl hwn.

2.13.15 O'r cyllid hwn, caiff £3.6m ei ddyrannu i'r Cynllun Sabothol er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ym maes methodoleg ddwys addysgu'r Gymraeg ac ieithoedd. Mae cyrsiau ar gael ar sawl lefel i gynorthwywyr addysgu ac athrawon. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb hon yn ariannu'r costau cyflenwi sy'n gysylltiedig â rhyddhau ymarferwyr o ysgolion er mwyn iddynt ddilyn y cyrsiau.

2.13.16 Yn ogystal â'r Cynllun Sabothol, caiff cyfanswm o tua £2.5m ei ddyrannu i'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn 2023-24 er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu cymorth yn y Gymraeg i ymarferwyr yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae gostyngiad bach yn y gyllideb hon eleni am fod gwersi Cymraeg ar gael am ddim – gweler y paragraff nesaf.

2.13.17 Bydd cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn galluogi pob ymarferydd addysg i gael gwersi Cymraeg am ddim. Lansiwyd gwefan newydd ym mis Gorffennaf 2022 er mwyn rhoi gwybodaeth i ymarferwyr am y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt drwy'r Cynllun Sabothol a Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

## 2.14 Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen

***Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi'r gwaith o gysoni cyfraddau cyllido ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant ac am b'un a barhaodd y trefniant yn 2021-22 (cyfraniadau o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg a Phrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) yn 2022-23 ac a fydd yn parhau i wneud hynny yn 2023-24.***

2.14.1 Cytunodd Gweinidogion, o fis Ionawr 2021 ymlaen, y dylid darparu arian ychwanegol i alluogi awdurdodau lleol i gynyddu'r cyllid ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir sy'n darparu addysg gynnar er mwyn helpu i sicrhau cysondeb â chyfradd gyllido bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant (£4.50) o fewn y Cynnig Gofal Plant. Fel bod camau cyson yn cael eu cymryd ledled Cymru gwnaethom ddefnyddio fformiwla safonol ar gyfer y cyllid.

2.14.2 Yn 2021-22 darparwyd cyllid o £3.8m (a ariannwyd ar y cyd o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Grŵp Gwariant Addysg) mewn grantiau i awdurdodau lleol er mwyn cyfrannu at unioni cyfraddau cyllido mewn lleoliadau nas cynhelir. Yn 2022-23, bu cynnydd pellach o £1.5m mewn cyllid ar gyfer y blynyddoedd cynnar o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yng nghyfradd gyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant (o £4.50 i £5) ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Dyrannwyd trosglwyddiad cylchol gwerth £3.4m o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 er mwyn sicrhau bod cyllid wedi'i gynnwys yn y llinell sylfaen yn Llinell Wariant yn y Gyllideb y Cwricwlwm ac Asesu. Ein bwriad yw y bydd y cymorth hwn yn parhau i gael ei ddarparu o 2023-24 ymlaen a byddwn yn parhau i ystyried pwysigrwydd darpariaeth y blynyddoedd cynnar pan gaiff cyllid ar gyfer gofal plant ei adolygu.

***Manylion unrhyw gyllid arall o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg er mwyn helpu'r sector nas cynhelir i ddarparu addysg y blynyddoedd cynnar a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (gan gydnabod nad yw gofal plant ym mhortffolio'r Gweinidog hwn).***

2.14.3 Nodwyd bod y blynyddoedd cynnar yn grŵp â blaenoriaeth yn ystod y pandemig. Darparwyd adnoddau ychwanegol sylweddol er mwyn helpu i ddiwallu anghenion llesiant, anghenion corfforol ac anghenion dysgu. Cafodd y sector nas cynhelir fudd o £13m ychwanegol a ddarparwyd yn 2021-22 drwy'r Grant Gwella Addysg sy'n cefnogi cymarebau mewn ysgolion ac yn cefnogi'r sector nas cynhelir. At hynny, mae £11.75m ar gyfer lleoliadau nas cynhelir drwy'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau rhwng 2020-21 a 2022-23 wedi'i ddarparu er mwyn helpu i ddiwallu anghenion emosiynol, corfforol a datblygu dysgu. Bydd y gyllideb ar gyfer Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn parhau i gefnogi carfan y blynyddoedd cynnar yn 2023-24 a 2024-25. Mae hyn yn darparu pecyn adfer chwe blynedd i ddysgwyr yn dilyn y tarfu ar eu haddysg a achoswyd gan y pandemig a'i effeithiau parhaus wrth iddynt ddatblygu.

2.14.4 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau gofal plant ambarél cenedlaethol – Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a PACEY Cymru – er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu addysg gynnar mewn lleoliadau gofal plant. Yn 2022-23, caiff cymorth ariannol gwerth £300k ei ddarparu er mwyn gwella'r gwaith y mae'r sefydliadau hynny yn ei wneud i gefnogi ein dysgwyr ifancaf ac rydym yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn er mwyn parhau i gefnogi'r broses o weithredu'r cwricwlwm yn 2023-24.

## 2.15 Gwaith ieuenctid

***Manylion am y ffordd y mae Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg 2023-24 yn cefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol a darpariaeth gyllidebol ar gyfer cyflawni'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas ag atgyfnerthu gwasanaethau ieuenctid.***

2.15.1 O ganlyniad i gyllid ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb y llynedd, mae cyllid ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid yn cynyddu £2.5m i £11.956m yn 2023-24, gyda chynnydd pellach o £0.4m i £12.376m erbyn 2024-25. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, disgwylir trosglwyddiad pellach o £3.7m i gefnogi Digartrefedd Ieuenctid o Brif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd yn ystod y flwyddyn sy'n golygu mai cyfanswm y gyllideb fydd £15.656m yn 2023-24.

2.15.2 Bydd y dyraniad hwn yn ariannu nifer o grantiau i gefnogi a datblygu gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid a chyllid i sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol drwy'r Grant Sefydliadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol Strategol. Caiff cyllid ei ddyrannu hefyd er mwyn datblygu argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim a gweithredu arnynt er mwyn atgyfnerthu darpariaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru.

2.15.3 Mae'r gwasanaethau ataliol hanfodol hyn yn dibynnu'n fwyfwy ar ddatblygu dulliau partneriaeth arloesol er mwyn sicrhau bod mwy o gyfleoedd i gefnogi niferoedd uwch o bobl ifanc o bob cefndir. Er mwyn atgyfnerthu'r partneriaethau hyn, mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r Grant Cymorth Ieuenctid ar gyfer 2023-24 er mwyn i awdurdodau lleol allu cydweithio â sefydliadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol er mwyn gwneud gwaith ychwanegol i wella amrywiaeth a chynhwysiant yn eu gwasanaethau yn ogystal â datblygu

cyfleoedd pellach i bobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'u darpariaeth gwaith ieuenctid.

2.15.4 Mae'r gyllideb hon yn cyfrannu'n sylweddol at gefnogi rhai o'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed, yn cynnwys y rhai sy'n wynebu problemau emosiynol, iechyd meddwl neu lesiant sy'n dod i'r amlwg, a'r rhai sy'n wynebu'r risg o ddigartrefedd. Mae'r gwaith hwn sydd wedi'i dargedu yn adeiladu ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, gan wella gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a broceru ymyriadau ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys parhau â'r £2.5m o gyllid wedi'i dargedu i gefnogi pobl ifanc ag anghenion llesiant emosiynol neu iechyd meddwl mewn ffyrdd anghlinigol a thrwy gymorth gwaith ieuenctid yn y gymuned.

***Gwybodaeth am y ffordd y mae Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg 2023-24 yn cefnogi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru a gwaith y Bwrdd Gweithredu.***

2.15.5 Bydd y gyllideb yn parhau i gefnogi'r weledigaeth lefel uchel a nodir yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn ogystal â gwaith aelodau Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid a benodwyd ym mis Hydref 2022. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddatblygu argymhellion penodol a wnaed gan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim, ymgysylltu parhaus â phobl ifanc drwy Bwyllgor Pobl Ifanc ac ymgysylltu â'r sector drwy Grwpiau Cyfranogi mewn Gweithredu sy'n canolbwyntio ar bwnc penodol.

## 2.16 Dysgu Troseddwyr

***Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol yn 2023-24, sut mae'n cymharu â blynyddoedd blaenorol a'r ffordd y caiff ei gwario.***

2.16.1 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu (o arian a ddarperir i Weinidogion Cymru yn benodol at y diben hwn gan Lywodraeth y DU) y ddarpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd carchardai yng ngharchardai sector cyhoeddus Cymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth tair blynedd â HMPPS, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2022 a 2025, wedi'i lofnodi ac mae ar waith.

2.16.2 Dyrennir cyllideb gwerth £7.328m ar gyfer dysgu troseddwyr yn 2023-24, sy'n gyson â'r cyllid ar gyfer 2022-23, ond sy'n cyfateb i gynnydd o £0.7m o gymharu â 2021-22. O'r cyllid hwn, dyrennir £3.328m i dalu am gostau darpariaeth dysgu a sgiliau mewn carchardai yn y sector cyhoeddus yn Ne Cymru (CEF Brynbuga/Presgoed, CEF Caerdydd a CEF Abertawe). Dyrennir £4m arall i dalu am gostau darpariaeth dysgu a sgiliau mewn carchardai yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru (CEF Berwyn). HMPPS fydd yn gwneud iawn am unrhyw ddiffyg o ran cyllid ar gyfer CEF Berwyn. Roedd y trefniant hwn yn darparu ar gyfer y nifer cynyddol o ddysgwyr yn y carchar am fod carchardai eraill yn Lloegr yn cau.

## 2.17 Addysg bellach, adrannau Chweched Dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned

***Manylion dyraniadau cyflawn 2022-23 i golegau addysg bellach, i gynnwys symiau holl gydrannau'r dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, amddifadedd, teneurwydd a lwfansau cyfrwng Cymraeg, lwfans cynhaliaeth a'r addasiad Addysg Oedolion yng Nghymru).***

2.17.1 Mae'r wybodaeth hon ar gael yn **Atodiad F**.

***Manylion unrhyw gyllid damcaniaethol i sefydliadau addysg bellach neu adrannau chweched dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.***

2.17.2 Adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw fanylion ar gael am ddyraniadau adrannau chweched dosbarth ar gyfer 2023-24 (blwyddyn ariannol) na dyraniadau i golegau AB ar gyfer 2023/24 (blwyddyn academaidd). Disgwylir i gyllid wedi'i neilltuo ar gyfer Iechyd Meddwl, y Gronfa Dysgu Proffesiynol, Prentisiaethau Iau, Cyfrifon Dysgu Personol, y Biwro Cyflogaeth, cyllid ar gyfer Cymorth Dysgu Ychwanegol, y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a SEREN barhau yn 2023-24.

***Manylion unrhyw gyllid a ddarparwyd yng nghyllideb 2023-24 i sicrhau cyflogau cyfartal a/neu i fodloni unrhyw ddyfarniad cyflog i sefydliadau addysg bellach ac adrannau chweched dosbarth, yn cynnwys esboniad o ddigonolrwydd y cyllid i fodloni'n llawn unrhyw ddyfarniad cyflog / cyfatebiaeth cyflog y cytunwyd arno neu arni dros gyfnod y gyllideb hon.***

2.17.3 Ar hyn o bryd parheir i negodi dyfarniad cyflog 2022-23 rhwng y sector AB a'r undebau. Fodd bynnag, mae 5% ychwanegol wedi'i gynnwys yn y gyfradd uned cyllid ar gyfer dyraniadau 2022-23. Hysbyswyd y sector y bydd angen talu am unrhyw ddyfarniad cyflog a negodir o gyllid prif ffrwd gan gynnwys y cynnydd yn y gyfradd uned. Defnyddiwyd yr un cynnydd i'r gyfradd uned, sef 5%, ar gyfer adrannau chweched dosbarth. Mae'r cynnydd hwn yn unol ag argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB) a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Mae'r cynnydd hwn o 5% wedi'i gydgrynhoi yng nghyllideb 2023-24.

2.17.4 Er na fydd y dyraniadau i'r sector AB ac adrannau chweched dosbarth ar gael tan ddiwedd mis Ionawr, mae'n debygol y caiff dull gweithredu tebyg ei fabwysiadu. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cynnydd yn y gyfradd uned, a gaiff ei ategu gan y cynnydd o £9m mewn cyllid i Linell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl-16 yn 2023-24, y bydd angen i'r sector AB ac adrannau chweched dosbarth ei ddefnyddio i dalu am y dyfarniad cyflog terfynol.

***Manylion dyraniad llawn adrannau chweched dosbarth ar gyfer 2023-24 yn ôl pob awdurdod lleol.***

2.17.5 Adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw fanylion ar gael am ddyraniadau adrannau chweched dosbarth ar gyfer 2023-24. Mae'r dyraniadau terfynol yn seiliedig ar ddata archwiliedig nas cadarnhawyd eto. Caiff y dyraniadau terfynol eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Ionawr 2023.

***Copi o'r canllawiau mwyaf diweddar ar Dybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach a roddwyd i sefydliadau addysg bellach.***

2.17.6 Ceir y canllawiau diweddaraf ar dybiaethau rhagolygon ariannol yn Atodiad G. Mae'r tybiaethau yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf a oedd ar gael ar adeg comisiynu'r ymarfer rhagamcanu. Nid ydynt yn orfodol ar gyfer yr ymarfer, a gall colegau ddefnyddio eu tybiaethau rhagamcanol eu hunain, a ddarperir fel arfer fel rhan o'u sylwadau.

***Y dyraniad ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ôl y cyrff perthnasol sy'n derbyn y cyllid yn uniongyrchol.***

2.17.7 Adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw fanylion ar gael am ddyraniadau dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer 2023-24. Mae'r dyraniadau terfynol yn seiliedig ar ddata archwiliedig nas cadarnhawyd eto. Caiff y dyraniadau terfynol eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Ionawr 2023.

***Yr holl werthoedd o ran rhaglenni 2022-23 a 2023-24 a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyllid addysg bellach ac adrannau chweched dosbarth.***

2.17.8 Ceir Gwerthoedd Rhaglen 2022-23 yn **Atodiad H**. Adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw werthoedd rhaglen ar gael ar gyfer 2023-24.

## 2.18 Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ac ôl-16

***Manylion dyraniad CCAUC, yn cynnwys manylion unrhyw gyllid damcaniaethol, neu gyllid a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol yn cynnwys iechyd meddwl a lles myfyrwyr.***

2.18.1 Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniad adnoddau o £198.553m ar gyfer CCAUC yn 2023-24. Mae hyn yn unol â'r cyllidebau dangosol a gyflwynwyd y llynedd, a oedd yn cynnwys gostyngiad o £3.5m o gymharu â'r dyraniad refeniw ar gyfer 2022-23. Mae'n cynnwys gostyngiad net o £1.36m: £0.240m ychwanegol i dalu am godiad cyflog a throsglwyddiad o £1.6m i Linell Wariant yn y Gyllideb y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ar gyfer Cymru Fyd-eang. Mae'r elfennau canlynol wedi'u clustnodi o fewn y dyraniad:

- £2m i gefnogi iechyd meddwl a lles;
- £4m i barhau â chymorth ar gyfer ein cynllun STEM i raddedigion, ein cynllun Cymraeg a'n cynllun bwrsarïau cymhelliant i bobl dros 60 oed;
- £5m ar gyfer prentisiaethau gradd.

2.18.2 Er gwaethaf sefyllfa ariannol heriol iawn rydym wedi llwyddo i gynnal ein hymrwymiad ym maes AU, gan gydnabod y rôl hollbwysig y mae'n ei chwarae o ran cyflawni'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu a chefnogi lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

***Manylion unrhyw ddyraniad yn 2023-24 a fwriedir i gyflwyno prentisiaethau gradd ac a fwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu ond addysgu prentisiaid presennol.***

2.18.3 Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu cyllideb ddangosol gwerth £9.87m er mwyn cefnogi mewnddysgu a phrentisiaethau newydd. Mae dyraniad refeniw CCAUC yn cynnwys £5m sydd wedi'i glustnodi i gefnogi'r gwaith o ddarparu prentisiaethau gradd yng Nghymru, sy'n cynnal lefel y cymorth a ddarparwyd o gyllidebau AU mewn blynyddoedd blaenorol. Mae £4.87m arall wedi'i ddarparu yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Prentisiaethau ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi a gaiff ei drosglwyddo mewn cyllidebau atodol yn y dyfodol.

***Manylion unrhyw gyllid cyfalaf a fydd ar gael i CCAUC, yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau a roddir arno gan Lywodraeth Cymru.***

2.18.4 Yng nghyllideb gyfalaf AU, a ariennir o Linell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg dyrennir £10m ar gyfer rhesymoli ystadau AU yn 2023-24, sy'n parhau â'r buddsoddiad blynyddol o £10m a wnaed mewn blynyddoedd diweddar. Bydd y cyllid yn galluogi sefydliadau i barhau

i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n lleihau'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'u hystadau a helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yng ngwaith rheoli a gweithrediadau ystadau, gan eu gwneud yn fwy effeithlon a chynaliadwy yn y tymor hwy a lleihau eu heffaith amgylcheddol.

***Manylion unrhyw eitemau digwyddiadol/cronfeydd wrth gefn/cronfeydd heb eu dyrannu yn unrhyw un o Linellau Gwariant yn y Gyllideb 2023-24 sy'n ymwneud ag addysg drydyddol, yn cynnwys y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn y Cam Gweithredu Cymorth i Fyfyrwyr ôl-16; manylion ynghylch sut y caiff y cronfeydd eu defnyddio neu sut y gallant gael eu defnyddio; a manylion ynghylch unrhyw ddefnydd ohonynt yn ystod 2022-23.***

2.18.5 Yn 2022-23, gohiriwyd cyfanswm o £13m yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl-16 er mwyn cefnogi unrhyw ddyfarniad cyflog yn 2022-23. Fel yr amlinellwyd o dan adran 2.17, er bod argymhelliad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar gyfer dyfarniad cyflog Athrawon yn 2022-23, sef 5%, wedi'i gymeradwyo, mae'r trafodaethau ynghylch dyfarniad cyflog y sector AB yn dal i fynd rhagddynt. Cafodd cynnydd o 5% yn yr uned gyfradd cyllid ei gymhwyso'n ddiweddar, a bydd angen i adrannau chweched dosbarth awdurdodau lleol a cholegau AB rheoli'r dyfarniadau cyflog ar gyfer 2022-23 o'r swm hwnnw. Ni chaiff y dull gweithredu hwn ei fabwysiadu yn 2023-24 pan ddisgwylir i holl gyllideb y flwyddyn ariannol lawn gael ei defnyddio.

2.18.6 Mae cyllid yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr ar gyfer Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16 yn seiliedig ar alw sydd, drwy ddiffiniad, yn golygu eu bod yn anodd i'w rhagfynegi, eu rheoli neu eu rhagamcanu ac y byddant yn amrywio yn ôl demograffig a nifer yr unigolion sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau AU. Caiff rhagamcanion eu llunio gan ddefnyddio modelau cymorth i fyfyrwyr yr Is-adran Addysg Uwch (gan ymgorffori'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o newidynnau, yn cynnwys niferoedd myfyrwyr, cyfraddau chwyddiant a data economaidd eraill), ond fel y flwyddyn ariannol hon, gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r rhai a ragfynegwyd Yn seiliedig ar danwariannau hanesyddol ac fel rhan o'r angen i ddychwelyd cyllid i gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru er mwyn iddo gael ei ailflaenoriaethu, mae'r gyllideb hon yn cyfateb i ostyngiad o £11.8m yn 2023-24 a £12.8m yn 2024-25 yn y gyllideb ar gyfer grantiau cymorth i fyfyrwyr. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, nid oes unrhyw effaith ar gymorth grant ariannol i fyfyrwyr cymwys sy'n byw yng Nghymru sy'n aros yn ddigyfnewid.

***Grantiau: Tabl yn dangos alldro 2021-22, a gwariant rhagamcanol y pedair blynedd wedyn (wedi'u dadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU) ar gyfer: Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf amser llawn (GGALl; Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf ran-amser (GGRA; Grant Cynhaliaeth GGRA; Elfen grant Cyllid Meistr; Lwfans Cynhaliaeth Addysg; Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLlC(AB)).***

2.18.7 Mae'r wybodaeth hon ar gael yn **Atodiad I**.

***Darpariaeth benthyciadau: Tabl yn dangos alldro 2021-22, a ffioedd benthyciadau rhagamcanol y pedair blynedd wedyn (wedi'u dadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU) ar gyfer: Ffioedd dysgu a ffioedd benthyciadau cynhaliaeth GGALl a thâl Cyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau (RAB), Ffioedd dysgu a ffioedd benthyciadau cynhaliaeth GGRA a thâl RAB, elfen benthyciad Cyllid Meistr a thâl RAB, ffioedd benthyciadau Doethurol a thâl RAB***

2.18.8 Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn **Atodiad I**.

## 2.19 Darpariaeth addysg ôl-16 arall

***Manylion cyllid Cyfrifon Dysgu Personol***

2.19.1 Lansiwyd Cyfrifon Dysgu Personol fel cynllun peilot gwerth £2m mewn dau goleg ym mlwyddyn academaidd 2019/20. Yn 2020-21, cyfunwyd y cyllid hwn â'r Gronfa Datblygu Sgiliau gwerth £10m er mwyn creu Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol gwerth £12m. Yn ystod y cyfnod peilot hwn, canolbwyntiwyd yn benodol ar uwchsgilio neu ailsgilio yn y sector Peirianneg, y sector Adeiladu a'r sector Digidol. Yn dilyn y flwyddyn beilot, cyflwynwyd Cyfrifon Dysgu Personol ledled Cymru.

2.19.2 Dyrannwyd £5.4m ychwanegol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, sy'n golygu mai cyfanswm gwerth y rhaglen yw £17.4m. Ar gyfer 2022-23, mae £17.89m wedi'i ddyrannu ar gyfer y rhaglen. Mae'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24 yn dal i fod yn £17.89m.

2.19.3 Ar 17 Hydref, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi a minnau ar y cyd hwb sgiliau o £3 miliwn i'r sector digidol a'r sector gwyrdd a oedd yn cynnwys buddsoddiad gwerth £2m fel rhan o raglen Cyfrifon Dysgu Personol i uwchsgilio neu ailsgilio mewn sgilau sero net neu ddysgu sgiliau sero net newydd a mynd i'r afael â'r prinder sgiliau er mwyn sicrhau y caiff anghenion yr economi eu diwallu yn y dyfodol.

***Manylion y gyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cenedlaethol.***

2.19.4 Yn 2022-23, cyllid craidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw £7.013m. Mae hyn yn cynnwys cyllid o £5.046m ar gyfer rhaglen addysg uwch y Coleg a £0.684m ar gyfer ei gynllun ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn addysg uwch, mae £4.184m yn cefnogi'n uniongyrchol ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn prifysgolion a meysydd pwnc. Darperir cymorth hanfodol drwy ganghennau'r Coleg i ddarlithwyr, datblygu staff a chyhoeddiadau. Yn y sector ôl-16, mae cyfanswm o £1.283m wedi'i ddyrannu er mwyn cefnogi Cynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg Addysg Bellach a Phrentisiaethau, sy'n darparu grantiau datblygu mewn meysydd â blaenoriaeth gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.19.5 O fewn y cyllid craidd, mae'r Coleg yn darparu hyfforddiant a mentora drwy Sgiliaith, er mwyn galluogi tiwtoriaid ac aseswyr i ennyn hyder wrth addysgu'n ddwyieithog a chefnogaeth i'r sector prentisiaeth. Darperir cyllid grant ychwanegol o feysydd eraill i ddatblygu adnoddau digidol ac adnoddau eraill, y prosiect llysgenhadon a chymorth i ddatblygu athrawon Cymraeg fel pwnc a chyfrwng Cymraeg.

2.19.6 Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector prentisiaethau ac addysg bellach a sicrhau bod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn darparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed. Yng nghyllideb y llynedd, dyrannwyd £8m ychwanegol hyd at 2024-25 (dyrannwyd £1.5m ar gyfer y Coleg yn 2022-23, gyda chynnydd pellach i gefnogi'r Coleg a'r Ganolfan Genedlaethol o £3m yn 2023-24 a £3.5m yn 2024-25). Cynhelir y cyllid hwnnw yn y gyllideb hon. Mae gan y Coleg gydberthynas waith agos â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eisoes, a bydd cydweithio pellach yn atgyfnerthu'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i'r sector ôl-16 cyfrwng

Cymraeg. O'r £4.5m ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio ar gyfer 2023-24, rhoddir £2.825m i'r Coleg ac £1.675 i'r Ganolfan Genedlaethol.

***Manylion cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu.***

2.19.7 Yn fy **natganiad** diweddar, rhoddais ddiweddariad ar y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (Taith). Dyraniadau'r gyllideb ddrafft i gefnogi Taith yw £8.1m yn 2023-24 a 2024-25. Mae'r proffil cyflawni a'r gofynion cyllido ar gyfer Taith yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd yng nghyd-destun ceisiadau'r flwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau bod y Rhaglen yn cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithiol ar gyfer pob dysgwr a sector yng Nghymru.

***Manylion unrhyw gyllid UE y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio yn ystod 2022-23 i sicrhau darpariaeth addysg drydyddol (h.y. o fewn AU, AB, Dysgu Oedolion yn y Gymuned, adrannau chweched dosbarth, a heb gynnwys prentisiaethau)***

2.19.8 Ni ddisgwylir i Lywodraeth Cymru ddefnyddio unrhyw gyllid UE yn ystod 2023-24 i sicrhau unrhyw ddarpariaeth addysg drydyddol heblaw am gyllid ar gyfer prentisiaethau.

## 2.20 Gwarant i Bobl Ifanc

***Manylion darpariaeth gyllidebol o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg sy'n cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc.***

2.20.1 Mae cyllid ar gyfer colegau AB, adrannau chweched dosbarth awdurdodau lleol, darpariaeth awdurdodau lleol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned a Chyfrifon Dysgu Personol, a ddyrannwyd o Linell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl-16, oll yn cyfrannu at y Warant i Bobl Ifanc. Yn 2022-23 mae'r swm hwn tua £455m, sy'n cynnwys yr holl ddarpariaeth lawn amser i bobl ifanc 16-25 oed (gan gynnwys cyllid adnewyddu a diwygio) a chyfran o'r ddarpariaeth ran-amser ar gyfer darpariaeth AB a Chyfrifon Dysgu Personol.

## 2.21 Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

***Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a hynt y rhaglen hyd yma, yn cynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd neu a gymeradwywyd hyd yma, wedi'u dadansoddi yn ôl Band A a Band B.***

2.21.1 Mae Band A yn tynnu at ei derfyn ar ôl buddsoddi £1.61bn yn seilwaith ysgolion a cholegau yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £801m. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cyflawni 172 o brosiectau yn erbyn targed o 150. O'r prosiectau hyn, mae 167 wedi'u cwblhau, gyda'r gweddill wrthi'n cael eu hadeiladu. Mae mwy na 100,000 o ddysgwyr wedi elwa o dan Fand A.

2.21.2 Mae Band B yn mynd rhagddo ar ôl dechrau'n swyddogol ym mis Ebrill 2019. Hyd yma, cymeradwywyd 82 o Achosion Cyfiawnhau Busnes / Achosion Busnes Llawn, sef 41% o darged cyffredinol y Rhaglen. Ar hyn o bryd, mae 29 o brosiectau wedi'u cwblhau, sef 15% o darged y Rhaglen. Mae gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar 19 o brosiectau, sef 11% o darged y Rhaglen.

2.21.3 Mae cyllideb 2022-23 yn ymrwymo i fuddsoddi cyllid cyfalaf gwerth £300m a £600m arall dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf (£300m y flwyddyn) er mwyn cefnogi ein Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Ynghyd â chyllid cyfalaf arall, mae hyn yn cynrychioli cynnydd cyfalaf blynyddol i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg o 31.7% ar gyfer 2022-23 a 33.6% ar gyfer 2023-24 a 2024-25, o gymharu llinell sylfaen 2021-22y Rhaglen. Mae'r dyraniad tair blynedd hwn yn sail i ddull strategol y Rhaglen o fuddsoddi mewn ysgolion a cholegau, gan ddarparu sail gadarn i gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio.

2.21.4 Hefyd, bydd ein ffrwd buddsoddi a ariennir gan refeniw, sef y Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM), yn targedu £500m o fuddsoddiad drwy'r Rhaglen. Yn dilyn cymeradwyo Achosion Busnes Llawn y Model Buddsoddi ar y Cyd ar gyfer Rhondda Cynon Taf (3 ysgol gynradd newydd) a Sir y Fflint (Campws Dysgu 3-16 oed Mynydd Isa), sef dau brosiect Braenaru cyntaf y Model Buddsoddi ar y Cyd, mae'r ddau brosiect bellach wedi cyrraedd y Cam Ariannol Terfynol. Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Sefydliadau Addysg Bellach a WEPCo er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch fforddiadwyedd eu prosiectau a disgwylir i'r rhain fynd yn eu blaen tuag at y Cam Ariannol Terfynol yn y dyfodol agos.

***Goblygiadau'r cynnydd mewn prisiau ynni a chostau byw ar gyfer rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, gan gynnwys unrhyw effaith ar hynt a chostau prosiectau.***

2.21.5 Er i waith adeiladu fynd rhagddo'n llwyddiannus o dan Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, mae prisiau ynni a'r rhyfel yn Wcráin yn effeithio ar gostau adeiladu. Mae argaeledd deunyddiau adeiladu a llafur wedi arwain at gynnydd o tua 15% mewn costau. O dan ddull datblygu ar y cyd y Rhaglen, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol a Sefydliadau AB i reoli cynnydd mewn costau ar y cyd.

2.21.6 Bwriadwyd i'r cyllid ychwanegol a sicrhawyd gan y Rhaglen gyflymu'r broses o gyflawni'r Rhaglen drwy roi rhaglen dreigl fwy dynamig ar waith. Yn wahanol i fandiau rhaglenni sefydlog, mae'r rhaglen dreigl a gyflwynwyd yn ddiweddar yn rhoi mwy o hyblygrwydd i bartneriaid cyflawni wrth iddynt fynd ati i gyflawni eu prosiectau â blaenoriaeth; gan alluogi'r rheini a all gyflawni'r rhaglen yn gyflym i wneud hynny.

2.21.7 Er y disgwylir i raglenni gael eu cyflymu i ryw raddau, wrth reswm bydd pwysau costau sy'n gysylltiedig â phrisiau ynni uwch a chostau byw cyffredinol yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn ogystal â chyllidebau ein partneriaid cyflawni. O dan y fframwaith cyflawni a ddatblygwyd ar y cyd, byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid wrth inni weithio drwy'r cyfnod anodd hwn.

***Goblygiadau ariannol polisïau carbon sero net Llywodraeth Cymru a sut mae hyn yn effeithio ar gyllideb ddrafft 2023-24.***

2.21.8 Ers mis Ionawr 2022 mae angen i'r holl brosiectau a gyflawnir o dan Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu nad oeddent eisoes wedi'u cymeradwyo ar y cam Achos Busnes Amlinellol gael eu cyflawni fel carbon sero net ar waith, a hefyd bydd angen pennu targedau i leihau'r carbon ymgorfforedig sy'n gysylltiedig ag adeiladu; tua 20% o welliant yn erbyn safonau dylunio da presennol.

2.21.9 Fel y gwelwyd pan gyflwynwyd safonau amgylcheddol BREEAM, mae cynnydd cychwynnol mewn costau. Wrth i'r sector ymgyfarwyddo â'r newid mewn safonau, ac wrth i ddatblygiadau mewn prosesau gweithgynhyrchu deunyddiau ac adeiladu addasu, mae'n

rhesymol disgwyl i'r premiwm carbon sero net presennol o 12.5% leihau dros amser. Yn y cyfamser, ac er mwyn dangos yr ymrwymiad tuag at fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae'r gost ychwanegol hon yn cael ei thalu drwy gyfraniad Llywodraeth Cymru at gostau prosiect ar gyfer yr holl brosiectau sy'n weddill o dan y don bresennol o fuddsoddi. Bydd y cynnydd mewn cyllid a adlewyrchir yng nghyllideb gyfalaf y Rhaglen yn helpu i gefnogi'r costau ychwanegol wrth gyflawni ymrwymiad ysgolion a cholegau carbon sero net.

2.21.10 Lansiodd rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Her Ysgolion Cynaliadwy arloesol drwy'r Rhaglen a'r fframwaith llywodraethu presennol a gaeodd ar gyfer ceisiadau ar 3 Tachwedd 2022. Gan adeiladu ar fandad Carbon Sero Net ym mhob rhan o'r Rhaglen, cafwyd ceisiadau gan awdurdodau lleol sy'n dangos trefniadau arloesol a chydweithredol ar gyfer dylunio, datblygu, cyflwyno a rheoli ysgolion newydd a all wneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd a'r dirwedd o'u hamgylch a gwaith gyda dysgwyr i lywio'r Cwricwlwm newydd.Cafwyd cyfanswm o 17 o geisiadau gan awdurdodau lleol gyda saith yn cael eu rhoi ar y rhestr fer gan Grŵp Craffu ar Achosion Busnes y Rhaglen. Mae panel barnu, sy'n cynnwys arbenigwyr diwydiant ym maes cynaliadwyedd, yn asesu'r prosiectau hynny a roddwyd ar y rhestr fer. Byddaf yn cyhoeddi'r ddau brosiect llwyddiannus ym mis Ionawr. Bydd dyraniad o hyd at £30 miliwn, sydd wedi'i anelu ar ysgolion cynradd, yn darparu cyllid llawn ar gyfer dau brosiect, £15 miliwn fesul prosiect – y naill yn y gogledd a'r llall yn y de.

### 2.22 Cyllid cyfalaf ar gyfer gofal plant

***Gwybodaeth am gyllid cyfalaf o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a rhaglen Dechrau'n Deg, gan gynnwys effaith cymhwystra a hawl ddiwygiedig.***

2.22.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi cyllid cyfalaf er mwyn cefnogi'r sector gofal plant gyda darpariaeth gyllidebol gwerth £25m yn cael ei dyrannu o fewn Seilwaith Addysg ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25. Drwy'r cyllid cyfalaf hwn rydym yn cynyddu cyfleoedd i blant gael addysg a phrofiadau o ofal o ansawdd uchel yn gynnar yn ystod plentyndod a chael budd ohonynt, sy'n hanfodol i fynd i'r afael ag effeithiau anfantais a chau'r bwlch cyrhaeddiad.

2.22.2 Gall pob darparwr gofal plant cofrestredig gael y cyllid hwn er mwyn helpu i ddarparu buddsoddiadau cyfalaf bach, yn ogystal â buddsoddiadau cyfalaf mawr megis adeiladau newydd, estyniadau neu waith mawr.

2.22.3 Nod Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer y lleoedd ym mhob lleoliad gofal plant (gan gynnwys rhaglen Dechrau'n Deg); felly, mae'n briodol ‘ailosod’ y grantiau cyfalaf sydd ar gael. Bydd hyn yn ategu'r cytundeb i ymestyn darpariaeth y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn 2 oed a chynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a galwadau i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach er mwyn helpu rhieni i gael gofal plant yn fwy cyffredinol. Felly, mae'n briodol symud i ffwrdd oddi wrth ffocws ar y Cynnig Gofal Plant a darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig.

2.22.4 Mae rhaglen grant cyfalaf newydd, a elwir yn Grant Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, bellach wedi'i sefydlu. Bydd ar gael i bob lleoliad gofal plant cofrestredig, drwy ei awdurdod lleol. O ystyried pwysigrwydd polisïau'r Cynnig Gofal Plant a rhaglen Dechrau'n Deg, gallai'r Grant newydd barhau i ddefnyddio'r meini prawf hyn fel ffordd o lywio'r gwaith o flaenoriaethu ceisiadau.

### 2.23 Cyllid cyfalaf ar gyfer menter Ysgolion Bro

***Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y grant Canolfannau Cymunedol a Chanolfannau Dysgu Cymunedol a diweddariad ar hynt y gwaith o gynyddu natur gymunedol ystadau addysg ac addasu safleoedd i'w defnyddio gan y gymuned.***

2.23.1 Mae'r Rhaglen Beilot ar gyfer Canolfannau Cymunedol gwerth £15m a lansiwyd yn 2019 yn mynd rhagddi'n dda. Hyd yma, cwblhawyd 18 o'r 21 o brosiectau a gymeradwywyd gyda 3 ar y cam adeiladu.

2.23.2 Mae manteision cyflawni polisi mewn modd cydgysylltiedig drwy Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu eisoes yn glir, fel y'u gwelwyd drwy'r broses lwyddiannus o gyflawni rhaglenni buddsoddi cyfalaf y Gymraeg, Dechrau'n Deg a Gofal Plant. Rydym am adeiladu ar hyn drwy archwilio pob cyfle ac adnodd sydd ar gael i sicrhau bod ein dysgwyr a'u cymunedau yn profi cynifer o ganlyniadau llesiant â phosibl.

2.23.3 Mae'r dysgu, arfer dda a manteision i ddysgwyr, eu teuluoedd a chymunedau ehangach drwy'r gwaith yn cael eu trosi'n Safonau Dylunio a Chostau diwygiedig o dan broses achos busnes Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu; cynhelir gweithdai i hwyluso hyn ym mis Rhagfyr, mis Ionawr a mis Chwefror 2023. Bydd canlyniad hyn yn sicrhau mai Ysgolion Cymunedol yw'r norm a disgwyliwn weld arbedion effeithlonrwydd yn dod i'r amlwg wrth inni brif-ffrydio Ysgolion Cymunedol drwy raglen fuddsoddi sefydledig Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

2.23.4 Mae ein gweledigaeth ar gyfer Ysgolion Bro yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan ysgolion gydberthnasau cadarnhaol â theuluoedd a gofalwyr; bod yr ysgol yn cael ei hystyried yn ganolfan i'r gymuned leol a bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill er mwyn darparu cymorth i'r rhai sydd ei angen.

2.23.5 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn y setliad cyllideb gyfalaf. Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddais fuddsoddiad o bron i £25m (2022/23) mewn Ysgolion Bro er mwyn mynd i'r afael ag effaith tlodi, yr oedd £20m o'r swm hwnnw'n gyllid cyfalaf ar gyfer ffyrdd ymarferol o wella cyfleusterau ysgolion er mwyn galluogi cymunedau i wneud mwy o ddefnydd ohonynt.

**Crynodeb**

Caiff Cyllideb Ddrafft 2023-24 Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

**Jeremy Miles AS**

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

Papur 02a - Atodiad A - Dadansoddiad Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2023-24, alldro rhagolygol 2022-23 ac alldro terfynol 2021-22

**Adnodd**

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2021-22 £000oedd | Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022) £000oedd | Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 (Mehefin 2022) £000oedd | Alldro Rhagolygol 2022-23 (Cyfnod 7) £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23 – Mawrth 2022) £000oedd | Newidiadau 2023-24 £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022) £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23 – Mawrth 2022) £000oedd | Newidiadau 2024-25 £000oedd | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 (Rhagfyr 2022) £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llythrennedd a Rhifedd** | Llythrennedd a Rhifedd | 8,885 | 4,991 | 4,691 | 4,691 | 5,216 | -5,216 | 0 | 4,716 | -4,716 | 0 |
| **Cyfanswm Llythrennedd a Rhifedd** | | **8,885** | **4,991** | **4,691** | **4,691** | **5,216** | **-5,216** | **0** | **4,716** | **-4,716** | **0** |
| **Cwricwlwm** | Cwricwlwm ac Asesu | 20,418 | 14,430 | 14,330 | 14,330 | 14,430 | 22,034 | 36,464 | 14,430 | 18,194 | 32,624 |
| | Diwygio'r Cwricwlwm | 20,084 | 19,380 | 19,780 | 19,580 | 19,050 | -19,050 | 0 | 15,710 | -15,710 | 0 |
| | Y Cyfnod Sylfaen | 168 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Cwricwlwm** | | **40,670** | **33,810** | **34,110** | **33,910** | **33,480** | **2,984** | **36,464** | **30,140** | **2,484** | **32,624** |
| **Addysgu ac Arweinyddiaeth** | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 57,988 | 54,654 | 54,470 | 60,004 | 55,154 | -920 | 54,234 | 57,154 | -920 | 56,234 |
| **Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth** | | **57,988** | **54,654** | **54,470** | **60,004** | **55,154** | **-920** | **54,234** | **57,154** | **-920** | **56,234** |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau Cymru | 8,519 | 9,617 | 9,525 | 9,537 | 9,617 | 390 | 10,007 | 9,617 | 390 | 10,007 |
| | Cymwysterau Cymru - Heb fod yn Arian Parod | 220 | 250 | 364 | 362 | 250 | 0 | 250 | 250 | 0 | 250 |
| **Cyfanswm Cymwysterau** | | **8,739** | **9,867** | **9,889** | **9,899** | **9,867** | **390** | **10,257** | **9,867** | **390** | **10,257** |
| **Addysg Ôl-16** | Darpariaeth Ôl-16 | 642,465 | 559,103 | 562,913 | 559,534 | 564,903 | 9,360 | 574,263 | 567,703 | 9,360 | 577,063 |
| | Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu | 0 | 6,500 | 8,100 | 8,100 | 6,500 | 1,600 | 8,100 | 6,500 | 1,600 | 8,100 |
| | Diwygio PCET | 446 | 1,500 | 1,500 | 2,174 | 7,000 | -1,000 | 6,000 | 6,000 | 0 | 6,000 |
| | Diwygio PCET – Heb fod yn Arian Parod | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 650 | 650 | 0 | 650 | 650 |
| | Trawsnewid Digidol | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2021-22<br>£000oedd | Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022)<br>£000oedd | Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 (Mehefin 2022)<br>£000oedd | Alldro Rhagolygol 2022-23 (Cyfnod 7)<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23 – Mawrth 2022)<br>£000oedd | Newidiadau 2023-24<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022)<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23 – Mawrth 2022)<br>£000oedd | Newidiadau 2024-25<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 (Rhagfyr 2022)<br>£000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Addysg Ôl-16** | | **643,161** | **567,103** | **572,513** | **569,808** | **578,403** | **10,610** | **589,013** | **580,203** | **11,610** | **591,813** |
| **Addysg Uwch** | Gwariant Rhaglen CCAUC | 263,344 | 203,413 | 204,964 | 205,771 | 199,913 | -1,360 | 198,553 | 199,913 | -1,360 | 198,553 |
| | CCAUC – Gwariant Rhaglen – Heb fod yn Arian Parod | 0 | 100 | 100 | 100 | 100 | 0 | 100 | 100 | 0 | 100 |
| **Cyfanswm Addysg Uwch** | | **263,344** | **203,513** | **205,064** | **205,871** | **200,013** | **-1,360** | **198,653** | **200,013** | **-1,360** | **198,653** |
| **Safonau Addysg** | Grant Gwella Ysgolion | 222,037 | 171,159 | 171,159 | 171,282 | 163,159 | 5,500 | 168,659 | 154,159 | 5,500 | 159,659 |
| | Codi Safonau Ysgolion | 22,872 | 0 | 0 | -411 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cefnogi Safonau Ysgolion | 1,065 | 2,804 | 1,204 | 1,555 | 4,104 | 2,792 | 6,896 | 5,204 | 2,792 | 7,996 |
| **Cyfanswm Safonau Addysg** | | **245,974** | **173,963** | **172,363** | **172,426** | **167,263** | **8,292** | **175,555** | **159,363** | **8,292** | **167,655** |
| **Grant Datblygu Disgyblion** | Grant Datblygu Disgyblion | 122,263 | 147,580 | 147,580 | 149,714 | 133,480 | 9,000 | 142,480 | 133,480 | 9,000 | 142,480 |
| **Cyfanswm Grant Datblygu Disgyblion** | | **122,263** | **147,580** | **147,580** | **149,714** | **133,480** | **9,000** | **142,480** | **133,480** | **9,000** | **142,480** |
| **TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth** | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 2,947 | 4,429 | 4,429 | 3,879 | 4,429 | -500 | 3,929 | 4,429 | -500 | 3,929 |
| | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg – Heb fod yn Arian Parod | 0 | 0 | 0 | 2,488 | 0 | 2,488 | 2,488 | 0 | 2,488 | 2,488 |
| **Cyfanswm TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth** | | **2,947** | **4,429** | **4,429** | **6,367** | **4,429** | **1,988** | **6,417** | **4,429** | **1,988** | **6,417** |
| **Llesiant plant a phobl ifanc** | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 31,070 | 21,091 | 20,875 | 19,100 | 21,091 | 4,500 | 25,591 | 21,091 | 4,500 | 25,591 |
| | Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 6,779 | 70,315 | 70,315 | 59,605 | 78,915 | 0 | 78,915 | 98,915 | 0 | 98,915 |
| | Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 | 12,939 | 13,881 | 13,881 | 13,881 | 13,881 | 0 | 13,881 | 13,881 | 0 | 13,881 |

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2021-22<br>£000oedd | Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022)<br>£000oedd | Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 (Mehefin 2022)<br>£000oedd | Alldro Rhagolygol 2022-23 (Cyfnod 7)<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23 – Mawrth 2022)<br>£000oedd | Newidiadau 2023-24<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022)<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23 – Mawrth 2022)<br>£000oedd | Newidiadau 2024-25<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 (Rhagfyr 2022)<br>£000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant | 2,183 | 5,200 | 5,200 | 5,162 | 7,400 | 0 | 7,400 | 9,600 | 0 | 9,600 |
| | Grwpiau Agored i Niwed | 583 | 1,150 | 1,150 | 1,150 | 1,150 | 0 | 1,150 | 1,150 | 0 | 1,150 |
| **Cyfanswm Llesiant plant a phobl ifanc** | | **53,554** | **111,637** | **111,421** | **98,898** | **122,437** | **4,500** | **126,937** | **144,637** | **4,500** | **149,137** |
| **Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 344,414 | 358,717 | 358,717 | 332,417 | 358,717 | -11,822 | 346,895 | 358,717 | -12,822 | 345,895 |
| | Costau Gweinyddol CBM/CThEM | 20,382 | 14,643 | 14,643 | 22,014 | 14,643 | 0 | 14,643 | 18,143 | 0 | 18,143 |
| | Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau Myfyrwyr | -724,151 | 459,425 | 459,425 | 459,425 | 488,010 | 0 | 488,010 | 514,341 | 0 | 514,341 |
| | Dyfarniadau Cymorth i Fyfyrwyr wedi'u Targedu | 2,370 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | | **-356,985** | **832,785** | **832,785** | **813,856** | **861,370** | **-11,822** | **849,548** | **891,201** | **-12,822** | **878,379** |
| **Ymgysylltu â Disgyblion** | Trechu Dadrithiad | 8,682 | 5,405 | 5,362 | 5,434 | 7,905 | 0 | 7,905 | 7,905 | 0 | 7,905 |
| | Ysgolion Cymunedol | 350 | 3,070 | 3,070 | 3,070 | 5,100 | 0 | 5,100 | 15,920 | 0 | 15,920 |
| **Cyfanswm Ymgysylltu â Disgyblion** | | **9,032** | **8,475** | **8,432** | **8,504** | **13,005** | **0** | **13,005** | **23,825** | **0** | **23,825** |
| **Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid** | Dysgu Troseddwyr | 7,303 | 7,328 | 7,328 | 7,328 | 7,328 | 0 | 7,328 | 7,328 | 0 | 7,328 |
| | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | 13,698 | 9,456 | 13,156 | 12,845 | 11,956 | 0 | 11,956 | 12,376 | 0 | 12,376 |
| **Cyfanswm Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid** | | **21,001** | **16,784** | **20,484** | **20,173** | **19,284** | **0** | **19,284** | **19,704** | **0** | **19,704** |
| **Cymorth Cyflawni** | Cyfathrebu Addysg | 448 | 482 | 413 | 462 | 482 | 0 | 482 | 482 | 0 | 482 |
| | Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol | 851 | 574 | 574 | 574 | 574 | 0 | 574 | 574 | 0 | 574 |
| **Cyfanswm Cymorth Cyflawni** | | **1,299** | **1,056** | **987** | **1,036** | **1,056** | **0** | **1,056** | **1,056** | **0** | **1,056** |
| **Cymraeg mewn Addysg** | Cymraeg mewn Addysg | 14,856 | 17,775 | 17,775 | 17,611 | 20,775 | 0 | 20,775 | 24,275 | 0 | 24,275 |

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2021-22<br>£000oedd | Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022)<br>£000oedd | Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 (Mehefin 2022)<br>£000oedd | Alldro Rhagolygol 2022-23 (Cyfnod 7)<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23 – Mawrth 2022)<br>£000oedd | Newidiadau 2023-24<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022)<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23 – Mawrth 2022)<br>£000oedd | Newidiadau 2024-25<br>£000oedd | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 (Rhagfyr 2022)<br>£000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg** | | **14,856** | **17,775** | **17,775** | **17,611** | **20,775** | **0** | **20,775** | **24,275** | **0** | **24,275** |
| **Y Gymraeg** | Y Gymraeg | 22,428 | 22,404 | 22,404 | 23,058 | 22,404 | 0 | 22,404 | 22,404 | 0 | 22,404 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,187 | 3,207 | 3,113 | 3,165 | 3,207 | 150 | 3,357 | 3,207 | 150 | 3,357 |
| | Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod | 62 | 120 | 216 | 0 | 120 | 49 | 169 | 120 | 1 | 121 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **25,677** | **25,731** | **25,733** | **26,223** | **25,731** | **199** | **25,930** | **25,731** | **151** | **25,882** |
| **Ystad a Darpariaeth TG** | Seilwaith Addysg | 45,800 | 500 | 500 | 2,220 | 7,000 | -2,000 | 5,000 | 12,000 | -2,000 | 10,000 |
| **Cyfanswm Ystad a Darpariaeth TG** | | **45,800** | **500** | **500** | **2,220** | **7,000** | **-2,000** | **5,000** | **12,000** | **-2,000** | **10,000** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU** | | **1,208,205** | **2,214,653** | **2,223,226** | **2,201,211** | **2,257,963** | **16,645** | **2,274,608** | **2,321,794** | **16,597** | **2,338,391** |

**Cyfalaf**

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2021-22 £000oedd | Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022) £000oedd | Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 (Mehefin 2022) £000oedd | Alldro Rhagolygol 2022-23 (Cyfnod 7) £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23) £000oedd | Newidiadau 2023-24 £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022) £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23) £000oedd | Newidiadau 2024-25 £000oedd | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 (Rhagfyr 2022) £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwricwlwm** | Cwricwlwm ac Asesu | 5,500 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y Cwricwlwm** | | **5,500** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Ystad a Darpariaeth TG** | Seilwaith Addysg | 319,844 | 353,493 | 353,493 | 351,543 | 369,877 | 0 | 369,877 | 356,714 | 0 | 356,714 |
| **Cyfanswm Ystad a Darpariaeth TG** | | **319,844** | **353,493** | **353,493** | **351,543** | **369,877** | **0** | **369,877** | **356,714** | **0** | **356,714** |
| **TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth** | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 7,462 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth** | | **7,462** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16** | Costau Gweinyddol CBM/CThEM | 1,865 | 2,500 | 2,500 | 3,357 | 2,500 | 0 | 2,500 | 2,500 | 0 | 2,500 |
| **Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | | **1,865** | **2,500** | **2,500** | **3,357** | **2,500** | **0** | **2,500** | **2,500** | **0** | **2,500** |
| **Addysg Uwch** | Gwariant Rhaglen CCAUC | 0 | 100 | 100 | 100 | 100 | 0 | 100 | 100 | 0 | 100 |
| **Cyfanswm Addysg Uwch** | | **0** | **100** | **100** | **100** | **100** | **0** | **100** | **100** | **0** | **100** |
| **Addysg Ôl-16** | Darpariaeth Ôl-16 | 13,067 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addysg Ôl-16** | | **13,067** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau Cymru | 251 | 250 | 798 | 801 | 250 | 0 | 250 | 250 | 0 | 250 |
| **Cyfanswm Cymwysterau** | | **251** | **250** | **798** | **801** | **250** | **0** | **250** | **250** | **0** | **250** |
| **Y Gymraeg** | Comisiynydd y Gymraeg | 246 | 50 | 50 | 145 | 50 | 0 | 50 | 50 | 0 | 50 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **246** | **50** | **50** | **145** | **50** | **0** | **50** | **50** | **0** | **50** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF GYFFREDINOL** | | **348,235** | **356,393** | **356,941** | **355,946** | **372,777** | **0** | **372,777** | **359,614** | **0** | **359,614** |

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2021-22 £000oedd | Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022) £000oedd | Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 (Mehefin 2022) £000oedd | Alldro Rhagolygol 2022-23 (Cyfnod 7) £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23) £000oedd | Newidiadau 2023-24 £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022) £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Cyllideb Derfynol Ddangosol 2022-23) £000oedd | Newidiadau 2024-25 £000oedd | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 (Rhagfyr 2022) £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ystad a Darpariaeth TG** | Seilwaith Addysg – Trafodiadau Ariannol | 827 | 0 | 0 | 2,043 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ystad a Darpariaeth TG** | | **827** | **0** | **0** | **2,043** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **ADDYSG – CYFANSWM CYLLIDEB GYFALAF TRAFODIADAU ARIANNOL** | | **827** | **0** | **0** | **2,043** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **ADDYSG – CYFANSWM CYLLIDEB GYFALAF** | | **349,062** | **356,393** | **356,941** | **357,989** | **372,777** | **0** | **372,777** | **359,614** | **0** | **359,614** |

## Papur 02b – Atodiad B - Sylwadau lefel cam gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant Adnodd

***Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Llythrennedd a Rhifedd

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Llythrennedd a Rhifedd yn cwmpasu gwahanol weithgareddau sy'n ategu'r gwaith o addysgu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ac sydd hefyd yn cynnwys y broses barhaus o ddatblygu ein Hasesiadau Personol ar gyfer Darllen a Rhifedd.

- Gan fod y Cwricwlwm i Gymru bellach yn cael ei gyflwyno, mae angen rhesymoli strwythur y Llinell Wariant yn y Gyllideb sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a gwaith asesu – yn y bôn mae Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Llythrennedd a Rhifedd, Cwricwlwm ac Asesu a Diwygio'r Cwricwlwm bellach yn ariannu gweithgarwch sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru.

- Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol bellach wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, mae cyllideb Llinell Wariant yn y Gyllideb Llythrennedd a Rhifedd gwerth £5.216m yn cael ei dileu gyda'r holl gyllid hwn yn cael ei ailddyrannu i Linell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu.

***Cam Gweithredu Cwricwlwm***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu ***(Gweler Adran 2.5 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgarwch sy'n rhychwantu'r cwricwlwm blaenorol a bellach y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys mentrau sy'n helpu i gyflwyno pynciau STEM, y Celfyddydau a Cherddoriaeth, Dysgu Sylfaen, ieithoedd rhyngwladol, yn ogystal â chyllid i gefnogi datblygiadau o ran asesu.

- Bydd Llinell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu yn cynyddu £22m yn 2023-24 a £18.2m yn 2024-25 o ganlyniad i drosglwyddo cyllid o Linell Wariant yn y Gyllideb Llythrennedd a Rhifedd a Llinell Wariant yn y Gyllideb Diwygio'r Cwricwlwm yn dilyn rhesymoli strwythurau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Diwygio'r Cwricwlwm ***(Gweler Adran 2.5 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Roedd cyllidebau diwygio'r Cwricwlwm yn hanfodol i gefnogi *Ein Cenhadaeth Genedlaethol* i roi cwricwlwm newydd trawsnewidiol o 2022 ymlaen a'r costau sy'n gysylltiedig â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Darparodd y gyllideb hon gyllid ar gyfer diwygio'r cwricwlwm i gonsortia ac ysgolion ac ariannodd waith rheoli rhaglenni ac arbenigedd, gan gynnwys secondeion. Hefyd, ariannodd yn llawn weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, prosesau cyfathrebu, gwerthuso a monitro a'r gwaith o ddatblygu a lledaenu adnoddau a deunyddiau ategol ar gyfer y cwricwlwm newydd.

- Fel y nodwyd uchod, am fod y Cwricwlwm i Gymru bellach yn cael ei gyflwyno, mae gwaith yn mynd rhagddo i resymoli strwythurau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Felly, mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Diwygio'r Cwricwlwm yn cael ei dileu ac mae'r holl gyllid yn cael ei drosglwyddo i Linell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu a Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Safonau Ysgolion.

***Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth (Gweler Adran 2.4 o'r Papur* Tystiolaeth)**

Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon

- Mae'r gyllideb yn cefnogi cyllid ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yn cynnwys y llwybrau AGA 'amgen' newydd, y TAR Rhan-amser a'r TAR Cyflogedig ar gael o flwyddyn academaidd 2021/22. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu cyllid ar gyfer mentrau Hyfforddi Athrawon (TAR AU ac AB) a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer addysgwyr proffesiynol, yn cynnwys dysgu proffesiynol i baratoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hefyd yn ariannu'r Cyngor Gweithlu Addysg i weinyddu Statws Athro Cymwysedig a'r Rhaglen Sefydlu mewn ysgolion, yn cynnwys dosbarthu cyllid i gefnogi gwaith mentora a chefnogi ANG.

- Bu gostyngiad net o £0.9m yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon yn 2023-24 a 2024-25 sy'n cynnwys:
  - £0.060m a dyrannwyd o gronfeydd wrth gefn yn 2023-24 a 2024-25 er mwyn darparu codiad cyflog i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol;
  - £0.360m yn 2023-24 a 2024-25 i Linell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl- 16 ar gyfer TAR AB;
  - gostyngiad o £0.620m yn 2023-24 a 2024-25 o ganlyniad i ailflaenoriaethu cyllid o'r gyllideb sefydlu seiliedig ar alw. Nid effeithir ar y ddarpariaeth gyda sefydlu yn parhau i fod yn ofyniad statudol ar gyfer pob ANG. Mae nifer yr athrawon newydd gymhwyso yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag, mae rhagamcanion cynnar sy'n seiliedig ar nifer yr unigolion mewn addysg gychwynnol i athrawon eleni yn rhagweld bod modd rheoli'r ymarfer ailflaenoriaethu o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb.

***Cam Gweithredu Cymwysterau (Gweler Adran 2.12 o'r Papur Tystiolaeth)***

Llinell Gwariant yn y Gyllideb Cymwysterau Cymru

- Rhoi cymorth grant i Cymwysterau Cymru, sy'n gorff hyd braich ac yn rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydynt yn radd yng Nghymru. Ariennir Cymwysterau Cymru, a sefydlwyd yn 2015 gan Ddeddf Cymwysterau Cymru, yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru.

- Mae cyllideb Cymwysterau Cymru wedi cynyddu £0.39m yn 2023-24 a 2024-25 ar ôl i gyllid gael ei ddyrannu o Gronfeydd Wrth Gefn er mwyn darparu codiad cyflog. Mae'r gyllideb heb fod yn arian parod a'r gyllideb gyfalaf yn cael eu cynnal ar lefelau 2022-23.

***Cam Gweithredu Addysg Ôl-16***

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys cyllid i ddarparu cymwysterau UG a Safon Uwch, ac ystod eang o raglenni galwedigaethol i bobl ifanc 16-19 oed mewn colegau AB ac adrannau chweched dosbarth Awdurdodau Lleol. Mae hefyd yn cynnig darpariaeth rhan-amser i oedolion (yn bennaf darparu Sgiliau Sylfaenol a Saesneg i

Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), mewn Colegau AB a lleoliadau Dysgu yn y Gymuned Awdurdodau Lleol. Mae'r cam gweithredu hefyd yn cefnogi prosiectau strategol a gweithgareddau gwella ansawdd sydd wedi'u cynllunio i wella'r gwaith o gyflwyno dysgu ôl-16 yng Nghymru yn cynnwys cymorth i wella ansawdd, meithrin gallu ac ymchwil ar gyfer y sector dysgu a sgiliau, cyllid grant y Sefydliad Dysgu a Gwaith (yn cynnwys Wythnos Addysg Oedolion), Cyfrifon Dysgu Personol, datblygu polisi Gyrfaoedd, cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhwydwaith Seren, cefnogi cynnydd i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton i'r dysgwyr mwyaf disglair; a gweithgareddau Taith, sef y Rhaglen Ddysgu Ryngwladol, i gefnogi symudedd rhyngwladol i staff a myfyrwyr. Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cefnogi costau diwygio PCET sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae cyllideb dibrisio nad yw'n arian parod hefyd i gefnogi'r buddsoddiad mewn TG yn y sefydliad newydd.

- Yn y Gyllideb hon, mae cynnydd o £10.610m yn 2023-24 gyda chyllidebau yn cynyddu i £589.013m ac £11.610m yn 2024-25 sy'n golygu bod y gyllideb bellach yn cyfateb i £591.813m.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl-16 ***(Gweler Adran 2.17 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Dyrannwyd cyllid cylchol ychwanegol gwerth £9m o gronfeydd wrth gefn canolog er mwyn adolygu cyllid R&R ac amsugno unrhyw bwysau cyflog pellach ar gyfer adrannau chweched dosbarth ysgolion a'r sector AB. Mae'r newid o £9.360m hefyd yn cynnwys trosglwyddiad cylchol gwerth £0.360m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon ar gyfer TAR AB.

Llinell Wariant yn y Gyllideb y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ***(Gweler Adran 2.19.7 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb yn cynyddu i £8.1m yn 2023-24 a 2024-25 er mwyn adlewyrchu'r £1.6m o gyllid Cymru Fyd-eang III a drosglwyddwyd o Linell Wariant yn y Gyllideb Gwariant Rhaglen CCAUC er mwyn cyflwyno rhaglen Taith.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol ***(Gweler Adran 1.5.1 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Yn 2023-24 bu gostyngiad o £1m fel rhan o'r ymarfer ailflaenoriaethu yn dilyn asesiad o gostau rhaglen sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER). Cynhelir y gyllideb ar £6m yn 2023-24 a 2024-25.
- Mae swm o £0.650m hefyd wedi'i ddyrannu o gronfeydd wrth gefn canolog ar gyfer dibrisiant er mwyn cefnogi buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y sefydliad newydd.

***Cam Gweithredu Addysg Uwch (Gweler Adran 2.18 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllid Cymorth Grant ar gyfer CCAUC er mwyn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y llythyr Cylch Gwaith Blynyddol. Mae CCAUC hefyd yn bartner allweddol yn y broses o ddatblygu gwaith i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru. Mae hefyd yn cynnwys dyraniad heb fod yn arian parod CCAUC.

CCAUC – Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwariant Rhaglen

- Mae gostyngiad net yn y gyllideb gwerth £1.36m yn 2023 a 2024-25 sy'n adlewyrchu

£1.6m o gyllid Cymru Fyd-eang III a drosglwyddwyd i Linell Wariant yn y Gyllideb Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Taith ac sydd wedi'i wrthbwyso gan £0.24m a ddyrannwyd i ddarparu codiad cyflog.
- Cynhelir y dyraniad nad yw'n arian parod i gefnogi buddsoddiad cyfalaf ar £0.1m yn 2023-24 a 2024-25.

***Cam Gweithredu Safonau Addysg***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Grant Gwella Ysgolion ***(Gweler Adrannau 2.2 a 2.9 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn darparu cyllid ar gyfer y Grant Gwella Ysgolion, gan gynnwys cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, drwy'r Grant Gwella Ysgolion i Gonsortia Rhanbarthol (RCSIG); grant maint dosbarthiadau (tan 2022-23); cyllid grant i awdurdodau lleol ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr; a chyllid ar gyfer y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau mewn ysgolion.

- Dyrannwyd £5.5m o Gronfeydd wrth Gefn yn 2023-24 a 2024-25 er mwyn cefnogi parhad y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Safonau Ysgolion ***(Gweler Adran 2.11 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb hon yn ariannu gweithgarwch statudol i gasglu a chofnodi data ar ysgolion, dysgwyr a'r gweithlu, sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer gweithgarwch polisi, ymchwil ac ystadegau proffil uchel. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y cyllid â dangos gwelliannau o ran safonau a mynd i'r afael â'r blwch cyrhaeddiad a darparu tystiolaeth o hynny. O 2021-22 ymlaen, mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi cyfranogiad Cymru yn PISA.

- Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb wedi cynyddu £2.792m yn 2023-24 a 2024-25 yn dilyn dyrannu £0.560m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer codiadau cyflog i Estyn a throsglwyddo £2.232m o Linell Wariant yn y Gyllideb Diwygio'r Cwricwlwm yn dilyn rhesymoli strwythurau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb.

***Cam Gweithredu Grant Datblygu Disgyblion***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Grant Datblygu Disgyblion ***(Gweler Adran 2.3 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Gan adeiladu ar yr £20m ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o Adolygiad o Wariant y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn dyrannu £9m arall i gyllideb y Grant Datblygu Disgyblion o 2023-24 ymlaen.

***Cam Gweithredu TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg
- Mae'r cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno Rhaglen Hwb sy'n rhoi mynediad i ysgolion a gynhelir yng Nghymru at amrywiaeth eang o adnoddau a gwasanaethau dysgu digidol y bwriedir iddynt ysbrydoli ein hathrawon a'n dysgwyr i ymgorffori arferion digidol yn hyderus ac, ar yr un pryd, ddatblygu eu diwylliant, eu

cymwyseddau, eu sgiliau a'u gwybodaeth sydd wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru.

- Mae gostyngiad o £0.5m yn 2023-24 a 2024-25 o ganlyniad i ailflaenoriaethu cyllid o Raglen Hwb. Cynhaliwyd yr ymarfer ailflaenoriaethu hwn oherwydd arbedion refeniw a sicrhawyd drwy gyfalafu cytundeb trwyddedu cenedlaethol Microsoft 365.

- Mae swm ychwanegol o £2,488m nad yw'n arian parod wedi'i drosglwyddo i'r Prif Grŵp Gwariant er mwyn talu'r costau amorteiddio sy'n gysylltiedig â'r drwydded.

***Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol ***(Gweler Adran 2.10 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae **£4.5m** wedi'i ddyrannu o Gronfeydd wrth Gefn ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, gan gynyddu'r gyllideb i £25.6m yn 2023-24 a 2024-25. Mae hyn yn adeiladu ar y £7m ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o gyllideb y flwyddyn ddiwethaf i'r gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol o 2022-23 ymlaen.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Bwyd a Maeth mewn Ysgolion ***(Gweler Adran 2.3.13 ymlaen o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Bwyd a Maeth mewn Ysgolion yn ariannu nifer o raglenni gan gynnwys Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf a'r gwaith o ddarparu'r cynllun Llaeth am Ddim mewn Ysgolion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2 am bris wedi'i sybsideiddio. Mae hefyd yn ariannu'r gwaith o gynnal y System Gwirio Cymhwystra ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim a gwelliannau sydd angen eu gwneud i'r system honno.

- Cynyddodd y gyllideb yn sylweddol o 2022-23 ymlaen er mwyn ariannu Cytundeb Cydweithio i gyflwyno darpariaeth Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant

- Ysgolion Cynradd i ysgolion cynradd, gyda £40m yn cael ei ddyrannu yn 2022- 23, £70m yn 2023-24 a £90m yn 2024-25. Cynhelir y dyraniadau hyn yn y gyllideb hon.

- Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24

Llinell Wariant yn y Gyllideb Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 ***(Gweler Adran 2.10.7 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb yn darparu cyllid ar gyfer lleoliadau arbenigol mewn colegau i ddysgwyr hyd at 25 oed y mae angen darpariaeth arbenigol arnynt er mwyn cael addysg bellach sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r cyllid yn gyllid statudol (nid dewisol) sy'n seiliedig ar alw ac mae'n cael ei ddyrannu ar sail unigol yn ôl anghenion addysg a hyfforddiant a aseswyd yn unol â dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan Adran 41 o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau. Mae darpariaeth AB arbenigol yn hanfodol i sicrhau bod y bobl ifanc anabl hynny na all eu coleg lleol ddiwallu eu hanghenion, yn gallu cael yr addysg bellach a'r hyfforddiant sy'n addas i'w hanghenion.

- Cynhelir cyllid ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 ar

£13.881m yn 2023-24 a 2024-25.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Dull Ysgol Gyfan ***(Gweler Adran 2.6 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Darperir cyllid i gefnogi dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl. Roedd Cyllideb Drafft 2022-23 yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl, gan gynnwys cyllid i ddarparu gwasanaethau cwnsela ychwanegol a chyflwyno gwasanaeth CAMHS mewngymorth mewn ysgolion: £3.2m yn 2022-23, sy'n cynyddu i £5.4m yn 2023-24 a £7.65m erbyn 2024-25 (mae hyn yn cynnwys £1m yn 2022-23, £2m yn 2023-24 a £3m yn 2024-25 ar gyfer y Cytundeb cydweithio ar gyfer 'model noddfa' a drosglwyddir i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Cyllideb Atodol yn y dyfodol).

- Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Grwpiau Agored i Niwed ***(Gweler Adran 2.3.4 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r cyllid yn cynnwys y Grant Ysgolion Rhithwir, gwaith gwrth-hiliaeth, canllawiau ar faterion trawsryweddol (ffioedd cyfreithiol posibl) ac ariannu'r Rhaglen Maethu a Llesiant ar y cyd â'r adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhelir cyllid ar £1.150m yn 2023-24 a 2024-25 er mwyn cefnogi'r rhaglenni hyn.

***Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16***

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer y rhaglen cymorth i fyfyrwyr statudol a arweinir gan alw sy'n cyfrif am Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB). Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau wedi'u Targedu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (CBM), Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr, Grant Ffioedd Dysgu a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Mae hefyd yn darparu'r ffi weinyddol a delir i'r cwmni benthyciadau myfyrwyr, ffi weinyddol CThEM, proses Y Brifysgol Agored o weinyddu cymorth i fyfyrwyr statudol ar gyfer carfannau myfyrwyr hanesyddol a pholisi a gweithredu ynghyd â darpariaeth heb fod yn arian parod ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr ***(Gweler Adran 2.18.6 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r gyllideb wedi'i lleihau £11.822m yn 2023-24 a £12.822m yn 2024-25. Gan fod cyllidebau cymorth i fyfyrwyr yn seiliedig ar alw, maent yn amrywio yn ôl demograffeg a nifer yr unigolion sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau AB. Ar sail tanwariannau hanesyddol, mae'r gyllideb wedi'i hailflaenoriaethu.

Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Costau Gweinyddol CBM/CThEM

- Cynhelir y gyllideb ar y lefelau cyhoeddedig, sef £14.643m yn 2023-24 a £18.143m yn 2024-25, sy'n adlewyrchu'r cynnydd rhagamcanol mewn costau.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau Myfyrwyr

- Cynhelir y gyllideb ar y lefelau cyhoeddedig, sef £488.010m yn 2023-24 a £514.341m yn 2024-25, sy'n adlewyrchu'r cynnydd rhagamcanol mewn costau nad ydynt yn arian parod.

***Cam Gweithredu Ymgysylltu â Disgyblion***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Trechu Dadrithiad ***(Gweler Adran 2.7 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r cyllid yn cefnogi gweithgareddau sy'n anelu at wella deilliannau dysgwyr agored i niwed/difreintiedig drwy: wella gwrth-fwlio a phresenoldeb mewn ysgolion; Gŵyl y Gelli (rhaglenni i ysgolion a dysgwyr) Addysg heblaw yn yr Ysgol, Cwnsela; Addysg yn y cartref; presenoldeb; gwrth-fwlio. Cynhelir y gyllideb ar y lefelau cyhoeddedig, sef £7.905m yn 2023-24 a 2024-25.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion Cymunedol ***(Gweler Adrannau 2.3.5 a 2.3.6 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae cyllid yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i fuddsoddi '...yn amgylchedd dysgu ysgolion cymunedol, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol' ac fe'i defnyddir i ddatblygu ysgolion cymunedol.

- Mae hefyd yn darparu cyllid i ddatblygu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "ymchwilio i ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol" er mwyn mynd i'r afael ag anfantais, lleihau anghydraddoldebau addysgol, cefnogi llesiant dysgwyr a staff a sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agosach â phatrymau bywyd teuluol a chyflogaeth cyfoes.

- Dyrannwyd £3m o gronfeydd wrth gefn yn 2022-23, gyda chyllid yn cynyddu i £5.1m yn 2023-24 a £15.92m yn 2024-25 i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol, ynghyd ag ysgolion cymunedol. Mae'r cyllid ar gyfer 2023-24 yn cael ei flaenoriaethu i gefnogi swyddogion ymgysylltu â theuluoedd mewn ysgolion sy'n canolbwyntio ar wella lefelau presenoldeb disgyblion.

- Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24.

***Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Dysgu Troseddwyr ***(Gweler Adran 2.16 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Darperir cyllid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF er mwyn ariannu darpariaeth dysgu a sgiliau i garcharorion mewn carchardai i oedolion. Mae cyllid hefyd ar gael ar gyfer prosiectau peilot arloesol sy'n cefnogi'r Agenda Dysgu Troseddwyr ac er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu sgiliau hanfodol i'r rhai sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned. Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ddarparu cyllid ar gyfer addysg mewn carchardai i oedolion yng Nghymru. Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023- 24.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid ***(Gweler Adran 2.15 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Mae'r cyllid hwn yn cefnogi gweithgareddau y bwriedir iddynt wella canlyniadau i bobl ifanc (11-25 oed), gan gefnogi eu datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol ac, yr un pryd, hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â'u

cyfranogiad parhaus mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. At hynny, bwriedir i waith ieuenctid a gweithgarwch ymgysylltu a datblygu ieuenctid gyfrannu at agendâu ehangach y llywodraeth, gan gynnwys iechyd meddwl a lles a digartrefedd ymysg pobl ifanc.

- Dyrannwyd cyllid ychwanegol fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2022-23 er mwyn gweithredu ar argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim ar gyfer model gwaith ieuenctid cynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys recriwtio Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid a fydd yn cymryd yr awenau gan y Bwrdd presennol. Cynhelir y gyllideb ar y lefelau cyhoeddedig, sef £11.956m yn 2023-24 a £12.376m yn 2024-25.

***Cam Gweithredu Cymorth Cyflawni***

Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Cyfathrebu Addysg

- Dyrennir cyllid er mwyn cynnal gweithgareddau cyfathrebu mewn perthynas ag addysg. Cynhelir y gyllideb ar y lefelau cyhoeddedig, sef £0.482m yn 2023-24 a 2024-25.

Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol

- Mae'r gyllideb yn cefnogi'r Rhaglen Addysg Ryngwladol, gan gynnwys grantiau i'r British Council (gan gynnwys prosiect yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia) ac Ymddiriedolaeth Addysgol yr Holocost. Cynhelir y gyllideb ar y lefelau cyhoeddedig, sef £0.574m yn 2023-24 a 2024-25.

***Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (Gweler Adrannau 2.13 a 2.19.4 o'r* Papur Tystiolaeth)**

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud ag elfennau addysgol Cymraeg 2050:
  - Cyllid ar gyfer Mudiad Meithrin i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel llwybr i addysg cyfrwng Cymraeg;
  - Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg gan gynnwys gwaith paratoadol ar gyfer rhoi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) 10 mlynedd newydd ar waith yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020;
  - Comisiynu adnoddau addysgu a dysgu;
  - Cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ôl-16.

- Cynhelir y gyllideb ar y lefelau cyhoeddedig, sef £20.775m yn 2023-24 a £24.275m yn 2024-25.

***Cam Gweithredu'r Gymraeg (Gweler Adran 2.13 o'r Papur Tystiolaeth)***

Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg yn cefnogi'r gwaith o roi Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, sef Cymraeg 2050, ar waith. Caiff y gweithgareddau a nodir yn y Strategaeth eu cyflawni mewn partneriaeth ag adrannau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol. Cynhelir y

gyllideb ar y lefelau cyhoeddedig, sef £22.404m yn 2023-24 a 2024-25.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Comisiynydd y Gymraeg

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn ariannu Comisiynydd y Gymraeg mewn meysydd costau rhedeg sy'n cynnwys staff, adeiladau, costau cyfreithiol a phroffesiynol, hyfforddiant a recriwtio a TG er mwyn cefnogi gwaith Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas ag amrywiaeth eang o swyddogaethau a phwerau.

- Mae cyllideb Comisiynydd y Gymraeg wedi cynyddu £0.150m yn 2023-24 a 2024-25 ar ôl i gyllid gael ei ddyrannu o Gronfeydd Wrth Gefn er mwyn darparu codiad cyflog.

- Mae dyraniadau nad ydynt yn arian parod gwerth £0.049m yn 2023-24 a £0.001m yn 2024-25 wedi'u trosglwyddo o gronfeydd wrth gefn ar gyfer dibrisiant Comisiynydd y Gymraeg.

***Cam Gweithredu yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg

- Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn darparu'r refeniw sydd ei angen i gefnogi Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

- Dyrannwyd cyllid am y tro cyntaf fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2022-23 gyda £0.5m yn cael ei ddyrannu yn 2022-23, £7m yn 2023-24 a £12m yn 2024-25. Dyrennir y gyllideb hon er mwyn talu'r Taliadau Gwasanaeth Blynyddol ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, yn ogystal â chostau refeniw sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen yn ehangach, gan gynnwys arolwg Carbon Sero Net a grant i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

- Ailflaenoriaethwyd £2m yn 2023-24 a 2024-25 o Raglen y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae'r cyllid hwn wedi'i ailflaenoriaethu oherwydd oedi sy'n gysylltiedig â chynllun y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, yn benodol prosiectau Braenaru Addysg y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf, ac ni ddisgwylir i'r Taliadau Gwasanaeth Blynyddol ddechrau tan 2024-25.

**Cyfalaf** ***(Gweler Adrannau 2.21 i 2.23 o'r Papur Tystiolaeth)***

- Nid oes unrhyw gyfalaf ychwanegol wedi'i ddyrannu fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24.

***Cam Gweithredu yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg

- Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb yn cefnogi Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, sy'n fuddsoddiad strategol hirdymor yn ein seilwaith addysg yng Nghymru, a ddatblygwyd mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid addysg pwysig (awdurdodau lleol, sefydliadau addysg bellach ac Esgobaethau'r Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru). Yn ogystal â darparu cyllid cyfalaf ar gyfer y brif raglen, mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi gwahanol gynlluniau eraill a ariennir gan grant er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer addysg, gan

gynnwys Ysgolion Bro, Cyfrwng Cymraeg, Gofal Plant, rhaglen EdTech, maint dosbarthiadau, Dechrau'n Deg a Chanolfannau cymunedol. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu cyllid cyfalaf ar gyfer cynnal Addysg Uwch (AU) a chyllid ar gyfer Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch, sy'n cael cyllid cyfatebol gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

- Cynhelir y gyllideb ar £369.877m yn 2023-24 a £365.714m yn 2024-25.

***Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16***

Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Costau Gweinyddol CBM/CThEM

- Cynhelir y gyllideb ar £2.5m yn 2023-24 a 2023-24 ar gyfer gofynion cyfalaf y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

***Cam Gweithredu Addysg Uwch***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwariant Rhaglen CCAUC

- Cynhelir y gyllideb ar £0.1m y flwyddyn ar gyfer gofynion cyfalaf CCAUC.

***Cam Gweithredu Cymwysterau***

Llinell Gwariant yn y Gyllideb Cymwysterau Cymru

- Cynhelir y gyllideb ar £0.25m y flwyddyn ar gyfer gofynion cyfalaf Cymwysterau Cymru.

***Cam Gweithredu'r Gymraeg***

Llinell Wariant yn y Gyllideb Comisiynydd y Gymraeg

- Cynhelir y gyllideb ar £0.05m y flwyddyn ar gyfer gofynion cyfalaf Comisiynydd y Gymraeg.

Papur 02c – Atodiad C - Trosglwyddiadau a ragwelir ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn Ail Gyllideb Atodol 2022-23

| **Trosglwyddiadau Cronfa wrth Gefn Adnoddau Cyllidol** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **£000** |
|---|---|---|
| Clogau cyfartal | Gwariant Rhaglen CCAUC | 7 |
| Trosglwyddiad i Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – estyniad i drefniadaeth Bwrsari GIG Cymru a roddwyd ar waith ar gyfer 2017/18 ar gyfer myfyrwyr yn astudio pynciau yn ymwneud ag iechyd yng Nghymru (carfanau 2019-20 a 2020-21) | Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 1,400 |
| Trosglwyddiad i Brif Grŵp Gwariant yr Economi – Cynllun Peilot Sgiliau Sero Net | Darpariaeth Ôl-16 | 1,000 |
| **Cyfanswm Trosglwyddiadau Cronfa wrth Gefn Adnoddau** | | **2,407** |
| **Trosglwyddiadau Prif Grŵp Gwariant i Brif Grŵp Gwariant** | | |
| Trosglwyddiad allan o Brif Grŵp Gwariant yr Economi – marchnata Cymru yn ystod Cwpan y Byd | Cyfathrebu Addysg | -20 |
| **Cyfanswm Trosglwyddiadau Prif Grŵp Gwariant i Brif Grŵp Gwariant** | | **-20** |
| **CYFANSWM TROSGLWYDDIADAU ADNODDAU – AIL GYLLIDEB ATODOL** | | **2,387** |

# Papur 02d – Atodiad D - Dyraniadau Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol ar gyfer 2022-23

| **Disgrifiad o Gyllid** | **Cymru Gyfan 2022-23 £** |
|---|---|
| Cymorth rhanbarthol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm ac asesu | 3,400,000 |
| ymgysylltu ag ysgolion y Rhwydwaith Cenedlaethol | 3,000,000 |
| Diwygio cwricwlwm a threfniadau asesu ysgolion, gan gynnwys cynnydd o ran dysgu | 6,346,000 |
| Llesiant mewn dysgu | 330,000 |
| Rhaglen dysgu proffesiynol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm | 3,200,000 |
| Dysgu, ymholi ac ymchwil a arweinir gan ysgolion er mwyn gwireddu'r cwricwlwm | 3,200,000 |
| Dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu ymarfer a myfyrio (RALD/ WCLD, SLO, Addysgeg, Safonau Proffesiynol) | 1,100,000 |
| Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch a TALP | 950,000 |
| Cymraeg – Datblygiad Proffesiynol | 2,700,000 |
| Gwelliant Safon Uwch | 800,000 |
| Ysgolion Pob Oedran - Cymorth ar gyfer Prosiectau Ymchwil a Chydweithredol | 100,000 |
| Pecyn cymorth Sefydlu / Gyrfa Gynnar | 250,000 |
| Rhaglen Arweinyddiaeth yn y Dyfodol (Darpar arweinwyr canol yn cynnwys cymorth Coetsio a Mentora) | 1,000,000 |
| Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH) | 645,500 |
| Rheolwr Cenedlaethol Prosiect Cymraeg mewn Addysg | 70,000 |
| Dylunio ymchwil addysgegol | 80,000 |
| Cynllun Peilot Cyfrwng Cymraeg – prosiect Blwyddyn i Ffwrdd | 46,820 |
| Cynllun Peilot Cyfrwng Cymraeg – prosiect Secondiadau | 126,000 |
| Cymorth rhanbarthol ar gyfer Ieithoedd modern – (Ieithoedd Tramor Modern (Dyfodol Byd-eang)) | 462,000 |
| Ieithoedd Tramor Modern – meithrin gallu ar gyfer ITM yn y sector cynradd | 271,000 |
| Grant Llythrennedd a Rhifedd | 500,000 |
| Cynllun Llafaredd Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cynradd i Gymru | 400,000 |
| Fframwaith Cymhwysedd Digidol | 100,000 |
| Sgiliau Codio a Digidol | 300,000 |
| Cyllid i ysgolion ar gyfer Dysgu Proffesiynol | 12,000,000 |
| Addysgu Iaith a Llythrennedd o Bell | 145,000 |
| Dull cymorth amlasiantaethol – Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn unig | 10,000 |
| Grant Gwella Addysg i Ysgolion – Cyfanswm | 120,159,000 |
| Cefnogi Cydweithio a Helpu i Ddatblygu Gallu o fewn y Consortia – Helen Richards Gwasanaeth Cyflawni Addysg | 70,000 |
| Meithrin Gallu Arweinyddiaeth | 60,000 |
| Cyllid i Gefnogi'r Gwaith o Baratoi Systemau ar gyfer Profion Rhyngwladol | 250,000 |
| Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH) | 45,500 |
| Grant capasiti cyfrwng Cymraeg | 322,899 |
| Tranche 2 Costau Datblygu – Cefnogi Dysgwyr sy'n Agored i Niwed | 185,000 |
| Coetsio a mentora Cam 3 (GWE yn unig) | 150,000 |
| Dylunio ymchwil addysgegol GWE yn unig | 20,000 |
| **Cyfanswm Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol** | **162,794,719** |

| **Cymru Gyfan 22-23 £** | | | | **ERW gynt** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Consortiwm Canolbarth y De (CSC)** | **Gwasanaeth Cyflawni Addysg** | **GwE** | **Powys** | **Castell-nedd Port Talbot** | **Ceredigion** | **Partneriaeth** |
| **162,794,719** | 48,842,538 | 31,453,310 | 37,176,360 | 6,601,799 | 7,273,743 | 3,718,289 | 27,728,677 |

Papur 02e – Atodiad E - Dyraniadau Grant Refeniw ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd

| | **Dyraniad Refeniw 2022-23** | **Dyraniad Cyfalaf 2022-23** |
|---|---|---|
| Ynys Môn | £554,864 | £832,177 |
| Gwynedd | £795,965 | £1,570,244 |
| Conwy | £807,685 | £1,244,756 |
| Sir Ddinbych | £331,178 | £1,203,238 |
| Sir y Fflint | £648,626 | £1,767,034 |
| Wrecsam | £740,043 | £1,500,117 |
| Powys | £694,166 | £1,538,958 |
| Ceredigion | £614,470 | £798,300 |
| Sir Benfro | £1,167,325 | £1,330,558 |
| Sir Gaerfyrddin | £995,542 | £2,198,448 |
| Abertawe | £590,360 | £2,526,996 |
| Castell-nedd Port Talbot | £855,737 | £1,554,885 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | £816,057 | £1,627,787 |
| Bro Morgannwg | £1,317,679 | £1,593,112 |
| Rhondda Cynon Taf | £1,767,061 | £2,836,535 |
| Merthyr Tudful | £478,852 | £666,159 |
| Caerffili | £1,599,631 | £2,077,239 |
| Blaenau Gwent | £552,521 | £667,974 |
| Torfaen | £727,988 | £1,001,244 |
| Sir Fynwy | £757,456 | £853,045 |
| Casnewydd | £1,482,095 | £1,788,842 |
| Caerdydd | 1,026,684 | £3,822,354 |
| **CYFANSWM CYMRU GYFAN** | **£19,321,985** | **£35,000,000** |

# Papur 02f – Atodiad F - Dyraniadau 2022-23 i golegau Addysg Bellach

| | Dyraniad Amser Llawn 2022/23 | Dyraniad Rhan-amser (heb gynnwys cynnydd) 2022/23 | Lwfans Rhan-amser | Cyfanswm Dyraniad Rhan-amser | Cynnydd Amddifadedd | Cynnydd Teneurwydd | Lwfans Cyfrwng Cymraeg | Lwfans a Gedwir yn Ganolog o 3% | Lwfans Cynhaliaeth o 2% | Cynnydd o 5% yn y gyfradd uned cyllid (a ychwanegwyd ym mis Rhagfyr 2022) | Cyfanswm dyraniad 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Coleg Penybont | 13,656,711 | 2,474,752 | 494,950 | 2,969,703 | 792,626 | 0 | 30,000 | 483,944 | 322,629 | 911,281 | **19,166,894** |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 27,954,611 | 7,050,017 | 1,410,003 | 8,460,020 | 2,571,394 | 0 | 30,000 | 1,050,139 | 700,093 | 2,036,813 | **42,803,070** |
| Coleg Cambria | 33,323,619 | 5,819,753 | 1,163,951 | 6,983,704 | 1,571,281 | 755,863 | 115,000 | 1,174,301 | 782,867 | 2,191,789 | **46,898,425** |
| Coleg Gwent | 37,920,930 | 6,253,443 | 1,250,689 | 7,504,132 | 2,661,012 | 0 | 230,000 | 1,325,231 | 883,487 | 2,514,740 | **53,039,533** |
| Coleg Sir Gâr | 16,809,617 | 2,616,695 | 523,339 | 3,140,034 | 524,616 | 593,701 | 1,061,250 | 582,789 | 388,526 | 1,072,279 | **24,172,813** |
| Coleg y Cymoedd | 25,262,488 | 4,093,907 | 818,781 | 4,912,688 | 2,582,058 | 0 | 29,756 | 880,692 | 587,128 | 1,711,253 | **35,966,063** |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 21,538,093 | 3,042,686 | 608,537 | 3,651,223 | 1,600,565 | 0 | 115,000 | 737,423 | 491,616 | 1,400,946 | **29,534,867** |
| Grŵp Llandrillo Menai | 30,803,282 | 5,055,930 | 1,011,186 | 6,067,117 | 1,538,213 | 2,517,412 | 2,156,250 | 1,075,776 | 717,184 | 2,010,079 | **46,885,313** |
| Grŵp NPTC | 19,478,041 | 4,031,373 | 806,275 | 4,837,648 | 1,122,403 | 2,532,404 | 30,000 | 705,282 | 470,188 | 1,330,678 | **30,506,644** |
| Coleg Merthyr Tudful | 8,973,505 | 729,114 | 145,823 | 874,937 | 784,603 | 0 | 30,000 | 291,079 | 194,052 | 555,909 | **11,704,084** |
| Coleg Sir Benfro | 10,287,189 | 1,486,749 | 297,350 | 1,784,099 | 254,975 | 367,873 | 30,000 | 353,218 | 235,479 | 645,748 | **13,958,582** |
| Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant | 6,576,453 | 181,020 | 36,204 | 217,224 | 539,470 | 0 | 15,000 | 202,724 | 135,149 | 383,551 | **8,069,572** |
| Addysg Oedolion Cymru | 0 | 4,246,919 | 849,384 | 5,096,303 | 252,252 | 190,425 | 30,243 | 127,408 | 84,938 | 278,045 | **6,059,613** |
| | **252,584,539** | **47,082,359** | **9,416,472** | **56,498,831** | **16,795,469** | **6,957,679** | **3,902,499** | **8,990,007** | **5,993,338** | **17,043,111** | **368,765,472** |

## Papur 02g – Atodiad G - Tybiaethau Rhagolwg Ariannol Addysg Bellach 2022- 23

**Noder:**

1. **Mae'r tybiaethau hyn at ddibenion cynllunio'n unig er mwyn sicrhau y gellir cymharu sefydliadau ac ni ddylid ystyried eu bod yn rhagolygon cyllido dangosol nac yn gyngor ar gytundebau cyflog yn y dyfodol.**
2. **Maent ar sail gynghorol ac os bydd unrhyw goleg o'r farn nad ydynt yn gweddu i'w amgylchiadau gellir defnyddio tybiaethau amgen ar yr amod eu bod yn cael eu datgelu yn y rhagolwg.**
3. **Dylai'r tybiaethau hyn gael eu darllen ar y cyd ag unrhyw gyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cyngor penodol ar ffrydiau cyllido eraill.**

**Cyllid grant Llywodraeth Cymru**

Dylai sefydliadau ddefnyddio'r dyraniadau terfynol ar gyfer blynyddoedd academaidd 2022/23 sydd wedi eu nodi.

**Cyflog**

Tybiwch ddyfarniad cyflog o 0% bob blwyddyn.

**Pensiynau**

Dylai rhagolygon pensiwn fod yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer y cynlluniau perthnasol.

**Cyllid Ewropeaidd**

Dylai cyllid Ewropeaidd fod yn seiliedig ar asesiad sefydliad unigol o'r prosiectau sydd ar waith ganddynt, gan roi sylw dyledus i effaith Brexit.

**Cyfalaf**

Dylai'r holl brosiectau cyfalaf sydd wedi'u cynllunio a'u cymeradwyo gael eu cynnwys.

**Cyllid cynnal a chadw**

Tybiwch nad oes cyllid ychwanegol ar gyfer yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar gyfer 2022/23 a blynyddoedd dilynol

**Dysgu Seiliedig ar Waith**

Dylai sefydliadau ddefnyddio'r dyraniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 sydd wedi eu nodi'n ddiweddar.

**Chwyddiant cost**

Gall datchwyddydd cynnyrch domestig gros (GDP) gael ei ystyried yn fesur o chwyddiant

cyffredinol yn yr economi ddomestig. Y datchwyddwyr GDP diweddaraf, ym mis Mehefin 2021 *(Rhagolwg economaidd a chyllidol)*, yw:

| **Blwyddyn Ariannol** | **%** |
|---|---|
| 2022-23 | 4.05% |
| 2023-24 | 2.41% |
| 2024-25 | 1.85% |
| Ffynhonnell: Ystadegau Gwladol Llywodraeth y DU Mawrth 2022 | |

Dylai sefydliadau ddefnyddio'r cyfraddau hyn ar gyfer cynnydd mewn costau nad ydynt yn gyflogau oni fydd ganddynt wybodaeth fwy penodol, gan nodi'r eithriadau.

**Cyfradd sylfaenol banciau**

Y gyfradd banc sylfaenol bresennol yw 0.75%. Os bydd yn cynyddu neu'n gostwng cyn cwblhau'r rhagolygon defnyddiwch y gwerth mwyaf diweddar. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd gan rai colegau drefniadau gwahanol ar gyfer benthyca
h.y. bydd gan rai fenthyciadau cyfradd sefydlog a chyfraddau amrywiadwy eraill a byddem yn gofyn i chi wneud tybiaethau priodol yn seiliedig ar gyfraddau rhagweledig.

**Rhwymedigaethau pensiwn**

Ni ddylai sefydliadau dybio unrhyw symudiad yn y rhwymedigaeth pensiwn oni fydd gwybodaeth bellach benodol yn hysbys o adroddiadau actiwaraidd, a ddylai gael ei datgelu.

**Targedau**

Dylai sefydliadau ystyried targedau dysgu sydd wedi cael eu gosod ac adfachu cysylltiedig os na chaiff targedau eu cyflawni.

**Dadansoddiad sensitifrwydd**

Oherwydd y diffyg gwybodaeth ar hyn o bryd am gyllidebau Cymru yn y dyfodol, rydym yn parhau i argymell dadansoddiad sensitifrwydd o 2.5% a 5% mewn cyllid rheolaidd, yn cynnwys unrhyw incwm Dysgu Seiliedig ar Waith. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod chwyddiant yn anwadal iawn ac, felly, os bydd colegau am gynnwys lefelau uwch o sensitifrwydd mewn rhai meysydd, wrth gwrs mae croeso i chi wneud hynny.

**Risgiau Allweddol**

Dylech gynnwys unrhyw risgiau sylweddol sy'n berthnasol yn eich barn chi i'ch rhagolygon yn adran naratif y tab Dadansoddi.

Papur 02h – Atodiad H - Gwerthoedd Rhaglenni 2022/23 ar gyfer cyfrifo cyllid AB a Chweched dosbarth

| Cod y Rhaglen | Teitl y Rhaglen | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0004A02B | 4 TGAU | £3,175 |
| 0005A02B | 5+ TGAU | £3,837 |
| 0006A02B | 5 cymhwyster cyfwerth â TGAU | £3,837 |
| 0013A03B | 3 UG | £3,387 |
| 0013B03B | 3 chymhwyster cyfwerth ag UG | £3,387 |
| 0013C03B | 2 UG a CBC | £3,387 |
| 0013D03B | 2 gymhwyster cyfwerth ag UG a CBC | £3,387 |
| 0014A03B | 4+ UG | £4,339 |
| 0014B03B | 4+ cymhwyster cyfwerth ag UG | £4,339 |
| 0014C03B | 3 UG a CBC | £4,339 |
| 0014D03B | 3 chymhwyster cyfwerth ag UG a CBC | £4,339 |
| 0015C03B | 4 UG a CBC | £5,292 |
| 0015D03B | 4+ cymhwyster cyfwerth ag UG a CBC | £5,292 |
| 0022A03B | 2 A2 | £2,434 |
| 0022B03B | 2 gymhwyster cyfwerth ag A2 | £2,434 |
| 0023A03B | 3 A2 | £3,387 |
| 0023B03B | 3 chymhwyster cyfwerth ag A2 | £3,387 |
| 0023C03B | 2 A2 a CBC | £3,387 |
| 0023D03B | 2 gymhwyster cyfwerth ag A2 a CBC | £3,387 |
| 0024A03B | 4+ A2 | £4,339 |
| 0024B03B | 4+ cymhwyster cyfwerth ag A2 | £4,339 |
| 0024C03B | 3 A2 a CBC | £4,339 |
| 0024D03B | 3 chymhwyster cyfwerth ag A2 a CBC | £4,339 |
| 0025C03B | 4+ A2 a CBC | £5,292 |
| 0025D03B | 4+ cymhwyster cyfwerth ag A2 a CBC | £5,292 |
| 0030A03B | Diploma Bagloriaeth Ryngwladol (Blwyddyn 1 neu 2) | £5,292 |
| 0103A01B | Iechyd a Gofal Cymdeithasol lefel 1 | £4,547 |
| 0103A02B | Iechyd a Gofal Cymdeithasol lefel 2 | £4,100 |
| 0103A02D | Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Dysgu Pellach yn y Gweithle Lefel 2 | £4,314 |
| 0103A23B | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dysgu Cyflym Lefel 2-3 | £4,944 |
| 0103A03B | Iechyd a Gofal Cymdeithasol lefel 3 | £4,100 |
| 0103A03B12 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | £4,100 |
| 0103A03B22 | Iechyd a Gofal Cymdeithasol lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | £4,100 |
| 0103AAAB | Mynediad i AU Gofal iechyd | £3,262 |
| 0103AE0B | Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel Mynediad | £4,547 |
| 0103B02B | Therapïau Cyflenwol lefel 2 | £4,100 |
| 0103B03B | Therapïau Cyflenwol lefel 3 | £4,100 |
| 0103B03B12 | Therapïau Cyflenwol lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | £4,100 |
| 0103B03B22 | Therapïau Cyflenwol lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | £4,100 |
| 0103BAAB | Mynediad i AU Gofal Cymdeithasol | £3,262 |
| 0103CAAB | Mynediad i AU Gwyddorau Cymdeithasol | £3,262 |
| 0104A01B | Gwasanaethau Cyhoeddus lefel 1 | £4,922 |
| 0104A12B | Gwasanaethau Cyhoeddus Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | £5,789 |

| Cod y Rhaglen | Teitl y Rhaglen | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0104A02B | Gwasanaethau Cyhoeddus lefel 2 | **£4,546** |
| 0104A03B | Gwasanaethau Cyhoeddus lefel 3 | **£4,546** |
| 0104A03B12 | Gwasanaethau Cyhoeddus lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,546** |
| 0104A03B22 | Gwasanaethau Cyhoeddus lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,546** |
| 0105A01B | Datblygiad Gofal Plant Lefel 1 | **£4,445** |
| 0105A02B | Datblygiad Gofal Plant Lefel 2 | **£4,828** |
| 0105A02D | Datblygiad Gofal Plant Lefel 2 gyda Dysgu Pellach yn y Gweithle | **£4,455** |
| 0105A03B | Datblygiad Gofal Plant Lefel 3 | **£3,980** |
| 0105A03B12 | Datblygiad Gofal Plant Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£3,980** |
| 0105A03B22 | Datblygiad Gofal Plant Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£3,980** |
| 0201AAAB | Mynediad i AU Gwyddoniaeth | **£3,612** |
| 0201BAAB | Mynediad i AU Gwyddorau Amgylcheddol | **£3,612** |
| 0201CAAB | Mynediad i AU Biowyddorau | **£3,612** |
| 0201C02B | Gwyddoniaeth Gymhwysol lefel 2 | **£4,553** |
| 0201C03B | Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3 | **£4,553** |
| 0201C03B12 | Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,553** |
| 0201C03B22 | Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,553** |
| 0201C03D | Gwyddoniaeth Gymhwysol Lefel 3 gyda Dysgu Pellach yn y Gweithle | **£4,655** |
| 0201DAAB | Mynediad i AU Gwyddor Fforensig | **£3,612** |
| 0201EAAB | Mynediad i AU Gwyddor Iechyd | **£3,612** |
| 0301A01B | Astudiaethau seiliedig ar Dir Lefel 1 | **£7,205** |
| 0301A02B | Astudiaethau seiliedig ar Dir Lefel 2 | **£7,205** |
| 0301A03D | Astudiaethau seiliedig ar Dir Lefel 3 gyda Dysgu Pellach yn y Gweithle | **£9,674** |
| 0301A03B | Astudiaethau seiliedig ar Dir Lefel 3 | **£7,205** |
| 0301A03B12 | Astudiaethau seiliedig ar Dir Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,205** |
| 0301A03B22 | Astudiaethau seiliedig ar Dir Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,205** |
| 0301AE0B | Astudiaethau seiliedig ar Dir Lefel E | **£7,205** |
| 0302A01B | Garddwriaeth a Choedwigaeth 1 | **£7,054** |
| 0302A12B | Garddwriaeth a Choedwigaeth Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£8,070** |
| 0302A02B | Garddwriaeth a Choedwigaeth 2 | **£7,054** |
| 0302A03B | Garddwriaeth a Choedwigaeth 3 | **£7,054** |
| 0302A03B12 | Garddwriaeth a Choedwigaeth 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,054** |
| 0302A03B22 | Garddwriaeth a Choedwigaeth 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,054** |
| 0302B01B | Blodeuwriaeth Lefel 1 | **£7,054** |
| 0302B02B | Blodeuwriaeth Lefel 2 | **£7,054** |
| 0302B03B | Blodeuwriaeth Lefel 3 | **£7,054** |
| 0302B03B12 | Blodeuwriaeth Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,054** |
| 0302B03B22 | Blodeuwriaeth Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,054** |
| 0303A01B | Astudiaethau Ceffyl Lefel 1 | **£7,033** |
| 0303A02B | Astudiaethau Ceffyl Lefel 2 | **£7,033** |
| 0303A03B | Astudiaethau Ceffyl Lefel 3 | **£7,033** |
| 0303A03B12 | Astudiaethau Ceffyl Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,033** |
| 0303A03B22 | Astudiaethau Ceffyl Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,033** |
| 0303AE0B | Gofal Ceffylau Lefel Mynediad | **£7,033** |
| 0303B01B | Gofal Anifeiliaid lefel 1 | **£7,033** |
| 0303B02B | Gofal Anifeiliaid lefel 2 | **£7,033** |
| 0303B03B | Gofal Anifeiliaid lefel 3 | **£7,033** |

| Cod y Rhaglen | Teitl y Rhaglen | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0303B03B12 | Gofal Anifeiliaid lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,033** |
| 0303B03B22 | Gofal Anifeiliaid lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,033** |
| 0303C02B | Nyrsio Milfeddygol lefel 2 | **£7,033** |
| 0303C03B | Nyrsio Milfeddygol lefel 3 | **£7,033** |
| 0303C03B12 | Nyrsio Milfeddygol lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,033** |
| 0303C03B22 | Nyrsio Milfeddygol lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,033** |
| 0304A01B | Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 1 | **£7,076** |
| 0304A02B | Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 2 | **£7,076** |
| 0304A03B | Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 3 | **£7,076** |
| 0304A03B12 | Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£7,076** |
| 0304A03B22 | Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 Flynedd | **£7,076** |
| 0304A03D | Cefn Gwlad a'r Amgylchedd Lefel 3 gyda Dysgu Pellach yn y Gweithle | **£7,915** |
| 0401A01B | Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Lefel 1 | **£7,117** |
| 0401A12B | Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£8,090** |
| 0401A02B | Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Lefel 2 | **£7,117** |
| 0401A03B | Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Lefel 3 | **£7,117** |
| 0401A03B12 | Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401A03B22 | Gweithgynhyrchu a Pheirianneg Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401AAAB | Mynediad i AU Peirianneg | **£5,570** |
| 0401AE0B | Astudiaethau Peirianneg Lefel E | **£7,117** |
| 0401B12B | Peirianneg Drydanol/ Electronig Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£9,912** |
| 0401B02B | Peirianneg Drydanol/Electronig Lefel 2 | **£7,117** |
| 0401B03B | Peirianneg Drydanol/Electronig Lefel 3 | **£7,117** |
| 0401B03B12 | Peirianneg Drydanol/Electronig Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401B03B22 | Peirianneg Drydanol/Electronig Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401C01B | Saernïo a Weldio lefel 1 | **£7,117** |
| 0401C02B | Saernïo a Weldio lefel 2 | **£7,117** |
| 0401C03B | Saernïo a Weldio lefel 3 | **£7,117** |
| 0401C03B12 | Saernïo a Weldio lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401C03B22 | Saernïo a Weldio lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401D02B | Peirianneg Awyrofod Lefel 2 | **£7,117** |
| 0401D03B | Peirianneg Awyrofod Lefel 3 | **£7,117** |
| 0401D03B12 | Peirianneg Awyrofod Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£7,117** |
| 0401D03B22 | Peirianneg Awyrofod Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401E02B | Peirianneg Drydanol lefel 2 | **£7,117** |
| 0401E03B | Peirianneg Drydanol lefel 3 | **£7,117** |
| 0401E03B12 | Peirianneg Drydanol lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401E03B22 | Peirianneg Drydanol lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401F02B | Peirianneg seiliedig ar Dir Lefel 2 | **£7,117** |
| 0401F03B | Peirianneg seiliedig ar Dir Lefel 3 | **£7,117** |
| 0401F03B12 | Peirianneg seiliedig ar Dir Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£7,117** |
| 0401F03B22 | Peirianneg seiliedig ar Dir Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401F03D | Peirianneg seiliedig ar Dir Lefel 3 gyda Dysgu Pellach yn y Gweithle | **£7,952** |
| 0401G02B | Peirianneg Forol Lefel 2 | **£7,117** |

| Cod y Rhaglen | Teitl y Rhaglen | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0401G03B | Peirianneg Forol Lefel 3 | **£7,117** |
| 0401G03B12 | Peirianneg Forol Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401G03B22 | Peirianneg Forol Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401H01B | Peirianneg Fodurol lefel 1 | **£7,117** |
| 0401H12B | Peirianneg Fodurol Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£7,850** |
| 0401H02B | Peirianneg Fodurol lefel 2 | **£7,117** |
| 0401H03B | Peirianneg Fodurol lefel 3 | **£7,117** |
| 0401H03B12 | Peirianneg Fodurol lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401H03B22 | Peirianneg Fodurol lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,117** |
| 0401I02B | Peirianneg Uwch Lefel 2 | **£11,778** |
| 0401I03B | Peirianneg Uwch Lefel 3 | **£11,778** |
| 0402C02B | Peiriannu Pren lefel 2 | **£5,608** |
| 0402E01B | Dodrefn Lefel 1 | **£5,812** |
| 0402E02B | Dodrefn Lefel 2 | **£5,608** |
| 0402E03B | Dodrefn Lefel 3 | **£5,608** |
| 0402E03B12 | Dodrefn Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£5,608** |
| 0402E03B22 | Dodrefn Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£5,608** |
| 0403A02B | Gweithrediadau a Chynnal a Chadw lefel 2 | **£7,118** |
| 0403A03B | Gweithrediadau a Chynnal a Chadw lefel 3 | **£7,118** |
| 0403A03B12 | Gweithrediadau a Chynnal a Chadw lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,118** |
| 0403A03B22 | Gweithrediadau a Chynnal a Chadw lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,118** |
| 0500A02B | Adeiladu Lefel 2 – Sylfaen | **£7,788** |
| 0500B02B | Adeiladu Lefel 2 – Cynnydd | **£7,788** |
| 0502A01B | Adeiladu lefel 1 | **£7,099** |
| 0502A02B | Adeiladu lefel 2 | **£7,099** |
| 0502A03B | Adeiladu Lefel 3 | **£7,099** |
| 0502A03B12 | Adeiladu Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502A03B22 | Adeiladu Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502AE0B | Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig Lefel E | **£7,099** |
| 0502B03B | Gwaith brics lefel 3 | **£7,099** |
| 0502B03B12 | Gwaith brics lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502B03B22 | Gwaith brics lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502C03B | Gwaith Coed lefel 3 | **£7,099** |
| 0502C03B12 | Gwaith Coed lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502C03B22 | Gwaith Coed lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502D03B | Paentio ac Addurno lefel 3 | **£7,099** |
| 0502D03B12 | Paentio ac Addurno lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502D03B22 | Paentio ac Addurno lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502E03B | Crefftau Trywel Lefel 3 | **£7,099** |
| 0502E03B12 | Crefftau Trywel Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502E03B22 | Crefftau Trywel Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502F03B | Plymio lefel 3 | **£7,099** |
| 0502F03B12 | Plymio lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502F03B22 | Plymio lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502G03B | Gosod a Chynnal a Chadw Nwy lefel 3 | **£7,099** |
| 0502G03B12 | Gosod a Chynnal a Chadw Nwy lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |

| Cod y Rhaglen | Teitl y Rhaglen | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0502G03B22 | Gosod a Chynnal a Chadw Nwy lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502H03B | Teilsio Waliau a Lloriau lefel 3 | **£7,099** |
| 0502H03B12 | Teilsio Waliau a Lloriau lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£7,099** |
| 0502H03B22 | Teilsio Waliau a Lloriau lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 Flynedd | **£7,099** |
| 0502J03B | Cynnal a Chadw Peiriannau lefel 3 | **£7,099** |
| 0502J03B12 | Cynnal a Chadw Peiriannau lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502J03B22 | Cynnal a Chadw Peiriannau lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502K03B | Gwaith Gosod Trydanol lefel 3 | **£7,099** |
| 0502K03B12 | Gwaith Gosod Trydanol lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0502K03B22 | Gwaith Gosod Trydanol lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£7,099** |
| 0601A01B | Ymarferwyr TG lefel 1 | **£5,081** |
| 0601A02B | Ymarferwyr TG lefel 2 | **£4,734** |
| 0601A03B | Ymarferwyr TG lefel 3 | **£4,734** |
| 0601A03B12 | Ymarferwyr TG lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,734** |
| 0601A03B22 | Ymarferwyr TG lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,734** |
| 0601AAAB | Mynediad i AU - Cyfrifiadura Cymhwysol | **£3,737** |
| 0601B02B | Rhaglen TG Uwch Lefel 2 | **£8,695** |
| 0601B03B | Rhaglen TG Uwch Lefel 3 | **£8,695** |
| 0601C03B | Rhaglen TG / Peirianneg Hybrid Uwch | **£8,695** |
| 0602A01B | Defnyddwyr TG lefel 1 | **£5,098** |
| 0602A02B | Defnyddwyr TG lefel 2 | **£4,754** |
| 0602A03B | Defnyddwyr TG lefel 3 | **£4,754** |
| 0602A03B12 | Defnyddwyr TG lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,754** |
| 0602A03B22 | Defnyddwyr TG lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,754** |
| 0602AE0B | Technoleg Gwybodaeth Lefel E | **£5,098** |
| 0701A01B | Manwerthu lefel 1 | **£4,957** |
| 0701A02B | Manwerthu lefel 2 | **£4,586** |
| 0701A03B | Manwerthu lefel 3 | **£4,586** |
| 0701A03B12 | Manwerthu lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,586** |
| 0701A03B22 | Manwerthu lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,586** |
| 0701AE0B | Manwerthu Lefel E | **£4,957** |
| 0703A01B | Gwallt a Harddwch lefel 1 | **£5,090** |
| 0703A12B | Gwallt a Harddwch Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£6,386** |
| 0703A02B | Gwallt a Harddwch lefel 2 | **£4,745** |
| 0703A03B | Gwallt a Harddwch lefel 3 | **£4,745** |
| 0703A03B12 | Gwallt a Harddwch lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0703A03B22 | Gwallt a Harddwch lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0703AE0B | Gwallt a Harddwch Lefel E | **£5,090** |
| 0703B01B | Trin Gwallt Lefel 1 | **£5,090** |
| 0703B12B | Trin Gwallt Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£6,174** |
| 0703B02B | Trin Gwallt Lefel 2 | **£4,745** |
| 0703B23B | Trin Gwallt Dysgu Cyflym Lefel 2-3 | **£5,733** |
| 0703B03B | Trin Gwallt Lefel 3 | **£4,745** |
| 0703B03B12 | Trin Gwallt Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0703B03B22 | Trin Gwallt Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0703C01B | Therapi Harddwch lefel 1 | **£5,090** |
| 0703C12B | Therapi Harddwch Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£6,386** |
| 0703C02B | Therapi Harddwch lefel 2 | **£4,745** |

| Cod y Rhaglen | Teitl y Rhaglen | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0703C23B | Therapi Harddwch Dysgu Cyflym Lefel 2-3 | **£4,789** |
| 0703C03B | Therapi Harddwch lefel 3 | **£4,745** |
| 0703C03B12 | Therapi Harddwch lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0703C03B22 | Therapi Harddwch lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0703D02B | Technoleg Ewinedd lefel 2 | **£4,745** |
| 0703D03B | Technoleg Ewinedd lefel 3 | **£4,745** |
| 0703D03B12 | Technoleg Ewinedd lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0703D03B22 | Technoleg Ewinedd lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0703E02B | Effeithiau Arbennig Theatrig lefel 2 | **£4,745** |
| 0703E03B | Effeithiau Arbennig Theatrig lefel 3 | **£4,745** |
| 0703E03B12 | Effeithiau Arbennig Theatrig lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£4,745** |
| 0703E03B22 | Effeithiau Arbennig Theatrig lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 Flynedd | **£4,745** |
| 0703F03B | Therapi Sba lefel 3 | **£4,745** |
| 0703F03B12 | Therapi Sba lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0703F03B22 | Therapi Sba lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,745** |
| 0704A01B | Coginio Proffesiynol lefel 1 | **£5,473** |
| 0704A12B | Coginio Proffesiynol Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£6,241** |
| 0704A02B | Coginio Proffesiynol lefel 2 | **£5,198** |
| 0704A03B | Coginio Proffesiynol lefel 3 | **£5,198** |
| 0704A03B12 | Coginio Proffesiynol lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£5,198** |
| 0704A03B22 | Coginio Proffesiynol lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£5,198** |
| 0704A04B | Coginio Proffesiynol lefel 4 | **£4,104** |
| 0704AE0B | Arlwyo Lefel Mynediad | **£5,473** |
| 0704B01B | Lletygarwch ac Arlwyo lefel 1 | **£5,473** |
| 0704B02B | Lletygarwch ac Arlwyo lefel 2 | **£5,198** |
| 0704B03B | Lletygarwch ac Arlwyo lefel 3 | **£5,198** |
| 0704B03B12 | Lletygarwch ac Arlwyo lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£5,198** |
| 0704B03B22 | Lletygarwch ac Arlwyo lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£5,198** |
| 0704BE0B | Lletygarwch ac Arlwyo Lefel E | **£5,473** |
| 0801A01B | Chwaraeon a Hamdden lefel 1 | **£4,896** |
| 0801A12B | Chwaraeon a Hamdden Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£5,649** |
| 0801A02B | Chwaraeon a Hamdden lefel 2 | **£4,514** |
| 0801A03B | Chwaraeon a Hamdden lefel 3 | **£4,514** |
| 0801A03B12 | Chwaraeon a Hamdden lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£4,514** |
| 0801A03B22 | Chwaraeon a Hamdden lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,514** |
| 0801AE0B | Chwaraeon a Hamdden Lefel E | **£4,896** |
| 0802A01B | Teithio a Thwristiaeth lefel 1 | **£4,957** |
| 0802A12B | Teithio a Thwristiaeth Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£4,877** |
| 0802A02B | Teithio a Thwristiaeth lefel 2 | **£4,586** |
| 0802A03B | Teithio a Thwristiaeth lefel 3 | **£4,586** |
| 0802A03B12 | Teithio a Thwristiaeth lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£4,586** |
| 0802A03B22 | Teithio a Thwristiaeth lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,586** |
| 0802BAAB | Mynediad i AU Twristiaeth a Lletygarwch | **£3,634** |
| 0901A01B | Celfyddydau Perfformio lefel 1 | **£5,688** |
| 0901A02B | Celfyddydau Perfformio lefel 2 | **£5,454** |
| 0901A03B | Celfyddydau Perfformio lefel 3 | **£5,454** |
| 0901A03B12 | Celfyddydau Perfformio lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£5,454** |
| 0901A03B22 | Celfyddydau Perfformio lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£5,454** |
| 0901A04B | Celfyddydau Perfformio lefel 4 | **£5,668** |

| Cod y Rhaglen | Teitl y Rhaglen | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0901AE0B | Celfyddydau Perfformio Lefel E | £5,688 |
| 0901C02B | Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Lefel 2 | £5,454 |
| 0901C23B | Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Dysgu Cyflym Lefel 2-3 | £6,781 |
| 0901C03B | Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Lefel 3 | £5,454 |
| 0901C03B12 | Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | £5,454 |
| 0901C03B22 | Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | £5,454 |
| 0902A01B | Celf a Dylunio lefel 1 | £5,792 |
| 0902A12B | Celf a Dylunio Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | £6,751 |
| 0902A02B | Celf a Dylunio lefel 2 | £5,577 |
| 0902A03B | Celf a Dylunio lefel 3 | £5,577 |
| 0902A03B12 | Celf a Dylunio lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | £5,577 |
| 0902A03B22 | Celf a Dylunio lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | £5,577 |
| 0902A04B | Celf a Dylunio lefel 4 | £5,317 |
| 0902AE0B | Celf a Dylunio Lefel E | £5,792 |
| 0902B03B | Astudiaethau Sylfaen Celf Lefel 3 | £5,577 |
| 0903A01B | Y Cyfryngau lefel 1 | £5,565 |
| 0903A12B | Y Cyfryngau Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | £6,071 |
| 0903A02B | Y Cyfryngau lefel 2 | £5,308 |
| 0903A03B | Y Cyfryngau lefel 3 | £5,308 |
| 0903A03B12 | Y Cyfryngau lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | £5,308 |
| 0903A03B22 | Y Cyfryngau lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | £5,308 |
| 0903A03D | Y Cyfryngau Lefel 3 gyda Dysgu Pellach yn y Gweithle | £6,023 |
| 0903B02B | Celfyddydau Cynhyrchu Lefel 2 | £5,296 |
| 0903B03B | Celfyddydau Cynhyrchu Lefel 3 | £5,308 |
| 0903B03B12 | Celfyddydau Cynhyrchu Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | £5,308 |
| 0903B03B22 | Celfyddydau Cynhyrchu Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 Flynedd | £5,308 |
| 1105AAAB | Mynediad i AU Y Dyniaethau | £3,116 |
| 1401A01B | Astudiaethau Sylfaen lefel 1 | £6,953 |
| 1401A02B | Astudiaethau Sylfaen Lefel 2 | £6,953 |
| 1401AE1B | Dysgu Sylfaen Lefel E1 | £6,953 |
| 1401AE2B | Dysgu Sylfaen Lefel E2 | £6,953 |
| 1401AE3B | Dysgu Sylfaen Lefel E3 | £6,953 |
| 1401AXXB | Sgiliau Byw'n Annibynnol - Llwybr 1 | £10,995 |
| 1401BXXB | Sgiliau Byw'n Annibynnol - Llwybr 2 | £10,995 |
| 1401CXXB | Sgiliau Byw'n Annibynnol - Llwybr 3 | £10,995 |
| 1401DXXB | Sgiliau Byw'n Annibynnol - Llwybr 4 | £10,995 |
| 1401EXXB | Rhaglen Sylfaen – Cam Ymlaen – Grŵp Llandrillo Menai | £6,622 |
| 1401C01B | ESOL Lefel 1 | £5,812 |
| 1401C02B | ESOL Lefel 2 | £5,601 |
| 1401CE1B | ESOL Lefel E1 | £5,812 |
| 1401CE2B | ESOL Lefel E2 | £5,812 |
| 1401CE3B | ESOL Lefel E3 | £5,812 |
| 1401CPEB | ESOL Cyn mynediad | £5,812 |
| 1402A01B | Paratoi i Weithio Lefel 1 | £6,953 |
| 1402A02B | Paratoi i Weithio Lefel 2 | £6,953 |
| 1402AE1B | Paratoi i Weithio Lefel E1 | £6,953 |
| 1402AE2B | Paratoi i Weithio Lefel E2 | £6,953 |

| Cod y Rhaglen | Teitl y Rhaglen | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 1402AE3B | Paratoi i Weithio Lefel E3 | **£6,953** |
| 1501A02B | Cyfrifyddu lefel 2 | **£4,576** |
| 1501A23B | Cyfrifyddu Dysgu Cyflym Lefel 2-3 | **£5,913** |
| 1501A03B | Cyfrifyddu lefel 3 | **£4,576** |
| 1501A03B12 | Cyfrifyddu lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,576** |
| 1501A03B22 | Cyfrifyddu lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,576** |
| 1501A04B | Cyfrifyddu lefel 4 | **£3,626** |
| 1501AAAB | Mynediad i AU Gwasanaethau Ariannol | **£3,352** |
| 1502A01B | Gweinyddu Busnes lefel 1 | **£4,953** |
| 1502A12B | Gweinyddu Busnes Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£6,194** |
| 1502A02B | Gweinyddu Busnes lefel 2 | **£4,581** |
| 1502A23B | Gweinyddu Busnes Dysgu Cyflym Lefel 2-3 | **£6,780** |
| 1502A03B | Gweinyddu Busnes lefel 3 | **£4,581** |
| 1502A03B12 | Gweinyddu Busnes lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,581** |
| 1502A03B22 | Gweinyddu Busnes lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,581** |
| 1502AE0B | Gweinyddu Busnes Lefel E | **£4,953** |
| 1502D02B | Ysgrifenyddion Cyfreithiol Lefel 2 | **£4,581** |
| 1502D03B | Ysgrifenyddion Cyfreithiol lefel 3 | **£4,581** |
| 1502D03B12 | Ysgrifenyddion Cyfreithiol lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£4,581** |
| 1502D03B22 | Ysgrifenyddion Cyfreithiol lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 Flynedd | **£4,581** |
| 1502E02B | Gweinyddu Meddygol lefel 2 | **£4,581** |
| 1502E03B | Gweinyddu Meddygol lefel 3 | **£4,581** |
| 1502E03B12 | Gweinyddu Meddygol lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£4,581** |
| 1502E03B22 | Gweinyddu Meddygol lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£4,581** |
| 1503B12B | Astudiaethau Busnes Dysgu Cyflym Lefel 1-2 | **£5,596** |
| 1503B02B | Astudiaethau Busnes Lefel 2 | **£4,581** |
| 1503B23B | Astudiaethau Busnes Dysgu Cyflym Lefel 2-3 | **£5,639** |
| 1503B03B | Astudiaethau Busnes Lefel 3 | **£4,576** |
| 1503B03B | Astudiaethau Busnes Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 Flynedd | **£4,576** |
| 1503B03B | Astudiaethau Busnes Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 Flynedd | **£4,576** |
| 1503BAAB | Mynediad i AU Astudiaethau Busnes | **£3,626** |
| 1505A03B | Y gyfraith lefel 3 | **£3,910** |
| 1505A03B12 | Y gyfraith lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£3,910** |
| 1505A03B22 | Y gyfraith lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£3,910** |
| 1505B02B | Ymarfer Cyfreithiol Lefel 2 | **£3,910** |
| 1505B03B | Ymarfer Cyfreithiol Lefel 3 | **£3,910** |
| 1505B03B12 | Ymarfer Cyfreithiol Lefel 3 - Blwyddyn 1 o gwrs 2 flynedd | **£3,910** |
| 1505B03B22 | Ymarfer Cyfreithiol Lefel 3 - Blwyddyn 2 o gwrs 2 flynedd | **£3,910** |
| 9801A01B | Mynediad i AB Lefel 1 | **£2,534** |
| 9801A02B | Mynediad i AB Lefel 2 | **£2,534** |
| 0104AJAB | Prentisiaethau Iau – Gwasanaethau Cyhoeddus | **£2,260** |
| 0401CJAB | Prentisiaeth Iau – Saernïo a Weldio | **£2,260** |
| 0401HJAB | Prentisiaethau Iau – Peirianneg Fodurol | **£2,260** |
| 0502AJAB | Prentisiaethau Iau – Adeiladu | **£2,260** |
| 0703AJAB | Prentisiaethau Iau – Gwallt a Harddwch | **£2,260** |
| 0704BJAB | Prentisiaethau Iau – Lletygarwch ac Arlwyo | **£2,260** |
| 0903AJAB | Prentisiaethau Iau – y Cyfryngau | **£2,260** |
| 0301AJAB | Prentisiaeth Iau – Tirlunio | **£2,260** |

| Cod y Rhaglen Ran-amser | Cofnodwyd fel cyfanswm oriau cyswllt dan arweiniad (GCH) | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0101XXXV | Meddygaeth a Deintyddiaeth | **£8.82** |
| 0102XXXV | Nyrsio a Phynciau a Galwedigaethau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth | **£7.19** |
| 0103XXXV | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | **£7.45** |
| 0104XXXV | gwasanaethau cyhoeddus | **£8.38** |
| 0105XXXV | Datblygiad a Llesiant Plant | **£7.20** |
| 0201XXXV | Gwyddoniaeth | **£8.41** |
| 0202XXXV | Mathemateg ac Ystadegau | **£7.06** |
| 0301XXXV | Amaethyddiaeth | **£13.93** |
| 0302XXXV | Garddwriaeth a Choedwigaeth | **£13.62** |
| 0303XXXV | Gofal Anifeiliaid a Gwyddor Filfeddygol | **£13.57** |
| 0304XXXV | Cadwraeth Amgylcheddol | **£13.66** |
| 0401XXXV | Peirianneg | **£13.75** |
| 0402XXXV | Technolegau Gweithgynhyrchu | **£10.60** |
| 0403XXXV | Trafnidiaeth Gweithrediadau a Chynnal a Chadw | **£13.75** |
| 0501XXXV | Pensaernïaeth | **£14.12** |
| 0502XXXV | Adeiladu | **£13.71** |
| 0503XXXV | Cynllunio Trefol, Gwledig a Rhanbarthol | **£8.47** |
| 0601XXXV | Ymarferwyr TGCh | **£8.78** |
| 0602XXXV | TGCh i Ddefnyddwyr | **£8.82** |
| 0701XXXV | Manwerthu a Chyfanwerthu | **£8.47** |
| 0702XXXV | Warysau a Dosbarthu | **£8.43** |
| 0703XXXV | Busnesau Gwasanaethu | **£8.80** |
| 0704XXXV | Lletygarwch ac Arlwyo | **£9.74** |
| 0801XXXV | Chwaraeon a Hamdden | **£8.32** |
| 0802XXXV | Teithio a Thwristiaeth | **£8.47** |
| 0901XXXV | Y Celfyddydau Perfformio | **£10.28** |
| 0902XXXV | Crefftau, y Celfyddydau Creadigol a Dylunio | **£10.53** |
| 0903XXXV | Y Cyfryngau a Chyfathrebu | **£9.97** |
| 0904XXXV | Gwasanaethau Cyhoeddi a Gwybodaeth | **£7.06** |
| 1001XXXV | Hanes | **£7.06** |
| 1002XXXV | Archaeoleg a Gwyddorau Archaeolegol | **£7.06** |
| 1003XXXV | Athroniaeth | **£7.06** |
| 1004XXXV | Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol | **£7.06** |
| 1101XXXV | Daearyddiaeth | **£7.06** |
| 1102XXXV | Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol | **£7.06** |
| 1103XXXV | Gwleidyddiaeth | **£7.06** |
| 1104XXXV | Economeg | **£7.06** |
| 1105XXXV | Anthropoleg | **£7.06** |
| 1201XXXV | Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant Ynysoedd Prydain | **£7.28** |
| 1202XXXV | Ieithoedd, Llenyddiaethau a Diwylliannau Eraill | **£7.27** |
| 1203XXXV | Ieitheg | **£7.06** |
| 1301XXXV | Addysgu a Darlithio | **£7.13** |
| 1302XXXV | Cymorth Dysgu Uniongyrchol | **£7.47** |
| 1401AXXV | Sgiliau Annibynnol – Cymedrol | **£13.41** |
| 1401BXXV | Sgiliau Annibynnol – Dwys | **£21.17** |
| 1401CXXV | ESOL | **£10.58** |
| 1401DXXV | Addysg Sylfaenol Oedolion | **£13.41** |
| 1401XXXV | Sylfaen i fywyd dysgu | **£13.41** |

| | | |
|---|---|---|
| 1402AXXV | Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith | **£12.07** |
| 1501XXXV | Cyfrifyddu a Chyllid | **£8.44** |
| 1502XXXV | Gweinyddu | **£8.46** |
| 1503XXXV | Rheoli Busnes | **£8.44** |
| 1504XXXV | Marchnata a Gwerthu | **£8.52** |
| 1505XXXV | Y Gyfraith a Gwasanaethau Cyfreithiol | **£7.06** |
| 9101XXXV | Sgiliau sylfaenol LearnDirect / darpariaeth ESOL | **£13.41** |
| 9102XXXV | LearnDirect arall | **£8.82** |

| Cod y Rhaglen Ran-amser | Cofnodwyd fel Cofrestriadau | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 9001XXXV | Cymwysterau NVQ yn y gweithle | **£1,745** |

| Cod y Rhaglen Ran-amser | Cofnodwyd fel cyfanswm oriau cyswllt dan arweiniad (GCH) | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0100XXXG | Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd a Gofal | **£7.13** |
| 0200XXXG | Gwyddoniaeth a Mathemateg | **£8.32** |
| 0300XXXG | Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid | **£13.10** |
| 0400XXXG | Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu | **£12.93** |
| 0500XXXG | Cynllunio Gwaith Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig | **£14.01** |
| 0600XXXG | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | **£8.87** |
| 0700XXXG | Busnes Manwerthu a Masnachol | **£9.86** |
| 0800XXXG | Teithio Hamdden a Thwristiaeth | **£8.54** |
| 0900XXXG | Y Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi | **£10.33** |
| 1000XXXG | Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth | **£7.06** |
| 1100XXXG | Gwyddorau Cymdeithasol | **£7.08** |
| 1200XXXG | Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant | **£7.21** |
| 1300XXXG | Addysg a Hyfforddiant | **£7.06** |
| 1401AXXG | Sgiliau Byw'n Annibynnol – Cymedrol | **£13.41** |
| 1401BXXG | Sgiliau Byw'n Annibynnol – Dwys | **£21.17** |
| 1401CXXG | ESOL | **£10.58** |
| 1401DXXG | Addysg Sylfaenol Oedolion | **£13.41** |
| 1402AXXG | Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith | **£12.07** |
| 1500XXXG | Gweinyddu Busnes a'r Gyfraith | **£8.25** |

| Cod y Rhaglen Ran-amser | Cofnodwyd fel cyfanswm oriau cyswllt dan arweiniad (GCH) | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0001A02S | TGAU | **£8.11** |
| 0001B03S | Lefel UG | **£8.11** |
| 0001C03S | Lefel U2 | **£8.11** |

| Cod y Rhaglen Ran-amser | Cofnodwyd fel Cofrestriadau | Gwerth y Rhaglen 2022/23 |
|---|---|---|
| 0001A02P | Ailsefyll TGAU Mathemateg | **£609** |
| 0001B02P | Ailsefyll TGAU Saesneg | **£609** |
| 0001C02P | Ailsefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) | **£609** |

Papur 02i – Atodiad I - Grantiau: Alldro 2021-22 a gwariant rhagamcanol y pedair blynedd wedyn ar gyfer: Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf amser llawn (GGALl; Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf ran-amser (GGRA; Grant Cynhaliaeth GGRA; Elfen grant Cyllid Meistr; Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA); Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLlC(AB))

£000oedd

| Grantiau | Gwariant 2021-22 | Rhagamcan 2022-23 | Rhagamcan 2023-24 | Rhagamcan 2024-25 | Rhagamcan 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf amser llawn (GGALl) | 14,380 | 1,934 | 0 | 0 | 0 |
| Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf ran-amser (GGRA) | 2,482 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grant Cynhaliaeth GGRA | 32,410 | 38,201 | 42,486 | 46,428 | 50,453 |
| Elfen grant Cyllid Meistr | 24,588 | 23,898 | 24,921 | 26,508 | 28,542 |
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) | 14,518 | 14,494 | 14,495 | 14,501 | 14,506 |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) | 3,933 | 3,933 | 3,933 | 3,933 | 3,933 |

**Darpariaeth benthyciadau: Alldro 2021-22, a ffioedd benthyciadau rhagamcanol y pedair blynedd wedyn (wedi'u dadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU) ar gyfer: Ffioedd dysgu a ffioedd benthyciadau cynhaliaeth GGALl a thâl Cyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau (RAB), Ffioedd dysgu a ffioedd benthyciadau cynhaliaeth GGRA a thâl RAB, elfen benthyciad Cyllid Meistr a thâl RAB, ffioedd benthyciadau Doethurol a thâl RAB**

£000oedd

| | Gwariant 2021-22 | Rhagamcan 2022-23 | Rhagamcan 2023-24 | Rhagamcan 2024-25 | Rhagamcan 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyciad** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a ffioedd benthyciadau cynhaliaeth GGALl | 787,363 | 834,618 | 891,004 | 946,735 | 996,864 |
| Ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth GGRA | 28,892 | 35,732 | 42,775 | 48,008 | 52,303 |
| Elfen benthyciad Cyllid Meistr | 70,998 | 72,146 | 78,505 | 84,713 | 91,308 |
| Ffioedd benthyciadau Doethurol | 3,978 | 4,504 | 4,743 | 4,817 | 4,930 |
| **RAB** | | | | | |
| Ffioedd Dysgu a benthyciadau GCALI @ RAB | 197,576 | 200,070 | 229,558 | 249,579 | 247,635 |
| Ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth GGRA @ RAB | 6,604 | 8,116 | 11,457 | 12,338 | 12,924 |
| Benthyciad Cyllid Meistr @ RAB | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyciad Doethurol @ RAB | 756 | 864 | 1,042 | 912 | 935 |

Papur 03 - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – 12 Ionawr 2023 – tystioaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

**Cyflwyniad**

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwariant ar gyfer 2023-24 sy'n gwneud newidiadau i'r cyllidebau dangosol a gyhoeddwyd fel rhan o gyllideb ddrafft 2022-23. Yn y papur hwn cyflwynir tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch cynigion cyllidebol ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol yn ymwneud â chyllidebau Llywodraeth Leol o fewn Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd ar 13 Rhagfyr 2022.

Yn Atodiad A ceir dadansoddiad o'r ffigurau perthnasol o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Cyllid a Llywodraeth Leol yn ôl Maes Rhaglen Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb. Adlewyrchir y ffigurau hyn yn y tabl isod.

**Tablau Ariannol**

**Tabl 1: Trosolwg o newidiadau i dablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

| | **2023-24 Cyllideb Ddangosol £'000** | **2023-24 Cyllideb Ddrafft £’000** | **Newid £’000** | **% Newid** |
|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 4,346,119 | 4,829,952 | 483,833 | 11.1% |
| Heb Fod yn Arian Parod | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **4,346,119** | **4,829,952** | **483,833** | **11.1%** |
| Cyfalaf | 222,000 | 222,000 | 0 | 0 |
| Trafodiadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **222,000** | **222,000** | **0** | **0** |

## Dyraniadau cyllidebol

Gwnaed tri newid allweddol fel rhan o'r gyllideb ddrafft hon:

- Mae rhai cyllidebau refeniw o fewn y MEG wedi cael eu hailflaenoriaethu ac mae llinellau sylfaen y cyllidebau hyn wedi gostwng; roedd y gostyngiadau hyn yn werth £1.709m i gyd ac roedd £609k o'r rhain yn effeithio ar gyllidebau sy'n cefnogi Llywodraeth Leol. Nid oedd angen torri cyllidebau cyfalaf fel rhan o'r ymarfer hwn. Roedd hyn yn rhan o ymarfer ehangach gan Lywodraeth Cymru i ailflaenoriaethu cyllidebau er mwyn targedu adnoddau prin at y mannau lle roedd eu hangen fwyaf.
- Gwnaed dyraniadau o gronfeydd wrth gefn;

- Gwnaed rhywfaint o waith ailflaenoriaethu o fewn y MEG er mwyn ailddyrannu cyllidebau refeniw a chyfalaf am flwyddyn yn unig.

Caiff y newidiadau hyn i gyd eu dangos yn y tablau isod ac yn nhablau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2022.

Cafodd y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol y dyraniadau canlynol o gronfeydd wrth gefn fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24:

**Tabl 2: Dyraniadau a wnaed drwy Gyllideb Ddrafft 2023-24**

| **Dyraniad** | **2023-24 £'000oedd** | **2024-25 £'000oedd** |
|---|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw (Gan gynnwys cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol) | 150,000 | 150,500 |
| Ardrethi Busnes | 292,000 | 144,500 |
| Wcráin | 40,000 | 20,000 |
| Cost Benthyca | 897 | 4,496 |
| Codiad ar sail chwyddiant | 2,000 | 2,000 |
| Addasiadau heb fod yn arian parod i ACC, AGC ac AGIC | 124 | 137 |
| **Cyfanswm y dyraniad** | **485,021** | **321,633** |

Caiff dyraniadau refeniw eu gwrthbwyso gan addasiad o £215m i'r llinell ardrethi annomestig o dan Wariant a Reolir yn Flynyddol yn 2023-24. Mae'r addasiad hwn yn cynnwys y lleihad i'r swm dosbarthadwy ers y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24 a 2024-25, ac yn debydu'r Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch a ddarperir ar gyfer 2023-24.

Bwriadwyd i'r codiad o £2m ar sail chwyddiant helpu â rhai o'r effeithiau chwyddiant a deimlir y tu allan i'r setliad llywodraeth leol. Cafodd y codiad o £2m ei ddyrannu ar draws y MEG fel a ganlyn:

**Tabl 3: Dyraniadau'r codiad o £2m ar sail chwyddiant ar gyfer y MEG**

| **Dyraniad** | **2023-24 £'000oedd** | **2024-25 £'000oedd** |
|---|---|---|
| Cyllid ar gyfer y Rhaglen Caffael Masnachol i roi cyllid ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Caffael a'r Rhaglen Sgiliau a Gallu Caffael. | 907 | 907 |
| Awdurdod Refeniw Cymru mewn perthynas â phwysau cyflogau, pwysau chwyddiannol a phwysau arall. | 941 | 941 |
| Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol o ganlyniad i bwysau cynyddol o ran adnoddau a chwyddiant yn sgil newidiadau i ymarfer sy'n ymwneud ag arolygon etholiadol a chymunedol a gwaith sylweddol i baratoi ar gyfer diwygiadau i'r Senedd. | 152 | 152 |
| **Cyfanswm y dyraniad** | **2,000** | **2,000** |

O ganlyniad i'r cyd-destun economaidd a'r pwysau a deimlir ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i ymateb i bwysau chwyddiant, costau byw a chyflogau yn ogystal â chyflawni ein Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol, gofynnwyd i bob gweinidog â phortffolio nodi arbedion refeniw o fewn ei MEG i gefnogi blaenoriaethau trawslywodraethol. Llwyddwyd i gyrraedd targed o £100m o arbedion ar draws Llywodraeth Cymru gyda Chyllid a Llywodraeth Leol yn cyfrannu £1.709m at y targed hwn. Cyflawnwyd hyn drwy wneud arbedion cylchol yn y meysydd canlynol:

**Tabl 4: Arbedion cylchol a nodwyd o fewn y MEG**

| Arbediad a nodwyd | 2023-24 £'000oedd | 2024-25 £'000oedd |
|---|---|---|
| Buddsoddi i Arbed – ystyriwyd ei fod yn fforddiadwy am fod llai o gytundebau benthyca yn yr arfaeth. | 750 | 750 |
| e-Gaffael – caiff yr arbediad ei sicrhau drwy gyfnewid contract am un sy'n cynnig gwell gwerth am arian. | 350 | 350 |
| Gwella a Chymorth – mae prosiect pontio Ewropeaidd â chyllideb o £1.2m bellach wedi dod i ben. Caiff y cyllid sy'n weddill ei ddefnyddio er mwyn helpu i ddatgarboneiddio'r ystad llywodraeth leol. Bydd yr arbediad hwn yn gostwng lefel y cymorth refeniw yn 2023-2024 a fyddai ar gael fel arall i awdurdodau lleol er mwyn datblygu achosion busnes/prosiectau mawr i ddatgarboneiddio eu hystad gorfforaethol.Efallai mai'r effaith fyddai arafu gwaith yn y maes hwn oni bai bod awdurdodau lleol yn cyllido eu hunain gan adlewyrchu eu hymrwymiadau eu hunain a'r potensial i wneud arbedion hirdymor.Caiff hyn ei liniaru gan y gwaith sy'n mynd rhagddo gydag Ystadau Cymru ar resymoli ystadau a rhaglen CLlLC sy'n cefnogi gwaith Llywodraeth Leol ar ei hymrwymiadau Sero Net. | 609 | 609 |
| **Cyfanswm yr arbedion a wneir yn y gyllideb ddrafft** | **1,709** | **1,709** |

Mae rhai cyllidebau yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cael eu hailbroffilio yn 2023-24 lle gellid nodi arbedion i'w cyflawni mewn cyfnod penodol er mwyn cefnogi pwysau mewn rhannau eraill o'r MEG. Fel rhan o'r ymarfer hwn, penderfynwyd ailbroffilio cyllidebau fel a ganlyn o fewn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol am flwyddyn yn unig:

**Tabl 5: Cyllidebau a addaswyd at ddiben arall o fewn y MEG am flwyddyn yn unig (2023-24)**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Addasiad at ddiben arall am flwyddyn yn unig £'000edd |
|---|---|
| **Trawsnewid a Deddfwriaeth -** bydd toriad i'r gyllideb hon yn golygu y bydd angen lleihau rhywfaint o weithgarwch neu ei ohirio nes 2024-25. | (613) |
| **Cymorth Ariannol Brys** - dyraniad ar gyfer costau adfer y bydd awdurdodau lleol yn mynd iddynt o ganlyniad i lifogydd mis Chwefror 2020. | 491 |
| **Polisi etholiadau** a gyflawnir drwy leihau gweithgarwch am flwyddyn yn unig. | (1,000) |
| **Awdurdod Refeniw Cymru** - pwysau sy'n ymwneud â gweithredu a pharhau i gyflawni gweithgareddau amrywiol. | 1,122 |
| **Buddsoddi i Arbed (Cyfalaf) –** ystyriwyd ei fod yn fforddiadwy | (195) |
| **Awdurdod Refeniw Cymru (Cyfalaf) –** pwysau sy'n ymwneud ag adnewyddu trwyddedau yn ogystal â gweithgarwch arall. | 195 |
| **Cyfanswm** | **0** |

## Setliad Llywodraeth Leol

Er gwaethaf y pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol a nodwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, nid oedd ein setliad gan Lywodraeth y DU wedi ein galluogi i leddfu'r pwysau hwn sy'n deillio o chwyddiant a chynnydd yn y galw am wasanaethau yn llawn. Mewn ymgais i warchod

gwasanaethau cyhoeddus gymaint â phosibl, nid ystyriwyd unrhyw doriadau i'r setliad llywodraeth leol fel rhan o ymarfer ehangach Llywodraeth Cymru i addasu cyllidebau at ddibenion eraill.

Yn 2022-23, cynyddodd y setliad Llywodraeth Leol £437miliwn (9.4%) ar sail gyfatebol i £5.1 biliwn er mwyn cefnogi gwasanaethau rheng flaen. Fel rhan o Gyllideb 2022-23, cynlluniwyd cynnydd pellach i'r setliad ar gyfradd o 3.5% (£177m) yn 2023-24 a 2.4% yn 2024-25.

Mae codiadau sydyn mewn prisiau ynni a chwyddiant wedi effeithio ar holl wasanaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys eu dau faes gwasanaeth mwyaf, sef ysgolion a gofal cymdeithasol. Ar yr un pryd, mae'r galw mewn llawer o feysydd gwasanaeth wedi cynyddu yn gyffredinol.

Caiff ysgolion yng Nghymru eu cyllido'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol – caiff y cyllid ar gyfer ysgolion ei ddarparu'n bennaf drwy'r setliad llywodraeth leol. Mae cyllideb addysg Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi gwariant mewn ysgolion ac ar ysgolion, athrawon a rhaglenni addysg ehangach, gan gynnwys prydau ysgol am ddim, y broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd, hyfforddiant athrawon a chefnogaeth i helpu dysgwyr ar ôl y pandemig.

O ganlyniad i benderfyniadau a wnaed ynghylch gwariant ar addysg yn Lloegr, derbyniodd Cymru gyllid ychwanegol yn Natganiad yr Hydref. Mae'r cyllid hwn i gyd yn cael ei roi i lywodraeth leol drwy gynyddu'r setliad a thrwy'r gyllideb addysg.

Wrth wneud penderfyniadau am lefel y cyllid i lywodraeth leol, rwyf wedi ymateb i'r angen i gefnogi gwasanaethau rheng flaen allweddol. Yn benodol, rwyf wedi cynnwys cyllid i alluogi awdurdodau i barhau i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal.

O ganlyniad i'r penderfyniadau rwyf wedi'u gwneud, rwyf yn darparu £227m yn ychwanegol yn 2023-24 a £268m yn 2024-25 i'r setliad llywodraeth leol; mae hyn yn adeiladu ar y £0.75bn a amlinellwyd gennym hyd at 2024-25 fel rhan o'n hadolygiad o wariant yn 2022.

## Pecyn rhyddhad ardrethi annomestig

Bydd pob busnes yng Nghymru yn cael budd o'r pecyn cymorth ardrethi annomestig gwerth £460m y byddwn yn ei ddarparu dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Bydd y pecyn hwn yn ychwanegol at ein cynlluniau rhyddhad parhaol sy'n darparu tua £240m o ryddhad i dalwyr ardrethi ledled Cymru bob blwyddyn.

Byddwn yn parhau i roi cymorth i'r sectorau hynny y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt yn fwyaf uniongyrchol drwy gynllun rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch 2023-24. Bydd y cynllun hwn yn darparu mwy na £140m o ryddhad ardrethi annomestig i fusnesau cymwys.

Bydd talwyr ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch yn cael rhyddhad ardrethi annomestig o 75% drwy gydol 2023-24. Fel y cynllun tebyg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, bydd cynllun Llywodraeth Cymru yn cynnwys cap o £110,000 fesul busnes yng Nghymru. Mae ein dull yn sicrhau y bydd busnesau yng Nghymru yn cael cymorth tebyg i'r cymorth a ddarperir mewn rhannau eraill o'r DU.

Yn ogystal â'r cynllun rhyddhad ardrethi manwerthu, hamdden a lletygarwch, caiff y lluosydd ardrethi annomestig yng Nghymru ei rewi yn 2023-24. Bydd hyn yn cefnogi pawb sy'n talu ardrethi yng Nghymru am gost amcangyfrifedig o fwy na £200m dros y ddwy flynedd nesaf.

Daw'r rhestr ardrethi annomestig nesaf i rym ar 1 Ebrill 2023, ar ôl ailbrisio. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhyddhad trosiannol i bawb y bydd eu hatebolrwydd yn cynyddu mwy na £300 o ganlyniad i ailbrisio. Caiff unrhyw gynnydd i atebolrwydd ardrethi annomestig o ganlyniad i ailbrisio ei gyflwyno'n raddol dros ddwy flynedd.

Bydd talwr ardrethi yn talu 33% o'i atebolrwydd ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf (2023-24) a 66% yn yr ail flwyddyn (2024-25), cyn cyrraedd ei atebolrwydd llawn yn y drydedd flwyddyn (2025-26). Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £113m dros ddwy flynedd i gyllido'r rhyddhad trosiannol hwn, gan gefnogi pob rhan o'r sylfaen drethu drwy gynllun trosiannol cyson a syml.

Rydym yn ymrwymedig i helpu busnesau i adfer ar ôl effeithiau'r pandemig a'u helpu drwy'r argyfwng costau byw presennol, er mwyn sicrhau bod gan Gymru economi lewyrchus o hyd.

## Wcráin

Fel Llywodraeth, gwnaethom ymrwymiad clir i groesawu pobl sy'n ffoi rhag y gwrthdaro yn Wcráin. Yn wreiddiol gwnaethom sefydlu ein cynllun uwch-noddwr i noddi 1,000 o bobl o Wcráin yn uniongyrchol – hyd yma, rydym wedi llwyddo i gefnogi bron i 3,000 o bobl sydd wedi cyrraedd Cymru drwy'r llwybr uwch-noddwr. Mae hyn yn dangos yn glir bod Cymru yn Genedl Noddfa.

Rydym wedi cyllido ein cynllun uwch-noddwr, gan gynnwys llety a chymorth cofleidiol, o'n cyllideb ein hunain. Byddwn yn parhau i wneud hyn yn 2023-24 ac rydym wedi ymrwymo £40m arall at y diben hwn er mwyn sicrhau bod gan bobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin le diogel a noddfa yng Nghymru o hyd. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn sicrhau y gall awdurdodau lleol barhau i ddarparu gwasanaethau i gefnogi ein cynllun. Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo unrhyw gyllid i gynllun Cartrefi i Wcráin yn 2023-24.

## Rhaglen Lywodraethu

Mae'r Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Yn unol ag egwyddorion rheoli'r gyllideb Llywodraeth Cymru, mae dyraniadau a wnaed yn yr Adolygiad o Wariant 2022-23 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn wedi targedu ymyriadau sy'n fforddiadwy ac yn cynnig gwerth am arian. Nid oes unrhyw ddyraniadau newydd wedi cael eu gwneud i gefnogi ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu drwy gyllideb ddrafft 2023-24. Mae manylion am ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb sy'n eu cefnogi ar gael isod.

**Ceisio diwygio'r dreth gyngor er mwyn sicrhau system decach a mwy graddoledig -** Cyhoeddais fy nghynlluniau i ddiwygio system y dreth gyngor ar 7 Rhagfyr 2021 a lansiais ymgynghoriad Cam 1 ar 12 Gorffennaf. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi. Darperir ar gyfer y gwaith hwn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol.

**Dadlau dros ddatganoli trethi'n glir ac yn sefydlog -** Mae'r ddwy dreth leol, sef y dreth gyngor ac ardrethi annomestig, yn rhan annatod o'r system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru. Ochr yn ochr â'm cynlluniau i ddiwygio system y dreth gyngor, amlinellais fy nghynlluniau i ddiwygio'r system ardrethi annomestig ar 29 Mawrth a lansiais ymgynghoriad ar y cynigion ar 21 Medi. Darperir ar gyfer y gwaith hwn hefyd drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol.

**Cryfhau ymreolaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau -** Caiff yr ymrwymiad hwn yn y Rhaglen Lywodraethu ei gyflawni drwy'r cyllid ar gyfer gwelliannau i lywodraeth leol a arweinir gan y sector, gan gynnwys

trawsnewid digidol (sydd hefyd yn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflawni'r Strategaeth Ddigidol), drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth. Caiff gwaith i wella rheolaeth ariannol a systemau llywodraethu Cynghorau Cymuned ei ariannu gan Linell Wariant yn y Gyllideb Cynghorau Tref a Chymuned a dyraniad o Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth. Ariennir unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â rhaglenni cymorth ac ymyrryd statudol sy'n benodol i awdurdodau lleol drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Gwella a Chymorth. Ymhlith y gwaith arall a wnaiff gyfrannu mae ein gwaith diwygio ariannol a gwaith ar ddiwygio'r dreth gyngor; a chynyddu cyfranogiad democrataidd. Ariennir hyn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth a Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol.

**Lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau leol -** Mae ymarfer cwmpasu gorchwyl a gorffen ar waith, gan weithio'n agos gyda llywodraeth leol i archwilio rhwystrau canfyddedig a meysydd allweddol y nodir eu bod yn feysydd lle ceir baich gweinyddol diangen. Y bwriad yw nodi cyfleoedd i newid prosesau a gofynion presennol a chytuno ar gyfres o egwyddorion sylfaenol er mwyn helpu i ddiffinio'r angen am orbenion gweinyddol a gorbenion biwrocrataidd eraill yn y dyfodol a ffurf y gorbenion hynny. Nid oes unrhyw oblygiadau cyllido i'r ymarfer cwmpasu hwn.

**Archwilio a datblygu mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod -** Fel rhan o'r dull tair elfen a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd ym mis Gorffennaf 2021, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru haf diwethaf ar newidiadau posibl i drethi lleol er mwyn helpu awdurdodau lleol i reoli effaith ail gartrefi a llety hunanddarpar yn eu hardaloedd. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ar 2 Mawrth cyhoeddais y cynlluniau i ddiwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gweithredu unrhyw newidiadau a'r dadansoddiadau ychwanegol o wybodaeth am ail gartrefi a llety hunanddarpar o fewn y sylfaen drethu leol

**Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd -** Yn 2022-23, gwnaethom gynnal cynlluniau peilot i ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn rhoi opsiynau pleidleisio hyblyg i bleidleiswyr mewn pedwar awdurdod lleol a chwblhawyd gwaith allgymorth i annog pobl i gofrestru ac ymgysylltu. Cyrhaeddodd y llifau gwaith hyn eu pen llanw gydag etholiadau lleol mis Mai 2022. Mae gwerthusiad o'r cynlluniau peilot gan y Comisiwn Etholiadol a'r gwaith allgymorth gan rwydwaith o sefydliadau wedi dod i law ac mae'n llywio cam nesaf ein gwaith cyn ein cyfres arfaethedig nesaf o etholiadau datganoledig yn 2026 a 2027. Ym mis Hydref 2022, gwnaethom gyhoeddi Papur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol, gan gynnwys cynigion ynghylch gwybodaeth i bleidleiswyr ac ymgysylltu, gwneud y system etholiadol yn fwy hygyrch drwy drefniadau cofrestru awtomatig, a rhai newidiadau strwythurol er mwyn cefnogi trefniadau gweinyddol gwell. Gwnaethom hefyd ddatblygu cam nesaf ein cymorth ymgysylltu uniongyrchol fel cynnig grant aml-flwyddyn newydd. Caiff y gwaith hwn ei wneud ar y cyd â gwaith i ehangu'r rhaglen Mynediad i Swyddi Etholedig a chynyddu amrywiaeth ym maes democratiaeth a gwaith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar ddiffinio, mesur a monitro iechyd democrataidd. Ariennir y gwaith hwn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Polisi Etholiadau a chyllid a roddir i brif gynghorau drwy'r Grant Cynnal Refeniw, sydd hefyd yn cydnabod costau gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**Ehangu ein rhaglen Mynediad i Swyddi Etholedig -** Roedd y gronfa beilot Mynediad i Swyddi Etholedig ar gael i ymgeiswyr ag anableddau cyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 a'r etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.  Mae'n cael ei gwerthuso'n ffurfiol ar hyn o bryd ond yr arwyddion cynnar yw bod y Gronfa yn cael ei gwerthfawrogi a'i chroesawu. Defnyddir yr hyn a

ddysgir o'r gwerthusiad a gwaith ymchwil arall diweddar i ystyried sut y gellid gwella ac ehangu'r gronfa a mathau eraill o gymorth posibl i gwmpasu pobl â nodweddion gwarchodedig eraill. Ariennir y gwaith hwn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth.

**Cyflawni'r Bennod Llywodraeth Leol yn y Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol** - Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i greu Cymru wrth-hiliol. Fel rhan o hyn byddaf yn sicrhau bod y fframwaith deddfwriaethol a llywodraethu ar gyfer llywodraeth leol yn hyrwyddo camau gweithredu a phenderfyniadau gwrth-hiliol. Rwy'n cyflwyno amrywiaeth o newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol er mwyn sicrhau y llywodraethir llywodraeth leol o fewn fframwaith statudol sy'n cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn hyrwyddo gwrth-hiliaeth. Bydd hyn hefyd yn galluogi llywodraeth leol i adolygu ei pholisïau recriwtio ac adnoddau dynol mewnol ei hun, a'i phrosesau cwyno, er mwyn sicrhau eu bod yn wrth-hiliol. Ariennir y gwaith hwn drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth.

**Sicrhau bod gan bob rhanbarth yng Nghymru ddull effeithiol ac atebol yn ddemocrataidd o ddatblygu economïau'r dyfodol** - Darparwyd cyllid grant penodol yn 2021-2022 er mwyn helpu rhanbarthau i roi trefniadau ar waith i sefydlu'r trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer eu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a phontio ar draws drefniadau llywodraethu rhanbarthol a fodolai eisoes fel y bo'n briodol.

Adlewyrchir hyn nawr yn y cyllid craidd a geir drwy'r Setliad Llywodraeth Leol heb ei neilltuo, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod sicrhau cydweithio rhwng awdurdodau lleol a chefnogi hynny yn rhan o fodel gweithredu craidd llywodraeth leol.

**Newid y fframwaith perfformiad ar gyfer llywodraeth leol er mwyn galluogi gwell arloesedd, tryloywder a pherchenogaeth leol -** Mae hyn yn ymwneud â gweithredu'r drefn perfformiad a llywodraethu newydd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cefnogir awdurdodau lleol i gynnal hunanasesiadau ac asesiadau panel drwy Raglen Gwella a Chymorth llywodraeth leol a arweinir gan y sector, a ariennir drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid a Deddfwriaeth. Ariennir unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â rhaglenni cymorth ac ymyrryd statudol sy'n benodol i awdurdodau lleol drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Gwella a Chymorth.

## Gwariant ataliol o fewn y portffolio hwn

Nid yw'r cyllid a ddarperir drwy'r grant cynnal refeniw wedi'i neilltuo; mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut i'w flaenoriaethu. Drwy ddarparu'r swm sylweddol hwn o arian heb ei neilltuo caiff awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i gynllunio, ariannu a darparu eu gwasanaethau yn y ffordd sy'n gweithio orau i'w poblogaethau lleol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill, yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd. Bydd y cyllid hwn yn atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

## Asesiad Effaith Integredig Strategol

Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol (yr Asesiad) yn parhau i amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwario. Dim ond un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft ydyw, gydag effaith penderfyniadau gwario yn cael ei hamlinellu fel rhan o'r prif naratif ym mhennod pedwar, a ategir gan yr Asesiad yn Atodiad A.Yn y Gyllideb Ddrafft eleni, rydym wedi ailflaenoriaethu cyllid o'n cynlluniau presennol er mwyn

aildargedu ein hadnoddau prin at y meysydd lle ceir yr angen mwyaf, er mwyn sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf a'n galluogi i warchod meysydd allweddol. Cydnabyddwn y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y meysydd hynny lle ailflaenoriaethwyd cyllid. Caiff mwy o fanylion am y dewisiadau hyn eu hamlinellu fel rhan o ymatebion y Gweinidogion unigol i bwyllgorau craffu perthnasol y Senedd; bydd hyn yn rhoi darlun manylach o'r modd y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol.

Rydym hefyd yn parhau i amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd i ddiwygio gwelliannau i broses y gyllideb a threthi fel rhan o'n Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Eleni, rydym wedi cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn ystyried sut i gynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol; mae hyn wedi arwain at rai newidiadau o fewn yr Asesiad a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon. Mae rhagor o gamau tymor hwy yn cael eu hystyried drwy barhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori i adolygu ein dull o asesu effeithiau penderfyniadau cyllidebol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb.

Fel rhan o'r gyllideb ddrafft hon, rydym wedi gwneud dyraniadau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y GIG a llywodraeth leol; rydym hefyd wedi gwneud dyraniadau i gefnogi unigolion agored i niwed y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt, drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol, y Grant Datblygu Disgyblion a gwasanaethau digartrefedd.

O fewn fy mhortffolio fy hun, rwyf yn falch o allu rhoi codiad i awdurdodau lleol drwy'r setliad a darparu cymorth ychwanegol drwy ryddhad ardrethi annomestig. Fodd bynnag, bu'n rhaid canfod arbedion mewn meysydd eraill er mwyn gallu targedu gwariant ar draws Llywodraeth Cymru at y meysydd lle mae ei angen fwyaf. Mae hyn wedi golygu lleihad cylchol o £1.7m o fewn fy mhortffolio fy hun. Rwyf wedi nodi'r arbedion hyn yn nhabl 4 uchod.

## Cymorth i'r rhai y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio fwyaf arnynt

Bydd pobl sy'n ei chael hi'n anodd fforddio llety neu fwyd yn troi at wasanaethau lleol am gymorth. Bydd ein cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol drwy'r setliad heb ei neilltuo yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael i gefnogi'r rhai y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt.

## Newid Hinsawdd a Chymru Sero Net

Cynlluniwyd y byddai cyllideb gyfalaf llywodraeth leol yn cynyddu £50m rhwng cyllideb ddrafft 2022-23 a chyllideb ddangosol 2023-24. Caiff £20m o'r cynnydd hwn ei ddefnyddio'n benodol i fynd i'r afael â datgarboneiddio a chefnogi Cymru Sero Net. Mae cyllid refeniw ar gael hefyd o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwella a Chymorth a Llinell Wariant yn y Gyllideb Ystadau Cymru er mwyn helpu â chynlluniau i ddatgarboneiddio ystadau Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

## Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phobl sy'n cyrraedd o Wcráin

Nid oes dyraniadau yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i gefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac ni fu unrhyw drosglwyddiadau penodol i'r Grant Cynnal Refeniw mewn perthynas â'r cymunedau hyn.

O fewn y MEG Addysg a'r Gymraeg, mae £11m o gyllid grant ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer dysgwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, sy'n helpu plant a phobl ifanc o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, i gael addysg a chyfleoedd a darparu canlyniadau cyfartal.

Darperir y grant i awdurdodau lleol yng Nghymru yn seiliedig ar nifer y dysgwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol o fewn yr awdurdod lleol. Caiff y grant ei ddefnyddio'n gyffredinol i gefnogi dysgwyr

o'r cefndiroedd hyn, ond mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio hefyd i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches â Saesneg fel Iaith Ychwanegol neu Gymraeg fel Iaith Ychwanegol o bosibl. Defnyddiwyd y grant hefyd i gefnogi'r rhai sy'n cyrraedd o Wcráin ac Affganistan.

Yn 2022-23, defnyddiwyd Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymorth Ariannol Brys yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i dalu costau ein hymateb brys i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin. Defnyddiwyd y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon i dalu'r costau a oedd yn gysylltiedig â phobl a gyrhaeddodd drwy'r llwybr uwch-noddwr, gan gynnwys cost llety cychwynnol, cymorth cofleidiol, y ganolfan gyswllt a chanolfannau cyrraedd. Roedd tariff cyffredinol am bob unigolyn a gyrhaeddodd a thariff addysg ar gyfer plant rhwng 2 a 17 oed, a gyllidwyd gan Lywodraeth y DU, yn daladwy i awdurdodau lleol drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon hefyd.

O fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, y gyllideb gyfalaf ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn 23-24 yw £3.19m sy'n union yr un peth â'r gyllideb ddangosol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r gyllideb yn cwmpasu gwaith i ddatblygu safleoedd newydd, ehangu safleoedd a phrosiectau adnewyddu ar safleoedd sy'n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru.

Papur 03a - Dadansoddiad Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb

| RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT CYLLID A LLYWODRAETH LEOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Adnoddau** | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2023-24 Cyllideb Ddrafft Ddangosol** | **2023-24 Cyllideb Ddrafft 2023-24** | **Newid** | **% Newid** |
| | **£000s** | **£000s** | **£000s** | **£000s** |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol | 4,169,557 | 4,498,298 | 328,741 | 7.9% |
| Rhydhad Ardrethi'r Ardrethi Annomestig | 27,700 | 143,900 | 116,200 | 4.2% |
| Cyllid Refeniw Cyffredinol yr Heddlu | 112,349 | 112,448 | 99 | 0.1% |
| Canlyniadau Refeniw PFI Llywodraeth Leol | 2,728 | 2,728 | 0 | 0.0% |
| Trawsnewid a Deddfwriaeth | 7,760 | 7,519 | (241) | -3.1% |
| Costau Casglu Ardrethi Annomestig | 5,172 | 5,172 | - | 0.0% |
| Cymorth Ariannol Brys | 1 | 40,492 | 40,491 | 40,491% |
| **Cam Gweithredu: Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol** | **4,325,267** | **4,810,557** | **485,290** | **11.2%** |
| Gwasanaethau Asiantaeth y Swyddfa Brisio | 8,896 | 8,896 | - | 0.0% |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | 1,074 | 1,074 | - | 0.0% |
| Ymchwil a Dadansoddi Trethiant Lleol | 4,300 | 4,300 | - | 0.0% |
| **Cam Gweithredu: Gwasanaethau Prisio** | **14,270** | **14,270** | **-** | **-** |
| **SPA: Local Government Funding** | **4,339,537** | **4,824,827** | **485,290** | **-** |
| Noddi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | 598 | 750 | 152 | 25.4% |
| Gwariant i Hybu Democratiaeth Leol | 126 | 126 | 0 | 0.0% |
| Polisi Etholiadau | 2,500 | 1,500 | (1,000) | -40.0% |
| **Cam Gweithredu: Adeiladu Democratiaeth Leol** | **3,224** | **2,376** | **(848)** | **-26.3%** |

| RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT CYLLID A LLYWODRAETH LEOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Adnoddau** | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2023-24 Cyllideb Ddrafft Ddangosol** | **2023-24 Cyllideb Ddrafft 2023-24** | **Newid** | **% Newid** |
| | **£000s** | **£000s** | **£000s** | **£000s** |
| Gwella a Chymorth | 1,550 | 941 | (609) | -39.3% |
| **Cam Gweithredu: Gwella Llywodraeth Leol** | **1,550** | **941** | **(609)** | **-39.3%** |
| Academi Wales | 1,134 | 1,134 | - | 0.0% |
| **Cam Gweithredu: Academi Wales** | **1,134** | **1,134** | **-** | **0.0%** |
| Cynghorau Cymuned a Thref | 144 | 144 | - | **0.0%** |
| Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | 530 | 530 | | **0.0%** |
| **Cam Gweithredu: Cefnogi Cydweithredu a Diwygio** | **674** | **674** | | **0.0%** |
| **SPA: Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Diwygio** | **6,582** | **5,125** | **(1,457)** | **-22.1%** |
| **RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT CYLLID A LLYWODRAETH LEOL** | **4,346,119** | **4,829,952** | **483,833** | **11.1%** |

| RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT CYLLID A LLYWODRAETH LEOL | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Cyfalaf** | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2023-24 indicative Draft Budget** | **2023-24 Draft Budget 2023-24** | **Change** | **% Change** |
| | **£000s** | **£000s** | **£000s** | **£000s** |
| Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol | 200,000 | 200,000 | - | 0.0% |
| Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | 22,000 | 22,000 | - | 0.0% |
| **Cam Gweithredu:**<br>**Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol** | **222,000** | **222,000** | - | 0.0% |
| **SPA: Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Llywodraeth Leol** | **222,000** | **222,000** | - | 0.0% |
| **RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT CYLLID A LLYWODRAETH LEOL** | **222,000** | **222,000** | - | 0.0% |

## Papur 04 - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 12 Ionawr 2023 – tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi

### a) Cyflwyniad

Mae’r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gynigion cyllideb yr Economi fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2022. Mae hefyd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i’r Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn craffu ar y gweithgarwch Celfyddydau a Chwaraeon ar 18 Ionawr 2023.

#### 1.1 Tryloywder cyflwyniad y gyllideb

1.1.1 Mae’r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau dangosol ar gyfer MEG yr Economi a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2023-24

| MEG yr Economi – Crynodeb | Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth 2022 £000oedd | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022 £000oedd | Newidiadau 2023-24 £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhagfyr 2022 £000oedd | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2022 £000oedd | Newidiadau 2024-25 £000oedd | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Rhagfyr 2022 £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | 402,421 | 416,582 | 30,901 | 447,483 | 432,688 | 30,860 | 463,548 |
| Cyfalaf | 82,792 | 106,187 | 0 | 106,187 | 81,608 | 0 | 81,608 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Cyfalaf** | **485,213** | **522,769** | **30,901** | **553,670** | **514,296** | **30,860** | **545,156** |
| AME Adnoddau | 45,525 | 45,525 | 13,000 | 58,525 | 45,525 | 13,000 | 58,525 |
| AME Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm AME** | **45,525** | **45,525** | **13,000** | **58,525** | **45,525** | **13,000** | **58,525** |
| **Cyfanswm – MEG yr Economi** | **530,738** | **568,294** | **43,901** | **612,195** | **559,821** | **43,860** | **603,681** |

#### 1.2 Adnoddau

1.2.1 Yn achos adnoddau, mae llinell sylfaen 2022-23 ar gyfer Cyllideb ddrafft 2023-24 yn adlewyrchu’r Gyllideb Derfynol.

1.2.2 Mae’r gyllideb Adnoddau ar gyfer MEG yr Economi wedi cynyddu £30.901m yn 2023-24 wrth gymharu â llinell sylfaen cyllideb derfynol ddangosol 2023-24, gyda £30.860m o gynnydd pellach yn 2024-25.

1.2.3 Mae’r tablau isod yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol:

| Yr Economi: Dyraniadau'r Gyllideb Adnoddau | Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|
| Prentisiaethau | Prentisiaethau | 18,000 | 18,000 |
| ***Codiad chwyddiant yng nghyswllt costau byw – cyflogau a chyfleustodau mewn Cyrff Hyd Braich:*** | | | |

| Yr Economi: Dyraniadau'r Gyllideb Adnoddau | Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) | 2023-24 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 677 | 828 |
| Amgueddfa Cymru | Amgueddfa Cymru | 1,574 | 1,878 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru | 133 | 202 |
| Y Comisiwn Brenhinol | Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 60 | 92 |
| Chwaraeon Cymru | Chwaraeon Cymru | 242 | 360 |
| Staff a ariennir gan grantiau mewn Cyrff Hyd Braich | Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | 43 | 47 |
| Cadw | Cadw | 540 | 720 |
| Gyrfa Cymru | Cyflogadwyedd – Gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc | 1,231 | 1,873 |
| ***Pwysau chwyddiant yng nghyswllt costau byw – treftadaeth, diwylliant a chwaraeon lleol:*** | | | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru | 500 | |
| Chwaraeon Cymru | Chwaraeon Cymru | 500 | |
| Diwylliant Lleol | Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | 250 | |
| Cadw a threftadaeth leol | Cadw | 250 | |
| **Cyfanswm y Dyraniadau Refeniw o’r Cronfeydd Wrth Gefn** | | **24,000** | **24,000** |
| Cymunedau am Waith – nad yw'n arian parod | Cymunedau am Waith | 5 | -36 |
| **Cyfanswm y dyraniadau nad ydynt yn arian parod o'r/i’r Cronfeydd Wrth Gefn** | | **5** | **-36** |
| Llai: Cyfraniad MEG yr Economi at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru (Mae gwybodaeth am feysydd lle mae cyllid wedi cael ei ailflaenoriaethu, sy’n berthnasol i’r Pwyllgor hwn, ar gael yn Atodiadau A a B) | Amrywiol | -7,166 | -7,166 |
| **Cyfanswm y Refeniw Net o’r Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer yr MEG** | | **16,839** | **16,798** |
| Trosglwyddo i MEG yr Economi o'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol (Grant y Comisiynydd Plant) | Cymunedau am Waith | 14,062 | 14,062 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i'r MEG** | | **30,901** | **30,860** |

1.2.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu i ryddhau cyllid o bortffolios i’w ailddyrannu ar draws y Llywodraeth. Yr egwyddorion a oedd wrth wraidd yr ymarfer ailflaenoriaethu yma oedd darparu cyllideb gytbwys, diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a diogelu’r Rhaglen Lywodraethu.

1.2.5 O ganlyniad i'r ymarfer hwn, mae cynlluniau'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu dychwelyd £7.166m i'r cronfeydd canolog o MEG yr Economi yn 2023-24, gyda'r gostyngiadau wedi'u cynnwys yn llinell sylfaen 2024-25. Mae'r newidiadau hyn i linellau cyllideb sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn yn cael eu crynhoi yn Atodiad A ac Atodiad B.

1.2.6 Mae cyfanswm y dyraniad refeniw o £27m ar gyfer diwylliant dros dair blynedd o'r Cytundeb Cydweithredu wedi cael ei gynnal, yn ogystal ag £8m ar gyfer Arfor, £4m yn 2023-24 a £4m yn 2024-25, sy'n dilyn y gyllideb o £3m yn 2022-23.

### *1.3* Cyfalaf

1.3.1 Mae cyllideb cyfalaf yr Economi yn £106.2m ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, ac yn £81.6m ar gyfer 2024-25. Ni fu unrhyw newidiadau i'r dyraniadau fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24.

### 1.4 Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

1.4.1 Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £58.525m yn talu am gostau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, fel amhariadau yn y portffolio eiddo, amrywiadau ym mhrisiadau pensiynau ar gyfer Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Gyrfa Cymru. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i cyllidir yn llawn. Mae ffigurau Cyllideb ddrafft Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn adlewyrchu'r rhagolygon a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Awst 2022.

### 1.5 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)

1.5.1 Mae **Atodiad A** yn cynnwys dadansoddiad o'r newidiadau i MEG yr Economi yn ôl maes gwariant, Cam Gweithredu a BEL ar gyfer 2023-24 a blynyddoedd i ddod. Mae sylwadau i egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu yn yr MEG hefyd ar gael yn **Atodiad B.** Mae esboniad naratif tryloyw wedi cael ei ddarparu i egluro cynnydd a gostyngiad, pan nad yw hynny'n cael sylw yn y papur tystiolaeth. Dim ond i'r cyllidebau sydd wedi'u gwarannu fel rhan o'r pwyllgor hwn y mae hyn yn berthnasol.

### 1.6 Monitro cyllidebau

1.6.1 Bydd pob cyllideb yn dal i gael ei monitro a'i herio'n fisol yn ystod 2022-23, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau cyllideb yn ôl yr angen. Rwyf yn cael y newyddion ariannol diweddaraf yn rheolaidd ynghylch y rhagolygon ar gyfer yr MEG i sicrhau bod cyllidebau'n aros ar y trywydd iawn i gyflawni fy mlaenoriaethau. Rydym yn parhau i fonitro'n agos iawn i sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae mwyaf ei angen, gan gefnogi ein blaenoriaethau – yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

1.6.2 Mae elfennau sylweddol o weithgarwch a wneir o dan MEG yr Economi yn dibynnu ar ffactorau allanol, sy'n amrywio o facro-economeg i'r galw a hyd yn oed y tywydd. Mae'n rhaid i'n gwasanaethau fel Busnes Cymru addasu i newidiadau yn yr economi, ac mae oedi gyda gwaith adeiladu, newid yng nghynllun busnes y buddiolwyr neu, yn wir, tywydd garw yn gallu effeithio ar gynlluniau fel Cronfa Dyfodol yr Economi, yn enwedig yng nghyd-destun cynllunio cyllideb flynyddol. Mae hyn yn golygu bod gwaith lliniaru a chynllunio effeithiol yn hanfodol, ochr yn ochr â phortffolio cytbwys o brosiectau seilwaith mawr a bach. Wrth gwrs, mae hyn yn golygu y gall ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth

Cymru effeithio ar wariant, ond mae fy swyddogion yn monitro cynlluniau'n agos i gytuno ar opsiynau a chynigion ar gyfer camau unioni er mwyn ceisio rheoli gwariant net ar lefelau'r gyllideb.

### 1.7 Sylfaen y Dystiolaeth / Gwerthusiad ac adolygiadau

1.7.1 Mae tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau yn sail i'n penderfyniadau ariannol, fel ymchwil a gyhoeddwyd, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, ystadegau a gwerthusiadau polisi blaenorol. Mae hyn yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau, gydag enghreifftiau i ddilyn.

1.7.2 **Cyflogadwyedd –** Mae ***TSC+Mwy***, y rhaglen newydd ar gyfer cyflogadwyedd ieuenctid, yn cynnwys elfennau gorau Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru ac yn darparu pecyn cymorth cyfannol sydd wedi'i deilwra i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o hynny. Mae'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn iddyn nhw. Cafodd argymhellion gwerthusiad o Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru eu hystyried wrth ddylunio rhaglen newydd TSC+Mwy, gan arwain at well system atgyfeirio yn ogystal â llwybrau cynnydd symlach drwy'r rhaglen.

1.7.3 Yn ôl adborth drafft cychwynnol Estyn, mae TSC+Mwy yn gweddu'n well i bobl ifanc hyd yma na rhaglenni blaenorol. Mae'r rhaglen yn wynebu heriau gwahanol i'r gorffennol, ac yn dda i'r rheini sy'n wynebu rhwystrau cymhleth. Mae'r broses atgyfeirio'n gryfach o lawer nag yn y gorffennol, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn safon y Cynlluniau Dysgu Unigol sy'n fwy cynhwysfawr ac yn cynnwys gwybodaeth fanylach a dyheadau clir.

1.7.4 Mae ***ReAct+***, y Rhaglen Cyflogadwyedd newydd i oedolion, wedi adeiladu ar y brand, y cysyniad a'r llwyddiannau blaenorol i gyfuno ReAct (gweithwyr ledled Cymru sydd wedi colli eu swydd) a Mynediad (pobl ddi-waith) i gynnig y ddarpariaeth cyflogadwyedd gyflawn yma i oedolion di-waith yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth wedi'i bersonoli i'r rheini sy'n ceisio ymuno â'r farchnad lafur, drwy gael gwared ar y rhwystrau a darparu cymorth grant fel hyfforddiant galwedigaethol, gofal plant, costau teithio a chymorthdaliadau cyflog. Prif nod y rhaglen yw galluogi pobl i symud ymlaen i swydd hirdymor.

1.7.5 Mae'r rhaglen newydd yn defnyddio fformat sydd eisoes wedi bod yn llwyddiannus, ac yn cynnig rhaglen gymorth i gyflawni nodau Symud Cymru Ymlaen a'r Cynllun Cyflogadwyedd. Mae datblygiad, gwerthusiadau ac archwiliadau ReAct dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi helpu'r rhaglen i fynd ati'n effeithlon ac yn effeithiol i helpu pobl i gael swydd.

1.7.6 Cynhaliwyd adolygiad annibynnol canol tymor o ***raglenni cymorth SMART***, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020. Mae'r adolygiad terfynol o weithrediadau Cyfres SMART newydd gael ei ddyfarnu, a bydd yn dechrau ym mis Rhagfyr 2022. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod cynnydd a pherfformiad SMART Cymru yn ffafriol yn erbyn y targedau dangosyddion. Er gwaethaf yr heriau, disgwylir

y bydd wedi cyrraedd neu ragori ar yr holl dargedau dangosyddion erbyn diwedd y rhaglen lawn. Roedd y rhan fwyaf o fuddiolwyr SMART Cymru a gyfwelwyd yn teimlo'n gadarnhaol am fanteision y cymorth roeddent wedi'i gael gan SMART Cymru (85%). Roedd buddiolwyr yn fodlon iawn â gwerth y cyllid a dderbyniwyd (90%), y gyfradd ymyrraeth berthnasol (66%) a hyblygrwydd y cymorth ar ffurf cyllid (90%).

### 1.8 Effaith Costau byw ar raglenni a dyraniadau cyllideb

1.8.1 Mae effaith y cynnydd mewn costau byw, a methiant addewidion Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid llawn yn lle cyllid yr UE, wedi creu heriau sylweddol i raglenni yn fy mhortffolio i. Fel Llywodraeth Cymru, byddwn yn parhau i weithio i flaenoriaethu ein cyllidebau i warchod y bobl fwyaf agored i niwed ac i gynnal ein hymrwymiad i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach wrth i ni baratoi ein Cyllideb ddrafft ar gyfer 2023- 24.

1.8.2 Rwy’n cydnabod effaith pwysau costau byw ar ein Cyrff Hyd Braich a’r sectorau diwylliant, treftadaeth a chwaraeon lleol, ac rwy’n falch o gyhoeddi y bydd £12m ychwanegol yn cael ei ddarparu yn 23/24 a 24/25 (£6m y flwyddyn) i helpu gyda phwysau costau byw yn y meysydd mwyaf allweddol. Fodd bynnag, rwy’n gwerthfawrogi nad yw hyn yn ddigon i ddelio â'r pryderon, a bydd pethau’n dal yn anodd i lawer o sefydliadau.

1.8.1 Bydd y cynnydd hwn yn galluogi pob un o’r pum corff Hyd Braich yn y sectorau Diwylliant a Chwaraeon (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a Gyrfa Cymru i roi dyfarniad cyflog cyfunedig i’w staff sy’n debyg i’r hyn a wneir gan Lywodraeth Cymru, ac i gyflawni ymrwymiadau cydraddoldeb cyflog ar gyfer y staff ar y cyflogau isaf. Rydym yn trin Cadw (sydd o fewn Llywodraeth Cymru, ond gyda’r holl gostau staff yn cael eu priodoli i MEG yr Economi oherwydd natur uniongyrchol y gwaith) yn gyson â’n cyrff hyd braich, gan fod gan Cadw fwrdd asiantaeth mewnol ei hun gydag aelodau anweithredol. Mae’n cwrdd bob chwarter, a rhan o’i rôl yw craffu ar berfformiad Cadw yn erbyn y cynllun busnes a’r adroddiadau ariannol.

1.8.2 Bydd y cyllid hwn hefyd yn mynd i’r afael â phwysau eraill sy’n gysylltiedig â chwyddiant yn y sectorau diwylliant a chwaraeon, yn enwedig costau cyfleustodau eithriadol Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Cadw. Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddarparu i gynorthwyo cyrff annibynnol lleol a chyrff yn y trydydd sector sy’n ymwneud â’r celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd cymunedol, treftadaeth a chwaraeon sydd â chostau ychwanegol oherwydd chwyddiant.

1.8.3 Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Genhadaeth Economaidd drawslywodraethol y llynedd, roedd yn amlwg nad oedd dychwelyd i sefyllfa “busnes fel arfer” yn opsiwn. Roedd yr ymateb i bandemig Covid wedi cyflymu llawer o dueddiadau yng nghyswllt datgarboneiddio, digideiddio ac effaith poblogaeth sy’n heneiddio.

1.8.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo busnesau gyda’r newid hwn. Mae ein gwasanaeth cynghori a ddarperir gan Busnes Cymru yn ymdrin â phob agwedd – o ynni a gwastraff i fesurau arbed dŵr.

1.8.5 Mae mynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd, fel rhan o broses pontio teg i sefyllfa Sero Net, hefyd yn uchelgais gyffredinol i’n Strategaeth Buddsoddi mewn Seilwaith, sy'n strategaeth newydd sydd werth £8.1bn. Yn benodol, byddwn yn gwneud mathau mwy

gwyrdd o drafnidiaeth yn bosibl i fwy o bobl, gan roi mwy o ddewisiadau teithio i bob un ohonom, yn ogystal â gosod y sylfeini i fuddsoddi mwy mewn prosiectau ynni adnewyddadwy.

1.8.6 Mewn cyd-destun ariannol anodd, gan gynnwys y diffyg o £1.1bn i Gymru ar ôl gadael yr UE o ganlyniad i golli cyllid strwythurol a gwledig, mae fy Nghynllun newydd ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau yn cynnig darpariaeth gadarn ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau, sy’n rhan hanfodol o’n gwaith ar y cyd i wneud Cymru yn lle deniadol i ragor o bobl a busnesau.

1.8.7 Mae’r Cynllun newydd ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau wedi cael ei lansio i roi hwb i’n

Cenhadaeth Economaidd i helpu mwy o bobl yng Nghymru i wella eu sgiliau, i gael mynediad at waith ac i ffynnu mewn gwaith – er mwyn cael economi fwy cyfartal sy'n gweithio i bawb. Rydym ni eisiau helpu pawb – yn enwedig y rheini sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur – i ymdopi â'r heriau cysylltiedig â gwaith y byddan nhw'n eu hwynebu drwy gydol eu bywyd ac i ymateb i'r heriau, boed hynny drwy hyfforddi, ailhyfforddi, uwchsgilio, newid gyrfa neu ddechrau busnes. Bydd manteisio i'r eithaf ar ein talentau yng Nghymru, sbarduno amrywiaeth yn y gweithlu, a siapio economi sy'n gweithio i bawb yn ein helpu i sicrhau bod gan fusnesau Cymru y sgiliau sydd eu hangen arnynt. Bydd hefyd yn rhoi'r hyder i fwy o bobl ystyried cychwyn busnes eu hunain.

1.8.8 Dywed Resolution Foundation fod cyflogau wedi bod yn dirywio ers 19 mlynedd – mae'r rhagolygon gwan ar gyfer cyflogau a chwyddiant uchel yn golygu na fydd cyflogau'n dychwelyd i lefel 2008 tan 2027. Pe bai cyflogau wedi cynyddu ar yr un gyfradd ag oeddent cyn yr argyfwng ariannol mawr yn 2008, byddent £15,000 y flwyddyn yn uwch erbyn hyn. Er bod ein rhanddeiliaid eisiau i ni fynd ymhellach, bydd hyd yn oed byw o fewn ein modd yn anodd dros ben.

1.8.9 Rydym wedi ymdopi â chynnydd mewn costau darpariaeth o fewn ein dyraniadau presennol yn y BEL Cyflogadwyedd, gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer y Warant i Bobl Ifanc, a ddyrannwyd yn yr adolygiad o wariant tair blynedd (2022-2025), a gwneud yn fawr o Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy ein gweithrediadau hyd at hydref 2023.

### 1.9 <u>Goblygiadau hirdymor y pandemig</u>

1.9.1 Mae cyfyngiadau ar ôl Covid a'r tarfu parhaus yn sgil cyfnodau clo dirybudd wedi cyfyngu ar deithio i rai marchnadoedd allweddol, er enghraifft Tsieina, ac roedd nifer o wledydd wedi codi'r cyfyngiadau'n arafach, er enghraifft Japan, gan gyfyngu ar gyfleoedd i allforwyr. Ar ben hynny, mae cyfyngiadau teithio ar unigolion sydd heb gael eu brechu'n llawn hefyd wedi effeithio ar gyfleoedd allforio, drwy gyfyngu ar gyfleoedd i gwrdd wyneb yn wyneb ac i feithrin perthynas.

1.9.2 Er nad yw'r lefelau diweithdra ymysg pobl ifanc ar y raddfa yr oeddem yn ei rhag-weld oherwydd y pandemig, mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn peri pryder. Mae'r amcangyfrifon dros dro diweddaraf yn awgrymu bod cyfran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi cynyddu i 13.6% yn 2021 – y lefel uchaf erioed – a sbardunwyd yn bennaf gan gynnydd yn y gyfradd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr), er bod diweithdra wedi cynyddu rhywfaint hefyd. Ar gyfer pobl ifanc 19 i 24 oed, mae'r amcangyfrifon terfynol ar gyfer 2020 yn dangos bod y gyfran nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng ychydig i 15.8%, gan gynyddu i 16.3% yn 2021 yn ôl yr amcangyfrifon.[12]

1.9.3 Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod pobl ifanc yn wynebu problemau ychwanegol wrth geisio ymuno'n hwylus â'r farchnad lafur. Yn ôl Prince's Trust, mae dros 60% o bobl ifanc 16-25 oed wedi dweud bod dyfodol eu cenhedlaeth yn eu dychryn – gydag un o bob tri yn poeni na fydd eu rhagolygon gwaith byth yn gwella ar ôl y pandemig a'r argyfwng costau byw. Yn sgil mini-gyllideb drychinebus Llywodraeth y DU, ochr yn ochr â rhagolygon economaidd mwy digalon byth gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Banc Lloegr – a darpariaeth Llywodraeth y DU ar gyfer yr hyn a fydd yn cymryd lle cronfeydd UE sy'n cael ei thanariannu'n sylweddol ac yn rhwystro'r trydydd sector rhag cael mynediad uniongyrchol at y cyllid – rwy'n poeni mwy nag erioed am ragolygon gwaith ein pobl ifanc. Nod ein rhaglenni Gwarant i Bobl Ifanc yw denu pobl ifanc yn ôl i fyd addysg,

hyfforddiant ac, yn y pen draw, i fyd gwaith gyda Cymru'n Gweithio yn llwybr at ein darpariaeth cyflogadwyedd ehangach mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru.

1.9.4 Mae creithiau'r pandemig yn dechrau cael effaith. Mae ein pwyslais parhaus ar bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r bygythiad o bobl yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar flynyddoedd yn ddiweddarach.

### 1.10 Goblygiadau yng nghyswllt yr UE

1.10.1 Mae'r ffordd mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â chyllid ar ôl gadael yr UE drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin nid yn unig yn ymyriad bwriadol ac annerbyniol mewn maes polisi datganoledig, mae hefyd yn golygu bod Cymru ar ei cholled o ran swyddi a thwf. Gyda dim ond pedwar mis ar ôl yn y flwyddyn ariannol bresennol, dim ond nawr (5 Rhagfyr) y mae Llywodraeth y DU wedi cytuno ar gynlluniau buddsoddi'r Gronfa a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol Cymru yn ystod yr haf ar gyfer prosiectau a ddylai fod wedi dechrau eisoes.

1.10.2 Mae rhaglenni cyllid presennol a newydd yr UE yn gorgyffwrdd dros ddwy flynedd, ac roedd Llywodraeth Cymru yn barod bron ddwy flynedd yn ôl ym mis Ionawr 2021 i ddechrau ar raglen fuddsoddi ar ôl gadael yr UE. Erbyn hynny, roeddem eisoes wedi gweithio'n helaeth gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a chyda'n partneriaid yng Nghymru i greu'r model cryfaf posibl ar gyfer Cymru.

1.10.3 Yn hytrach na hynny, mae llywodraeth leol o dan bwysau enfawr i ddatblygu prosiectau ac i roi gweithdrefnau gweinyddol a llywodraethu ar waith o fewn amserlenni anymarferol. Mae effaith yr oedi hir sy'n cael ei greu gan Lywodraeth y DU yn ychwanegol at y diffyg o £1.1 biliwn wrth gymharu â chronfeydd strwythurol a gwledig yr UE, yn ychwanegol at anwybyddu Llywodraeth a Senedd Cymru ar fater sy'n amlwg wedi'i ddatganoli, ac yn ychwanegol at rwystro prifysgolion, colegau, y trydydd sector a busnesau rhag cael gafael ar gyllid yn uniongyrchol. Mae'r ffordd mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi bod yn anhrefn llwyr.

1.10.4 Mae safbwynt Llywodraeth y DU ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac ar raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) hefyd wedi llesteirio'n ddifrifol ein

---

[1] https://www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebrill-2021-i-fehefin-2022

[2] Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur: 2020 a 2021 (dros dro) | LLYW.CYMRU

huchelgais i weithio mwy ar lefel ryngwladol ac ar draws y DU, gan beryglu rhwydweithiau a chyfleoedd economaidd pwysig. Mae'r ansicrwydd ynghylch cysylltiad â Horizon Ewrop yn gwaethygu hynny. Rydym yn bwrw ymlaen â chamau gweithredu drwy ddull gweithredu newydd Cymru Ystwyth, ond ni allwn ddyrannu cyllideb ychwanegol ar hyn o bryd.

### 1.11 Diwedd ar gronfeydd strwythurol yr UE

1.11.1 Mae fy mhortffolio yn arwain ar saith prosiect sy'n cael cymorth gan raglenni Cronfa Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020, gan gynnwys ReAct, Prentisiaethau a

Hyfforddeiaethau (TSC+Mwy), ac ar hyn o bryd mae tua £315m o gyllid yr UE wedi'i gymeradwyo hyd at 2023. Disgwylir y bydd y prosiectau hyn, yn 2023-24, yn cynhyrchu dros £63m o gyllid yr UE i helpu i gyflwyno'r rhaglenni hyn, gan ategu nifer o flaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu gan gynnwys Prentisiaethau i bobl o bob oed a'r Warant i Bobl Ifanc.

1.11.2 Yn 2024-25, mae cyllid ychwanegol ar gyfer y Warant i Bobl Ifanc yn cynnwys cyllid i wrthbwyso'r diffyg o ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn lle cyllid yr UE, a bydd yn galluogi rhaglenni i barhau i ddiwallu'r galw hyd at fis Mawrth 2025. Yn 2025-26 bydd effaith sylweddol ar gyllidebau cyflogadwyedd a sgiliau oherwydd y diffyg hwn o ran y cyllid a ddarperir yn lle cyllid yr UE ac wrth i gyllid ychwanegol y Warant i Bobl Ifanc ddod i ben, gyda buddsoddiad mewn gweithgareddau cyflogadwyedd yn gostwng o oddeutu £80m yn 2022-23 i lefel ddisgwyliedig o tua £34m erbyn 2025-26.

1.11.3 Rydym hefyd yn arwain ar raglenni Cymunedau am Waith a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth a ariennir gan yr UE, gydag oddeutu £80m o gyllid yr UE wedi cael ei gymeradwyo hyd at 2023. Daw darpariaeth y ddwy raglen hyn i ben ar 31 Mawrth 2023. Bydd cyllid ychwanegol gan y Warant i Bobl Ifanc yn parhau i gefnogi'r rhaglen.

1.11.4 Yn y gorffennol, mae gweithgarwch arloesi a chymorth i fusnesau wedi cael ei ariannu gan arian Ewropeaidd, felly mae'r ffaith bod y cyllid strwythurol yn dod i ben wedi cael effaith ar allu Busnes a Rhanbarthau i ddarparu lefel debyg i'r hyn oedd yn arfer cael ei gyflawni.

1.11.5 Er bod cyllid wedi cael ei sicrhau i ddarparu gwasanaeth Busnes Cymru tan fis Mawrth 2025, mae'r gwerth wedi gostwng mewn termau real o ran yr hyn oedd gan y gwasanaeth yn y gorffennol i gyflawni ei waith, gyda'r angen ychwanegol hefyd i dalu am staff a ariennir gan raglenni gan y byddent wedi cael eu hariannu drwy'r cronfeydd strwythurol yn y gorffennol.

1.11.6 Ni fydd modd gwneud unrhyw beth sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth graidd. O ganlyniad i hynny, bydd yn rhaid i unrhyw flaenoriaethau newydd neu ddarpariaeth gwasanaeth newydd gael cyllideb ac adnoddau penodol, neu bydd yn rhaid dod â rhywfaint o'r ddarpariaeth bresennol i ben.

1.11.7 Gwelwyd effaith bellach ar gymorth ar gyfer arloesi, ond mae cyfle o hyd i ddenu neu i sicrhau bod cyllid Llywodraeth y DU yn cael ei gyfeirio tuag at Gymru. Mae hyn hefyd yn wir am y cyfleoedd sy'n codi gyda chyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU i Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd gan Lywodraeth Cymru lais yn y broses, ond bydd swyddogion yn parhau i gysylltu a gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau cysondeb ac i ychwanegu gwerth at gymorth ar lefel Llywodraeth Cymru.

### 1.12 <u>Gweithredu deddfwriaeth</u>

1.12.1 Nid oes deddfwriaeth gyfredol sy'n galw am ddarpariaeth yng nghynlluniau'r gyllideb ddrafft.

1.12.2 Mae gwaith yn mynd rhagddo ar drwyddedau statudol ar gyfer pob llety i ymwelwyr yng Nghymru, gyda'r bwriad o ddechrau ymgynghoriad ar 16 Rhagfyr. Mae nifer o sesiynau ymgysylltu wedi cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru a thu hwnt er mwyn cyfrannu at yr ymgynghoriad. Mae'r adborth ar gyflwyno cynllun trwyddedu wedi bod yn gefnogol hyd yma, yn enwedig mewn perthynas â sicrhau tegwch, gwell gwybodaeth, a mwy o hyder ymysg defnyddwyr. Ar 15 Tachwedd gwneuthum ddatganiad llafar yn y Senedd am y cynllun trwyddedu statudol ar gyfer pob llety i ymwelwyr yng

Nghymru. Bydd y gweithgarwch yn cael ei gyflawni o fewn y gyllideb sydd wedi'i dyrannu ar gyfer twristiaeth.

## 1.13 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Gwariant ataliol

1.13.1 Yn ystod proses Cyllideb 2022-23 a'r Adolygiad o Wariant Cymru hyd at 2025, aethpwyd ati ar y cyd i gysoni cyllid â'r broses o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, ar sail amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Mae proses y Gyllideb Ddrafft eleni yn cynnwys dewisiadau allweddol, ac yn ceisio cydbwyso canlyniadau tymor byr a thymor hir. Mae angen cydbwyso pwysau acíwt tymor byr sy'n gysylltiedig â chostau byw, Wcráin a phwysau chwyddiant ehangach yn erbyn cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor hwy.

1.13.2 Drwy ein Grŵp Cynghori diwygiedig ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG), rydym yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol ar wella prosesau trethi a'r gyllideb sy'n gysylltiedig â chyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb.

1.13.3 Rydym hefyd yn parhau i gydweithio ag arbenigwyr rhyngwladol a gwledydd eraill i ddefnyddio arferion gorau mewn elfennau i wella proses y gyllideb yn ehangach.

1.13.4 Mae diweddariad ar gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar 13 Rhagfyr 2022.

1.13.5 Roedd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Cynllun Cyflogadwyedd yn seiliedig ar y dystiolaeth mai gwaith sy'n talu'n dda yw'r llwybr gorau allan o dlodi, a'r warchodaeth orau rhag tlodi i'r rheini sydd mewn perygl. Drwy gefnogi swyddi a thwf cynaliadwy ar gyfer y tymor hir a chymryd camau i geisio lliniaru rhai o'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio cael swydd, ein nod yw lleihau'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd yn profi tlodi, ac osgoi'r costau tymor hir y mae tlodi'n eu hachosi i gymdeithas. Rydym yn parhau i greu cyfleoedd i unigolion a theuluoedd gyda mentrau a buddsoddiadau wedi'u targedu ledled Cymru. Mae cael swydd gyflogedig sy'n rhoi boddhad yn ffactor allweddol er mwyn cynnal llesiant corfforol a meddyliol. Mae'r rhaglenni sy'n ategu'r cynlluniau'n cefnogi'r nod 'Cymru sy'n fwy cyfartal' drwy gynnwys y thema cynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith o gynllunio a darparu rhaglenni, a sicrhau bod grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn gallu gofyn am gymorth gan y rhaglen a hyrwyddo statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg.

1.13.6 Ym mis Ionawr 2022, lansiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru adolygiad o dan adran 20 o'r Ddeddf: Adolygiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o sut mae peirianwaith Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â datblygu cynaliadwy ac yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion Mae'r Comisiynydd yn ystyried sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei phrosesau, ei diwylliant gwaith a'i harweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar dri cham yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â phrentisiaethau fel y brif astudiaeth achos. Disgwylir y bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi'r canfyddiadau tua diwedd 2022.

## 1.14 Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd, y Gymraeg ac Ystyriaethau Demograffig

1.14.1 Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, rydym wedi mabwysiadu dull integredig o asesu effaith, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n dal yn sbardun pwysig sy'n llywio ein hystyriaethau ynghylch y

Gyllideb.

1.14.2 Mae ein Cyllideb yn amlinellu effeithiau ein penderfyniadau gwario, gan gynnwys tynnu sylw at benderfyniadau gwario sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein rhanddeiliaid. Mae hyn yn cael ei ategu gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA), sy'n amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwario.

## 1.15 Effaith ar Amddifadedd a Thlodi

1.15.1 Mae perthynas amlwg rhwng twf economaidd, swyddi a mynd i'r afael â thlodi. Mae cyflogaeth ddiogel a chynaliadwy sy'n talu'n dda yn rhoi llwybr allan o dlodi a gwarchodaeth rhag tlodi, nid yn unig i'r unigolyn, ond i'w ddibynyddion ac i'r gymuned drwyddi draw. Nod rhaglenni cyflogadwyedd yw helpu pobl i gael swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel.

1.15.2 Mae cynllun y gyllideb ddrafft yn cynnwys cyllideb adnoddau net o £248.266m yn 2023-24 a £263.267m yn 2024-25 i gefnogi ein buddsoddiad yn ein rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau. Mae Twf Swyddi Cymru + Mwy yn rhoi cymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr help sydd ei angen arnynt i ddod o hyd i swydd neu hyfforddiant. Mae TSC+Mwy yn gwasanaethu rhai o'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynnig darpariaeth i'r bobl ifanc hynny sydd â nodweddion gwarchodedig. Prif ffocws Rhaglen TSC+Mwy yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a gwella eu cyfleoedd mewn bywyd. Rydym yn benderfynol na ddylai unrhyw berson ifanc gael ei adael ar ôl, ac oherwydd y problemau y mae contractwyr yn eu hwynebu mae angen bod yn hyblyg gyda chyllid er mwyn iddynt allu darparu'r gwasanaethau i BOB person ifanc cymwys.

1.15.3 Y gyllideb adnoddau net, sef £23.075m yn 2023-24 a £18.034m yn 2024-25 ar gyfer Cymunedau am Waith a Mwy, yw prif ddull Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ar gyfer cyflogadwyedd i bobl o bob oed sydd fwyaf o dan anfantais yn y farchnad lafur, gan gynnwys pobl ifanc, gweithwyr hŷn, menywod, unigolion anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd tymor hir, unigolion Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, pobl sydd â chyfrifoldebau gofal a'r rheini sydd â lefel sgiliau isel.

1.15.4 Gyda'i gilydd, rydym wedi ymrwymo £12m i'n chwe chorff cyhoeddus a'n sectorau chwaraeon, treftadaeth a diwylliant annibynnol lleol i helpu i fynd i'r afael â phwysau costau byw. Bydd y codiad cyflog i staff ein Cyrff Hyd Braich (£3.77m yn 23/24 a £5.6m yn 24/25), gan gynnwys llawer o'r rheini sydd ar y cyflogau isaf, drwy ein hymrwymiadau i gydraddoldeb cyflog ar draws y sector cyhoeddus yn cefnogi ein hymrwymiadau i leihau tlodi, yn ogystal â'r £1.13m i helpu gyda chwyddiant yng nghyswllt cyfleustodau. Rydym hefyd wedi ymrwymo dros £1.5m i helpu i liniaru pwysau costau byw yn ein sectorau chwaraeon, treftadaeth a diwylliant annibynnol lleol, ac fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu, rydym wedi cytuno i ddyblu ein buddsoddiad yn y rhaglen Cyfuno erbyn 24/25, sef ein rhaglen i helpu i fynd i'r afael â thlodi drwy fynediad at ddiwylliant, cymryd rhan mewn diwylliant a bod yn rhan o ddiwylliant.

## 1.16 Newidiadau i'r demograffeg – Poblogaeth sy'n heneiddio

1.16.1 Roedd ffigurau poblogaeth y cyfrifiad a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2022 yn amcangyfrif bod mwy o bobl 65 oed neu hŷn yn byw yng Nghymru (662,000) na phlant 0 i 15 oed (548,000) erbyn hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn effro i newidiadau demograffig yng Nghymru, fel yr amlinellir yn ein "Cenhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu'r economi" a

lansiwyd yn gynharach eleni. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio i ddeall yn well yr heriau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn yn nemograffeg ein poblogaethau, ac i ystyried sut mae lliniaru ac addasu ein mesurau er mwyn i ni allu darparu ymateb cyllidebol addas.

1.16.2 Amcangyfrifir bod pobl 65 oed a hŷn yn cynrychioli mwy nag un o bob pump (21.3%) o gyfanswm poblogaeth Cymru yng nghyfrifiad 2021. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ble bydd angen iddi ddefnyddio cyfleoedd fel sgiliau a galluoedd ein gweithlu, diwylliant entrepreneuraidd bywiog, gwerthfawrogiad o'r amgylchedd a phwyslais o'r newydd ar hynny, gweithwyr allweddol, gwirfoddolwyr a gwasanaethau cyhoeddus, dyhead i ddysgu gydol oes ac ar-lein, a sut mae technoleg ddigidol wedi ein cysylltu a'n galluogi i weithredu fel cymdeithas.

1.16.3 Mae ein rhaglenni cyflogadwyedd yn ymateb i duedd allweddol poblogaeth sy'n heneiddio, ac felly gweithlu sy'n heneiddio. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwaith i bobl ifanc, nid yn unig y manteision ariannol, ond yr ymdeimlad o bwrpas a balchder sy'n deillio o gael swydd. Mae cyflogwyr hefyd yn elwa o gael gweithlu mwy newydd a mwy deinamig. Felly mae ein buddsoddiad yn y rhaglen Gwarant i Bobl Ifanc yn hanfodol, ac ar ôl cynyddu ein ffocws ar gyflogaeth, mae dros 20,000 o ymyriadau wedi cael eu darparu drwy ein gwasanaethau cyflogadwyedd yn unig, gyda dros 11,000 o bobl ifanc yn dechrau ar ein rhaglenni cyflogadwyedd.

1.16.4 Does dim terfyn oedran uchaf ar gyfer y cymorth y gall Cymunedau am Waith a Mwy ei gynnig, a gweithwyr hŷn (50 oed a hŷn) yw un o'r carfannau sy'n cael eu targedu gan y rhaglen. Mae'r rhaglen prentisiaethau hefyd yn addas i bobl o bob oed.

1.16.5 Nod gwasanaethau Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio yw helpu pob cwsmer, ym mha bynnag gam o'u bywyd, i gyflawni eu potensial. I oedolion, maent yn ceisio darparu eu gwasanaethau yng nghalon eu cymunedau, a chynnig gwasanaethau i'w holl gwsmeriaid yn y modd sy'n diwallu eu hanghenion orau.

## 1.17 Gwariant ataliol a Gwerth am Arian

1.17.1 Mae'r cynigion hyn ar gyfer y gyllideb yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i warchod a blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cefnogi mesurau ataliol cyn belled ag y bo modd. Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn rhan ganolog o'r broses o gyflawni ein blaenoriaethau. Pan fydd gwariant yn cael ei gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae gennym brosesau cadarn ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn unol â'r diben.

1.17.2 Cyfeirir at yr asesiad a gwerth am arian yn nes ymlaen yn y cwestiynau penodol.

## 1.18 Gwybodaeth am sut mae polisïau'n cael eu cyflwyno, monitro perfformiad ac a oeddent yn cynnig gwerth am arian.

1.18.1 Rydym yn parhau i fonitro'n ofalus ofynion cyllid a chymorth ein polisïau, drwy ein dull Gwerthuso a Monitro. Ym mis Rhagfyr 2021 cyhoeddwyd y cerrig milltir cenedlaethol a'r dangosyddion cenedlaethol cyntaf ar gyfer Cymru, a oedd yn dangos sut rydym yn cyflawni ein nodau llesiant. Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau yn tynnu sylw at y cerrig milltir penodol y byddwn ni'n eu defnyddio i fesur ein llwyddiant:

- bydd gan 75% o'r oedolion oedran gweithio yng Nghymru gymhwyster Lefel 3 neu uwch erbyn 2050,

- canran yr oedolion oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau fydd 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050,
- bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050,
- lleihau'r bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a
- chael gwared ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac sy'n gysylltiedig ag anabledd ac ethnigrwydd erbyn 2050.

1.18.2 Mae'r gwasanaeth Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru yn cynnal astudiaeth ar effaith darpariaeth gwasanaeth. Nodwyd y canlynol yn yr asesiad diweddaraf (2021 – fe'i cynhelir bob tair blynedd):

1.18.3 **Craidd a Thwf (Lefel 1-4)**

- Amcangyfrifwyd mai **£37.1m** oedd cyfanswm gwariant y rhaglen ar ddiwedd mis Mai 2021.
- Roedd **8,396** o fentrau wedi cael cymorth anariannol, **4,610** o fentrau newydd wedi derbyn cymorth, a **12,280** o unigolion wedi derbyn cymorth.
- Cynhyrchwyd **£92m** o fuddsoddiad busnes sy'n gysylltiedig â throsiant rhagamcanol o **£7.76bn**
- Gallai'r swyddi ychwanegol sydd wedi cael eu creu/gweithgarwch fod yn gysylltiedig ag amcangyfrif o **£380m o werth ychwanegol gros** y flwyddyn.
- Mae Pob **£1** a fuddsoddir yn gallu cael ei chysylltu ag oddeutu **£10** o gynnydd net yn y gwerth ychwanegol gros bob blwyddyn.
- Amcangyfrifir y byddai **7,234** o'r **14,471** o swyddi sydd wedi cael eu creu, hynny yw tua hanner y canlyniadau cyflogaeth, wedi gallu digwydd heb ymyriad Busnes Cymru o bosibl. Amcangyfrifir bod y swyddi net (ychwanegol) yn gysylltiedig ag oddeutu **£380m o werth ychwanegol gros**.
- Amcangyfrifir mai **£2,564** yw'r gost fesul swydd sy'n cael ei chreu. Ar ôl ystyried ychwanegedd, **£5,129** yw'r gost fesul swydd net sy'n cael ei chreu.
- Gallai cyfanswm y gweithgarwch o dan raglenni Craidd a Thwf Busnes Cymru fod yn gysylltiedig â chymaint â **£646m o werth ychwanegol gros.**
- Mae'r gyfradd goroesi pedair blynedd yn **67%** o'i chymharu â **33%** ar gyfer sampl gyfatebol o fusnesau a oedd heb gael cymorth

1.18.4 **Y Rhaglen Cyflymu Twf (Lefel 5)**

- Y gyllideb gyffredinol ar gyfer y Rhaglen Cyflymu Twf oedd **£26.9m**, gyda thua 85% o'r cyllid wedi'i ymrwymo ddiwedd mis Mehefin 2021.
- Ers 2015-16, mae'r Rhaglen Cyflymu Twf wedi cefnogi tua **£377m** o fuddsoddiadau menter, **9,755 o swyddi**, a **£266m** o allforion.
- Mae cyfanswm o **9,755** o swyddi gros wedi'u creu yn golygu tua **5,332** o swyddi net – hynny yw, byddai tua 45% o'r canlyniadau cyflogaeth wedi gallu digwydd heb ymyriad Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru o bosibl. Amcangyfrifir bod y swyddi net hyn yn gysylltiedig ag oddeutu **£410m o werth ychwanegol gros**.
- Amcangyfrifir mai **£2,329** yw'r gost fesul swydd gros sy'n cael ei chreu. Ar ôl ystyried ychwanegedd, amcangyfrifir mai **£4,261** yw'r gost net fesul swydd sy'n cael ei chreu.
- Amcangyfrifir bod y gweithgarwch/swyddi ychwanegol sydd wedi cael eu creu yn dod i **£410m o werth ychwanegol gros** y flwyddyn.
- Mae pob **£1** a fuddsoddir yn y Rhaglen Cyflymu Twf yn gallu cael ei chysylltu ag oddeutu **£18** o gynnydd net yn y gwerth ychwanegol gros bob blwyddyn.
- Mae **£377m** o fuddsoddiad busnes yn gysylltiedig â throsiant rhagamcanol o

**£5.99bn.**

- Mae'r gyfradd goroesi pedair blynedd ymysg busnesau sydd wedi cael cymorth gan y Rhaglen Cyflymu Twf yn **77%** o'i chymharu â **33%** ar gyfer sampl gyfatebol o fusnesau a oedd heb gael cymorth.

1.18.5 Yn y sectorau Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, nodir y blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob corff hyd braich yn eu llythyrau cylch gwaith. Maent yn defnyddio'r rhain fel sail ar gyfer eu cynlluniau gweithredol a'u dangosyddion perfformiad allweddol. Mae Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip yn cwrdd â phob corff o leiaf ddwywaith y flwyddyn, ac mae swyddogion yn monitro'r cynnydd a wneir yn erbyn y cynlluniau hyn yn ffurfiol mewn cyfarfodydd monitro chwarterol, ac yn fwy rheolaidd drwy gysylltiadau gwaith agos ag uwch dimau gweithredol y cyrff hyd braich. Ar wahoddiad y cyrff, mae swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd, sy'n gyfle i Lywodraeth Cymru gael trosolwg da o'r problemau posibl. Mae hawliadau am gymorth grant misol hefyd yn cael eu harchwilio i sicrhau cynnydd yn erbyn llinellau gwariant penodol.

1.18.6 Nod yr ymrwymiadau Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac ymrwymiadau penodol cysylltiedig y Rhaglen Lywodraethu, yw gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig drwy fynd i'r afael â hiliaeth systematig a sefydliadol. I gyflawni hyn, rydym wedi ymrwymo ychydig dros £5 miliwn o gyllid cyfalaf a refeniw dros 21/22-24/25 i gynorthwyo ein sefydliadau chwaraeon, treftadaeth a diwylliannol cenedlaethol, lleol, rhanbarthol a llawr gwlad, sy'n cynnwys cyfraniad o gyllideb y cytundeb corfforaethol i gefnogi'r gwaith hwn.

1.18.7 Mae gan Cadw fwrdd asiantaeth mewnol ei hun gydag aelodau anweithredol. Mae'n cwrdd bob chwarter, a rhan o'i rôl yw craffu ar berfformiad Cadw yn erbyn y cynllun busnes a'r adroddiadau ariannol.

1.18.8 Mae gan bob prosiect mawr brosesau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r prosiect penodol. Mae buddsoddiadau cyfalaf mawr yn cael eu hategu gan achosion busnes sy'n cael eu harchwilio gan dîm a swyddogion Trysorlys Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gadarn. Mae contractau a grantiau cyfalaf a refeniw llai yn cael eu dyfarnu ar sail proses ymgeisio agored neu gomisiwn uniongyrchol, ac yn cael eu monitro gan swyddogion drwy gydol cylch oes y prosiect, gyda chyfleoedd gwirio ac amcanion a gytunwyd.

1.18.9 Mae gweithgarwch a phrosiectau mawr yn cael eu monitro gan ddefnyddio Adnodd Adrodd Gwybodaeth Busnes (BIRT). Mae Cynllun Tystiolaeth yn cyflwyno'r prosiectau ymchwil, gwerthuso a chasglu data y mae'r Is-adran Diwylliant naill ai'n ymgymryd â hwy neu wedi ymrwymo iddynt. Caiff ei ddiweddaru'n flynyddol, ar sail trafodaethau â staff a rhanddeiliaid ehangach, i sicrhau bod gweithgarwch yn cefnogi blaenoriaethau adrannol allweddol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

1.18.10 Defnyddir metrigau penodol i werthuso rhaglenni cymorth, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio. Mae llwyddiant yn cael ei fesur pan fydd cymorth ariannol neu raglen a ariennir wedi cael ei darparu drwy, er enghraifft, taith fasnach neu gefnogi ymweliad â marchnad, ac mae'n cynnwys y busnes allforio newydd a enillwyd o ganlyniad i hynny. Mae angen llenwi ffurflenni gwerthuso ar yr allbynnau a gyflawnwyd ar gyfer gweithgarwch Buddsoddiad a Ariennir fel digwyddiadau / seminarau hefyd.

### 1.19 Cydraddoldeb, cynaliadwyedd a'r Gymraeg – Asesiadau effaith

1.19.1 Mae dull gweithredu integredig ar gyfer asesiadau effaith yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw effaith penderfyniadau gwario, wrth i ni geisio deall yn well effeithiau croestoriadol ac anfwriadol gwariant er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

1.19.2 I'r gwrthwyneb i hynny, mae perygl y bydd ystyried maes effaith ar ei ben ei hun yn arwain at ganlyniadau effaith anfwriadol, fel effaith negyddol mewn un maes yn cael ei sbarduno gan effaith gadarnhaol mewn maes arall. Gall gwell dealltwriaeth o'r broses o integreiddio gwahanol feysydd ei gwneud yn bosibl i dargedu cyllid sy'n gallu cynyddu effaith buddsoddiad cymaint â phosibl; ochr yn ochr â pheidio â chynyddu effaith buddsoddiad cymaint â phosibl drwy dargedu cyllid lle gall gael yr effaith fwyaf drwy ddeall yn well y croestoriad neu'r broses o integreiddio gwahanol feysydd.

1.19.3 Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG) i ystyried sut rydym yn cynnal ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA). Sefydlwyd is-grŵp, ac mae cynllun gwaith ar y cyd yn cael ei ddatblygu, gyda rhai newidiadau'n cael eu rhoi ar waith erbyn cyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ym mis Rhagfyr 2022. Rydym yn dal wedi ymrwymo i adolygu'n barhaus y ffordd rydym yn asesu effeithiau fel rhan o'r Cynllun blynyddol i Wella'r Gyllideb.

1.19.4 Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi mabwysiadu dull integredig ar gyfer asesiadau effaith, gan ystyried effaith ein polisïau ar nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n dal yn sbardun pwysig sy'n llywio ein hystyriaethau ynghylch y Gyllideb. Rydym wedi parhau i ymwreiddio pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein dull gweithredu a'r prosesau sy'n ei ategu. Mae asesiadau effaith yn rhan annatod o'r broses gynllunio ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, er enghraifft y Warant i Bobl Ifanc: asesiad o effaith.

1.19.5 Mae Asesiad Effaith integredig llawn wedi cael ei gynnal ar wasanaeth Entrepreneuriaeth a Busnes Cymru a fydd ar waith ar ei newydd wedd o fis Ebrill 2023 ymlaen, ac mae wedi cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru sydd ar gael yma: Darpariaeth Busnes Cymru i'r dyfodol: asesiad effaith [HTML] | LLYW.CYMRU

1.19.6 Wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, cynhaliwyd Asesiad Effaith integredig llawn. Fel rhan o'r gwaith o gyflawni ein nodau a'n camau gweithredu yng nghyswllt diwylliant, treftadaeth a chwaraeon ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn mynd ati i fonitro a gwerthuso. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu diffinio llwyddiant a mesur perfformiad. Ar ben hynny, bydd asesiadau cymesur o effaith yn cael eu cynnal drwy gydol y gwaith o ddylunio a darparu polisïau a rhaglenni.

## b) Meysydd penodol

2.1.1 Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol, yn unol â chais y Pwyllgor.

### 2.2 Yr Economi

***Cymorth i helpu busnesau a gweithwyr o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau byw***

2.2.1 Mae Busnes Cymru yn darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol i fusnesau ynghyd â gwasanaeth cyfeirio, yn ogystal ag elfennau arbenigol o gyngor fel cynlluniau wrth gefn a defnyddio adnoddau'n effeithlon i gynorthwyo busnesau, yn ogystal â manteisio ar fand eang a mynediad at y Porth Sgiliau a Chyswllt Ffermio.

2.2.2 Mae cymorth uniongyrchol ar gael i fusnesau sy'n wynebu ansicrwydd oherwydd dirwasgiad posibl / yr argyfwng costau byw drwy gyfuniad o gymorth ar-lein, dros y ffôn, un i lawer ac un i un i fusnesau, sydd wedi'i deilwra yn ôl anghenion y cleient a gwahanol ranbarthau Cymru, gan ddibynnu ar ofynion lleol. Mae'r gwasanaeth ar gael i gynorthwyo busnesau sydd eisoes yn bodoli, busnesau newydd ac unigolion sy'n ystyried bod yn hunangyflogedig, ac mae modd cael mynediad ato'n ddigidol drwy https://businesswales.gov.wales/cy, sianeli cyfryngau cymdeithasol a llinell gymorth 03000 6 03000.

2.2.3 Mae Busnes Cymru yn cynnig cyngor a chefnogaeth amrywiol ar arferion, polisïau gwyrdd a defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ogystal â gweithdai. Mae'r cyngor un i un yn cynnwys defnyddio ynni'n effeithlon, rheoli gwastraff, atal llygredd, materion a thrwyddedau cyfreithiol, systemau rheoli amgylcheddol a ffynonellau cyllid.

2.2.4 Mae Ymgynghorwyr Defnyddio Adnoddau'n Effeithlon ar gael i helpu busnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau amgylcheddol, ac i weithio gyda busnesau i greu busnes cadarn sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon. Mae ymgynghorwyr yn darparu cyngor amrywiol fel defnyddio llai o ddeunyddiau crai i leihau'r risg o brinder deunyddiau, sbarduno arloesedd a chadernid, a helpu busnesau i gyrraedd marchnadoedd newydd

***Cymorth parhaus i helpu busnesau i oroesi ac ailgodi ar ôl y pandemig***

2.2.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £21.9m yng ngwasanaeth Busnes Cymru rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025, ac mae wedi ymrwymo i barhau i ddarparu cymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig ac entrepreneuriaeth ragweithiol.

2.2.6 Bydd y dull gweithredu'n cynnwys ôl troed cenedlaethol cyffredinol gydag elfennau rhanbarthol; cydbwyso'r gefnogaeth ar gyfer twf ac ehangu gan ledaenu ffyniant ar draws pob rhan o Gymru; a hwyluso prosesau gweithio dyfnach ar draws y llywodraeth a'r holl ecosystem. Bydd y gwasanaeth yn datblygu ac yn gwella'r gwasanaeth presennol, ac yn ymwreiddio ei effaith ymhellach yn economi Cymru.

2.2.7 Cydnabyddir na all Busnes Cymru gynnig yr holl ddarpariaeth cymorth lleol i fusnesau sydd ei hangen ar entrepreneuriaid, microfusnesau a busnesau bach a chanolig ledled Cymru. Nod y gwasanaeth yw adeiladu ar ei gryfder fel gwasanaeth a ddarperir yn genedlaethol, a gweithio mewn partneriaeth i ategu'r ddarpariaeth leol a'r cyfleoedd cyllid ehangach sydd ar gael i'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

2.2.8 Gan adeiladu ar lwyddiant Busnes Cymru, bydd y model cyflawni arfaethedig o 2023 ymlaen yn seiliedig ar dri nod allweddol:

a) Meithrin hyder ac ysbrydoli unigolion, entrepreneuriaid a microfusnesau/BBaChau i gyrraedd eu llawn botensial. Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i'w galluogi i gyfrannu at ddatblygu ecosystem gydlynol sy'n weladwy, yn syml ac yn gysylltiedig i sicrhau bod Cymru yn lle gwych i ddechrau a datblygu busnes yn yr economïau sylfaenol a thwf.

b) Mynd i'r afael â bwlch allweddol drwy greu'r amodau i fusnesau ddechrau, dal eu tir a datblygu i fod yn fusnesau canolig eu maint mewn ffyrdd cynhwysol a chynaliadwy.

c) Cefnogi cynhyrchiant, gwydnwch, twf, prosesau datgarboneiddio a chynaliadwyedd microfusnesau a BBaChau, gan sicrhau eu perchnogaeth hirdymor yng Nghymru yn y dyfodol i gadarnhau eu cyfraniad parhaus i economi Cymru.

2.2.9 Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu o dan bum maes cyflawni allweddol:

a) Bydd llwyfan digidol a llinell gymorth Busnes Cymru yn bwynt cyswllt cwbl ddwyieithog a hygyrch i bob entrepreneur a busnes sefydledig; gan gynnig llawer o wybodaeth, arweiniad a chefnogaeth drwy ddarparu ymateb digidol yn gyntaf a fydd yn creu arbedion effeithlonrwydd ac atgyfeiriadau effeithiol at wasanaethau Busnes Cymru.

b) Datblygu diwylliant o entrepreneuriaeth a dechrau busnes yng Nghymru. Ysbrydoli a datblygu gallu busnes entrepreneuriaid gan ganolbwyntio ar dri phrif grŵp, sef pobl ifanc o dan 25 oed, oedolion sy'n ystyried bod yn hunangyflogedig neu ddechrau busnes eu hunain, gydag allgymorth wedi'i dargedu ar gyfer unigolion sy'n cael eu tangynrychioli mewn busnesau newydd a chymdeithas.

c) Meithrin hyder a chadernid y gymuned fusnes yng Nghymru a'i helpu i greu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, gwella arferion a chynhyrchiant er mwyn ysgogi twf cynaliadwy a chynhwysol, drwy ddarparu cyngor a chymorth pwrpasol.

d) Adeiladu ar y Rhaglen Cyflymu Twf bresennol i ddarparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer busnesau newydd a busnesau sydd eisoes yn bodoli sydd â'r dyhead a'r potensial i gyflawni eu huchelgais i ddatblygu ar raddfa fawr.

e) Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi yn y sector menter gymdeithasol er mwyn rhoi cyngor arbenigol i fusnesau i ategu gweledigaeth 'Trawsnewid Cymru drwy Fentrau Cymdeithasol' er mwyn rhoi mentrau cymdeithasol wrth galon Cymru decach, fwy cynaliadwy a mwy llewyrchus.

2.2.10 Bydd y gwasanaeth cyffredinol yn gyfuniad o ddarpariaeth fewnol a darpariaeth sydd wedi'i chaffael yn agored, gan ddechrau yn 2023. Cyhoeddwyd yr hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw ym mis Mai 2022, a chyhoeddwyd y fanyleb ar GwerthwchiGymru ym mis Tachwedd 2022.

***Dyraniadau mewn perthynas â'r Rhaglen Porthladd Rhydd yng Nghymru***

2.2.11 Mae Gweinidogion y DU wedi cytuno i ddarparu hyd at £26 miliwn o gyllid cychwynnol nad yw'n ad-daladwy (wedi'i rannu rhwng £1m o refeniw a £25m o gyfalaf) ar gyfer y safle llwyddiannus, sy'n gydradd â'r cytundebau a gynigiwyd i bob un o Borthladdoedd Rhydd Lloegr a'r Alban. Nid yw hyn yn cael ei gofnodi ar hyn o bryd fel rhan o gynlluniau Cyllideb Ddrafft 2023-24, gan y bydd y trosglwyddo'n digwydd fel rhan o broses y gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn.

2.2.12 Bydd busnesau yn narpar Borthladd Rhydd Cymru hefyd yn elwa o weithdrefnau tollau symlach, rhyddhad ar dollau tramor, rhyddhad treth fel rhyddhad Ardrethi Annomestig, a hyblygrwydd datblygu.

***Dyraniadau mewn perthynas â'r posibilrwydd o greu 'parthau buddsoddi' yng* Nghymru**

2.2.13 Rydym yn cynnal trafodaethau cychwynnol â Llywodraeth y DU i ddeall cynigion y Parth Buddsoddi, y ddarpariaeth a'r goblygiadau posibl i Gymru yn fwy manwl. Byddai angen i unrhyw gynllun a gyflwynir ar gyfer Cymru gyd-fynd â'n polisïau ni ar waith teg a'r amgylchedd, a chreu buddsoddiad ychwanegol

***Dyraniadau i gefnogi'r dull rhanbarthol o ymdrin â datblygu economaidd (gan gynnwys y rheini a wneir i ddatblygu a chyflwyno'r fframweithiau economaidd rhanbarthol, y Cymoedd Technoleg, a rhaglen Arfor)***

**Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol**

2.2.14 Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom gyhoeddi'r fframweithiau economaidd rhanbarthol. Mae'r rhain yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i fodel datblygu economaidd sy'n seiliedig ar leoedd, lle rydym yn adeiladu ar gryfderau penodol ein rhanbarthau ac yn gweithio gyda nhw. Lluniwyd y fframweithiau gyda phartneriaid ym mhob un o'r rhanbarthau, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff rhanbarthol. Maent yn seiliedig ar dystiolaeth a chytundeb, gyda blaenoriaethau clir sy'n cyd-fynd â'n fframwaith ar gyfer buddsoddi rhanbarthol, y genhadaeth economaidd ac, wrth gwrs, y rhaglen lywodraethu. Mae'r dull aeddfed yma o weithredu yn hanfodol er mwyn creu gweledigaeth ar y cyd gydag amcanion cyffredin i sicrhau Cymru decach, wyrddach a mwy llewyrchus. Nid oes cyllideb benodol wedi'i dyrannu i'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, ond bydd y gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a nodir ym mhob un yn cael ei gyflawni drwy ddefnyddio cyllidebau eraill sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys rhai rhanbarthol, Cronfa Dyfodol yr Economi, eiddo, a ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill hefyd.

**Y Cymoedd Technoleg**

2.2.15 Mae cyllideb tair blynedd wedi cael ei dyrannu i'n buddsoddiad ar gyfer y rhaglen Cymoedd Technoleg – 2022-23: £2.25 miliwn, 2023-24: £2.025 miliwn a 2023/24: £2.025 miliwn.

2.2.16 2022/23: £5 miliwn, 2023-24: £5 miliwn a 2023-24 £ 5 miliwn. Mae dyraniad refeniw hefyd – 2022-23: £2.25 miliwn, 2023-24: £2.025 miliwn a 2023/24: £2.025 miliwn. Mae'r cyllid ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf wedi'i glustnodi'n llwyr i amrywiaeth o brosiectau sydd wedi cael eu cyflawni ac sydd ar y gweill. Mae'r refeniw wedi cael ei glustnodi'n llawn yn bennaf i'r Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol (NDEC), partneriaeth â Thales, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru. Mae'r elfen Gyfalaf (2022/23: £5 miliwn, 2023-24: £5 miliwn a 2023-24 £ 5 miliwn) wedi cael ei defnyddio i adennill

270,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr newydd ac wedi'i adnewyddu i fusnesau masnachol, newydd a diwydiannol. Bu ffocws helaeth hefyd ar gysoni'r llwybrau addysg a gyrfaoedd i ddysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa sy'n deillio o Ddiwydiant 4.0 yn y rhanbarth. Bydd y strategaeth hon yn sicrhau bod gan drigolion lleol y cymwysterau priodol sydd eu hangen ar fusnesau lleol. Yr uchelgais yw cadw a hyfforddi pobl ifanc ym Mlaenau Gwent. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sefydlu cylch rhinweddol o ddatblygu sgiliau a thalent pobl ifanc yn yr ardal, gan greu ymdrechion entrepreneuraidd a'r swyddi a fydd yn cadw rhagor o sgiliau yn yr ardal.

**Arfor**

2.2.17 Rydym yn cynnal ein buddsoddiad o'r gyllideb ddiwethaf ar gyfer rhaglen Arfor. Roedd y gyllideb a ddyrannwyd i gefnogi'r rhaglen yn £3m yn 2022-23, ac mae'n £4m yn 2023-24 ac yn £4m yn 2024-25. Roedd rhaglen wreiddiol Arfor ar waith rhwng 2019/20 a 2020/21. Mae'r adroddiad gwerthuso annibynnol gan Wavehill wedi dangos bod rhaglen Arfor wedi treialu cynlluniau cefnogi busnesau bach yn llwyddiannus ac wedi dangos bod ganddynt y potensial i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, i greu amodau ffafriol ar gyfer datblygu capasiti a gwasanaethau ymhellach, yn ogystal â chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned fusnes.

2.2.18 Mae'r rhaglen hefyd wedi treialu ymyriadau cymorth llai confensiynol i fusnesau, fel mentora pobl ifanc drwy gynllun Llwyddo'n Lleol, y cynllun Ffiws/Gofod Creu a oedd yn cynnig mannau gwaith a mynediad am ddim at gymorth technegydd ac offer datblygedig, a thrwy helpu busnesau cymdeithasol i ddatblygu eu hasedau er mwyn cynyddu eu gallu a'u heffaith yn eu cymunedau drwy'r cynllun Cymunedau Mentrus.

2.2.19 At ei gilydd mae'r rhaglen, er iddi gael ei darparu yn ystod cyfnod Covid, wedi creu 238 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ac 89 o swyddi rhan-amser, wedi diogelu 226 o swyddi eraill sydd gyfwerth ag amser llawn, ac wedi helpu 154 o fusnesau newydd neu sydd eisoes yn bodoli. Wrth sicrhau'r effaith economaidd hon, mae'r grantiau uniongyrchol hefyd wedi ymwreiddio cynlluniau i ddatblygu capasiti ieithyddol yng nghynlluniau'r busnesau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Ar ben hynny, mae'r grantiau wedi dangos nad oes angen i bwyslais ar ddatblygu gallu ieithyddol amharu nac effeithio'n negyddol ar y gallu i gymorth refeniw neu gyfalaf uniongyrchol gefnogi a gweithredu fel catalydd i ddatblygu a thyfu busnes.

***Dyraniadau i ategu cyllid datblygu rhanbarthol (Rheswm: o ganlyniad i bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch y lefelau cyllid a ddaw i Gymru gan gynlluniau Llywodraeth y DU, fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Codi'r Gwastad)***

**Datblygu Rhanbarthol – Effaith Cynlluniau Llywodraeth y DU**

2.2.20 Yn amlwg, oherwydd y rhesymau a eglurwyd mewn adrannau eraill yn y papur hwn, mae Llywodraeth Cymru yn poeni bod cynlluniau Llywodraeth y DU fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Codi'r Gwastad yn anwybyddu Llywodraeth a Senedd Cymru, ac nad ydynt yn cael digon o gyllid nac yn diwallu anghenion Cymru. Nid yw Llywodraeth y DU wedi bod yn weithgar ym maes polisi economaidd rhanbarthol yng Nghymru ar y raddfa hon ers dros ddau ddegawd ac rydym yn dal yn bryderus nad oes ganddi'r arbenigedd, y rhwydweithiau, y seilwaith na'r profiad i ddarparu'r cyllid hwn mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru.

2.2.21 Mae ystod o bwyllgorau trawsbleidiol, yn Senedd Cymru ac yn San Steffan, hefyd wedi beirniadu'n gyson agwedd Llywodraeth y DU at gyllid ar ôl Brexit ac at Godi'r Gwastad – yn yr un modd â melinau trafod annibynnol fel y Sefydliad Materion Cymreig ac Institute for Government. Mae pob un ohonynt yn rhybuddio y bydd Llywodraeth y DU, wrth fynnu gweithredu mewn meysydd datganoledig heb bartneriaeth â Llywodraeth Cymru a pharch at y setliad datganoli, yn arwain at lai o werth am arian a chanlyniadau gwaeth i Gymru.

2.2.22 Nid yw'r Gronfa Codi'r Gwastad yn cymryd lle cyllid yr UE yn uniongyrchol, ond mae'n gweithredu yn y meysydd yr oedd cronfeydd yr UE yn arfer eu meddiannu. Mae'r Gronfa Codi'r Gwastad, i bob pwrpas, yn cymryd lle Cronfa Trefi Lloegr. Fe'i cyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant y DU ym mis Tachwedd 2020 fel mesur ar gyfer Lloegr y byddai Llywodraeth Cymru yn derbyn swm canlyniadol Barnett ar ei gyfer. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2021, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'n darparu'r Gronfa Codi'r Gwastad ar draws y DU heb unrhyw ymgynghori na chyfathrebu ymlaen llaw. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw rôl yn natblygiad y Gronfa hon na'r broses o'i chyflwyno.

2.2.23 Mae'r Gronfa yn un gystadleuol, gyda'r rownd gyntaf o gyllid yn cael ei lansio ym mis Mawrth 2021 a'r ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2021. Yn y rownd gyntaf, llwyddodd chwe awdurdod lleol yng Nghymru (Rhondda Cynon Taf, Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Wrecsam) i sicrhau cyllid ar gyfer deg cais a oedd werth cyfanswm o £121m. Roedd y ceisiadau aflwyddiannus yng Nghymru werth

£172m. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'r ceisiadau llwyddiannus ar gyfer rownd dau eto, a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol erbyn 2 Awst 2022 (cyflwynwyd 43 o geisiadau a oedd werth bron i £800m gan awdurdodau lleol Cymru), sy'n creu oedi pellach yn y broses ac amserlenni afrealistig i lywodraeth leol wario'r dyraniadau. Mae'r Gronfa, sy'n canolbwyntio ar gyfalaf, hefyd yn peri pryder gwirioneddol gan fod costau chwyddiant eisoes yn effeithio ar broffiliau'r ceisiadau a gyflwynwyd.

2.2.24 Rydym hefyd yn poeni nad yw'r cyllid a roddir i gynlluniau datgarboneiddio diwydiannol, fel y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF), Dilyniant o Glystyrau a'r Gronfa Hydrogen, yn ddigon er mwyn gwneud prosiectau datgarboneiddio'n bosibl ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y tymor byr i'r tymor canolig. Er bod busnesau yng Nghymru wedi llwyddo i wneud cais am gymorth drwy'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol, ni fu llawer o gyfle i lwyddo mewn ffrydiau cyllido eraill. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod modelau busnes priodol er mwyn gallu datgarboneiddio diwydiant Cymru.

2.2.25 Mae aelodau Clwstwr Diwydiannol De Cymru yn buddsoddi dros £24m sydd, yn ei dro, wedi denu dros £26m o gyllid Llywodraeth y DU i Gymru ers 2019, gan gynnwys £21 miliwn o gyllid Her Datgarboneiddio Diwydiannol i gyflawni Map Llwybr Cam 2 ynghyd ag amrywiaeth o brosiectau ar draws De Cymru. Ar ben hynny, mae dros £2m o gyllid Ymchwil ac Arloesi Datgarboneiddio Diwydiannol wedi cael ei ddyrannu i brifysgolion yng Nghymru ar gyfer gweithgarwch mewn clystyrau diwydiannol.

2.2.26 Mae'r prosiect HyNet, sy'n gwasanaethu gogledd-orllewin Lloegr a gogledd-ddwyrain Cymru, wedi cyrraedd y rhestr fer i gael cyllid Trac 1 drwy'r rhaglen Dilyniant o Glystyrau. Nid yw'n hysbys eto ar hyn o bryd a fydd unrhyw weithgarwch yng Nghymru yn cael ei ariannu drwy'r broses hon.

### *Y dyraniadau ariannol sy'n gysylltiedig â chynllun galluogi'r economi sylfaenol a'r* **Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol**

2.2.27 Mae'r pandemig, ynghyd ag ymadawiad y DU â'r UE, wedi pwysleisio pwysigrwydd yr Economi Sylfaenol a'r angen i'w diogelu ac i greu cadwyni cyflenwi cadarn yng Nghymru, gan sicrhau bod ei gweithwyr yn cael eu cyflogi a'u gwobrwyo'n deg. Rydym yn cynnal ein buddsoddiad yn yr Economi Sylfaenol yn y gyllideb hon sydd, ar hyn o bryd, yn £3m y flwyddyn.

2.2.28 I gefnogi hyn, mae'r Gronfa 'Cefnogi Cwmnïau Lleol' bellach yn rhedeg am ail flwyddyn i helpu busnesau bach a chanolig yng Nghymru i oresgyn y rhwystrau y gallent fod yn eu hwynebu wrth fasnachu â'r sector cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar bedair blaenoriaeth strategol Addysg Bellach, sef datgarboneiddio (sy'n cynnwys cartrefi a bysiau); gofal cymdeithasol; bwyd a chaffael cyhoeddus. Eleni, drwy'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol, rydym yn cymryd camau rhagweithiol i ddatgarboneiddio a chefnogi dwy ran allweddol o Addysg Bellach – sef gofal cymdeithasol a bwyd.

2.2.29 Ar ôl ymgysylltu â chydweithwyr ym maes Gofal Cymdeithasol, rydym yn rhedeg cynllun grantiau i helpu darparwyr gofal preswyl i roi mesurau effeithlonrwydd ynni a charbon isel ar waith, gan helpu i leihau effeithiau'r argyfwng costau ynni. Bydd y cynllun hefyd yn darparu gwybodaeth werthfawr i'r cynllun er mwyn i'r sector weithio tuag at allyriadau carbon sero net erbyn 2030.

### **Banc Datblygu Cymru –** *gan gynnwys cymorth i fusnesau sy'n eiddo i weithwyr*

2.2.30 Gall Banc Datblygu Cymru, drwy Gronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru sydd werth £500m,

gynnig llwybr cyllido posibl sy’n seiliedig ar ddyled ar gyfer pryniant gan weithwyr. Gall Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru helpu gyda phryniant gan reolwyr.

2.2.31 Ers mis Medi 2022, mae Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru wedi buddsoddi dros £13.6m mewn 16 o gwmnïau. Ym mis Gorffennaf 2022, roedd gan Gymru 40 o fusnesau cwbl weithredol a oedd yn eiddo i weithwyr. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gynyddu hyn i 60 yn ystod tymor presennol y llywodraeth.

2.2.32 Mae cyfraniad cyllid yr UE wedi bod yn arwyddocaol, ac yn dal yn arwyddocaol. Ond nid yw’r Banc Datblygu yn dibynnu mwyach ar gyllid yr UE nac ar gronfeydd olyniaeth yn y DU i gynnal buddsoddiad gyda busnesau yng Nghymru.

2.2.33 Mae Banc Datblygu Cymru wrthi’n paratoi i lansio darpariaeth newydd sy’n cynnig cymorth ar gyfer datgarboneiddio busnesau ac yn helpu busnesau i leihau eu costau ynni. Mae’r gyllideb ar gyfer hyn yn ychwanegol at gronfeydd sydd eisoes yn cael eu rheoli gan Fanc Datblygu Cymru. Mae gwaith modelu a chynllunio yn mynd rhagddo. Mae £10m o gyfalaf wedi cael ei neilltuo yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf (ar ben y cyllid presennol), a all gefnogi hyn a chynlluniau peilot eraill Banc Datblygu Cymru sydd wrthi’n cael eu datblygu. Bydd y Banc Datblygu yn rhoi gwybod maes o law am fanylion y cynllun.

2.2.34 Mae Banc Datblygu Cymru eisoes wedi derbyn cyfalaf i gefnogi’r gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau i ddefnyddio mwy ar gyfrannau ecwiti wrth gynorthwyo busnesau a darparu cyfalaf amyneddgar (benthyca dros 6 blynedd yn ôl ein diffiniad ni) i fusnesau. Yr uchelgais yw gweld buddsoddiad ecwiti yn cynyddu i £100m dros y pum mlynedd nesaf.

2.2.35 Bu’n hollbwysig cyfalafu cronfeydd y Banc Datblygu dros y pum mlynedd diwethaf er mwyn sicrhau sefydlogrwydd a hylifedd parhaus mewn cyfnod o ansefydlogrwydd yn y farchnad.

2.2.36 Mae buddsoddiad Banc Datblygu Cymru wedi cynyddu’n gyson ers ei lansio yn 2017, gan gynyddu o £68m yn 2017/18 i bron i £110m yn 2021/22, a hynny wrth i lefelau buddsoddi busnesau ostwng – yn Ch1 2022, roeddent 9% yn is na’r lefelau cyn y pandemig (ffynhonnell – Adroddiad Blynyddol Dirnad Economi Cymru, Medi 2022)

2.2.37 Croesewir y cronfeydd newydd i gynorthwyo busnesau sy’n dod i Gymru. Mae hyn yn cynnwys y Gronfa newydd i Gymru gan British Business Bank a fydd, yn ôl ein dealltwriaeth ni, yn dechrau cael ei rhoi ar waith rywbryd y flwyddyn nesaf. Nid ydym yn disgwyl i gronfeydd newydd gymryd lle cyllid Banc Datblygu Cymru sydd eisoes ar waith, gan fod posibilrwydd y bydd yr holl gronfeydd yn cael eu defnyddio – yn enwedig o ystyried y cyd-destun economaidd presennol lle bydd benthycwyr prif ffrwd yn llai parod i gymryd risg.

2.2.38 Yn 2021/22, gwelodd y Banc Datblygu dwf arbennig yng Ngogledd Cymru, gyda busnesau yn y rhanbarth yn derbyn £30.1m o werth cyffredinol cytundebau, mewn cymhariaeth â £25m yn y flwyddyn flaenorol. Cafodd Dde-ddwyrain Cymru £47m, a chofnododd Canolbarth a Gorllewin Cymru £32.1m.

2.2.39 Mae FW Capital, un o is-gwmnïau Banc Datblygu Cymru, yn rheoli cronfa ar gyfer British Business Bank yn Lloegr, ac mae unrhyw gostau y mae grŵp Banc Datblygu Cymru yn eu hwynebu yng nghyswllt ei weithredu yn cael eu talu’n llawn gan FW Capital. Mae rhywfaint o elw gweithredol wedi cael ei ddychwelyd i’w ddosrannu â'r prosesau gweithredu yng Nghymru. Er bod gwaith FW Capital ar reoli cronfeydd a ddarperir yn Lloegr yn dod â manteision i Fanc Datblygu Cymru, mae angen cadw cydbwysedd y gweithgarwch hwn mewn cymhariaeth â graddfa’r gweithgarwch yng Nghymru – mae Banc Datblygu Cymru yn bodoli i helpu i ddatblygu busnesau yng Nghymru yn bennaf.

*Dyraniad ariannol i Busnes Cymru*

2.2.40 Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £21.9m yng ngwasanaeth Busnes Cymru rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2025, ac mae wedi ymrwymo i barhau i ddarparu cymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig ac entrepreneuriaeth ragweithiol.

2.2.41 Bydd y dull gweithredu'n cynnwys ôl troed cenedlaethol cyffredinol gydag elfennau rhanbarthol; cydbwyso'r gefnogaeth ar gyfer twf ac ehangu gan ledaenu ffyniant ar draws pob rhan o Gymru; a hwyluso prosesau gweithio dyfnach ar draws y llywodraeth a'r holl ecosystem. Bydd y gwasanaeth yn datblygu ac yn gwella'r gwasanaeth presennol, ac yn ymwreiddio ei effaith ymhellach yn economi Cymru.

2.2.42 Cydnabyddir na all Busnes Cymru gynnig yr holl ddarpariaeth cymorth lleol i fusnesau sydd ei hangen ar entrepreneuriaid, microfusnesau a busnesau bach a chanolig ledled Cymru. Nod y gwasanaeth yw adeiladu ar ei gryfder fel gwasanaeth a ddarperir yn genedlaethol, a gweithio mewn partneriaeth i ategu'r ddarpariaeth leol a'r cyfleoedd cyllid ehangach sydd ar gael i'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

2.2.43 Bydd y gwasanaeth cyffredinol yn gyfuniad o ddarpariaeth fewnol a darpariaeth sydd wedi'i chaffael yn agored, gan ddechrau yn 2023. Cyhoeddwyd yr hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw ym mis Mai 2022, a chyhoeddwyd y fanyleb ar GwerthwchiGymru ym mis Tachwedd 2022.

***Y dyraniadau ariannol i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i geisio 'dyblu nifer y busnesau sy'n eiddo i weithwyr'***

2.2.44 Yn ein Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddyblu nifer y busnesau yng Nghymru sy'n eiddo i weithwyr erbyn 2026. I gyflawni hynny, rydym wedi ymrwymo i roi mwy o gefnogaeth i sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn aros yn nwylo Cymry.

2.2.45 Ar hyn o bryd, mae 44 yng Nghymru. Ar gyfartaledd, gwneir dau neu dri o gytundebau prynu gan weithwyr yma yng Nghymru bob blwyddyn, ond mae maint y sector eiddo i weithwyr wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda phosibilrwydd y bydd llawer mwy ohonynt.

2.2.46 Gan weithio gyda Cwmpas, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ychwanegol i hyrwyddo manteision a datblygu perchnogaeth gan weithwyr yng Nghymru, i sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r manteision posibl.

2.2.47 Mae gwasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru a Busnes Cymru a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (gydag £1.7m wedi'i ddyrannu i fentrau cymdeithasol o'r gyllideb gyffredinol o £21.9m) yn cynnig cyngor arbenigol i gefnogi pryniant gan y gweithwyr, gyda chymorth pwrpasol wedi'i ariannu'n llawn ar gael i helpu perchnogion busnesau i benderfynu ai perchnogaeth gan y gweithwyr a chynlluniau cyfranddaliadau yw'r opsiwn priodol i'w busnes.

2.2.48 Mae Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru a weithredir gan y Banc Datblygu yn cynnig llwybr cyllido posibl sy'n seiliedig ar ddyled ar gyfer pryniant gan weithwyr. Gellir cefnogi pryniant gan reolwyr drwy Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru. Mae £25m yn rhoi'r cyllid sydd ei angen ar reolwyr a thimau rheoli uchelgeisiol i brynu busnesau bach a chanolig sefydledig yng Nghymru pan fydd eu perchnogion presennol yn ymddeol neu'n gwerthu.

### *Y Banc Cymunedol/cefnogi Banc Cambria*

2.2.49 Mae cyllideb o £0.05m wedi cael ei dyrannu yn 2023-24 i helpu gyda'r costau sy'n gysylltiedig â datblygiadau'r Banc Cymunedol. Mae hyn yn talu am weithgarwch fel cyngor arbenigol, cefnogaeth i Cambria Cydfuddiannol Ltd (a greodd y weledigaeth i gael banc cymunedol yng Nghymru ac sydd wedi bod yn gweithio wedyn gyda Monmouthshire Building Society wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau), a bydd yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau gwaith diwydrwydd dyladwy cyfreithiol ac ariannol ar y cynnig buddsoddi rydym yn disgwyl iddo gael ei gyflwyno.

2.2.50 Hyd yma, nid oes unrhyw gyllid na grant uniongyrchol wedi cael ei ddarparu i Monmouthshire Building Society sy'n eu helpu i ddatblygu eu cynlluniau fel cynnig masnachol.

2.2.51 Rwy'n dal wedi ymrwymo i greu Banc Cymunedol yng Nghymru, ac i fodel ariannol cynhwysol a chydfuddiannol ac sy'n gwasanaethu pobl Cymru.

2.2.52 Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â Monmouthshire Building Society sydd wrthi'n datblygu eu cynlluniau ar gyfer banc cymunedol yng Nghymru.

2.2.53 Er ein bod yn awyddus i weld cynnydd pendant tuag at gyflwyno Banc Cymunedol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn parchu'r ffaith ei fod yn gynnig masnachol sy'n cael ei ddatblygu a'i arwain gan Monmouthshire Building Society.

2.2.54 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Monmouthshire Building Society gyflwyno cynnig buddsoddi i helpu i gyflwyno Banc Cymunedol i Gymru. Ar ôl i'r cynnig ddod i law, byddwn yn ystyried ei gysoni â'n huchelgais ni ar gyfer Banc Cymunedol a'r posibilrwydd o werth ehangach.

2.2.55 Mae'r cyfalaf ar gyfer unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol i gefnogi'r Banc Cymunedol yn rhan o MEG Cyfiawnder Cymdeithasol y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.

### *Cymorth i sectorau gweithgynhyrchu allweddol fel awyrofod, modurol a dur*

2.2.56 Mae'r diwydiant Awyrofod ac Amddiffyn yng Nghymru yn un o gonglfeini gallu Awyrofod ac Amddiffyn y DU, gyda dros 20,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector, sy'n dangos gallu'r sector i ailgodi a chryfhau ar ôl y pandemig. Mae gan 5 o'r 10 cwmni Awyrofod ac Amddiffyn mwyaf blaenllaw yn y byd bresenoldeb sylweddol yng Nghymru; mae gan Raytheon, GE, Airbus, General Dynamics a Safran ddylanwad mawr, ac mae gan Airbus a General Dynamics ddau safle mawr yr un yng Nghymru.

2.2.57 Mae oddeutu 200 o gwmnïau yng Nghymru sy'n gwasanaethu'r sector Awyrofod ac Amddiffyn o ran dylunio a gweithgynhyrchu strwythurau ac elfennau mewnol, systemau, MRO (Cynnal a Chadw, Atgyweirio ac Adfer), RPAS (Systemau Awyr a Reolir o Bell) / Dronau, a chynhyrchu offer ategol, gydag Ardaloedd Menter Awyrofod strategol yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru.

2.2.58 Er gwaethaf yr amser segur ym maes hedfanaeth oherwydd Covid a oedd, yn yr un modd â sectorau eraill fel twristiaeth a lletygarwch, wedi dioddef yn enbyd, mae'r sector awyrofod yn dod ato'i hun yn gyflym. Cyflwynodd IATA (y Gymdeithas Cludiant Awyr Ryngwladol) ystadegau ym mis Medi 2022 a oedd yn dangos bod yr adferiad ar ôl Covid yn parhau, gyda Chilometrau Teithwyr Refeniw (RPKs) yn cyrraedd 73.8% o'r lefelau a welwyd cyn y pandemig.

2.2.59 Dywedodd ATI ym mis Tachwedd 2022 fod y sector awyrofod yn ymgyfarwyddo â tharfu. Mae'r adferiad yn dilyn y pandemig yn cael ei ddarogan yng nghyswllt refeniw byd-eang o ddanfon cynnyrch, sydd wedi cynyddu o £42bn yn 2021 i £61bn yn 2022, sy'n dangos cryfder a hyblygrwydd y sector. Wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae cwmnïau awyrofod hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer y trawsnewidiad mwyaf arwyddocaol yn y sector ers oes y jet. Mae'r trawsnewidiad hwn yn cael ei sbarduno gan yr angen i sicrhau bod y maes hedfanaeth yn Sero Net erbyn 2050.

2.2.60 Bydd y cyfle am dwf sy'n gysylltiedig â'r trawsnewidiad hwn yn un na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae'r ATI yn amcangyfrif y bydd y farchnad fyd-eang ar gyfer darparu awyrennau yn 2050 yn £220 biliwn y flwyddyn, gydag awyrennau di-garbon yn cynrychioli cyfran o 41%. I gyflawni'r gyfran hon, disgwylir y bydd gwerth yr awyrennau di-garbon a ddarperir yn cynyddu ar 34% CAGR drwy'r 2040au.

2.2.61 Mae rhagolygon eraill ar gyfer y sector yn cynnwys 3.5% o dwf blynyddol am yr 20 mlynedd nesaf sy'n cyfateb i ddwywaith gymaint o bobl yn hedfan yn y cyfnod hwnnw. Mae'r gyfradd adfer ar gyfer awyrennau un eil yn gwella'n gyflymach, ond mae adroddiadau diweddar (haf 2022) yn awgrymu nad yw'r oedi rhwng adferiad hediadau pellter hir a rhai pellter byr mor eang a feddyliwyd yn wreiddiol.

2.2.62 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gwaith Awyrofod Cymru i hyrwyddo'r sector. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo sector awyrofod Cymru ymhlith cyrff cyllido posibl yn Llywodraeth y DU ac yn lobïo'n galed dros gefnogaeth barhaus i'r sector, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi i helpu i newid i sefyllfa Sero Net. Rydym hefyd wedi cefnogi'r broses o ddatblygu clwstwr atgyweirio, archwilio a chynnal a chadw er mwyn cydweithio i ennill rhagor o gontractau tramor.

2.2.63 Mae gofod yn sector bach ond yn tyfu yn y DU ac yng Nghymru. Mae gennym nifer o chwaraewyr o safon fyd-eang, gan gynnwys Airbus, Raytheon a Space Forge, y byddwn yn parhau i'w cefnogi a'u hyrwyddo. Mae ffigyrau diwydiannol allweddol yng Nghymru yn cadeirio Cyngor Arweinyddiaeth Gofod Cymru sydd ar waith i helpu i gydlynu gweithgarwch a manteisio ar strategaeth ofod y DU gyfan, gan ddatblygu ein strategaeth ofod ein hunain sy'n canolbwyntio ar gryfderau penodol.

2.2.64 Rydym yn bwrw ymlaen â chynlluniau i ddarparu Canolfan Ymchwil Technoleg Uwch wrth ymyl DECA yn safle Seland y Weinyddiaeth Amddiffyn yng Ngogledd Cymru. Bydd yn creu clwstwr technoleg ac arloesi lle bydd llywodraeth(au), diwydiant a'r byd academaidd yn cydgerdded â thechnolegau newydd arloesol yn y ganolfan ragoriaeth gyntaf o'i math yn y DU sy'n canolbwyntio ar amddiffyn. Yn ddieithriad mae gan dechnolegau o'r fath, a ddatblygir at ddibenion amddiffyn neu filwrol, ddefnydd sifil ehangach ac maent yn creu cyfleoedd masnachol a chyflogaeth tymor hir. Ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif y bydd ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno yn ystod haf 2023, gyda'r cyfleuster yn weithredol erbyn gwanwyn 2025. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad o hyd at £10m a gyhoeddwyd gan y Canghellor yn Natganiad yr Hydref i helpu i ddatblygu'r Ganolfan Ymchwil Technoleg Uwch. Mae swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddeall amserlenni, math o gyllid ac unrhyw delerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon. Y Weinyddiaeth Amddiffyn yw Adran arweiniol y Llywodraeth, ac mae'n trafod yr ymrwymiad cyllid â Thrysorlys y DU.

**Modurol**

2.2.65 Mae Brexit, Covid, y prinder lled-ddargludyddion ledled y byd a'r rhyfel yn Wcráin i gyd wedi creu pwysau tymor byr-canolig sylweddol ar ddiwydiant modurol Cymru. Mae'r sector wedi crebachu'n sylweddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ar ôl i ffatri injans

Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r ffatri Honda yn Swindon gau eu drysau. Ar hyn o bryd mae'r sector yng Nghymru yn cynnwys tua 150 o gwmnïau, sy'n gweithgynhyrchu cydrannau'n bennaf, ac yn cyflogi tua 11,000 o bobl. Yn benodol, mae gennym ddau wneuthurwr cerbydau arbenigol, AML a Riversimple, 35 o systemau haen un a gweithgynhyrchwyr cydrannau, gyda'r gweddill yn fusnesau bach a chanolig sy'n rhan o gadwyni cyflenwi JLR, Toyota a Nissan yn bennaf.

2.2.66 Ar y cyfan, mae sector modurol y DU yn arwain y ffordd i symud oddi wrth y peiriant tanio mewnol, er bod heriau seilwaith a thechnolegol yn gysylltiedig â'r trawsnewidiad hwn. Cafodd cyfanswm o 142k o geir newydd eu cofrestru yn y DU ym mis Tachwedd, sy'n 23.5% o gynnydd o un flwyddyn i'r llall. Roedd gwerthiant cerbydau trydan batri hefyd wedi cynyddu 35.2% ym mis Tachwedd, i tua 29k o unedau. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Fforwm Modurol Cymru i helpu ei aelodau i symud i gyfleoedd newydd gyda chadwyni cyflenwi sy'n ymwneud â thrydaneiddio. Ar hyn o bryd mae Fforwm Modurol Cymru yn cynnal ymarfer mapio Sero Net i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyn ac i ledaenu gwybodaeth am y farchnad yn fisol i'w aelodau.

2.2.67 Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn gallu cael gafael ar y cronfeydd perthnasol, gan gynnwys y rheini y mae'r Ganolfan Gyriant Uwch (APC) yn delio â nhw a'r gronfa Gyrru'r Chwyldro Trydan. Mae enghreifftiau'n cynnwys Meritor, cwmni peirianneg modurol yng Nghwmbrân, a dderbyniodd £31.9m gan yr APC ar gyfer prosiect cydweithredol i ddylunio a datblygu system pwerwaith trydan ar gyfer bysiau a lorïau trwm trydan. Derbyniodd DG Innovate Ltd (Deregallera Holdings Ltd gynt), yng Nghaerffili lawer o gyllid hefyd.

2.2.68 Yn y cyd-destun hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi llwyfan cadarnhaol a chefnogol i ddiwydiant modurol Cymru. Mae ymateb diweddar i bresenoldeb ffisegol cwmnïau yn sioe cerbydau carbon isel 22, lle'r oeddwn i'n brif siaradwr, yn dangos bod galw mawr am arbenigedd gweithgynhyrchu yng Nghymru. Os gall y sector fanteisio'n llawn ar y newid digidol a thechnolegol angenrheidiol, gyda chefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru, mae ganddo ddyfodol cadarn.

**Dur**

2.2.69 Mae datgarboneiddio'r diwydiant dur yn flaenoriaeth i'r sector. Mae rheoli'r gwahaniaeth sy'n parhau rhwng prisiau ynni diwydiannol y DU a chystadleuwyr Ewropeaidd yn hollbwysig os ydym am alluogi ein diwydiannau ynni-ddwys fel dur i fuddsoddi mewn technolegau datgarboneiddio.

2.2.70 Mae effaith bosibl polisïau datgarboneiddio ar gystadleurwydd diwydiannol yn gofyn am system gymorth gytbwys ar draws y DU, a rhaid i hyn ystyried heriau daearyddol unigryw rhanbarthau diwydiannol Cymru. Mae ein llwybr tuag at Gymru sero net yn heriol, ond bydd yn cynnig cyfleoedd i gael twf cynaliadwy a busnesau cryfach.

2.2.71 Mae gan Lywodraeth y DU rôl benodol i'w chwarae yn hyn o beth, gan mai Llywodraeth y DU sydd â llawer o'r pwerau i weithredu mewn meysydd allweddol sy'n ymwneud â datgarboneiddio sector dur y DU, gan gynnwys Dal, Defnyddio a Storio Carbon a/neu Hydrogen, Cludiant a Newid Tanwydd.

2.2.72 Yn ogystal â phwerau allweddol, mae gan Lywodraeth y DU hefyd yr adnoddau sydd eu hangen i helpu i drawsnewid y sector dur yn ogystal â diwydiannau ynni-ddwys eraill.

2.2.73 I sicrhau bod Cymru yn elwa o'r cymorth sydd ar gael, rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n codi i ddiwydiannau a busnesau

yng Nghymru o gynlluniau'r DU, gan gynnwys y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol. Celsa Steel yw un o'r cwmnïau yng Nghymru a lwyddodd i gael £3m o gymorth drwy'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol.

2.2.74 Mae busnesau Cymru yn gwneud cyfraniad anghymesur at y refeniw a gynhyrchir gan Gynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Hoffem gael rhagor o eglurder ynghylch sut mae refeniw o'r Cynllun Masnachu Allyriadau a mesurau eraill yn cael eu defnyddio i ariannu technolegau ac effeithlonrwydd ynni a fydd yn galluogi busnesau i newid i ddyfodol carbon is. Mae diffyg tryloywder yn ei gwneud yn anodd i ni amddiffyn mesurau i'r rheini sy'n eu hystyried yn drethi cosbol.

2.2.75 O ran cymorth i Tata, rwy'n dal i gwrdd yn rheolaidd â Tata Steel ar lefel uwch i ddeall teimladau diweddaraf y cwmni, ac rwy'n edrych ymlaen at drafod â Grant Shapps, Ysgrifennydd Gwladol BEIS, i ddeall ei safbwynt ynghylch cymorth i'r cwmni.

2.2.76 Rydym yn parhau i ymgorffori'r arferion gorau mewn prosesau caffael cyhoeddus ar gyfer dur lle bynnag y bo modd. Mae Nodyn Polisi Caffael Cymru, 'Caffael dur mewn prosiectau adeiladu a seilwaith mawr yng Nghymru', wedi cael ei gryfhau er mwyn cyd- fynd ymhellach â Siarter Dur y DU, drwy annog prosiectau yng Nghymru i ddefnyddio ac elwa o ddur o ansawdd da o Brydain lle bynnag y bo modd.

***Y dyraniadau i gyflawni Croeso i Gymru: blaenoriaethau ar gyfer yr economi* ymwelwyr 2020-25;**

2.2.77 Yn strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru, Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-25, yr uchelgais yw cynyddu twristiaeth er budd Cymru – ee, twf economaidd sy'n dod â manteision i bobl a lleoedd Cymru, cynaliadwyedd amgylcheddol a llesiant cymdeithasol a diwylliannol.

2.2.78 Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael ag amrediad manteision, annog mwy o wariant yn ein heconomi a delio â'r natur dymhorol drwy hyrwyddo Cymru fel cenedl y gallwch ymweld â hi drwy gydol y flwyddyn.

2.2.79 Mae £10.630m yn 2034-24 a 2024-25 wedi cael ei fuddsoddi i helpu i gyflawni'r flaenoriaeth hon.

***Strategaeth manwerthu***

2.2.80 Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar arferion defnyddwyr, gyda goblygiadau difrifol posibl i'r sector manwerthu. Bydd effaith anochel ar y manwerthwyr hynny sy'n masnachu nwyddau a gwasanaethau dewisol, wrth ystyried mai gwariant defnyddwyr ar eitemau dewisol sy'n debygol o gael eu haberthu gyntaf mewn unrhyw wasgfa ar gyllid personol.

2.2.81 Yn yr un modd, bydd disgwyliadau a phwysau ar y manwerthwyr hynny sy'n masnachu nwyddau a gwasanaethau hanfodol, o ystyried effaith prisiau uwch ar incwm aelwydydd.

2.2.82 O ran costau ynni, mae'r costau uwch i fusnesau yr un mor eithriadol a'r un mor arwyddocaol â'r rheini sy'n wynebu defnyddwyr. I rai manwerthwyr, os byddai eu biliau ynni yn cynyddu £20,000, byddai angen i'w gwerthiannau gynyddu bron i £100,000 er mwyn talu'r bil hwnnw. Mae costau uwch o ran cynnyrch a chyflogau yn dwysáu'r pwysau hwn. Rwy'n ymwybodol iawn nad oes atebion hawdd a chyflym, na chyllidebau di-ben-draw. Fodd bynnag, yr hyn sydd gennym yw parodrwydd i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol â Llywodraeth Cymru, cyflogwyr, cyrff sy'n cynrychioli busnesau ac undebau llafur yn gweithio gyda'i gilydd i ddeall ble rydym ni ar hyn o bryd, ble rydym ni

eisiau cyrraedd, a sut gallwn ni gyrraedd yno.

2.2.83 Y llynedd, gyda chefnogaeth y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, fe wnaethom sefydlu'r Fforwm Manwerthu i ddechrau'r sgwrs hon. Cyhoeddwyd ein Datganiad Sefyllfa ym mis Mawrth, a bydd Gweledigaeth Strategol ar y Cyd ar gyfer Manwerthu yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ddiwedd y mis (Mai) – gan amlinellu ein camau gweithredu hyd yma ochr yn ochr â'n dyheadau ar gyfer y dyfodol.

2.2.84 Fy mwriad felly, dros y misoedd nesaf, yw datblygu cynllun cyflawni, gan ystyried unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor yn dilyn ei ymchwiliad ei hun i'r maes Manwerthu (a Lletygarwch a Thwristiaeth).

***Dyraniadau i helpu busnesau a gweithwyr gyda'r broses o newid i sefyllfa Sero Net,* fel y rheini sy'n helpu i greu swyddi gwyrdd cynaliadwy, a'r rheini sy'n sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau angenrheidiol i wneud y swyddi hynny**

2.2.85 Cymru Sero Net yw cam nesaf ein taith, a'r cyntaf gyda'r targed sero net, gan weithio tuag at Gymru fwy gwyrdd, cryf a theg. Bydd ein dull gweithredu yn cadw'r swyddi presennol, yn creu cyfleoedd gwaith, ac yn helpu i sicrhau bod ein diwydiannau'n dal yn gystadleuol yn rhyngwladol. Ond, ni ellir gorbwysleisio'r heriau a fydd yn ein hwynebu yn y degawdau i ddod, a rhaid i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd i wireddu'r cyfleoedd sydd ar gael.

2.2.86 Ein gweledigaeth ni yw economi llesiant sy'n hybu ffyniant, yn amgylcheddol gadarn, ac yn helpu pawb i gyflawni eu potensial. Mae sicrhau proses deg o newid i ddyfodol carbon isel yn hollbwysig i Gymru. Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar sut gallwn ni adnewyddu Busnes Cymru i adlewyrchu ein blaenoriaethau ar gyfer Sero Net, sut gallwn ni flaenoriaethu cymorth i fusnesau sy'n cyfrannu fwyaf ar gyfer Cymru gyda'n Contract Economaidd, a sut gall Banc Datblygu Cymru sicrhau bod busnesau sy'n ceisio datgarboneiddio yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

2.2.87 Yn 2022 lansiodd Busnes Cymru ymgyrch Gweledigaeth Werdd i helpu busnesau i wella eu gwybodaeth am ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a'u dealltwriaeth o hynny. Mae'r ymgyrch yn annog busnesau i gymryd camau i leihau eu heffaith ar newid hinsawdd, ac mae'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru yng nghyswllt economi sero net. Roedd yr ymgyrch yn darparu cynnwys digidol newydd a hawdd ei ddefnyddio a digwyddiadau rhyngweithiol ar-lein, gan gynnwys cyfres o Siaradwyr Gwadd.

2.2.88 Mae'r Addewid Twf Gwyrdd yn rhan o'r cymorth arbenigol ar gynaliadwyedd sydd ar gael drwy Busnes Cymru, ac mae'n agored i bob busnes bach a chanolig yng Nghymru ym mha bynnag sector o ddiwydiant. Mae'n ffordd ymarferol i fusnesau ddangos yr effaith gadarnhaol maen nhw'n ei chael ar y bobl a'r lleoedd o'u cwmpas, ac i ymuno â chymuned sy'n prysur gynyddu o sefydliadau blaengar. Drwy ymrwymo i'r Addewid Twf Gwyrdd, mae pob busnes yn ymrwymo i un neu fwy o gamau gweithredu i'w helpu i leihau effaith neu i sicrhau perfformiad cynaliadwy. Mae busnesau hefyd yn cael pecyn cymorth ar gyfer marchnata sydd wedi'i ddylunio'n benodol i ddarparu gwybodaeth ymarferol, canllawiau a logos i helpu i hyrwyddo'r camau maen nhw wedi'u cymryd i ddatgarboneiddio a bod yn fwy cynaliadwy. Ers 2016, rydym wedi helpu 4,403 o fusnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol, gan gynnwys yr Addewid Twf Gwyrdd.

2.2.89 Mae adran newydd yn cael ei datblygu ar gyfer gwefan Busnes Cymru, er mwyn dod â chynnwys ac adnoddau at ei gilydd i helpu busnesau i leihau eu defnydd o adnoddau a chostau. Bydd yr adran hon yn ganolbwynt ar gyfer unrhyw gyngor a chefnogaeth i fusnesau yn y dyfodol. Disgwylir y bydd yr adran yn weithredol erbyn diwedd yr hydref.

2.2.90 Mae Ymgynghorwyr Tendro Busnes Cymru yn helpu busnesau i fod yn 'addas i dendro' er mwyn gwella eu siawns o ennill contractau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, i is-gontractio gwaith ar brosiectau mawr y sector cyhoeddus, ac i sicrhau eu lle ar fframweithiau'r sector cyhoeddus. Mae cyngor ar gael hefyd ar gyfleoedd tendro sydd ar y gweill a sut mae cydweithio i sicrhau contractau. Yn ogystal â hynny, mae'r ymgynghorwyr hefyd yn helpu busnesau i ddeall caffael yn y sector cyhoeddus, anghenion a disgwyliadau prynwyr, sut i wneud yn fawr o GwerthwchiGymru, gan gynnwys helpu i gofrestru ac i fireinio proffiliau.

2.2.91 Mae ein Contract Economaidd yn mynnu bod busnesau sy'n gofyn am fuddsoddiad gennym yn dangos pob un o'r canlynol fel gofyniad sylfaenol:

- Potensial i ddatblygu (sy'n cael ei fesur, er enghraifft, yn ôl cyfraniad at gyflogaeth, cynhyrchiant, neu effeithiau lluosydd drwy'r gadwyn gyflenwi).
- Gwaith Teg (fel y mae'n cael ei ddiffinio gan y Bwrdd Gwaith Teg).
- Hybu iechyd, gan gynnwys pwyslais arbennig ar iechyd meddwl, sgiliau a dysgu yn y gweithle.
- Cynnydd o ran lleihau ôl troed carbon.

2.2.92 I gael rhagor o wybodaeth, dylai busnesau gysylltu â Llinell Gymorth Busnes Cymru sy'n gallu archwilio unrhyw opsiynau cymorth sydd ar gael. Mae Llinell Gymorth Busnes Cymru ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10am a 4pm. Gallwch gysylltu â'r tîm drwy ffonio 03000 6 03000 neu drwy fynd i https://businesswales.gov.wales/cy/cysylltwch-a-ni

2.2.93 Mae rhaglenni SMART Cymru yn darparu cyllid a chyngor arbenigol i fusnesau er mwyn iddynt ddatblygu cynnyrch a phrosesau newydd sy'n arwain at ddatgarboneiddio. Mae gan y rhaglenni fynediad at amrywiaeth eang o fecanweithiau cyllid ar gyfer Ymchwil a Datblygu a gwella prosesau, ac maent hefyd yn cyflogi tîm o ymgynghorwyr dylunio a gweithgynhyrchu. Dylai unrhyw fusnes sy'n chwilio am gymorth ar gyfer Ymchwil a Datblygu sy'n ymwneud â datgarboneiddio yng Nghymru ddechrau drwy gysylltu â'u Harbenigwr Arloesi lleol.

2.2.94 Ar ben hynny, mae adnoddau sy'n ymwneud â Thechnoleg Dal Carbon a Dulliau Rheoli Tir ar gyfer Sero Net ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio.

2.2.95 Mae gwefan Busnes Cymru yn cynnwys adran cyllid i fusnesau sy'n cynnig gwybodaeth ac arweiniad arbenigol i helpu pobl i ddod o hyd i gyllid priodol, yn ogystal â chanfyddwr cyllid https://businesswales.gov.wales/businessfinance/cy.

2.2.96 Rydym yn gweithio gyda diwydiannau a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu dealltwriaeth o ba sgiliau a chymwysterau sydd eu hangen ar gyfer galwedigaethau wrth i ni symud i sefyllfa sero net. Ar 17 Hydref cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a minnau hwb sgiliau o £3 miliwn i'r sector digidol a'r sector gwyrdd, a oedd yn cynnwys buddsoddiad o £2m fel rhan o'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol i helpu unigolion i uwchsgilio neu ailsgilio mewn sgiliau sero net a mynd i'r afael â phrinder sgiliau i sicrhau bod anghenion yr economi yn y dyfodol yn cael eu diwallu.

2.2.97 Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau Sero Net yn y Flwyddyn Newydd. Bydd yn crynhoi'r sefyllfa bresennol o ran sgiliau sero net yng Nghymru, yng nghyd-destun ein 8 sector allyriadau, ac yn amlinellu camau gweithredu allweddol i helpu busnesau a dysgwyr i ddatblygu gweithlu medrus i sicrhau proses drawsnewid deg i

sefyllfa sero net.

2.2.98 Bydd ein buddsoddiad o £1.5m yn 23-24 ar gyfer y rhaglen Sgiliau Hyblyg hefyd yn cael ei ddefnyddio i ganolbwyntio ar feysydd polisi sgiliau allweddol Llywodraeth Cymru fel Sero Net a Sgiliau Digidol, lle mae bylchau sgiliau wedi'u nodi yng Nghymru. Mae hyn yn galluogi gweithwyr i gael y sgiliau angenrheidiol i fusnesau newid i sefyllfa Sero Net, gan greu swyddi gwyrdd cynaliadwy, ac yn rhoi cyfle i fusnesau yng Nghymru gael gafael ar y sgiliau digidol sydd eu hangen arnynt er mwyn gallu arloesi, gwella a datblygu.

2.2.99 Bydd y buddsoddiad Prentisiaeth o £140m yn 2023-24 yn dal i helpu i ddatblygu sgiliau Sero Net er mwyn ateb y galw sy'n deillio o fuddsoddiad y llywodraeth mewn prosiectau seilwaith, gofynion rheoleiddio a datgarboneiddio tai, yn unol â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i adolygu cynnwys fframweithiau a llwybrau prentisiaeth, gan ganolbwyntio ar ddatblygu ac addasu'r prentisiaethau hynny sy'n cefnogi ein nodau sero net a chynaliadwyedd.

***Manylion dyraniadau cyllideb sy'n ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru ar weithio* o bell, gan gynnwys unrhyw ddyraniadau ar gyfer canolfannau rhannu mannau gwaith**

2.2.100 Nid yw'r gyllideb ar gyfer y polisi gweithio o bell wedi'i nodi ar wahân yng nghyllideb yr Economi. Fodd bynnag, oherwydd inni ddod â rhwydwaith prawf o ganolfannau at ei gilydd – a nodwyd yn y Datganiad i'r wasg – Lleoliadau gweithio o bell – am gost isel iawn neu heb unrhyw gost, rydym yn disgwyl y bydd y gwariant yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddarparu offer galluogi, fel llwyfan digidol ar gyfer gwybodaeth ac archebu. Bydd y rhain hefyd yn rhai isel eu cost, ac yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd masnachol yn y dyfodol, felly rydym yn disgwyl i'r costau gael eu rheoli fel pwysau yn ystod y flwyddyn.

2.2.101 Mae ein rhaglen Trawsnewid Trefi yn darparu bron i £136m i helpu i gefnogi adferiad economaidd a chymdeithasol canol ein trefi a'n dinasoedd. Mae gennym hefyd gynlluniau uchelgeisiol i helpu pobl i weithio'n glyfar ac o bell yng Nghymru. Rydym yn treialu cyfres o ganolfannau gweithio o bell yn y gymuned, gan annog pobl i weithio'n nes at adref a denu pobl yn ôl i ganol trefi.

## Sgiliau a Chyflogadwyedd

***Cyfanswm y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc yn 2023/24.***

2.2.102 Yn fy Natganiad ar 12 Gorffennaf 2022, rhoddais yr wybodaeth ddiweddaraf am bwysigrwydd y Warant i Bobl Ifanc er mwyn sicrhau dyfodol gwell i'n pobl ifanc ac effaith cyllid a gefnogir ar draws y llywodraeth, yn enwedig MEG Addysg a'r Gymraeg.

***Lefel y cyllid y bwriedir ei ddefnyddio i gyflwyno Cyfrifon Dysgu Personol yn 2023-24.***

2.2.103 Bydd MEG Addysg a'r Gymraeg yn cynnal cyllid Cyfrifon Dysgu Personol ar yr un lefelau â 2022-23, sef £17.89m. Y bwriad yw y bydd dyraniad y cyllid hwn yn dal yn £15m o ddyraniad craidd, gyda'r gweddill fel ymyriadau wedi'u targedu. O'r ffigur hwn, mae £1m eisoes wedi cael ei glustnodi i gefnogi'r cynllun peilot Sero Net.

***Rhestr wedi'i chydgrynhoi o'r holl raglenni cyflogadwyedd a ariennir gan BEL Sgiliau, gan gynnwys: Y cleientiaid / buddiolwyr y bwriedir i bob rhaglen eu cyrraedd;***

***A ydynt yn rhan o gynllun 'ambarél' ehangach (hynny yw, y Warant i Bobl Ifanc)***

***Rhestr yn enwi'r prif ddarparwyr ar gyfer pob un o'r rhaglenni, gan gynnwys eu gwerthoedd contract ar gyfer 2023-24.***

2.2.104 Mae manylion y rhaglenni cyflogadwyedd wedi'u cynnwys yn **Atodiad C**.

**<u>Dysgu Seiliedig ar Waith – Prentisiaethau</u>**

***Gwir alldro 2021-22 ac alldro rhagolygol 2022-23 ar gyfer y rhaglen prentisiaethau a'r* rhaglen hyfforddeiaethau**

2.2.105 Alldro gwirioneddol 2021-22 ar gyfer y rhaglen Hyfforddeiaethau oedd £25.5m (gan gynnwys £1.2m o gronfeydd yr UE). Daeth y Rhaglen Hyfforddeiaethau i ben ddiwedd 2021-22. Alldro gwirioneddol 2021-22 ar gyfer y rhaglen Prentisiaethau oedd £147.6m (gan gynnwys £31.9m o gronfeydd yr UE). Yr alldro posibl ar gyfer y rhaglen hon yn 2022-23 yw £160m (gan gynnwys £18.8m o gronfeydd yr UE).

***Manylion unrhyw drosglwyddiadau o Gam Gweithredu Dysgu Seiliedig ar Waith 2023-* 24 i ariannu Gradd-brentisiaethau**

2.2.106 Mae Cyllideb Ddrafft 2023-24 yn bwriadu trosglwyddo £9m i CCAUC i gefnogi Gradd-brentisiaethau. Rhagwelir y bydd £4m yn cael ei drosglwyddo o MEG yr Economi i MEG Addysg a'r Gymraeg fel rhan o broses y gyllideb atodol yn ystod y flwyddyn. Mae'n werth nodi bod £5m wedi cael ei ddyrannu i gefnogi Gradd-brentisiaethau yn BEL CCAUC (4620) ym mhortffolio Addysg a'r Gymraeg.

***Manylion unrhyw gyllid a ddefnyddiwyd yn 2022-23 ac a ragwelir a fydd yn cael ei* ddefnyddio yn 2023-24 i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd ac i adolygu'r fframweithiau prentisiaeth presennol.**

2.2.107 Rydym yn comisiynu fframweithiau prentisiaeth newydd a diwygiedig drwy drefniadau contractio gyda Skills Development Scotland (SDS). I sicrhau bod y ddarpariaeth prentisiaeth yn dal yn gyfredol ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr yng Nghymru, dyrannwyd £190,000 yn 2022-23 ar gyfer datblygu fframweithiau prentisiaeth. Bydd adolygiad yn cael ei gomisiynu o'r fframweithiau Modurol, Cludiant a Logisteg, Technoleg Ddigidol, Peirianneg, Gwallt a Harddwch, Manwerthu, a Theithio a Thwristiaeth; ac £20,000 ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg.

2.2.108 Yn ychwanegol at hynny, mae Partneriaid Datblygu cydnabyddedig hefyd yn gallu datblygu ac adolygu fframweithiau. Yn 2022-23, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i fframweithiau yn y sectorau Gofal Iechyd ac Adeiladu gael eu datblygu a'u hadolygu, heb i hynny fod drwy gomisiwn. Yn 2023-24, bydd y rhain yn cael eu datblygu gydag adolygiadau fframwaith ychwanegol yn y sectorau canlynol: Busnes a Rheolaeth, Peirianneg a Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Gwasanaethau Addysg a Gwybodaeth, a Gwaith Chwarae.

2.2.109 Dyrannwyd cyfanswm o £55,000 ar gyfer gweithgarwch cydraddoldeb a £30,000 ar gyfer cefnogaeth dechnegol i'r Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag i asesu ailstrwythuro'r economi, yn enwedig ymgysylltu'n well â phobl ifanc 16-24 oed sy'n gwneud hyfforddiant galwedigaethol.

2.2.110 Mae'r gyllideb hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwaith ymchwil gwerth £255,000 i helpu i newid pwyslais y system sgiliau yng Nghymru er mwyn llunio strategaeth dysgu

gydol oes, gan gefnogi cyflogaeth ac arloesi corfforaethol. Disgwylir y bydd y gwaith ymchwil wedi'i gwblhau erbyn canol 2023.

***Manylion yr holl gamau gweithredu a chyfyngiadau rheoli'r galw sydd ar waith i reoli'r* galw am brentisiaethau, neu a fydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer y rhaglen prentisiaethau yn ystod 2023-24**

2.2.111 Mae'r broses o ddarparu'r rhaglen prentisiaethau yn seiliedig ar flaenoriaethau'r sector, a bennir ar gyfer ein rhwydwaith darparwyr ym mhob blwyddyn gontract. Mae'r rhwydwaith darparwyr yn ymateb i anghenion y farchnad yn unol â'r blaenoriaethau hyn ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

2.2.112 Mae blaenoriaethau'r sector yn seiliedig ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, gwybodaeth am y farchnad lafur a rhyngweithio â chyrff y sector. Mae'r blaenoriaethau presennol yn cynnwys: Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal y Blynyddoedd Cynnar; Technoleg Ddigidol a Thechnoleg Gwybodaeth; a sectorau a galwedigaethau Sero Net, gan gynnwys ynni, tai, ynni adnewyddadwy a thrafnidiaeth. Mae Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) a sectorau a galwedigaethau technegol yn dal yn flaenoriaeth drawsbynciol, sy'n cefnogi ein blaenoriaethau ehangach.

2.2.113 Yn unol â'r Warant i Bobl Ifanc ac i gydnabod bod y dirywiad economaidd yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, rydym yn blaenoriaethu'r ddarpariaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed. Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod y Rhaglen Prentisiaethau yn addas i bobl o bob oed, ac yn croesawu pawb dros 25 oed sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd.

2.2.114 Roedd ein Cynllun Gweithredu ar Brentisiaethau (2017) yn dangos ein bwriad i symud y rhaglen Prentisiaethau tuag at gefnogi newydd-ddyfodiaid a gweithwyr sy'n gymharol newydd yn eu swydd. Roedd hefyd yn nodi'r angen i symud oddi wrth brentisiaethau cyffredinol tuag at y rheini sy'n benodol i sector.

2.2.115 Ein hagwedd gyffredinol yw bod gweithwyr (ac eithrio unigolion anabl) yn anghymwys ar gyfer Prentisiaeth lefel 2 os ydyn nhw wedi cael eu cyflogi yn yr un swydd ers mwy na 6 mis, ac mae'r rheini sydd wedi cael eu cyflogi ers mwy na 12 mis yn anghymwys ar gyfer Prentisiaeth lefel 3 hefyd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y rheini sy'n ymuno â'r rhaglen yn gallu manteisio'n llawn ar y cyfleoedd uwchsgilio y mae'r Rhaglen yn eu darparu, ac yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau gwerth am arian. Nid oes cyfyngiad ar hyd cyflogaeth ar gyfer dysgwyr sydd am wneud prentisiaeth lefel 4/5. Nid ydym chwaith wedi cyfyngu ar y prentisiaethau cyffredinol sydd ar gael i ddysgwyr anabl neu sy'n newydd i fyd gwaith.

2.2.116 Fodd bynnag, nid yw gweithwyr yn y grŵp oedran sy'n cael blaenoriaeth, sef 16-24 oed, yn cael eu hystyried yn anghymwys ar gyfer prentisiaeth ar sail hyd eu cyflogaeth yn eu swydd bresennol. Yr unig eithriadau fydd y prentisiaethau Lefel 2/3 hynny sydd wedi cael eu dynodi'n rhai cyffredinol, er enghraifft Gweinyddu Busnes, Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid, Arwain Tîm a Defnyddwyr TG, gan mai dim ond i recriwtiaid newydd y bydd y rhain ar gael. Bydd y trefniadau llacio hyn yn cael eu hadolygu ymhellach, ond byddan nhw'n berthnasol tan ddiwedd mis Gorffennaf 2023 o leiaf.

2.2.117 Mae'r Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr yn canolbwyntio ar helpu prentisiaid anabl i gael swydd a hyfforddiant. Bydd y Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr yn helpu i gynyddu cyfranogiad y grŵp hwn sydd o dan anfantais, a bydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein targed i ddileu'r bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gyda phwyslais ar Waith Teg a chynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur ymysg grwpiau sydd

heb gynrychiolaeth ddigonol. Ar ben hynny, rydym hefyd yn darparu cymorth yn y gwaith ar gyfer y garfan hon i sicrhau eu bod yn cael digon o gefnogaeth i gwblhau eu rhaglen brentisiaeth.

2.2.118 Mae darpariaeth Cyfrwng Cymraeg / Ddwyieithog yn cael ei thargedu, ac mae disgwyl i 50% o'r dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf sy'n dechrau ar brentisiaeth yn y sectorau Gofal Iechyd, Adeiladu ac Amaethyddiaeth ymgymryd â'u holl brentisiaeth, neu ran ohoni, drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni nodau Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.

2.2.119 Ar hyn o bryd rydym yn cydlunio ein meini prawf cymhwysedd ar gyfer blwyddyn gontract 2023/24 gyda'r rhwydwaith darparwyr prentisiaethau. Bydd y broses hon yn parhau yn y Flwyddyn Newydd, a defnyddir llythyrau comisiwn contract i gyfathrebu yn ei chylch.

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

### *Manylion y cyllid a'r pwrpas*

2.2.120 Rydym yn dal i weithio'n agos gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol sydd â'r rôl benodol o ymgysylltu â rhwydweithiau cyflogwyr, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, a rhanddeiliaid eraill i nodi blaenoriaethau rhanbarthol a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru sydd, yn ei thro, yn cyfrannu at benderfyniadau ynghylch cyllid ar gyfer sgiliau a chyfeiriad polisi sgiliau yn y dyfodol. Mae pob Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn derbyn £0.29m y flwyddyn i gefnogi'r gwaith hwn.

2.2.121 Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cwblhau cynlluniau cyflogaeth a sgiliau newydd ar gyfer 2022-25, ar sail gwybodaeth sy'n cael ei harwain gan gyflogwyr. Disgwylir i'r cynlluniau hyn gael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn a'u cyhoeddi ar wefannau'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Ar ben hynny, bydd Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn darparu gwybodaeth am y farchnad lafur i gefnogi ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys Sgiliau Digidol, y Gymraeg, Sero Net a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

2.2.122 Amcangyfrifir dyraniad pellach o £0.08m i gyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 er mwyn parhau â'r gwaith ymgysylltu gyda phartneriaid cyflawni, wrth i Gymru newid i gyd-destun cyllid ar ôl gadael yr UE.

### *Manylion unrhyw gyllid arall y bwriedir iddo gefnogi'r gwaith o weithredu* **Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ond nad yw'n cael ei ddyrannu iddynt yn uniongyrchol**

2.2.123 Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gyllid arall i gefnogi gweithrediad y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

## Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

### *Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2023-24 y bwriedir iddo ariannu pum blaenoriaeth* **Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil ac arloesi yng Nghymru;**

2.2.124 Bydd y strategaeth arloesi yn cael ei lansio ddechrau 2023, a bydd yn cynnwys rhagor o fanylion am ein blaenoriaethau ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi a'n hymrwymiadau cyllid.

2.2.125 Mae cyllideb o £35m ar gyfer Ymchwil ac Arloesi wedi cael ei chlustnodi yn y gyllideb, ac mae wedi'i rhannu fel a ganlyn: £10m ar gyfer 2022-23, £10m ar gyfer 2023- 24 a £15m ar gyfer 2024-25.

2.2.126 Rydym yn cwblhau Cam 2 Sêr Cymru ar hyn o bryd. Bydd Cam 3 Sêr Cymru yn cael ei lansio cyn bo hir yn 2023-24, ac yn parhau yn 2024-25.

2.2.127 Mae'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu yn y gyllideb hon i gefnogi Arloesi wedi'i amlinellu isod.

| | Cyllideb Derfynol 21/22 £'000 | Cyllideb Ddrafft 22/23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 23/24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 24/25 £'000 | Cyfanswm y Gyllideb £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | 4,066* | 5,000 | 5,000 | 10,000 | 20,000 |
| Refeniw | 604** | 604 | 604 | 300 | 1,508 |

* Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli cyllid craidd Llywodraeth Cymru yn unig – nid yw'n cynnwys cyllid yr UE ar gyfer y rhaglenni SMART a oedd tua £20m y flwyddyn.

** O'r gyllideb Refeniw, mae £0.304m ym mlynyddoedd 22/3 a 23/4 yn cynrychioli costau gorbenion y Corff Cyfryngol sydd eu hangen i weinyddu a monitro Cronfeydd Strwythurol a grantiau ehangach yr UE. Mae'r elfen hon yn dod i ben yn 2024/25, gyda phwyslais o'r newydd ar fynediad at gyllid Innovate UK, er enghraifft.

2.2.128 Mae'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu yn y gyllideb hon i gefnogi Gwyddoniaeth wedi'i amlinellu isod.

| | Cyllideb Derfynol 21/22 £'000 | Cyllideb Ddrafft 22/23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 23/24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 24/25 £'000 | Cyfanswm y Gyllideb £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | 4,874 | 5,000 | 5,000 | £5,000 | £15,000 |
| Refeniw | 1,350 | 1,350 | 1,200 | 1,200 | 3,750 |

***Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2023-24 y bwriedir iddo ariannu Strategaeth Arloesi Cymru.***

2.2.129 Fel yr amlinellir uchod, bydd unrhyw gostau allanol sy'n ymwneud ag ymgynghori, cyhoeddi a marchnata yng nghyswllt y Strategaeth Arloesi yn cael eu talu o'r BEL Arloesi ar gyfer Busnes. Nid oes cyllideb wedi'i neilltuo i ariannu'r Strategaeth Arloesi newydd ym mlwyddyn ariannol 23-24. Yn hytrach, mae'r gyllideb yn cynrychioli cyfuniad o ymrwymiadau parhaus, rhaglenni a phrosiectau cyfredol a chynigion newydd o fyd busnes, y byd academaidd, y trydydd sector ac ati, a fydd yn cael eu hasesu yn unol â'r blaenoriaethau a'r canlyniadau a ddymunir yn y Strategaeth.

***Manylion y cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi ar draws Llywodraeth* Cymru.**

2.2.130 Ar hyn o bryd, mae sawl rhan wahanol o Lywodraeth Cymru yn gweithredu gydag amcanion polisi penodol (gan wasanaethu o leiaf bum Gweinidog gwahanol) sy'n rhoi sylw i themâu polisi Ymchwil a Datblygu, Arloesi, Addysg Drydyddol (gan gynnwys

Sgiliau) a Gwyddoniaeth. Nid oes unrhyw arweiniad cyffredinol o ystyried anghenion ac amcanion gwahanol ac unigol y Gweinidogion perthnasol sy'n gweithredu lefelau o gymorth ar gyfer Ymchwil ac Arloesi. Fodd bynnag, bydd y Strategaeth Arloesi sydd ar y gweill yn ceisio defnyddio buddiannau wrth symud ymlaen i helpu i gael mwy o dryloywder.

**Masnach**

***Manylion unrhyw gymorth ariannol ar gyfer masnach, gan gynnwys hyrwyddo,* cynorthwyo busnesau neu fuddsoddi mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â masnach**

2.2.131 Fel rhan o'r gyllideb hon, rydym wedi dyrannu £4.192m i gefnogi'r cynllun Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi.

2.2.132 Mae'r gyllideb yn cefnogi ein hymdrechion i hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer mewnfuddsoddi, sy'n ymrwymiad allweddol yn y Strategaeth Ryngwladol a'r Genhadaeth Economaidd. Mae'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar fuddsoddiad sy'n cael ei arwain gan gyfleoedd, ac ar y rhannau hynny o'r economi lle gall Cymru ddangos gallu o safon ryngwladol, gan gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol, seiberddiogelwch, ynni'r môr, agweddau penodol ar wyddor bywyd fel meddygaeth aildyfu, niwrowyddorau a thechnoleg feddygol; a phrosesau gweithgynhyrchu'r genhedlaeth nesaf, yn enwedig ar draws yr agenda symudedd.

2.2.133 Fel rhan o hyn, mae rhaglen ymgysylltu helaeth yn cael ei rhoi ar waith gyda'n swyddfeydd tramor, rhwydweithiau ehangach, clystyrau diwydiant hollbwysig a rhanddeiliaid ein hunain i godi proffil cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys mynd i ddigwyddiadau a nawdd, gweithgarwch seminar pwrpasol, creu cynnwys newyddiadurol ac ymgysylltu'n uniongyrchol â chwmnïau ledled y byd. Mae angen llenwi ffurflenni gwerthuso ar gyfer unrhyw weithgarwch a ariennir, er mwyn sicrhau bod allbynnau'n cael eu cofnodi.

***Y dyraniadau ariannol i gyflawni'r 'Cynllun Gweithredu Allforio i Gymru'***

2.2.134 Mae'r £4m o gyllid a ddyrannwyd i gyflawni'r Cynllun yn sicrhau bod gennym ni amrywiaeth gynhwysfawr o raglenni allforio i helpu busnesau gyda'u taith allforio – o ysbrydoli busnesau i allforio; meithrin y gallu i allforio; dod o hyd i gwsmeriaid tramor; a chyrraedd marchnadoedd tramor. Fodd bynnag, mae'r gofynion newydd ar gyfer busnesau wrth fasnachu â'r UE (ein partner masnachu mwyaf); effeithiau parhaus COVID-19 (sy'n amrywio mewn gwahanol farchnadoedd tramor), a phroblemau byd- eang eraill, gan gynnwys y rhyfel yn Wcráin, yn dal i effeithio ar fasnach ryngwladol. Roedd yr adroddiad ystadegau dros dro diweddaraf ar allforio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 yn dangos mai £18.4 biliwn oedd gwerth y nwyddau a gafodd eu hallforio o Gymru, sy'n fwy na thraean o gynnydd wrth gymharu â'r cyfnod blaenorol o 12 mis, a £0.7 biliwn yn fwy wrth gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2019, sy'n dangos bod lefelau allforion nwyddau yn well na'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Dylid nodi, fodd bynnag, bod gwerth allforion nwyddau Cymru yn llawer is o bosibl nag y byddent wedi bod heb yr heriau byd-eang hyn. Felly, bydd y cyllid yn cynnal ein pwyslais ar barhau i sbarduno cynnydd pellach yn allforion Cymru.

***Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2023-2024 a fwriedir ar gyfer datblygu* porthladdoedd rhydd yng Nghymru**

2.2.135 Nid oes unrhyw ddyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 ar gyfer Porthladdoedd Rhydd. Bydd unrhyw gyllid a roddir i'r Porthladd Rhydd llwyddiannus yn ystod y cyfnod

hwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU.

2.2.136 Mae hyn yn debygol o gynnwys trosglwyddo hyd at £1m o gyllid refeniw i Lywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei ddarparu i'r porthladd rhydd llwyddiannus i'w helpu i ddatblygu achosion busnes amlinellol a therfynol.

***Manylion unrhyw gyllid yn ystod 23-24 a fwriedir ar gyfer datblygu, adeiladu a* chostau rhedeg cysylltiedig Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru.**

2.2.137 Mae'r cynnydd i ddatblygu Safleoedd Rheoli Ffiniau priodol yng Nghymru wedi cael ei lesteirio o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i adolygu'r Model Gweithredu Targed ar gyfer ffiniau, fel y cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022.

2.2.138 Gyda digwyddiadau yn San Steffan, mae'r cynigion terfynol ar gyfer y Model Gweithredu Targed wedi cael eu gohirio ac ni ddisgwylir iddynt gael eu cyhoeddi tan ar ôl y Nadolig, yn groes i'r disgwyliad blaenorol sef diwedd hydref 2022. Heb Fodel Gweithredu Targed y cytunwyd arno, does dim modd penderfynu'n derfynol ar Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru. Yn unol â'r Datganiad o Bolisi Ariannu'r DU, dylai cyfleusterau'r Safleoedd Rheoli Ffiniau gael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth y DU, gan fod y costau wedi deillio o bolisi Llywodraeth y DU i Ymadael â'r UE. Rydym yn disgwyl, felly, y bydd Llywodraeth y DU yn darparu'r holl gyllid angenrheidiol sydd ei angen i sicrhau nad oes baich ariannol ar Lywodraeth Cymru.

2.2.139 Mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi ymrwymo o'r blaen i ariannu'r costau adeiladu angenrheidiol. Yn sgil hynny, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth ar gyfer y costau hyn yn ein cyllideb ar gyfer 2023-24.

2.2.140 Fel rydym eisoes wedi egluro, nid yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i dalu'r costau rhedeg, gan gynnwys y costau i sefydlu'r trefniadau. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai dalu'r costau hyn hefyd.

2.2.141 Rydym yn parhau â'n trafodaethau â Thrysorlys Ei Fawrhydi, gan gynnwys ceisio cael ad-daliad o'n costau ar gyfer 2022-23 yn ôl Amcangyfrifon Atodol y DU, ac rydym yn disgwyl penderfyniad cyn bo hir. Mae'r prif gostau yn 2022-23 yn ymwneud â gwaith dylunio Safle Rheoli'r Ffin yng Nghaergybi. Rydym wedi egluro o'r blaen na fydd penderfyniadau ynghylch y cyfleusterau sydd eu hangen i wasanaethu porthladdoedd sir Benfro yn cael eu gwneud nes bydd y Model Gweithredu Targed wedi cael sêl bendith.

## Crynodeb

2.2.142 Cyflwynir Cyllideb Ddrafft MEG yr Economi ar gyfer 2023-24 i'r Pwyllgor ei hystyried.

**Vaughan Gething**
**Gweinidog yr Economi**

# Papur 04a – Atodiad A – Llinell Wariant y Gyllideb – Prif Grwp Gwariant yr Economi

| ADNODDAU | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | | **Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth 2022** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhagfyr 2022** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2022** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 Rhagfyr 2022** |
| | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes | | 12,298 | 10,548 | -1,088 | 9,460 | 10,548 | -1,088 | 9,460 |
| Busnes Cymru | | 17,116 | 26,559 | | 26,559 | 22,463 | | 22,463 |
| Y Cymoedd Technoleg | | 2,250 | 2,025 | | 2,025 | 2,025 | | 2,025 |
| Tasglu'r Cymoedd | | 100 | 100 | | 100 | 100 | | 100 |
| Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi | | 4,692 | 4,692 | -500 | 4,192 | 4,692 | -500 | 4,192 |
| **Cam Gweithredu:** | **Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol** | **36,456** | **43,924** | **-1,588** | **42,336** | **39,828** | **-1,588** | **38,240** |
| Seilwaith Eiddo | | 6,868 | 6,868 | | 6,868 | 6,868 | | 6,868 |
| **Cam Gweithredu:** | **Datblygu Seilwaith Economaidd** | **6,868** | **6,868** | **0** | **6,868** | **6,868** | **0** | **6,868** |
| Cymru Iach ar Waith | | 831 | 563 | -563 | 0 | 563 | -563 | 0 |
| Gwasanaethau a Rhaglenni Corfforaethol | | 861 | 861 | -121 | 740 | 861 | -121 | 740 |
| Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu | | 200 | 200 | | 200 | 200 | | 200 |
| **Cam Gweithredu:** | **Rhaglenni Corfforaethol** | **1,892** | **1,624** | **-684** | **940** | **1,624** | **-684** | **940** |
| Prentisiaethau | | 117,033 | 122,033 | 18,000 | 140,033 | 127,033 | 18,000 | 145,033 |
| **Cam Gweithredu:** | **Prentisiaethau** | **117,033** | **122,033** | **18,000** | **140,033** | **127,033** | **18,000** | **145,033** |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc | | 90,936 | 85,936 | -2,178 | 83,758 | 100,336 | -1,536 | 98,800 |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc, nad yw'n arian parod | | 1,400 | 1,400 | 0 | 1,400 | 1,400 | 0 | 1,400 |
| Cymunedau am Waith | | 3,972 | 8,972 | 14,062 | 23,034 | 3,972 | 14,062 | 18,034 |
| Cymunedau am Waith – Nad yw'n arian parod | | 36 | 36 | 5 | 41 | 36 | -36 | 0 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cyflogadwyedd – Gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc** | **96,344** | **96,344** | **11,889** | **108,233** | **105,744** | **12,490** | **118,234** |
| Arloesi ym myd Busnes | | 604 | 604 | 0 | 604 | 300 | 0 | 300 |
| **Cam Gweithredu:** | **Arloesi** | **604** | **604** | **0** | **604** | **300** | **0** | **300** |
| Gwyddoniaeth | | 1,350 | 1,350 | -150 | 1,200 | 1,350 | -150 | 1,200 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwyddoniaeth** | **1,350** | **1,350** | **-150** | **1,200** | **1,350** | **-150** | **1,200** |
| Twristiaeth | | 11,962 | 10,762 | -132 | 10,630 | 10,762 | -132 | 10,630 |
| Digwyddiadau Cymru | | 4,718 | 4,718 | -52 | 4,666 | 4,718 | -52 | 4,666 |

| ADNODDAU | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | | Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth 2022 | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022 | Newid | Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhagfyr 2022 | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2022 | Newid | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 Rhagfyr 2022 |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Cam Gweithredu:** | **Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd** | **16,680** | **15,480** | **-184** | **15,296** | **15,480** | **-184** | **15,296** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | | 32,408 | 33,023 | 282 | 33,305 | 34,139 | -149 | 33,990 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru – Nad yw’n arian parod | | 119 | 119 | 0 | 119 | 119 | 0 | 119 |
| Amgueddfa Cymru | | 25,086 | 25,573 | 1,302 | 26,875 | 26,543 | 1,606 | 28,149 |
| Amgueddfa Cymru – Nad yw'n arian parod | | 2,400 | 2,400 | 0 | 2,400 | 2,400 | 0 | 2,400 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | | 11,060 | 11,270 | 549 | 11,819 | 11,651 | 700 | 12,351 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru – Nad yw’n arian parod | | 1,250 | 1,250 | 0 | 1,250 | 1,250 | 0 | 1,250 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | | 5,217 | 6,167 | 262 | 6,429 | 8,567 | 16 | 8,583 |
| Cymru Greadigol | | 7,038 | 7,138 | -19 | 7,119 | 7,188 | -19 | 7,169 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i Ddiwylliant a’r Celfyddydau** | **84,578** | **86,940** | **2,376** | **89,316** | **91,857** | **2,154** | **94,011** |
| Cadw | | 8,301 | 8,503 | 703 | 9,206 | 8,880 | 633 | 9,513 |
| Cadw – Nad yw'n arian parod | | 5,480 | 5,480 | 0 | 5,480 | 5,480 | 0 | 5,480 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | | 594 | 594 | -7 | 587 | 594 | -7 | 587 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | | 1,654 | 1,685 | 42 | 1,727 | 1,741 | 74 | 1,815 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru – Nad yw’n arian parod | | 134 | 134 | 0 | 134 | 134 | 0 | 134 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i’r Amgylchedd Hanesyddol** | **16,163** | **16,396** | **738** | **17,134** | **16,829** | **700** | **17,529** |
| Chwaraeon Cymru | | 21,967 | 22,533 | 504 | 23,037 | 23,289 | 122 | 23,411 |
| Chwaraeon Cymru – Nad yw'n arian parod | | 779 | 779 | 0 | 779 | 779 | 0 | 779 |
| **Cam Gweithredu:** | **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **22,746** | **23,312** | **504** | **23,816** | **24,068** | **122** | **24,190** |
| Cymorth i Raglenni | | 1,707 | 1,707 | 0 | 1,707 | 1,707 | 0 | 1,707 |
| **Cam Gweithredu:** | **Rheoli Cyllid Ewropeaidd** | **1,707** | **1,707** | **0** | **1,707** | **1,707** | **0** | **1,707** |
| **MEG:** | **YR ECONOMI** | **402,421** | **416,582** | **30,901** | **447,483** | **432,688** | **30,860** | **463,548** |

| YR ECONOMI | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFALAF | | | | | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | | **Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth 2022** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhagfyr 2022** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2022** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 Rhagfyr 2022** |
| | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes | | 30,230 | 26,850 | 0 | 26,850 | 22,650 | 0 | 22,650 |
| Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes – Ad-daliad | | -2,792 | -14,312 | 0 | -14,312 | -1,487 | 0 | -1,487 |
| Y Cymoedd Technoleg | | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol** | **32,438** | **17,538** | **0** | **17,538** | **26,163** | **0** | **26,163** |
| Cronfeydd Cyllid Busnes | | 5,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | 15,000 | 0 | 15,000 |
| Cronfeydd Cyllid Busnes – Ad-daliad | | -24,400 | 0 | 0 | 0 | -46,400 | 0 | -46,400 |
| **Cam Gweithredu:** | **Banc Datblygu Cymru** | **-19,400** | **10,000** | **0** | **10,000** | **-31,400** | **0** | **-31,400** |
| Seilwaith Eiddo | | 10,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| Seilwaith Eiddo – Ad-daliad | | -290 | -290 | 0 | -290 | -290 | 0 | -290 |
| **Cam Gweithredu:** | **Datblygu Seilwaith Economaidd** | **9,710** | **9,710** | **0** | **9,710** | **9,710** | **0** | **9,710** |
| Cyflogadwyedd – Gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc | | 1,920 | 2,000 | 0 | 2,000 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cyflogadwyedd – Gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc** | **1,920** | **2,000** | **0** | **2,000** | **2,000** | **0** | **2,000** |
| Arloesi ym myd Busnes | | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Arloesi** | **5,000** | **5,000** | **0** | **5,000** | **10,000** | **0** | **10,000** |
| Gwyddoniaeth | | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Gwyddoniaeth** | **5,000** | **5,000** | **0** | **5,000** | **5,000** | **0** | **5,000** |
| Twristiaeth | | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd** | **5,000** | **5,000** | **0** | **5,000** | **5,000** | **0** | **5,000** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | | 400 | 400 | 0 | 400 | 400 | 0 | 400 |
| Amgueddfa Cymru | | 4,500 | 5,000 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | | 2,500 | 2,000 | 0 | 2,000 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | | 11,700 | 21,500 | 0 | 21,500 | 24,700 | 0 | 24,700 |
| Cymru Greadigol | | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i Ddiwylliant a'r Celfyddydau** | **24,100** | **33,900** | **0** | **33,900** | **37,100** | **0** | **37,100** |
| Cadw | | 10,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | | 1,200 | 200 | 0 | 200 | 200 | 0 | 200 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | | 50 | 50 | 0 | 50 | 50 | 0 | 50 |
| **Cam Gweithredu:** | **Cymorth i'r Amgylchedd Hanesyddol** | **11,250** | **10,250** | **0** | **10,250** | **10,250** | **0** | **10,250** |
| Chwaraeon Cymru | | 8,001 | 8,016 | 0 | 8,016 | 8,016 | 0 | 8,016 |
| Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon | | -227 | -227 | 0 | -227 | -231 | 0 | -231 |
| **Cam Gweithredu:** | **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **7,774** | **7,789** | **0** | **7,789** | **7,785** | **0** | **7,785** |
| **MEG:** | **YR ECONOMI** | **82,792** | **106,187** | **0** | **106,187** | **81,608** | **0** | **81,608** |

Papur 04b – Atodiad B - Sylwadau ar gamau gweithredu'r Prif Grwp Gwariant

**ATODIAD B – Sylwadau ar gamau gweithredu'r MEG[1] Adnoddau**

***Cam Gweithredu Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol***

- Mae'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24 yn dangos £1.588m o ostyngiad net i'r Cam Gweithredu, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer 2023- 24 i £42.336m, a £38.240m yn 2024-25. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud ag ailflaenoriaethu cyllid o £1.088m yng nghyswllt BEL Datblygu Busnes (3751), yn bennaf oherwydd llai o gyfraniad i'r Hwb Gwyddorau Bywyd a Thrawsnewid Diwydiannol. Bu gostyngiad pellach o £0.5m yn y BEL Buddsoddi a Masnach Allforio (3754). Mae'r gostyngiadau hyn yn adlewyrchu cyfraniad MEG yr Economi at ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru.

BEL Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes

- Mae'r cyllid yn y BEL yma yn cefnogi partneriaethau, gwaith ymgysylltu a mentrau i ddatblygu uchelgeisiau'r Genhadaeth Economaidd, Y Genhadaeth, a chyflogadwyedd ar gyfer twf cynhwysol ac adeiladu'r economi i fod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

- Mae hefyd yn cefnogi Arfor 2 gyda chyllid o £11m dros dair blynedd, £3m 2022- 23, £4m 2023-24 a £4m 2024-25. Bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno gan bartneriaid awdurdodau lleol a fydd yn helpu i gryfhau cadernid economaidd cadarnleoedd y Gymraeg, ac mae'n rhan o'r Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru. Prif amcan Arfor 2 yw helpu cymunedau sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg i ffynnu drwy ymyriadau economaidd a fydd hefyd yn helpu i greu mwy o gyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg bob dydd.

BEL Busnes Cymru

- Mae'r gyllideb yn cefnogi entrepreneuriaeth ieuenctid a'r warant i bobl ifanc, busnesau newydd, microfusnesau, busnesau bach a chanolig, hyrwyddwyr anabledd, mentrau cymdeithasol ac arferion busnes cyfrifol. Mae'r gwasanaethau'n cefnogi'r rheini sydd â rhwystrau cudd a bydd cymorth wedi'i dargedu yn parhau i gael ei ddarparu i gefnogi entrepreneuriaid benywaidd ac ifanc a grwpiau BAME.

- Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darparu £3m ar gyfer yr economi sylfaenol, gan alluogi swyddi wrth galon cymunedau lleol ar draws sectorau fel gofal a gwasanaethau iechyd; bwyd; tai; ynni; twristiaeth; adeiladu ac adwerthu.

BEL Y Cymoedd Technoleg

[1] Camau gweithredu: Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn rhoi sylw i Gymorth ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau, Cymorth ar gyfer Amgylcheddau Hanesyddol, Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

- Mae'r gyllideb yn cefnogi cynllun Llywodraeth Cymru i ymrwymo £100m dros 10 mlynedd i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy ym Mlaenau Gwent a'r cyffiniau drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, hybu mabwysiadu technolegau digidol a datblygu uwch dechnolegau gwerthfawr sy'n cefnogi diwydiannau arloesol. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd buddsoddiadau sy'n cefnogi'r Genhadaeth: Gweithdy roboteg a Resilientworks.

BEL Tasglu'r Cymoedd

- Mae'r cyllid yn cynnal cyllideb refeniw flynyddol o £0.1m i helpu'r rhaglen gyfalaf i gyflawni rhaglen Ein Cymoedd, Ein Dyfodol.

BEL Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi

- Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Allforio ar 15 Rhagfyr 2020: Datganiad ysgrifenedig. Bydd y gyllideb yn buddsoddi mewn gwasanaethau i helpu allforion, ac mae'n cydnabod gwerth Cymru fel gwlad fasnachu. Mae'r Cynllun wedi cyflwyno cymorth i fusnesau ar bob cam o'u taith allforio, gan gynnwys drwy gymorth a chyngor pwrpasol 'ar lawr gwlad' drwy ein tîm o Ymgynghorwyr Masnach Ryngwladol sydd wedi'u lleoli ledled Cymru, i ysbrydoli diwylliant o allforio a rhyngwladoli ymysg busnesau Cymru.

***Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd***

- Mae cyllideb derfynol ddangosol 23-24 yn cadw cyllideb adnoddau'r Seilwaith Eiddo ar £6.868m am y flwyddyn.

BEL Seilwaith Eiddo

- Mae'r cyllid yn y BEL yma'n sicrhau bod digon o safleoedd ac adeiladau cyflogaeth ar gael er mwyn sicrhau mantais gystadleuol o ran denu, cadw a datblygu busnesau yng Nghymru. Mae'r gyllideb refeniw yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol fel landlordiaid a pherchnogion tir wrth reoli'r portffolio eiddo datblygu economaidd, gan gynnwys rheoli Sain Tathan a'r taliadau unedol o dan gynllun Menter Cyllid Preifat Rhodfa Lloyd George. Ategir y gyllideb gan incwm arall, yn bennaf derbyniadau rhent ac elw o waredu tir ac adeiladau.

***Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol***

- Mae'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24 yn dangos £0.684m o ostyngiad net i'r Cam Gweithredu, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer y Cam Gweithredu i £0.940m am y flwyddyn. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud â thynnu cyfraniad MEG yr Economi yn ôl i gefnogi rhaglen Cymru Iach ar Waith (£0.563m), a gostyngiad o £0.121m yn y BEL Gwasanaethau a Rhaglenni Corfforaethol (4023). Mae'r gostyngiadau hyn yn ymwneud â chyfraniad MEG yr Economi i gefnogi ymarfer ailflaenoriaethu ehangach Llywodraeth Cymru.

BEL Cymru Iach ar Waith

- Mae cyllideb Cymru Iach ar Waith wedi cyflwyno mentrau yn y gweithle sy'n cefnogi'r uchelgeisiau bod yn iach ac egnïol, a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. Roedd y cyllid yn cynnwys rhaglen Amser i Newid Cymru gan Mind Cymru, sy'n herio ymddygiad ac agweddau negyddol yn y gweithle tuag at broblemau iechyd meddwl. Roedd yn fenter ar y cyd rhwng y portffolio Economi ac Iechyd.

BEL Gwasanaethau a Rhaglenni Corfforaethol

- Mae cyllideb flynyddol Rhaglenni Corfforaethol yn cynnwys gwariant y system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid busnes, a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig i brosesu grantiau'r Gronfa Cadernid Economaidd. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adolygiadau.

  BEL Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu

- Mae'r gyllideb Cyfathrebu o £0.2m bob blwyddyn yn cefnogi digwyddiadau busnes ac ymgysylltu strategol

***Cam Gweithredu Prentisiaethau***

- Mae'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24 yn dangos £18.0m o gynnydd net i'r Cam Gweithredu, gan ddod â chyfanswm y cyllid ar gyfer 2023-24 i £140.033m, a £145.033m yn 2024-25. Mae'r cynnydd net yn ymwneud â dyraniad ychwanegol o'r Cronfeydd Canolog i helpu i ddarparu Prentisiaethau.

BEL Prentisiaethau

- Mae'r gyllideb refeniw yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r rhaglen prentisiaethau. Mae prentisiaethau yn rhaglen statws cyflogedig sy'n darparu hyfforddiant uwchsgilio, trosglwyddadwy drwy rwydwaith o ddarparwyr Addysg Bellach a hyfforddiant preifat. Mae prentisiaethau yn Rhaglen i bobl o bob oed sy'n rhoi blaenoriaeth i ddysgwyr rhwng 16 a 24 oed, pobl sy'n newydd i fyd gwaith, a darpariaeth yn y sectorau hynny sydd fwyaf o fudd i economi Cymru, fel STEM, iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'n cefnogi ein huchelgeisiau sero net.

***Cam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau***

- Mae'r gyllideb derfynol ddangosol yn dangos £11.889m o gynnydd net i'r Cam Gweithredu, gan ddod â chyfanswm y cyllid am y flwyddyn i £108.233m yn 2023- 24, a £118.234m yn 2024-25. Mae'r cynnydd net yn ymwneud â throsglwyddiad o £14.062m o'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau, £1.022m o gynnydd yn nyraniad net Gyrfa Cymru yn 2023-24, a

  £1.664m yn 2024-25 i helpu i ddarparu cymorth ar gyfer cyflogau. O ganlyniad i gyfraniad MEG yr Economi at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru mae 1.1% o ostyngiad, sy'n £0.209m, a chynnydd yn gysylltiedig â chwyddiant a £3.2m yn llai o gyllid wedi'i ailflaenoriaethu o Twf Swyddi Cymru + Mwy ac amrywiol raglenni. Mae £0.005m ychwanegol hefyd wedi cael ei drosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn i gefnogi'r elfen nad yw'n arian parod ar y rhaglen Cymunedau am Waith yn 2023-24, ond bydd y cyllid hwn yn dod i ben ym mlwyddyn ariannol 2024-25.

BEL Cyflogadwyedd, gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc

- Mae'r gyllideb yn ariannu'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno strategaethau, polisïau a rhaglenni sy'n helpu pobl i gael gwaith, i ddychwelyd i'r gwaith, i aros mewn gwaith ac i symud ymlaen yn y gwaith drwy gymorth ar gyfer sgiliau a hyfforddiant; gan ategu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno'r Warant i Bobl Ifanc, gan gynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r ymrwymiadau i adeiladu ar lwyddiant Cronfa Ddysgu Undebau Cymru; cefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau o undebau fod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle a

chryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mae'n hwyluso ymateb uniongyrchol i helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu atebion ehangach, sy'n canolbwyntio ar y sector ac yn cael eu harwain gan gyflogwyr, i ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, fel sero net a thechnoleg ddigidol, sy'n bwysig i economi Cymru.

- Mae'r BEL hefyd yn rhoi cyllid i Gyrfa Cymru sy'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd cenedlaethol, diduedd a dwyieithog i bobl o bob oed yng Nghymru.

BEL Cyflogadwyedd, Gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc – Nad yw'n arian parod

- Yn ogystal â'r gyllideb refeniw uchod, mae cyllideb dibrisiant flynyddol nad yw'n arian parod o £1.4m ar gyfer Gyrfa Cymru.

BEL Cymunedau am Waith

- Mae'r gyllideb refeniw yn cefnogi Cymunedau am Waith a Mwy fel prif ddull Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ar gyfer cyflogadwyedd i'r rheini sydd fwyaf o dan anfantais yn y farchnad lafur. Ym mis Mai 2022, cyhoeddais y camau i gymryd lle rhaglenni a ariennir gan yr UE i gefnogi pobl sydd â rhwystrau cymhleth i ddod o hyd i waith. Mae'r rhaglenni Cymunedau am Waith a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023, ac yn cau ym mis Hydref 2023. Mae'r ddwy raglen wedi darparu hyfforddiant a gwasanaeth mentora dwys yn y gymuned i bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac unigolion 25 oed a hŷn sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith yn y tymor hir ac sydd â rhwystrau cymhleth.

BEL Cymunedau am Waith – Nad yw'n arian parod

Mae darpariaeth fechan ar gyfer dibrisiant offer TG.

***Cam Gweithredu Arloesi***

- Ni fu unrhyw newid o ran y gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24. Mae cyfanswm y cyllid yn £0.604m yn 2023-24 a £0.300m yn 2024-25.

BEL Arloesi ar gyfer Busnes

- Mae'r BEL yn ariannu'r cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, y gyfres o raglenni SMART, Rhaglen Sbarduno'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a'r Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol (CRISP). Er bod cyllid Ewropeaidd yn dod i ben yn 2023/24, dyma yw ein blaenoriaethau o hyd:

    - Defnyddio'r capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, gan ganolbwyntio ar newid hinsawdd, adferiad amgylcheddol a datgarboneiddio;
    - Adeiladu ymhellach ar y capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru yn y Gwyddorau Bywyd ac Iechyd;
    - Datblygu strategaeth arloesi ar draws Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a datblygu sgiliau yn y sylfaen ymchwil ac arloesi.

***Cam Gweithredu Gwyddoniaeth***

- Mae'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24 yn dangos £0.150m o ostyngiad net i'r Cam Gweithredu, gan ddod â chyfanswm y cyllid am y flwyddyn i £1.2m. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud ag ailflaenoriaethu £0.150m o gyllid i gefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, ac ni fydd yn effeithio ar gynnal fy ymrwymiad i weithgarwch yn y maes hwn.

BEL Gwyddoniaeth

- Mae'r gyllideb refeniw yn cynnwys ailsefydlu rhaglen grant newydd yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a luniwyd i gefnogi gweithgareddau ac astudiaethau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), ac i hyrwyddo dewisiadau gyrfa ym myd gwyddoniaeth ar hyd a lled Cymru. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cyfrannu at hyrwyddo Swyddfa Llywodraeth Cymru dros Wyddoniaeth a'i gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys seminarau ymgysylltu â rhanddeiliaid, arolygon agwedd y cyhoedd at Wyddoniaeth, Wythnos Gwyddoniaeth Prydain, Gwyddoniaeth yn y Senedd, Gwobrau Arloesedd Cyd- bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) a CREST, Medalau LSW, adolygiadau perfformiad gwyddoniaeth a gomisiynwyd a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y meysydd Ymchwil ac Arloesi, a Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM).

***Cam Gweithredu Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd***

- Mae'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24 yn dangos £0.184m o ostyngiad net i'r Cam Gweithredu, gan ddod â chyfanswm y cyllid i £15.296m am y flwyddyn. Mae'r gostyngiad net yn ymwneud ag ailflaenoriaethu cyllid o £0.132m o'r BEL Twristiaeth (6250) sy'n ymwneud â gostyngiad yn y gyllideb ymgyrchoedd sydd ar gael i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid ymysg marchnadoedd Ewropeaidd fel rhan o waddol cwpan y byd, a £0.052m o BEL Digwyddiadau Cymru (4231), gan barhau i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol i gefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

BEL Twristiaeth

- Mae'r cynllun yn helpu i ddatblygu twristiaeth ac i fuddsoddi mewn marchnata sy'n cyd-fynd â'n strategaeth gyffredinol – Croeso i Gymru-Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025 – i gynyddu twristiaeth er budd Cymru, gan sicrhau manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

BEL Digwyddiadau Cymru

- Yn unol â Strategaeth Ddigwyddiadau Genedlaethol newydd Cymru ar gyfer 2022 i 2030 | LLYW.CYMRU, bydd y gyllideb flynyddol yn parhau i gefnogi digwyddiadau ym myd chwaraeon, y celfyddydau a busnes yng Nghymru, yn ogystal ag ystyried y cyfleoedd posibl gyda digwyddiadau rhyngwladol, fel y cais ar y cyd rhwng y DU ac Iwerddon ar gyfer Euro 2028. Byddwn yn buddsoddi i gefnogi digwyddiadau sy'n sicrhau manteision a gwaddol economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn unol â'r strategaeth newydd.

- Byddwn yn parhau i geisio cael amrediad daearyddol a thymhorol llawn o ddigwyddiadau o Fôn i Fynwy. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith sy'n berthnasol i ddigwyddiadau, a helpu sector cryf a chynaliadwy i ddatblygu yng Nghymru drwy fuddsoddi mewn sgiliau a datblygu'r gadwyn gyflenwi.

***Cam Gweithredu Rheoli Cyllid Ewropeaidd***

- Nid yw'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24 yn gwneud unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn. Mae cyfanswm y cyllid am y flwyddyn yn aros ar £1.707m.

BEL Cymorth i Raglenni

- Mae'r gyllideb flynyddol o £1.7m yn cyflawni gweithrediadau Cymorth Technegol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a ariennir gan yr UE.

**Cyfalaf**

***Cam Gweithredu Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth ac Economi Ranbarthol***

- Ni fu unrhyw newid o ran y gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24. Cyfanswm y cyllid am y flwyddyn yw £17.538m yn 2023-24 a £26.163m yn 2024- 25.

BEL Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes

- Mae'r cyllid yn ategu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a datblygiadau strategol eraill i gynorthwyo busnesau. Mae Banc Datblygu Cymru hefyd yn gwella gallu busnesau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ac mae'n cefnogi'r gwaith o greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu faint o gyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ar gael yn y farchnad.

BEL Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes – Ad-daliad

- Mae Cyllid Ad-daladwy yn ategu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a datblygiadau strategol eraill i gynorthwyo busnesau.

BEL Y Cymoedd Technoleg

- Pwrpas cyllid yn y BEL yma yw cefnogi cynllun Llywodraeth Cymru i ymrwymo £100m dros 10 mlynedd i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy ym Mlaenau Gwent a'r cyffiniau drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, hybu mabwysiadu technolegau digidol a datblygu uwch dechnolegau gwerthfawr sy'n cefnogi diwydiannau arloesol. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd buddsoddiadau sy'n cefnogi'r Genhadaeth: Gweithdy roboteg a Resilientworks.

***Cam Gweithredu Banc Datblygu Cymru***

- Ni fu unrhyw newid o ran y gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24. Cyfanswm y cyllid am y flwyddyn yw £10m yn 2023-24 a £-31.4m yn 2024-25.

BEL Cronfeydd Cyllid Busnes

- Pwrpas y cyllid yn y BEL yma yw cefnogi Banc Datblygu Cymru, sy'n gwella gallu busnesau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid ac yn cefnogi'r gwaith o greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu faint o

gyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ar gael yn y farchnad. Mae Banc Datblygu Cymru mewn sefyllfa dda i helpu busnesau Cymru drwy'r pandemig a'r adferiad, ac i gael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i gychwyn, i gryfhau ac i ddatblygu. Mae'n gallu darparu benthyciadau o
£1k hyd at £10m, yn ogystal â chyllid mesanîn ac ecwiti; ac mae'n helpu busnesau i ddod o hyd i'r partner cyllid iawn i gael gafael ar gyllid preifat gyda'i gyllid bwlch ei hun pan fydd angen.

BEL Cronfeydd Cyllid Busnes – Ad-daliad

- Nid oes cyllideb wedi cael ei dyrannu ar gyfer 2023-24.

***Cam Gweithredu Datblygu Seilwaith Economaidd***

- Ni fu unrhyw newid o ran y gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24. Mae cyfanswm y cyllid wedi aros ar £9.71m am y flwyddyn.

BEL Seilwaith Eiddo

- Mae'r gyllideb gyfalaf yn cael ei hategu gan dderbyniadau gwerthu tir ac eiddo. Mae hyn yn golygu bod modd darparu safleoedd ac adeiladau modern sy'n gallu bodloni amserlenni deiliadaeth cwmnïau er mwyn rhoi mantais gystadleuol wirioneddol i Gymru dros leoliadau eraill. Bydd yr holl brosiectau masnachol adeiladu uniongyrchol a gyflawnir yn anelu at gyrraedd safon carbon sero net o ran defnydd a bydd Polisi Adeiladau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn berthnasol i brosiectau a gyflwynir mewn partneriaeth ag eraill.

BEL Seilwaith Eiddo – Ad-daliad

- Bydd trafodiadau ariannol Seilwaith Eiddo yn dechrau cael eu had-dalu yn 2022- 23, a byddant yn parhau tan 2038-39.

- Mae'r ad-daliadau'n ymwneud ag £8.950m o gyllid a roddwyd rhwng 2015-16 a 2018-19. Rhoddwyd £2.750m o gyllid o dan y Gronfa Datblygu Eiddo yn 2015- 16, a dyfarnwyd £6.200m i Gyngor Abertawe at ddibenion manwerthu a hamdden (£5.500m yn 2017-18 a £0.700m yn 2018-19). Bydd trafodiadau ariannol Seilwaith Eiddo yn dechrau cael eu had-dalu yn 2022-23, a byddant yn parhau tan 2038-39.

***Cam Gweithredu Cyflogadwyedd – Gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc***

- Ni fu unrhyw newid o ran y gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24. Mae'r buddsoddiad cyfalaf blynyddol o £2m yn cefnogi gweithgarwch Gyrfa Cymru i'r strategaeth TG ac ystadau gyd-fynd â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Bydd datblygiad amgylcheddol strategol a chynaliadwyedd yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ofodol newydd gan ganolbwyntio ar y meysydd twf cenedlaethol a rhanbarthol drwy fabwysiadu'r dull gweithredu 'Canol trefi yn gyntaf'.

***Cam Gweithredu Arloesi***

- Rydym wedi cynnal buddsoddiad yn y Cam Gweithredu hwn wrth gymharu â'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 23-24. Cyfanswm y cyllid yw £5m yn 2023- 24 a £10m yn 2024-25.

BEL Arloesi ar gyfer Busnes

- Cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, y gyfres o raglenni SMART, Rhaglen Sbarduno'r Fenter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a'r Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol (CRISP). Er bod cyllid Ewropeaidd yn dod i ben yn 2023/24, dyma yw ein blaenoriaethau o hyd:
    - Defnyddio'r capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, gan ganolbwyntio ar newid hinsawdd, adferiad amgylcheddol a datgarboneiddio;
    - Adeiladu ymhellach ar y capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru yn y Gwyddorau Bywyd ac Iechyd;
    - Datblygu strategaeth arloesi ar draws Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a datblygu sgiliau yn y sylfaen ymchwil ac arloesi.

***Cam Gweithredu Gwyddoniaeth***

- Nid yw'r gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24 yn gwneud unrhyw newid i'r Cam Gweithredu hwn. Mae'r cyllid wedi aros ar £5m y flwyddyn.

BEL Gwyddoniaeth

- Mae'r gyllideb gyfalaf yn parhau â'r rhaglen Sêr Cymru a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n helpu i fanteisio i'r eithaf ar effeithiau manteisiol arbenigedd ymchwil, cyfleusterau arloesi arbenigol a'r cyflenwad o ymchwilwyr dawnus. Mae'r rhaglen hon (a gafodd ei henwi gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021 fel un o'r pum blaenoriaeth ymchwil, datblygu ac arloesi) eisoes wedi helpu i greu dyfnder o ymchwilwyr a seilwaith gwyddoniaeth yng Nghymru nad oedd yn bodoli o'r blaen, ac mae wedi cyfrannu at wella perfformiad gwyddoniaeth ac ymchwil Cymru dros y degawd diwethaf.

***Cam Gweithredu Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd***

- Ni fu unrhyw newid o ran y gyllideb derfynol ddangosol ar gyfer 2023-24. Rydym wedi cynnal ein buddsoddiad yn y Cam Gweithredu hwn, gyda chyfanswm y cyllid am y flwyddyn yn £5m.

BEL Twristiaeth

- Y buddsoddiad cyfalaf blynyddol arfaethedig o £5m mewn profiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr a chronfa y Pethau Pwysig ar gyfer gwelliannau bach i'r seilwaith twristiaeth. Mae'r dyraniad hwn ar gael ochr yn ochr â Chronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth – Cymru, sy'n cael ei darparu mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru.

# Papur 04c – Atodiad C - Manylion y Rhaglen Gyflogadwyedd

**ReAct + Mwy: rhan o’r Warant i Bobl Ifanc**

- Mae ReAct + Mwy yn rhaglen a ariennir gan grant, sydd â chyllideb o £13.25m yn 2023-24. Daeth rhaglen ReAct i ben ar 31 Mai 2022. Lansiwyd ReAct + Mwy, y rhaglen gyflogadwyedd newydd ar gyfer oedolion, ar 6 Mehefin 2022. Mae’n cynnig cymorth wedi’i bersonoli i oedolion di-waith 18 oed a hŷn; does dim terfyn oedran uchaf. Mae cymorth ar gael i gyfranogwyr sydd wedi colli eu swydd, neu sy'n ddi- waith yn y tymor byr, neu i bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae hefyd yn helpu cyn-droseddwyr sy’n bwrw eu dedfryd yn y gymuned.

- Mae’r rhaglen yn darparu hyfforddiant galwedigaethol, cymorth recriwtio i gyflogwyr, cymorth ar gyfer hyfforddiant i gyflogwyr yn ogystal â chymorth ar gyfer gofal plant, cymorth ar gyfer datblygiad personol a chostau fel teithio. Nid yw Llywodraeth Cymru yn contractio unrhyw ddarparwyr hyfforddiant, ac mae cyfranogwyr yn enwi’r darparwr hyfforddiant mwyaf priodol.

**Twf Swyddi Cymru + Mwy (TSC+Mwy): rhan o’r Warant i Bobl Ifanc**

- Lansiwyd Twf Swyddi Cymru + Mwy ym mis Ebrill 2022, ac mae'n rhan hanfodol o’r Warant newydd i Bobl Ifanc. Mae TSC+Mwy yn darparu pecyn cymorth cyfannol sydd wedi’i deilwra i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd mewn perygl o hynny. Yn 2023-24, disgwylir y bydd £31m yn cael ei ddyrannu i ddarparwyr i gyflwyno’r rhaglen, fel y nodir isod. Mae’r rhaglen yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt yn barod am swydd eto, gan eu helpu i gyrraedd y cam hwnnw, yn ogystal â phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i’w helpu i oresgyn rhwystrau rhag cael swydd a hyfforddiant, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant.

- Mae TSC+Mwy yn cael ei gontractio drwy dendr; mae’r Contractwyr canlynol wedi cael contractau o dan gytundeb Fframwaith ym mhob Lot Ranbarthol:

| Rhanbarth | Contractiwr |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Consortiwm Grŵp Llandrillo- Menai (GLLM) |
| | Coleg Cambria |
| | ACT Ltd |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | Coleg Sir Benfro |
| | ITEC Training Solutions |
| | ACT Ltd |
| Canol De Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |
| De-ddwyrain Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |

**Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol: rhan o’r Warant i Bobl Ifanc**

- Yn 2023-24, y gyllideb sydd ar gael ar gyfer Cymunedau am Waith a Mwy yw £23.034m, gydag £8m arall yn cael ei ddarparu yn y Warant i Bobl Ifanc a fydd yn cael ei drosglwyddo mewn cyllidebau yn y dyfodol.

- Hyd at ddiwedd mis Hydref 2022, mae Cymunedau am Waith, PACE a Chymunedau am Waith a Mwy wedi darparu hyfforddiant a gwasanaeth mentora dwys yn y gymuned i gyfanswm o dros 81,000 o unigolion sy’n wynebu rhwystrau cymhleth rhag cael swydd, ac mae bron i 36,000 ohonynt wedi dechrau gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos.

- Un o nodweddion allweddol llwyddiant y rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy, a gyflwynir drwy’r 22 Awdurdod Lleol, fu ei hyblygrwydd i ymateb i newidiadau yn y farchnad lafur. Mae’r rhaglen yn helpu’r rheini sydd fwyaf o dan anfantais yn y farchnad lafur, gan gynnwys pobl ifanc, gweithwyr hŷn, menywod, unigolion anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd tymor hir, unigolion Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig, pobl sydd â chyfrifoldebau gofal a’r rheini sydd â lefel sgiliau isel.

- Mae’r rhaglen yn cynnwys cymorth cyfannol i fynd i’r afael â rhwystrau rhag cael swydd, mentora yn y gymuned, canfod a chyllido cyfleoedd hyfforddi ac ymgysylltu’n lleol sy’n helpu i gysylltu cyfranogwyr â bylchau yn y farchnad lafur.

- Ers 2022-23, mae wedi canolbwyntio mwy ar bobl ifanc 16 i 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac mae wedi derbyn £8m y flwyddyn yn ychwanegol o 2022-23 i 2024-25 er mwyn helpu i ddarparu’r Warant i Bobl Ifanc. Erbyn hyn, mae hefyd yn cynnig gwasanaeth mentora i unigolion cymwys sy’n cael cymorth drwy ReAct + Mwy.

**<u>Y Rhaglen Sgiliau Hyblyg</u>**

- Mae'r rhaglen hon yn un a ariennir gan grant, ac mae ganddi gyllideb o £1.5 miliwn yn 2023-2024. Gall y Rhaglen, drwy gyfraniad o 50%, helpu gyda chostau cymwys sy’n ymwneud â darparu hyfforddiant mewnol ac allanol a deunyddiau hyfforddi sydd wedi’u hanelu at bob cyflogwr yn y sector preifat a’r trydydd sector yng Nghymru, gyda £500k o’r gyllideb wedi’i dyrannu i Airbus yn 2023-24.

- Mae dwy elfen wahanol i’r Rhaglen:

  - **Rhaglen Datblygu Busnes y Rhaglen Sgiliau Hyblyg**
    Mae Rhaglen Datblygu Busnes y Rhaglen Sgiliau Hyblyg mewn sefyllfa i gefnogi prosiectau datblygu busnes sylweddol sy’n cael eu harwain gan gyflogwyr, ac y mae disgwyl iddynt arwain at ehangu busnesau a buddsoddiad mawr sy’n arwain at greu swyddi o ansawdd da.
  - Pwrpas **Prosiectau Partneriaeth y Rhaglen Sgiliau Hyblyg** yw helpu i sbarduno economi sgiliau ehangach Cymru, gan ganolbwyntio ar y sgiliau blaenoriaethol a nodwyd gan gyflogwyr yng Nghymru a chan gyrff sy’n cynrychioli diwydiant. Ar hyn o bryd, mae’r elfen Prosiectau Partneriaeth yn cynnwys 5 prosiect ar wahân: Uwch Sgiliau Digidol; Uwch Beirianneg a Gweithgynhyrchu; y Sector Creadigol; Allforio; Twristiaeth a Lletygarwch.

- Nid yw Llywodraeth Cymru yn contractio unrhyw ddarparwyr hyfforddiant, ac mae’n rhoi cyfle i gyfranogwyr enwi’r darparwr hyfforddiant mwyaf priodol.

**<u>Cronfa Ddysgu Undebau Cymru</u>**

- Mae Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) yn rhaglen a ariennir gan grant sydd â chyllideb ragamcanol o £5.4m dros dair blynedd y rhaglen gyfredol (2022- 25), sy’n seiliedig ar y cynigion unigol a ddaeth i law gan yr undebau cyflawni.

Papur 05 - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 12 Ionawr 2023 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig

**1.0 Diben**

1.1 Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y cynigion ar gyfer Prif Grŵp Gwariant (MEG) Materion Gwledig a amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24, a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr. Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor hefyd. Mae'r crynodeb o strwythur y gyllideb i'w weld yn Atodiad A o'r papur tystiolaeth.

**2. Crynodeb o Newidiadau i'r Gyllideb**

1.2 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau sydd wedi'u crynhoi ar lefel uchel yn ôl maes busnes ar gyfer y MEG Materion Gwledig a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24.

Mae cyfanswm y gyllideb adnoddau wedi'i grynhoi yn Nhabl 1 isod:

| **TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Derfynol 2022-23 £'000** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** |
| **Refeniw** | | | | | | | |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 300,212 | 354,284 | 54,072 | 18% | 376,284 | 22,000 | 6% |
| Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | 41,499 | 41,499 | 0 | 0% | 41,499 | 0 | 0% |
| Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE | 3,434 | 3,434 | 0 | 0% | 3,434 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **345,145** | **399,217** | **54,072** | **16%** | **421,217** | **22,000** | **6%** |
| **Heb fod yn arian parod** | | | | | | | |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 10,817 | 10,817 | 0 | 0% | 10,817 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **10,817** | **10,817** | **0** | **0%** | **10,817** | **0** | **0%** |
| **CYFANSWM** | **355,962** | **410,034** | **54,072** | **15%** | **432,034** | **22,000** | **5%** |

Mae cyfanswm y gyllideb gyfalaf wedi'i grynhoi yn Nhabl 2 isod:

| TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** |
| **Cyfalaf Cyffredinol** | | | | | | | |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 37,200 | 37,200 | 0 | 0% | 37,000 | (200) | -1% |
| Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE | 0 | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | **37,200** | **37,200** | **0** | **0%** | **37,000** | **(200)** | **-1%** |

## Adnoddau

Mae'r cynnydd yn y gyllideb adnoddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 wedi'i nodi yn Nhabl 3 isod:

| TABL 3: Symudiadau'r Gyllideb Adnoddau Cyllidol | |
|---|---|
| | **2023-24 £'000** |
| ***Dyraniadau Ychwanegol*** | |
| Cyllid Ffermydd yn Lle Cyllid yr UE | 63,000 |
| ***Gostyngiadau*** | |
| Cynlluniau Buddsoddi Gwledig | (8,928) |
| **Cyfanswm Symudiadau Adnoddau Cyllidol** | **54,072** |

1.3 Yn 2023-24, mae'r gyllideb Refeniw yn cynyddu £54.1 miliwn yn erbyn llinell sylfaen 22-23. O hyn, £63 miliwn yw'r cyllid disodli ar gyfer Ffermydd gan y DU sy'n disodli'n uniongyrchol gyllid yr UE ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

1.4 Mae gostyngiad o £8.9 miliwn o'i gymharu â'r Gyllideb Ddrafft 22-23 a briodolir i Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) y Cynlluniau Buddsoddi Gwledig. Cynhaliwyd ymarfer ail-flaenoriaethu ar draws Llywodraeth Cymru gyfan dan arweiniad y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol er mwyn targedu dyraniadau i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, y Rhaglen Lywodraethu a helpu'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan yr Argyfwng Costau Byw.

## Cyfalaf

Nodir dyraniad y gyllideb gyfalaf o £37.2 miliwn ar gyfer 2023-24 yn Nhabl 4 fel a ganlyn:

| TABL 4: Dyraniadau'r Gyllideb Gyfalaf | |
|---|---|
| | **2023-24 £'000** |
| ***Dyraniadau*** | |
| ***Cyfalaf Cyffredinol*** | |
| Adnabod a Symud Da Byw | 1,000 |
| Y Môr a Physgodfeydd | 200 |
| Taliadau Gwledig Cymru – TG | 6,000 |
| Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – y Rhaglen Datblygu Gwledig | 9,500 |
| Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig | 20,500 |
| **Cyfanswm Dyraniadau Cyfalaf** | **37,200** |

1.5 Darperir dadansoddiad o'r MEG Materion Gwledig yn ôl maes gwariant, Cam Gweithredu a BEL ar gyfer 2023-24 a blynyddoedd yn y dyfodol yn Atodiad A. Darparwyd esboniad naratif tryloyw i egluro cynnydd a gostyngiadau, lle nad ydynt wedi'u cynnwys yn y papur tystiolaeth. Dim ond y cyllidebau sydd wedi'u craffu fel rhan o'r pwyllgor hwn sy'n cael sylw ynddo.

## 2.0 Monitro cyllidebau

2.1 Mae pob cyllideb yn parhau i gael ei monitro a'i herio bob mis yn ystod 2022- 23, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau'r gyllideb yn ôl yr angen. Rydw i'n derbyn diweddariadau ariannol rheolaidd ar y rhagolygon ar gyfer y MEG er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n parhau ar y trywydd iawn i gyflawni fy mlaenoriaethau. Rydym yn monitro'r sefyllfa'n ofalus iawn er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae ei angen fwyaf gan gefnogi ein blaenoriaethau yr un pryd

## 3.0 Sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cyllidebol.

3.1 Rydym wedi ymrwymo i ddarparu dull strategol o ymdrin â Physgodfeydd, gan gydweithio â rhanddeiliaid. Bydd ffocws clir ar ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy, sy'n cael eu rheoli mewn ffordd addasol, ac mae gennym gyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer hyn yn y flwyddyn ariannol. Rydw i'n bwriadu cydweithio â rhanddeiliaid i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni.

3.2 Un o'r prif alluogwyr fydd cael cynllun clir ar gyfer buddsoddi yn ein sector bwyd môr i ategu ein dull strategol, ac yn hanfodol i'r buddsoddiad hwn fydd y cymorth a ddarparwn drwy gynllun a fydd yn disodli cynllun Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) drwy Reoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) 2022 a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr. Bydd y cynllun hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gefnogi twf cynaliadwy'r economi forol gan amddiffyn a gwella'r amgylchedd morol yr un pryd.

3.3 Mae'r Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig (gweler para 5.1). Yn ogystal, mae'r gwaith sy'n amcangyfrif effeithiau economaidd y Cynllun arfaethedig yn cael ei wneud gan gonsortiwm

o academyddion ac ymgynghorwyr sy'n cael ei arwain gan Wasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS). Mae'r gwaith hwn yn cynrychioli asesiad annibynnol o effeithiau economaidd ein cynigion. Mae'r gwaith yn amcangyfrif effeithiau economaidd camau allweddol rydym yn rhagweld y bydd yn ffurfio rhan bwysig o'r Cynllun arfaethedig. Mae'r camau hyn yn cynnwys rheoli cynefinoedd; rheoli a chreu coetiroedd; a rheoli tir a maethynnau.

3.4 Mae'r rhaglen sy'n disodli'r PAC yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ynghylch ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi colli bioamrywiaeth a sicrhau bod ffermio Cymru'n gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3.5 Mae'n cynnwys dylunio polisi seiliedig ar dystiolaeth, datblygu'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol a phob agwedd ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a newidiadau busnes yn y diwydiant amaethyddol.

## 4.0 Effaith Costau Byw ar ddyraniadau a rhaglenni'r gyllideb

4.1 Rydw i'n cydnabod yr effaith y mae'r argyfwng costau byw yn ei chael yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed gyda chynigion ein cyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24 i ddiogelu cymaint â phosibl y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas rhag effeithiau'r argyfwng hwn.

4.2 Mae hyn yn arbennig o wir am gymunedau gwledig sydd yn aml â chostau cymudo ac ynni uwch o gymharu â'r rhai sy'n byw mewn cymunedau trefol. Rydw i'n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn parhau i gyrraedd ein targedau i ddarparu taliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau amnewid mor gyflym â phosibl i roi sicrwydd o incwm i'r rhai sydd â hawl iddo.

## 5.0 Goblygiadau parhaol y pandemig

Mae'r gadwyn fwyd gyfan yn parhau i gael trafferth llenwi swyddi gwag, o ofynion llafur tymhorol a oedd yn arfer cael eu llenwi â gweithwyr mudol, yn y diwydiant amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu bwyd i lawer o swyddi gwag parhaol ar bob lefel sgiliau ar draws y sectorau gweithgynhyrchu bwyd a lletygarwch. Mae gweithgynhyrchwyr bwyd wedi lleihau eu harlwy o gynhyrchion a lleihau wythnosau gwaith mewn ymateb i'r argyfwng llafur. Mae gan y DU broblem sylweddol am fod niferoedd mawr yn y grŵp oedran 50+ wedi gadael y gweithlu yn ystod Covid ac yn anfodlon dychwelyd.

## 6.0 Effaith ar Amddifadedd a Thlodi

6.1 Dros y tair blynedd nesaf (gan gynnwys 22-23) rydw i'n sicrhau bod £257 miliwn ar gael i gefnogi gwydnwch yr economi wledig a'n hamgylchedd naturiol ac rydw i eisoes wedi cyhoeddi gwerth £227 miliwn o gynlluniau buddsoddi gwledig. Mae'r cyllid hwn yn darparu cefnogaeth hanfodol i'n sectorau cynhyrchu a bwyd sylfaenol sydd wedi teimlo effeithiau Covid,

ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ac, yn awr, yr argyfwng costau byw, ac maent yn parhau i deimlo'r effeithiau hyn.

## 7.0 Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

7.1 Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i effeithio ar Gymru, gan arwain at feysydd gwaith hanfodol newydd i Lywodraeth Cymru. Roedd rhai i'w disgwyl fel paratoi ein ffiniau, ond nid yw effaith newidiadau eraill yn glir eto. Er enghraifft, adolygiad arfaethedig Llywodraeth y DU o Gyfraith yr UE a Ddargedwir a fydd yn gofyn ymdrech sylweddol ar draws y portffolio. Mae angen i ni barhau i addasu i'r cyd-destun esblygol hwn ac ymateb i ffordd hollol newydd o weithio i Gymru, o ran ein rôl yn y DU a'n hymwneud â'r UE a chenhedloedd masnachu eraill. Mae hyn yn gofyn cynnal llinellau cyfathrebu rhynglywodraethol effeithiol. Er enghraifft, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau'n rhan o grŵp Rhyngweinidogol ffurfiol gyda Llywodraeth y DU (Defra), Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, lle mae'n rhaid i ni yn awr gytuno ar sut rydym yn cydweithio i ddatblygu polisi lle mae pwerau wedi llifo'n ôl o'r UE.

7.2 Cefnogir y gwaith hwn gan gyfres o fframweithiau cyffredin y mae pwyllgorau perthnasol yn craffu arnynt ar ôl eu cyhoeddi. Mae'r rhain yn gosod trefniadau ar gyfer y ffordd rydym yn dod ynghyd ledled y DU mewn meysydd pwnc. At hynny, mae peirianwaith Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) yr UE yn dal i esblygu ac yn gofyn i ni feddwl yn wahanol am y ffordd rydym yn ymateb, yn yr un ffordd ag y mae angen i ni ddeall amgylchedd masnachu sy'n esblygu.

## 8.0 Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 / Cytundeb Cydweithredu Llafur-Plaid:

8.1 Eglurhad o sut mae dyraniadau'r gyllideb yn eich portffolio yn cyd-fynd ag ymrwymiadau a blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu a Chytundeb Cydweithio Llafur-Plaid.

8.2 Mae'r dyraniadau cyllideb ar gyfer y MEG Materion Gwledig yn sicrhau ei fod yn blaenoriaethu fy Ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, nid yn unig yn y portffolio Materion Gwledig ond ar draws y Llywodraeth. Er enghraifft, mae llawer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n benodol i Newid Hinsawdd yn cael eu cefnogi gan Fuddsoddiad Gwledig o'r MEG Materion Gwledig.

8.3 Mae gan y Strategaeth Bwyd Cymunedol y potensial i sicrhau llawer o fuddion sy'n hyrwyddo nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er mai 'bwyd' yw'r ffactor cyffredin, gallai'r manteision cymdeithasol fod yn eang, gan gynnwys manteision economaidd, adfywio cymunedau lleol, gwella lles, iechyd meddwl a chorfforol a manteision o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn y dyfodol.

Ar 11 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol gyllid o £3 miliwn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu partneriaethau bwyd traws-sector a chryfhau'r partneriaethau bwyd presennol a all helpu i feithrin gwydnwch mewn rhwydweithiau bwyd lleol. Bydd y rhwydweithiau hyn yn darparu cydlyniad, gan fanteisio ar gefnogaeth ac arbenigedd gwasanaethau eraill fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, cymdeithasau tai Cymru a gwasanaethau cynghori, er mwyn deall a mynd i'r afael â'r angen lleol. Byddant yn sicrhau bod anghenion uniongyrchol a chynyddol aelwydydd sy'n profi tlodi bwyd yn cael eu diwallu gan ganolbwyntio adnoddau yr un pryd ar atal a chynaliadwyedd i gefnogi gwydnwch yn y tymor hwy.

8.4 [Sut mae'r dyraniadau'r gyllideb Materion Gwledig yn mynd i'r afael ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ar draws pob maes polisi.]

8.5 Mae'r Is-adran Diwygio Maes Rheoli Tir yn gyfrifol am ddylunio fframwaith polisi a rhaglen newydd i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) yng Nghymru wedi i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

8.6 Mae'r rhaglen yn cyd-fynd yn strategol â blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru ynghylch ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi colli bioamrywiaeth a sicrhau bod ffermio Cymru'n gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

8.7 Mae'n cynnwys dylunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, datblygu'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol a phob agwedd ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a newidiadau busnes yn y diwydiant amaethyddol.

8.8 Dros y tair blynedd nesaf (gan gynnwys 22-23) rydw i'n sicrhau bod £257 miliwn ar gael i gefnogi gwydnwch yr economi wledig a'n hamgylchedd naturiol ac rydw i eisoes wedi cyhoeddi gwerth £227 miliwn o gynlluniau buddsoddi gwledig. Byddaf yn gwneud rhagor o gyhoeddiadau am gyllid maes o law.

8.9 Mae'r arian sylweddol a gyhoeddwyd yn cefnogi ein ffermwyr, ein coedwigwyr, ein rheolwyr tir a'n busnesau bwyd i hyrwyddo'r broses o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a chefnogi'r economi wledig ar y llwybr tuag at Gymru sero net a chadarnhaol o blaid natur. Mae'r cyllid yn cynnwys ffocws ar goetiroedd a choedwigaeth, gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd, rheoli tir yn gynaliadwy, cynhyrchiant ac arallgyfeirio. Rydym yn targedu rheoli tir ar raddfa tirwedd a chadwyni cyflenwi bwyd a ffermio hefyd.

## 9.0 Gwariant ataliol

9.1 Mae'r cynigion cyllideb hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol hyd y bo modd. Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae gennym brosesau sydd wedi hen ennill eu plwyf er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

9.2 Mae'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) a'r cyllid amnewid i gyd yn ataliol – ac yn targedu gwelliannau amaeth- amgylchedd drwy Glastir; gwell cynhyrchiant a busnesau mwy hyfyw drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol, creu ac adfer coetir; a nifer o gynlluniau eraill yn cael eu cyflwyno. Ar y llaw arall, mae'r Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd (FBIS a RBIS yn flaenorol o dan y CDG) yn cynnig grantiau cyfalaf i gefnogi twf cynaliadwy gweithgynhyrchu bwyd a gwelliannau mewn cynhyrchiant, tra bod cymorth Ffrwd Incwm Atodol (SIS) yn cynnig ystod o gymorth seiliedig ar refeniw ac arbenigedd amrywiol i ddatblygu arloesedd a safonau achredu yn y sector gweithgynhyrchu bwyd.

9.3 Rydym wedi cynnal yr elfen arian cyfatebol o'r RhDG hyd at ddiwedd y rhaglen, gan sicrhau y byddwn yn gwario'r holl adnoddau sydd ar gael i ni. Mae'r holl gyllid newydd sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU yn cael ei drosglwyddo

i fy nghyllideb i, a fydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ac ar gyfer blaenoriaethau eraill y Rhaglen Lywodraethu.

9.4 Mae CDG a rhaglenni cyllid cyfalaf newydd wedi'u cynllunio yn y fath fodd i hyrwyddo arferion cynaliadwy ac ysgogi gostyngiad mewn allyriadau carbon (ac felly'n gweithio i atal effaith y newid yn yr hinsawdd). Er enghraifft, drwy'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy, a ddarperir drwy'r RhDG, mae grantiau'n amrywio o £12,000 i £50,000 fel cyfanswm cyfraniad o 40% tuag at gostau prosiectau. Bydd yr eitemau sy'n cael eu cefnogi yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, offer storio a rheoli slyri â gorchudd a heb orchudd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fwy o ffermwyr gymryd yr awenau wrth fynd i'r afael â llygredd amaeth er mwyn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer. Nod y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd (FBAS) yw cefnogi twf cynaliadwy yn y maes gweithgynhyrchu bwyd yn benodol busnesau sy'n targedu gwelliannau amgylcheddol (datgarboneiddio, effeithlonrwydd gwastraff/dŵr/ynni), gwaith teg a gwthio'r ffiniau o ran arloesi.

9.5 Mae cynlluniau newydd sy'n cael eu hariannu gan yr UE yn cael eu llywio gan strategaethau a pholisïau adrannol, sydd wedi ystyried ffyrdd WFGA o weithio, gan gynnwys dulliau ataliol.

9.6 Ym mis Mai, fe wnes i lansio'r cynllun Grantiau Bach - Effeithlonrwydd, cynllun cyfalaf sydd â'r nod o helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad technegol, ariannol ac amgylcheddol eu busnesau fferm. Ym mis Awst, agorais ffenestr ariannu ar gyfer y cynllun Grantiau Bach - Amgylchedd, a fydd yn darparu uchafswm o £7,500 ar gyfer gwaith cyfalaf i sicrhau canlyniadau amgylcheddol buddiol sy'n ymwneud â themâu carbon, dŵr a thirweddau a pheillwyr. Ym mis Tachwedd, agorais ddatganiad o ddiddordeb ar gyfer y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd, yn darparu buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a seilwaith prosesu, ynghyd â rhai costau cysylltiedig ac yn cynorthwyo prosiectau sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru

## 10.0 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

10.1 Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb ddrafft yn dangos sut rydw i wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Aethom ati i adolygu tueddiadau cyfredol a rhagamcaniadau y dyfodol a'u heffeithiau posibl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau, hyd y bo modd, nad yw ymatebion tymor byr yn cael effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

10.2 Drwy'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy, rydym yn cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd sy’n cyflawni camau sy'n gwella ein hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i fusnesau fferm a busnesau gwledig a chymunedau gwledig. Bydd yn cefnogi ac yn hwyluso'r broses o gydlynu â chynlluniau eraill hefyd er mwyn ymgymryd â'r camau hanfodol sydd eu hangen i wella gallu busnesau fferm a busnesau gwledig a chymunedau gwledig i ymdopi ag effeithiau'r hinsawdd. Bwriad y Cynllun Rheoli Cynaliadwy yw cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r angen i fynd i'r afael â heriau o ran pontio rhwng y cenedlaethau, fel newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth sy'n dirywio, yn golygu bod angen ymyriadau a chamau er mwyn galluogi Cymru i dyfu, i wella gwydnwch ac i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn effeithlon.

10.3 Bydd angen i'r holl gyllid amnewid ar gyfer datblygu gwledig gyd-fynd â'r

blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u gosod o amgylch y ffyrdd y gall adnoddau naturiol gefnogi ein nodau llesiant a mynd i'r afael â'r risgiau i'r amgylchedd a'r buddion cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu.

## 11.0 Asesiadau Effaith

11.1 Ar ôl adolygu'r newidiadau allweddol uchod, bu nifer o raglenni allweddol yn destun Asesiadau Effaith Integredig yn cwmpasu cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant. Mae asesiadau effaith integredig yn rhan brif ffrwd o'r gwaith llunio polisi yn ogystal â phenderfyniadau cyllidebol.

11.2 Mae canlyniadau'r asesiadau effaith yn dangos nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd oherwydd y penderfyniadau cyllidebol hyn. Bydd asesiad pellach yn cael ei wneud cyn y Gyllideb Derfynol.

## 12.0 Asesiad cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant

12.1 Mae canlyniadau'r asesiadau effaith yn dangos nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd oherwydd y penderfyniadau cyllidebol hyn.

12.2 Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU, ac un o blith ychydig iawn o wledydd ledled y byd, i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i gyfraith ddomestig gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

12.3 Mae'r dyletswyddau yn y Mesur yn cael eu gweithredu mewn dau gam ac yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth gytbwys o'r hawliau yn CCUHP:

12.4 a'i brotocolau dewisol wrth lunio neu adolygu polisïau a deddfwriaeth; a phan fyddant yn defnyddio eu holl bwerau neu ddyletswyddau cyfreithiol.

12.5 Ar draws fy mhortffolio, mae gofyn i bob aelod staff ystyried sut mae eu gwaith yn effeithio ar hawliau plant, ac mae'r broses hon wedi llywio'r Asesiad Effaith Integredig. Nid oes unrhyw effeithiau sylweddol ar hawliau plant wedi eu nodi wrth osod y gyllideb hon.

## 13.0 Cyd-destun Strategol – meysydd penodol o ddiddordeb.

13.1 Datblygu a gweithredu polisi amaethyddol gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig i Gymru.

13.2 Mae Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu'r un fethodoleg mewn perthynas â'r cyllid sy'n disodli cyllid yr UE yn yr Adolygiad hwn o Wariant fel ag y mae wedi'i wneud yn 2021/22 a 2022/23, sy'n debydu gwariant yr UE sy'n weddill. Mae hyn eisoes wedi arwain at Gymru yn derbyn £222 miliwn yn llai na'r disgwyl (£85 miliwn yn llai yn 2022/23 a £137 miliwn yn llai yn 2021/22). Bydd parhad y dull hwn yn 2023/24 yn golygu y bydd Cymru'n colli £21 miliwn yn rhagor. Ynghyd â'i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn amlinellu ein gwrthwynebiadau i'r dull hwn.

13.3 Bydd dyraniad y gyllideb o £650,000 yn ddigon yn 23/24 i ariannu'r gwaith

datblygu polisi parhaus ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

13.4 Dyrannwyd y gyllideb hon i ariannu pecynnau tystiolaeth parhaus i gefnogi gwaith datblygu polisi ac ariannu prosiectau paratoi a threialu posibl wrth i ni symud yn agosach tuag at 2025 a lansio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd y dyraniad hwn o'r gyllideb hefyd yn ariannu'r ymgynghoriad terfynol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

13.5 Datblygu polisi pysgodfeydd, gan gynnwys darparu Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd.

13.6 Datblygu Polisi Pysgodfeydd a Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Cyd-ddatganiad ar Bysgodfeydd y DU sy'n gysylltiedig â Deddf Pysgodfeydd y DU 2020.

13.7 Dileu TB buchol.

13.8 Mae'r Rhaglen i Ddileu TB yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar y pedair brif egwyddor ar gyfer rheoli clefydau heintus: Ei gadw draw, Ei ganfod yn gyflym, Ei atal rhag lledaenu, Ei ddileu. Rydym wedi gweld cynnydd da ers i'n rhaglen gael ei sefydlu gyntaf, gyda gostyngiadau hirdymor yn nifer yr achosion a mynychder y clefyd. Rhwng 2009 a 2020, bu gostyngiad o 48% mewn achosion newydd ac mae'n werth atgoffa ein hunain bod 94.8% o fuchesi yng Nghymru yn rhydd o TB ddiwedd mis Mehefin 2022.

13.9 Fel rhan o'i hymrwymiadau yn *Rhaglen Lywodraethu 2021 - 26*, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wahardd difa moch daear fel rhan o'r Rhaglen i Ddileu TB. Mae cyllid yn parhau i fod ar gael i gefnogi cynlluniau brechu preifat ledled Cymru, gan asesu'r un pryd y defnydd mwyaf priodol a chost- effeithiol o'r brechlyn BCG Moch Daear fel mesur amddiffynnol.

13.10 Lansiwyd dull rhanbarthol o ddileu TB yn 2017 gan greu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel ac mae polisïau'n parhau i gael eu mireinio, gan ymateb yn ddeinamig i'r darlun o'r clefyd sy'n newid drwy'r amser, ac ymateb i'r heriau penodol sy'n deillio o bandemig Covid-19.

13.11 Yn dilyn ymgynghoriad, a ddaeth i ben yn gynharach eleni, bydd y Gweinidog yn cyhoeddi diwygiadau i'r Rhaglen i Ddileu TB yn 2023.

13.12 Ffliw Adar

13.13 Dechreuodd yr achosion presennol o Ffliw Adar ym mis Hydref 2021 gydag achosion yn cynyddu'n gyflym ym mis Hydref 2022, gan roi pwysau sylweddol ar adnoddau a chyllid ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a chynyddu'r pwysau heb ei ariannu yn erbyn y gyllideb hon. Adeg ysgrifennu’r ddogfen hon, mae'r epidemig yn parhau ac mae'r risg o heintio i ffermydd dofednod yn "ganolog" os yw bioddiogelwch yn rhagorol ac yn "uchel" os yw bioddiogelwch yn is-optimaidd. Mae’r risg o heintio adar gwyllt, ffynhonnell y feirws, yn "uchel iawn”.

13.14 Mae’n amhosibl llunio rhagolygon cywir gan nad oes modd rhagweld nifer y safleoedd ac adar heintiedig. Fodd bynnag, doeth fyddai tybio y bydd pwysau

cyllidebol sylweddol oherwydd rheolaethau ffliw adar angenrheidiol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

13.15 (Mae angen rheoli ffliw adar i amddiffyn y diwydiant dofednod ac i atal y feirws rhag mwtanu ac ailgyfuno i ffurf a fyddai'n achosi ffliw pandemig mewn pobl hefyd.)

*Profion TB*

13.16 Yng Nghymru defnyddir prawf croen (*SICCT*) ar wddf gwartheg i adnabod anifeiliaid heintiedig. Mae hyn yn cymharu'r adweithiau i'r chwistrelliad twbercwlin buchol ac adar. Yn gyffredinol, mae anifeiliaid sy'n adweithio i'r twbercwlin buchol yn fwy na'r twbercwlin adar yn cael eu hystyried fel adweithyddion prawf croen.

13.17 Mae hwn yn brawf sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac fe'i defnyddir ledled y byd fel y prif brawf gwyliadwriaeth ar gyfer rhaglenni rheoli TB. Mae'r prawf yn debygol o adnabod un anifail â 'chanlyniad positif anghywir' yn unig ym mhob 5000 o wartheg sydd heb eu heintio a brofir. Ond, ar y gorau efallai mai dim ond 80% o anifeiliaid sydd wedi'u heintio y gall eu hadnabod. Ar hyn o bryd, nid oes prawf, na chyfuniad o brofion, a fydd yn:

- adnabod yr holl wartheg sydd wedi'u heintio â TB; ac yn
- adnabod yr holl wartheg sydd heb eu heintio fel anifeiliaid negatif.

13.18 Defnyddir prawf gwaed gama interfferon hefyd mewn rhai buchesi (fel prawf atodol) i helpu i adnabod anifeiliaid eraill sydd wedi'u heintio.

Yng Nghymru rydym yn profi:

- pob buches bob blwyddyn
- unrhyw anifail cyn iddo symud oddi ar fferm, ar wahân i wartheg risg isel yn yr Ardal TB Isel
- unrhyw anifail sy'n symud o fuches y tu allan i ardal TB Isel i fuches mewn Ardal TB Isel

13.19 Rydym yn archwilio anifeiliaid yn y lladd-dy i adnabod unrhyw rai sydd wedi'u heintio â TB, sydd heb eu canfod yn y rhaglen gwyliadwriaeth drwy brofi (maent yn dod yn "achosion lladd-dy" ac o ganlyniad bydd profion ar y fuches darddu).

13.20 Iawndal TB

13.21 Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad statudol i dalu iawndal TB.

13.22 Mae hwn yn faes gwariant sy'n cael ei arwain gan alw sy'n uniongyrchol gysylltiedig â nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd oherwydd TB. Mae newidynnau fel nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd, gwerth marchnad pob anifail a gwerth pob anifail wrth ei waredu yn cael effaith ar lefel y gwariant a'r derbyniadau wrth waredu a dderbyniwyd.

13.23 Mae perchnogion anifeiliaid yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru am wartheg sy'n cael eu lladd oherwydd TB fel y nodir yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) (y Gorchymyn TB). Ar hyn o bryd cyfrifir y Taliad hwn yn seiliedig ar werth marchnad pob anifail unigol. Cafodd nifer o opsiynau talu amgen eu hamlinellu yn yr ymgynghoriad.

13.24 Datblygu a gweithredu strategaeth bwyd a diod ôl-Brexit, gan gynnwys y Strategaeth Bwyd Cymunedol.

13.25 Cyhoeddwyd gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod ar 29 Tachwedd 2021, sef creu diwydiant cryf a bywiog sydd ag enw da ym mhedwar ban byd am ragoriaeth, ac sydd ag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn y byd yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol. Mae'n canolbwyntio ar nodau i gyflawni'r canlynol:

- creu twf busnes a chynyddu cynhyrchiant;
- tyfu gwerthiant mewn marchnadoedd domestig a thramor;
- lledaenu Gwaith Teg i weithwyr;
- cyrraedd lefelau uwch o gynaliadwyedd amgylcheddol;
- codi a hyrwyddo enw da a safonau proffesiynol y diwydiant.

13.26 Mae'r dull yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd dros y degawd diwethaf, yn cydnabod y tarfu yn sgil ymadael â'r UE a Covid-19, ac mae'n gofyn am bartneriaeth â busnesau a rhanddeiliaid lle bydd cymorth Llywodraeth Cymru yn gynyddol amodol ar werthoedd a gweithredoedd cyffredin. Cynyddodd gwerth allforion bwyd a diod o Gymru yn 2020 gan gynnwys i'n marchnad fwyaf, i'r UE. Fodd bynnag, dirywiodd maint yr allforion i'r UE ac mae busnesau bach a rhai sectorau (bwyd môr) yn parhau i'w chael hi'n anodd masnachu.

13.27 Mae'r diwydiant yn gweithredu o fewn cyd-destun problemau economaidd-gymdeithasol fel yr ystyriaeth gynyddol i fynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol ac iechyd cynhyrchu bwyd a deiet, newidiadau i'r amgylchedd masnachu yn y DU, yr angen brys i ddatgarboneiddio a lleihau gwastraff ac effaith amgylcheddol. Gyda busnesau wedi'u lleoli ledled Cymru, mae'r diwydiant bwyd a diod yn rhan o economi sylfaenol ac yn rhan annatod o gadwyni cyflenwi sy'n cysylltu, mewn rhai sectorau pwysig, â ffermio a physgota Cymru, ac â sectorau manwerthu, cyfanwerthu a gwasanaeth lle mae brandio cynnyrch y diwydiant (Gwybodaeth Ddaearyddol, broliant cynaliadwyedd) yn cael ei werthfawrogi'n gynyddol gan ddefnyddwyr ac yn Bwynt Gwerthu Unigryw (USP) ar gyfer twristiaeth.

13.28 Bydd ymyrraeth Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddeg prif faes:

- seilio penderfyniadau am bolisi a chymorth ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ymchwil, gwerthuso a dealltwriaeth o'r farchnad i lywio ac arwain, a chynorthwyo busnesau a rhanddeiliaid i ddatblygu galluogrwydd gwybodaeth i helpu eu hunain.
- tyfu busnesau cryfach sy'n gallu tyfu'n gynaliadwy a sicrhau lefel cynhyrchiant gyda'r gorau yn y farchnad.
- adeiladu rhwydweithiau, ysgogi cydweithio drwy rwydweithiau, clystyrau, wedi'u hintegreiddio â chymorth technegol, i ledaenu arferion gorau a dod o hyd i gyfleoedd i ychwanegu gwerth.
- mynd i'r afael â gwendidau systemig fel cefnogi busnesau bach i fod yn fusnesau canolig, a rhai canolig i fod yn fawr, gwella seilwaith safleoedd busnes, cydgasglwyr a chyfanwerthwyr a chysylltu'r rhain i greu rhwydweithiau a chadwyni cyflenwi cryf, lleol.
- cefnogi arloesedd a darparu cefnogaeth dechnegol gref, gan adeiladu ar lwyddiant Arloesi Bwyd Cymru/Prosiect Helix.
- canfod a manteisio ar gyfleoedd ym marchnad y DU, gan hyrwyddo ein Cynllun Manwerthu, creu troedleoedd yn y sectorau gwasanaeth bwyd

a chyfanwerthu, a manteisio ar y cyfleoedd o dyfu sianeli gwerthu Syth i'r Defnyddiwr.

- cynyddu ein hallforion a defnyddio ein cynhyrchion a'n busnesau i arddangos Cymru, a defnyddio Blas Cymru, ein digwyddiad blaenllaw, i hyrwyddo'r diwydiant i gynulleidfa'r DU a chynulleidfa ryngwladol.
- adeiladu brand cryf, gan ganolbwyntio ar gynhyrchion a busnesau sy'n cynrychioli'r gorau o Gymru, gan ehangu ein teulu o Enwau Bwyd Gwarchodedig.
- denu mewnfuddsoddiad i fusnesau a'n seilwaith bwyd.
- sicrhau bod ein cefnogaeth yn cael ei ddefnyddio i sbarduno blaenoriaethau craidd Llywodraeth Cymru fel cynaliadwyedd, cymunedau ffyniannus, datgarboneiddio, a gwaith teg.

13.29 Gan ategu ein strategaeth ddiwydiant, rydym wedi dechrau gwaith ar Strategaeth Bwyd Cymunedol yr ydym yn rhagweld y bydd yn arwain ac yn grymuso gweithgarwch a diddordeb ar lawr gwlad mewn bwyd. Drwy feithrin gallu, rydym yn anelu at gael cadwyni cyflenwi bwyd lleol lle y bo hynny'n ymarferol.

13.30 Adnoddau staffio digonol ar gyfer datblygu polisïau a deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit.

13.31 Mae ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i effeithio ar Gymru, gan arwain at feysydd gwaith hanfodol newydd i Lywodraeth Cymru. Roedd rhai i'w disgwyl fel paratoi ein ffiniau, fodd bynnag, mae effaith newidiadau eraill i'w pennu o hyd. Er enghraifft, adolygiad arfaethedig Llywodraeth y DU o Gyfraith yr UE a ddargedwir a fydd yn gofyn ymdrech sylweddol ar draws y portffolio. Mae angen i ni barhau i addasu i'r cyd-destun esblygol hwn ac ymateb i ffordd hollol newydd o weithio i Gymru, o ran ein rôl yn y DU a'n hymwneud â'r UE a chenhedloedd masnachu eraill. Mae hyn yn gofyn cynnal llinellau cyfathrebu rhynglywodraethol effeithiol. Er enghraifft, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau'n rhan o grŵp Rhyngweinidogol ffurfiol gyda Llywodraeth y DU (Defra), Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, lle mae'n rhaid i ni yn awr gytuno ar sut rydym yn cydweithio i ddatblygu polisi lle mae pwerau wedi llifo'n ôl o'r UE.

13.32 Cefnogir y gwaith hwn gan gyfres o fframweithiau cyffredin y mae pwyllgorau perthnasol yn craffu arnynt ar ôl eu cyhoeddi. Mae'r rhain yn gosod trefniadau ar gyfer sut rydym yn dod ynghyd ledled y DU mewn meysydd pwnc. At hynny, mae peirianwaith Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) yr UE yn dal i esblygu ac yn gofyn i ni feddwl yn wahanol am y ffordd rydym yn ymateb, yn yr un ffordd ag y mae angen i ni ddeall amgylchedd masnachu sy'n esblygu.

13.33 Yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer cymorth i amaethyddiaeth, o ystyried anghytundeb yn y gorffennol.

13.34 Ynghyd â'i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn amlinellu ein gwrthwynebiadau i'r dull hwn.

## 14.0 Deddfwriaeth

14.1 Taliadau amaethyddol parhaus cyn trosglwyddo i'r cynllun newydd – Cynllun y

Taliad Sylfaenol, cynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig a chynlluniau newydd interim;

14.2 Ar 15 Rhagfyr, cyhoeddais y byddai taliadau uniongyrchol i ffermwyr yng Nghymru yn parhau, ar yr un lefel â'r hyn a gafwyd dros y 3 blynedd diwethaf, gan gadarnhau cyllideb o £238 miliwn ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol 2023 a chyllideb ddangosol o £238 miliwn ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol 2024.

14.3 Bydd cyllid ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn parhau i gael ei dynnu o'r Undeb Ewropeaidd, o dan delerau'r Cytundeb Ymadael. Daw'r rhaglen i ben ym mis Rhagfyr 2023. Ar 7 Rhagfyr 22, mae cyfanswm gwariant y rhaglen wedi mynd y tu hwnt i £676.98 miliwn, sef 80.4% o gyfanswm gwerth y rhaglen, gyda £468.30 miliwn yn gronfeydd yr UE.

14.4 Dros y tair blynedd nesaf (gan gynnwys 22-23) rydw i'n sicrhau bod £257 miliwn ar gael i gefnogi gwydnwch yr economi wledig a'n hamgylchedd naturiol ac rydw i eisoes wedi cyhoeddi gwerth £227 miliwn o gynlluniau buddsoddi gwledig. Byddaf yn gwneud rhagor o gyhoeddiadau cyllid maes o law.

14.5 Mae'r arian sylweddol a gyhoeddwyd yn cefnogi ein ffermwyr, ein coedwigwyr, ein rheolwyr tir a'n busnesau bwyd i hyrwyddo'r gwaith o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a chefnogi'r economi wledig ar y llwybr tuag at Gymru sero net a chadarnhaol o ran natur. Mae'r cyllid yn cynnwys ffocws ar goetiroedd a choedwigaeth, ar welliannau amgylcheddol i ffermydd, rheoli tir yn gynaliadwy, cynhyrchiant ac arallgyfeirio. Rydym yn targedu rheoli tir ar raddfa tirwedd a chadwyni cyflenwi bwyd a ffermio hefyd. Mae'r dyraniad hwn o'r cyllid yn ymateb i ddiwedd Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) yr UE, a fydd yn cau yn 2023. Bydd yn sicrhau bod cefnogaeth yn parhau ar gyfer camau pwysig a ariannwyd yn flaenorol o dan y RhDG. Mae'r fframwaith yn ategu'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy hefyd, a fydd yn gwobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir am y gwaith a wneir ganddynt i ymateb i heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gyda buddion o ran diogelwch bwyd yng Nghymru ac yn fyd-eang.

15.0 Y broses o drosglwyddo i'r cynllun amaethyddol newydd, er enghraifft cynnal cynllun peilot, trefniadau gweinyddol ac ymchwil a datblygu;

15.1 Mae nifer o gynlluniau o dan y Cynlluniau Buddsoddi Gwledig (2022-2025) wedi cael eu datblygu'n benodol i gynnig cymorth ac i baratoi ffermwyr ar gyfer y cynllun newydd a fydd yn cael ei weithredu yn 2025. Un enghraifft benodol yw'r cynllun Creu Coetir, gyda rhagor o gynlluniau'n cael eu hystyried i gefnogi cydweithio ar raddfa tirwedd.

15.2 Mae swyddogaethau a mecanweithiau newydd i fonitro a gwerthuso ein cynllun amaethyddol newydd hefyd yn cael eu hystyried, gan gynnwys archwilio carbon ac adolygu cynefinoedd gan ddefnyddio dulliau arsylwi'r ddaear.

15.3 Sefydlwyd rhaglen newid Taliadau Gwledig Cymru (RPW) i adolygu ac adeiladu ar y trefniadau gweinyddol a ddefnyddiwyd ar gyfer darparu rhaglenni'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) blaenorol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu unwaith eto gyda rhanddeiliaid ffermio er mwyn sicrhau bod system ar-lein addas i'r diben a hawdd ei dilyn ar gael i ffermwyr gael mynediad i'r cynllun amaethyddol newydd.

15.4 Mae RPW yn ymchwilio a datblygu model newydd cydgysylltiedig ar gyfer cwsmeriaid i gael mynediad i'r cynllun a gwasanaethau a chymorth ehangach Llywodraeth Cymru yn ogystal â thechnolegau newydd ar y maes, a gefnogir gan Arsylwi'r Ddaear a Delweddu Lloeren, i wella gofynion o ran casglu a dilysu data'r cynllun newydd.

15.5 Rhaglen i Ddileu TB (gan gynnwys Cynllun Darparu, profi ac iawndal);

15.6 Mae'r Rhaglen i Ddileu TB yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar y pedair brif egwyddor ar gyfer rheoli clefydau heintus: Ei gadw draw, Ei ganfod yn gyflym, Ei atal rhag lledaenu, Ei ddileu. Rydym wedi gweld cynnydd da ers i'n rhaglen gael ei sefydlu gyntaf, gyda gostyngiadau hirdymor yn nifer yr achosion a mynychder y clefyd. Rhwng 2009 a 2020, bu gostyngiad o 48% mewn achosion newydd ac mae'n werth atgoffa ein hunain bod 94.8% o fuchesi yng Nghymru yn rhydd o TB ddiwedd mis Mehefin 2022.

15.7 Fel rhan o'i hymrwymiadau yn *Rhaglen Lywodraethu 2021 - 26*, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wahardd difa moch daear fel rhan o'r Rhaglen i Ddileu TB. Mae cyllid yn parhau i fod ar gael i gefnogi cynlluniau brechu preifat ledled Cymru, gan asesu'r un pryd y defnydd mwyaf priodol a chost- effeithiol o'r brechlyn BCG Moch Daear fel mesur amddiffynnol.

15.8 Lansiwyd dull rhanbarthol o ddileu TB yn 2017 gan greu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel ac mae polisïau'n parhau i gael eu mireinio, gan ymateb yn ddeinamig i'r darlun o'r clefyd sy'n newid drwy'r amser, ac ymateb i'r heriau penodol sy'n deillio o bandemig Covid-19.

15.9 Yn dilyn ymgynghoriad, a ddaeth i ben yn gynharach eleni, bydd y Gweinidog yn cyhoeddi diwygiadau i'r Rhaglen i Ddileu TB yn 2023.

15.10 Y broses sy'n mynd rhagddi o weithredu Rheoliad Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021, gan gynnwys manylion y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ar orfodi'r rheoliadau;

15.11 Ar ôl cwblhau ei adolygiad sylfaenol, mae CNC yn parhau i gydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru i gyd-ddylunio cytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) ar gyfer pob maes polisi/cyflawni. Disgwylir i'r gwaith o ddatblygu'r CLGau gael ei gwblhau ddechrau 2023, a bydd yn cynnwys gweinyddu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

15.12 Cymorth ariannol parhaus i'r sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu ar ôl i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) ddod i ben;

15.13 Mae Cronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014-2020 bellach wedi cau ac mae'n ofynnol cwblhau prosiectau sydd ar y gweill erbyn diwedd 2023.

15.14 Daeth Rheoliadau Cynllun Morol, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cymorth Ariannol) (Cymru) 2022 i rym ar 1 Rhagfyr. Bydd y cynllun hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gefnogi twf cynaliadwy yr economi forol gan amddiffyn a

gwella'r amgylchedd morol yr un pryd.

15.15 Bydd Cynllun y Môr a Physgodfeydd Cymru ar gael ar gyfer ceisiadau drwy rowndiau ariannu wedi'u targedu ochr yn ochr â buddsoddiad pellach drwy'r fenter Meithrin Gallu Cymunedau Arfordirol Cymru. Bydd yr ymyriadau hyn o fudd i sectorau morol, pysgodfeydd a dyframaethu Cymru.

16.0 Polisïau allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Lles Anifeiliaid newydd Cymru 2021-26;

16.1 Caiff y gwaith o weithredu'r cynllun ei gefnogi a'i fonitro gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Mae'r wyth aelod, sy'n benodiadau cyhoeddus, yn dod â chyfoeth o brofiad a gwybodaeth ac mae eu cefndir mewn amrywiaeth eang o sectorau a meysydd arbenigedd.

16.2 Mae cynllun gweithredu presennol 2022-2024, ynghyd â Chynllun Lles Anifeiliaid Cymru 2021-2026, yn mynd i'r afael â sawl ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu yn ogystal â gwaith polisi parhaus Cymru a chydweithrediadau polisi'r DU/Prydain Fawr:

- Datblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gan gyflwyno cofrestru ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid, bridwyr masnachol ar gyfer anifeiliaid anwes neu ar gyfer saethu, ac arddangosfeydd anifeiliaid;
- Gwella'r cymwysterau i arolygwyr lles anifeiliaid er mwyn codi eu statws proffesiynol;
- Gofyniad i gael teledu cylch cyfyng (CCTV) ym mhob lladd-dy;
- Cyfyngu ar y defnydd o gewyll ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu ffermio.

16.3 Polisi adnabod a symud da byw

16.4 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar Newidiadau i Drefniadau Adnabod, Cofrestru ac Adrodd ar Symudiadau Da Byw a gynhaliwyd yn 2021, rydym yn bwriadu gweithredu newidiadau deddfwriaethol gorfodol o 2024 i gynnwys tagiau Dyfais Adnabod Electronig (EID) Buchol, adrodd ar symudiadau cyfan, adrodd 24 awr gan Ganolfannau Cofnodi Canolog a chael gwared ar gofrestriadau papur ar gyfer gwartheg.

16.5 Mae EIDCymru yn cael ei ddatblygu i fod yn system a gwasanaeth olrhain amlrywogaeth i Gymru ac rydym yn disgwyl i'r broses o gofrestru gwartheg ac adrodd ar symudiadau gael ei lansio ar EIDCymru yn ystod Hydref/Gaeaf 2023. O'i lansio, byddwn hefyd yn galluogi newidiadau gwirfoddol i gynnwys cofnodi gwybodaeth am siwrne, adrodd cyn symud, cofrestri daliadau ar-lein ac adrodd ar symudiadau cylchol ar gyfer sioeau.

16.6 Mae trafodaethau ar fanylebau tagiau ar gyfer EID Buchol ar y gweill a byddwn yn cynnal cynllun peilot ar EID Buchol i gasglu a chymharu data o dagiau a darllenwyr LF ac UHF. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall gwir faint yr effeithiau y bydd pob math o dag a thechnoleg yn eu cael ar geidwaid, marchnadoedd, canolfannau casglu a lladd-dai yng Nghymru.

16.7 Pan fyddaf wedi cytuno ar y manylebau tag terfynol ar gyfer EID Buchol, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ac yn rhannu'r dyddiad gweithredu arfaethedig ar gyfer EID Buchol.

Papur 05a – Atodiad A - Strwythur y Gyllideb (yn ôl SPA a BEL)

## 1.0 Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd – ARIANNU CAMAU GWEITHREDU

| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | Cyllideb Derfynol 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 300,212 | 354,284 | 54,072 | 18% | 376,284 | 22,000 | 6% |
| Heb fod yn arian parod | 10,817 | 10,817 | 0 | 0% | 10,817 | 0 | 0% |
| Cyfalaf | 37,200 | 37,200 | 0 | 0% | 37,000 | (200) | -1% |
| **CYFANSWM** | **348,229** | **402,301** | **54,072** | **16%** | **424,101** | **21,800** | **5%** |

Mae dadansoddiad manwl o Gamau Gweithredu yn ôl gweithgarwch BEL yn cael eu hegluro yn yr adrannau canlynol.

**Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr**

| | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Amaethyddiaeth (2829) | 650 | 650 | 0 | 0% | 650 | 0 | 0% |
| Cyllid Fframwaith Awdurdodau Lleol (2831) | 200 | 200 | 0 | 0% | 200 | 0 | 0% |
| Ymgysylltu â Chwsmeriaid Amaeth (2860) | 400 | 400 | 0 | 0% | 400 | 0 | 0% |
| Prosiect Sir, Plwyf, Daliad (2861) | 500 | 500 | 0 | 0% | 500 | 0 | 0% |
| EID Cymru (2862) | 2,639 | 2,639 | 0 | 0% | 2,639 | 0 | 0% |
| Adnabod Da Byw (2863) | 1,647 | 1,647 | 0 | 0% | 1,647 | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Cyngor Technegol (2864) | 358 | 358 | 0 | 0% | 358 | 0 | 0% |
| Deddf Tiroedd Comin (2866) | 433 | 433 | 0 | 0% | 433 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **6,827** | **6,827** | **0** | **0%** | **6,827** | **0** | **0%** |

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr CYFALAF | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EID Cymru (2862) | 0 | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| Adnabod Da Byw (2863) | 1,000 | 1,000 | 0 | 0% | 1,000 | 0 | 0% |
| Deddf Tiroedd Comin (2866) | 0 | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **1,000** | **1,000** | **0** | **0%** | **1,000** | **0** | **0%** |

Mae'r BEL Gwasanaethau Cyngor Technegol (2864) yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau statudol, datblygiadau polisi a gwasanaethau cymorth mewn perthynas ag amaethyddiaeth a'r amgylchedd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, brisiadau TB, Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol Amaethyddiaeth, Dosbarthiad Tir Amaethyddol, iechyd planhigion, Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol, Cyflogau Amaethyddol, Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru a Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

BEL 2831 Caiff cyllid ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol Cymru drwy'r Penaethiaid Safonau Masnach i ddarparu gweithgareddau gorfodi wedi'u targedu a gweithgareddau gorfodi ychwanegol mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid drwy Gynllun Datblygu Partneriaeth y cytunwyd arno gan yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun yn sicrhau canlyniadau sy'n mynd y tu hwnt i gyfrifoldebau statudol yr awdurdodau lleol yn ogystal â chanlyniadau i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid ac atal unrhyw achosion o glefydau anifeiliaid ac ymateb yn fwy effeithlon iddynt. Mae hyn yn cyfrannu at liniaru'r costau sylweddol a'r pwysau o ran adnoddau y byddai achosion o'r fath yn eu hachosi i'r llywodraeth a'r diwydiant.

BEL 2860 Y gyllideb hon yw'r prif fecanwaith ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid ffermio a'r diwydiant ehangach ar gynlluniau, polisïau a mentrau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys cynhyrchu diweddariadau copi caled i holl hawlwyr Cynllun y Taliad Sylfaenol a chefnogi ffermwyr i gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Mae'r gyllideb yn cefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a lles ffermwyr hefyd gan gynnwys Grŵp Cefnogi Ffermwyr Cymru a gwaith parhaus i hyrwyddo FarmWell Cymru.

Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid uniongyrchol i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn ogystal â Chymdeithasau sioeau eraill ledled Cymru. Bydd arian tuag at weithredu argymhellion adolygiad annibynnol o wydnwch sioeau amaethyddol mewn ymateb i Covid 19 ar gael o'r gyllideb hon.

BEL 2861 - Mae'r dyraniad yn ariannu Prosiect Sir, Plwyf, Daliad, sy'n rhesymoli a glanhau tirwedd CPH yng Nghymru. Bydd y gyllideb a ddyrannwyd (£200,000) yn sicrhau bod RPW yn parhau i weinyddu a datblygu'r platfform TG presennol ac mae'r £300,000 arall ei angen i gefnogi gwaith achos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â newid rhifau CPH er enghraifft diwygio cofnodion APHA

BEL 2862 EIDCymru yw'r gronfa ddata ar gyfer symudiadau defaid i ffermwyr Cymru,

sy'n bodloni'r safonau fel y'u nodir yn Rheoliad y Cyngor Ewropeaidd 21/2004 lle mae'n ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu sail ar gyfer system Ewropeaidd i nodi a chofnodi symudiadau defaid, geifr a cheirw. Gallai diffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau hyn arwain at dorri cyfraith Ewropeaidd a chael effaith ar gytundebau masnach ar ôl ymadael â'r UE yn y dyfodol. Mae EIDCymru yn gwella'r gallu i olrhain, gan helpu i liniaru yn erbyn y gost sylweddol i'r llywodraeth a'r diwydiant pe bai achosion o glefyd anifeiliaid mewn defaid.

**Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru**

| **Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru REFENIW** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol Colofn 1 Amaethyddiaeth yr UE (2787) | 238,000 | 238,000 | 0 | 0% | 238,000 | 0 | 0% |
| Gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl (2790) | 9,194 | 9,194 | 0 | 0% | 9,194 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **247,194** | **247,194** | **0** | **0%** | **247,194** | **0** | **0%** |

| **Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru CYFALAF** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Polisi Amaethyddol Cyffredin - TG (2789) | 6,000 | 6,000 | 0 | 0% | 6,000 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **6,000** | **6,000** | **0** | **0%** | **6,000** | **0** | **0%** |

Mae Taliadau Uniongyrchol BEL 2787 yn daliadau'r Rhaglen Amaethyddol Gyffredin a ariennir 100% yng Nghymru. Mae taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i ffermwyr sy'n defnyddio'r arian i dalu eu treuliau busnes a threuliau eraill. Gwneir taliadau ar gyfer 2021 ym mis Hydref (ymlaen llaw) ac ym mis Rhagfyr (taliadau olaf) Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p.2),

Mae BEL 2790 - systemau TGCh RPW yn cynnwys tair prif elfen:

- **CAPIT**: System dilysu ceisiadau a thaliadau sy'n seiliedig ar reolau.
- **Golygydd y Cynllun**: System Adnabod Parseli Tir (LPIS) yn seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fapio'r holl dir sy'n cael ei ffermio a'i hawlio yng Nghymru naill ai ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol neu Glastir
- **RPW Ar-lein**: Porth ar-lein i ffermwyr (hawlwyr) wneud cais a hawlio am wahanol gynlluniau PAC a RhDG. Mae'r system hon yn cefnogi gwasanaeth digidol 100% yn RPW.

## Rhaglen Economaidd a Chynaliadwyedd Gwledig

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig REFENIW | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig (2833) | 6,880 | 70,272 | 63,392 | 921% | 109,454 | 39,182 | 56% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **6,880** | **70,272** | **63,392** | **921%** | **109,454** | **39,182** | **56%** |

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig CYFALAF | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig (2833) | 20,500 | 20,500 | 0 | 0% | 30,000 | 9,500 | 46% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **20,500** | **20,500** | **0** | **0%** | **30,000** | **9,500** | **46%** |

Pwrpas y BEL hon yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen datblygu gwledig ddomestig o 2024, a datblygu a gweithredu cynlluniau pontio ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir o 2021 i 2024 drwy gyllid sy'n disodli cyllid yr UE. Bydd yr arian yn rhoi cymorth i'r rhaglen i ddatblygu'r rhaglen tymor hwy. Bydd y canlyniadau a'r mesurau perfformiad ar gyfer cynlluniau sy'n cael eu datblygu drwy gyllid sy'n disodli cyllid yr UE yn cael eu datblygu ar lefel rhaglen a chynllun.

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 REFENIW | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 (2949) | 26,502 | 17,182 | (9,320) | -35% | 0 | (17,182) | -100% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **26,502** | **17,182** | **(9,320)** | **-35%** | **0** | **(17,182)** | **-100%** |

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 CYFALAF | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 (2949) | 9,500 | 9,500 | 0 | 0% | 0 | (9,500) | -100% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **9,500** | **9,500** | **0** | **0%** | **0** | **(9,500)** | **-100%** |

BEL 2949 - Mae Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru yn rhaglen fuddsoddi saith mlynedd yn cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau.

**Datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig**

| **Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Datblygiad seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig REFENIW** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwil a Gwerthuso (2240) | 520 | 520 | 0 | 0% | 520 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **520** | **520** | **0** | **0%** | **520** | **0** | **0%** |

Mae'r BEL hon yn ariannu gweithgarwch ymchwil a gwerthuso pwysig mewn perthynas ag amaethyddiaeth Cymru. Mae'n cynnwys dau linyn:

1) Mae'r Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) yn arolwg blynyddol o fusnesau ffermio yng Nghymru. Fe'i cynhelir gyda'r prif bwrpas o gasglu data ffisegol ac ariannol manwl am sefyllfa economaidd busnesau fferm ledled Cymru. Yr arolwg yw'r brif ffynhonnell gwybodaeth am economeg busnesau fferm. Mae'r arolwg yn darparu tystiolaeth ar lefelau incwm gwahanol sectorau amaethyddol yng Nghymru, perfformiad ariannol, a sefyllfa ariannol ffermydd (asedau, rhwymedigaethau, gwerth net). Er enghraifft, yr Arolwg o Fusnes Ffermio yw ffynhonnell y ffigur a glywn yn aml: ar gyfartaledd, mae 80% o incwm ffermwyr Cymru yn dod o'r Taliad Sylfaenol.
2) Mae prosiect ymchwil modelu economaidd FAPRI-DU yn cynnwys datblygu a chynnal system fodelu economaidd sy'n dangos y cydgysylltiadau deinamig ymhlith y newidynnau sy'n effeithio ar gyflenwad a galw ym mhrif sectorau amaethyddol Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd prosiect ymchwil FAPRI-UK yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar bolisi amaethyddiaeth domestig.

**Pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru**

| **Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Pysgodfeydd a dyframaethu, gan gynnwys gorfodaeth Pysgodfeydd Cymru REFENIW** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** | **Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000** | **Newid £'000** | **% y Newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Pysgodfeydd (2830) | 2,215 | 2,215 | 0 | 0% | 2,215 | 0 | 0% |
| Pysgodfeydd (2870) | 3,024 | 3,024 | 0 | 0% | 3,024 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **5,239** | **5,239** | **0** | **0%** | **5,239** | **0** | **0%** |

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb:B122 Pysgodfeydd a dyframaethu, gan gynnwys gorfodaeth Pysgodfeydd Cymru CYFALAF | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Pysgodfeydd (2830) | 200 | 200 | 0 | 0% | 0 | (200) | -100% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **200** | **200** | **0** | **0%** | **0** | **(200)** | **-100%** |

BEL 2830 - Mae'r BEL hon yn cefnogi cydgyllido Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) sy'n cynnig cyllid i'r diwydiant ac yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru i weithredu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig drwy ddatblygu pysgodfeydd a dyframaethu cynaliadwy. Mae'r cynllun yn cyfuno'r gwaith o gasglu data, polisi morwrol integredig a rheoli / gorfodi elfennau cyllid yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Mae'r EMFF yn gronfa ar lefel y DU gyda dyraniad craidd o €145 miliwn. Cytunwyd ar y rhaniad yn y DU, yn dilyn trafodaethau rhwng Gweinyddiaethau'r DU ar lefel Weinidogol ac ar lefel uwch swyddogion.

**Mae BEL 2870 yn cynnwys cyllid ar gyfer y canlynol;**

- **Bioamrywiaeth Morol** Gweithio gyda sefydliadau amgylcheddol anllywodraethol i ddatblygu cynllun adfer tymor byr sy'n arwain at raglen adfer tymor hwy

- **Cynllunio Morol (yn cynnwys Ynni Adnewyddadwy)** I gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a chydymffurfio â dyletswyddau statudol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, darperir cymorth technegol arbenigol gan Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) i'r prosiect cynllunio morol. Mae'r gyllideb o £168,000 yn rhwymedigaeth gytundebol wedi'i llofnodi eisoes i staff CEFAS ddarparu'r cymorth hwn.

    - **Gwyddor a Thystiolaeth Pysgodfeydd**

- **Systemau Digidol Pysgodfeydd** – Mae systemau digidol ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn cynnwys amrywiaeth o systemau TG ar gyfer cofnodi daliadau, monitro llongau, cofnodi archwiliadau pysgodfeydd a thrwyddedau morol, cofnodion gwerthu pysgod a systemau iechyd a diogelwch ar gyfer swyddogion gorfodi.

- **Polisi Pysgodfeydd Domestig** Bydd y Gangen Polisi a Rheoli Pysgodfeydd Domestig yn parhau i fodloni rhwymedigaethau statudol i reoli pysgodfeydd trwyddedig a chyflawni ymrwymiadau hirsefydlog i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ar gyfer pysgodfeydd. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod ein pysgodfeydd yn gynaliadwy drwy ddiogelu'r amgylchedd gan fynd ati'r un pryd i wneud y gorau o fanteision economaidd a chymdeithasol pysgodfeydd i Gymru.

    - **Masnach Morol a Physgodfeydd -**

cyllid craidd ar gyfer Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

- **Rheoli a Gorfodi -** Mae'r gyllideb Rheoli a Gorfodi yn cwmpasu'r holl gostau gweithredol sy'n gysylltiedig â staff Rheoli a Gorfodi, Tîm Gorfodi Patrôl

Pysgodfeydd a Llongau Patrôl Pysgodfeydd gan gynnwys cynnal a chadw, tanwydd ac yswiriant.

- **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** - Mae gan y maes Môr a Physgodfeydd ddau grŵp rhanddeiliaid. Mae gan Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru (WMFAG) gadeirydd a benodir yn gyhoeddus ac mae'n cynrychioli'r sector Pysgodfeydd. Mae gan Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol Cymru (WMAAG) hwylusydd ar gontract ac mae'n cynrychioli'r sector morol. Mae costau yn rhwymedigaethau cytundebol a defnyddir cyllid sy'n weddill ar gyfer llogi lleoliadau, arlwyo a chostau cynhaliaeth cysylltiedig.

## Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru REFENIW | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant (2970) | 7,050 | 7,050 | 0 | 0% | 7,050 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **7,050** | **7,050** | **0** | **0%** | **7,050** | **0** | **0%** |

Mae BEL 2970 yn ariannu rhaglenni ar draws y sbectrwm bwyd, gan ddefnyddio adnoddau ariannol gan Lywodraeth Cymru yn ehangach gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Gwledig, Cronfa Pysgodfeydd Ewrop, y Gronfa Cadernid Economaidd a nifer o fentrau llai yn ogystal â ffynonellau ariannu allanol fel Bargeinion Twf;

- cefnogi goroesiad a gwydnwch busnesau ar ôl Covid-19 ac ar ôl ymadael â'r UE drwy ddenu arian i gefnogi twf y sector bwyd, cydweithio â manwerthwyr i'w hannog i gynyddu eu dewis o gynhyrchion bwyd a diod o Gymru, helpu i sicrhau mwy o bresenoldeb ar-lein i gynhyrchwyr o Gymru a gweithgareddau hyrwyddo i gynyddu cyfran gweithgynhyrchwyr bwyd Cymru o'r cyflenwad i'r sector gwasanaeth bwyd, twristiaeth a'r sector cyhoeddus; a
- hyrwyddo diwydiant bwyd Cymru drwy ddigwyddiadau a rhwydweithiau rhyngwladol gyda'r bwriad o gynyddu mewnfuddsoddiad.

## Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid – ARIANNU'R CAMAU GWEITHREDU

| Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 41,499 | 41,499 | 0 | 0% | 41,499 | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | **41,499** | **41,499** | **0** | **0%** | **41,499** | **0** | **0%** |

Mae dadansoddiad manwl o Weithredoedd yn ôl gweithgarwch BEL yn cael ei egluro yn yr adrannau canlynol.

## Cefnogi a Darparu'r rhaglen / strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Cefnogi a Darparu'r rhaglen / strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid REFENIW | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid (2270) | 1,108 | 1,108 | 0 | 0% | 1,108 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **1,108** | **1,108** | **0** | **0%** | **1,108** | **0** | **0%** |

Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu gwariant amrywiol y Llywodraeth ar iechyd anifeiliaid, lles, atal a rheoli clefydau yn ogystal â gwyliadwriaeth a rheolaeth ragweithiol/cynllunio wrth gefn ar gyfer clefydau egsotig. Mae'n cynnwys cymorth parhaus i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a'r Grŵp Cyflawni ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid a'r Amgylchedd. Mae hyn yn ein galluogi i weithio mewn partneriaeth â diwydiant i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid, hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o wrthfiotigau a gweithredu'n effeithiol i reoli achosion o glefydau anifeiliaid.

## Rheoli a darparu Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Rheoli a Darparu Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill REFENIW | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Asiantaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid (2271) | 18,281 | 18,281 | 0 | 0% | 18,281 | 0 | 0% |
| Taliadau Difa TB - Costau a Derbyniadau (2272) | 13,810 | 13,810 | 0 | 0% | 13,810 | 0 | 0% |
| Dileu TB (2273) | 8,300 | 8,300 | 0 | 0% | 8,300 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **40,391** | **40,391** | **0** | **0%** | **40,391** | **0** | **0%** |

Mae'r mwyafrif o gyllid yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yng Nghymru. Mae'r cyllid yn helpu i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid yn ogystal ag iechyd y cyhoedd, ac mae'n gwella diogelwch bwyd drwy ymchwil, gwyliadwriaeth ac arolygu.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer talu costau gwasanaethau a ddarperir gan APHA gan gynnwys cyfrannu at weithgarwch gwyliadwriaeth APHA Prydain gyfan. Darperir cyllid hefyd ar gyfer y gwaith statudol a wneir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar gyfer taliadau iawndal TSE statudol petai'r angen yn codi.

Mae'r gyfran sylweddol o weithgarwch APHA yn gweithredu gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r Rhaglen i Ddileu TB (yn ychwanegol at BEL 2273) yn ogystal â chymhwyso rheolaethau er mwyn sicrhau diogelwch iechyd pobl a'r gadwyn fwyd ddynol.

Mae'r gyllideb ar waith i liniaru'r canlynol:

- Methu â chymryd camau effeithiol os bydd achosion o glefyd anifeiliaid egsotig yn arwain at sgil-effeithiau ehangach o ystyried bod gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth (ariannol) ddigwyddiadol ar gyfer costau sydd heb eu cyllidebu o dan yr amgylchiadau hynny, e.e. amcangyfrifwyd bod Clwy'r Traed a'r Genau wedi costio tua £100 miliwn i'r Llywodraeth yng Nghymru yn 2001, pan nad oedd yn fater wedi'i ddatganoli. Yn nhermau heddiw, gallai'r gost honno fod yn llawer mwy heb amcangyfrif niwed i ddiwydiant a thwristiaeth yng Nghymru lle byddai effaith niweidiol ddifrifol i incwm aelwydydd.
- Gallai methu â dangos rheolaeth effeithiol o glefydau anifeiliaid danseilio trafodaethau yn y dyfodol ar farchnad sengl lle gallai gofynion i gael rheolaethau clefydau anifeiliaid ar waith sydd yn y man lleiaf yn cyfateb i rai Aelod-wladwriaethau eraill fod yn sefyllfa y rhoddir cryn bwyslais arni fel rhan o unrhyw gytundeb masnach gyda'r Gymuned Ewropeaidd.

Bydd gostyngiadau mewn lefelau rheoli clefydau anifeiliaid yn effeithio ar drafodaethau masnach y DU ar hyn o bryd ac yn y dyfodol gan y bydd disgwyl i'r DU allu dangos lefelau rheolaeth sydd yn y man lleiaf i rai Aelod-wladwriaethau Ewrop.

Mae BEL 2272 yn gyllideb 'sy'n cael ei harwain gan y galw' ac fel y soniwyd eisoes mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i dalu iawndal TB. Mae cysylltiad annatod rhwng nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu difa ac felly'r pwysau ar y gyllideb hon â chynnydd y gwaith i Ddileu TB a chyllideb y Rhaglen i Ddileu TB (BEL 2273). Gall unrhyw ymyrraeth i bolisïau dileu arwain at ledaenu clefydau, sydd yn ei dro yn debygol o arwain at fwy o wariant ar Iawndal TB. Os bydd gorwario yn digwydd byddai goblygiadau i gyllidebau OCVO ac ESNR ehangach, gan y gallai'r rhain hefyd gael eu galw i wrthbwyso unrhyw orwario fel y gwelir yn y blynyddoedd blaenorol.

BEL 2273 Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu ymrwymiad statudol i Gynllun Dileu TB y DU. Mae'r BEL hwn yn ategu'r gwaith a wnaed gan ein partner cyflenwi yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) i gyflwyno polisïau TB, gan gynnwys profion blynyddol, a mentrau a phrosiectau fel Cymorth TB a gwaith epidemiolegol i helpu i ategu'r dystiolaeth a'r dull gweithredu ar gyfer y Rhaglen i Ddileu TB. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan y BEL hon a hefyd gan BEL 2271 (Darparu a Thaliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid).

**Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE - ARIANNU CAMAU GWEITHREDU**

| Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 3,434 | 3,434 | 0 | 0% | 3,434 | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | **3,434** | **3,434** | **0** | **0%** | **3,434** | **0** | **0%** |

Mae dadansoddiad manwl o Gamau Gweithredu yn ôl gweithgarwch BEL yn cael ei egluro yn yr adrannau canlynol.

## Monitro Materion Gwledig, Strategaeth Ymadael â'r UE

| Llinellau Gwariant yn y Gyllideb: Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE REFENIW | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % y Newid | Cynllun-iau Newydd Cyllideb Ddrafft 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % y Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth a Chysylltiadau'r Llywodraeth (2816) | 3,434 | 3,434 | 0 | 0% | 3,434 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **3,434** | **3,434** | **0** | **0%** | **3,434** | **0** | **0%** |

Mae'r BEL hon yn cefnogi Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth. Cafodd yr Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth (EESU) ei chreu i gydlynu, cefnogi a llywio ein hymadawiad o'r UE a gweithgareddau pontio. Mae'r Uned yn gweithio ar draws

portffolios Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, er mwyn hwyluso, cydgysylltu a chyflwyno tystiolaeth strategol a modelau a'u cymhwyso'n ymarferol i gefnogi gwaith llunio polisïau ehangach y portffolios. Ar ôl cwblhau cytundeb masnach cynhwysfawr gyda'r UE, prif ffocws yr Uned yw cefnogi gweithrediad swyddogaethau a strwythurau trawsbynciol newydd sy'n deillio o ymadael â'r UE, gyda phob un o'r timau polisi perthnasol yn bennaf gyfrifol am ddatblygu, cyflawni, rheoli a chyfathrebu polisïau.

**Crynodeb**

Mae tabl BEL Cyllideb Ddrafft MEG Materion Gwledig ar gyfer 2023-24 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried.

**Lesley Griffiths**

**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

Papur 06 – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 16 Ionawr 2023 - tystioaeth ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn mynd i gyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 16 Ionawr i roi tystiolaeth fel rhan o waith y Pwyllgor i graffu ar gynigion Cyllideb Ddrafft y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2023-24.

1.2. Yn ei lythyr ar 22 Tachwedd i'r Cwnsler Cyffredinol, amlinellodd y Cadeirydd nifer o feysydd lle'r hoffai'r Pwyllgor gael mwy o fanylion am wariant arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder a hygyrchedd cyfraith Cymru, fel y nodir yn yr Atodiad i'r llythyr. Mae'r papur hwn yn rhoi'r manylion ychwanegol hynny gan ddefnyddio'r penawdau a ddefnyddir yn yr Atodiad i'r llythyr.

## 2. Cyffredinol

2.1. Mae'r atodlen yn Atodiad 1 yn cynnwys dadansoddiad o gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 yn ôl Prif Grŵp Gwariant, Maes Rhaglen Wariant a Llinell Wariant yn y Gyllideb a gaiff eu defnyddio i gyllido camau gweithredu arfaethedig sy'n ymwneud â chyfiawnder. Mae'r atodlen yn rhoi disgrifiad naratif o'r gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir gan bob Llinell Wariant yn y Gyllideb, ac yn cymharu'r dyraniad ym mlwyddyn ariannol 2023-24 â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

2.2. Yn sail i Gyllideb Ddrafft 2023-24 mae dewisiadau anodd, sy'n cynnwys llawer o doriadau cyllid. Mae Gweinidogion wedi gwneud dewisiadau anodd ac mae'n rhaid iddynt drosglwyddo toriadau mewn cyllid mewn meysydd lle na fyddent wedi dymuno gwneud hynny fel arfer.

2.3. Er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i warchod meysydd allweddol, cynhaliwyd ymarfer ailflaenoriaethu i ryddhau cyllid o gynlluniau presennol ac aildargedu'r adnoddau prin at y meysydd lle ceir yr angen mwyaf. Y bwriad yw sicrhau bod pob punt a fuddsoddir yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf. Yn anffodus, cydnabyddir y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar y meysydd hynny lle ailflaenoriaethwyd cyllid.

2.4. Drwy ddefnyddio cyllid a ryddhawyd yn sgil yr ymarfer ailflaenoriaethu, ynghyd â rhai newidiadau cadarnhaol cyfyngedig i'n setliad cyffredinol o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref, mae Llywodraeth Cymru wedi targedu dyraniadau ychwanegol i warchod gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a chyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu, gan helpu'r rhai y mae'r argyfwng

costau byw yn effeithio arnynt a chefnogi ein heconomi drwy gyfnodau o ddirwasgiad.

2.5. Gan droi at lefel yr wybodaeth a ddarperir am y gwariant arfaethedig ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn y Gyllideb Ddrafft, “Protocol Proses y Gyllideb” (“y Protocol”) rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, y cytunodd y Senedd arno ar 21 Mehefin 2017, yw'r ddogfen sy'n amlinellu'r ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru ynghylch materion cyllidebol ar hyn o bryd. Yn unol â'r Protocol, mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 yn amlinellu cynigion y gyllideb ar gyfer pob portffolio ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb.

2.6. Mae gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn trawstorri portffolios a chaiff cyllid ei ddyrannu i'r gweithgarwch hwn o sawl Llinell Wariant yn y Gyllideb ar draws y Prif Grwpiau Gwariant, fel y nodir yn yr atodlen yn Atodiad 1. Mewn llawer o achosion, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant ar gostau staff na chaiff eu hamser ei rannu'n union rhwng gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gweithgarwch arall, neu ragolygon gwariant na ellir eu dadgyfuno yn y modd hwn. Felly, yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, nid yw lefel y manylder ynghylch dyraniadau'r gyllideb ar gyfer gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn mynd ymhellach na lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb. Mae'r dull hwn yn gyson â'r Protocol ac felly mae strwythur a chyflwyniad y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 yn gyson â chyllidebau blynyddoedd blaenorol.

2.7. Bu newid i'r disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb sy'n cefnogi rhaglen trawsnewid cyfiawnder Llywodraeth Cymru. Yn y gorffennol, hon oedd y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y gyllideb a ddyrannwyd i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas"), ond mae bellach yn dyrannu'r gyllideb sy'n cyllido'r Is-adran Polisi Cyfiawnder er mwyn datblygu gweithgarwch sy'n cefnogi'r agenda trawsnewid cyfiawnder yng Nghymru. Mae hyn, yn bennaf, yn cynnwys gweithredu argymhellion Comisiwn Thomas ac ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli plismona a chyfiawnder, ynghyd â chydgysylltu arweinyddiaeth ym maes gweithgarwch cyfiawnder ym mhob rhan o'r Llywodraeth drwy gefnogi Is-Bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder. Felly, mae enw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb wedi newid o "Comisiwn Cyfiawnder yng Nghymru" i "Trawsnewid Cyfiawnder" er mwyn adlewyrchu diben y dyraniad cyllidebol yn well.

2.8. Costau staffio yw'r costau a delir drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid Cyfiawnder yn bennaf. Mae hyn yn cynnwys costau staff sy'n gweithio i weithredu argymhellion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio tribiwnlysoedd datganoledig Fodd bynnag, disgwylir hefyd i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon gael ei defnyddio i gomisiynu gwasanaethau allanol fel gwaith ymchwil neu ddadansoddi. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi gwahodd dyfynbrisiau am waith i gynnal asesiad o'r angen am brentisiaethau cyfreithwyr yng Nghymru. Disgwylir i gostau'r gwaith hwn gael eu talu gan ddefnyddio Llinell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid Cyfiawnder dros flynyddoedd ariannol 22/23 a 23/24.

2.9. Mae'r Protocol yn cydnabod bod proses y gyllideb yn esblygu ac y bydd y ffordd y caiff cynigion y gyllideb eu cyflwyno yn newid. Mae mwy y gellir ei wneud bob amser i wella tryloywder. Fel y gwŷr y Pwyllgor, rydym yn bwriadu cyflwyno adroddiad blynyddol sy'n amlinellu cynnydd yn erbyn ein rhaglen waith *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*. Fel rhan o hyn, rydym yn parhau i ystyried a oes unrhyw ffyrdd y gallwn wella manylder yr wybodaeth y gallwn ei rhoi am wariant ar gyfiawnder o fewn y llywodraeth.

## 3. Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

3.1. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am wariant arfaethedig ar Gyngor Cyfraith Cymru. Er i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector cyfreithiol i sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n annibynnol ac nid yw'n cael unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd sicrhau bod gan y Cyngor Cyfraith ymreolaeth lwyr i benderfynu ar ei raglen waith ei hun a'i chyflawni. O ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am unrhyw wariant ar y gweithgarwch hwn. Felly, nid oes modd rhoi dadansoddiad o'i wariant arfaethedig ar gyfer 2023-24. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i

weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Cyfraith a chaiff diweddariad ar y gweithgarwch hwnnw ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.

3.2. Ar wahân i hynny, mae Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn amlinellu blaenraglen waith uchelgeisiol sy'n cynnwys 59 o gamau gweithredu mewn 10 maes thematig. Er y bydd llawer o'r gweithgareddau hyn wedi dod i ben erbyn diwedd 2023-24, mae ffocws tymor hwy i gamau gweithredu eraill. Fel y nodwyd uchod, rydym yn bwriadu llunio adroddiad blynyddol sy'n amlinellu cynnydd yn erbyn y rhaglen waith hon ac rydym yn parhau i ystyried i ba raddau y gallwn roi manylion ystyrlon am wariant hyd yma a gwariant arfaethedig yn y dyfodol.

3.3. Mae'r atodlen yn Atodiad 1 yn nodi dyraniadau gwariant arfaethedig yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 ar raglenni cyfiawnder mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r rhain yn cynnwys y Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid, y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai ac addysg troseddwyr.

3.4. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid Cyfiawnder a nodir yn yr atodlen yn Atodiad 1 yn cyllido'r prosiect diwygio tribiwnlysoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddor casgliadau Comisiwn y Gyfraith i ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru a thribiwnlysoedd datganoledig eraill yng Nghymru ac roedd *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru* yn nodi ein bwriad i wneud diwygiadau strwythurol i dribiwnlysoedd datganoledig er mwyn creu system fodern o dribiwnlysoedd i Gymru. Rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol er mwyn rhoi system unedig, newydd o dribiwnlysoedd ar waith. Mae amserlen y ddeddfwriaeth honno yn dibynnu ar ei phrosesau ar wahân ei hun ac rydym yn gwneud gwaith paratoi cyn i'r ddeddfwriaeth honno gael ei hamserlennu.

## 4. Dyfodol Cyfraith Cymru

4.1. Fel yr eglurwyd yn fy llythyr ar 22 Chwefror, mae ein gwaith i gyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol yn elfen o waith y Llywodraeth yn ei chyfanrwydd ac mae'r un peth yn wir am raglen hygyrchedd y gyfraith. Caiff cyfanswm y costau cyffredinol, gan gynnwys costau'r gwaith ar y Bil, eu talu gan ddefnyddio cyllid o sawl portffolio fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach y sefydliad. Cafodd costau dangosol y staff ychwanegol roedd eu hangen i gynyddu capasiti drafftio a chyfieithu, yn ogystal â staff eraill i weithio ar y prosiectau anneddfwriaethol, eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru).

4.2. Yn fy adroddiad blynyddol diweddar ar raglen “Dyfodol Cyfraith Cymru”, eglurais fod ein gwaith cynnar ar ddeall rôl dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial wedi dangos bod modd defnyddio technoleg newydd i helpu i wneud gwybodaeth am y gyfraith yn fwy hygyrch ac yn haws ei deall wrth ymdrin â materion penodol (fel rhwymedigaethau treth neu hawliau tai).

4.3. Rydym wedi dyrannu swm dangosol o £350,000 yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 i Ganolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor ar gyfer gwaith ar dechnoleg iaith, sy'n cynnwys cyfieithu peirianyddol. Defnyddir rhan o'r cyllid hwn i barhau i gasglu data ar hyfforddiant er mwyn datblygu technoleg cyfieithu peirianyddol parth-benodol ar gyfer y parth cyfiawnder - gwaith a ddechreuwyd gennym yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

4.4. Mae gwaith i anodi cyfreithiau Cymru a gyhoeddir ar wefan legislation.gov.uk ar gam cynnar ond mae'n mynd rhagddo'n dda. Hyd yma, mae'r prosiect wedi canolbwyntio'n bennaf ar

weithio gyda legislation.gov.uk i ddatblygu a phrofi'r swyddogaeth newydd ac ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol.Fodd bynnag, yn ystod y ddau fis cyntaf ar ôl i'r prosiect gael ei roi ar waith yn llawn, mae'r tîm bach o fewn Llywodraeth Cymru wedi diweddaru holl Ddeddfau Senedd Cymru yn y ddwy iaith ac mae bellach wedi dechrau ar Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae tri aelod o staff ar radd Swyddog Gweithredol ac un aelod o staff ar radd Swyddog Gweithredol Uwch wedi cael hyfforddiant i weithio ar anodi, ac maent yn gwneud y gwaith hwn ochr yn ochr â dyletswyddau eraill, gwaith sy'n gysylltiedig â llunio, cofrestru a chyhoeddi is-ddeddfwriaeth yn bennaf. Rydym yn treialu nifer o ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau y gallwn gynnal y cynnydd ym maes anodi a bod y staff yn datblygu'r ystod o sgiliau sydd eu hangen i wneud y gwaith hwn yn effeithiol, ond rwyf yn hapus iawn â'r cynnydd a wnaed hyd yma. Byddaf yn sicrhau bod y Senedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am eu gwaith.

# Papur 06a – Atodiad A - Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a'r adnoddau a ddyrennir i weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Cyrff a Gwasanaethau Allanol | Trawsnewid Cyfiawnder | 490 | 480 | Cydgysylltu'r rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder ar draws y Llywodraeth a'r ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, cefnogi gwaith ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ddatganoli cyfiawnder, datblygu'r sector cyfreithiol gan gynnwys ymgysylltu â Chyngor Cyfraith Cymru, gwneud gwaith mewn perthynas â Thribiwnlysoedd Cymru gan gynnwys diwygiadau yn unol ag adolygiad Comisiwn y Gyfraith o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Cyrff a Gwasanaethau Allanol | Tribiwnlysoedd | 4,193 | 4,110 | Gweinyddu a chefnogi Tribiwnlysoedd Cymru drwy Uned Tribiwnlysoedd Cymru. |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Rhaglenni Canolog | Argyfyngau Sifil a Diogelwch Gwladol | 0 | 0 | Gwrthderfysgaeth, troseddau cyfundrefnol difrifol. Nid oes cyllideb wedi'i neilltuo i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ac nid yw wedi'i chynnwys yn nhablau'r Gyllideb Ddrafft. Mae unrhyw wariant yn ystod blynyddoedd blaenorol wedi'i reoli o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 4,339 | 4,339 | Er bod gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP) ddyletswydd statudol i arolygu gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn bodoli rhwng HMIP ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), sy'n golygu y gall AGIC fynd gyda HMIP wrth iddi gynnal arolygiadau cyffredinol yng ngharchardai'r sector cyhoeddus. Mae AGIC yn canolbwyntio ar safonau ansawdd a diogelwch mewn carchardai a threfniadau llywodraethu byrddau iechyd yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau iechyd mewn carchardai.[2] |

[1] "MEG": Prif Grŵp Gwariant, "SPA": Maes Rhaglen Wariant, "BEL": Llinell Wariant yn y Gyllideb.
[2] Dyrannwyd cyllid o fewn y gyllideb ddrafft ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb honno i weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder.

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | 16,886 | 17,316 | Hawliau Dynol[3]<br>Caiff gwaith ei wneud mewn perthynas â'r pum prif faes gweithredu:<br>• gwaith deddfwriaethol paratoadol;<br>• datblygu canllawiau Hawliau Dynol;<br>• adolygu Rheoliadau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru;<br>• cynnwys Hawliau Dynol fel rhan o brosesau Asesiadau Effaith Integredig;<br>• cynyddu Ymwybyddiaeth o Hawliau Dynol.<br><br>Caiff gwaith ar y materion hyn ei gyflawni'n bennaf gan staff presennol o fewn y Tîm Hawliau Dynol newydd.<br><br>Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol<br>Un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod elfennau cyfiawnder Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gadarn a mynd i'r afael â'r materion hyn â'r heddlu a'r llysoedd. Mae'r Cynllun yn cynnwys pennod benodol ar drosedd a chyfiawnder, ac rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol ar Gynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol arall i Gymru.<br><br>Troseddau Casineb<br>Cyllido Canolfan Gymorth Troseddau Casineb Cymru, a gaiff ei rhedeg gan Cymorth i Ddioddefwyr, er mwyn rhoi cymorth a gwasanaethau eirioli drwy'r system cyfiawnder troseddol i bawb sy'n dioddef troseddau casineb yng Nghymru. Cyllido ymgyrch cyfathrebu yn erbyn troseddau casineb, sef Mae Casineb yn Brifo Cymru, er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac annog mwy o bobl i roi gwybod amdanynt. Ymchwilio i waith ataliol gyda chyflawnwyr. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cefnogi Cymunedau | Partneriaethau Cymdeithasol | 806 | 861 | Mae dyraniad y gyllideb yn cwmpasu ystod eang o waith o fewn y Gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg, gan gynnwys ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu a'r costau staff cysylltiedig. Mae'n darparu'r adnoddau ar gyfer gweithgarwch caethwasiaeth fodern sy'n ymwneud â chyfiawnder.[4] |

[3] Gweler troednodyn 2.
[4] Gweler troednodyn 2.

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cefnogi Cymunedau | Incwm Sylfaenol | 5,000 | 12,200 | Mae dyraniad y gyllideb yn cyllido gwaith i ystyried sut y gallai plant sy'n mynd i mewn i'r ddalfa neu sy'n gadael y ddalfa gael eu cynnwys yn y cynllun peilot incwm sylfaenol i'r rhai sy'n gadael gofal.[5] |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Gwasanaethau Eirioli | Gwasanaethau Cynghori | 11,875 | 11,675 | O dan y Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor: drwy'r Gronfa Gynghori Sengl, defnyddio grant i gyllido fframwaith o wasanaethau cynghori integredig sydd wedi'u cynllunio'n strategol ar gyfer lles cymdeithasol; gweithredu'r Fframwaith Ansawdd Cyngor; a hyrwyddo rhwydweithio fel ffordd o helpu pobl i ddeall yn well sut mae arfer eu hawliau unigol. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 7,875 | 8,005 | Arwain cyfeiriad strategol a gwaith i weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n cynnwys amcan i 'Gynyddu'r ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu'. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | 1,075 | 1,075 | Cyfraniadau Llywodraeth Cymru tuag at y Glasbrint Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid i Gymru. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cymorth Cymunedol a Diogelwch | Cymorth Cymunedol a Diogelwch | 22,625 | 22,998 | Cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. |
| Yr Economi | Busnes Cymru / Entrepreneuriaeth a'r Economi Ranbarthol | Busnes Cymru | 17,116 | 26,559 | Cymorth busnes pwrpasol i'r sector cyfreithiol yng Nghymru drwy wasanaeth Busnes Cymru gydag ymyriadau sy'n canolbwyntio ar yr heriau sy'n eu hwynebu ym maes recriwtio a chadw staff a chydnerthedd.[6] |
| Yr Economi | Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warant Pobl Ifanc | Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warant Pobl Ifanc | 90,936 | 83,758 | Gweithredu'r argymhellion a wnaed yn adolygiad David Hanson o addysg troseddwyr.[7] |
| Yr Economi | Sectorau a Busnes | Tasglu'r Cymoedd | 100 | 100 | Gwasanaethau ataliol a all ein helpu gyda chyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys tlodi plant a thlodi bwyd.[8] |
| Yr Economi | Sgiliau | Cymunedau am Waith | 3,972 | 23,034 | Gwasanaethau ataliol a all ein helpu gyda chyfiawnder ieuenctid. Darparu gwasanaethau mentora a hyfforddiant dwys ar gyfer cyflogaeth i'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur.[9] |

[5] Gweler troednodyn 2.
[6] Gweler troednodyn 2.
[7] Gweler troednodyn 2.
[8] Gweler troednodyn 2.
[9] Gweler troednodyn 2.

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Economi | Prentisiaethau | Prentisiaethau | 117,033 | 140,033 | Darparu llwybrau addysg ôl-16, gan gynnwys darpariaeth Safon Uwch, Addysg Bellach a phrentisiaethau.[10] |
| Y Gymraeg ac Addysg | Y Gymraeg | Y Gymraeg | 22,404 | 22,404 | Mae dyraniad y gyllideb yn cyllido ystod o weithgarwch gan gynnwys darparu llwybrau addysg a gwaith ar dechnoleg iaith, e.e., gan gynnwys cyllido Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor.[11] |
| Y Gymraeg ac Addysg | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Addysg Troseddwyr | 7,328 | 7,328 | Cyllid i ddarparu addysg a sgiliau mewn carchardai, a gyflwynir drwy HMPPS drwy gontractau caffael a darpariaeth uniongyrchol. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith gyda HMPPS. |
| Y Gymraeg ac Addysg | Llesiant | Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant | 5,200 | 7,400 | Mae'r dull gweithredu ysgol gyfan yn ymwneud â chefnogi iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr a staff mewn ysgolion yn ogystal ag oedolion yr ymddiriedir ynddynt fel rhan o gymuned yr ysgol. Mae fframwaith y dull gweithredu ysgol gyfan yn rhoi pwyslais ar nodi'n gynnar ac atal. Gall y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol fel rhan o'r dull gweithredu hwn gael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i nodi ar gam cynnar bobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddieithrio o addysg ac sy'n fwy agored i ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.<br><br>Mae sawl prosiect yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd sy'n rhan o'r maes polisi a gyllidir gan y MEG hwn a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon.[12] Er enghraifft, caiff tua £2m y flwyddyn ei fuddsoddi yn Rhaglen Ysgolion yr Heddlu Cymru sy'n darparu gwersi a chymorth ar bynciau yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, a materion ehangach yn ymwneud â diogelwch personol a chymunedol. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyllidebau Canolog Iechyd | Iechyd Meddwl | 88,212 | 83,601 | Mae dyraniad y gyllideb yn darparu adnoddau ar gyfer y dull gweithredu ysgol gyfan, gan gefnogi iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr a staff mewn ysgolion yn ogystal ag oedolion yr ymddiriedir ynddynt fel rhan o gymuned yr ysgol. Mae sawl prosiect yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd sy'n rhan o'r maes polisi a gyllidir gan y MEG hwn a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon.[13] |

[10] Gweler troednodyn 2.
[11] Gweler troednodyn 2.
[12] Gweler troednodyn 2.
[13] Gweler troednodyn 2.

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Galluogi Plant a Chymunedau | Grant Plant a Chymunedau (trosglwyddwyd o'r MEG Cyllid a Llywodraeth Leol) | 149,937 | 171,045 | Caiff camau i weithredu'r Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) eu cefnogi drwy ffrwd gyllido o £810,000 ar gyfer y grant cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, a weinyddir drwy'r Grant Plant a Chymunedau<br><br>Sicrhau perchenogaeth dros ddull trawslywodraethol o ddiogelu plant a phobl ifanc agored i niwed mewn addysg. Tlodi ac iechyd meddwl mewn ysgolion a deilliannau dysgu i'r rhai mwyaf difreintiedig - ffrwd waith VCYPS plant sy'n derbyn gofal, gwrth-fwlio, presenoldeb yn yr ysgol.[14] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG | Dyraniadau Craidd y GIG | 8,253,211 | 8,611,185 | Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ffrydiau gwaith a arweinir gan Lywodraeth Cymru ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a rheoli meddyginiaethau.<br><br>Mae ffrwd waith hefyd ar amgylchedd carchardai a arweinir gan HMPPS. Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid rheolaidd ychwanegol o 2019/20 (£1.2 miliwn) i helpu byrddau iechyd lleol i wella mynediad i wasanaethau iechyd yn yr ystad carchardai cyhoeddus. Nod y cyllid hwn yw cefnogi gwelliannau i wasanaethau iechyd ac iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd ar gyfer pobl mewn carchardai ac fe'i dyrannwyd i'r Byrddau Iechyd hynny sydd â charchardai sector cyhoeddus (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro). Mae trefniadau cyllido ar wahân ar waith ar gyfer CEF Berwyn, yn ogystal â CEF Y Parc.[15] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cefnogi Plant | Cefnogi Plant | 4,865 | 3,865 | Cyllid ar gyfer polisi a gweithgarwch cyfiawnder teuluol sy'n arwain at leihad yn nifer y plant sy'n cael eu derbyn i ofal, canlyniadau gwell a phrofiadau gwell i blant.[16] Darperir cyllid rheolaidd o £850k i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi Gwasanaethau Adlewyrchu drwy'r Grant Cynnal Refeniw.<br><br>Cafodd grant ei ddyfarnu yn 2020-21 (i Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol De-ddwyrain Cymru - peilot o fodel Llys Cyffuriau ac Alcohol Teuluol cyf 20-21/073) a dalwyd ymlaen llaw yn 20-21 i gwmpasu'r cyfnod rhwng mis |

[14] Gweler troednodyn 2.
[15] Gweler troednodyn 2.
[16] Gweler troednodyn 2.

| MEG[1] | AGA | BEL | Dyraniad £000oedd 22-23 | Dyraniad Dangosol 23-24 | Gweithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder a gyllidir yn ôl BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Chwefror 2021 a 31 Awst 2023. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 99,715 | 109,715 | Dadansoddi a gwerthuso camau i weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015.[17] Roedd y Ddeddf yn amlinellu gofynion i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu i atal plant rhag troseddu ac i hyrwyddo eu lles yn y dyfodol. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cefnogi Plant | Cymorth i Deuluoedd a Phlant | 6,720 | 5,170 | Fframwaith i gefnogi newidiadau cadarnhaol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru, 2018-2023 a diddymu'r amddiffyniad "cosb resymol" a chefnogi gwaith i weithredu'r ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon i gosbi plant yn gorfforol (Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020) drwy gyllido'r cynllun cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Dyrennir £810,000 ar gyfer 2023-24.[18] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | CAFCASS Cymru | CAFCASS Cymru | 14,725 | 15,195 | Cyllid ar gyfer CAFCASS Cymru. |
| Newid Hinsawdd | Polisi Tai | Digartrefedd | 31,147 | 46,147 | Er mwyn lletya troseddwyr o Gymru, mae Llywodraeth Cymru a HMPPS wedi ymrwymo i gydweithio mewn ffordd strategol i atal troseddwyr yng Nghymru rhag bod yn ddigartref a mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith troseddwyr. Nod y gwaith yw sicrhau nad yw gwahaniaethau polisi yn effeithio ar ganlyniadau tai carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.<br><br>Gwella gweithrediad y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr ystad ddiogel<br><br>Profi a gwerthuso datrysiadau tai i droseddwyr sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru drwy nifer o brosiectau, gan gynnwys prosiect Tai yn Gyntaf penodol yng Nghaerdydd.[19] |

[17] Gweler troednodyn 2.
[18] Gweler troednodyn 2.
[19] Gweler troednodyn 2.

# Papur 07 - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – 16 Ionawr 2022 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

**Gwybodaeth Gyffredinol**

1. Ein dyraniad adnoddau ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol a gyhoeddwyd yng nghyllideb drafft 2022-23 oedd £110.355m; disgwyliwyd iddo gynyddu i £122.685 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Yng nghyllideb derfynol 2022-23 cynyddodd ein dyraniad adnoddau o £110.355m i £227.585m. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i ddyraniad afreolaidd untro o £116.9m a ddyrannwyd fel rhan o becyn o fesurau er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

2. Ar gyfer cyllideb ddrafft 2023-24, ein llinell sylfaen ar gyfer cynllunio oedd y gyllideb ddangosol a bennwyd fel rhan o Adolygiad o Wariant 2022-23. Dengys y tabl isod y newidiadau a wnaed o gyllideb ddrafft 2022-23, i gyllideb atodol gyntaf 2022-23 a Chyllideb Drafft 2023-24.

**Tabl 1: Trosolwg o newidiadau i dablau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

| | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Derfynol 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnodd | 110,355 | 227,585 | 229,793 | 122,685 | 142,057 |
| Cyfalaf | 17,000 | 18,496 | 18,496 | 17,494 | 17,494 |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 28,063 | 28,063 | 28,063 | 26,045 | 25,132 |
| **Cyfanswm** | **155,418** | **274,144** | **276,352** | **166,224** | **184,683** |

3. Ceir dadansoddiad o ddyraniadau Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol 2023-24 yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb yn Atodiad A.

**Trosolwg o newidiadau rhwng cyllideb ddangosol 2023-24 a Chyllideb Ddrafft 2023-24**

4. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24 er mwyn ein galluogi i ddiogelu meysydd allweddol, cynhaliodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ymarfer ailflaenoriaethu er mwyn rhyddhau cyllid o gynlluniau presennol ac ail-ganolbwyntio adnoddau cyfyngedig ar feysydd sydd eu hangen fwyaf. Yr egwyddorion wrth wraidd yr ymarfer ailflaenoriaethu hwn oedd darparu cyllideb gytbwys a diogelu'r Rhaglen Lywodraethu.

5. Gofynnwyd i Brif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol gyfrannu £2.68m i'r ymarfer hwn a arweiniodd at wneud y gostyngiadau cylchol canlynol mewn cyllidebau:

**Tabl 2: Arbedion cylchol a nodwyd i Brif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Gostyngiad yn y gyllideb £000oedd** |
|---|---|
| Gwasanaethau Tân ac Achub - System Gyfathrebu - rhoddwyd y gorau i gyllido contract 'Airwave' | 1,640 |
| Partneriaethau Cymdeithasol | 100 |
| Penodiadau Cyhoeddus | 200 |
| Gwasanaethau Cynghori | 174 |
| Cefnogi Cymunedau | 250 |
| Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | 316 |
| **Cyfanswm** | **2,680** |

6. Roedd penderfyniadau anodd yn angenrheidiol er mwyn lleihau cyllidebau ac fe'u gwnaed ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau y byddai'n gostyngiadau yn eu cael. Bydd cyllidebau ar gyfer Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Partneriaeth Gymdeithasol, Penodiadau Cyhoeddus a Chydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol yn cynyddu o hyd rhwng 2022-23 a 2023-24 ond yn arafach nag a fwriadwyd yn flaenorol.

7. Roedd y gostyngiad i gyllideb Gwasanaethau Cynghori yn bosibl o ganlyniad i gwblhau prosiect cyfnod penodol a oedd yn ymwneud â Phontio o'r Undeb Ewropeaidd. Daeth y prosiect hwn i ben, a oedd yn golygu bod modd ailbwrpasu'r cyllid tuag at feysydd eraill. Bu'n bosibl arbed £250k o'r gyllideb Cefnogi Cymunedau. Roedd yr elfen hon o'r gyllideb heb ei neilltuo a darparodd gronfa wrth gefn flynyddol roedd y portffolio yn gallu ei defnyddio i ymateb i geisiadau am gymorth ar gyfer blaenoriaethau trawslywodraethol yn ystod y flwyddyn.

8. O ganlyniad i'r gostyngiad o £1.64m yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwasanaethau Tân ac Achub – System Gyfathrebu, ni fydd grant refeniw Firelink (Airwave) rydym yn ei roi i Awdurdodau Tân ac Achub bob blwyddyn, sef £1.640m, yn cael ei ddarparu o 2023-24. Mae'r grant yn gyfraniad at ffioedd gwasanaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub am system gyfathrebu weithredol Firelink. [

9. Gan ddefnyddio cyllid a ryddhawyd yn sgil yr ymarfer ailflaenoriaethu, ynghyd â rhai newidiadau cadarnhaol cyfyngedig i'n setliad cyffredinol o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref, mae Llywodraeth Cymru wedi targedu dyraniadau ychwanegol i gyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu a helpu'r rhai y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt.

10. Cafodd ein portffolio **ddyraniadau refeniw gwerth £22m** fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24; roedd hyn yn cynnwys **£18.8m o'r Gronfa Cymorth Dewisol, £2.2m o'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol** a **£1m arall i ddarparu ar gyfer pwysau chwyddiannol ar draws y Prif Grŵp Gwariant.** Cafodd y codiad o £1m ei ddyrannu fel a ganlyn:

**Tabl 3: dyraniadau'r cynnydd o £1m ar sail chwyddiant ar draws Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Dyraniad £000oedd** |
|---|---:|
| Cymorth Cymunedol a Diogelwch – cynnydd o 1.65% i'r llinell sylfaen | 373 |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – cynnydd o 1.65% i'r llinell sylfaen | 130 |
| Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli – cynnydd o 1.65% i'r llinell sylfaen | 130 |
| Chwarae Teg – cynnydd o 1.65% i'r llinell sylfaen | 6 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – cynnydd o 6% i'r llinell sylfaen er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd disgwyliedig i gyflog y sector cyhoeddus. Roedd hefyd yn cynnwys £81k i gywiro'r llinell sylfaen o'r sefyllfa flaenorol. | 171 |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn – cynnydd o 6% i'r llinell sylfaen er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd disgwyliedig i gyflog y sector cyhoeddus. | 95 |
| Y Comisiynydd Plant – cynnydd o 6% i'r llinell sylfaen er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd disgwyliedig i gyflog y sector cyhoeddus. | 95 |
| **Cyfanswm** | **1,000** |

### Sylwadau ar Gamau Gweithredu

### Cam Gweithredu Cefnogi Cymunedau

**Tabl 4: Cam Gweithredu Cefnogi Cymunedau**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|:---:|---:|---:|---:|
| Incwm Sylfaenol | Adnodd | 5,000 | 10,000 | 12,200 |
| Cynhwysiant Ariannol | Adnodd | 125,822 | 20,202 | 39,002 |
| Cynhwysiant Ariannol | Cyfalaf | 1,496 | 494 | 494 |
| Cynhwysiant Digidol | Adnodd | 2,149 | 1,399 | 1,399 |
| Cefnogi Cymunedau | Adnodd | 6,794 | 1,483 | 1,233 |
| Cefnogi Cymunedau | Cyfalaf | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Datblygu Rhyngwladol | Adnodd | 1,275 | 1,275 | 1,275 |
| Partneriaethau Cymdeithasol | Adnodd | 886 | 961 | 861 |
| Y Banc Cymunedol | Cyfalaf | 1,500 | 1,500 | 1,500 |

<u>Llinell Wariant yn y Gyllideb Incwm Sylfaenol 1089</u>

11. Y proffil ar gyfer y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol y cytunwyd arno ar adeg Cyllideb Ddrafft 2022-23 oedd £5m yn 2022-23, £10m yn 2023-24 a £5m yn 2024-25 yn unol â chostau rhagamcanol y cynllun peilot gyda thaliadau yn cyrraedd uchafbwynt ym mlwyddyn dau. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r gyllideb yn y gyllideb atodol gyntaf yn 2022-23.

12. Mae £2.2m wedi'i ddyrannu fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24; mae'r dyraniad hwn wedi'i gynnwys yn llinell sylfaen 2024-25.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cynhwysiant 1694

13. Roedd y gyllideb atodol gyntaf yn 2022-23 yn cynnwys y dyraniadau refeniw afreolaidd canlynol a wnaed yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 fel rhan o becyn costau byw ehangach:
    - £90m o Gynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru
    - £15m ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol;
    - £0.62m ar gyfer Undebau Credyd.

14. Gwnaed y dyraniadau ar gyfer un flwyddyn yn unig. Dyrannodd cyllideb derfynol 2022-23 gyfalaf trafodiadau ariannol gwerth £1m hefyd i Linell Wariant yn y Gyllideb Cynhwysiant Ariannol er mwyn cynnal cynllun "benthyciadau di-log" yn dechrau ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r £1m yn cael ei fenthyg i'r consortiwm newydd, 'Social Credit', (sef cydweithrediad rhwng Banc Cymunedol Robert Owen, Purple Shoots a Plend) fel cyfalaf benthyca ar gyfer y cynllun peilot. Cafodd y swm hwn ei wrthbwyso gan ad-daliadau gwerth £6k.

15. Gan fod y galw am gyllid o'r Gronfa Cymorth Dewisol yn dal i fod yn uchel iawn yn ystod 2022-23, mae £18.8m wedi'i ddyrannu yn 2023-24 er mwyn ateb y galw parhaus hwn sydd wedi'i gynnwys yn llinell sylfaen 2024-25. Mae'r hyblygrwydd a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19 ac sydd wedi parhau hyd yma er mwyn cynnwys cefnogi penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu'r cynnydd o £20 i Gredyd cynhwysol, yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau mynediad cyfartal yn ystod yr argyfwng costau byw presennol.Bydd yr adolygiad yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu lefelau uwch o gymorth i bobl sy'n wynebu argyfwng.Mae pryd y bydd unrhyw newidiadau yn mynd yn fyw hefyd yn cael ei adolygu hefyd. Rwy'n cymryd tystiolaeth gan bartneriaid allweddol yn y sector Cyfiawnder Cymdeithasol ar hyn o bryd er mwyn llywio'r ffordd orau ymlaen ar gyfer y gronfa.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Cymunedau 1086

16. Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Cymunedau yn cynnwys cyllideb refeniw o £6.794m yng nghyllideb atodol gyntaf 2022-23. Mae hyn yn cynnwys y dyraniadau refeniw afreolaidd canlynol a wnaed yng nghyllideb derfynol 2022-23:
    - £1m i CLlLC fynd i'r afael â thlodi bwyd,
    - £0.7m i Big Bocs Bwyd a £0.2m i Fareshare Cymru;
    - £3.418m mewn perthynas â'r Strategaeth yn Erbyn Tlodi

17. Ni wnaed unrhyw ddyraniadau eraill i'r gyllideb atodol gyntaf. Mae'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24 yn dychwelyd i'w dal i'w sefyllfa sylfaen, sef £1.483m.

18. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon fel rhan o gyllideb atodol gyntaf 2022-23.

19. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24, mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon wedi'i gostwng £250k. Gwnaed y gostyngiad hwn fel rhan o gyfraniad Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi dileu cronfa wrth gefn a oedd yn cael ei dal yn y Prif Grŵp Gwariant er mwyn ymateb i geisiadau yn ystod y flwyddyn am gymorth trawslywodraethol ar gyfer blaenoriaethau penodol.

Llinell Wariant yn y Gyllideb Partneriaethau Cymdeithasol 1693

20. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon fel rhan o gyllideb atodol gyntaf 2022-23 na chyllideb derfynol 2022-23.

21. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24, mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon wedi'i gostwng £100k. Gwnaed y gostyngiad hwn fel rhan o gyfraniad Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru. Gostyngodd hyn y cynnydd arfaethedig i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb a oedd i fod i ddigwydd rhwng cyllideb ddrafft 2022-23 a chyllideb ddangosol 2023-24.

Cynhwysiant Digidol

22. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon fel rhan o'r gyllideb derfynol. Fel rhan o gyllideb atodol gyntaf 2022-23, trosglwyddwyd £750k o Linell Wariant yn y Gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn ymestyn y rhaglen cynhwysiant digidol ac iechyd a gafaelwyd.

Datblygu Rhyngwladol

23. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon fel rhan o gyllideb atodol gyntaf 2022-23 na chyllideb derfynol 2022-23.

Y Banc Cymunedol

24. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon fel rhan o gyllideb atodol gyntaf 2022-23 na chyllideb derfynol 2022-23.

**Gwasanaethau Tân ac Achub a Chamau Gweithredu Cydnerthedd**

**Tabl 5: Gwasanaethau Tân ac Achub a Chamau Gweithredu Cydnerthedd**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Tân ac Achub | Adnodd | 8,045 | 8,405 | 8,405 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | Cyfalaf | 1,000 | 1,500 | 1,500 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub – Systemau Cyfathrebu | Adnodd | 3,915 | 3,915 | 2,275 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub – Systemau Cyfathrebu | Cyfalaf | 210 | 210 | 210 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | Adnodd | 848 | 848 | 848 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | Cyfalaf | 900 | 900 | 900 |

25. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb hyn fel rhan o gyllideb derfynol 2022-23 na chyllideb atodol gyntaf 2022-23.

26. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24, mae cyllideb Systemau Cyfathrebu Gwasanaethau Tân ac Achub wedi'i gostwng £1.64m. Gwnaed y gostyngiad hwn fel rhan o gyfraniad Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn golygu y daw cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer contract 'Airwave' i ben ar 31 Mawrth 2023.

**Cam Gweithredu Comisiynwyr**

**Tabl 6: Cam Gweithredu Comisiynwyr**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn | Adnodd | 1,598 | 1,598 | 1,693 |
| Y Comisiynydd Plant | Adnodd | 1,678 | 1,580 | 1,727 |
| Penodiadau Cyhoeddus | Adnodd | 375 | 600 | 400 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Adnodd | 1,509 | 1,509 | 1,680 |

27. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb hyn fel rhan o gyllideb atodol gyntaf 2022-23 na chyllideb derfynol 2022-23.

28. Bwriadwyd i'r gyllideb ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Penodiadau Cyhoeddus gynyddu £255k fel rhan o gynlluniau'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24. Gwnaed y newid hwn fel rhan o Adolygiad o Wariant 2022-23. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24, cafodd y gyllideb ddangosol ei ostwng £200k gan ddileu rhan o'r cynnydd arfaethedig. Gwnaed y gostyngiad hwn fel rhan o gyfraniad Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru.

29. Roedd y gyllideb ar gyfer y Comisiynydd Plant yng nghyllideb atodol gyntaf 2022-23 yn fwy na'r gyllideb ddangosol yn 2023-24 yn dilyn trosglwyddiad yn ystod y flwyddyn a gafwyd o Brif Grŵp Gwariant Iechyd er mwyn darparu ar gyfer pwysau a gofnodwyd gan y Comisiynydd Plant nad oedd yn bosibl darparu ar eu cyfer drwy Brif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol ar adeg cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2022-23.

30. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24, mae pob Comisiynydd wedi cael cynnydd o 6% o gymharu â'u cyllideb sylfaen (Cyllideb Derfynol 2022-23). Arweiniodd hyn at gynnydd o £90k ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chynnydd o £95K ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant. Cafodd y Comisiynydd Plant hefyd gyllideb o £52k nad oedd yn arian parod. Cafodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol £81K arall fel bod ei gyllideb sylfaen yn cael ei gynyddu o £1.509m i £1.590m unol â chytundeb blaenorol.

**Cam Gweithredu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

**Tabl 7: Cam Gweithredu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24** |
|---|---|---|---|---|

| | | 2022-23 £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Adnodd | 8,006 | 7,875 | 8,005 |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Cyfalaf | 2,200 | 2,200 | 2,200 |

31. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb hyn fel rhan o gyllideb derfynol 2022-23. Yng nghyllideb atodol gyntaf 2022-23, gwnaed dyraniad refeniw gwerth £131k o Brif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd i Linell Wariant yn y Gyllideb refeniw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn dilyn Adolygiad Mewnol o'r Grant Atal Digartrefedd a gysonodd gyllid â chyllid Cymru Ddiogelwch – 'Street Life'.

32. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24, dyrannwyd £130k i Linell Wariant yn y Gyllideb refeniw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sef cynnydd o 1.65% o gymharu â'i linell sylfaen.

**Cam Gweithredu Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol**

**Tabl 8: Cam Gweithredu Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | Adnodd | 17,148 | 17,632 | 17,316 |
| Chwarae Teg | Adnodd | 360 | 360 | 366 |

<u>Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol 7060</u>

33. Roedd y gyllideb ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon a gyhoeddwyd yn y gyllideb atodol gyntaf yn cynnwys y dyraniadau refeniw afreolaidd canlynol a wnaed yng nghyllideb derfynol 2022-23:
    - £1.5m ar gyfer Integreiddio Mudwyr;
    - £1m ar gyfer gwasanaethau digidol i Sipsiwn, Roma a Theithwyr;
    - £0.7m ar gyfer Urddas Mislif;
    - £1m ar gyfer Mentrau Cydraddoldebau.

34. Roedd y dyraniad dangosol ar gyfer 2023-24 yn cynnwys dyraniad o £4.946m. Cafodd y dyraniad dangosol hwn ar gyfer 2023-24 ei ostwng £316k. Gwnaed y gostyngiad hwn fel rhan o gyfraniad Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru.

**Cam Gweithredu Gwasanaethau Eiriolaeth**

**Tabl 9: Cam Gweithredu Gwasanaethau Eiriolaeth**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cynghori | Adnodd | 12,831 | 11,849 | 11,675 |

35. Roedd Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwasanaethau Cynghori yn cynnwys dyraniad adnoddau afreolaidd o £1.7m yng nghyllideb derfynol 2022-23 ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl. Gwnaed dyraniad arall ar ffurf trosglwyddiad gwerth £1.056 yn y gyllideb atodol gyntaf yn 2022-23 o ganlyniad i drosglwyddiad o Gyllid Trysorlys EF ar gyfer Cyngor ar Ddyled.

36. Mae'r gyllideb ddangosol ar gyfer 2023-24 yn cynnwys £1.674m er mwyn cefnogi'r gronfa gynghori sengl.

37. Mae'r gyllideb ar gyfer y Llinell Wariant yn y Gyllideb wedi'i gostwng £174k fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24 gan fod prosiect yn ymwneud â Phontio o'r Undeb Ewropeaidd wedi dod i ben. Gwnaed y gostyngiad hwn fel rhan o gyfraniad Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru.

**Cymorth i'r Sector Gwirfoddol**

**Tabl 10: Cam Gweithredu Cymorth i'r Sector Gwirfoddol**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a Gwirfoddoli | Adnodd | 7,494 | 7,494 | 7,624 |

38. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon fel rhan o gyllideb derfynol 2022-23 na chyllideb atodol gyntaf 2022-23.

39. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24, mae'r gyllideb hon wed cynyddu £130k, sy'n cyfateb i gynnydd o 1.65% o gymharu â'r llinell sylfaen.

**Cymorth Cymunedol a Diogelwch**

**Tabl 11: Cam Gweithredu Cymorth Cymunedol a Diogelwch**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| Cymorth Cymunedol a Diogelwch | Adnodd | 22,625 | 22,625 | 22,998 |

40. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb hyn fel rhan o gyllideb derfynol 2022-23 na chyllideb atodol gyntaf 2022-23.

41. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 23-24, mae'r gyllideb hon wed cynyddu £373k, sy'n cytateb i gynnydd o 1.65% o gymharu â'r llinell sylfaen.

**Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid**

**Tabl 12: Cam Gweithredu Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | Adnodd | 1,075 | 1,075 | 1,075 |

42. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb hyn fel rhan o gyllideb derfynol 2022-23 na chyllideb atodol gyntaf 2022-23.

**Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

**Tabl 13: Cam Gweithredu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Cyfalaf | 3,690 | 3,190 | 3,190 |

43. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb hyn fel rhan o gyllideb derfynol 2022-23 na chyllideb atodol gyntaf 2022-23.

**Cyfleusterau Cymunedol**

**Tabl 14: Cam Gweithredu Cyfleusterau Cymunedol**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | Adnoddau / Cyfalaf | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £000oedd** | **Cyllideb Ddangosol 2023-24 £000oedd** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000oedd** |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol | Cyfalaf | 6,500 | 6,500 | 6,500 |

44. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb hyn fel rhan o gyllideb derfynol 2022-23 na chyllideb atodol gyntaf 2022-23.

**Blaenoriaethu cymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed**

45. Mae'r gyllideb ddrafft hon wedi'i pharatoi mewn cyfnod anodd yn dilyn blynyddoedd o gyni cyllidol yn ogystal ag effeithiau parhaus Brexit a'r pandemig. Mae chwyddiant ar ei lefel uchaf a disgwylir iddo barhau i fod yn uchel yn ystod 2023-24 gan gael mwy o effaith ar y rhai ar yr incwm isaf. Mae'r ffactorau hyn wedi gwaethygu'r argyfwng costau byw rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd. Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwarchod y rhai sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, bu'n rhaid inni wneud hyn yng nghyd-destun cyllid cyfyngedig gan gydnabod hefyd fod chwyddiant yn golygu bod ein cyllidebau bellach yn werth gryn dipyn yn llai na'u gwerth ym mis Rhagfyr 2021 pan gyhoeddwyd ein cynlluniau yn wreiddiol.

46. Fel rhan o'r broses o baratoi ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon, cynhaliwyd ymarfer ailflaenoriaethu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn nodi o ble mewn cynlluniau presennol y gellid rhyddhau cyllid er mwyn ei ailganolbwyntio ar feysydd sydd ei angen fwyaf. Roedd y gwaith ailflaenoriaethu yn seiliedig ar dair blaenoriaeth, sef:
    - Diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol;
    - Parhau i ddarparu cymorth i'r rhai y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio fwyaf arnynt;
    - Cefnogi ein heconomi drwy ddirwasgiad.

47. Bydd pob Gweinidog yn nodi'r penderfyniadau ailflaenoriaethu a wnaed sy'n effeithio ar ei bortffolio ei hun yn ei bapur tystiolaeth ei hun.

48. Yn fy Mhrif Grŵp Gwariant fy hun, rwyf wedi blaenoriaethu cyllid o'r Gronfa Cymorth Dewisol a'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol. Rwyf wedi dyrannu £18.8m ychwanegol i'r Gronfa Cymorth Dewisol yn 2023-24, sydd wedi'i gynnwys yn llinell sylfaen 2024-25, sy'n sicrhau bod y gyllideb y flwyddyn nesaf yn cyd-fynd â'r galw rydym yn ei weld yn y flwyddyn

ariannol hon. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn adnodd allweddol yn ein hymateb i'r argyfwng costau byw ac yn sicrhau bod cymorth ar gael i'r unigolion yn ein cymdeithas sydd fwyaf agored i niwed.

49. Mae'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol yn ymyriad radical, sy'n cefnogi grŵp o bobl ifanc sy'n gadael gofal ag incwm o £1,600 (cyn treth) bob mis. Rydym yn parhau i gefnogi'r cynllun peilot hwn, a fydd yn rhedeg am ddwy flynedd, ac rydym yn dyrannu £2.2m ychwanegol yn 2023-24 er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael i'r rhai sy'n gymwys i gymryd rhan yn y cynllun peilot.

50. Cawsom gynnydd chwyddiannol bach o £1m ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24 er mwyn cefnogi blaenoriaethau allweddol yn fy mhortffolio gan gynnwys dyraniadau i'r trydydd sectorau a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PSCOs).

51. Ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, mae dyraniadau wedi'u gwneud er mwyn cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed sy'n cynnwys £9m ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion a £10m ar gyfer Tai. Mae pob un o'r dyraniadau hyn wedi'u cynnwys yn llinell sylfaen 2024-25. Yn ogystal â hyn, rydym wedi dyrannu £40m yn 2023-24, sy'n gostwng i £20m yn 2024-25, er mwyn cefnogi ein hymateb parhaus i'r argyfwng dyngarol yn Wcráin; bydd y cyllid hwn yn cefnogi'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel ac sy'n ceisio noddfa yng Nghymru.

52. Rwyf hefyd wedi diogelu cyllid ar gyfer ein gwaith i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ei Strategaeth Genedlaethol pum mlynedd newydd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-26 ochr yn ochr â grŵp o sefydliadau partner allweddol gan gynnwys yr heddlu, y sector arbenigol a goroeswyr. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref. Caiff y strategaeth ei chyflawni ar ffurf Glasbrint sy'n dod â sefydliadau datganoledig ac annatganoledig at ei gilydd. Cyllideb refeniw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2023-2024 yw £8.005 miliwn, sy'n helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, a'r gyllideb gyfalaf yw £2.2 miliwn, sy'n cefnogi amrywiaeth o brosiectau cyfalaf yn ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n cael eu cynnal gan sefydliadau statudol a gwirfoddol.

**Asesiad Effaith Integredig Strategol**

53. Rydym yn parhau i amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd i ddiwygio gwelliannau i broses y gyllideb a threthi fel rhan o'n Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Eleni, rydym wedi cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn ystyried sut i gynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol; mae hyn wedi cynnwys rhai newidiadau o fewn yr Asesiad a gyhoeddir fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon. Mae rhagor o gamau tymor hwy yn cael eu hystyried drwy barhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori i adolygu ein dull o asesu effeithiau penderfyniadau cyllidebol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb.

54. Hefyd, mae'n dal i fod yn bwysig cydnabod bod yr Asesiad Integredig Effaith Strategol hwn yn amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi ategu ein penderfyniadau gwario. Dim ond un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft ydyw, gydag

effaith penderfyniadau gwario yn cael ei hamlinellu fel rhan o'r prif naratif ym mhennod pedwar, a ategir gan yr Asesiad yn Atodiad A.Ar ôl i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi, bydd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi crynodeb helaeth o dystiolaeth ysgrifenedig pob Gweinidog i bwyllgorau craffu'r Senedd ar ddyraniadau ym mhob Prif Grŵp Gwariant; bydd hyn yn rhoi darlun manylach o'r modd y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol.

**Unedau Data Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd**

55. Mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd wedi cyfarfod yn rheolaidd â swyddogion y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a fu'n paratoi'r gyllideb ddrafft yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan rannu datganiadau a digwyddiadau perthnasol yn ymwneud â thystiolaeth cydraddoldeb er mwyn llywio proses y gyllideb. Yn fwy diweddar, mewn cydweithrediad â dadansoddwyr ym mhob rhan o'r Is-adran Cydraddoldeb, Tlodi a Thystiolaeth a Chefnogaeth Plant ehangach, maent wedi darparu dadansoddiad lefel uchel a chroestoriadol o'r dystiolaeth sydd ar gael ar anghydraddoldeb er mwyn nodi'r bobl hynny y gallai toriadau cyllidebol effeithio arnynt fwyaf. Cafodd y dystiolaeth hon ei chrynhoi ar gyfer amrywiaeth o faterion gan gynnwys ar bwy roedd toriadau cyllidebol yn fwyaf tebygol o effeithio mewn meysydd megis COVID hir, yr argyfwng costau byw a'r argyfwng amgylcheddol. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi'i defnyddio i lywio'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a fydd yn bodoli ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2023-24.

56. Fel yr amlinellir yn Strategaeth yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb ac Anabledd, yn y tymor hwy, byddant yn rhoi cyngor, arweiniad, cymorth a her lefel uchel er mwyn i ddata ar anghydraddoldebau allu cael eu defnyddio gan swyddogion polisi er mwyn cefnogi gwell penderfyniadau polisi gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar bolisi a phenderfyniadau gwario.

**Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol**

57. Mae ein Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru yn darparu'r fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r dirwedd sy'n newid ar gyfer menywod yng Nghymru. Cyhoeddwyd y cynllun gweithredu cam cyntaf, sy'n nodi camau gweithredu â blaenoriaeth yn y byrdymor a'r tymor canolig, ym mis Mawrth 2020 ac mae'n cwmpasu cyfnod rhwng 2020 a 2023.

58. O ystyried effaith pandemig COVID-19, mae angen diweddaru'r cynllun er mwyn adlewyrchu'r cyd-destun newydd. Comisiynwyd Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru a Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIHMR) i nodi arferion arloesol rhyngwladol y gellid eu cynnwys yn y Cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb yn briodol i effaith pandemig COVID-19 mewn perthynas â chydraddoldeb rhywiol. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2022.

59. Ochr yn ochr â hyn, cafodd profiad bywyd menywod yng Nghymru yn ystod y pandemig ei ddadansoddi gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM Cymru) fel rhan o'i raglen waith a gefnogir drwy gyllid grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

60. Sefydlwyd Fforwm Cydraddoldeb Rhywiol penodedig yn gynharach eleni er mwyn goruchwylio’r gwaith o roi'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol a'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng Rhywiau yng Nghymru ar waith. Cyn hynny, roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan un o is-grwpiau’r grŵp llywio Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Fodd bynnag, bydd y Fforwm annibynnol yn sicrhau bod mwy o amser ar gael ar gyfer trafodaethau manwl i ysgogi cynnydd a chraffu arno.

61. Rhannwyd yr adroddiadau gan Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru a RhCM Cymru ag aelodau'r Fforwm ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror/Mawrth 2022. Cynhaliwyd adolygiad mewnol o gynnydd yn erbyn y Cynllun hefyd a rhannwyd diweddariad ag aelodau'r Fforwm ym mis Chwefror 2022. Dangosodd yr adolygiad hwn, er bod gwaith ar y cynllun yn arafach na'r disgwyl oherwydd y pandemig, fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud mewn perthynas ag amrywiaeth o gamau gweithredu â blaenoriaeth.

62. Mae'r holl gamau gweithredu hyn yn bwydo i mewn i'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i gydlunio’r fersiwn nesaf o'r Cynllun a fydd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sy'n newid ar gyfer menywod a merched yng Nghymru o ganlyniad i bandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw. Mae aelodau'r Fforwm Cydraddoldeb Rhywiol yn chwarae rôl allweddol yn y broses gydlunio. Gan ddefnyddio eu harbenigedd eu hunain, profiadau bywyd eu cleientiaid a'u rhwydweithiau a thystiolaeth o adroddiadau gan gynnwys rhai gan Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru a RhCM Cymru, mae'r Fforwm wedi nodi meysydd allweddol â blaenoriaeth y mae angen mynd i'r afael â nhw.

63. Yng nghyfarfod mwyaf diweddar y Fforwm a gynhaliwyd ym mis Hydref, roedd aelodau'r Fforwm yn gallu ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddogion polisi sy'n gweithio ar iechyd menywod a gofal di-dâl er mwyn ystyried y meysydd â blaenoriaeth hyn yn fanylach.

64. Mae'r gwaith sydd yn yr arfaeth yn cynnwys diweddariad pellach ar gynnydd yn erbyn camau gweithredu yn y Cynllun a ddarperir i aelodau'r Fforwm ym mis Ionawr. Caiff ei ategu gan weithdy gydag aelodau'r Fforwm er mwyn nodi a mireinio meysydd a chamau gweithredu â blaenoriaeth penodol, ystyried ble mae angen i gamau gweithredu fynd ymhellach a ble mae bylchau/blaenoriaethau sy'n newid ac ystyried y Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol ochr yn ochr â datblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r tasglu hawliau pobl anabl.

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

65. Un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yw creu gwlad wrth-hiliol erbyn 2030. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a lansiwyd ddydd Mawrth 7 Mehefin, yn seiliedig ar werthoedd gwrth-hiliaeth ac mae'n galw am ddim goddefgarwch tuag at unrhyw fath o anghydraddoldeb hiliol.

66. Ers lansio'r adroddiad, rydym wedi penodi Pennaeth Tîm Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae ymarfer recriwtio ar gyfer rolau eraill yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

67. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sefydlu'r strwythur Llywodraethu. Rydym bellach wedi cwblhau'r broses sifftio a'r cyfweliadau ar gyfer saith arbenigwr allanol ym maes gwrth-hiliaeth ac 11 o gynrychiolwyr amrywiaeth â phrofiad bywyd i ymuno â'r Grŵp Atebolrwydd Allanol. Cynhelir rhaglen sefydlu a chyfarfod cyntaf y Grŵp Atebolrwydd Allanol ym mis Ionawr 2023.

68. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i sefydlu Fforymau Rhanbarthol a fydd yn cofnodi profiadau bywyd ac yn darparu cysylltiad uniongyrchol â'n gwaith a'n gweithgarwch ymgysylltu â phobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ledled Cymru.

69. Rydym bellach wedi cael adborth ar ein cynllun cyfathrebu drafft ac rydym yn gobeithio y bydd ein cynllun cyfathrebu canolog i hyrwyddo gwaith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr.

70. Caiff yr argymhellion cychwynnol a wnaed yn yr adroddiad 'Gwneud Nid Dweud' ac adroddiad y Map Trywydd eu hystyried hefyd er mwyn nodi a oes argymhellion tymor hwy y gellid eu hymgorffori bellach yn y cynllun newydd neu a oes unrhyw fylchau.

71. Ni fydd fersiwn wedi'i diweddaru o'r cynllun yn golygu y daw'r gwaith ar y cynllun presennol i ben ac na all gwaith ddechrau nes i'r cynllun newydd gael ei gyhoeddi.

72. Mae'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru yn gynllun trawslywodraethol a thrawsbynciol. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun yn cael eu perchenogi gan wahanol rannau o Lywodraeth Cymru ac, felly, mae'r dyraniadau gwario i ddatblygu'r camau gweithredu yn cael eu gwneud ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn rhoi blaenoriaeth i weithredu agweddau allweddol ar y Cynllun hwn ac yn adlewyrchu'r meysydd â blaenoriaeth a nodwyd gan y Fforwm Cydraddoldeb Rhywiol. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo mewn llawer o'r meysydd hyn.

73. Mae swyddogion o'r tîm Cydraddoldeb yn cydgysylltu'r cynllun, yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu polisi trawslywodraethol ac yn monitro cynnydd.

74. Un o nodau allweddol y Cynllun yw ymgorffori cydraddoldeb ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru drwy sicrhau bod pob maes polisi yn ystyried anghenion croestoriadol dinasyddion yng Nghymru wrth ddatblygu polisi ac arferion a'u rhoi ar waith a bu rhai camau pwysig ymlaen yn y maes hwn.

75. Rydym wedi ymrwymo i ymgorffori **cyllidebu ar sail rhyw** yn ein prosesau cyllidebol. Mae cynllun tymor hwy o'r gwaith hwn yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb a gaiff ei ddiweddaru bob blwyddyn ochr yn ochr â'n Cyllideb Ddrafft. Caiff rhywedd ei ystyried fel rhan o'n Hasesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddir ochr yn ochr â'n Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24.

76. Fel yr amlinellir yn y fersiwn wedi'i diweddaru o Gynllun Gwella'r Gyllideb, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwaith i wreiddio dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar rywedd mewn nifer o feysydd. Er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi gan eraill, rydym wedi defnyddio ein cysylltiadau drwy Rwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant (WeGo) er mwyn parhau i ymgysylltu ag arweinwyr y byd megis Gwlad yr Iâ a Chanada ac ehangu ein rhwydweithiau ag eraill sy'n gweithredu yn y maes hwn. Rydym yn gweithio'n agos gydag aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG) er mwyn ystyried sut y gall adnodd megis cyllidebu ar sail rhyw ein helpu i atgyfnerthu ein prosesau sy'n ymwneud â'r gyllideb a threth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y ffordd rydym yn asesu effeithiau ein penderfyniadau gwario.

77. Mae newidiadau i'r broses hon yn cael eu hystyried yn y byrdymor i'r tymor hwy gyda chynllun gweithredu clir yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Grŵp. Ceir rhagor o fanylion yn y Cynllun hwn. Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi diweddariad ar ein tri chynllun peilot Cyllidebu ar

sail Rhyw, sef: y Cyfrifon Dysgu Personol, y Warant i Bobl Ifanc a phrosiect E-Symud sy'n cael ei gynnal gan Sustrans Cymru.

78. Nodwyd bod prif ffrydio rhywedd hefyd yn ddull allweddol o ymgorffori cydraddoldeb ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Yn 2021, cytunodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar gyllid i roi Cynllun Peilot Prif Ffrydio Cydraddoldeb ar waith. Dr Alison Parken a arweiniodd y gwaith a ddechreuodd ym mis Tachwedd 2021 ac a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Medi 2022. Cafodd y model prif ffrydio cydraddoldeb ei brofi ar faes polisi byw er mwyn llunio astudiaeth achos ymarferol ac argymhellion ynglŷn â sut y gellid ymgorffori'r model prif ffrydio mewn prosesau llunio polisi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

**Y Model Cymdeithasol o Anabledd**

79. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddefnyddio ac ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd ym mhopeth a wna.

80. Cyhoeddwyd yr adroddiad, ‘Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19 ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr anghydraddoldebau y mae llawer o bobl yng Nghymru yn eu hwynebu a waethygwyd gan y pandemig. Sefydlwyd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl yn wreiddiol i bara tan haf 2023 ond mae'r cyfnod hwn wedi'i ymestyn tan 31 Mawrth 2024. Mae gwaith y Tasglu yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o'r Model Cymdeithasol o Anabledd, Hawliau Dynol a Chydgynhyrchu.

81. Cadarnhaodd y Tasglu fod y ffrydiau gwaith canlynol wedi'u nodi fel meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen waith: Ymgorffori a Deall y Model Cymdeithasol o Anabledd (ledled Cymru):

- Mynediad at Wasanaethau (gan gynnwys Cyfathrebu a Thechnoleg)
- Byw'n Annibynnol: Gofal Cymdeithasol
- Byw'n Annibynnol: Iechyd a Lles
- Teithio
- Cyflogaeth ac Incwm
- Tai Fforddiadwy a Hygyrch
- Plant a Phobl Ifanc

82. Mae gan y Gweithgorau amrywiaeth o randdeiliaid, sy'n cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi pobl anabl, pobl anabl â phrofiad bywyd ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru. Mae contract hwyluso ag Access Design Solutions ar waith.

83. Mae holl aelodau'r Tasglu a'r gweithgorau wedi cael cynnig hyfforddiant ar y ‘Model Cymdeithasol o Anabledd’, a ddarperir gan Anabledd Cymru. Mae swyddogion hefyd yn datblygu hyfforddiant pwrpasol i gydweithwyr yn yr arolygiaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

84. Caiff hyfforddiant ar Gydgynhyrchu ei ddarparu i aelodau'r Tasglu a'r gweithgorau ym mis Rhagfyr 2023 a mis Ionawr 2024.

85. Mae proses cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer ‘mentoriaid cymunedol’ wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd.

86. Bydd y gweithgorau yn cydgynhyrchu’r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl, i'w gyhoeddi yn 2024.

87. Cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil Hawliau (Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol), ym mis Mehefin ac, hyd yn hyn, ni phennwyd unrhyw ddyddiad ar gyfer ail ddarlleniad y Bil. Ar yr amod na chaiff y Bil ei dynnu'n ôl, bydd angen gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Senedd. Mae cwmpas y Bil sy'n ceisio diddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 yn eang. Y bwriad yw y bydd y Llywodraeth yn parhau i fod yn wladwriaeth sy'n barti i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r cwmpas eang yn golygu, os bydd y Bil yn mynd yn ei flaen, y gallai gwelliannau gael eu gosod gerbron y Senedd er mwyn deddfu ar gyfer hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Mae hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol wedi'u cynnwys yng Nghonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig yn hytrach na'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae adroddiad diweddar gan Gomisiwn Brown wedi argymell y dylai fod hawliau cymdeithasol newydd a ddiogelir yn gyfansoddiadol.

88. Er ei bod yn bosibl na dderbynnir gwelliannau'r gwrthbleidiau, byddai unrhyw gynnig difrifol i sicrhau bod hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol yn gyfiawnadwy ac yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth y llysoedd yn ddatblygiad cyfansoddiadol pwysig. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Grŵp Gweithredu ar Hawliau Dynol yn ystyried, yn rhannol, sut y gellir rhoi hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol ar waith yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth neu mewn rhyw ffordd arall.

**Chwyddiant a chostau byw**

89. Mae chwyddiant a'i effaith ar gostau byw wedi bod yn ystyriaeth allweddol fel rhan o'r gyllideb ddrafft hon. Ers cyhoeddi ein cyllideb drafft y llynedd, rydym wedi cyhoeddi pecyn cymorth gwerth £330m am un flwyddyn er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a oedd yn cynnwys £90m er mwyn rhoi Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru ar waith yn ystod hydref 2022 yn ogystal â £15m ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol ac £1.7m ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl yn 2022-23. Mae cymorth pellach hefyd wedi'i ddarparu i'r Gronfa Cymorth Dewisol yn ystod y flwyddyn gyda'i gorwariant rhagamcanol yn cael ei reoli o fewn y Prif Grŵp Gwariant.

90. Fel y nodwyd uchod, fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24, fel Llywodraeth gwnaethom gynnal ymarfer i adolygu ac ailflaenoriaethu ein cyllidebau er mwyn blaenoriaethu ein cymorth ar y meysydd hynny lle roedd ei angen fwyaf. O ganlyniad i'r ymarfer hwn, mae'r dyraniadau canlynol wedi'u gwneud er mwyn helpu aelwydydd i ymdopi â phwysau costau byw drwy'r Gyllideb Ddrafft hon:

- **£18.8m ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol** – mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn rhoi taliadau cymorth brys i bobl mewn angen ac mae'n rhan hanfodol o'n cymorth i unigolion sy'n agored i niwed. Bydd y dyraniad ychwanegol gwerth £18.8m yn fy Mhrif Grŵp Gwariant yn sicrhau y gall pobl y mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ddifrifol arnynt barhau i gael y cymorth brys hwn.

- **£9m ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion** – Mae mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc wrth wraidd ein Grant Datblygu Disgyblion blaenllaw (GDD). Ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, o flwyddyn i flwyddyn, rydym wedi ymestyn y GDD er mwyn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gyda chyllid ar gyfer 2022-23 bellach yn cyfateb i tua £130m. Mae'r argyfwng costau byw presennol a'r dirwasgiad economaidd yn effeithio ar aelwydydd incwm isel.Gan adeiladu ar yr £20m ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o Adolygiad o Wariant y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dyrannu £9m arall i'r Grant Datblygu Disgyblion o 2023-24 ymlaen er mwyn cefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn economaidd.

- **£10m ar gyfer Tai – Mae'r argyfwng costau byw a'r effaith ddilynol ar gyllidebau aelwydydd yn golygu bod llawer o bobl na allant dalu eu rhent na biliau domestig eraill ac sy'n wynebu risg o fynd i ôl-ddyledion rhent ac, o ganlyniad i hynny, gael eu troi allan. Mae hyn yn gorfodi mwy o unigolion i geisio cymorth atal digartrefedd gan dimau digartrefedd awdurdodau lleol ac mae risg wirioneddol y bydd nifer y bobl sy'n cysylltu â thimau o'r fath, sydd eisoes yn fawr, yn parhau i gynyddu wrth i'r argyfwng costau byw effeithio ymhellach ar aelwydydd. Mae £10m wedi'i ddyrannu i Brif Grŵp Gwariant y Gweinidog Newid Hinsawdd er mwyn atal digartrefedd a pharhau â'r dull 'neb heb help' er mwyn sicrhau na chaiff neb ei orfodi i gysgu allan. Bydd y cyllid ychwanegol yn galluogi mesurau atal digartrefedd pellach, gan gynnwys pan na ellir atal digartrefedd a thalu costau llety dros dro.**

91. Rydym hefyd yn parhau â'n cymorth ariannol mewn meysydd eraill, er enghraifft y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i deuluoedd incwm isel ledled Cymru, gan helpu i ddileu'r pryder ynghylch prynu gwisg a chyfarpar ysgol, gan alluogi plant i fynd i'r ysgol a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar yr un lefel â'u cyfoedion. Yn 2021/22, cafodd y grant ei ymestyn i gynnwys plant a phobl ifanc gymwys ym mhob blwyddyn ysgol orfodol, sy'n golygu y gall hyd yn oed mwy o deuluoedd fanteisio ar y cymorth hwn. Ar gyfer 2023-24, y gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yw £13.6m, gyda chyllid gwerth £125 fesul dysgwyr ar gyfer pob grŵp blwyddyn hyd at Flwyddyn 11 a £200 i ddysgwyr ym Mlwyddyn 7.

**Dyled**

92. Yn 2023-24, byddwn yn darparu cyllid grant gwerth £11m ar gyfer gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl, y caiff o leiaf £3.1m o'r swm hwnnw ei glustnodi er mwyn ariannu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynghori ar ddyled cyffredinol ac arbenigol. Mae gennym ymrwymiad hirsefydlog i gefnogi gwasanaethau cynghori, sy'n cydnabod sut mae'r gwasanaethau hyn yn mynd i'r afael â thlodi incwm, yn atal digartrefedd, yn gwella cyflogadwyedd ac yn gwella iechyd a lles rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Ers mis Ionawr 2020, mae gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl wedi helpu 144,000 o bobl i ddelio â mwy na 660,000 o broblemau lles cymdeithasol. Cafodd y rhai a gafodd gymorth eu helpu i hawlio incwm ychwanegol gwerth £83 miliwn a chafodd dyledion gwerth £23 miliwn eu dileu.

93. Prin yw'r achosion pan mai dyled yw'r unig broblem sydd gan unigolyn. Dyna pam mae cyngor ar ddyled yn cael ei roi drwy'r Gronfa Gynghori Sengl integredig, lle y bydd unigolyn yn cael cyngor er mwyn datrys eu problemau dyled, ynghyd â chymorth i wneud y defnydd gorau posibl o'i incwm a help i ddatrys problemau lles cymdeithasol eraill, megis tai neu gyflogaeth neu wahaniaethu. Mae hyn yn sicrhau yr eir i'r afael ag achosion sylfaenol dyled, gan alluogi pobl i reoli eu cyllid yn well.

94. Oherwydd yr hinsawdd economaidd ansicr, bydd y pwysau ar wasanaethau cynghori, yn enwedig cyngor ar ddyled, yn parhau i gynyddu yn y flwyddyn ariannol nesaf. Drwy barhau i gyllido model cyflawni cydweithredol y Gronfa Gynghori Sengl, sy'n darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion brys unigolyn ac yn cynnig cymorth cofleidiol er mwyn iddo feithrin ei allu i wrthsefyll unrhyw broblemau lles cymdeithasol a allai godi yn y dyfodol, byddwn yn helpu i ateb rhywfaint o'r galw cynyddol hwn drwy leihau'r angen i bobl ddychwelyd o hyd ac o hyd i gael cyngor.

95. Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith negyddol ar gyllidebau aelwydydd ledled Cymru, ond gwyddom mai'r bobl fwyaf agored i niwed sy'n wynebu'r anawsterau ariannol mwyaf difrifol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, nododd 83% o'r bobl a ddefnyddiodd wasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl eu bod yn dod o grŵp poblogaeth sy'n dioddef fwyaf o ganlyniad i'r argyfwng costau byw, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl a phobl o Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol. Drwy barhau â'n cyllid grant ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl yn 2023-24, gallwn fod yn hyderus y bydd ein gwasanaethau cynghori a chymorth yn cyrraedd y bobl sydd eu hangen fwyaf.

96. Fel Llywodraeth, rydym wedi ailbwrpasu ein cyllidebau er mwyn blaenoriaethu cyllid ar gyfer y rhai sy'n dioddef fwyaf o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Mae hyn wedi arwain at ddyraniadau ychwanegol ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol, gwasanaethau cymdeithasol a'r Grant Datblygu Disgyblion fel y nodwyd uchod.

**Tlodi tanwydd**

97. Mae Rhaglen Cartrefi Clyd wedi datblygu mewn ymateb i'r argyfwng presennol ac argymhellion y pwyllgor. Ers 2010 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021, mae mwy na £394m wedi'i fuddsoddi er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy Raglen Cartrefi Clyd, er budd mwy na 67,100 o aelwydydd incwm isel.Mae pobl sy'n cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd neu sydd ag anghenion iechyd penodol ac sy'n gymwys, wedi gallu cael addasiadau ynni am ddim megis systemau gwresogi, deunydd inswleiddio neu baneli solar fel rhan o'n cynllun Nyth. Ar gyfer 2020/21, rhoddodd Nyth gyngor wedi'i deilwra i fwy na 15,500 o aelwydydd a'u cyfeirio at wasanaethau trydydd parti. Llwyddodd gwiriadau hawl i fudd-daliadau i gynyddu'r budd-daliadau a allai gael eu hawlio gan aelwydydd unigol £2,091, ar gyfartaledd, gan gynyddu'r budd-daliadau a hawliwyd bron i £1m y llynedd. Er nad yw wedi'i gyhoeddi eto, mae swyddogion yn disgwyl gweld lefel debyg o weithgarwch a chanlyniadau ar gyfer 2021/22 ac yn y flwyddyn ariannol bresennol.

98. Mae gwelliannau Cynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cynnwys buddsoddi mewn arloesi drwy dechnoleg ffotofoltäig solar ac, yn fwy diweddar, gyflwyno systemau storio batri, sy'n golygu y bydd cartrefi yn gallu defnyddio ynni lle mae'n cael ei gynhyrchu. Mae hyn wedi'i gwneud yn bosibl i rai aelwydydd fynd y tu hwnt i'r cap ar wariant. Mae ymgyrch tanwydd gaeaf well, a lansiwyd ar 1 Tachwedd ac a gynhelir drwy gynllun Nyth y Rhaglen Cartrefi Clyd, yn targedu cynulleidfa ehangach gyda chyngor ar effeithlonrwydd ynni, sydd ar gael i bob aelwyd yng Nghymru, yn ogystal â chyfeirio aelwydydd i hawlio'r hyn sy'n ddyledus iddynt drwy AdviceLink Cymru. Bwriedir cynnal ymarfer hysbysebu ehangach ar ddechrau'r flwyddyn nesaf er mwyn targedu'r ymgyrch at fwy o aelwydydd.

99. Gwnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd ddatganiad llafar yn y cyfarfod llawn ar 8 Tachwedd gan ddarparu gwybodaeth am y ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r argyfwng hinsawdd ar gyfer pob deiliadaeth tŷ. Bwriedir parhau i fabwysiadu dull ffabrig yn gyntaf, y gwaethaf yn gyntaf a charbon isel, gan gyflwyno mesurau i wella effeithlonrwydd ynni yr aelwydydd incwm isel sydd leiaf thermol effeithlon yng Nghymru.

100. Gwneir hyn mewn dwy ran: Bydd rhan un yn cynnwys caffael gwasanaeth seiliedig ar alw yn lle'r un presennol, er mwyn sicrhau parhad i helpu'r rhai sydd leiaf abl i dalu i ymateb i'r argyfwng costau byw. Bydd hyn hefyd yn sicrhau proses bontio gyfiawn a fforddiadwy i gartrefi carbon isel. Bydd rhan dau yn cynnwys datblygu dull stoc dai gyfan o ddatgarboneiddio er mwyn darparu strategaeth hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd a datgarboneiddio ar gyfer y sector.

101. O safbwynt ehangach, mae £380m wedi'i ddarparu ar gyfer pecyn o fesurau i gefnogi aelwydydd, ers mis Hydref 2021. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer y canlynol: y Gronfa Cymorth Dewisol, sy'n helpu pobl i ddiwallu eu hanghenion ynni, megis bwyd a thanwydd; y taliad costau byw o £150; ymgyrchoedd 'Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi' pellach a rhagor o gymorth ar gyfer gwasanaethau cynghori er mwyn helpu pobl i gael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt; £4.9m er mwyn helpu pobl i gael gafael ar fwyd a datblygu partneriaethau bwyd; cyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Canolfannau Clyd.

102. Cefnogodd Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf 2021/22 166,780 o aelwydydd â thaliad o £200 tuag at eu costau ynni. Mae Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru 2022/23 wedi ymestyn cymorth i fwy o aelwydydd yn y cynllun presennol, gan gynnwys:

- Cefnogi carfan ehangach o aelwydydd sy'n cael budd-daliadau;
- Mesurau i gefnogi aelwydydd nad ydynt yn talu eu costau ynni yn uniongyrchol i gyflenwr;
- Cymorth i bob aelwyd gan gynnwys y rhai sydd oddi ar y grid h.y., Olew a LPG;
- Ymestyn y cyfnod talu er mwyn rhoi mwy o gyfle i unigolion hawlio a mwy o amser i Awdurdodau Lleol nodi trigolion cymwys a phrosesu taliadau.

103. Ar 2 Rhagfyr 2022, rydym wedi gwneud taliadau i fwy na 275,000 o aelwydydd o dan Gynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru.

104. Rydym wedi buddsoddi £4m drwy'r Sefydliad Banc Tanwydd er mwyn cefnogi aelwydydd â mesuryddion rhagdalu sy'n ei chael hi'n anodd fforddio gwneud taliadau ychwanegol am eu hynni a helpu'r rhai sydd oddi ar y grid i swmp-brynu tanwydd megis olew ac LPG i wresogi eu cartrefi.

105. Hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2022, roedd y Sefydliad Banc Tanwydd wedi dosbarthu 2,666 o dalebau er mwyn cefnogi unigolion na allant fforddio gwneud taliadau ychwanegol i'w mesuryddion rhagdalu – gan gefnogi 6,300 o bobl. Mae ei gronfa 'Heat', a sefydlwyd fel rhan o'n pecyn cymorth gwerth £4m, wedi helpu mwy na 50 o aelwydydd i swmp-brynu tanwydd gwerth £21,000.

106. Mae'r penderfyniad i ymestyn y cynllun cymorth tanwydd yn golygu y bydd bron i 200,000 o aelwydydd ychwanegol sy'n cael credydau treth plant, credydau pensiwn, budd-daliadau anabledd, lwfans gofalwyr a budd-daliadau cyfrannol a'r rhai sy'n cael cymorth o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i dalu eu bil treth gyngor, bellach yn gymwys. Ar 18 Tachwedd, mae taliadau wedi'u gwneud i fwy na 260,000 o aelwydydd.

107. Mae galw mawr wedi bod am y talebau tanwydd ar gyfer Mesuryddion Rhagdalu o dan y Sefydliad Banc Tanwydd gyda 2,666 o dalebau yn cael eu dosbarthu rhwng mis Awst ac 20 Tachwedd eleni gan gefnogi 6,336 o unigolion. Mae hyn yn cyd-fynd, fwy neu lai, â'r gyfradd a ragwelwyd gan y Sefydliad Banc Tanwydd. O ran y gronfa wres i swmp-brynu tanwydd ar gyfer cartrefi oddi ar y grid, mae 54 o aelwydydd wedi cael cymorth gwerth £21,000 hyd yma.

108. Mae cyllid ar gyfer Rhaglen Cartrefi Clyd o fewn portffolio'r Gweinidog Newid Hinsawdd.

**Gwariant Ataliol**

109. Mae ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a amlinellwyd uchod ym mharagraff 52, yn cynnwys ffocws cynyddol ar waith ataliol a gwaith gyda chyflawnwyr. Mae mynd i'r afael â chyflawni trais yn un o'r chwe phrif ffrwd waith yn ein dull Glasbrint o gyflawni'r strategaeth, ond mae atal hefyd yn thema drawsbynciol hollbwysig ym mhob un o'r ffrydiau gwaith. Mae'r egwyddorion sylfaenol a fydd yn llywio ein dull gweithredu fel a ganlyn:

- dwyn y rheini sy'n cyflawni'r trais i gyfrif drwy newid y diwylliant o gasineb at fenywod ac aflonyddu
- Creu deialog ymhlith dynion am yr hyn y mae gwrywdod yn ei olygu
- Datblygu a chynnal gwasanaethau effeithiol
- dwyn y rheini sy'n cyflawni'r trais i gyfrif
- ‘Mynd at wraidd y drwg’ a chreu newidiadau cymdeithasol er mwyn dadnormaleiddio agweddau sy’n hwyluso camdriniaeth a'u gwthio i’r cyrion, gan gynnwys herio credoau.
- Dadnormaleiddio trais rhywiol ac aflonyddu
- Tanseilio'r amgylchedd lle mae cam-drin domestig yn digwydd.

110. Rydym yn parhau i gefnogi **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu** (PCSOs), gan gynyddu cyfanswm ein cyllideb ar gyfer Cymorth Cymunedol a Diogelwch o £22.625m yn 2022-23 i £22.998m yn 2023-24. Er nad yw plismona yn faes datganoledig, rydym yn ymrwymedig i gadw cymunedau yng Nghymru yn ddiogel drwy ddarparu cyllid ar gyfer PCSOs. Mae PCSOs yn darparu cymorth gweladwy ac ymarferol i gymunedau, gan feithrin cydberthnasau â phobl leol a gwneud gwaith i atal troseddau a sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel lle maent yn byw.

111. Ar 13 Rhagfyr, gosodwyd **Tlodi Plant: Adroddiad Cynnydd 2022** gerbron y Senedd. Dengys yr adroddiad hwn fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn mynd i'r afael â thlodi plant fel blaenoriaeth. Rydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni er mwyn hyrwyddo ffyniant, atal a lliniaru tlodi a lleihau nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru er gwaethaf yr hinsawdd ariannol anodd iawn.

112. Yn 2022/23, byddwn wedi buddsoddi £1.6bn er mwyn cefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw drwy dargedu cymorth at y rhai sydd ei angen fwyaf a thrwy raglenni a chynlluniau sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl. Mae cyllideb drafft 2023/24 yn darparu cyllid ar gyfer y rhaglenni hynny a fydd yn mynd i'r afael â chanlyniadau uniongyrchol yr argyfwng costau byw parhaus megis pecyn gwell ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol ym Mhrif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol. Mae hefyd yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer mesurau ataliol er mwyn mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb megis parhau i roi cyngor ar wneud y defnydd gorau posibl o incwm drwy'r Gronfa Gynghori Sengl a chyllid ychwanegol ar gyfer y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal. Bydd hefyd yn sicrhau y gallwn barhau â'r holl raglenni eraill hynny yng Nghymru, sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl – o bresgripsiynau am ddim i brydau ysgol am ddim a chymorth i dalu costau anfon plant i'r ysgol.

113. Byddwn yn parhau i gofrestru pobl ifanc cymwys sy'n gadael gofal ar ein Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol. Bydd y cynllun peilot gwerth £20m yn ystyried manteision Incwm Sylfaenol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal yng Nghymru ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc sy'n agored iawn i niwed wrth iddynt bontio o ofal i fyd oedolion. Bydd y broses o werthuso'r cynllun peilot yn cynnig cyfle i ystyried effeithiau tymor hwy taliad incwm sylfaenol rheolaidd, gan gynnwys effeithiau ar dlodi a sut y gall y taliad hwn gefnogi'r bobl ifanc o ran y dewisiadau y maent yn eu gwneud a'u rhagolygon uniongyrchol a thymor hwy.

114. Gwnaethom gomisiynu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad rhyngwladol o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â thlodi a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Medi 2022 https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/adolygiad-o-dlodi-ac-allgau-cymdeithasol-yng-nghymru/. Mae'n nodi pedwar maes ffocws allweddol y gellid cydgysylltu ymdrechion i leihau tlodi o'u hamgylch yn y dyfodol gan gynnwys (i) Lleihau costau a gwneud y defnydd gorau o incwm, (ii) Llwybrau allan o dlodi drwy alluogi cyfranogiad economaidd-gymdeithasol ehangach, (iii) Amgylchedd galluogi a (iv) Llwyth meddyliol ac iechyd meddwl sy'n effeithio ar bobl sy'n byw mewn tlodi ac allgau cymdeithasol.

115. Mae'r ymchwil hon yn cadarnhau na all Llywodraeth Cymru drechu tlodi nac anghydraddoldeb ar ei phen ei hun. Bydd ein dull gweithredu yn y dyfodol yn cynnwys lefelau uwch o ymgysylltu â'n partneriaid allweddol ledled Cymru er mwyn ysgogi gweithgarwch a chryfhau effaith ein hymdrechion ar y cyd drwy gydweithio tuag at nod cyffredin. Gan weithio ochr yn ochr â'n partneriaid, byddwn yn defnyddio pob dull sydd ar gael inni er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl mewn tlodi a sicrhau y gallant gyflawni eu potensial.

116. Yn y misoedd sydd i ddod, byddwn yn lansio ymgynghoriad ynghylch fersiwn wedi'i diweddaru o Strategaeth Tlodi Plant Cymru gyda'r nod o gyhoeddi'r Strategaeth yn ystod Hydref 2023. Caiff yr ymgynghoriad ei lywio gan dystiolaeth o'n hadolygiad o dlodi plant a ystyriodd beth yn fwy sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau bod rhaglenni tlodi presennol yn cael yr effaith fwyaf posibl ar fywydau plant sy'n byw mewn tlodi; bydd yn defnyddio canfyddiadau adolygiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â thlodi. Byddwn hefyd yn ceisio barn pobl a sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad bywyd o dlodi.

117. Cafodd ymrwymo i'r cam gweithredu hwn ei ystyried yng nghyd-destun gwaith ehangach Cynllun Gwella'r Gyllideb. Ar y sail hon, roedd camau pwysig eraill roedd angen eu hystyried cyn rhoi unrhyw ystyriaeth i gomisiynu cyngor arbenigol annibynnol.

118. Drwy ein Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb sydd wedi'i ddiwygio, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynghylch gwella prosesau'r gyllideb a threth. Mae ein Cynllun Gwella'r Gyllideb yn amlinellu'r camau rydym yn eu cymryd mewn perthynas ag atal. Mae ystyried atal yn rhan o raglen waith arfaethedig 2023 ar gyfer y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried yr achos dros ddefnyddio cyngor arbenigol a gomisiynwyd, wedi'i gydbwyso yn erbyn costau gwneud hynny. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol a gwledydd eraill er mwyn defnyddio arferion gorau mewn meysydd gwella prosesau cyllidebol ehangach.

119. Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o Gynllun Gwella'r Gyllideb ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar 13 Rhagfyr 2022.

120. Mae ein Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 yn parhau i gael ei llywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyn yn adeiladu ar y camau a gymerwyd gennym y llynedd fel rhan o Adolygiad o Wariant Cymru er mwyn cysoni cyllid hyd at 2024-25 â'r gwaith o gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu sy'n cynnwys amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru.

121. Mae proses 2023-24 wedi canolbwyntio'n benodol ar gydbwyso canlyniadau byrdymor a hirdymor. Mae hyn yn cynnwys ymateb i broblemau byrdymor sy'n gysylltiedig â chostau byw, Wcráin a phwysau chwyddiannol ehangach wedi'u cydbwyso yn erbyn meysydd megis cynaliadwyedd tymor hwy gwasanaethau cyhoeddus. Mae atal wrth wraidd y dull hwn o weithredu, gyda'r buddsoddiadau byrdymor yn ein Cyllideb yn gwneud popeth o fewn ein

gallu i atal y rhai y mae'r problemau hyn yn cael effaith anghymesur arnynt eisoes rhag dioddef effeithiau negyddol pellach yn ogystal â pharhau i fuddsoddi yn y tymor hwy, gan gynnwys er mwyn atal y cyd-destun presennol rhag peryglu cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus.

**Yr ymateb dyngarol i'r argyfwng yn Wcráin**

122. Mae'n bwysig rhoi hyn yng nghyd-destun ein gweledigaeth ar gyfer **Cymru yn Genedl Noddfa**, sy'n golygu, ble bynnag y bydd pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru yn mynd, y cânt eu croesawu, eu deall a'u dathlu am eu cyfraniad unigryw at gymdeithas ac y cânt eu trin ag urddas a pharch. Petai lefelau cyllido yn cael eu gostwng neu pe na fwriedid darparu unrhyw gyllid arall, byddai angen inni ddechrau rhoi strategaeth ymadael ar waith o'r adeg y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud ar gyllideb drafft 2023-24. Byddai swyddogion yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol partner a phartneriaid yn y trydydd sector er mwyn cynyddu nifer yr unigolion sy'n symud ymlaen ond, yn y pen draw, pe na ellid sicrhau llety dros dro o fewn y cyfnod byr o amser sydd ar gael, byddai nifer sylweddol o Wcreiniaid yn mynd yn ddigartref, gan sbarduno dyletswydd ddigartrefedd awdurdodau lleol. Mae'n amlwg y gallai unrhyw ddiffyg sylweddol o ran cyllid achosi rhagor o drawma i Wcreiniaid sydd eisoes wedi gorfod ffoi o ardal frwydro, yn ogystal â pheri risg y gallai cyhuddiadau posibl o dorri ymrwymiadau dyngarol niweidio enw da Llywodraeth Cymru.

123. Mae hyn yn golygu, i bob pwrpas, y byddai Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb cyllidol am ymateb i'r argyfwng yn Wcráin i lywodraeth leol. Byddai hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar system ddigartrefedd sydd eisoes o dan bwysau ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi, gydag awdurdodau lleol yn gorfod ymdrin â mwy na 1,300 o bobl y mae angen llety dros dro arnynt bob mis. Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd bodloni'r gofynion capasiti a chwrdd â'r costau sy'n gysylltiedig â'r galw presennol hwn a byddai unrhyw gynnydd yn nifer yr unigolion y mae angen llety dros dro arnynt yn gwaethygu'r sefyllfa hon. O ystyried y ffaith bod y farchnad eiddo wedi'i chyfyngu i gryn raddau ar hyn o bryd ynghyd â chost datblygu llety tymor hwy a'r amser y mae'n ei gymryd i wneud hynny, byddai'r atebion i lywodraeth leol yn gyfyngedig ac yn debyg, yn ôl pob tebyg, i'r mesurau llety costus rydym wedi bod yn eu defnyddio.

124. Byddai disgwyl i ALlau dalu costau cefnogi pobl o Wcráin o dan y ddyletswydd ddigartrefedd yn cynyddu'r pwysau ariannol y maent yn eu hwynebu. Mae ALlau eisoes yn rhagweld pwysau sylweddol yn 2023-24 (mwy na £0.5bn) a byddai'n rhaid iddynt ddod o hyd i doriadau pellach mewn gwasanaethau eraill, gan gynnwys colli swyddi, er mwyn talu costau tai. Mae hyn yn ychwanegol at y gostyngiad yn nhariff Blwyddyn 1 a diwedd cyllid tariff Llywodraeth y DU ar ôl y flwyddyn gyntaf, sy'n golygu bod yn rhaid i ALlau barhau i gefnogi gwasanaethau a phobl ifanc mewn addysg yn fwy cyffredinol heb unrhyw gyllideb ychwanegol. Mae'n annhebygol y gall awdurdodau lleol ddarparu llety dros dro drud ar gyfer y nifer hwn o bobl ac mae'n bosibl y bydd angen iddynt ystyried opsiynau amgen ar eu cyfer hwy a phobl eraill yn y system ddigartrefedd ehangach wrth iddynt flaenoriaethu adnoddau prin. Gallai hyn danseilio a gwrthdroi'r cynnydd a wnaed mewn gwasanaethau digartrefedd dros y tair blynedd diwethaf a golygu bod nifer mawr o bobl yn gorfod cysgu allan neu ddychwelyd i ddefnyddio llety anaddas megis llochesi nos a lle ar lawr. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'n gweledigaeth ar gyfer Cymru yn Genedl Noddfa.

# Papur 07a – Atodiad A - Llinell Gwariant y Gyllideb

| CYFIAWNDER CYMDEITHASOL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | Cyllideb Derfynol 2022-23 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 | Cynlluniau Dangosol 2023-24 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2023-24 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Incwm Sylfaenol | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 10,000 | 2,200 | 12,200 |
| Cynhwysiant Ariannol | 20,202 | 125,822 | 125,822 | 20,202 | 18,800 | 39,002 |
| Cynhwysiant Digidol | 1,250 | 1,250 | 2,000 | 1,250 | 0 | 1,250 |
| Cynhwysiant Digidol - Heb fod yn arian parod | 149 | 149 | 149 | 149 | 0 | 149 |
| Cefnogi Cymunedau | 1,483 | 6,863 | 6,794 | 1,483 | -250 | 1,233 |
| Datblygu Rhyngwladol | 925 | 1,275 | 1,275 | 1,275 | 0 | 1,275 |
| Partneriaethau Cymdeithasol | 806 | 806 | 886 | 961 | -100 | 861 |
| **Cam gweithredu: Cyfanswm Cefnogi Cymunedau** | **29,815** | **141,165** | **141,926** | **35,320** | **20,650** | **55,970** |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | 8,405 | 8,405 | 8,405 | 8,405 | 0 | 8,405 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub - Heb fod yn arian parod | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub – Systemau Cyfathrebu | 3,915 | 3,915 | 3,915 | 3,915 | -1,640 | 2,275 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 848 | 848 | 848 | 848 | 0 | 848 |
| **Cam gweithredu:Cyfanswm Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd** | **13,188** | **13,168** | **13,168** | **13,168** | **-1,640** | **11,528** |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn | 1,589 | 1,589 | 1,520 | 1,589 | 95 | 1,684 |
| Y Comisiynydd Pobl Hŷn - Heb fod yn arian parod | 9 | 9 | 78 | 9 | 0 | 9 |
| Y Comisiynydd Plant | 1,580 | 1,580 | 1,644 | 1,580 | 95 | 1,675 |
| Y Comisiynydd Plant - Heb fod yn arian parod | 0 | 0 | 34 | 0 | 52 | 52 |
| Penodiadau Cyhoeddus | 375 | 375 | 375 | 600 | -200 | 400 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | 1,509 | 1,509 | 1,509 | 1,509 | 171 | 1,680 |
| **Cam gweithredu: Cymunedau** | **5,062** | **5,062** | **5,160** | **5,287** | **213** | **5,500** |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 7,875 | 7,875 | 8,006 | 7,875 | 130 | 8,005 |
| **Cam gweithredu: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **7,875** | **7,875** | **8,006** | **7,875** | **130** | **8,005** |
| Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | 12,686 | 16,886 | 17,148 | 17,632 | -316 | 17,316 |
| Chwarae Teg | 360 | 360 | 360 | 360 | 6 | 366 |
| **Cam gweithredu: Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol** | **13,046** | **17,246** | **17,508** | **17,992** | **-310** | **17,682** |
| Gwasanaethau Cynghori | 10,175 | 11,875 | 12,831 | 11,849 | -174 | 11,675 |
| **Cam gweithredu: Gwasanaethau Cynghori** | **10,175** | **11,875** | **12,831** | **11,849** | **-174** | **11,675** |
| Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a a Gwirfoddoli | 7,494 | 7,494 | 7,494 | 7,494 | 130 | 7,624 |
| **Cam gweithredu: Cymorth i'r Sector Gwirfoddol a a Gwirfoddoli** | **7,494** | **7,494** | **7,494** | **7,494** | **130** | **7,624** |
| Cymorth Cymunedol a Diogelwch | 22,625 | 22,625 | 22,625 | 22,625 | 373 | 22,998 |
| **Cam gweithredu: Cymorth Cymunedol a Diogelwch** | **22,625** | **22,625** | **22,625** | **22,625** | **373** | **22,998** |
| Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid | 1,075 | 1,075 | 1,075 | 1,075 | 0 | 1,075 |
| **Cam gweithredu: Glasbrintiau Troseddwyr Benywaidd a Chyfiawnder Ieuenctid** | **1,075** | **1,075** | **1,075** | **1,075** | **0** | **1,075** |
| **MEG: CYFIAWNDER CYMDEITHASOL** | **110,355** | **227,585** | **229,793** | **122,685** | **19,372** | **142,057** |

| CYFIAWNDER CYMDEITHASOL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFALAF | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | Cyllideb Derfynol 2022-23 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 | Cynlluniau Dangosol 2023-24 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2023-24 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cynhwysiant Ariannol | 0 | 1,500 | 1,500 | 500 | 0 | 500 |
| Cynhwysiant Ariannol - Ad-daliadau | 0 | -4 | -4 | -6 | 0 | -6 |
| Y Banc Cymunedol | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 0 | 1,500 |
| Cefnogi Cymunedau | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 0 | 1,000 |
| **Cam gweithredu: Cefnogi Cymunedau** | **2,500** | **3,996** | **3,996** | **2,994** | **0** | **2,994** |
| Gwasanaethau Tân ac Achub | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,500 | 0 | 1,500 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub – Systemau Cyfathrebu | 210 | 210 | 210 | 210 | 0 | 210 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 900 | 900 | 900 | 900 | 0 | 900 |
| **Cam gweithredu: Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd** | **2,110** | **2,110** | **2,110** | **2,610** | **0** | **2,610** |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 2,200 | 2,200 | 2,200 | 2,200 | 0 | 2,200 |
| **Cam gweithredu: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **2,200** | **2,200** | **2,200** | **2,200** | **0** | **2,200** |
| Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | 3,690 | 3,690 | 3,690 | 3,190 | 0 | 3,190 |
| **Cam gweithredu: Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | **3,690** | **3,690** | **3,690** | **3,190** | **0** | **3,190** |
| Y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol | 6,500 | 6,500 | 6,500 | 6,500 | 0 | 6,500 |
| **Cam gweithredu: Cyfleusterau Cymunedol** | **6,500** | **6,500** | **6,500** | **6,500** | **0** | **6,500** |
| **MEG: CYFIAWNDER CYMDEITHASOL** | **17,000** | **18,496** | **18,496** | **17,494** | **0** | **17,494** |

| CYFIAWNDER CYMDEITHASOL | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GWARIANT A REOLIR YN FLYNYDDOL (AME) - ADNODDAU | | | | | | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft 2022-23 | Cyllideb Derfynol 2022-23 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 | Cynlluniau Dangosol 2023-24 | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft 2023-24 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Pensiynau'r Gwasanaeth Tân - AME | 28,063 | 280,663 | 28,063 | 26,045 | -913 | 25,132 |
| **Cam gweithredu: Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd** | **28,063** | **280,663** | **28,063** | **26,045** | **-913** | **25,132** |
| **MEG: CYFIAWNDER CYMDEITHASOL** | **28,063** | **280,663** | **28,063** | **26,045** | **-913** | **25,132** |

Paper 08 - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Ionawr 2023 - tystiolaeth ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon

**1.0 Cyflwyniad**

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am ein cynlluniau gwariant fel Gweinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip mewn perthynas â'r cyllidebau diwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth a chwaraeon o fewn ein portffolio. Amlinellir y cynlluniau gwariant yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24, a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2022. Mae'r papur hwn hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Ceir dadansoddiad o'r newidiadau i'r dyraniadau cyllidebol (fel y bônt yn berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, y Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon) yn ôl maes gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2023-24 a blynyddoedd wedyn yn **Atodiad A**.

Hefyd ceir sylwadau yn egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn yn **Atodiad B**. Darparwyd esboniad naratif tryloyw er mwyn egluro cynnydd a gostyngiadau, lle na chwmpesir hynny yn y papur tystiolaeth. Mae hyn ond yn cwmpasu'r cyllidebau y craffwyd arnynt fel rhan o'r pwyllgor hwn. Rhoddir rhagor o fanylion am benderfyniadau ynghylch y gyllideb yn y diweddariadau ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

### 1.1 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) Cyllideb Adnoddau a Chyfalaf – Prif Grŵp Gwariant yr Economi

Yn y tabl isod rhoddir trosolwg o'r cynlluniau dangosol ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2023-24

| Prif Grŵp Gwariant yr Economi – Crynodeb | 2022-23 Cyllideb Derfynol Mawrth 2022 | 2023-24 Cyllideb Derfynol Ddangosol Mawrth 2022 | 2023-24 Newidiadau | 2023-24 Cyllideb Ddrafft Rhagfyr 2022 | 2024-25 Cyllideb Derfynol Ddangosol Mawrth 2022 | 2024-25 Newidiadau | 2024-25 Cyllideb Derfynol Ddangosol Rhagfyr 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnodd | 402,421 | 416,582 | 30,901 | 447,483 | 432,688 | 30,860 | 463,548 |
| Cyfalaf | 82,792 | 106,187 | 0 | 106,187 | 81,608 | 0 | 81,608 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a Chyfalaf** | **485,213** | **522,769** | **30,901** | **553,670** | **514,296** | **30,860** | **545,156** |
| AME Adnoddau | 45,525 | 45,525 | 13,000 | 58,525 | 45,525 | 13,000 | 58,525 |
| AME Cyfalaf | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm AME** | **45,525** | **45,525** | **13,000** | **58,525** | **45,525** | **13,000** | **58,525** |
| **Cyfanswm – Prif Grŵp Gwariant yr Economi** | **530,738** | **568,294** | **43,901** | **612,195** | **559,821** | **43,860** | **603,681** |

**Adnodd**

Ar gyfer adnoddau, mae llinell sylfaen 2022-23 ar gyfer Cyllideb ddrafft 2023-24 yn adlewyrchu'r Gyllideb Derfynol.

Mae cyllideb Adnoddau Prif Grŵp Gwariant yr Economi wedi cynyddu £30.901m yn 2022-23 o gymharu â llinell sylfaen cyllideb derfynol ddangosol 2023-24, gyda chynnydd pellach o £78.6m yn 2023-24.

Crynhoir cyfanswm y dyraniadau adnoddau ychwanegol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y tabl isod:

| **Yr Economi: Dyraniadau'r Gyllideb Adnoddau** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2023-24 £000** | **2024-25 £000** |
|---|---|---|---|
| Prentisiaeth | Prentisiaethau | 18,000 | 18,000 |
| ***Cynnydd chwyddiannol mewn costau byw - cyflog a chyfleustodau mewn Cyrff Hyd Braich:*** | | | |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 677 | 828 |
| Amgueddfa Cymru | Amgueddfa Cymru | 1,574 | 1,878 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru | 133 | 202 |
| Y Comisiwn Brenhinol | Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 60 | 92 |
| Chwaraeon Cymru | Chwaraeon Cymru | 242 | 360 |
| Staff a ariennir gan grant mewn Cyrff Hyd Braich | Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | 43 | 47 |
| Cadw | Cadw | 540 | 720 |
| Gyrfa Cymru | Cyflogadwyedd Gan Gynnwys y Warant i Bobl Ifanc | 1,231 | 1,873 |
| ***Pwysau chwyddiannol costau byw – treftadaeth leol, diwylliant a chwaraeon:*** | | | |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru | 500 | |
| Chwaraeon Cymru | Chwaraeon Cymru | 500 | |
| Diwylliant Lleol | Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | 250 | |

| Yr Economi: Dyraniadau'r Gyllideb Adnoddau | Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2023-24<br>£000 | 2024-25<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Cadw a threftadaeth leol | Cadw | 250 | |
| **Cyfanswm dyraniadau refeniw o Gronfeydd wrth Gefn** | | **24,000** | **24,000** |
| Cymunedau am waith – heb fod yn arian parod | Cymunedau am Waith | 5 | -36 |
| **Cyfanswm dyraniadau Heb Fod yn Arian Parod o Gronfeydd wrth Gefn** | | **5** | **-36** |
| Llai: Cyfraniad Prif Grŵp Gwariant yr Economi at ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru (rhoddir gwybodaeth am feysydd rhaglenni lle mae cyllid wedi'i ailflaenoriaethu ar gyfer cyllidebau sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn yn Atodiad A ac Atodiad B) | Amrywiol | -7,166 | -7,166 |
| **Cyfanswm y Refeniw Net o Gronfeydd wrth Gefn ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant** | | **16,839** | **16,798** |
| Trosglwyddiad i Brif Grŵp Gwariant yr Economi a Phrif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol (Grant y Comisiynydd Plant) | Cymunedau am Waith | 14,062 | 14,062 |
| **Cyfanswm y Dyraniadau i'r Prif Grŵp Gwariant** | | **30,901** | **30,860** |
| | | | |

Mae cyfanswm y dyraniad refeniw ar gyfer diwylliant dros dair blynedd o'r Cytundeb Cydweithio, sef £27m, wedi'i gynnal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu er mwyn rhyddhau cyllid o bortffolios i'w ailddyrannu ar draws y Llywodraeth. Yr egwyddorion wrth wraidd yr ymarfer ailflaenoriaethu hwn oedd pennu cyllideb gytbwys, diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a diogelu'r Rhaglen Lywodraethu.

O ganlyniad i'r ymarfer hwn, mae cynlluniau'r gyllideb ddrafft yn adlewyrchu'r penderfyniad i drosglwyddo £7.166m o Brif Grŵp Gwariant yr Economi yn ôl i gronfeydd canolog wrth gefn yn 2023-24, gyda gostyngiadau yn cael eu cynnwys yn y llinell sylfaen ar gyfer 2024-25. Crynhoir y newidiadau hyn ar gyfer llinellau yn y gyllideb sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn yn **Atodiad A ac Atodiad B.**

**Cyfalaf**

Cyllideb gyfalaf yr Economi yw £106.2m ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 ac £81.6m ar gyfer 2024-25. Ni fu unrhyw newidiadau i'r dyraniadau fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)**

Mae'r gyllideb AME, sef £58.525m, yn darparu ar gyfer taliadau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, megis amhariadau ar y portffolio eiddo, amrywiadau mewn prisiadau pensiwn ar gyfer Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Gyrfa Cymru. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i hariennir yn llawn. Mae ffigurau Cyllideb ddrafft AME yn adlewyrchu'r rhagamcanion a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Awst 2022.

**Rhagolwg 2022-23**

Fel yr amlinellir yn **Atodiad A**, yr alldro refeniw rhagamcanol ar gyfer 2022-23 yw £128.618m, o gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf, sef £123.505m**. Mae'r amrywiad o £5.113m i'w briodoli i £2.6m a ryddhawyd ar gyfer Cymru Greadigol, pwysau cyflog yn cyfateb i £1.147m ar gyfer Cyrff Hyd Braich sy'n ymwneud â Diwylliant a Chwaraeon a chynnydd mewn prisiau ynni yn cyfateb i £1.3m mewn perthynas ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

Yr alldro cyfalaf rhagamcanol ar gyfer 2022-23 yw £43.982m, o gymharu â'r Gyllideb Atodol Gyntaf, sef £42.124m**. Mae'r amrywiad i'w briodoli i ddamperi tân gwerth £0.5m ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru.**

**Alldro Terfynol 2021-22**

Cofnodwyd alldro o £172.809m ar gyfer cyllidebau adnoddau diwylliant, twristiaeth a chwaraeon ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.

Cofnodwyd alldro o £71.042m ar gyfer cyllideb cyfalaf diwylliant, twristiaeth a

chwaraeon ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.

**1.2 Newidiadau i'r Gyllideb**

**<u>Adnodd</u>**

Mae cyllideb Adnoddau ar gyfer y cyllidebau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn wedi cynyddu £3.618m yn 2023-24 o gymharu â llinell sylfaen cyllideb derfynol ddangosol 2023-24, gyda chynnydd pellach o £2.976m yn 2024-25. Mae'r cynnydd yn ymwneud â dyraniadau ychwanegol i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn cyflogau a chwyddiant yn ein Cyrff Hyd Braich ond cânt eu gwrthbwyso gan ostyngiadau o ganlyniad i ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o gyfraniad Prif Grŵp Gwariant yr Economi at yr ymarfer ailflaenoriaethu, bu gostyngiad o

1.1% mewn refeniw i Cymru Greadigol a phob Corff Hyd Braich sy'n ymwneud â Diwylliant a Chwaraeon (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) gan gynnwys gostyngiad ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Ar y cyfan, mae'r dyraniad adnoddau i'r Cyrff Hyd Braich yn 2023-24 wedi cynyddu. Mae £12m ychwanegol wedi'i ddarparu yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer 2023-24 a 2024-25 (£6m y flwyddyn) er mwyn helpu â phwysau costau byw. Bydd hyn yn galluogi pob Corff Hyd Braich sy'n ymwneud â Diwylliant a Chwaraeon a Cadw (sydd o fewn Llywodraeth Cymru) i gynnig dyfarniad cyflog cyfunedig i'w staff sy'n debyg i'r un a wnaed gan Lywodraeth Cymru a chyflawni ymrwymiadau i sicrhau cyflogau cyfartal i'r staff ar y cyflog lleiaf.

Bydd y cyllid ychwanegol hwn hefyd yn mynd i'r afael â phwysau chwyddiannol eraill yn y sector diwylliant a'r sector chwaraeon, yn arbennig costau eithriadol cyfleustodau yn Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Cadw, yn ogystal â chyllid a ddarperir er mwyn helpu sefydliadau annibynnol lleol a sefydliadau yn y trydydd sector sy'n ymwneud â'r celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd cymunedol, treftadaeth a chwaraeon i dalu costau chwyddiannol ychwanegol.

Mae'r dyraniad gwerth £8m ar gyfer diwylliant yn y Cytundeb Cydweithio ym mlwyddyn ariannol 2023-24 wedi'i gynnal.

**Cyfalaf**

Mae'r cyllidebau cyfalaf sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn yn £51.939m ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Ni fu unrhyw newidiadau i'r dyraniadau hyn fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)**

Y gyllideb AME ar gyfer gweithgarwch sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn yw £29m ac mae'n darparu ar gyfer taliadau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, megis amhariadau ar y portffolio eiddo ac amrywiadau mewn prisiadau pensiwn ar gyfer Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chwaraeon Cymru. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i hariennir yn llawn. Mae ffigurau Cyllideb ddrafft AME yn adlewyrchu'r rhagamcanion a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Awst 2022.

Rhoddir manylion pellach am gyllid yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn) isod.

Mae buddsoddi yn ein hasiantaethau mewnol, ein sefydliadau cenedlaethol a'n sectorau lleol yn hanfodol ac mae'n cydnabod pwysigrwydd y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth ar gyfer ein nodau llesiant, sef: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru iachach a Chymru o gymunedau cydlynus. Mae buddsoddi yng nghynaliadwyedd hirdymor ein sefydliadau cenedlaethol yn dangos ein hymrwymiad i ddiogelu ein diwylliant a'n treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a'n hymrwymiadau i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol ledled Cymru yn well. Mae datgarboneiddio yn flaenoriaeth i'r penderfyniadau cyllidebol er mwyn cyflawni Sero Net Cymru a galluogi'r sefydliadau i fynd i'r afael â phryderon amgylcheddol, yn enwedig allyriadau $CO_2$ ac effeithlonrwydd ynni. Yn ystod y pandemig mae'r sefydliadau wedi addasu eu cynnig i'r cyhoedd drwy sicrhau bod mwy o'u casgliadau ar gael yn ddigidol, ac wedi dechrau cynnig rhaglenni addysgol ac adloniant ar-lein er mwyn i unigolion a theuluoedd

fwynhau diwylliant a threftadaeth gartref. Bydd y cyllidebau cyfalaf yn galluogi rhagor o fuddsoddiad mewn technoleg ar gyfer adfer, mynediad ehangach a chadwraeth casgliadau. Mae'r dyraniadau ychwanegol o'r Cytundeb Cydweithio yn arbennig o bwysig er mwyn helpu i ddatblygu'r mentrau hyn.

**Asiantaethau mewnol:**

Mae'r brand Cymru Greadigol yn cefnogi'r strategaeth ryngwladol wrth godi proffil Cymru i'r byd, nid yn unig fel canolfan rhagoriaeth greadigol, ond fel lle gwych i ymweld ag ef a byw ynddo. Mae buddsoddiad creadigol a diwylliannol yn hanfodol ar gyfer adfywio ledled Cymru a bydd y cyllid o £15 miliwn dros dair blynedd yn cefnogi cynyrchiadau a mentrau Cymraeg a Saesneg.

Mae rhaglenni datblygu a chadwraeth sylweddol ar y gweill ar gyfer ein safleoedd treftadaeth gyda chyllideb o £30 miliwn i Cadw dros dair blynedd, gan gynnwys rhaglenni yng Nghastell Caernarfon a Chastell Caerffili.

**Sefydliadau diwylliannol cenedlaethol:**

Yn 2023-24, byddwn yn darparu refeniw gwerth £78.216m a chyfalaf gwerth £7,650m gyda'i gilydd i'n pedwar corff diwylliannol cenedlaethol (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Oherwydd y cynnydd ar gyfer pwysau costau byw, mae hyn yn cyfateb i gynnydd o £3,511m yn gyffredinol mewn refeniw. Mae'r cynnydd hwn mewn refeniw yn galluogi'r cyrff i gynnig dyfarniad cyflog cyfunedig tebyg i'r un yn Llywodraeth Cymru a mynd i'r afael ag ymrwymiadau ynglŷn â chyflogau cyfartal a chwyddiant cyfleustodau. Ar gyfer cyfalaf, rydym wedi dyrannu £5m i Amgueddfa Cymru a £2m i Lyfrgell Genedlaethol Cymru er mwyn cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw eu hystadau hanesyddol a symiau bach i'r tri chorff arall. Rydym hefyd wedi dyfarnu cyllid ar gyfer prosiectau penodol a enwir yn y Rhaglen Lywodraethu, gweithgarwch digideiddio a gweithgarwch datgarboneiddio o'r dyraniadau ar gyfer Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol. Caiff y rhain eu nodi yn y Gyllideb Atodol Gyntaf.

**Diwylliant:**

Bydd cyllideb cymorth i ddiwylliant a chwaraeon lleol gwerth £6.429m mewn refeniw a £21.5m mewn cyfalaf yn 2023/24 yn cefnogi'r strategaeth ar gyfer diwylliant a buddsoddiadau mewn theatrau ac amgueddfeydd a'r sectorau diwylliant ehangach, gan gynnwys helpu gyda phwysau costau byw. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys refeniw gwerth £2.8m o'r Cytundeb Cydweithio a chyfalaf gwerth £21m o'r Cytundeb Cydweithio. Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol yn y sectorau diwylliant lleol. Mae'n darparu ar gyfer yr ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol a rhoi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar waith, y pedwar buddsoddiad cyfalaf strategol mawr, darpariaeth ar gyfer buddsoddiadau yn y gwaith o ddatblygu ein cyrff diwylliannol cenedlaethol a'r gwaith o ddatblygu ein sectorau diwylliant lleol, yn arbennig amgueddfeydd a chasgliadau. Rydym yn rhagweld y byddwn yn ymestyn ein cynllun Grantiau Trawsnewid Cyfalaf er mwyn cynnwys dyfarniadau i gefnogi gweithgarwch datgarboneiddio, mentrau digidol, buddsoddiadau llai o faint i wella mynediad i amrywiaeth ehangach o sefydliadau a chanolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn arbennig anghydraddoldebau hiliol, ac rydym wedi cytuno ar gyllid i Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn cefnogi datblygiadau cyfalaf mewn theatrau, neuaddau cyngerdd a lleoliadau perfformio. Rydym wedi cadarnhau £11.5m ar gyfer ailddatblygu Theatr Clwyd yn 2023/24.

**Chwaraeon:**

Bydd y gyllideb gyfalaf flynyddol o £8 miliwn yn darparu buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau chwaraeon cymunedol ac elitaidd i ddarparu amgylcheddau modern a chynaliadwy ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon, i feithrin a datblygu athletwyr talentog. Bydd hefyd yn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i gystadlu'n rhyngwladol ac i helpu i gynnal digwyddiadau rhyngwladol, gan ddarparu cyfle unigryw i hyrwyddo brand Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn y dyfodol. Mae £9m (£3m y flwyddyn) wedi'i ddarparu gan y Cytundeb Cydweithio.

Mae diwylliant, treftadaeth, y diwydiannau creadigol, yr amgylchedd hanesyddol a chwaraeon yn elfennau hanfodol o'n bywyd cenedlaethol ac yn rhan annatod o'n llesiant meddyliol a chorfforol unigol a thorfol. Mae amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, clybiau celfyddydau a chwaraeon, cyfleusterau a safleoedd hanesyddol yn ganolbwynt i lawer o gymunedau ledled Cymru. Mae bron ein holl gymorth i'r sectorau hyn yn helpu pobl i gael mynediad at yr elfennau gorau o Gymru a'u mwynhau, gan wella ansawdd bywyd, yn ogystal â'n haddysg, ein hanes, ein heconomi ymwelwyr a'n lle yn y byd. Mae diwylliant yn un o Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n hanfodol er mwyn cyflawni'r chwe nod arall, o ran yr hyn y gall gyfrannu tuag at fywyd ehangach a'r economi.

**Yr hyn y byddwn yn ei wneud a sut y byddwn yn gwneud hynny**

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026 yn cydnabod y rôl hanfodol y mae'r sectorau hyn yn ei chyflawni. Gweler adran 4.0 am ragor o wybodaeth.

Er mwyn inni allu diogelu ein meysydd allweddol, rydym wedi cynnal ymarfer ailflaenoriaethu er mwyn rhyddhau cyllid o'n cynlluniau presennol ac ailganolbwyntio ein hadnoddau cyfyngedig ar y meysydd hynny sydd eu hangen fwyaf. Mae hyn yn sicrhau y caiff pob punt a fuddsoddir yr effaith gadarnhaol fwyaf. Wrth wneud hyn, rydym yn cydnabod y caiff hyn effeithiau negyddol ar y meysydd hynny y mae cyllid wedi cael ei ailflaenoriaethu ohonynt.

Yr egwyddorion a fu wrth wraidd yr ymarfer ailflaenoriaethu hwn yn wreiddiol oedd pennu cyllideb gytbwys, diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a diogelu'r Rhaglen Lywodraethu.

Gan ddefnyddio cyllid a ryddhawyd o'r ymarfer ailflaenoriaethu, ynghyd â newidiadau cadarnhaol i'n setliad cyffredinol o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref, rydym wedi targedu dyraniadau ychwanegol at ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a chyflawni'r ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu, gan helpu'r rhai y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt a chefnogi ein heconomi drwy gyfnod o ddirwasgiad.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymgorffori'r Cytundeb Cydweithio. Mae hyn yn cynnwys refeniw ychwanegol gwerth £27m a chyfalaf ychwanegol gwerth £60m dros dair blynedd y cytundeb. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgysylltu â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth er mwyn datblygu strategaeth ddiwylliant newydd,

sef blaenoriaeth a nodir yn benodol yn y diweddariad o'r Rhaglen Lywodraethu ym mis Rhagfyr 2021 er mwyn adlewyrchu'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Bydd hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a sut y byddwn yn cynnal ac yn datblygu'r sectorau. Rydym hefyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n rhaglen buddsoddi cyfalaf ddiwylliannol uchelgeisiol yn y sectorau diwylliant, yn enwedig datblygu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol ac

Amgueddfa Bêl-droed a buddsoddi yn Theatr Clwyd. Rydym wedi penodi grŵp llywio cyffredinol a phartner arweiniol i weithio gyda ni i ddatblygu'r gwaith hwn.

Darperir y buddsoddiad yn bennaf drwy ein hasiantaethau mewnol (Cadw a Chymru Greadigol) a chyrff a noddir (Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru (7 amgueddfa), Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru). Mae'r buddsoddiad yn Cadw a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru hefyd yn cyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer treftadaeth, ochr yn ochr â buddsoddiad cyfalaf mewn amgueddfeydd lleol, archifau a llyfrgelloedd drwy ein rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid. Mae Cymru Greadigol yn arwain ar weithgaredd a pholisi ar gyfer y sectorau creadigol ac yn cydlynu'r gweithgaredd hwnnw. Mae'r sefydliadau hyn yn cyflawni'r blaenoriaethau trawslywodraethol er mwyn helpu i gyflawni strategaethau allweddol gan gynnwys Cymru Sero Net, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Cymraeg 2050. Mae pob un o'r cyrff a noddir wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon gan ddarparu adroddiadau cynaliadwyedd manwl yn eu cyfrifon blynyddol. Dyrennir £11.75m ychwanegol i'r pum corff cyhoeddus a Cadw drwy'r Cytundeb Cydweithio gyda grant mewn cymorth / cynnydd mewn cyllid (heb gynnwys cyllid nad yw'n arian parod) teg er mwyn datblygu strategaeth ddiwylliant newydd, sy'n adlewyrchu natur amrywiol Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth yng Nghymru a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol wrth inni weithredu'r strategaeth a byddwn hefyd yn datblygu'r cynigion ar gyfer oriel gelf gyfoes genedlaethol.

Bydd Cadw yn cwblhau'r buddsoddiad mawr cyfredol yng nghestyll Caernarfon a Chaerffili a fydd yn gwella profiad yr ymwelydd ac yn gwneud yr henebion yn fwy hygyrch. Bydd buddsoddiad cyfalaf pellach hefyd yn caniatáu i Cadw barhau â'i gyfrifoldeb statudol i warchod a chynnal yr henebion dan ei ofal, eu cadw'n ddiogel i bobl ymweld â nhw a lleihau ôl troed carbon ei ganolfannau ymwelwyr.

Mae chwaraeon yn rhan annatod o hunaniaeth ein cenedl. Mae'n dod â'n cymunedau at ei gilydd ac yn rhoi sgiliau trosglwyddadwy i bobl er mwyn gwella'r hyn a ddysgir ganddynt a dod o hyd i swydd neu yrfa. Drwy'r miloedd lawer o weithgareddau ledled Cymru, mae chwaraeon hefyd yn cefnogi twf cymunedau Cymraeg eu hiaith drwy ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol fel iaith fodern, fyw. Byddwn yn parhau i gefnogi ein cymunedau, ein clybiau a'n cyfleusterau i fynd i'r afael ag effaith y pandemig, i wella ein hymdeimlad o hunaniaeth, a'u llesiant corfforol a meddyliol, ac i sicrhau bod y sector yn ychwanegu gwerth at ein hiechyd a'n hapusrwydd. Roedd y cynlluniau gwariant ar gyfer chwaraeon yn cynnal lefelau buddsoddi yn y gyllideb gyfalaf tair blynedd, gan alluogi Llywodraeth Cymru i barhau i fuddsoddi, drwy ei phartner cyflawni, Chwaraeon Cymru, yn y bobl a'r lleoedd er mwyn darparu cyfleoedd cynhwysol a chyfartal i bobl fyw bywydau iach ac egnïol, ac i wireddu eu potensial yn y byd chwaraeon.

Mae'r diwydiannau creadigol a'r sectorau diwylliant mewn sefyllfa dda i gefnogi'r adferiad economaidd ar ôl pandemig COVID-19, gan gefnogi rolau sydd ymhlith y rhai lleiaf parod i dderbyn awtomeiddio ac y mae mwy a mwy o alw amdanynt ym mhob rhan o'r economi. Yn ôl data 2021 ar sectorau'r diwydiannau creadigol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru Greadigol, mae sectorau'r diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cynnwys 3,423 o fusnesau, sef cynnydd o 6.4% o gymharu â 2018. Roedd 35,400 yn cael eu cyflogi yn y sectorau hyn, gyda'r diwydiant yn cynhyrchu trosiant blynyddol gwerth £1.7biliwn yn 2021, sef cynnydd o 14% o gymharu â 2017.

Mae gennym gyfrifoldeb statudol i barhau i gefnogi ein cyrff diwylliannol cenedlaethol a noddir, yn ogystal â'r sectorau diwylliant lleol, sydd i gyd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan arwain at well ansawdd bywyd i gynifer o'n poblogaeth. Ochr yn ochr â'n rhwymedigaethau statudol rheolaidd, rydym wedi gofyn i'r holl gyrff hyn i roi blaenoriaeth i wella mynediad a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, datgarboneiddio a gwelliannau digidol dros y tair blynedd nesaf.

Darperir buddsoddiad cyfalaf i'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol drwy ein rhaglen Grant Trawsnewid Cyfalaf, a thrwy Gyngor Celfyddydau Cymru i sector y celfyddydau, gan gynnwys theatrau. Rydym yn bwriadu ymestyn a datblygu'r cynlluniau hyn i fynd i'r afael â'r ystod o ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, gan alluogi ystod ac amrywiaeth ehangach o geisiadau a gwell cyfatebiaeth â blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn ailedrych ar y cynlluniau hyn er mwyn rhoi lle canolog i ddatgarboneiddio a digideiddio, er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau'n gynaliadwy a'u bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig anghydraddoldebau hiliol a gwahaniaethu ar sail anabledd.

**Y rhesymeg dros fuddsoddi yn y sectorau diwylliannol, treftadaeth a chreadigol**

Sefydlodd Y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi (y Genhadaeth), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, yr egwyddorion adfer sylfaenol a'r cyfeiriad ar gyfer polisi economaidd y weinyddiaeth flaenorol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu'r Genhadaeth honno ac ymrwymiadau diwylliannol sylweddol, gan gydnabod rôl bwysig diwylliant ar gyfer llesiant a darparu cyfleoedd cyflogaeth. Fel y tystiodd yr ymateb i'r pandemig, mae diwylliant a threftadaeth yn ganolog i'r hyn sydd o bwys i bobl, yr hyn y maent yn mwynhau ei wneud, eu llesiant meddyliol a'u hiechyd corfforol.

Mae'r sectorau diwylliannol, creadigol a threftadaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi economi Cymru. Maent yn creu swyddi yn y diwydiannau creadigol (y cyfryngau, newyddiaduraeth, a chyhoeddi), treftadaeth, adeiladu ac atgyweirio adeiladau traddodiadol, a'r sectorau celfyddydol a diwylliannol. Mae ein hatyniadau diwylliannol yn helpu i gynnal 11,500 o fusnesau yn y diwydiant twristiaeth ac mae diwydiannau creadigol yn cyflogi 35,400 o bobl. Gwelir manteision economaidd cryf o ran yr economi ymwelwyr, adfywio a chreu lleoedd a manteision amgylcheddol cryf drwy ddatgarboneiddio a chefnogaeth ar gyfer bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol.

Mae ein diwydiannau diwylliannol, treftadaeth, chwaraeon a chreadigol yn ganolog i frand Cymru ac yn hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol. Mae'r sectorau hyn wedi wynebu heriau sylweddol eleni a'r llynedd o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws. Bydd effaith yr heriau hyn yn parhau i'r dyfodol wrth inni anelu at gefnogi ein sectorau wrth iddynt adfer. Mae mesurau cymorth Llywodraeth Cymru, fel y Gronfa Adferiad Diwylliannol, y Gronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden a'r Gronfa Cadernid Economaidd, yn amlwg wedi galluogi ein sectorau i oroesi. Fodd bynnag, mae angen rhagor o gamau nawr, a thros yr ychydig flynyddoedd nesaf, i helpu'r sectorau hanfodol hyn i ailddechrau gweithredu mewn modd cynaliadwy a chyfrannu at adferiad Cymru.

## 3.0 Ymateb i Wybodaeth Benodol y Gofynnwyd Amdani gan y Pwyllgor

### 3.1 Gwybodaeth am gyflawni'r portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth a'r canlyniadau cysylltiedig a sut y caiff hyn ei fonitro a'i werthuso i ddangos gwerth am arian.

Mae'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob corff a noddir wedi'u nodi yn eu llythyrau cylch gwaith, y maent yn eu defnyddio fel sail i'w cynlluniau gweithredol a'u dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r Dirprwy Weinidog yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn â phob corff, ac mae swyddogion yn monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn yn ffurfiol mewn

cyfarfodydd monitro chwarterol ac yn fwy rheolaidd drwy berthnasoedd gwaith agos â'r uwch dimau gweithredol yn y cyrff a noddir. Ar wahoddiad y cyrff, mae swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd, gan roi trosolwg da o broblemau posibl i Lywodraeth Cymru. Mae hawliadau misol am gymorth grant yn destun proses graffu hefyd i sicrhau y gwneir cynnydd yn erbyn llinellau gwariant penodol.

Mae gan Cadw ei fwrdd asiantaeth mewnol ei hun gydag aelodau anweithredol. Mae'n cyfarfod bob chwarter a rhan o'i rôl yw craffu ar berfformiad Cadw yn erbyn ei gynllun busnes ac ar ei adroddiadau ariannol.

Mae gan bob prosiect mawr drefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r prosiect penodol. Mae buddsoddiadau cyfalaf mawr wedi'u hategu gan achosion busnes y mae tîm Trysorlys a swyddogion Llywodraeth Cymru yn craffu arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn. Dyfernir grantiau a chontractau cyfalaf a refeniw llai yn seiliedig ar broses ymgeisio agored neu gomisiwn uniongyrchol, a chânt eu monitro gan swyddogion drwy gydol cylch bywyd y prosiect, gyda chyflawniadau y cytunwyd arnynt a phwyntiau gwirio.

Caiff prosiectau a gweithgaredd mawr eu monitro gan ddefnyddio'r Offeryn Adroddiad am Wybodaeth Busnes). Mae Cynllun Tystiolaeth yn cyflwyno'r prosiectau ymchwil, gwerthuso a chasglu data y mae'r Is-adran Diwylliant yn ymgymryd â nhw neu wedi ymrwymo iddynt. Caiff ei ddiweddaru'n flynyddol, yn seiliedig ar drafodaethau gyda staff a rhanddeiliaid ehangach, i sicrhau bod gweithgaredd yn cefnogi blaenoriaethau adrannol allweddol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

### 3.2 Manylion am bolisïau neu raglenni penodol yn y Prif Grwpiau Gwariant (sy'n berthnasol i'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth) y bwriedir iddynt fod yn ataliol a sut y caiff gwerth am arian a manteision cost rhaglenni o'r fath eu gwerthuso.

Bydd y Strategaeth Ddiwylliant yn nodi pa bolisïau a rhaglenni y bwriedir iddynt fod yn ataliol a sicrhau bod manteision cost y rhaglenni hyn yn cael eu hystyried. Ystyrir pob cynnig er mwyn canfod a ydynt yn cynrychioli gwerth am arian.

Mae celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a threftadaeth yn chwarae rhan bwysig o ran mynd i'r afael ag anfantais ac atal tlodi.  Gall cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol (fel gwirfoddoli mewn amgueddfa neu chwarae cerddoriaeth) gynyddu sgiliau, hunan-barch, dysgu a dyhead, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir anfantais economaidd.

**Iechyd a llesiant**

Mae'r pandemig wedi tanlinellu'n ddramatig bwysigrwydd diwylliant o ran hyrwyddo llesiant cadarnhaol ac iechyd corfforol, gyda diwylliant a threftadaeth yn achubiaeth i lawer o unigolion, cartrefi a chymunedau yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr hwn. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y maes iechyd i gyflawni'r fframwaith ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol a chyda chydweithwyr yn y byd addysg ar gynlluniau peilot i drawsnewid y diwrnod ysgol a chymorth i blant wrth ymateb i'r pandemig, er enghraifft drwy'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf a gweithgareddau Gaeaf Llawn Lles. Darperir cyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn gan gyllidebau'r gweinidogion perthnasol. Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau a fydd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol mae comisiynu fersiwn Gymraeg o'r Ap House of Memories, sy'n defnyddio casgliadau amgueddfeydd i gefnogi pobl â dementia, ac ymestyn y llyfrau a gynigir ar bresgripsiwn. Mae HARP - Iechyd, y Celfyddydau, Ymchwil a Phobl yn un enghraifft o ymyriadau celfyddydol i atal salwch, sy'n brosiect cydweithredol gyda'r GIG i ddatblygu dulliau newydd o ymdrin ag iechyd, llesiant a chreadigrwydd.

Mae’n bosibl i chwaraeon fod yn un o’r arfau ataliol gorau yng nghyswllt iechyd yn y wlad, ond mae angen mwy o flaenoriaethu ar draws sectorau i greu’r newidiadau cynaliadwy hirdymor mewn cyfranogiad. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol a'r Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach yn ddwy enghraifft o lwyddiant yn y maes hwn. Yn 2022-23, byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth drwy'r Gronfa Iach ac Egnïol, gan gefnogi sefydliadau sy'n mynd ati i hyrwyddo a galluogi gweithgaredd iach ar gyfer grwpiau poblogaeth sydd ag ychydig neu ddim gweithgaredd corfforol yn eu bywydau. Bydd Chwaraeon Cymru hefyd yn parhau i fuddsoddi cyllid ac adnoddau yng nghynllun cyflawni 'Pwysau Iach: Cymru Iach' Llywodraeth Cymru gan gynnwys cyflawni'r cynllun Hamdden Egnïol 60+.

**Y Rhaglen Cyfuno**

Mae'r gyllideb yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cymorth parhaus i'r Rhaglen Cyfuno a'i gwaith yn ymgysylltu ag unigolion a chymunedau mewn ardaloedd o amddifadedd. Er gwaethaf yr anawsterau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig, mae'r rhaglen Cyfuno wedi bod yn ddyfeisgar o ran dod o hyd i ffyrdd newydd o ymgysylltu ac annog gweithgareddau diwylliannol.

Yn 2022-23, rydym wedi dechrau adolygiad o fodel cyflawni rhaglen Cyfuno. Yn 2023-24, byddwn yn gweithredu ar argymhellion yr adolygiad hwn.

Nod rhaglen Cyfuno yw mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thlodi a llesiant drwy weithgarwch diwylliannol ac mae wedi parhau i ysgogi gweithgarwch ymgysylltu â chymunedau drwy ddyfeisio atebion arloesol a phwrpasol ar gyfer ymgysylltu ag unigolion a chymunedau, drwy ddefnyddio adnoddau digidol a darparu pecynnau o wybodaeth ddiwylliannol. Mae'r rhaglen yn parhau i gynnig cyfleoedd diwylliannol hollbwysig i unigolion a chymunedau leihau effeithiau tlodi, iechyd a lles.

**Cyfleoedd Cyflogaeth**

Mae’r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a’r Cynllun Cyflogadwyedd yn seiliedig ar dystiolaeth mai gwaith â chyflog da yw’r llwybr gorau allan o dlodi a’r amddiffyniad mwyaf yn erbyn tlodi i’r rhai sy’n wynebu risg. Drwy gefnogi swyddi a thwf cynaliadwy, yn enwedig gyda buddsoddiadau a chyfleoedd yn sgil Cymru Greadigol i weithio yn sectorau ehangach y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a chymryd camau i geisio lliniaru rhai o'r heriau sy'n wynebu pobl wrth gael gafael ar swyddi, ein nod yw lleihau'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd sy'n profi tlodi ac yn osgoi'r costau hirdymor i gymdeithas yn sgil tlodi. Rydym yn parhau

i greu cyfleoedd i unigolion a theuluoedd drwy fentrau a buddsoddiad wedi'i dargedu ledled Cymru.

**3.3 Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i ddarparu ar gyfer deddfwriaeth a allai gael effaith yn y flwyddyn ariannol <u>2023-24</u> fel y bo'n berthnasol i'r portffolio Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth.**

Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i'r Senedd ym mis Gorffennaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfraith amgylchedd hanesyddol Cymru fel pwnc addas ar gyfer un o’i phrosiectau cyntaf mewn rhaglen uchelgeisiol i wella mynediad at ddeddfwriaeth Cymru. Bydd y Bil yn cydgrynhoi’r prif ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Er y gall strwythur a mynegiant y gyfraith fod yn wahanol ar ôl cydgrynhoi, bydd ei heffaith gyfreithiol yn aros yr un fath. Ni fydd unrhyw newidiadau polisi yn y Bil. O ganlyniad, mae

goblygiadau ariannol y Bil yn rhai trosiannol a lleiaf posibl ac yn cynnwys diweddaru canllawiau, ffurflenni, gwefannau a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth ddwyieithog newydd.

**3.4 Goblygiadau effaith barhaus pandemig COVID-19, ymadawiad y DU â'r UE a'r argyfwng costau byw ar bortffolios y Celfyddydau, Diwylliant, Treftadaeth, y Diwydiannau Creadigol a Chwaraeon a'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r effaith barhaus.**

Efallai y bydd llai o ymwelwyr, yn enwedig ymwelwyr tramor, yn cael effaith andwyol ar Cadw, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Phortffolio Celfyddydau Cymru. Bydd y sefyllfa hon yn parhau i gael ei monitro'n fanwl. Er enghraifft, mae’r cyfyngiadau oherwydd y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar nifer yr ymwelwyr a lefelau'r incwm masnachol yn safleoedd Cadw dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, bu adferiad cryf yn y ffigurau hyn o haf 2021 ymlaen pan gafwyd tymor twristiaeth da yng Nghymru, a disgwyliwn i hyn barhau ar yr amod nad oes rhagor o gyfyngiadau sylweddol. Mae hyn wedi'i ddiogelu drwy ddyraniadau ychwanegol ar gyfer Covid.

Mae sectorau'r celfyddydau a diwylliant lleol wedi elwa o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, a ffynonellau eraill o arian i liniaru effeithiau Covid gan gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd a'r cynllun ffyrlo.  Mae’n rhy gynnar i asesu effaith lawn y pandemig ar y sectorau diwylliannol a chelfyddydol.  Roedd y sector ymhlith yr olaf i ailagor ac mae effaith y pandemig yn debygol o gael ei theimlo am beth amser a hyd nes y bydd hyder y cyhoedd yn dychwelyd.  Rydym wedi gweld gostyngiadau yn nifer yr ymwelwyr a gwirfoddolwyr.

Dros y blynyddoedd, mae'r portffolio wedi elwa'n fawr o gyllid yr UE ar gyfer prosiectau penodol. Ar gyfer Cadw dim ond cyllid Ewropeaidd cyfyngedig sydd wedi'i sicrhau yn ystod y blynyddoedd diweddaraf; ond yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth y DU yn aros am eglurder ynghylch i ba raddau y bydd llinellau sylfaen yn cael eu hymestyn i ddisodli cyllid yr UE, a sut y bydd trefniadau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gweithio.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fyddai rhaglen a fyddai'n cymryd lle Ewrop Greadigol yn elwa o gyllid uniongyrchol fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant. Ni ddarparwyd cymorth uniongyrchol ar gyfer yr elfen Diwylliant ond mae'r elfen greadigol ffilm a sgrin wedi cael cymorth. Erys cyfleoedd i fanteisio ar gronfa gyfyngedig iawn drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Disodlwyd y rhaglen Ewrop Greadigol gan y Gronfa Sgrin Fyd-eang a gynhaliwyd fel peilot gwerth £7 miliwn yn 2021-22 o dan y Ddeddf Marchnad Fewnol. Er bod nifer bach o fusnesau Cymru wedi elwa o'r rhaglen hon, mae swyddogion wedi darparu adborth yn gyson i'r Adran Dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch yr angen i wledydd datganoledig chwarae mwy o ran yn y broses o sefydlu a chyflawni'r rhaglen. Yn yr Adolygiad diweddar o wariant, dyrannwyd £42 miliwn arall i'r diwydiannau creadigol dros y 3 blynedd nesaf sy'n cynnwys parhad y Gronfa Sgrin Fyd-eang. Mae swyddogion yn parhau i drafod y broses o sefydlu a chyflawni hyn er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf i Gymru. Hyd yma, ni chyflwynwyd dim i ddisodli'r is-raglen ddiwylliannol Ewrop Greadigol yn uniongyrchol ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a gwledydd datganoledig eraill i godi materion a nodi opsiynau ar gyfer darparu cymorth i'r sector.

Mae costau cynyddol yn parhau i effeithio ar sectorau ar draws y diwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys darlledwyr a chynyrchiadau Ffilm a Theledu sy'n pryderu bod costau uwch a materion chwyddiannol yn ychwanegu at heriau cyllidebol presennol ac effeithiau ehangach ar hyfforddeion ar gynyrchiadau sgrin sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi â chostau byw. Mae costau cynyddol sy'n gysylltiedig â phrisiau ynni a chost deunyddiau hefyd yn effeithio ar y sector cerddoriaeth a'r sectorau cyhoeddi.

**3.5 Gwybodaeth am ddyraniadau yn eich portffolio i gyflwyno Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru**

Mae £5m wedi'i ddyrannu dros dair blynedd er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd, gan gynnwys £1.2m yn 2022-23. Mae'r dyraniad hwn yn ychwanegol at yr £11.75m ychwanegol a ddyrannwyd i'r pum corff hyd braich a Cadw er mwyn cefnogi'r strategaeth (£11.75m dros dair blynedd).

Mae'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth newydd yn mynd rhagddo a disgwylir iddi gael ei chyflwyno yn ystod 2023. Mae cwmpas y strategaeth ddiwylliant newydd yn cynnwys y celfyddydau, diwylliant (amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd), a threftadaeth, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth anniriaethol. Bydd Grŵp Llywio cyffredinol yn monitro ac yn herio'r ffordd y mae'r strategaeth yn cael ei datblygu. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys naw partner allanol, sy'n cynrychioli rhai o'r sectorau a gwmpesir a rhai themâu trawsbynciol drwy eu profiadau bywyd a'u profiadau proffesiynol. Mae'r Means Ltd, ynghyd ag Arad Consulting a BOP Consulting, hefyd wedi'u penodi'n bartner allanol arweiniol i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ymgysylltu a datblygu'r strategaeth.

Ar gyfer 2023-24 a 2024-25, defnyddir y dyraniadau refeniw er mwyn helpu i roi'r argymhellion yn y strategaeth a'r trefniadau ymgysylltu a gwerthuso newydd ar waith. Caiff y rhain eu pennu pan benderfynir ar flaenoriaethau'r Strategaeth.

**Meysydd penodol:**

**<u>Cadw</u>**

**3.6 Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â Cadw gan gynnwys targedau creu refeniw, a ffigurau creu incwm blynyddol diweddar.**

Y ffigur incwm masnachol ar gyfer 2019-20, yn union cyn y pandemig, oedd £8m – sef yr incwm mwyaf a gofnodwyd erioed ar gyfer Cadw. Mae incwm wedi cynyddu'n sylweddol ers i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, i'r ffigur gwirioneddol o £6.5m ar gyfer 2021-22, a ffigur rhagamcanol o £9.2m ar gyfer y flwyddyn hon.

Mae Cadw yn cwblhau gwaith mawr ar gastell Caernarfon ar hyn o bryd a disgwylir i waith mawr ddechrau yng nghastell Caerffili er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr ac, felly, y ffigurau ar gyfer incwm masnachol yn y dyfodol. Bydd y gyllideb gyfalaf o £10 miliwn y flwyddyn ar gyfer y dyfodol yn galluogi i'r gwaith hwn gael ei gwblhau; ynghyd â gwaith cadwraeth ar rai o safleoedd eraill Cadw a buddsoddiad sylweddol ynddynt.

Bydd y cyllid refeniw ychwanegol a ddyrannwyd yn ei gwneud yn bosibl i Cadw ddelio â phwysau chwyddiannol ar gyflogau a chostau eraill, yn enwedig costau cyfleustodau a chostau cynnal a chadw safleoedd. Mae rhai pryderon am yr effaith y gallai'r argyfwng costau byw ei chael ar niferoedd ymwelwyr a gwariant manwerthol.

Yn fwy cyffredinol, mae Cadw yn gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru'n cael ei ddiogelu'n dda. Mae'n gofalu am 130 o henebion ledled Cymru ac yn rhoi mynediad i'r cyhoedd iddynt. O blith y rhain, mae 29 yn safleoedd â staff ac mae'r gweddill yn safleoedd mynediad agored am ddim. Mae gwariant cyfalaf ar gadwraeth henebion yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig hefyd.

**3.7 Dyraniadau at gyllid ar gyfer perchenogion asedau hanesyddol**

*Mae mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig a 4,200 o henebion cofrestredig yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif mewn perchnogaeth breifat. Mae'r rhan fwyaf o'r perchnogion hynny'n gofalu'n gydwybodol am eu heiddo, sy'n cynrychioli etifeddiaeth werthfawr ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.*

Mae Cadw wedi cyhoeddi ystod eang o ganllawiau a deunydd cyfeirio at gyllid grant sydd ar gael y gellir eu lawrlwytho'n ddi-dâl o wefan Cadw. Mae swyddogion Cadw bob amser yn fwy na pharod i roi cyngor ar ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag asedau hanesyddol, ond cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw ymholiadau penodol yn ymwneud â rheoli adeiladau rhestredig. Fodd bynnag, os bydd gwaith arfaethedig neu faterion eraill yn codi cwestiynau anodd, mae fy swyddogion yn hapus i gynnig cyngor drwy gyfrwng trafodaethau cyn gwneud cais sy'n cynnwys pob parti.

Nid yw rhestru adeilad neu gofrestru heneb yn golygu hawl i gymorth grant. Fel gydag unrhyw adeilad, mater i'r perchennog yw'r atebolrwydd o ran cynnal a chadw. Fodd bynnag, mae gan Cadw gynlluniau grant sy'n seiliedig ar amcanion craidd ein strategaeth genedlaethol - *Ffyniant i Bawb*. Gwneir dyfarndaliadau gwerth am arian ar sail amcangyfrifon wedi'u costio a gyflwynir gan yr ymgeisydd, wedi'u hasesu gan Arolygwyr Cadw.

Mae gan Cadw y cynlluniau grant cyfalaf a ganlyn:

**Grantiau Cyfalaf ar gyfer Adeiladau Hanesyddol –** ar gyfer atgyweirio adeiladau rhestredig sydd mewn perygl neu dan fygythiad; er mwyn diogelu eu harwyddocâd, gwella eu cyflwr a chefnogi'r defnydd buddiol ohonynt. Rhoddir blaenoriaeth i adeiladau rhestredig yng nghanol cymunedau a all roi mynediad at dreftadaeth i amrywiaeth eang o bobl a sicrhau manteision cyhoeddus megis defnydd cymunedol, gwella amwynder gweledol, cyfrannu at hyfywedd economaidd neu ysgogi cyfleoedd adfywio.

**Grantiau ar gyfer Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Adeiladau Hanesyddol** – ar gyfer mân waith cynnal a chadw ac atgyweirio i gadw asedau cymunedol hanesyddol, megis neuaddau pentref a neuaddau cymunedol, sefydliadau, llyfrgelloedd, cofebau rhyfel a mannau addoli sydd wedi'u rhestru oherwydd eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac sydd ar agor at ddefnydd cymunedol ehangach, mewn cyflwr da.

**Gwaith Brys ar gyfer Adeiladau mewn Perygl -** Grantiau gan Awdurdodau Lleol i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â pharatoi a chyflwyno Hysbysiadau Gwaith Brys er mwyn diogelu cyflwr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl neu dan fygythiad.

**Grantiau ar gyfer Henebion Hynafol** – Gall henebion hynafol amrywio o siambrau claddu Neolithig i Adeiladau sy'n dyddio o'r chwyldro diwydiannol. Mae llawer dan fygythiad ac rydym yn cydnabod y gall gwaith atgyweirio fod yn gostus neu ei bod yn bosibl na fydd er budd ariannol perchennog yr heneb bob amser.

**Grantiau ar gyfer Parciau a Gerddi Hanesyddol –** er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio a gweithredu cynlluniau rheoli cadwraeth ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig sy'n eiddo cyhoeddus neu gymunedol neu sy'n rhoi mynediad llawn i'r cyhoedd ac yn helpu i sicrhau manteision cymunedol ehangach.

**3.8 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan gynnwys targedau creu refeniw.**

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac  yn sefydliadau diwylliannol pwysig ac uchel eu proffil.

Maent yn rhagweithiol o ran cyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth ac ymgysylltu â phobl Cymru mewn gweithgareddau diwylliannol yn ogystal â bod yn hwyluswyr pwysig ar gyfer cyflwyno diwylliant Cymreig yn rhyngwladol.

Mae ein cyrff hyd braich yn wynebu costau uwch ar gyfer cyfleustodau a phrosiectau cyfalaf. Mae'r sefyllfa yn arbennig o ddifrifol i'r rhai sydd ag ystadau hanesyddol (Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol) sydd wedi gweld cynnydd mawr iawn mewn costau. Mae pob corff, gan gynnwys yr Amgueddfa a'r Llyfrgell, hefyd yn wynebu pwysau chwyddiannol sylweddol ynghyd â chodiadau cyflog. Felly, rydym wedi darparu cyllid ychwanegol ar gyfer pwysau cyflog a phwysau chwyddiannol er mwyn helpu'r cyrff i ymdopi â phwysau chwyddiannol costau byw.

Bydd y cymorth grant refeniw a roddir i'r ddau gorff yn cynyddu. Ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol nesaf, rydym wedi darparu cyllid wedi'i glustnodi ychwanegol am gyfnod penodol er mwyn helpu cyrff i ymdopi â phwysau ychwanegol sy'n ymwneud â chyflogau, costau byw a chyfleustodau. Rhoddir cyllid ychwanegol pellach i bob un o'r Cyrff Hyd Braich er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Cytundeb Cydweithio, gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol. Er bod pwysau pellach sy'n ymwneud â chwyddiant yn dal i fod yn destun pryder yn ystod y cyfnod hwn, bydd y cyllid ychwanegol hwn yn helpu i gefnogi'r sefydliadau yn 2023-24 a 2024-25.

Mae'r Llyfrgell yn gwneud yn dda o ran denu rhoddion a chymynroddion elusennol ond mae'r targed cynhyrchu incwm masnachol yn heriol, gyda llai o opsiynau ar y safle ar gyfer cynhyrchu refeniw o gymharu â'r Amgueddfa sydd â siopau a'i chaffis ar saith safle. Nid yw Amgueddfa Cymru yn codi tâl – mae darparu mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfa Cymru yn parhau i fod yn ymrwymiad gan y Llywodraeth. Mae hwn yn bolisi pwysig o ran dileu'r rhwystrau i gyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol ar gyfer pobl o gefndiroedd difreintiedig a/neu'r rhai ar incwm isel. Mae'n annog ymweliadau mynych a defnydd cymunedol o safleoedd a chyfleusterau Amgueddfa Cymru. Mae'r Amgueddfa yn ystyried y ffordd orau o ariannu ei gweithgareddau, yn arbennig yng ngoleuni pwysau costau byw.

Bydd y Llyfrgell Genedlaethol yn cael cyfalaf gwerth £2m yn 2023/24 ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol, sy'n ostyngiad bach eleni o ystyried ymrwymiadau blaenorol. Bydd cyllid ychwanegol pellach o Linell Wariant yn y Gyllideb 6170 Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau digideiddio a datgarboneiddio fynd yn eu blaen.

Bydd Amgueddfa Cymru yn cael cyfalaf gwerth £5m yn 2023/24 er mwyn ariannu gwaith cynnal a chadw, ei helpu i ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu mewn adeiladau hanesyddol a chadw ein casgliadau cenedlaethol yn ddiogel a bodloni'r gofyniad i barhau i roi mynediad diogel i'r cyhoedd tra bydd gwaith cynnal a chadw yn mynd yn ei flaen, ynghyd â dyraniad pellach o Linell Wariant yn y Gyllideb Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol er mwyn i weithgarwch datgarboneiddio allu mynd yn ei flaen. Bydd gwybodaeth ar gael yn y Gyllideb Atodol Gyntaf.

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**

Mae gan y Comisiwn rôl genedlaethol flaenllaw wrth ddatblygu gwerthfawrogiad o amgylchedd archeolegol, adeiledig a morol Cymru. Mae'r Comisiwn yn gofalu am gasgliad helaeth ac unigryw o ffotograffau, mapiau, delweddau, cyhoeddiadau ac adroddiadau gyda chymorth tîm o staff arbenigol ac mae'n darparu cynnwys, gwasanaethau ac adnoddau digidol o ansawdd uchel sydd ar gael yn gyfleus i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Yn 2023/24 bydd y refeniw a ddarperir i'r Comisiwn Brenhinol yn cynyddu i £60k, sy'n adlewyrchu dyraniad ychwanegol ar gyfer pwysau costau byw. Yn 2023/24, rydym wedi ailgadarnhau ein dyraniad cyfalaf o£0.05m, ynghyd â dyraniad ychwanegol o Linell Wariant yn y Gyllideb 6170 Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol.

**3.9 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Strategaethau Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd.**

Mae cyfanswm dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol yn cynnwys refeniw gwerth £6.429m a chyfalaf gwerth £21.5m, heb gynnwys cymorth i Gyrff Hyd Braich a Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a nodir yn y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb perthnasol. Yn 23/24, mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer amgueddfeydd lleol yn y sector annibynnol a llyfrgelloedd cymunedol i'w helpu i ymdopi â phwysau costau byw.

Rydym wedi rhoi diweddariad uchod mewn perthynas â'r Strategaeth Ddiwylliant. Bydd hyn yn ganolog i fuddsoddiad yn ein sectorau diwylliant lleol yn y dyfodol.

Byddwn yn ymestyn ein rhaglen Grantiau Trawsnewid Cyfalaf i ariannu ystod ehangach o brosiectau a phrosiectau mwy amrywiol o ran gwerth, gan gynnwys prosiectau digidol, i gefnogi datgarboneiddio a’r rhai sy'n hybu cydraddoldeb. Mae cyllid ar gyfer hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb diwylliant lleol a chwaraeon.

**3.10 Cyllid a ddyrannwyd i weithredu yn ôl argymhellion yr Adolygiad o Amgueddfeydd Lleol**

Bydd argymhellion yr Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru-2015 yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ddiwylliant. Byddwn yn ystyried y ffaith bod yr amgylchedd y mae amgueddfeydd lleol bellach yn gweithio ynddo wedi newid yn sylweddol ers cyhoeddi'r Adolygiad.
Roedd hyfywedd yr argymhellion allweddol yn dibynnu ar greu tri chorff rhanbarthol. Mae hwn yn parhau i fod yn benderfyniad i awdurdodau lleol ledled Cymru. Archwiliodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad ymhellach drwy’r astudiaeth ddichonoldeb ‘Creu a Rhedeg Strwythur Amgueddfa Ranbarthol’, a gwblhawyd yn haf 2019. Roedd yr Adolygiad gwreiddiol a’r astudiaeth ddichonoldeb hon yn cydnabod bod goblygiadau sylweddol o ran cost yn gysylltiedig â'r argymhellion ac ers 2015 nid oedd awdurdodau lleol o’r farn bod creu cyrff rhanbarthol yn flaenoriaeth.

**3.11 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Chyngor Celfyddydau Cymru**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn sefydliad diwylliannol pwysig ac uchel ei broffil. O dan egwyddor cyllido hyd braich, caiff ein prif fuddsoddiad yn y celfyddydau yng Nghymru ei sianelu drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Yn 2023/24, mae cyllid wedi'i glustnodi ychwanegol am gyfnod penodol wedi'i ddyrannu er mwyn helpu'r sefydliad i ymdopi â phwysau costau byw a chyflawni ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio. Mae'r cynnydd costau byw o £6m yn galluogi cymorth gyda dyfarniad cyflog i staff ynghyd â chyfraniad at sefydliadau a ariennir. Rydym wedi dyrannu cyllid tuag at waith cynnal a chadw mewn theatrau, neuaddau cyngerdd a lleoliadau perfformio o Linell Wariant yn y Gyllideb 6170 yn ogystal ag ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. Caiff cyllid i gefnogi'r gwaith o ailddatblygu Theatr Clwyd ei ddarparu hefyd drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

**3.12 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i hyrwyddo mynediad at y celfyddydau**

Gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru, byddwn yn parhau i gefnogi a hyrwyddo’r cyfraniad hanfodol y mae’r celfyddydau yn ei wneud i Gymru, i feithrin amgylchedd lle y gall y celfyddydau ffynnu – amgylchedd sy’n nodi ac yn meithrin talentau creadigol, ble bynnag y bont yng Nghymru, i'w llawn botensial. Mae blaenoriaethau penodol ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys hyrwyddo cydraddoldebau fel sylfaen ymrwymiad clir i ymestyn yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru a chryfhau gallu a gwytnwch y sector, gan alluogi talentau creadigol i ffynnu.

Mae cynyddu ac amrywio lefelau mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn Llythyr Cylch Gwaith y Llywodraeth i Gyngor y Celfyddydau. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i gymorth grant i ddarparu cyllid craidd i sefydliadau celfyddydol strategol ac rydym yn disgwyl iddynt barhau i flaenoriaethu gwaith sy'n ymwneud â mynediad a gwaith ymgysylltu. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi nodi bod 'tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant' yn flaenoriaeth allweddol i'r Adolygiad Buddsoddi sy'n dal i fynd rhagddo ac a fydd yn agor ar gyfer ceisiadau ym mis Ionawr 2023, yn dilyn proses ymgynghori eleni.

Mae ein buddsoddiad mewn prosiectau cyfalaf diwylliannol mawr, yn enwedig yn Theatr Clwyd a'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a darparu gwell mynediad, gan gynnwys i ogledd a chanolbarth Cymru.

**3.13 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i ddefnyddio'r celfyddydau a diwylliant i drechu tlodi.**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bartner strategol allweddol yn y rhaglen Cyfuno, gan gefnogi sefydliadau i gymryd rhan drwy ddarparu cyngor ymarferol a chyflwyno partneriaid Cyfuno ac artistiaid/sefydliadau celfyddydol i'r naill a'r llall yn eu hardaloedd.

Yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad annibynnol o Raglen Cyfuno, rydym yn cynnig y dylid cynyddu'r cyllid a ddarperir fel y gellir ymestyn y rhaglen i gynnwys pob awdurdod lleol sydd am gymryd rhan ynddi.

**3.14 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â chyllid i annog/alluogi sefydliadau'r celfyddydau i greu rhagor o'u hincwm eu hunain.**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnig cyfle i unrhyw sefydliad wneud cais am gyllid datblygu busnes drwy raglen Creu sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn. Mae'r mathau hyn o geisiadau yn aml yn canolbwyntio ar y ffordd y mae sefydliad yn gweithredu ac, yn gysylltiedig â hynny, y ffordd y mae ei fodel ariannol yn gweithio a sut y gellir ei wella.

Mae pob un o'n ceisiadau am grant yn gofyn am gyllideb ac ystyrir hyn fel rhan o'r broses. Mae bron pob cais yn gofyn i'r sefydliad godi cyfran o'i gyllid ei hun ac mae hyn hefyd yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad.

Byddwn yn parhau i gefnogi Celfyddydau a Busnes Cymru, gan ei fod yn darparu cyswllt hanfodol rhwng busnes a'r celfyddydau, gan gynhyrchu arian i gefnogi artistiaid.  Caiff cymorth ar gyfer y rhaglen ei adolygu unwaith y bydd adolygiad buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i gwblhau.

**<u>Cymru Greadigol – Y cyfryngau a darlledu</u>**

**3.15 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â Cymru Greadigol (gan gynnwys cyllid i'w ddosbarthu gan Cymru Greadigol).**

Cyfanswm y dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft dros dair blynedd ar gyfer Cymru Greadigol yw £21.364 miliwn o refeniw a £15 miliwn o gyfalaf (gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru). Yn 2022-23 cyfanswm dyraniad cyllidebol Cymru Greadigol yw £7,038m mewn refeniw a £5m mewn cyfalaf (£12,038m).

Mae ein buddsoddiad yn canolbwyntio ar sectorau â blaenoriaeth y sgrin (Ffilm a Theledu), cerddoriaeth, digidol a chyhoeddi ochr yn ochr â'r ymrwymiadau i'r sector darlledu a'r sector newyddiaduriaeth a nodir yn y Cytundeb Cydweithio.

Lansiwyd ein model cyllido cynyrchiadau newydd ym mis Mai eleni. Nod y cynllun yw cefnogi twf Cymru fel cyrchfan ar gyfer cynhyrchu deunydd o'r radd flaenaf. Mae'r cyllid yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu a chwmnïau datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau a fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol yn ogystal ag ar gyfer y cynyrchiadau hynny o'r tu allan i Gymru sy'n awyddus i ffilmio yng Nghymru. Mae'r cynllun newydd yn debyg iawn i'r cyllid blaenorol a ddarparwyd o dan 'Gronfa Sgrin Cymru' ond, yn ogystal â chefnogi cynyrchiadau Teledu a Ffilm, mae bellach yn cefnogi gemau cyfrifiadurol hefyd.

O ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cynyrchiadau sy'n awyddus i ffilmio yng Nghymru, mae gennym flaenoriaeth strategol hefyd i fuddsoddi yn ein seilwaith stiwdios. Mae Cymru Greadigol wedi buddsoddi yn Stiwdios Aria ar Ynys Môn yn ddiweddar. Mae gan y cyfleuster newydd, a redir gan y tîm sy'n gyfrifol am Rondo Media, ddau lwyfan acwstig sydd â chyfanswm arwynebedd o 20,000 o droedfeddi sgwâr a hwn yw'r unig gyfleuster o'i fath yn yr ardal. Mae un o'r stiwdios yn gartref i gyfres ddrama S4C, Rownd a Rownd, sydd wedi bod yn cael ei darlledu ers blynyddoedd lawer. Er ei fod yn llai na'r stiwdios uchel eu proffil yn Ne Cymru, mae gan y cyfleuster hwn yr holl gyfarpar angenrheidiol a bydd yn darparu safle gwych i gynyrchiadau sydd am ffilmio ledled Gogledd Cymru. Disgwylir i'r stiwdio agor o fewn ychydig wythnosau.

Rydym yn parhau i ddarparu cyllid er mwyn cefnogi'r sector cerddoriaeth fasnachol, gyda chyfalaf gwerth £524,203 i gefnogi lleoliadau, stiwdios recordio ac ystafelloedd ymarfer. Rydym hefyd wedi darparu refeniw gwerth £149k er mwyn cefnogi labeli cerddoriaeth a busnesau rheoli cerddoriaeth.

Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer darlledu a'r cyfryngau yn cefnogi camau gweithredu i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru ac archwilio creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol, fel y nodir yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru. Mae angen gwneud rhagor o waith i gytuno ar sut y caiff y cyllid ychwanegol ei wario, ond ei nod fydd cefnogi lluosogrwydd y cyfryngau a mynediad at gynnwys effeithiol, cywir a pherthnasol i ddinasyddion Cymru ar draws platfformau'r cyfryngau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn ceisio mewnbwn ar ein defnydd o'r buddsoddiad ychwanegol gan Weithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru ac yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r gronfa beilot a gyflwynwyd yn 2022-23 i ddarparu argymhellion i Weinidogion ar sut y dylid dyrannu cyllid ychwanegol.

Mae cymorth i ddatblygu sgiliau a thalent yn y diwydiannau creadigol yn un o'r ymrwymiadau yn y *Rhaglen Lywodraethu* ac mae Cymru Greadigol yn ymrwymedig i gefnogi a meithrin y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.

Rhoddodd Panel Cynghori ar Sgiliau Creadigol wedi'i arwain gan y diwydiant gyngor ar Gynllun Gweithredu ar Sgiliau Creadigol tair blynedd ar gyfer y sector cerddoriaeth, y sector cynnwys digidol a sector y sgrin yng Nghymru a nododd 10 blaenoriaeth, sef:

- Hyfforddiant Busnes ac Arweinyddiaeth
- Cefnogi Talentau
- Gwella Recriwtio Amrywiaeth a Recriwtio Cynhwysol
- Lleoliadau a Chyfleoedd Lefel Mynediad
- Lleoliadau a Chyfleoedd Uwchsgilio
- Addysg a'r Cwricwlwm Newydd
- Ymwybyddiaeth Gyrfaoedd
- Arloesi
- Pontio'r Bwlch rhwng Addysg Bellach/Addysg Uwch a'r Diwydiant
- Lles y Gweithlu a Chefnogaeth i Weithwyr Llawrydd

Lansiwyd Cronfa Sgiliau Creadigol gwerth £800,000 ochr yn ochr â'r Cynllun ar 21 Medi 2022 er mwyn cefnogi prosiectau sy'n cyflawni'r 10 blaenoriaeth sy'n ymwneud â sgiliau a nodir yn y Cynllun Gweithredu. Mae'r Gronfa a'r Cynllun Gweithredu yn cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Corff Sgiliau Creadigol. Daeth Cais am Gyllid y Gronfa Sgiliau Creadigol i ben ar 7 Tachwedd 2022 gyda 45 o geisiadau wedi'u cyflwyno. Mae'r ceisiadau hyn yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd.

Mae amrywiaeth a chynwysoldeb wedi'u gwreiddio yn ein holl weithgarwch ac mae Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol wedi pennu hyn yn brif flaenoriaeth iddo. Mae uchelgeisiau Cymru Greadigol i greu sector diwydiannau creadigol mwy amrywiol a chynhwysol yng Nghymru yn cyd-fynd yn glir ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i sicrhau'r tegwch mwyaf i bawb, dileu cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth. Byddwn yn cefnogi cyflawni'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft. Rydym eisiau canlyniadau mwy cyfartal ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Bydd Cymru Greadigol yn cyflawni yn erbyn nifer o'r nodau a'r camau gweithredu a nodir yn y ddogfen.

Pan fydd Cymru Greadigol yn darparu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyrchiadau, digwyddiadau a gwobrau, rydym yn sicrhau bod cwmnïau a sefydliadau yn hyrwyddo Llywodraeth Cymru a Cymru Greadigol yn eu gweithgareddau marchnata a chyfathrebu.

**3.16 Diweddariad ar gynlluniau i roi rhagor o gymorth i newyddiaduraeth Saesneg "yn debyg i fodel y Gymraeg".**

Yn 2021/22, cafodd newyddiaduraeth gymunedol annibynnol ei chefnogi drwy ddyfarnu £100,000 i PING! News i ddarparu Cronfa Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru. Mae'r Gronfa hon wedi'i darparu yn 2022/23 a, hyd yma, mae'r gronfa wedi helpu saith cyhoeddiad o bob rhan o Gymru i gynyddu darpariaeth newyddion er lles y cyhoedd sy'n berthnasol i'r ardal leol a hyrwyddo twf yn y sector newyddion cymunedol yng Nghymru.

Caiff penderfyniadau ar y gyllideb ar gyfer newyddiaduraeth eu gwneud mewn ymateb i wersi a ddysgwyd o gyllid a ddarperir yn 2022/23 ac wrth ystyried argymhellion Gweithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru a gaiff eu cyhoeddi ar ddechrau 2023.

**3.17 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad ag unrhyw gyllid ar gyfer y cyfryngau a darlledu.**

Yn 2022-23 dyfarnwyd cyfanswm o £3,960 miliwn i Gyngor Llyfrau Cymru i gefnogi'r sector cyhoeddi yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cyllid refeniw ar gyfer y Gwasanaeth Newyddion Cymraeg Digidol a darparwyd £135,000 hefyd drwy gyllideb y Cytundeb Cydweithio er mwyn cefnogi cylchgronau Cymraeg. Yn 2023-24 mae cyllideb flynyddol o £3,960 miliwn wedi'i neilltuo er mwyn parhau i gyllido mentrau Cyngor Llyfrau Cymru, gan gynnwys y Gwasanaeth Newyddion Digidol Cymraeg. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r BBC a S4C i lywio comisiynau ar y cyd a chefnogi mwy o waith partneriaeth ar faterion sy'n ymwneud â darlledu a chyfloedd cyllido i sefydliadau yng Nghymru. Mae dyraniadau ychwanegol yn cynnwys y cyllid ar gyfer y cyfryngau a darlledu a ddarparwyd o'r Cytundeb Cydweithio. Bydd gwaith parhaus Gweithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru, yn darparu mecanwaith pwysig ar gyfer nodi cyfleoedd ychwanegol i gefnogi'r sector drwy'r cyllid hwn.

**3.18 Manylion gwariant o'r Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol, gan gynnwys sut y gwnaed y penderfyniadau cyllido hyn, a pha ganlyniad y bwriedir iddynt ei gyflawni.**

Mae’r Gronfa Newyddiaduraeth Gymunedol Annibynnol bellach wedi cau ac ni ddarparwyd cyllid iddi yn y flwyddyn ariannol 2022-23. Roedd y Gronfa ar agor i geisiadau rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, a darparwyd cyllid brys COVID-19 ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 i Hydref 2020.

**3.19 Dyraniadau a sylwebaeth mewn cysylltiad â'r camau gweithredu sy'n ymwneud â darlledu a chyfathrebu a nodir yn y Cytundeb Cydweithio a'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni.**

Yn 2022-23 mae cyfanswm o £1.035m wedi'i neilltuo er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau sy'n ymwneud â darlledu a newyddiaduraeth yn y Cytundeb Cydweithio, fel a ganlyn:

| Gweithgaredd | Cyllid |
|---|---|
| Rhaglen ymchwil y panel arbenigol | £50,000 |
| Cymorth i ddatblygu llwyfan AM | £170,000 |
| Cymorth ychwanegol ar gyfer Cronfa Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru a phrosiectau newyddiaduraeth wedi'u targedu | £200,000 |
| Cymorth ychwanegol ar gyfer cylchgronau Cymraeg drwy Gyngor Llyfrau Cymru | £135,000 |
| Cyllid i ddatblygu ffilmiau Cymraeg drwy Ffilm Cymru | £180,000 |
| Cyllid i gyflwyno Cronfa Cynnwys Cynulleidfaoedd Ifanc Cymru | £300,000 |

Yn 2023-24, mae cyllideb flynyddol o £1m ar gyfer darlledu a £100,000 ar gyfer newyddiaduraeth wedi'i neilltuo, fel y nodir yng nghyllideb y Cytundeb Cydweithio. Bydd y gyllideb ar gyfer darlledu yn cefnogi gweithgarwch parhaus y Panel Arbenigol ar Sefydlu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru, gan gynnwys gweithgarwch a gwariant ymchwil parhaus sy'n cyd-fynd â'i argymhellion a gaiff eu cyhoeddi yn 2023. Caiff penderfyniadau ar y gyllideb ar gyfer newyddiaduraeth eu gwneud mewn ymateb i wersi a ddysgwyd o gyllid a ddarperir yn 2022/23 ac wrth ystyried argymhellion Gweithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru a gaiff eu cyhoeddi ar ddechrau 2023. Bwriedir i gyllid gefnogi'r gwaith o ddatblygu argymhellion i gefnogi gwelliannau yn y fframwaith darlledu a chyfathrebu yng Nghymru, cau'r bwlch gwybodaeth a datblygu mentrau presennol a newydd er mwyn gwella newyddiaduraeth yng Nghymru a chefnogi'r cyfryngau yng Nghymru.

**<u>Cymorth ar gyfer cynyrchiadau ffilm a theledu</u>**

**3.20 Y ffigurau refeniw diweddaraf a'r rhagamcaniad refeniw, a'r cyfraddau meddiannaeth ar gyfer Stiwdios Pinewood/Seren Stiwdios ers dechrau’r Cytundeb Gwasanaethau Rheoli ym mis Tachwedd 2017.**

Dechreuodd prydles Great Point ar gyfer Seren Stiwdios ar 1 Hydref 2020 a, hyd yma, rydym wedi cael:

01.10.20 – 30.09.21 - £319,000

01.10.21 – 30.09.22 - £478,000

01.10-22 hyd yma - £638,000

Mae'r tenant yn atebol am yr holl wariant ar y safle. Mae'r stiwdio wedi bod cynnal dau gynhyrchiad mawr hyd yma, sef HAVOC ar gyfer Netflix a Black Cake ar gyfer Hulu (sy'n dal i ffilmio ar hyn o bryd).

**3.21 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiadau, yr elw o ganlyniad i fuddsoddiadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i ddadansoddi yn ôl prosiect).**

I gadarnhau, adenillwyd cyfanswm o £981,471.70 yn 2022/2023 drwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau, sef cronfa fuddsoddi fasnachol ar gyfer y teledu a ffilm. Mae'r gronfa bellach wedi cau ac mae wedi bod felly ers sawl blwyddyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â thrafodaethau ynghylch achos cyfreithiol i adennill buddsoddiad a wnaed yn Trampires.

Ceir crynodeb o'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn **Atodiad C**

**3.22 Y ffigurau diweddaraf ar gyfer Cronfa Sgrin Cymru, gan gynnwys cyfanswm y buddsoddiadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i ddadansoddi yn ôl prosiect).**

Ers i Cymru Greadigol gael ei sefydlu ym mis Ionawr 2020, llwyddwyd i ddyfarnu cyllid cynhyrchu gwerth £14.5m ar gyfer 24 o brosiectau sydd wedi cynhyrchu gwariant cynhyrchu gwerth mwy nag £158.8m ar gyfer economi Cymru.

Sicrhawyd 231 o leoliadau â thâl i hyfforddeion ar gynyrchiadau a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ers mis Ionawr 2020.

Darperir rhestr o'r prosiectau yn **Atodiad D.**

**3.23 Y ffigurau diweddaraf ynghylch benthyciad Llywodraeth Cymru i Stiwdios Bad Wolf gan gynnwys cyfanswm yr ad-daliadau a gwariant yng Nghymru (wedi'i feincnodi yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru).**

Cyfanswm gwerth y buddsoddiad yn Stiwdios Bad Wolf yw £20.447 miliwn (gyda £2.1 miliwn eto i'w dynnu i lawr). Ym mis Tachwedd 2021 roedd gwariant gwirioneddol Cymru yn £133.496 miliwn yn erbyn y targed gwreiddiol o £133 miliwn. Cyfanswm y llog sy'n ddyledus ar y trefniant benthyca yw £1.064 miliwn a bydd yr ad-daliadau'n dechrau yn 2020-21. **Mae Bad Wolf wedi ad-dalu £463,327 o'r benthyciad llog ac mae ganddo falans o £600,610**

Darperir y manylion ariannol diweddaraf yn **Atodiad E**.

**3.24 Disgrifiad o'r strategaeth a'r targedau ar gyfer buddsoddiadau mewn cynyrchiadau sgrin a wnaed gan Cymru Greadigol a sut mae'r rhain yn wahanol i fuddsoddiadau a wnaed o Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau a Chronfa Sgrin Cymru.**

Lansiwyd ein model cyllido cynyrchiadau newydd ym mis Mai eleni. Nod y cynllun yw cefnogi twf Cymru fel cyrchfan ar gyfer cynhyrchu deunydd o'r radd flaenaf. Mae'r cyllid yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu a chwmnïau datblygu gemau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu cynyrchiadau a fwriedir ar gyfer cynulleidfaoedd rhyngwladol yn ogystal ag ar gyfer y cynyrchiadau hynny o'r tu allan i Gymru sy'n awyddus i ffilmio yng Nghymru. Mae'r cynllun newydd yn debyg iawn i'r cyllid blaenorol a ddarparwyd o dan 'Gronfa Sgrin Cymru' ond, yn ogystal â chefnogi cynyrchiadau Teledu a Ffilm, mae bellach yn cefnogi Gemau hefyd. Er mai'r effaith ar economi Cymru drwy wariant ar griw, cyfleusterau, lleoliadau ac ati yw un o'r prif allbynnau o hyd, mae'r gronfa hefyd yn ceisio sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o gyfleoedd i hyfforddi a datblygu sgiliau ar gael ar gynyrchiadau a ariennir. Mae'r gronfa yn blaenoriaethu cynnwys sy'n dangos y gorau o Gymru o ran diwylliant, iaith a daearyddiaeth ond mae hefyd yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sector sy'n cynnig cyfleoedd cyfartal ac amrywiol ar gyfer canolfan cyflogaeth fedrus hirdymor ac un sy'n gofalu am lesiant staff presennol. Mae'r holl fuddsoddiad a ddarperir o dan y grant cynhyrchu yn grant. Gwneir buddsoddiadau gwerth hyd at £750,000 a cheir manylion pellach ar wefan Cymru Greadigol.

Hefyd, ym mis Gorffennaf eleni, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gytundeb â Ffilm Cymru i weinyddu'r cyllid grant ar gyfer ffilmiau mawr ar ein rhan. Mae hyd at £1m y flwyddyn ar gael dros gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd ar gyfer ffilm fawr annibynnol y mae talent o Gymru yn serennu ynddi. Mae'r trefniant newydd hwn yn creu model cyllido symlach a mwy buddiol i gynhyrchwyr ffilm lle mae un broses gwneud cais yn eu galluogi i gael cyllid Loteri gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chyllid gan Lywodraeth Cymru mewn un lle. Mae hyd at £600k ar gael fesul ffilm (£400k gan Cymru Greadigol a £200k gan Gronfeydd y Loteri), ar yr amod bod yr arian yn cael ei wario yng Nghymru, bod talent o Gymru yn cael ei ddefnyddio a bod cynyrchiadau yn sicrhau manteision o ran datblygu'r sector.

Roedd y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn gronfa fuddsoddi fasnachol ar gyfer y teledu a ffilm. Mae'r gronfa bellach wedi cau ac mae wedi bod felly ers sawl blwyddyn.

Cronfa Sgrin Cymru oedd enw'r hysbysiad o gymorth gwladwriaethol y gwnaed buddsoddiadau mewn cynyrchiadau Teledu a Ffilm oddi tano. Roedd y buddsoddiad yn gweithredu ar sail debyg i'r model cyllido cynyrchiadau newydd ond y prif ffactor ysgogi oedd mantais economaidd y cynhyrchiad, a oedd yn cael ei fesur yn ôl faint o arian a oedd yn cael ei wario ar nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru.

## 4.0 Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

### 4.1 Sicrhau bod hanes pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ein sectorau diwylliannol a threftadaeth gan gynnwys yn ein Hamgueddfeydd Cenedlaethol [a Sicrhau bod hanes a diwylliant ein cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynrychioli'n briodol drwy fuddsoddi ymhellach yn ein diwylliant diwylliannol sector a rhwydwaith amgueddfeydd"];

Nod yr ymrwymiadau ynglŷn â Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac ymrwymiadau penodol cysylltiedig a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, yw gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi neilltuo cyllid cyfalaf a refeniw gwerth ychydig dros £5m dros dair blynedd er mwyn cefnogi ein sefydliadau diwylliannol, treftadaeth a chwaraeon cenedlaethol, lleol, rhanbarthol a llawr gwlad, gan gynnwys £2.5m yn 23/24. Mae cyfanswm y dyraniad yn cynnwys cyfraniad o ychydig dros £1.2 miliwn o gyllideb y Cytundeb Cydweithio i gefnogi'r gwaith hwn.

Nod yr ymrwymiadau ynglŷn â Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac ymrwymiadau penodol cysylltiedig a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu, yw gwneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol.

**4.2 Sefydlu Cronfa Ymchwil a Datblygu Diwydiannau Creadigol**

Nid yw Cymru Greadigol wedi llunio cronfa Ymchwil a Datblygu newydd benodol. Cafodd Ymchwil a Datblygu ei gynnwys fel maes allweddol â blaenoriaeth fel rhan o'r rhaglen cyllido datblygu. Mae cyllid Datblygu 2021/22 gwerth £1.1m wedi'i ddyrannu'n llawn i'w ddosbarthu yn ystod 2021/22 a 22/23 i 51 o gwmnïau creadigol.

Ariennir rhaglen media.cymru gwerth £50m drwy £22m o Gronfa flaenllaw 'Strength in Places' Ymchwil ac Arloesi yn y DU, £3m gan Ddinas-Ranbarth Caerdydd, £0.5m gan Lywodraeth Cymru, drwy Cymru Greadigol, ac arian cyfatebol gwerth £23m gan y diwydiant a phrifysgolion partner. Mae rhaglen Media Cymru, a gefnogir gan Cymru Greadigol, yn cynnwys pecyn gwaith i ddarparu cronfa Ymchwil a Datblygu Cymru gyfan ar gyfer y Diwydiannau Creadigol. Caiff y gronfa hon ei darparu rhwng 2022 a 2026 ac mae £100,000 wedi'i broffilio ar gyfer blwyddyn ariannol 22/23. Mae prosiect ymchwil cynaliadwy arloesol ar gyfer y diwydiant sgrin, a redir gan Sefydliad Ffilmiau Prydain a BAFTA Albert, wedi'i sicrhau i Gymru, yn dilyn cais llwyddiannus gan Cymru Greadigol gyda phartneriaid cyflawni Ffilm Cymru a Clwstwr

**4.3 Sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol**

Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn buddsoddi, o'r flwyddyn ariannol bresennol tan 2024-25, £3m ychwanegol y flwyddyn ~~e~~r mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu gwasanaeth cerddoriaeth cenedlaethol. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn cynyddu'r cymorth ariannol i sefydlu'r Gwasanaeth i £4.5 miliwn y flwyddyn, o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg.
Mae'r model ar gyfer y Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, wedi'i gynllunio i gysylltu'n uniongyrchol â'r Cwricwlwm i Gymru, gyda'r nod o sicrhau y gall dysgwyr fanteisio ar gyfleoedd gwell ar gyfer gwersi a phrofiadau cerddoriaeth. Mae cefnogi'r gwaith o gyflwyno addysg gerddoriaeth i ddysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau, drwy'r cyfryw feysydd rhaglen â 'Profiadau Cyntaf' a 'Cerddoriaeth' yn elfennau allweddol o'r Gwasanaeth.

**4.4 Buddsoddi yn Theatr Clwyd**

Mae buddsoddiadau yn ein prosiectau cyfalaf diwylliannol mawr yn amodol ar ystyried achosion busnes llawn. Mae cyllid dangosol ar gyfer hyn wedi'i gynnwys o fewn y gyllideb Cymorth ar gyfer diwylliant lleol a chwaraeon.

Mae'r buddsoddiad yn Theatr Clwyd yn un o ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu. Yn amodol ar ystyried yr Achos Busnes Llawn, rydym wedi cytuno i ddarparu cyfanswm o £26.5m (2021/22-24/25), gan gynnwys £23.5m o'r Cytundeb Cydweithio, ar gyfer y prosiect hwn, a gaiff ei weinyddu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac sy'n cynnwys £11.5m yn 2023/24. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwysau cost chwyddiannol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad a newid i broffil y gwariant er mwyn adlewyrchu amserlen y datblygiad yn fwy cywir.

**4.5 Sefydlu Amgueddfa Bêl-droed Cymru**

Rydym wedi dyfarnu £0.604m ynghyd â £0.313m ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Mae cyllid yn 2023/24 yn amodol ar fersiwn wedi'i diweddaru o'r Achos Busnes Amlinellol, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd, gyda rhagor o fanylion am y cynigion a'r costau ar gyfer y prosiect.

**4.6 Sefydlu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol**

Mae sefydlu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol yn flaenoriaeth yn y Cytundeb Cydweithio. Awgrymodd yr astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd gan y Swyddfa Wledig dros Bensaernïaeth mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru mai model gwasgaredig gyda 8-10 o safleoedd sy’n cynnig mynediad lleol i gasgliadau pwrpasol neu deithiol fyddai’r model darparu a ffefrir ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol.

Rydym wedi neilltuo cyfanswm o £1.939m ers 2019-20 gan gynnwys costau digideiddio. Mae cyllid ar gyfer 23/24 yn amodol ar yr achos busnes amlinellol sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud o ran datblygu nifer o elfennau yn y model. Mae gwaith i ddigideiddio'r casgliad a ddelir gan Amgueddfa Cymru yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir i'r broses ddigideiddio gael ei chwblhau yn 2022/23. Mae’r asedau digidol hyn wedi cael eu defnyddio mewn nifer o ffyrdd arloesol yn ystod y pandemig i gynyddu mynediad i’r casgliad, er enghraifft erthyglau ar-lein a gwefan gyfranogol lle y gall pobl guradu ‘y 100 gorau’ o blith y casgliadau a lle y gall staff y GIG ddewis eitemau i’w hatgynhyrchu ar fformatau mawr i'w harddangos mewn ysbytai maes a chanolfannau brechu. Mae gwefan newydd yn cael ei datblygu er mwyn i safleoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun greu eu casgliadau eu hunain.
Bydd y model gwasgaredig yn sicrhau bod y casgliad cenedlaethol a chelf gyfoes yn fwy hygyrch i gymunedau ledled Cymru, gan ddod â chelf yn agosach i bobl ym mhob rhan o Gymru. Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt â sawl oriel er mwyn ystyried y posibilrwydd o'u cynnwys yn y model gwasgaredig. Fodd bynnag, bydd angen gwneud rhagor o waith asesu gydag unrhyw orielau posibl o'r fath er mwyn deall y costau a'r cyfyngiadau yn llawn cyn y cytunir ar restr derfynol o orielau a fydd yn cymryd rhan yn y cynllun.

Rydym yn ystyried posibiliadau ar gyfer safle angori. Anfonwyd cais i ddarparu safleoedd i reolwyr ystadau yn y sector cyhoeddus. Cafodd lleoliadau ar y rhestr fer eu hysbysu'n ddiweddar a gofynnwyd iddynt ddatblygu eu cynigion.

# Papur 08a – Atodiad A - Trosolwg o Gyllid Diwylliant a Threftadaeth

| YR ECONOMI | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU | | | | | | | | | | |
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Alldro Terfynol 2021-22** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23** | **Alldro a Ragwelir cyfnod 7 2022-23** | **Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth-22** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth-22** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhag-22** | **Cyllideb Derfynol Dangosol 2024-25 Mawrth-22** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft Dangosol 2024-25 Rhag-22** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 44,230 | 32285 | 32,353 | 32,408 | 33,023 | 282 | 33,305 | 34,139 | -149 | 33,990 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru - Heb fod yn arian parod | 54 | 260 | 260 | 119 | 119 | 0 | 119 | 119 | 0 | 119 |
| Amgueddfa Cymru | 25,131 | 25,086 | 26,973 | 25,086 | 25,573 | 1,302 | 26,875 | 26,543 | 1,606 | 28,149 |
| Amgueddfa Cymru – Heb fod yn arian parod | 2,361 | 2400 | 2,400 | 2,400 | 2,400 | 0 | 2,400 | 2,400 | 0 | 2,400 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 11,592 | 11060 | 11,927 | 11,060 | 11,270 | 549 | 11,819 | 11,651 | 700 | 12,351 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Heb fod yn arian parod | 1,575 | 1250 | 1,250 | 1,250 | 1,250 | 0 | 1,250 | 1,250 | 0 | 1,250 |
| Cefnogi Diwyllianta Chwaraeon Lleol | 31,935 | 5217 | 4,717 | 5,217 | 6,167 | 262 | 6,429 | 8,567 | 16 | 8,583 |
| Cymru Greadigol | 12,489 | 7038 | 9,338 | 7,038 | 7,138 | -19 | 7,119 | 7,188 | -19 | 7,169 |
| **Cam Gweithredu: Cefnogi Diwyllianta'r Celfyddydau** | **129,367** | **84,596** | **89,218** | **84,578** | **86,940** | **2,376** | **89,316** | **91,857** | **2,154** | **94,011** |
| Cadw | 10,135 | 8299 | 8,579 | 8,301 | 8,503 | 703 | 9,206 | 8,880 | 633 | 9,513 |
| Cadw - Heb fod yn arian parod | 3,953 | 5482 | 5,482 | 5,480 | 5,480 | 0 | 5,480 | 5,480 | 0 | 5,480 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 545 | 594 | 594 | 594 | 594 | -7 | 587 | 594 | -7 | 587 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 1,605 | 1559 | 1,589 | 1,654 | 1,685 | 42 | 1,727 | 1,741 | 74 | 1,815 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru - Heb fod yn arian parod | 33 | 229 | 229 | 134 | 134 | 0 | 134 | 134 | 0 | 134 |
| **Cam Gweithredu: Cefnogi'r Amgylchedd Hanesyddol** | **16,271** | **16,163** | **16,473** | **16,163** | **16,396** | **738** | **17,134** | **16,829** | **700** | **17,529** |
| Chwaraeon Cymru | 26,564 | 21963 | 22,144 | 21,967 | 22,533 | 504 | 23,037 | 23,289 | 122 | 23,411 |
| Chwaraeon Cymru - Heb fod yn arian parod | 607 | 783 | 783 | 779 | 779 | 0 | 779 | 779 | 0 | 779 |
| **Cam Gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **27,171** | **22,746** | **22,927** | **22,746** | **23,312** | **504** | **23,816** | **24,068** | **122** | **24,190** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Diwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon** | **172,809** | **123,505** | **128,618** | **123,487** | **126,648** | **3,618** | **130,266** | **132,754** | **2,976** | **135,730** |

| YR ECONOMI | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CYFALAF | | | | | | | | | | |
| **Llinel Wariant yn y Gyllideb** | **Alldro Terfynol 2021-22** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23** | **Alldro a ragwelir fel yng ngyfnod 7 2022-23** | **Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth-22** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth-22** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhag-22** | **Cyllideb Derfynol Dangosol 2024-25 Mawrth-22** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft Dangosol 2024-25 Rhag-22** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 1583 | 400 | 400 | 400 | 400 | 0 | 400 | 400 | 0 | 400 |
| Amgueddfa Cymru | 6,274 | 4,500 | 4,500 | 4,500 | 5,000 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 4,101 | 2,500 | 3,000 | 2,500 | 2,000 | 0 | 2,000 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| Cefnogi Diwyllianta Chwaraeon Lleol | 2,011 | 11,700 | 9,600 | 11,700 | 21,500 | 0 | 21,500 | 24,700 | 0 | 24,700 |
| Cymru Greadigol | 16,048 | 5,000 | 5,458 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu: Cefnogi Diwyllianta'r Celfyddydau** | **30,017** | **24,100** | **22,958** | **24,100** | **33,900** | **0** | **33,900** | **37,100** | **0** | **37,100** |
| Cadw | 8,745 | 10,000 | 11,000 | 10,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 1725 | 1200 | 1200 | 1,200 | 200 | 0 | 200 | 200 | 0 | 200 |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | 7 | 50 | 50 | 50 | 50 | 0 | 50 | 50 | 0 | 50 |
| **Cam Gweithredu: Cefnogi'r Amgylchedd Hanesyddol** | **10,477** | **11,250** | **12,250** | **11,250** | **10,250** | **0** | **10,250** | **10,250** | **0** | **10,250** |
| Chwaraeon Cymru | 12,786 | 8,001 | 10,001 | 8,001 | 8,016 | 0 | 8,016 | 8,016 | 0 | 8,016 |
| Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon | 17,762 | -1227 | -1227 | -227 | -227 | 0 | -227 | -231 | 0 | -231 |
| **Cam Gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **30,548** | **6,774** | **8,774** | **7,774** | **7,789** | **0** | **7,789** | **7,785** | **0** | **7,785** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Celfyddydau Diwylliant a Chwaraeon** | **71,042** | **42,124** | **43,982** | **43,124** | **51,939** | **0** | **51,939** | **55,135** | **0** | **55,135** |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | 243,851 | 165,629 | 172,600 | 166,611 | 178,587 | 3,618 | 182,205 | 187,889 | 2,976 | 190,865 |

| YR ECONOMI | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AME – ADNODDAU | | | | | | | | |
| **Llinell Wariant y Gyllideb ar gyfer Pensiynau Cyrff a Noddir** | | **Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth 2022** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhagfyr 2022** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2022** | **Newidiadau** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 Rhagfyr 2022** |
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Amgueddfa Cymru – Darpariaeth Bensiwn Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru – AME | | 9,000 | 9,000 | 6,000 | 15,000 | 9,000 | 6,000 | 15,000 |
| Darpariaeth Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru - AME | | 5,000 | 5,000 | 4,000 | 9,000 | 5,000 | 4,000 | 9,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Pensiynau Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd** | **14,000** | **14,000** | **10,000** | **24,000** | **14,000** | **10,000** | **24,000** |
| Darpariaeth Pensiwn Chwaraeon Cymru - AME | | 2,000 | 2,000 | 3,000 | 5,000 | 2,000 | 3,000 | 5,000 |
| **Cam Gweithredu:** | **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | **2,000** | **2,000** | **3,000** | **5,000** | **2,000** | **3,000** | **5,000** |
| **Cyfanswm** | **Cyllidebau Diwylliant, Celfyddydau a Chwaraeon** | 16,000 | 16,000 | 13,000 | 29,000 | 16,000 | 13,000 | 29,000 |

## Papur 08b – Atodiad B - Sylwebaeth ar lefel camau gweithredu

### Adnoddau

***Cam Gweithredu Cefnogi Diwylliant a'r Celfyddydau***

- Bu cynnydd net o £2.376m i'r Cam Gweithredu ers y cyllideb derfynol ddangosol 2023-24. Cyfanswm y cyllid y flwyddyn yw £89.316m
  yn 2023-24 a £94.011m yn 2024-25. Mae'r cynnydd net yn ymwneud â dyraniad ychwanegol i'n cyrff noddedig i gynorthwyo â chostau
  cyflogau a chwyddiant yn sgil y costau uwch sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw.

***Cam Gweithredu Cefnogi'r Amgylchedd Hanesyddol***

- Bu cynnydd net o £0.738m i'r Cam Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2023-24. Cyfanswm y cyllid y flwyddyn yw
  £17.134m yn 2023-24 a £17.529m yn 2024-25. Mae'r cynnydd net yn ymwneud â dyraniad ychwanegol i'n cyrff noddedig i gynorthwyo â

  chostau cyflogau a chwyddiant yn sgil y costau uwch sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw.

***Cam Gweithredu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol***

- Bu cynnydd net o £0.504m i'r Cam Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2023-24. Cyfanswm y cyllid y flwyddyn yw
  yw £23.816m yn 2023-24 a £24.190m yn 2024-25. Mae'r cynnydd net yn ymwneud â dyraniad ychwanegol i'n cyrff noddedig i

  gynorthwyo â chostau cyflogau a chwyddiant yn sgil y costau uwch sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw.

### Cyfalaf

***Cam Gweithredu Cefnogi Diwylliant a'r Celfyddydau***

- Ni fu unrhyw newid i'r Cam Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2023-24. Mae cyfanswm y cyllid y flwyddyn yn cael ei gynnal ar
  £33.9m yn 2023-24 a £37.1m yn 2024-25.

***Cam Gweithredu Cefnogi'r Amgylchedd Hanesyddol***

- Ni fu unrhyw newid i'r Camau Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2023-24. Mae cyfanswm y cyllid y flwyddyn yn cael ei gynnal ar
  £10.25m yn 2023-24 a £10.25m yn 2024-25.

***Cam Gweithredu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol***

- Ni fu unrhyw newid i'r Camau Gweithredu ers cyllideb derfynol ddangosol 2023-24. Mae cyfanswm y cyllid y flwyddyn yn cael ei gynnal ar
  £7.789m yn 2023-24 a £7.785m yn 2024-25.

Papur 08c – Atodiad C - Prosiectau a Ariennir gan y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau (28 Tachwedd 2022)

**Atodiad C - PROSIECTAU A ARIENNIR GAN Y GYLLIDEB BUDDSODDI YN Y CYFRYNGAU (28 Tachwedd 2022)**

| Prosiect | Gwerth buddsoddi £m | Tachwedd 22 Swm wedi'i adennill | Enillion/Colledion net hyd at Tach 22 | Gwariant Cymreig wedi'i dargedu £m | Gwariant Cymreig hyd yma £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dan reolaeth Pinewood** | | | | | |
| Take Down | 3.144 | £1.120 | -£2.024 | 1 | 1.089 |
| Their Finest | 2 | £2.050 | £0.050 | 1.3 | 1.618 |
| The Collection | 1.75 | £0.559 | -£1.191 | 5.5 | 5.187 |
| Show Dogs | 1.566 | 0 | -£1.566 | 4.737 | 4.338 |
| Journey's End | 0.85 | 0.631 | -£0.219 | 1.5 | 0.903 |
| Don't Knock Twice[3] | 0.63 | £0.656 | £0.026 | 0.63 | 0.641 |
| Minotaur | 0.026 | 0 | -£0.026 | | AMH.[4] |
| Lionel the First | 0.025 | 0 | -£0.025 | Amh. | AMH.[5] |
| **Cyfanswm** | **9.991** | **£5.016** | -£4.974 | **14.667** | **13.776** |
| **Dan reolaeth Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Trampires[6] | 2 | 0 | -2 | 1.6 | 1.621 |
| Eternal Beauty | 1.05 | £0.880 | -0.170 | 1.214 | 1.255 |
| Bang | 0.35 | 0 | -0.350 | 1.5 | 2.562 |
| Tiny Rebel | 0.318 | 0.03 | -0.288 | 0.25 | 0.26 |
| Goose Green | 0.025 | 0 | -0.025 | Amh. | AMH.[7] |
| Almost Never (formerly True Believers) | 0.622 | 0 | -0.622 | 2.118 | 2.118 |
| Six Minutes To Midnight | 0.75 | £0.638 | -0.112 | 3.88 | 3.52 |
| **Cyfanswm** | **5.115** | **1.547** | **-3.568** | **10.562** | **11.336** |
| **Cyfanswm cyffredinol** | **15.106** | **£6.564** | **-£8.542** | **25.229** | **25.112** |

Papur 08d – Atodiad D - Buddsoddiad yng Nghronfa Sgrin Cymru (11 Tachwedd 2020)

**Atodiad D - BUDDSODDIAD YNG NGHRONFA SGRIN CYMRU (11 Tachwedd 2020)**

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrîn Cymru) | Gwerth y cynnig £m | Gwariant disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2012/13 | Tonto Films a Television Ltd | Da Vinci's Demons Cyfres 1 | 0.495 | 3.823 |
| 2012/13 | Urban Myth Films | Atlantis Cyfres 1 | 0.25 | 4.026 |
| 2012/13 | Pesky Productions Ltd (Boj & Buddies) | Boj & Buddies | 0.2 | 1.003 |
| 2012/13 | Fiction Factory (Hinterland Films Ltd) | Y Gwyll/Hinterland Cyfres 1 | 0.215 | 3.691 |
| 2012/13 | Tonto Films a Television Ltd (DVDS2) | Da Vinci's Demons Cyfres 2 | 0.99 | 15 |
| *2013/14* | Avanti Media Group | Wonder World | *0.127 | 0.763 |
| 2013/14 | Urban Myth Films | Atlantis Cyfres 2 | 0.25 | 4.026 |
| 2013/14 | Lime Pictures Limited | Rocket's Island | *0.143 | 0.966 |
| 2013/14 | Mirror Productions | Petroleum Spirit | 0.051 | 0.358 |
| 2013/14 | Modern Television | A Poet In New York | 0.053 | 0.855 |
| 2013/14 | Adastra Creative a Shrinking Cap Productions Ltd | Grandpa in my pocket | 0.129 | 1.612 |
| 2013/14 | Three Stones Media (cwmni Rastamouse) | Cyfres Rastamouse 4 | 0.145 | 0.885 |

| **Blwyddyn Ariannol y Cynnig** | **Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV)** | **Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrîn Cymru)** | **Gwerth y cynnig £m** | **Gwariant disgwyliedig £m** |
|---|---|---|---|---|
| *2013/14* | Pure Grass Films Ltd (Drake Equation Ltd) | The Drake Equation | *0.74 | 5.208 |
| *2014/15* | Lime Pictures Limited | Rocket's Island Cyfres 4 | 0.07 | 0.7 |
| 2013/14 | Lupus Films | Toot the Tiny Tugboat / Ethel & Ernest | 0.55 | 3.034 |
| 2013/14 | Green Bay Media Ltd | Cestyll/Castle Builders | 0.045 | 0.32 |
| 2013/14 | YJB Films (From a Jack to a King Ltd) | From a Jack to a King | 0.1 | 1.229 |
| 2013/14 | Hartswood Television Ltd | Lady Chatterleys Lover | 0.125 | 0.813 |
| 2014/15 | Gritty Realism Productions Ltd | Heart of Darkness | 0.15 | 1.794 |
| 2014/15 | TCFTV UK Productions | The Bastard Executioner | 2.5 | 10 |
| 2014/15 | Cwmni Da Cyf | Ffair Wledig/Country Fair | 0.125 | 1.019 |
| 2014/15 | Stiwdio Animortal (Trampires Ltd) | Trampires | 0.674 | 6.738 |
| 2014/15 | Tiger Aspect Productions (Tiger Aspect (D&F) Ltd) | Decline and Fall | 0.1 | 1.8 |
| *2014/15* | RF Movie Productions Ltd | Robin Friday - The Movie | *0.2 | 1.95 |
| 2014/15 | Touchpaper Televison Ltd | Coming up | 0.08 | 0.809 |
| 2014/15 | Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 2 Ltd) | Y Gwyll/Hinterland 2 | 0.304 | 5.3 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrîn Cymru) | Gwerth y cynnig £m | Gwariant disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2014/15 | Fiction Factory Films Ltd (Hinterland Films 3 Ltd) | Y Gwyll/Hinterland 3 | 0.25 | 4.21 |
| 2015/16 | Bad Wolf Ltd | Bad Wolf Productions | 9 | 133 |
| 2015/16 | Hartswood Films (Sherlock TV Ltd) | Sherlock Season 4 | 0.24 | 2.409 |
| 2015/16 | Heel Stone Pictures Ltd | Crossing the Border | 0.202 | 2.519 |
| 2015/16 | Ninth Floor UK Productions Limited | Will Season 1 | 1.5 | 18.761 |
| 2015/16 | Lookout Point Ltd (Pinewood Films 14) | The Collection | 0.6 | 5.5 |
| 2015/16 | Red & Black Films (Don't Knock Twice Ltd) | Don't Knock Twice | 0.075 | 0.63 |
| 2015/16 | Vertigo Television Ltd | Britannia VFX | 1.1 | 11.149 |
| 2016/17 | Beakus Ltd | Toggle Top | 0.076 | 0.944 |
| 2016/17 | Cloth Cat Animation Ltd (Clothcat LBB Ltd) | Luo Bao Bai | 0.225 | 3.183 |
| 2016/17 | Riverstone Pictures (Showdogs Ltd) | Showdogs | 0.362 | 4.737 |
| 2016/17 | Vox Pictures (Keeping Faith Ltd) | Un Bore Mercher/Keeping Faith | 0.328 | 4.25 |
| 2016/17 | Green Bay Media | Mountains and Life | 0.03 | 0.54 |
| 2016/17 | New Pictures (Requiem Productions Ltd) | Requiem | 0.4 | 5.016 |
| 2016/17 | Severn Screen Ltd (Apostle Films Ltd) | Apostle | 0.385 | 5.767 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrîn Cymru) | Gwerth y cynnig £m | Gwariant disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | World Productions (BTK 2016 Ltd) | Born to Kill | 0.2 | 2.5 |
| 2017/18 | The Forge Entertainment Ltd | Kiri | 0.2 | 2.382 |
| 2017/18 | Coracle Pictures Limited (Denmark) | Denmark | 0.085 | 1.383 |
| 2017/18 | Rondo Media Cyf | The Wall | 0.045 | 0.363 |
| 2017/18 | Touchpaper Television Ltd | 4Stories | *0.04 | 0.631 |
| 2017/18 | Illuminated Productions Ltd | The Rubbish World of Dave Spud | 0.09 | 0.906 |
| 2018/19 | Eleven Film Ltd | Schooled | 0.485 | 3.879 |
| 2018/19 | Boom Cymru | 15 diwrnod | 0.089 | 1.074 |
| 2018/19 | Dream Horse Films Limited, Popara Films Ltd a Popara Films (DH) Limited | Dream Horse | 0.35 | 4.384 |
| 2018/19 | JJ Productions Ltd (Short Form Film) | Jamie Johnson Cyfres 4 | 0.156 | 1.927 |
| 2018/19 | Mad as Birds Ltd a Reliance Entertainment Productions Six Ltd | Six Minutes To Midnight | 0.4 | 3.879 |
| 2018/19 | Keeping Faith (Cyfres 2) Productions Ltd (Vox Pictures) | Un Bore Mercher/Keeping Faith Cyfres 2 | 0.3 | 4.654 |
| 2018/19 | Hat Trick Productions | Warren | 0.109 | 1.304 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrîn Cymru) | Gwerth y cynnig £m | Gwariant disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | Monterey Productions Ltd (HBO) | Brooklyn | 0.22 | 2.412 |
| 2018/19 | GOL Production Ltd (Pulse Films) | Gangs of London | 0.35 | 4.209 |
| 2018/19 | Iele Productions | Merched Parchus | 0.041 | 0.444 |
| 2018/19 | Blacklight TV | 4Stories Cyfres 2 | 0.102 | 1.574 |
| 2019/20 | All That Limit | Brave New World | 2 | 20 |
| 2019/20 | Joio | Bang Cyfres 2 | 0.19 | 2.3 |
| 2019/20 | JJ Productions Ltd (Short Form Film) | Jamie Johnson Cyfres 5 | 0.06 | 1.827 |
| 2019/20 | Vox Pictures (Keeping Faith Cyfres 3) | Un Bore Mercher/Keeping Faith Cyfres 3 | 0.24 | 3.965 |
| 2019/20 | WP Productions Ltd (World Productions) | The Pembrokeshire Murders | 0.2 | 2.135 |
| 2020/21 | Hartswood TV Ltd | Roald & Beatrix: The Case Of The Curious Mouse | 0.225 | 2.247 |
| 2020/21 | Illuminated Productions Ltd | The Rubbish World of Dave Spud Cyfres 2 | 0.14 | 1.407 |
| 2020/21 | Joio Cyf (Joio (Bang 2) Ltd) | Bang Cyfres 2 | 0.19 | 2.302 |
| 2020/21 | Lupus Films (Kensukes Kingdom Ltd) | Kensukes Kingdom | 0.1 | 0.841 |
| 2020/21 | Little Door Productions Ltd (Little Door (The Pact) Ltd) | The Pact | 0.595 | 5.953 |
| 2020/21 | One Tribe TV Limited | Wonders of the Celtic Deep | 0.077 | 0.618 |
| 2020/21 | Eleven Films (Starco TV 3 Ltd) | Sex Education Cyfres 3 | 0.432 | 5.186 |
| 2020/21 | WOTW2 Ltd- Urban Myth films | War of the Worlds Cyfres 2 | 0.75 | 7.344 |

| Blwyddyn Ariannol y Cynnig | Enw'r Cwmni Cynhyrchu (SPV) | Teitl y Cynhyrchiad (Cronfa Sgrîn Cymru) | Gwerth y cynnig £m | Gwariant disgwyliedig £m |
|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | Barking Lion Productions | The Trapper Keeper | 4 | 40.159 |
| 2020/21 | Bad Wolf (HDM3) Ltd | His Dark Materials Season 3 | 2 | 21.075 |
| 2020/21 | Havoc Film Ltd | Havoc | 2.15 | 25.004 |
| 2020/21 | Short Form Film (JJ Productions) Ltd. | Jamie Johnson Cyfres 6 & 7 | 0.335 | 4.651 |
| 2021/22 | REP Productions SF Limited | The Almond and the Seahorse | 0.1 | 0.935 |
| 2021/22 | Cwmni Da Cyf | Rain Stories | 0.042 | 0.337 |
| 2021/22 | The Light Ltd/Y Golau Cyf | The Light/ Y Golau | 0.528 | 5.289 |
| 2022/2023 | Sex Education S4 | Eleven Film | £0.45 | 6.169 |
| 2022/2023 | Wolf | Hartswood | £0.50 | 6.004 |
| 2022/2023 | The Pact S2 | Little Door | £0.33 | 5.502 |
| 2022/2023 | The Truth About My Murder | Yeti | £0.25 | 0.342 |
| 2022/2023 | American Doomsday / Super Volcano | Wildflame | £0.07 | 0.416 |
| 2022/2023 | Black Cake | CBS UK Productions/Kapital Ent. | £0.75 | 10.000 |
| 2022/2023 | 4 Stories: On the Edge S4 | Blacklight TV | £0.07 | 0.882 |
| 2022/2023 | Un Nos Ola Leuad/One Moonlit Night | Afanti Media | £0.12 | 0.959 |
| 2022/2023 | Steel Town Murders (neu Kappen) | Severn Screen | £0.40 | 5.200 |
| **CYFANSWM (ac eithrio cynigion wedi'u tynnu'n ôl*)** | | | **42.884931** | **507.291** |

# Papur 08e – Atodiad E - Buddsoddiad yn Stiwdios Bad Wolf (Tachwedd 2021)

| Buddsoddiad | Gwerth y Buddsoddiad (£) | Tynnwyd i lawr hyd yn hyn (£) | I'w dynnu i lawr yn y blynyddoedd i ddod (£) | Llog a gronnwyd @ 7.52% hyd yn hyn (£) | Llog taledig @ 7.52% hyd yn hyn (£) | Arian cyfatebol Bad Wolf (£) | Gwariant Cymreig disgwyliedig (£) | Gwariant Cymreig a gyflawnwyd (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Taliad ad-daladwy ymlaenllaw | 4,500,000 | 4,500,000 | - | 1,063,937 | 51,481 | - | 54,000,000 | 54,000,000 |
| Grant Pellach | 4,500,000 | 4,500,000 | - | Amh. | Amh. | - | 79,000,000 | 79,496,087 |
| Prynu Adeiladau 1 a 2, Parc Trident | 6,000,000 | 6,000,000 | - | Amh. | Amh. | - | Amh. | Amh. |
| Ffioedd caffael | 30,000 | 30,000 | - | Amh. | Amh. | - | Amh. | Amh. |
| Gwaith ffitio stiwdios | 2,650,000 | 2,650,000 | - | Amh. | Amh. | 2,800,000 | Amh. | Amh. |
| Gwaith ffitio Stiwdio Pinewood Cymru | 667,588 | 667,588 | - | Amh. | Amh. | 692,412 | Amh. | Amh. |
| SAWS | 80,000 | 40,000 | - | Amh. | Amh. | - | Amh. | Amh. |
| Ernes | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | 250,000 | Amh. | Amh. |
| Rhwydwaith Drama Ieuenctid | 20,000 | 20,000 | - | - | Amh. | - | Amh. | Amh. |
| His Dark Materials, Season 3 | 2,000,000 | 2,000,000 | | - | - | - | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **20,447,588** | **20,407,588** | **0** | **1,063,937** | **51,481** | **3,742,412** | **154,074,843** | **133,496,087** |

Paper 09 - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Ionawr 2022 - tystiolaeth ysgrifenedig gan gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Dyddiad: 18 Ionawr 2023 (11.10-12.10)**

**Teitl: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 – Cyllidebau'r Gymraeg o fewn Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg**

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am ddyraniadau cyllidebol sy'n berthnasol i'r Gymraeg yn y cynigion ar gyfer Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg a amlinellwyd yng Nghyllideb ddrafft 2023-24, a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2022. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

## 1. Sylwadau ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau Llinellau Gwariant y Gyllideb

1.1 Pan gyhoeddwyd Adolygiad o Wariant Cymru 2022, nodwyd cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith. Roedd cyllidebau dangosol a bennwyd y llynedd yn adlewyrchu cynnydd yng nghyllidebau'r Gymraeg[1] o £5.8m (15.4%) yn 2022-23, â chynnydd pellach o £3m (6.9%) yn 2023-24 a £3.5m (7.5%) yn 2024-25. Does dim dwywaith bod hon wedi bod yn gyllideb heriol, y fwyaf heriol ers datganoli. Fodd bynnag, mae'r gyllideb hon yn cynnal ac yn adeiladu ar y cynnydd arfaethedig ar gyfer y Gymraeg, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn nhablau 1 a 2 isod.

[1] Cyllidebau o fewn Llinellau Gwariant Cymraeg mewn Addysg, y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg yn unig.

| TABL 1: Cyllideb Adnoddau – Cyfanswm y Gymraeg | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | £000oedd | | | | | | | |
| | Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth 2022 | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022 | Newidiadau 2023-24 | Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhagfyr 2022 | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2022 | Newidiadau 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2022 |
| Cymraeg mewn Addysg | Cymraeg mewn Addysg | 17,775 | 20,775 | - | 20,775 | 24,275 | - | 24,275 |
| **Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg** | | **17,775** | **20,775** | **0** | **20,775** | **24,275** | **0** | **24,275** |
| Y Gymraeg | Y Gymraeg | 22,404 | 22,404 | - | 22,404 | 22,404 | - | 22,404 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,207 | 3,207 | 150 | 3,357 | 3,207 | 150 | 3,357 |
| | Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod | 120 | 120 | 49 | 169 | 120 | 1 | 121 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **25,731** | **25,731** | **199** | **25,930** | **25,731** | **151** | **25,882** |
| **Cyfanswm y Gymraeg - Adnoddau** | | **43,506** | **46,506** | **199** | **46,705** | **50,006** | **151** | **50,157** |

| TABL 2: Cyllideb Gyfalaf [23]– Cyfanswm y Gymraeg | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | £000oedd | | | | | | | |
| | Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2022-23 Mawrth 2022 | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022 | Newidiadau 2023-24 | Cyllideb Ddrafft 2023-24 Rhagfyr 2022 | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2022 | Newidiadau 2024-25 | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2022 |
| Y Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg | 50 | 50 | - | 50 | 50 | - | 50 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **50** | **50** | **-** | **50** | **50** | **-** | **50** |
| **Cyfanswm y Gymraeg - Cyfalaf** | | **50** | **50** | **-** | **50** | **50** | **-** | **50** |

[23] Mae £45m pellach yn cael ei fuddsoddi dros dair blynedd (2022-23 i 2024-25) o fewn Llinell Wariant Seilwaith Addysg i gefnogi'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg.

1.2 Yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24, mae cyfanswm cyllideb y Gymraeg o fewn Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg yn cynyddu £0.199m yn 2023-24 i **£46.755m** (£46.705m ar gyfer adnoddau a £0.05m ar gyfer cyfalaf). Erbyn 2024-25, cyfanswm cyllideb ddangosol y Gymraeg fydd **£50.207m** (£50.157m ar gyfer adnoddau a £0.05m ar gyfer cyfalaf).

1.3 Yn unol â chais y Pwyllgor, atodir dadansoddiad manwl o ddyraniadau cyllideb ddrafft 2023-24 (fel y mae'n berthnasol i'r Gymraeg), yr alldro terfynol ar gyfer 2021-22, a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2022-23, yn **Atodiad A**. Mae hyn yn cadarnhau mai'r alldro terfynol ar gyfer cyllidebau'r Gymraeg yn 2021-22 oedd £40.779m (£40.533m ar gyfer adnoddau a £0.246m ar gyfer cyfalaf), ac mai'r alldro a ragwelir (yng nghyfnod 7) ar gyfer 2022-23 yw £43.979m (£43.834m ar gyfer adnoddau a £0.145m ar gyfer cyfalaf).

1.4 Mae'n bwysig nodi mai'r nod yw prif-ffrydio *Cymraeg 2050* ym mhob un o feysydd portffolio Llywodraeth Cymru, ac mae gwariant ar yr iaith wedi'i ymgorffori eisoes mewn llawer o bortffolios gweinidogol eraill. Fodd bynnag, rhoddir manylion pellach isod ynghylch y Llinellau Gwariant penodol ym Mhrif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg sy'n cefnogi amcanion portffolio'r Gymraeg yn uniongyrchol.

**Llinell Wariant y Gymraeg**

1.5 Diben Llinell Wariant y Gymraeg yw cefnogi *Cymraeg 2050* o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau'r seilwaith cywir. Mae cyllid Llinell Wariant y Gymraeg yn cael ei gynnal ar **£22.404m** y flwyddyn yn 2023-24, yn dilyn y cynnydd a weithredwyd yng nghyllideb y llynedd.

1.6 Cafodd **£1.2m** o gyllid ychwanegol ei ddyrannu i'r Urdd yn 2022-23 i barhau i'w cefnogi i ailadeiladu eu gwasanaethau yn sgil pandemig Covid-19. Mae'r cyllid yn rhan o gyllideb sylfaenol 2023-24. Mae'n cynyddu cyfanswm y cyllid i'r Urdd i dros £2.2m y flwyddyn. Mae manylion y cyllid hwn wedi'u nodi o dan adran 3.1.

1.7 Cafodd swm pellach o £0.3m y flwyddyn ei ddyrannu i'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2022-23 er mwyn cefnogi'r sefydliad i barhau i ddod dros yr heriau ariannol a achoswyd gan bandemig Covid-19. Mae'r cyllid hwn hefyd yn rhan o gyllideb sylfaenol 2023-24, a'r cynllun yw cynyddu'r cyllid ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol i **£1m** yn 2023-24. Bydd y cyllid hwn yn galluogi'r Eisteddfod i barhau â'u gweithgareddau presennol, ac i sicrhau bod gan yr Eisteddfod y lefelau staffio priodol er mwyn cynllunio a llwyfannu Eisteddfodau Llŷn ac Eifionydd yn 2023 a Rhondda Cynon Taf yn 2024. Bydd cyllid hefyd yn parhau i gael ei ddefnyddio i adeiladu ar lwyddiant AmGen i gefnogi dull mwy cyfunol, sy'n cynnwys buddsoddiad pellach mewn rhyngweithio digidol ochr yn ochr ag elfen draddodiadol yr Eisteddfod. Mae hyn yn cynnig cyfle unigryw i arddangos a hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg ymhellach i gynulleidfa ehangach.

1.8 Mae gweddill y gyllideb wedi'i chynnal ar gyfer 2023-24 a 2024-25 er mwyn cefnogi gweithgareddau partneriaeth, gan gynnwys:

- Cymraeg i Blant – i helpu rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, trosglwyddo'r iaith i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol (gweler paragraffau 2.13-2.14);
- darparu hyfforddiant Cymraeg drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (gweler adran 3.1);
- Siarter Iaith sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith plant oedran ysgol (gweler paragraffau 2.19-2.21);

- cyflawni Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg;
- cynyddu'r defnydd o Gymraeg, drwy grantiau i nifer o bartneriaid allweddol, gan gynnwys: rhwydwaith y Mentrau Iaith, gan gynnwys rhwydwaith y Papurau Bro; Merched y Wawr; Cymdeithas Eisteddfodau Cymru; Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru; a Chlybiau Ffermwyr Ifanc;
- cefnogi Ysgol Gymraeg Llundain i ddarparu cyfle pwysig i hyrwyddo'r Gymraeg yn Llundain;
- Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg (gweler paragraff 2.17);
- prosiect ARFer Prifysgol Bangor i gynyddu sgiliau rhyngbersonol, cyfathrebu a hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; a
- gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth.

**Llinell Wariant Comisiynydd y Gymraeg**

**1.9** Mae'r gyllideb hon (£3.526m ar gyfer adnoddau a £0.50m ar gyfer cyfalaf) yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg. Ceir rhagor o fanylion ynghylch cyllideb y Comisiynydd yn adran 3.2.

**Llinell Wariant Cymraeg mewn Addysg**

1.10 Fel rhan o’r gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, mae cyllideb Cymraeg mewn Addysg wedi cynyddu £4.3m yn 2022-23 i **£17.775m**, â chynnydd pellach o £3m yn 2023-24 a £3.5m yn 2024-25, i **£20.775m** a **£24.275m** yn y drefn honno. Mae cyllid y Llinell Wariant hon yn cael ei gynnal yn y gyllideb hon.

1.11 Fel rhan o'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, byddwn yn buddsoddi swm ychwanegol o £8m erbyn 2024-25 (£1.5m yn 2022-23, â chynnydd pellach o £3m yn 2023-24 a £3.5m yn 2024-25) yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae rhagor o fanylion yn adran 3.1.

1.12 Mae cyllid o £2.2m y flwyddyn yn parhau ar gyfer ehangu darpariaeth trochi hwyr. Mae rhagor o fanylion yn adran 3.1.

1.13 Yn dilyn cynnydd mewn cyllid o 2022-23, byddwn yn parhau i ddarparu £0.6m y flwyddyn i gefnogi rhaglen e-sgol (gweler adran 3.1).

1.14 Mae Llinell Wariant Cymraeg mewn Addysg hefyd yn cefnogi camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg iaith Gymraeg yn *Cymraeg 2050*, gan gynnwys:

- cyllid ar gyfer Mudiad Meithrin i gynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg fel llwybr i addysg Gymraeg (gweler paragraffau 2.24-2.26);
- rhoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd ar waith yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020 (gweler paragraffau 2.29-2.30); a
- comisiynu adnoddau addysgu a dysgu (gweler adran 3.1).

## 2. Gwybodaeth arall

***Gwybodaeth am y ffordd y caiff camau i weithredu portffolio’r Gymraeg a chanlyniadau cysylltiedig eu monitro a'u gwerthuso i ddangos gwerth am arian.***

2.1 O ran sicrhau gwerth am arian, mae eglurder ynghylch y ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol yn ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen

Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio. Mae gennym brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd.

2.2 Caiff cynnydd yn erbyn Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021 i 2026 ei fonitro'n flynyddol drwy broses sy'n cynnwys cyhoeddi Cynllun Gweithredu blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac yna Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn adrodd yn ôl ar y camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu. Cynhelir adolygiadau rheolaidd i fonitro gwariant a chanlyniadau er mwyn sicrhau bod unrhyw adnoddau sydd ar gael yn cael eu hailflaenoriaethu er mwyn cyflawni'r strategaeth.

2.3 Mae Cyngor Partneriaeth y Gymraeg yn chwarae rôl drwy roi cyngor ar y cynnydd tuag at darged 2050 ac effeithlonrwydd ein rhaglenni a'n hymyraethau. Mae is-grwpiau yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor Partneriaeth ac yn ymgymryd â gwaith a chraffu manylach, er enghraifft ym maes cydraddoldeb. Mae Bwrdd Rhaglen Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am asesu risgiau a nodi camau i'w lliniaru, ac mae'n prif-ffrydio'r strategaeth ym mhob un o feysydd polisi'r Llywodraeth.

2.4 O ran gwaith ymchwil a gwerthuso, mae gennym Gynllun Tystiolaeth blynyddol sy'n nodi bylchau yn y dystiolaeth ar y Gymraeg ac yn nodi rhaglen o waith dadansoddi i fynd i'r afael â'r anghenion hyn.

2.5 Rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'r Cynllun Grant i Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg. Nod yr adolygiad yw asesu sut mae'r Cynllun cyfredol wedi cael ei gynllunio a'i roi ar waith, a chynnig sylfaen wrth inni gynllunio model cyllido i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y dyfodol.

2.6 Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethom gyhoeddi Fframwaith Ymchwil a Gwerthuso ar gyfer *Cymraeg 2050*. Mae'n rhoi canllawiau ar gasglu tystiolaeth a data, asesu cynnydd, a gwerthuso effaith y strategaeth wrth iddi barhau i gael ei gweithredu. Bydd y Fframwaith hwn yn sail ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r strategaeth dros y blynyddoedd nesaf.

2.7 Rydym wedi parhau i ddefnyddio canfyddiadau astudiaeth ymchwil a gyhoeddwyd gennym yn 2017: Trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd i lywio ein polisi ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd, a gyhoeddwyd gennym ym mis Ionawr 2021. Mae'r Polisi yn darparu sail ar gyfer rhaglen waith 10 mlynedd. Ei nod yw galluogi'r teuluoedd hynny sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg eisoes i ddefnyddio pa Gymraeg bynnag sydd ganddynt gyda'u plant. Un o'r prif gamau a gymerwyd gennym wrth roi'r polisi hwn ar waith yw dadansoddi'r gwaith a wneir gyda theuluoedd mewn meysydd nad ydynt yn ymwneud â'r Gymraeg, gan ddefnyddio gwyddorau ymddygiad er mwyn inni weld pa wersi y gallwn eu dysgu a datblygu ymyraethau ar gyfer ein hiaith yn seiliedig arnynt.

2.8 Rydym wedi parhau i wneud gwaith i ganfod barn ein cynulleidfaoedd targed ynglŷn â'n hiaith. Rydym yn cynyddu'r gwaith gwyddor ymddygiad rydym yn ei wneud er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ac mae deall ymddygiadau o ran yr iaith ac agweddau tuag at y Gymraeg yn un rhan o hyn. Rydym wedi datblygu naratif / strategaeth lafar er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r cynulleidfaoedd cywir ac yn siarad â nhw mewn ffordd atyniadol. Rydym wedi parhau i weithio gyda llawer o'n partneriaid i greu dull 'un llais' o hyrwyddo'r Gymraeg, gan leihau dyblygu gwaith.

2.9 At hynny, gallai ein targed o gynyddu darpariaeth blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg drwy sicrhau bod 150 yn fwy o grwpiau meithrin wedi'u sefydlu erbyn 2028 leihau gwariant ar waith hyrwyddo ymhlith grwpiau oedran hŷn, gan helpu unigolion i sefydlu arferion iaith cadarn yn ifanc. Yn hyn o beth, mae Cylchoedd Meithrin yn cyfrannu at feithrin yr amodau sy'n creu

siaradwyr Cymraeg newydd drwy drochi plant yn yr iaith a'i diwylliant, a thrwy helpu i fwydo ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r gwariant hwn ar y blynyddoedd cynnar yn paratoi'r ffordd ar gyfer ymyraethau pellach, er enghraifft y Siarter Iaith (sydd â'r nod o annog plant ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol o oedran cynnar)**.**

2.10 Mae ein Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg yn golygu sicrhau bod elfennau digidol Cymraeg yn cael eu creu a'u cynnal er mwyn gwneud yn siŵr y gallant gael eu defnyddio a'u hailddefnyddio gan bawb o dan drwydded addas. Mae'n hanfodol bod technoleg Gymraeg yn cael ei lledaenu hefyd er mwyn normaleiddio'r iaith a galluogi pobl i'w defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Lansiwyd y Cynllun ar 23 Hydref 2018. Cyflawnwyd un o'r prif ddatblygiadau diweddar o dan y Cynllun yn sgil ein cydweithrediad â Microsoft i ddylunio cyfleuster cyfieithu ar y pryd gyda chyfieithydd yn bresennol ar gyfer cyfarfodydd Microsoft Teams sydd wedi'u trefnu ymlaen llaw – sydd bellach ar gael am ddim i'r rhai sydd â thrwydded Teams. Bydd hyn yn ein galluogi i ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn mwy o gyfarfodydd a chyfrannu'n uniongyrchol at ein targed o ddyblu'r defnydd dyddiol o'n hiaith.

2.11 Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw sicrhau ein bod yn adlewyrchu egwyddor datblygu cynaliadwy, ac mae ein cynlluniau gwariant yn anelu at sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a hirdymor.

***Gwybodaeth am ddyraniadau (a'u lleoliad) yn eich portffolio i gefnogi strategaeth Cymraeg 2050 ac, yn benodol, y dyraniadau ar gyfer cyflawni'r 'cerrig milltir' fel y nodir yn Rhaglen Waith 2021-2026***

2.12 Ers lansio *Cymraeg 2050* yn 2017, rydym wedi bod yn gweithio tuag at gyflawni cyfres o gerrig milltir i gyrraedd ein targedau o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Rydym yn dilyn trywydd a ddatblygwyd yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011. Mae'r byd wedi newid yn ddramatig ers 2017, ac rydym wedi ymrwymo o'r cychwyn cyntaf i oedi ar ôl inni gael canlyniadau Cyfrifiad 2021 er mwyn pwyso a mesur ac adolygu ein cynlluniau gwaith, a'r llwybr i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn ôl yr angen. Rydym bellach yn ystyried data'r Cyfrifiad ochr yn ochr â ffynonellau gwybodaeth eraill, er enghraifft yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd iawn o ran ein nod o ddyblu'r defnydd dyddiol o'n hiaith a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nodir isod ein cynnydd yn erbyn y cerrig milltir lefel uchel.

**Carreg filltir: cynnydd bychan yn y teuluoedd sy'n trosglwyddo'r Gymraeg erbyn Cyfrifiad 2021, gan barhau â'r patrwm a welwyd rhwng 2001 a 2011**

2.13 Er mwyn cefnogi'r nod hwn, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn rhaglen Cymraeg i Blant yn ystod 2023-24, ac mae'r cyllid o £0.73m yn parhau. Amcanion y prosiect yw helpu rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref a'i throsglwyddo i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfres o sesiynau am ddim i rieni a'u plant, a rhwydwaith o swyddogion sy'n helpu teuluoedd i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg gartref, ei throsglwyddo i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol, cymdeithasol ac addysgol plant. Yn ystod 2022-2023, mae sesiynau wyneb yn wyneb yn dal i gael eu hailsefydlu yn dilyn y pandemig. Yn ogystal, mae darpariaeth rithiol y rhaglen, a gyflwynwyd yn sgil cyfyngiadau Covid-19, yn parhau i fod yn elfen bwysig o'r gefnogaeth.

2.14 Mae Cymraeg i Blant yn cefnogi ein *polisi cenedlaethol newydd ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd.* Mae annog teuluoedd i ddewis Cymraeg yn rhan bwysig o *Cymraeg 2050,* ac mae'r polisi hwn yn amlinellu sut rydym yn bwriadu sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael y cymorth a'r anogaeth orau bosibl i ddewis defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant. Mae rhaglen trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd yn gweithio gyda swyddogion Cymraeg i Blant i gynllunio ymyraethau yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd. Rydym wedi comisiynu arbenigwyr allanol ym maes gwyddor ymddygiad, i weithio ar y cyd â ni ac â phartneriaid i greu a threialu ymyraethau a / neu i wella ymyraethau sy'n bodoli eisoes i gefnogi teuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant. Yn ystod 2023 -24 byddwn yn parhau â'r gwaith hwn, ac mae'r cyllid o £0.1m wedi'i gynnal i dreialu ymyraethau peilot yn y maes hwn. Caiff adroddiad cynhwysfawr yn gwerthuso'r ymyraethau ei lunio ar ddiwedd y prosiect ym mis Mawrth 2024.

**Carreg filltir: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

2.15 Fel rwy'n ei ddweud yn aml, mae *Cymraeg 2050* yn ymwneud â llawer mwy na chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae hefyd yn ymwneud â grymuso siaradwyr i ddefnyddio eu Cymraeg gyda'r nod o ddyblu'r defnydd dyddiol o Gymraeg erbyn 2050. Gyda'r nod pwysig hwn mewn golwg, yn y pen draw, amcan pob un o ymyraethau fy mhortffolio, ac felly'r holl ddyraniadau cyllidebol cyfatebol, yw cynyddu'r defnydd o'r iaith, a chânt eu gwerthuso a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben hwn. Mae hyn yn wir o ran Llinell Wariant y Gymraeg a Llinell Wariant Comisiynydd y Gymraeg. O dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â rheoleiddio'r safonau, mae gan y Comisiynydd rôl o ran sicrhau cynyddu defnydd iaith.

2.16 Er bod Covid-19 wedi newid y byd o'n hamgylch yn ddramatig, mae'n galonogol gweld sut mae sefydliadau wedi ymateb yn gadarnhaol i'r heriau. Roedd yn arbennig o galonogol gweld yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn dychwelyd i'w fformat traddodiadol, ond â llawer o nodweddion newydd ac arloesol eleni. Parhaodd y Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a rhwydwaith y Mentrau Iaith i ddatblygu mwy o weithgareddau wyneb yn wyneb. Yn benodol, mae'r Mentrau Iaith wedi diweddaru eu proffiliau iaith cymunedol ac wedi diwygio eu cynlluniau gwaith blynyddol er mwyn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu eu cymunedau. Mae'r Mentrau Iaith, yn arbennig, wedi cael cyfarwyddyd i roi mwy o bwyslais ar ymgysylltu a grymuso cymunedol. Mae hyn oll yn dangos y gwaith pwysig y mae ein partneriaid wedi bod yn ei wneud, wrth ddatblygu polisi'r Gymraeg a chyflawni nodau *Cymraeg 2050* yn ystod y cyfnod anodd hwn.

2.17 Ym mis Hydref 2022, cyhoeddwyd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o ymyraethau economaidd, tai a datblygu cymunedol i gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith sydd â lefelau uchel o ail gartrefi. Mae cefnogi'r Gymraeg fel iaith gymunedol ffyniannus yn ganolog i'r cynllun. Nod y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw grymuso cymunedau i gymryd cyfrifoldeb dros gynaliadwyedd hirdymor yr iaith Gymraeg. Ei fwriad yw helpu cymunedau a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau. Mae cyfanswm o £0.465m wedi'i ddyrannu ar gyfer y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn 2022-23, ac rydym yn rhagweld y bydd cyllid tebyg ar gyfer 2023-24. Ar fater cysylltiedig, ym mis Awst 2022, lansiwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, sydd ar hyn o bryd yn galw am dystiolaeth. I ddechrau, bydd y Comisiwn yn canolbwyntio ar ddyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol mewn cymunedau Cymraeg.

2.18 Ymhlith y gweithgareddau a ariennir gan Linell Wariant Cymraeg mewn Addysg mae datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, datblygu a gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, cymorth ar gyfer colegau addysg bellach a hyfforddiant i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i addysgu a hyfforddi dysgwyr yn ddwyieithog,

cefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac arwain y gwaith o ddatblygu darpariaeth ôl-16. Ymhlith y gweithgareddau eraill a ariennir mae datblygu adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi addysgu Cymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Mae pob un o'r gweithgareddau hyn yn effeithio ar ddefnydd iaith.

2.19 Mae'r Siarter Iaith yn cefnogi ac yn hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc o oedran ysgol, gyda'r nod o greu dinasyddion dwyieithog i'r dyfodol, a fydd:

- yn siaradwyr Cymraeg greddfol, naturiol, cyfforddus a hyderus;
- eisiau defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd;
- yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd, p'un a ydynt yn dod o gartrefi lle y caiff y Gymraeg ei siarad ai peidio;
- yn hyderus yn defnyddio'r Gymraeg ac yn arddangos agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith; ac
- yn bendant ynghylch eu Cymreictod a'u defnydd o'r iaith.

2.20 Mae’r Siarter Iaith yn cynnwys pedwar prosiect:

- mae'r Siarter Iaith a'r Siarter Iaith Uwchradd yn weithredol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y drefn honno;
- mae *Cymraeg Campus* yn weithredol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg; ac
- mae *Cymraeg Bob Dydd* yn weithredol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

2.21 Byddwn yn dyrannu £0.713m i'r rhaglen ar gyfer 2023-24. Rydym yn rhoi £0.138m i'r Urdd i gyflwyno *Cymraeg Bob Dydd,* a chaiff £518,770 ei ddyrannu i'r consortia rhanbarthol (neu'r awdurdodau lleol perthnasol yn achos y Canolbarth a’r Gorllewin) i weithio gydag ysgolion i gyflwyno'r rhaglen. Caiff y gweddill ei ddefnyddio i gyllido gweithgareddau cenedlaethol megis cyhoeddi llyfrau Seren a Sbarc ac adnoddau eraill. Mae'r prosiect hwn yn rhan allweddol o'r gwaith a wnawn i gynyddu'r defnydd o'r iaith a bydd yn parhau yn 2023-24.

2.22 Mae'n anodd iawn mesur defnydd iaith. Un ffordd o wneud hynny yw drwy gynnal arolygon defnydd iaith. Dechreuwyd ar y gwaith o lunio arolwg defnydd iaith newydd ym mis Gorffennaf 2019, ac roedd disgwyl i'r gwaith hwnnw barhau tan ddiwedd Mawrth 2021. Fodd bynnag, oherwydd Covid-19, daeth y gwaith hwnnw i ben yn gynharach nag a fwriadwyd, yn ystod Mawrth 2020. Arolygon defnydd iaith yw'r ffynhonnell swyddogol ar gyfer adrodd ar gynnydd yn erbyn un o'r dangosyddion cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2019-20[24], roedd 10% o bobl 3 oed neu hŷn yn siarad Cymraeg bob dydd ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau (dylid nodi na chaiff siaradwyr Cymraeg sydd ond yn gallu siarad ychydig eiriau eu cynnwys yma, ni waeth pa mor aml y maent yn siarad yr iaith). Yr un ganran yw hon ag a nodwyd yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15. Fodd bynnag, wrth edrych yn benodol ar siaradwyr Cymraeg 3 oed neu hŷn yng Nghymru, roedd dros hanner (56%) yn siarad yr iaith yn ddyddiol (ni waeth beth fo’u lefel rhugldér) o gymharu â 53% yn Arolwg Defnydd Iaith 2013-15. Roedd cynnydd bach hefyd yn y rhai a oedd yn ystyried eu bod yn rhugl yn Gymraeg (o 47% i 48%) ac roedd dwy ran o dair o siaradwyr Cymraeg yn cytuno (yn gryf neu'n tueddu i gytuno) bod siarad Cymraeg yn rhan bwysig o'u hunaniaeth.

2.23 Mae *Cymraeg 2050* yn bolisi trawsbynciol, a gefnogir nid yn unig drwy Linellau Gwariant y Gymraeg a Chymraeg mewn Addysg. Er enghraifft, cefnogir y Cynllun Sabothol a CYDAG drwy Linell Wariant Datblygu a Chymorth Athrawon o fewn Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg. Dyrannwyd swm ychwanegol o £1m hefyd i Linell Wariant Diwygio’r Cwricwlwm o

[24] Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg: Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 | LLYW.CYMRU

2021-22 ar gyfer adnoddau dwyieithog i gefnogi proses effeithiol o roi cwricwlwm newydd Cymru ar waith. Ceir rhagor o fanylion am y meysydd hyn isod.

**Carreg filltir: Ceisio cefnogi'r gwaith o ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar drwy greu 60 o grwpiau newydd erbyn 2026**

2.24 Mae cyllid blynyddol o £3.031m wedi galluogi Mudiad Meithrin i gefnogi aelodaeth Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi, er mwyn atgyfnerthu ac ehangu ei wasanaethau.

2.25 Yn ystod 2023-24, byddwn yn parhau i gynorthwyo Mudiad Meithrin i ehangu ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth hon. Bydd y cyllid hefyd yn parhau i alluogi Mudiad Meithrin i gynnal y rhaglen Sefydlu a Symud sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd mewn ardaloedd o Gymru lle mae diffyg gwasanaethau o'r fath ar hyn o bryd fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

2.26 Drwy'r gwaith hwn, sefydlwyd 43 o grwpiau newydd yn ystod 3 blynedd gyntaf y rhaglen hyd at 2021. Mae gwaith i gyrraedd y targed o sefydlu 60 o grwpiau eraill yn ystod tymor y Senedd hon yn mynd rhagddo'n dda, gyda 12 grŵp wedi agor yn ystod 2021-22 a 12 arall yn cael eu datblygu ar gyfer 2022-23. Mae'r gwaith o ddatblygu staff a gwirfoddolwyr yn lleoliadau ei aelodau wedi parhau hefyd. Eleni, mae'r gwaith hwn wedi cynnwys sesiynau sydd wedi'u teilwra i ymateb i'r heriau y mae'r sector blynyddoedd cynnar wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn. Caiff y gyllideb hon ei chynnal yn 2023-24 a bydd Mudiad Meithrin yn parhau i greu mwy o leoedd yn y sector blynyddoedd cynnar i gynnig llwybr tuag at addysg cyfrwng Cymraeg.

2.27 Yn perthyn yn agos i'r rhaglen i ehangu'r ddarpariaeth y mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn 2 oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y disgwyl yw y bydd cydweithio agos rhwng y rhaglen Sefydlu a Symud a'r gwaith o ehangu Dechrau'n Deg ac y byddant yn cyfrannu at dargedau ei gilydd.

**Carreg filltir: Cynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 a addysgir yn Gymraeg o 23% (2020 i 2021) i 26% yn 2026.**

2.28 Un o brif nodau *Cymraeg 2050* yw cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data diweddaraf Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (2022), a gyhoeddwyd ddiwedd mis Awst, yn dangos cynnydd bach yn nysgwyr Blwyddyn 1 sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan godi o 23.4% yn 2020/21 i 23.9% yn 2021/22. Yn *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26,* rydym wedi ymrwymo i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu yn y Gymraeg i 26% erbyn 2026. Mae gwaith yn y maes polisi hwn yn cynnwys nifer o wahanol ffrydiau.

<u>Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg</u>

2.29 Byddwn yn parhau i ddyrannu £0.1m o Linell Wariant Cymraeg mewn Addysg i gefnogi gwaith ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae pob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi'i gymeradwyo ac maent wedi bod yn weithredol ers mis Medi 2022. Yn 2023-24, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi awdurdodau lleol i weithredu eu Cynlluniau Strategol 10 mlynedd newydd. Bydd hyn yn cynnwys:

- rhoi cyngor ac arweiniad ynghylch cyfathrebu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg;

- caffael ymgynghorwyr ym meysydd y Gymraeg ac addysg i roi cyngor i awdurdodau lleol ar agweddau ar roi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith, fel y broses bontio o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a gwaith yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion; a
- rhoi cymorth parhaus i roi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd ar waith;
- gweithredu'r trefniadau newydd sy'n ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth Gymraeg.

2.30 Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio cyllid o ffynonellau eraill i weithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, er enghraifft drwy'r rhaglen gyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Grant Cyfalaf y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, a'r Grant Cymorth Refeniw. Bydd cyllid penodol ar gyfer y Gymraeg fel y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a'r Grant Trochi Hwyr yn parhau i gefnogi a sicrhau gweithgareddau sy'n rhoi cefnogaeth uniongyrchol i weithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Darpariaeth trochi hwyr

2.31 Mae trochi hwyr yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y gwaith a wnawn i gynyddu canran y dysgwyr sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae *Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26,* a'r Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys ein hymrwymiad i ymestyn y Rhaglen Trochi Hwyr er mwyn sicrhau bod pob newydd-ddyfodiad i'r iaith yn gallu cael addysg cyfrwng Cymraeg pan fo angen hynny arnynt a ble bynnag y maent ar eu taith ddysgu. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn adran 3.1.

Bil Addysg Gymraeg

2.32 Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn ystod tymor y Senedd hon. Diben y Bil yw cryfhau a chynyddu ein darpariaeth addysg Gymraeg i ymateb i'r heriau a nodir yn *Cymraeg 2050*. Ni chytunwyd ar amserlen ar gyfer y gwaith hwn, felly gall y costau sy'n gysylltiedig ag ymgynghoriad Papur Gwyn godi yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24, gyda'r costau i'w talu o gyllidebau presennol.

**Carreg filltir: cefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031 fel a ganlyn.**

2.33 Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd Cynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg gydag ymrwymiad i gynyddu'r cyllid a ddyrennir i'n helpu i gymryd y camau i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg a chefnogi pob athro i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg. Cyhoeddwyd y data diweddaraf o ran cynnydd yn erbyn y targed hwn yn *Adroddiad Blynyddol Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-22*.

2.34 Mae cyllid ar gael yn Llinell Wariant Datblygu a Chymorth Athrawon i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Cafodd cyfanswm o £1.845m ei ddyrannu yn 2022-23 (cynnydd o £1m) gyda chynnydd pellach o £0.5m yn 2023-24 a £2m yn 2024-25.

2.35 Cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn 2023-24 yw £8.720m gyda £6.1m ohono yn cael ei ddyrannu ar gyfer dysgu proffesiynol (gweler isod). Bydd gweddill y cyllid yn cael ei flaenoriaethu i gefnogi nodau'r cynllun a bydd yn cael ei dargedu'n bennaf i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg.

2.36 Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dyrannu £0.150m o'u grant, a ariennir o Linell Wariant Cymraeg mewn Addysg, yn 2022-23 i ddatblygu dau brosiect penodol:

- treialu ysgoloriaeth ariannol a mentora ar gyfer dysgwyr israddedig i'w cefnogi i baratoi ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg;
- datblygu rhwydweithiau i ymgysylltu â graddedigion Cymraeg eu hiaith sy'n astudio yn Lloegr a hyrwyddo cyfleoedd iddynt ddychwelyd i Gymru er mwyn paratoi i addysgu.

2.37 Y gobaith yw y bydd y Coleg yn parhau i ddyrannu cyllid o'u grant yn 2023-24 i barhau â'r prosiectau hyn.

2.38 Rydym yn parhau i gynnig cymhellion i athrawon dan hyfforddiant o Gymru sy'n ymgymryd ag Addysg Gychwynnol Athrawon ac rydym wedi cynnal y cymhelliant Iaith Athrawon Yfory o £5,000 ar gyfer pob myfyriwr sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.39 Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn arwain prosiect peilot i gymell siaradwyr Cymraeg ifanc i ddychwelyd o brifysgolion i helpu i addysgu Cymraeg mewn ysgolion. Cynhaliwyd prosiect peilot ym mis Gorffennaf 2022 lle mynychodd 15 o fyfyrwyr o brifysgolion ledled y DU gwrs pythefnos ym Mhrifysgol Caerdydd. Cawsant gyflwyniadau gan ymarferwyr addysg, gwybodaeth am sut i fod yn diwtoriaid Dysgu Cymraeg, a chyfle i fynychu dosbarthiadau Dysgu Cymraeg a dysgu sgiliau tiwtora sylfaenol. Bydd ail brosiect peilot yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2023 a fydd hefyd yn cynnwys cyfnod o leoliad mewn ysgol uwchradd. Y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn denu pobl ifanc i'r byd addysgu ac i'r sector Dysgu Cymraeg, gan helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ar yr un pryd.

2.40 Mae dysgu proffesiynol yn un o nodweddion allweddol ein dull o wella capasiti addysgu cyfrwng Cymraeg a chefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu nodi a'u cefnogi i ymgymryd â dysgu proffesiynol er mwyn gwella addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chefnogi pob ysgol i symud ar hyd continwwm. Bydd tua £6.1m yn cael ei ddyrannu yn Llinell Wariant Datblygu a Chymorth Athrawon yn 2023-24 i'r perwyl hwn.

2.41 O'r cyllid hwn, caiff £3.6m ei ddyrannu i'r Cynllun Sabothol i gyflwyno dysgu proffesiynol dwys i ymarferwyr ar fethodoleg addysgu iaith ac ar y Gymraeg. Mae cyrsiau ar gael ar amrywiaeth o lefelau i gynorthwywyr addysgu ac athrawon. Mae'r rhan fwyaf o'r gyllideb hon yn ariannu'r costau cyflenwi sy'n gysylltiedig â rhyddhau ymarferwyr o ysgolion i ymgymryd â'r cyrsiau.

2.42 Yn ogystal â'r Cynllun Sabothol, bydd cyfanswm o tua £2.5m yn cael ei ddyrannu i'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn 2023-24 i gefnogi'r gwaith o ddarparu cymorth iaith Gymraeg i ymarferwyr yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae gostyngiad bach i'r gyllideb hon eleni oherwydd y gwersi Cymraeg am ddim sydd ar gael – gweler y paragraff nesaf.

2.43 Bydd cyllid sy'n cael ei ddyrannu i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn darparu mynediad at wersi Cymraeg am ddim i bob ymarferydd addysg. Lansiwyd gwefan newydd ym mis Gorffennaf 2022 i ddarparu gwybodaeth i ymarferwyr ynghylch y ddarpariaeth sydd ar gael iddynt drwy'r Cynllun Sabothol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol: Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg.

## 3. Meysydd penodol

### 3.1 Diweddariadau ar ddyraniadau yng nghyllideb 2022-23

***Gwybodaeth am ddyrannu £1.2 miliwn i'r Urdd i gynorthwyo gydag ailadeiladu wedi'r pandemig, a manylion y rhaglen arbenigol sy'n darparu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc mewn cymunedau difreintiedig.***

3.1.1 Yn rhan o gyllideb y llynedd, dyrannwyd £1.2m yn ychwanegol i'r Urdd yn 2022-23 sy'n rhan o gyllideb sylfaenol 2023-24, i ddarparu cefnogaeth barhaus wrth ailadeiladu eu gwasanaethau yn sgil pandemig Covid-19. Sicrhaodd fod gan yr Urdd rwydwaith o swyddogion datblygu yn eu lle sydd yn cael eu cyflogi i gefnogi plant a phobl ifanc mewn cymunedau ledled Cymru.

3.1.2 Mae arlwy'r Urdd yn eang, mae'n ffynnu ac mae'n parhau i dyfu. Roedd y dyraniad nid yn unig wedi galluogi'r Urdd i ailddatblygu ac ailadeiladu ar ôl y pandemig, ond hefyd i arloesi ac i adeiladu ar eu mentrau llwyddiannus a gynhaliwyd yn ystod Covid-19, megis ffyrdd digidol newydd o ymgysylltu â phobl ifanc drwy ddigwyddiadau megis Eisteddfod-T a phartneriaethau rhyngwladol.

3.1.3 Yn chwarter cyntaf 2022-23, cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers pandemig Covid-19. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol gan ddenu'r niferoedd uchaf erioed. Yn ogystal â'r £1.2m, yn unol â'n hymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu, roeddem wrth ein bodd yn cefnogi'r Urdd gyda chyllid ychwanegol o £0.5m (2021-22) i gynnig mynediad am ddim i'r ŵyl i ddathlu blwyddyn ei chanmlwyddiant.

3.1.4 Fe wnaeth rhan allweddol o'r cyllid alluogi'r Urdd i ddarparu rhaglen arbenigol sy'n darparu prentisiaethau cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae meithrin gweithlu'r dyfodol a sefydlu strwythur effeithiol ar gyfer recriwtio, hyfforddi a chadw staff cyfrwng Cymraeg yn hanfodol os ydym am gynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r cyllid ychwanegol wedi galluogi'r Urdd i sefydlu llwybrau prentisiaeth achrededig yn y Gymraeg. Fe wnaeth y cyllid hefyd sicrhau y gallai'r Urdd sefydlu canolfan sgiliau sy'n galluogi dysgwyr ar draws Cymru i feithrin y sgiliau hanfodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae strwythur a datblygiad effeithiol Adran Brentisiaethau'r Urdd drwy'r dyraniad hwn wedi galluogi'r Urdd i ddenu pobl ifanc a oedd heb hyder yn eu Cymraeg i gael hyfforddiant dwys drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol, gydag opsiwn i ystyried gyrfa yn y dyfodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn fyr, mae'r buddsoddiad wedi denu carfan o bobl ifanc nad oedd yn dewis ymgysylltu â'r Gymraeg ar ôl eu cyfnod yn yr ysgol, i ystyried gyrfa hirdymor drwy gyfrwng y Gymraeg.

***Diweddariad cynnydd ar y £2.2m ychwanegol a ddyrannwyd i ehangu'r ddarpariaeth drochi yn y Gymraeg ledled Cymru ac unrhyw ddata ategol.***

3.1.5 Yn ystod 2021-22, cyhoeddwyd buddsoddiad o £2.2m i helpu dysgwyr Cymraeg sy'n ymgymryd â throchi hwyr mewn ysgolion ac i gefnogi cynnydd dysgwyr Cymraeg yn sgil Covid-19. Nod y cyllid grant hwn oedd ehangu darpariaeth trochi hwyr yn y Gymraeg mewn ysgolion a chanolfannau, a gwnaeth pob awdurdod lleol gais am hyd at £0.1m o gyllid i'w wario cyn diwedd mis Mawrth 2022. Ymhlith y ceisiadau allweddol am gyllid roedd y canlynol: amser addysgu ychwanegol i ehangu'r ddarpariaeth drochi bresennol neu gymorth i ddysgwyr sy'n gysylltiedig â Covid-19; cynlluniau peilot ar gyfer darpariaeth drochi 'dros dro'; caffael hyfforddiant arbenigol ar fethodolegau ac adnoddau trochi; prosiectau cwmpasu i sefydlu darpariaeth i hwyrddyfodiaid yn seiliedig ar fodelau awdurdodau lleol eraill.

3.1.6 Arweiniodd y buddsoddiad cychwynnol hwn at gyhoeddi yn gynharach eleni gyllid refeniw ychwanegol o £6.6m ar gyfer gweddill tymor y Senedd hon (£2.2m y flwyddyn ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25) i barhau i ddatblygu darpariaeth trochi hwyr ym mhob ardal awdurdod

lleol. Bydd pob awdurdod lleol yn dyrannu cyllid yn unol â'u hanghenion unigol eu hunain. Mae rhai yn parhau i gefnogi'r ddarpariaeth sydd eisoes yn bodoli. Bydd eraill, yn bennaf yn y De-ddwyrain, am sefydlu darpariaeth trochi hwyr newydd a fydd yn galluogi mwy o ddysgwyr i ddod yn siaradwyr dwyieithog. Mae'r cylch cyllido cyfredol yn galluogi awdurdodau lleol i gadw neu benodi o'r newydd dros 60 o athrawon trochi hwyr arbenigol / cynorthwywyr dosbarth mewn unedau neu ganolfannau trochi sydd newydd eu sefydlu. Mae hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu technolegau digidol arloesol i gefnogi'r dysgu, fel prosiect adnoddau digidol realiti rhithiol Gwynedd sy'n cynnwys pentref realiti rhithiol sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau iaith mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd y cyllid yn helpu i gyflwyno'r prosiect drwy Gymru gyfan dros y blynyddoedd nesaf.

3.1.7 Yn 2022-23, sefydlwyd Rhwydwaith Trochi Hwyr cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol ddarpariaethau, datblygiadau ac arferion da sydd ar waith ledled Cymru. Bydd y Rhwydwaith hwn yn parhau yn ystod 2023-24.

***Gwybodaeth am y dyraniad uwch o £4.3m yn Llinell Wariant Cymraeg mewn Addysg yn ystod 2022-23, yn benodol, sut a lle y defnyddiwyd y cyllid ychwanegol hwn.***

3.1.8 Mae'r dyraniad o £4.3m yn cynnwys:

- **£2.2m – Darpariaeth trochi hwyr**

3.1.9 Amlinellir manylion y dyraniad o £2.2m ar gyfer trochi uchod.

- ***£1.5m – y Coleg Cymraeg Cenedlaethol***

3.1.10 Yn 2022-23, £7.013m yw cyllid craidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyllid o £5.046m ar gyfer rhaglen addysg uwch y Coleg a £0.684m ar gyfer ei gynllun ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn addysg uwch, mae £4.184m yn cefnogi'n uniongyrchol ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn prifysgolion a meysydd pwnc. Darperir cymorth hanfodol drwy ganghennau'r Coleg ar gyfer darlithwyr, datblygu staff a chyhoeddiadau. Yn y sector ôl-16, mae cyfanswm o £1.283m wedi'i ddyrannu i gefnogi'r Cynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg Addysg Bellach a Phrentisiaeth, sy'n darparu grantiau datblygu mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus.

3.1.11 O fewn y cyllid craidd, mae'r Coleg yn darparu hyfforddiant a mentora drwy Sgiliaith, er mwyn galluogi tiwtoriaid ac aseswyr i fagu hyder wrth addysgu'n ddwyieithog, a chefnogaeth i'r sector prentisiaethau. Darperir cyllid grant ychwanegol o feysydd eraill ar gyfer datblygu technoleg ddigidol ac adnoddau eraill, prosiect llysgenhadon a chefnogaeth i ddatblygu'r Gymraeg fel pwnc ac i ddatblygu athrawon cyfrwng Cymraeg.

3.1.12 Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector prentisiaethau ac addysg bellach, ac yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i staff addysgu a phobl ifanc 16-25 oed. Mae hyn yn adeiladu ar y gyllideb bresennol ar gyfer y Coleg sy'n cefnogi darpariaeth

cyfrwng Cymraeg mewn prifysgolion, ynghyd â darparwyr hyfforddiant a cholegau addysg bellach drwy ddarparu hyfforddiant a mentora drwy Sgiliaith, i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i fagu hyder wrth addysgu’n ddwyieithog ac i gefnogi’r sector prentisiaethau i ddatblygu capasiti addysgu. Yn rhan o gyllideb y llynedd, buddsoddwyd £8m ychwanegol hyd at 2024-25, gydag £1.5m wedi'i ddyrannu i'r Coleg yn 2022-23, gyda chynnydd pellach i gefnogi'r Coleg a'r Ganolfan Genedlaethol o £3m yn 2023-24 a £3.5m yn 2024-25. Mae gan y Coleg berthynas waith agos â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a bydd cydweithio pellach yn atgyfnerthu'r gefnogaeth a roddir i'r sector ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

3.1.13 O'r £4.5m a ddyrannwyd ar gyfer 2023-24, bydd £2.825m yn cael ei ddarparu i'r Coleg ac £1.675m i'r Ganolfan Genedlaethol.

- **£0.6m – e-sgol**

3.1.14 Lansiwyd prosiect e-sgol yn 2018 gyda'r nod o ddarparu cyfle cyfartal i ddysgwyr ôl-14 ac ôl-16 mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru i astudio cyrsiau na fyddent ar gael iddynt fel arall. Menter dysgu cyfunol yw e-sgol i ddarparu cyfleoedd addysgu a dysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau dysgu uniongyrchol, amser real a rhyngweithiol.

3.1.15 Mae'r prosiect e-sgol wedi bod yn ehangu o flwyddyn i flwyddyn ers ei lansio. Yn ystod 2021-22, cafodd 28 o bynciau (TGAU, Safon UG a Safon Uwch) eu cynnig ar draws 28 o ysgolion i dros 350 o ddisgyblion drwy'r prosiect e-sgol.

3.1.16 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi £0.6m o gyllid ar gyfer e-sgol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a bydd yn cael ei gynnal yn 2023-24. Mae prosiect e-sgol ar gael i bob rhan o Gymru ac mae cymryd rhan yn wirfoddol. Bydd y cynnydd yn y cyllid sydd ar gael o 2022-23 yn caniatáu mwy o hyrwyddo, gyda'r nod o sicrhau y bydd y ddarpariaeth yn ehangu i bob ardal consortiwm yng Nghymru o fis Medi 2023 ymlaen.

***Y diweddaraf ar ddyraniadau cyllideb o rannau eraill o bortffolio'r Gweinidog, gan gynnwys Llinell Wariant Datblygu a Chymorth Athrawon a Llinell Wariant y Cwricwlwm ac Asesu i gefnogi datblygiad y Gymraeg.***

Y Cynllun Sabothol

3.1.17 Rydym yn cynnig parhau i gefnogi'r Cynllun Sabothol o 2022-23 gyda chyllideb o tua £3.6m y flwyddyn, er mwyn cadw'r un lefel o gyllid ag a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Daw'r gyllideb ar gyfer y Cynllun Sabothol o Linell Wariant Datblygu a Chymorth Athrawon (gweler paragraffau 2.41-2.42).

Adnoddau dwyieithog

3.1.18 Mae darpariaeth o £1m yn cael ei chynnal yn Llinell Wariant y Cwricwlwm ac Asesu i barhau i ddatblygu adnoddau ychwanegol a deunyddiau ategol i ysgolion a lleoliadau sy'n gysylltiedig â’r Cwricwlwm i Gymru. Ochr yn ochr â hyn, mae ymarferwyr yn cefnogi ein hadolygiad o dros 5,000 o adnoddau'r cwricwlwm sydd eisoes ar gael ar blatfform Hwb, sydd bellach yn ffurfio adran adnoddau bwrpasol newydd y Cwricwlwm i Gymru. Wrth i'r adolygiad fynd rhagddo, bydd mwy a mwy o adnoddau yn ymddangos yn yr adran hon fel y gall ysgolion a

lleoliadau fod yn sicr o'u hansawdd a'u perthnasedd i'r cwricwlwm newydd.

3.1.19 Ar y cyd, rydym yn parhau i ddyrannu cyllid o ychydig dros £3m o Linell Wariant Cymraeg mewn Addysg er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm a'i gymwysterau. Yn 2022-23 ymgorfforwyd Adnodd, is-gwmni i Lywodraeth Cymru, er mwyn goruchwylio'n strategol y broses o ddarparu a chomisiynu adnoddau. Bydd Adnodd yn weithredol ar 1 Ebrill 2023. Caiff cyllid grant ei neilltuo i sefydlu Adnodd. Mae cynllun pontio tair blynedd yn cael ei ddatblygu, gyda rhai contractau a grantiau yn cael eu hariannu a'u rheoli'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

3.1.20 Rydym yn parhau i weithio gydag amrywiol sectorau i ariannu a chomisiynu:

- adnoddau dwyieithog ar gyfer meysydd cwricwlwm megis: iechyd a lles; hanes Cymru; y Dyniaethau; celfyddydau mynegiannol; a chyfraniadau a hanes cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol;
- gwerslyfrau ac adnoddau digidol cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol i ddysgwyr 14-19 oed;
- adnoddau cyfrwng Cymraeg i gefnogi dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol gan gynnwys colli golwg a dyslecsia, ac adnoddau iaith arwyddion Prydain;
- deunyddiau darllen ar gyfer dysgwyr 3-16 oed ar ddiwylliant a hanes Cymru;
- adnoddau i gefnogi llafaredd a throchi yn y Gymraeg;
- prosiectau isadeiledd terminoleg a geiriadurol fel y *Termiadur Addysg* a *Geiriadur Prifysgol Cymru*.

## 3.2 Comisiynydd y Gymraeg

***Dyraniadau a sylwebaeth mewn perthynas â'r gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn 2023-24.***

3.2.1 Mae dyraniad refeniw Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn £3.357m, sy'n golygu codiad o £0.150m ers 2022-23. Yn unol ag amcangyfrif y Comisiynydd, bydd cyllideb dibrisiant heb fod yn arian parod o £0.169m yn cael ei darparu yn 2023-24, sy'n gynnydd o £0.049m o gymharu â 2022-23, i gefnogi costau dibrisiant ac amorteiddio ar wariant cyfalaf. Mae'r gyllideb heb fod yn arian parod yn gostwng i £0.121m erbyn 2024-25.

3.2.2 Yn yr amcangyfrif o gyllideb 2023-24, amlygodd swyddfa'r Comisiynydd yr angen am gyllid refeniw ychwanegol i ariannu'r cytundeb cyflog i staff a sicrhau bod staff y Comisiynydd yn parhau i ddilyn telerau ac amodau Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllid refeniw ychwanegol a ddarperir yn 2023-24 yn gynnydd o fwy na 4% i gefnogi codiadau cyflog.

3.2.3 Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb gyfalaf ar gyfer y Comisiynydd, sy'n parhau i fod yn £0.050m ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Byddwn yn parhau i drafod gofynion cyllid cyfalaf y Comisiynydd yn 2023-24 i gefnogi eu cynlluniau buddsoddi.

## 3.3 Gwariant cyfalaf mewn perthynas â'r Gymraeg

***Cynnydd manwl ar ehangu nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dosbarthiad y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg a chynnydd hyd yma mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.***

3.3.1 Mae'r gyllideb hon yn rhan o Linell Wariant Seilwaith Addysg Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg. Ei nod yw cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion Cymraeg, sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, cefnogi darpariaeth trochi hwyr yn ogystal â chefnogi dysgwyr o bob oed i wella eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg.

3.3.2 Mae'r cylch cyntaf o gyllid cyfalaf cyfrwng Cymraeg yn ystod 2018 wedi cefnogi 46 o brosiectau mewn 20 o awdurdodau lleol, ac wedi arwain at 2,818 o leoedd ychwanegol mewn gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r 46 o brosiectau yn mynd rhagddynt yn dda. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cael rhywfaint o effaith ar ddyddiadau cwblhau rhai prosiectau sydd wedi cael eu symud ymlaen i ddyddiad hwyrach.

3.3.3 Cyhoeddwyd swm pellach o £30m ym mis Mawrth 2021 i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg yn ôl anghenion lleol Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Hon yw'r ail gyfran o fuddsoddiad o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg, a sefydlwyd yn 2018 i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â chefnogi a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg. Mae hyn ar ben y dyraniad presennol a gyhoeddwyd ar gyfer Band B y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

3.3.4 O'r 51 o geisiadau a gyflwynwyd, cymeradwywyd cyfanswm o 11 cais ar draws 9 ardal awdurdod lleol, a rhoddwyd y ceisiadau eraill a oedd yn bodloni'r meini prawf ond na ellid eu cefnogi oherwydd cyllid cyfyngedig ar restr wrth gefn. Bydd y buddsoddiad hwn yn arwain at greu 933 o leoedd ychwanegol mewn addysg cyfrwng Cymraeg, 285 o leoedd trochi hwyr ychwanegol, 2 ysgol gynradd Gymraeg newydd a mwy o leoedd mewn 10 ysgol Gymraeg sydd eisoes wedi eu sefydlu.

3.3.5 Yn ystod mis Hydref 2022, cafodd £7.1m o gyllid ychwanegol ei gymeradwyo i gefnogi prosiectau ar restr wrth gefn y Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae'r prosiectau a fydd yn cael eu datblygu yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

3.3.6 Bydd y prosiectau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Ar lefel leol, byddant yn rhoi hwb i'r iaith mewn nifer o siroedd.

**Crynodeb**

Caiff y gyllideb sy'n berthnasol i'r Gymraeg yng Nghyllideb Ddrafft Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg ar gyfer 2023-24 ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

**Jeremy Miles AS**

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

# Papur 09a – Atodiad A - Cyllidebau y Gymraeg yng Nghyllideb Ddrafft Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg ar gyfer 2023-24, Rhagolygon 2022-23 ac Alldro Terfynol 2021-22

## Cyllidebau adnoddau

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2021-22 £000oedd | Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022) £000oedd | Cyllideb Atodol 1af 2022-23 (Mehefin 2022) £000oedd | Yr alldro a ragwelir 2022-23 (Cyfnod 7) £000oedd | Cyllideb Ddangosol 2023-24 Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022) £000oedd | Newidiadau 2023-24 £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022) £000oedd | Cyllideb Ddangosol 2024-25 Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022) £000oedd | Newidiadau 2024-25 £000oedd | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 (Rhagfyr 2022) £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg mewn Addysg** | Cymraeg mewn Addysg | 14,856 | 17,775 | 17,775 | 17,611 | 20,775 | 0 | 20,775 | 24,275 | 0 | 24,275 |
| **Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg** | | **14,856** | **17,775** | **17,775** | **17,611** | **20,775** | **0** | **20,775** | **24,275** | **0** | **24,275** |
| **Y Gymraeg** | Y Gymraeg | 22,428 | 22,404 | 22,404 | 23,058 | 22,404 | 0 | 22,404 | 22,404 | 0 | 22,404 |
| | Comisiynydd y Gymraeg | 3,187 | 3,207 | 3,113 | 3,165 | 3,207 | 150 | 3,357 | 3,207 | 150 | 3,357 |
| | Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod | 62 | 120 | 216 | 0 | 120 | 49 | 169 | 120 | 1 | 121 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **25,677** | **25,731** | **25,733** | **26,223** | **25,731** | **199** | **25,930** | **25,731** | **151** | **25,882** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU** | | **40,533** | **43,506** | **43,508** | **43,834** | **46,506** | **199** | **46,705** | **50,006** | **151** | **50,157** |

## Cyllidebau cyfalaf

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Alldro Terfynol 2021-22 £000oedd | Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022) £000oedd | Cyllideb Atodol 1af 2022-23 (Mehefin 2022) £000oedd | Yr alldro a ragwelir 2022-23 (Cyfnod 7) £000oedd | Cyllideb Ddangosol 2023-24 Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022) £000oedd | Newidiadau 2023-24 £000oedd | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (Rhagfyr 2022) £000oedd | Cyllideb Ddangosol 2024-25 Cyllideb Derfynol 2022-23 (Mawrth 2022) £000oedd | Newidiadau 2024-25 £000oedd | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 (Rhagfyr 2022) £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gymraeg** | Comisiynydd y Gymraeg | 246 | 50 | 50 | 145 | 50 | 0 | 50 | 50 | 0 | 50 |
| **Cyfanswm y Gymraeg** | | **246** | **50** | **50** | **145** | **50** | **0** | **50** | **50** | **0** | **50** |
| **ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF** | | **246** | **50** | **50** | **145** | **50** | **0** | **50** | **50** | **0** | **50** |

## Papur 09b – Atodiad B - Dyraniadau Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg – Hydref 2021

| **Awdurdod Lleol** | **Prosiect** | **Cyfalaf** |
|---|---|---:|
| Casnewydd | Neuadd Chwaraeon i Ysgol Gyfun Gwent Is Coed | £1,468,509 |
| Torfaen | Cae 3G ar gyfer Ysgol Gyfun Gwynllyw | £1,650,000 |
| Caerdydd | Uned Adnoddau Arbenigol Ysgol Glantaf | £129,202 |
| Caerdydd | Adnewyddu Ysgol Bro Edern | £105,421 |
| Caerdydd | Adnewyddu ac uned dros dro Plasmawr | £1,148,620 |
| Conwy | Cylch Meithrin Ysgol Bro Aled | £55,644 |
| Ynys Môn | Uned gofal plant Ysgol Llanfawr | £596,800 |
| Ynys Môn | Uned gofal plant Ysgol y Graig | £298,031 |
| Castell-nedd Port Talbot | Adnewyddu Ysgol Trebannws | £460,000 |
| Castell-nedd Port Talbot | Adnewyddu ysgol egin newydd - Ysgol Mynachlog Nedd | £550,000 |
| Powys | Adnewyddu ac ymestyn Ysgol Pennant | £671,473 |
| | | **£7,133,700** |

Papur 10 - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – 18 Ionawr 2023 – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Dyddiad:** **18 Ionawr 2023**

**Lleoliad: Y Senedd, Bae Caerdydd**

**Teitl:** **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2023-24**

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| | **Diben** | ~~3~~ |
| | **Cyflwyniad** | ~~3~~ |
| | **Trosolwg o'r Gyllideb (MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyfan)** | ~~3~~ |
| **1.** | **Tryloywder cyflwyniad y gyllideb** | **4** |
| | **Dull gweithredu yng nghyswllt cynigion y Gyllideb** | **4** |
| **2.** | **Hawliau plant a dyrannu 'yr adnoddau mwyaf sydd ar gael' i blant a phobl ifanc.** | ~~6~~ |
| | **Asesiad o Effaith** | ~~7~~ |
| **3.** | **Gweithredu a dyraniadau BEL yn y Grŵp Gwariant Mawr ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | ~~8~~ |
| | **Newidiadau i'r Gyllideb yn ôl BEL** | ~~9~~ |
| | **CAFCASS Cymru** | ~~11~~ |
| **4.** | **Dyraniadau polisi a deddfwriaeth Cyllideb Ddrafft 2023-24** | ~~12~~ |
| | **Iechyd Plant** | ~~13~~ |
| | **Pwysau Iach: Cymru Iach** | ~~13~~ |
| | **Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)** | ~~15~~ |
| | **Y Gyllideb** | ~~15~~ |
| | **Gwerth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)** | ~~15~~ |
| | **Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru** | ~~16~~ |
| | **Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc** | ~~18~~ |
| | **Gwasanaethau anhwylderau bwyta** | ~~19~~ |
| | **Atal hunanladdiad fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc** | ~~19~~ |
| | **Camddefnyddio sylweddau fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc** | ~~20~~ |

Gwasanaethau niwrowahanol (Gwasanaethau awtistiaeth) ~~22~~
Profiad y Claf ~~22~~
Rhaglen Lywodraethu ~~22~~
Y Rhaglen Lywodraethu – Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ~~23~~
5. Gofal Cymdeithasol i Blant ~~24~~
Hawliau Plant ~~24~~
Blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, gan gynnwys y Cynnig Gofal Plant a'r gweithlu ~~24~~
Gwasanaethau diogelu ~~25~~
Gwasanaethau eiriolaeth ~~26~~
Gwasanaethau mabwysiadu ~~26~~
Gwasanaethau maethu ~~27~~
Polisi a goruchwylio darpariaeth holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru ~~27~~
Gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr ~~28~~
Teuluoedd yn Gyntaf ~~28~~
Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar ~~29~~
Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar ~~29~~
Dechrau'n Deg i blant dan 4 oed ~~30~~
Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – Y Blynyddoedd Cynnar 31
6. Gwybodaeth fanwl am ddyraniadau yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal a mesurau atal a chefnogi cysylltiedig ~~31~~
Y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ~~32~~
Dileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal ~~32~~
Diwygio Radical ~~33~~
Gwaith trawslywodraethol/sector ar atal ~~34~~
Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar ~~34~~
Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – Y Blynyddoedd Cynnar ~~35~~
Cyflog Byw Gwirioneddol ~~35~~
7. Costau deddfwriaeth ~~36~~
Gwariant a ragwelir ar gyfer 2023-24: ~~37~~
8. Effaith costau byw ar ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2023-24 ~~39~~
Costau Byw ~~40~~
Cyflog Byw Gwirioneddol ~~42~~

## Diben

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi cytuno i fynd i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Ionawr 2023, i roi tystiolaeth ar eu cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft.

## Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gynigion cyllideb Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023-24. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, fel yr amlinellwyd mewn llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar 8 Tachwedd.

## Trosolwg o'r Gyllideb (MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyfan)

*Ffigur 1 – Trosolwg o'r Gyllideb*

| **Refeniw** | **2023-24** |
|---|---|
| | **£m** |
| Gwaelodlin Refeniw yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 | 9,793.30 |
| Addasiadau i'r Gwaelodlin | (4.3) |
| Ail-flaenoriaethu'r Gyllideb | (23.7) |
| Dyraniad MEG | 457.80 |
| Trosglwyddo'r gyllideb bresennol (grant CCG) | 160.20 |
| **DEL diwygiedig yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24** | **10,383.30** |
| **Cyfalaf** | |
| Gwaelodlin Cyfalaf yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 | 339.3 |
| Dyraniad ychwanegol | 35.7 |
| **DEL diwygiedig yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24** | **375** |
| **Cyfanswm Cyffredinol Cyllideb Ddrafft MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2023-24** | **10,758.30** |

*Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol, sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.*

**Gwybodaeth i gyfrannu at y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.**

### 1. Tryloywder cyflwyniad y gyllideb

Pwysleisiodd ein rhag-bwyllgor bwysigrwydd cyflwyno'r Gyllideb Ddrafft mewn modd tryloyw er mwyn gallu craffu'n llawn ac yn drylwyr. Er mwyn parhau â'r dull hwn, rydym yn gofyn am esboniad naratif tryloyw (a darlun rhifol) o'r canlynol yng nghyswllt yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

- gostyngiadau/dileu neu gynnydd/ychwanegiadau sy'n ymwneud â meysydd penodol o'r gyllideb ddrafft o'i gymharu â blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. grantiau'n cael eu lleihau neu'n peidio â bodoli'n gyfan gwbl/yn cael eu cynyddu neu eu cyflwyno);
- pa gyfran y mae unrhyw newidiadau i'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol yn ei gynrychioli;
- ble yn union mae'r newid hwn yn cael ei wneud yn y gyllideb ddrafft, ac a fydd arian yn cael ei ddychwelyd/ei gymryd o gronfeydd canolog neu'n cael ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill.

- bod Gweinidogion yn sicrhau bod adnoddau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno'n glir er mwyn i ni allu nodi'r adnoddau sydd wedi'u neilltuo, asesu i ba raddau y maent yn cael eu blaenoriaethu, a deall sut y byddant yn sicrhau gwerth am arian.

**Dull gweithredu yng nghyswllt cynigion y Gyllideb**

Mae Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru, yn ogystal â chyllid i gefnogi iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant. Mae'n cefnogi ein hamcanion llesiant i ddarparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd uchel, ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed. Mae hefyd yn cefnogi'r gwaith parhaus o weithredu Cymru Iachach, ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2023-24 a 2024-25. Mae setliadau'r MEG wedi cael eu hasesu drwy'r broses pennu cyllideb gyda chytundeb y Cabinet i ddiogelu gwasanaethau craidd rheng flaen, cyn belled ag y bo modd.

Bydd yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu o'r waelodlin refeniw wedi'i haddasu o £9.789biliwn i £10.38.8 biliwn ar gyfer 2023-24 a £10.613 biliwn ar gyfer 2024-25.

Mae setliad yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu ar gyfer cynnydd yn y gyllideb fel a ganlyn:

- Y GIG (gan gynnwys Profi, Olrhain, Diogelu) cynnydd o £415m ar gyfer 23-24
- Cynnydd o £25 miliwn i iechyd meddwl ar gyfer 2023-24, gan adeiladu ar y £50m a ddyrannwyd yn 22-23 a chynyddu i £90 miliwn erbyn 2024-25
- Cynnydd o £10m i ofal cymdeithasol, gan adeiladu ar y £45m a ddyrannwyd yn 22-23 a chynyddu i £60 miliwn erbyn 2024-25 a;
- Gofal plant a blynyddoedd cynnar - £28 miliwn wedi'i ddyrannu yn 2022-23, gan gynyddu i £30 miliwn yn 2023-24 ac yn rheolaidd ar gyfer 24-25.

O'r cyllid a ddyrannwyd i'r GIG uchod i ddechrau, rydym hefyd yn dyrannu £10 miliwn ychwanegol i gefnogi ehangu Dechrau'n Deg i helpu i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed (Cam Un), gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hon hefyd yn elfen allweddol o'r cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru.

Bu rhai gostyngiadau yn y gyllideb yn y MEG fel rhan o ymarfer ail-flaenoriaethu ar draws y Llywodraeth, gostyngiad o £23.7m a ddangosir ym mhrif dabl y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).
**Nid oedd yr un o'r meysydd cyllideb wedi'u lleihau yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â meysydd polisi Plant a Blynyddoedd Cynnar.**
**Mae rhagor o wybodaeth ar gael isod, yn adran 3, sy'n dangos y cyllidebau sy'n ymwneud â Phlant a Phobl Ifanc a'r newidiadau perthnasol i'r gyllideb, fesul BEL.**

**2. Hawliau plant a dyrannu 'yr adnoddau mwyaf sydd ar gael' i blant a phobl ifanc.**

Fel yr argymhellwyd gennym y llynedd, ac fel yr oedd ein Pwyllgor blaenorol yn ei argymell yn barhaus, credwn y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn ei chyfanrwydd a'i chyhoeddi fel dogfen ar wahân, cyn ei hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol cyffredinol.

Credwn fod hyn yn hanfodol i ddangos bod Llywodraeth Cymru yn bodloni gofynion Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Mae cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cyd-fynd â'r trefniadau y mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi'u rhoi ar waith, sydd wedi sefydlu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel 'y dull y cytunwyd arno' i helpu Gweinidogion i gyflawni'r dyletswyddau o dan y Mesur hwnnw yn y Cynllun Hawliau Plant ei hun a'r Cynllun Hawliau Plant cysylltiedig: llawlyfr ar gyfer staff Llywodraeth Cymru.

Yn unol ag asesu p’un ai a roddwyd ‘sylw dyledus’ i erthygl 4 CCUHP a dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), mae’r Pwyllgor:

- Yn gofyn am gopi o’r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant cyffredinol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio’r dyraniadau yng Nghyllideb ddrafft 2022-23 **ar draws ei holl bortffolios.**
- Os nad oes Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant penodol wedi cael ei gynnal, y rhesymau dros hyn.
- Copi o unrhyw asesiad effaith integredig amgen yn ogystal â sicrwydd bod yr asesiad hwn yn dangos bod y ddyletswydd o “roi sylw dyladwy” i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn wedi cael ei harfer.

O ran yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae’r Pwyllgor yn gofyn am y canlynol:

- Copi o’r templed Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant wedi’i lenwi: canllawiau i staff.
- templed ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol drafft hwn ar gyfer 2023-24 sy’n nodi sut mae hawliau plant yn cael eu rhoi ar waith yn y dyraniadau cyllideb hyn, gan gyfeirio at erthyglau penodol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn fel y bo’n berthnasol.
- Manylion pa drafodaethau sydd wedi’u cynnal gyda Gweinidogion perthnasol eraill ynghylch dyraniadau sy’n cael effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol o ran cyllideb Comisiynydd Plant Cymru a materion polisi ehangach megis tlodi plant.
- Gwybodaeth am sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb yn yr MEG.
- Gwybodaeth am sut mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd a’r iaith Gymraeg wedi cael eu hystyried wrth ddyrannu’r gyllideb.
- Gwybodaeth am sut rydych chi wedi ystyried cyllidebu ar sail rhyw wrth ddyrannu cyllidebau
- Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaethpwyd i ddyraniadau yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn ystyried hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu Lesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

**Asesiad o Effaith**

Y weledigaeth rydyn ni wedi’i sefydlu yn Cymru Iachach yw canolbwyntio mwy ar atal ac ymyriadau cynnar, ac rydyn ni’n parhau i’w cefnogi drwy gefnogaeth gyffredinol, yn ogystal â chymorth wedi’i dargedu’n well. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i rieni drwy Magu Plant. Rhowch amser iddo. sydd wedi cael ei ehangu i gefnogi rhieni plant 0-18 oed; cefnogaeth barhaus ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu (SLC) drwy gynllun ac ymgyrch SLC Siarad gyda fi; a rhagor o fuddsoddiad i leihau neu liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs).

O fewn dyraniad MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae’r gyllideb ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant wedi cael ei diogelu gyda £10m o gyllid ychwanegol yn 2023-24 a 2024-25 ar gyfer ehangu Dechrau’n Deg. Dyrennir cyllid i gefnogi ein hymrwymiad i’r Rhaglen Lywodraethu i’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sy’n cynnwys cefnogi mwy o deuluoedd gyda chostau gofal plant lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant, a chynyddu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ochr yn ochr â’r effeithiau ar y blynyddoedd cynnar, rydym hefyd wedi cydnabod yr effaith anghymesur ar y rhywiau, yn enwedig mewn perthynas â gofal plant. Mae ein Cynnig Gofal Plant eisoes yn darparu 30 awr o addysg a gofal plant a ariennir am 48 wythnos y flwyddyn i rieni sy’n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed.

Mae ein cefnogaeth i’r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cyfrannu at yr holl nodau llesiant, ac yn benodol at y rheini sy’n ymwneud â Chymru ffyniannus ac iachach.  Gall buddsoddi mewn gofal plant a chwarae o safon helpu plant ifanc i ddatblygu’n oedolion iach ac egnïol.  Mae’n

datblygu eu lles gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol ac yn lliniaru effeithiau niweidiol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gall gofal plant hefyd alluogi rhieni i weithio a hyfforddi a chodi teuluoedd o dlodi.

Mae ein Cynnig Gofal Plant yn cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn benodol, yn benodol er mwyn:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- Helpu pobl ifanc i wneud y mwyaf o'u potensial
- Datblygu uchelgais ac annog dysgu i fyw

Byddwn yn parhau i fframio ein dyraniadau cyllideb yn unol â gweithgareddau ataliol, gan wneud ymyriadau cadarnhaol sy'n diogelu ac yn adeiladu ar y sylfeini presennol, gan gynnwys ein hymrwymiad i hawliau plant.

### 3. Gweithredu a dyraniadau BEL yn y Grŵp Gwariant Mawr ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ddadansoddiad o ddyraniadau'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2023-24 fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc yn ôl Maes y Rhaglen Wariant (lle bo hynny'n berthnasol), Llinell Wariant yn y Gyllideb a Gweithredu (BEL) i gynnwys:

a. Sylwebaeth ar bob un o'r Camau Gweithredu yn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau o'r canlynol:

   - Cyllideb Ddrafft 2022-23 i'r Gyllideb Atodol Gyntaf ym mis Mehefin 2022;
   - Cyllideb Atodol Gyntaf Mehefin 2022 i'r Gyllideb Ddrafft 2023-24.

b. Disgrifiad o unrhyw newidiadau i'r llinellau sylfaen a ddefnyddiwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 sydd wedi cael eu gwneud o'r gyllideb Atodol Gyntaf ym mis Mehefin 2022.
c. Dyraniadau dangosol 2024-25 MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc ac unrhyw ddyraniadau dangosol ychwanegol y gellir eu darparu.

**Newidiadau i'r Gyllideb yn ôl BEL**

Mae'r tablau isod (ffigur 2) yn dangos bod y gyllideb yn symud o'r gyllideb Derfynol yn 2022-23 i'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 a 2024-25 ac yn nodi'r newidiadau mewn cyllid ar gyfer meysydd sy'n gysylltiedig â Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar.

*Ffigur 2 – Newidiadau i'r Gyllideb yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2023-24 a 2024/25*

| **CAMAU GWEITHREDU** | **Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu a Chefnogi Plant** | | |
|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **2022-23 Cyllideb Derfynol** | **Newid** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Cymru Iachach - Bel 060 (Blynyddoedd Cynnar) | 7.1 | 0 | 7.1 |
| Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae – BEL 310 | 96.851 | 3.000 | 99.851 |
| Cymorth ar gyfer Hawliau Plant – BEL 311 | 1.020 | 0 | 1.020 |
| Cefnogi Plant - BEL 410 | 4.865 | -1.000 | 3.865 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cymorth i Deuluoedd a Phlant – BEL 1085 | 6.720 | -1.01 | 5.710 |
| Grant Plant a Chymunedau (CCG) - BEL 1087 | 0 | 171.045 | 171.045 |
| **Cyfanswm** | **116.556** | **172.035** | **288.591** |

Mae BEL 60 yn y Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu yn cynnwys y dyraniad cyllid gwreiddiol a wnaethpwyd i gefnogi Cymru Iachach. Fel rhan o ddarpariaeth y gyllideb hon, roedd llinell sylfaen o £7m i gefnogi'r Blynyddoedd Cynnar (ar gyllideb ychwanegol 1af 2021). Mae'r cyllid hwn yn cefnogi Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd arbenigol, Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn y Cynllun Gweithredu Cefnogi Plant yn cefnogi'r cynnig gofal plant (sy'n destun craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer y Grant Pontio Plant sy'n Derbyn Gofal (LACTG) sy'n darparu cyllid ar gyfer nifer o gynlluniau sy'n gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal fel bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant Agored i Niwed sy'n cefnogi plant sydd wedi cael eu mabwysiadu i sicrhau eu bod nhw a'u teuluoedd yn cael y mynediad angenrheidiol at wasanaethau cefnogi i ddechrau eu bywyd teuluol.

Mae newidiadau yn y gyllideb (uchod) ar gyfer 23-24 i gyd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Cefnogi Plant, cyfanswm cynnydd yn y gyllideb o £172.0335m, a ddisgrifir fel a ganlyn:

- Cynnydd o £3m (net) mewn Cymorth ar gyfer Gofal Plant a Chwarae – BEL 310, yn ymwneud â chynnydd net yn y gyllideb o'r cynnydd cychwynnol arfaethedig o £10m, llai didyniad o £7m ar gyfer cyllid untro o 22-23 (trosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn) a oedd yn ymwneud â phwysau ar gostau byw.
- Gostyngiad o £1m yn y BEL Cefnogi Plant – 410, sy'n ymwneud â chael gwared ar gyllid untro o 22-23 (trosglwyddo o'r Cronfeydd Wrth Gefn) a oedd yn ymwneud â phwysau costau byw.
- Gostyngiad o £1.01m mewn Cymorth i Deuluoedd a Phlant – BEL 1085, yn ymwneud â symud y gyllideb i grant CCG o £0.810m ynghyd â symudiad net o £0.2m o gyllideb o ailddyrannu i feysydd polisi Plant eraill.
- £171.45m ar gyfer Grant Plant a Chymunedau (CCG) BEL 1087. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â throsglwyddo'r rhan fwyaf o'r grant Grant Tai Cymdeithasol i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o'r MEG Llywodraeth Leol. Roedd hyn yn £160.235m. Hefyd wedi'u cynnwys yma:
  - £0.810m symud o'r Cymorth i Deuluoedd a Phlant – BEL 1085, fel y disgrifir uchod a;
  - £10m wedi'i ddyrannu o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG, i gefnogi ehangu Dechrau'n Deg i helpu i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed (Cam Un), gyda phwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### CAFCASS Cymru

*Ffigur 3 – CAFCASS Cymru 2022/23 Cyllideb Derfynol a Chyllideb Ddrafft 2023/24*

| CAM GWEITHREDU | Cafcass Cymru | | |
|---|---|---|---|
| Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2022-23 Cyllideb Derfynol | Newid | Cyllideb Ddrafft 2023-24 |
| | £m | £m | £m |
| Cyfanswm Cafcass | 14.725 | 0.470 | 15.195 |

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol sy'n cael ei arwain ar sail galw, sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio gyda bron i 11,200 o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teulu, gan sicrhau bod ein hymyriadau'n hyrwyddo llais y plentyn, yn

canolbwyntio ar eu hawliau, eu lles a'u budd pennaf er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plentyn sy'n ymwneud â'r System Cyfiawnder Teulu yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teulu a gwasanaethau i blant yng Nghymru, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant o Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi.

Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant i helpu rhieni sydd wedi gwahanu i gael cyswllt â'u plant, ar gyfarwyddyd y Llys Teulu. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido'r gwaith o ddarparu'r rhaglen Gweithio Gyda'ch Gilydd er Lles Plant, sy'n cefnogi rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn cael y brif flaenoriaeth.

**Newidiadau wedi'u cynnwys gyda'r MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng nghyswllt Cam Gweithredu CAFCASS Cymru:**

- Cynnydd o £0.470m yn y gyllideb ar gyfer 2023-24 yng nghyswllt cynnydd yng nghostau cyflogau staff CAFCASS.

### 4. Dyraniadau polisi a deddfwriaeth Cyllideb Ddrafft 2023-24

Yr wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau o fewn yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y meysydd canlynol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor, gan gynnwys:

- Dyraniadau i gyflawni holl ymrwymiadau'r **Rhaglen Lywodraethu** a'r **Cytundeb Cydweithredu** sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a phortffolio'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

a. Manylion yr asesiad a wnaethpwyd o werth am arian a fforddiadwyedd cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion hyn a sut bydd eu cost-effeithiolrwydd yn cael ei fonitro.
b. Dyraniadau ar draws y Portffolio Gweinidogol fel y cânt eu rhestru isod ac fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc a phortffolio'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**Iechyd Plant**

c. Iechyd y cyhoedd fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys brechu
d. Strategaeth gordewdra
e. Ymchwil a datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc benodol
f. Gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol
g. Gwasanaethau anhwylderau bwyta
h. Atal hunanladdiad fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc
i. Camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys unrhyw asesiad a chostau cysylltiedig o ran y cynnydd mewn defnyddio e-sigaréts ymysg plant a phobl ifanc
j. Gwasanaethau awtistiaeth
k. Profiad cleifion, eu cynnwys a llais y dinesydd

**Iechyd y cyhoedd fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc**
**Pwysau Iach: Cymru Iach**

Mae'r gwaith o gyflwyno Pwysau Iach: Cymru Iach yn cael ei gefnogi yn 2022-24 gan ddyraniad o £6.6m y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael eu cefnogi i gyflawni a chynnal pwysau iach drwy amrywiaeth o raglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi cael eu datblygu gyda gwerthusiadau'n cael eu cynnwys i fonitro llwyddiant. Yn benodol, rydym yn buddsoddi £2.9m i ddarparu llwybr rheoli pwysau Cymru Gyfan ac rydym yn gofyn i bob Bwrdd Iechyd ddatblygu llwybr wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym hefyd wedi dyrannu £600k i Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu a chefnogi Cynlluniau Peilot Plant a Theuluoedd sy'n cael eu cynnal mewn tair ardal – Caerdydd, Merthyr Tudful ac Ynys Môn. Rhan

graidd o'r dull hwn yw gweithredu Ymyriadau yn y Cartref, sy'n ddull atal eilaidd ar gyfer teuluoedd â phlant yn y blynyddoedd cynnar, rhwng 3 a 7 oed, sy'n cyd-fynd â'r cyfnod sylfaen.

Ar ben hynny, rydym wedi ailflaenoriaethu'r £7.2m o **gyllid Atal a Blynyddoedd Cynnar** blynyddol o fis Ebrill 2022 ymlaen, sy'n cael ei ddefnyddio gan Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar draws pob Bwrdd Iechyd Lleol i gefnogi'n benodol ymyriadau yn y meysydd polisi gordewdra a thybaco yn unol â'n strategaethau Pwysau Iach: Cymru Iach a Thybaco.

Yn ddiweddar, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu cynigion i optimeiddio potensial y **Cynllun Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS)** yng nghyd-destun y Cwricwlwm newydd i Gymru a'r tirlun polisi iechyd ac addysg. Ym mis Hydref 2022, cafodd y cynigion hyn eu profi a'u mireinio yn ystod cyfarfod bwrdd crwn gydag arweinwyr strategol rhanbarthol a chenedlaethol ym maes iechyd ac addysg.

Amcanion y cyfarfod bwrdd crwn oedd:

- Ystyried rôl ysgolion o ran hybu iechyd a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru
- Adolygu cynigion ar gyfer dyfodol WNHSS a gwneud argymhellion ar gyfer mabwysiadu neu newid
- Ystyried y gydberthynas rhwng y cynllun a rhaglenni gwaith eraill sy'n ymwneud ag iechyd a lles mewn lleoliadau addysg yng Nghymru a gwneud argymhellion ar gyfer cryfhau aliniad ac osgoi dyblygu.

Mae amserlen ar gyfer y camau nesaf yn cynnwys dau gam penodol nesaf i adeiladu ar yr adolygiad cam un:

Mae trawsnewid WNHSS yn broses fawr o newid ar gyfer ysgolion, systemau lleol a rhanbarthol a phensaernïaeth genedlaethol y rhaglen ac mae angen ei rheoli'n sensitif ac yn ofalus. Bydd y broses yn esblygol ac, er mwyn sicrhau ei bod yn iawn, bydd yn cymryd amser. Mae'r cynllun arfaethedig ar gyfer trawsnewid yn cael ei ddisgrifio ar draws tri cham

- **Cam Un (Awst 2022-Rhagfyr 2022): Profi canfyddiadau'r adolygiad a chwmpasu rhaglen newid.**
- Cam dau (Ionawr 2023 – Medi 2023): Cyd-gynhyrchu model gweithredol newydd gydag ysgolion a rhanddeiliaid allweddol eraill.
- Cam tri (Medi 2023 – Mawrth 2024). Yn ystod y cam hwn bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn canolbwyntio ar weithredu'r model gweithredol newydd

**Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**

Mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr SHRN, sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd, yn darparu data o ansawdd uchel ar iechyd a lles pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yng Nghymru. Cymerodd dros 120,000 o fyfyrwyr ran yn yr arolwg yn 2021/22. Mae astudiaeth ddichonoldeb yn cael ei chynnal ar hyn o bryd ar ymestyn SHRN a'r arolwg cysylltiedig i'r sector ysgolion cynradd.

**Y Gyllideb**

- Yn gynharach eleni, cytunodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i ddarparu'r canlynol ar y cyd:
  - £433,019 yn y flwyddyn ariannol 2022-23 a £257,210 yn y flwyddyn ariannol 2023-24 ar gyfer gwaith ar Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr SHRN mewn ysgolion uwchradd
  - £438,982 yn y flwyddyn ariannol 2022-23 a £455,370 yn y flwyddyn ariannol 2023-24 ar gyfer cwblhau astudiaeth ddichonoldeb ar ymestyn SHRN a'r Arolwg cysylltiedig o Iechyd a Llesiant Myfyrwyr i ysgolion cynradd
  - Mae'r gyllideb wedi'i rhannu rhwng BEL 0231 Gwella Iechyd a Gweithio Iach a'r rhaglen Dull Ysgolion Cyfan yn BEL 0270 Iechyd Meddwl.

**Gwerth y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**

- Data o ansawdd uchel:
  - monitro amrywiaeth o ddangosyddion iechyd a lles (e.e. lles meddyliol, ffyrdd iach o fyw), a ddefnyddir nid yn unig gan Lywodraeth Cymru ond gan ysgolion, awdurdodau lleol ac amrywiaeth o bartneriaid fel Estyn, yn ogystal ag ar gyfer cymariaethau rhyngwladol
  - er mwyn i ysgolion gynllunio a monitro eu polisïau a'u gweithgareddau iechyd a llesiant eu hunain, sy'n arbennig o bwysig yng ngoleuni'r newid yn y cwricwlwm yng Nghymru
  - cyfrannu at werthuso blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, fel Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol.

- Seilwaith data i hwyluso astudiaethau cysylltiadau data ac i helpu i ddenu cyllid ymchwil i Gymru (e.e. roedd gan gais Wolfson thema wedi'i chynllunio o amgylch SHRN).
- Mae buddsoddiad wedi caniatáu i ni ehangu cyrhaeddiad yr astudiaeth, gyda maint y sampl mawr yn caniatáu dadansoddiad pellach o nodweddion gwarchodedig, rhywbeth nad yw'n bosibl gyda llawer o setiau data presennol o'r math hwn.
- Mae'r gallu i ymestyn y gwaith hwn i'r sector ysgolion cynradd yn helpu i fynd i'r afael â bwlch tystiolaeth hirsefydlog.
- Ystyrir bod gweithio ar draws meysydd polisi mewn ffordd gydlynol yn arbennig o bwysig, ac ystyried y rôl bwysig y mae'r ysgol yn ei chwarae o ran iechyd a lles pobl ifanc.

Mae gan fwrdd Gweithredu Cenedlaethol Pwysau Iach, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, gynrychiolaeth o'r Senedd Ieuenctid i sicrhau bod y camau gweithredu a'r dulliau cyflawni sy'n gysylltiedig â Phwysau Iach: Cymru Iach yn cyd-fynd ag anghenion Plant a Phobl Ifanc ledled Cymru.

**Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) yn buddsoddi'n drwm mewn ymchwil sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Rydym yn ariannu CASCADE, sy'n canolbwyntio ar ymchwil gofal cymdeithasol plant, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, a DECIPHer, canolfan ragoriaeth ymchwil iechyd y cyhoedd sy'n canolbwyntio ar les ac ymddygiad iechyd plant a phobl ifanc ac sy'n ymgorffori'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN).

Fel rhan o seilwaith datblygu ymchwil Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, mae RDD wedi buddsoddi mwy mewn ymchwil plant drwy ganolfannau ymchwil fel Partneriaeth CASCADE, DECIPHer.

Mae Partneriaeth Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE-Partnership) yn cynnal ymchwil sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a materion sy'n effeithio ar blant mewn gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae'n cael cyllid blynyddol o £0.515m gan RDD.

Mae'r Ganolfan Gwerthuso a Datblygu Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) yn cynnal ymchwil i ymddygiad iach ac atal afiechyd ymysg plant a phobl ifanc, ac mae'n rhedeg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN), rhwydwaith Cymru gyfan. Mae DECIPHer ar hyn o bryd yn cael cyllid blynyddol o £0.526m gan RDD.

Drwy swyddogion yr Is-adran Ymchwil a Datblygu (RDD), mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn dal yn agored i ymgysylltu'n weithredol ag ymchwilwyr pediatrig i barhau i chwilio am ffyrdd o gefnogi'r gwaith o feithrin gallu yn y maes ymchwil pwysig hwn.

Mae RDD hefyd yn gweinyddu amrywiaeth o gynlluniau cyllido agored a chystadleuol sydd â brand Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru arnynt (gan gynnig PhD, Cymrodoriaethau, cyllid seiliedig ar brosiectau ac amser ymchwil). Mae'r cynlluniau, y mae gan y rhan fwyaf ohonynt elfennau iechyd

a gofal cymdeithasol, yn cyd-fynd â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, gyda cheisiadau'n cael eu hasesu i ddechrau ar sail polisi, ymarfer ac angen y cyhoedd.

Mae pob cynllun ariannu yn agored i ymchwilwyr iechyd a gofal plant. Mae ein hasesiad diweddaraf yn dangos bod Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi buddsoddi £3.7 miliwn mewn 18 prosiect sy'n ymwneud yn benodol ag ymchwil plant a phobl ifanc ers 2014/15 (er bod y ffigurau hyn bron yn sicr wedi cynyddu).

Er mwyn ysgogi ymchwil pediatregol yng Nghymru, mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn ariannu Dr Phillip Connor fel Arweinydd Arbenigol Ymchwil ar gyfer Plant ledled Cymru. Rôl Dr Connor yw hyrwyddo ymchwil pediatrig ar draws y GIG, gan ysgogi diddordeb yn y nifer sy'n manteisio ar ymchwil a dod ag astudiaethau ymchwil pediatrig i Gymru

Yn ogystal, mae ein Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Lles y Boblogaeth yn canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar a'r ysgol gynradd fel un o'i dwy ffrwd waith graidd. Mae nifer o grwpiau seilwaith datblygu ymchwil eraill, fel unedau treialon clinigol, economegwyr iechyd a gwybodyddion iechyd (SAIL), yn cael eu hariannu i gydweithio â grwpiau ymchwil sy'n ceisio ennill cyllid ymchwil gan gyllidwyr ymchwil o ansawdd uchel (cyhoeddus, elusennol a masnachol) o bob rhan o'r DU a thu hwnt.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc**

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu buddsoddiad mewn iechyd meddwl a lles, a ddangosir gan y ffaith ein bod, er gwaethaf pwysau parhaus ar y gyllideb, wedi gwarchod agweddau iechyd meddwl a lles y gyllideb.

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i weithredu'r cynllun gweithlu iechyd meddwl, ar gyfer gwasanaeth pob oed, sy'n cynnwys y GIG, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Mae datblygu'r cynllun hirdymor hwn ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl yn gam allweddol yn ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i gefnogi gwelliannau i wasanaethau ac i sicrhau gweithlu iechyd meddwl sefydlog a chynaliadwy.

Yn Fframwaith Cynllunio'r GIG 2023-2026, mae iechyd meddwl a CAMHS wedi cael eu diffinio fel un o'r blaenoriaethau Gweinidogol a bydd hyn yn ein galluogi i asesu effaith dyraniadau.

Bydd gwella mynediad at gymorth, gweithredu argymhellion adolygiad yr Uned Gyflawni o CAMHS a gwella'r trawsnewid o wasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion yn flaenoriaeth. Byddwn hefyd yn parhau i gyflwyno a datblygu 111 pwyswch 2 ar gyfer cymorth iechyd meddwl brys (pob oedran). Bydd hefyd yn parhau i wella gwasanaethau amenedigol yn unol â'r Coleg Brenhinol Safonau Seiciatreg a gwella mynediad at therapïau seicolegol.
Yn dilyn gwaith paratoi gyda byrddau iechyd, byddwn hefyd yn rhoi nifer o gynlluniau peilot ar waith i gyflawni'r ymrwymiad yn y cytundeb Cydweithredu i brofi darpariaeth noddfa i bobl ifanc mewn argyfwng.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein dull system gyfan o wella llesiant meddyliol mewn ysgolion. Byddwn hefyd yn parhau i flaenoriaethu'r Fframwaith NEST/NYTH fel adnodd cynllunio i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar yr hyn sydd ei angen ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu hardal. Mae'r Fframwaith hwn yn rhoi'r adnoddau i ni weithredu Dull System Gyfan ac mae'n ein helpu i gyflawni ein hymrwymiad i flaenoriaethu ail-ddylunio gwasanaethau i wella dulliau atal, mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo dull dim drws anghywir o ddarparu cymorth iechyd meddwl integredig.

Bydd y gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith parhaus o weithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Llifogydd a gwaith paratoi i ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

**Gwasanaethau anhwylderau bwyta**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i wella gwasanaethau a dyrannwyd £2.5 miliwn ychwanegol o 2022/23 i ddarparu gwasanaethau anhwylderau bwyta a bydd y cyllid parhaus hwn yn galluogi cyfuno'r gwasanaethau hyn. Bydd hyn yn cefnogi ymyriadau cynharach ac yn sicrhau 4 wythnos o amser aros am asesiad. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu WHSSC i adolygu'r ddarpariaeth o anhwylderau bwyta yng Nghymru ac i edrych ar opsiynau ar gyfer uned arbenigol yng Nghymru. Dim ond un elfen o'n dull gweithredu ehangach yw'r ffocws ar wasanaethau arbenigol. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ystod o gymorth haen 0/1 i ddarparu mynediad cynnar at gymorth a chyngor.

**Atal hunanladdiad fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc**

Mae ein Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a'n Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yn drawslywodraethol ac yn cydnabod pwysigrwydd y penderfynyddion ehangach sy'n diogelu iechyd meddwl da.

Rydym wedi cynnull grŵp Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed newydd ar draws y Llywodraeth i hybu gwaith ar draws y Llywodraeth. Mae'r grŵp wedi cyfarfod dair gwaith eleni.

Ym mis Medi 2019, fe wnaethom gyhoeddi 'Ymateb i faterion hunan-niweidio a meddwl am hunanladdiad ymysg pobl ifanc – canllawiau i athrawon, gweithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr a gwasanaethau ieuenctid'. Gan adeiladu ar hyn, rydym wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i archwilio materion seiberfwlio a'r cysylltiadau â datganiadau ar-lein o hunanladdiad a hunan-niweidio. Mae'r gwaith wedi cynnwys ymgynghori helaeth â phlant a phobl ifanc i lunio 'pecyn cymorth' seiberfwlio i gefnogi pobl ifanc ac athrawon.

Gan ddefnyddio data a gwybodaeth newydd o'r System Arolygu Hunanladdiad Amser Real, byddwn yn parhau i sbarduno gwelliannau mewn gwaith ataliol.
Dros y 12 i 18 mis nesaf, mae ymrwymiad i ymgysylltu ymhellach â phlant a phobl ifanc er mwyn canfod a datblygu adnoddau ar gyfer cefnogaeth barhaus fel ein bod yn gwneud y gorau o'n hymdrechion i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn y maes hanfodol hwn. Bydd y gwaith hwn yn llywio olynydd y strategaeth Siarad gyda fi 2.

**Camddefnyddio sylweddau fel sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc**

Mae cymorth i blant a theuluoedd yn flaenoriaeth yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-22. Yn benodol, rydyn ni'n gwybod drwy'r gwaith ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod bod plant sy'n cael eu magu mewn cartrefi lle mae camddefnyddio sylweddau yn broblem, o bosibl, yn fwy tebygol o gael canlyniadau niweidiol yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwasanaethau'n darparu ymyrraeth gynnar ac atal er mwyn atal niwed yn y tymor hwy, cyn iddo ddigwydd.

Mae plant y rheini sy'n cael eu heffeithio gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod mewn mwy o berygl o roi profiadau niweidiol i'w plant eu hunain yn ystod plentyndod, gan greu cylch o niwed, y mae angen i ymyriadau cynnar ganolbwyntio ar ei dorri. Rydym wedi gosod camau gweithredu clir i sicrhau bod gwasanaethau'n gydgysylltiedig ac yn effeithiol i deuluoedd, yn enwedig y rhai sydd "ar gyrion gofal". Mae'r NSPCC wedi cyhoeddi data sy'n dangos cynnydd sylweddol (72%) yn nifer yr atgyfeiriadau o'u llinell gymorth yng nghyswllt rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae data newydd gan yr elusen blant yn dangos ei bod wedi gwneud 572 o atgyfeiriadau am y mater hwn yn ystod y 10 mis diwethaf i asiantaethau yng Nghymru – cyfartaledd misol o 58 o atgyfeiriadau, sydd 72% yn uwch na chyn cyfyngiadau symud y llynedd (6 Ionawr – 22 Mawrth 2020).

Ar ddechrau'r pandemig roeddem wedi gofyn am sicrwydd gan bob Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau fod gwasanaethau a chymorth i blant a theuluoedd yn dal ar gael, ac mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud ar draws y llywodraeth i liniaru effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc.

Drwy Gronfa Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau APB, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £2.75m o arian sydd wedi'i glustnodi ar gyfer plant a phobl ifanc. Gan gydnabod y cynnydd yn y galw am gymorth, dyrannwyd £1m ychwanegol yn 2022-23 gan gynyddu'r dyraniad hwn i £3.75m. Ar ben hynny, bydd y swm hwn yn cynyddu i £5.25m a £6.25m yn 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu parhau i fuddsoddi £1.98m y flwyddyn yn Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, sy'n cael arian cyfatebol gan bedwar Heddlu Cymru. Mae'r rhaglen yn darparu addysg ar gamddefnyddio sylweddau a materion ehangach sy'n ymwneud â diogelwch y gymuned a diogelwch personol ym mhob cam allweddol o'r cwricwlwm, ymysg amrywiaeth o wersi eraill.

Mae'r dystiolaeth ddiweddar gan yr elusen Action on Smoking and Health sy'n dangos bod mwy o bobl ifanc yn defnyddio e-sigarét yn y DU, gyda'r defnydd ymysg plant 11-17 oed yn codi o 4% yn 2020 i 7% yn 2022. Ym mis Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi ein strategaeth Tybaco newydd *Cymru ddi-fwg* lle'r ydym wedi nodi ein huchelgais i Gymru fod yn ddi-fwg erbyn 2030. Yn hanesyddol rydym wedi bod yn ofalus wrth ymdrin â chynhyrchion e-sigarét yng Nghymru ac ystyried bod y dystiolaeth am eu heffeithiau hirdymor yn datblygu a'u potensial i apelio at blant a phobl ifanc. Rydym yn glir na ddylai plant, pobl ifanc a phobl nad ydynt yn ysmygu byth ddefnyddio sigarennau electronig.

Wrth fwrw ymlaen â'n strategaeth, rydym wedi'i gwneud yn glir ein bod yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r rheini y mae tybaco yn effeithio arnynt, gan gynnwys pobl ifanc, i ddeall eu cymhellion dros ysmygu neu dros ddefnyddio sigarennau electronig a pha ymyriadau a dulliau cyfathrebu fydd yn gweithio, er enghraifft mewn lleoliadau addysg. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar y negeseuon rydym yn eu rhannu â phobl ifanc am ysmygu a sigarennau electronig fel rhan o'r cwricwlwm newydd a'r rhaglen JustB sydd wedi'i thargedu at ddisgyblion ysgolion uwchradd yn yr ardaloedd sydd â'r nifer uchaf o achosion o ysmygu.

**Gwasanaethau niwrowahanol (Gwasanaethau awtistiaeth)**

Rydym yn parhau i flaenoriaethu gwelliannau mewn gwasanaethau niwrowahanol. Ar 6 Gorffennaf cyhoeddais gyllid ychwanegol o £12m dros dair blynedd hyd at fis Mawrth 2025, y mae £4.5M ohono ar gael yn 2023-24 i gyflawni rhaglen wella gan ddefnyddio dull systemau cyfan sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau asesu a chefnogi cynaliadwy. Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig llwyddiannus a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau gwella.

**Profiad y Claf**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bobl Cymru lais yn y ffordd y caiff eu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol eu cynllunio a'u darparu. Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad hwn drwy sicrhau bod Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (Llais) newydd yn cael cyllideb weithredol o £5.5m y flwyddyn i sefydlu'r sefydliad yn effeithiol er mwyn cyflawni'r nodau o gynrychioli buddiannau'r cyhoedd yng nghyswllt gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Disgwylir i Llais gynnwys holl ystod dinasyddion Cymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn ei weithgareddau ac mewn ffordd sy'n diwallu anghenion y cymunedau hynny orau. Ar ben hynny, bydd Llais yn darparu gwasanaeth cynghori ac eiriolaeth ar gyfer cwynion yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc sy'n dymuno cwyno am wasanaethau'r GIG

(bydd cwynion am swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i gael eu darparu gan yr Awdurdodau Lleol yn unol ag adran 178 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Gyda'r gyllideb weithredol o £5.5m, mae cyllid penodol ar gyfer hyfforddiant ychwanegol ym maes gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

**Rhaglen Lywodraethu**

Dyma ein pedwar prif ymrwymiad o ran y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi plant a phobl ifanc:
- Ariannu gofal plant ar gyfer mwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant.
- Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw.
- Cyflwyno bwndeli babi i fwy o deuluoedd.
- Blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Cyfeirir at yr holl ymrwymiadau hyn yn y papur hwn ac maent i gyd yn elwa o ragor o ddyraniadau cyllid fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon. Mae pob un wedi'i ddiogelu rhag unrhyw doriadau yn y gyllideb ac mae rhagor o fuddsoddiad yn cael ei wneud i ehangu Dechrau'n Deg.

Mae gan ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu hon i gyd drefniadau monitro a gwerthuso helaeth ar waith, llawer ohonynt yn unol â threfniadau monitro presennol Grant Llywodraeth Cymru. Mae gofal plant a Dechrau'n Deg, yn enwedig, yn rhaglenni sydd wedi hen ennill eu plwyf ac mae dulliau monitro ac adrodd wedi'u gwreiddio eisoes ar waith. Mae gan bob ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu Ddirprwy Gyfarwyddwr wedi'i neilltuo i arwain y gwaith o'i weithredu a'i gyflwyno. Bydd gofynion adrodd rheolaidd hefyd yn erbyn y Rhaglen Lywodraethu lawn.

**Y Rhaglen Lywodraethu – Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant**

O fewn dyraniad MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'r gyllideb ar gyfer Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant wedi cael ei diogelu, gyda £10m o gyllid ychwanegol yn 2023-24 a 2024-25 ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i gefnogi ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sy'n cynnwys cefnogi mwy o deuluoedd gyda chostau gofal plant lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant, a chynyddu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy oed, gyda phwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Ochr yn ochr â'r effeithiau ar y blynyddoedd cynnar, rydym hefyd wedi cydnabod yr effaith anghymesur ar y rhywiau, yn enwedig mewn perthynas â gofal plant. Mae ein Cynnig Gofal Plant eisoes yn darparu 30 awr o addysg a gofal plant a ariennir am 48 wythnos y flwyddyn i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed.

5. **Gofal Cymdeithasol i Blant**

a. Hawliau a hawliau plant a phobl ifanc, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
b. Diogelu, gan gynnwys unrhyw oblygiadau sy'n codi o gyhoeddi adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol
c. Gwasanaethau mabwysiadu a maethu
d. Eiriolaeth plant a phobl ifanc
e. Blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, gan gynnwys y cynnig Gofal Plant a'r gweithlu
f. Addysg a gofal yn ystod plentyndod cynnar
g. Dechrau'n Deg i blant 0-3 oed
h. Teuluoedd yn Gyntaf a pholisïau chwarae

**Hawliau Plant**

Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae hawliau plant yn sail i'n huchelgais i bob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd ac i gyflawni ei botensial.

**Blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, gan gynnwys y Cynnig Gofal Plant a'r gweithlu**

Mae cyllideb refeniw **Cynnig Gofal Plant Cymru** yn 2023-24 wedi cael ei diogelu, gan gynnwys ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r cyllid ar gyfer Rhieni mewn Addysg a Hyfforddiant, gwella'r cyfraddau defnyddio, a chynnydd yn y gyfradd o fis Ebrill 2022 ymlaen. Mae'r ymrwymiad hwn yn cydnabod gwerth addysg a hyfforddiant o ran cefnogi rhieni i wella eu rhagolygon cyflogaeth. Mae canfyddiadau'r adroddiad gwerthuso diweddaraf yn dangos bod y Cynnig yn parhau i gael effaith gadarnhaol, gan helpu rhieni'n ariannol a'u galluogi i gydbwyso gofynion bywyd gwaith a theuluol.
Daw cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i ben yn 2023 ond bydd yr angen i gefnogi'r **gweithlu** i uwchsgilio yn parhau, yn enwedig ac ystyried ehangu gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i bob plentyn 2 oed sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Tymor y Senedd hon. Bydd angen datblygu cynllun newydd i ddarparu'r un lefel o gefnogaeth i'r sector yn ystod y cyfnod hwn o dwf. Mae'r £2m ar gyfer 2023-24 ac ar gyfer 2024-25 yn adlewyrchu'r angen parhaus hwn a diwedd cronfeydd ESF.

Mae consortiwm **CWLWM** yn cynnwys pum sefydliad sy'n cynrychioli gwahanol rannau o'r sector gofal plant a chwarae yng Nghymru. Ynghyd â **Chwarae Cymru**, maent yn bartneriaid allweddol o ran cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac maent yn darparu cymorth amhrisiadwy i'w haelodau a'r rheini nad ydynt yn aelodau ar ffurf canllawiau, hyfforddiant a gwybodaeth am bob mater sy'n ymwneud â chwarae, safonau cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoledig, cofrestru a rheoleiddio a rheoli cynaliadwyedd/gosod. Cafodd y ddau gynnydd cyllidebol yn 2022-23, sydd wedi cael eu cynnal i adlewyrchu eu pwysigrwydd parhaus.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gyflwyno'r **bwndel babi** i fwy o deuluoedd yng Nghymru. Nod y prosiect hwn yw rhoi rhodd gyffredinol gan Lywodraeth Cymru i ddarpar rieni sy'n byw yng Nghymru o fwndel o eitemau allweddol ar gyfer eu babi newydd-anedig. Mae'r gyllideb yn £6m yn 2023-24.

**Gwasanaethau diogelu**

Mae cyllid ar gyfer Diogelu yn cefnogi gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn bennaf ac mae'n hyrwyddo agenda ataliol i wella canlyniadau llesiant i blant ac oedolion sydd mewn perygl, gan adlewyrchu'r angen i fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar gydweithio i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant, eu cefnogi i aros gyda'u teuluoedd lle mae'n ddiogel gwneud hynny ac i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Er mwyn hyrwyddo'r nodau hyn, mae cyllid yn cefnogi'r gwaith o Ddatblygu a Gweithredu Polisi Diogelu ar draws amrywiaeth o feysydd amddiffyn plant gan gynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin plant yn rhywiol, Lleihau Arferion Cyfyngol, a gwaith parhaus i gefnogi adferiad Covid-19 drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd.

Mae cyllid diogelu hefyd yn cefnogi gwaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, sy'n rhoi cymorth i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol a chyngor i Weinidogion ynghylch effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae gweithrediad y byrddau rhanbarthol a Chenedlaethol yn sicrhau bod mesurau ar waith i gefnogi ymarfer cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddiogelu plant ar draws asiantaethau a ledled Cymru.

**Gwasanaethau eiriolaeth**

Mae'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (NASA) yn ddull safonol o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth statudol gan y chwe Chydlynydd Gwasanaethau Cymdeithasol Rhanbarthol, sy'n atgyfnerthu ac yn sicrhau cynnig a phrofiad cyson i blant ac ymarferwyr. Mae wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2017. Mae'r gwaith o weithredu NASA yn cael ei fonitro gan Fforymau Rhanbarthol sy'n dilyn ôl troed y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, dan oruchwyliaeth Fforwm Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru a Phennaeth Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol.  Bydd yr elfen gyllido gan Lywodraeth Cymru yn parhau (hyd at £550k bob blwyddyn).

MEIC yw'r llinell gymorth genedlaethol ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth sy'n darparu un pwynt cyswllt i blant a phobl ifanc drwy Radffon, negeseuon gwib a negeseuon testun. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r gweithgaredd hwn yn uniongyrchol ond yn hytrach drwy gontractau gyda Pro-Mo Cymru. Yn dilyn ymarfer caffael ym mis Mehefin 2022, cyhoeddwyd Contract newydd i Pro-Mo Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2026.

**Gwasanaethau mabwysiadu**

Cyfeirir y buddsoddiad at awdurdodau lleol a mudiadau'r trydydd sector i barhau i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau mabwysiadu yng Nghymru.  Mae darparu cefnogaeth fabwysiadu effeithiol ac wedi'i theilwra i deuluoedd sy'n mabwysiadu yn hollbwysig o ran cefnogi'r gwaith o atal achosion o darfu ar fabwysiadu a thorri i lawr, gan leihau'r posibilrwydd o blant yn ailymuno â'r system ofal, cyn belled ag y bo modd.  Bydd buddsoddiad hefyd yn cael ei anelu at gynyddu nifer y mabwysiadwyr, cyswllt, cadw brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd, gwella prosesau paru a lleoli er mwyn sicrhau bod plant nad ydynt yn gallu dychwelyd i fyw gyda theuluoedd biolegol yn cael eu lleoli cyn gynted â phosibl, gyda 'theuluoedd parhaol' addas sy'n diwallu eu hanghenion penodol.

**Gwasanaethau maethu**

Bydd cyllid yn parhau i gael ei gyfeirio at gefnogi'r sector maethu i gyflawni rhaglen waith a fydd yn grymuso'r gymuned faethu i wella canlyniadau llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o fewn y fframwaith llesiant cenedlaethol.  Bydd y buddsoddiad hefyd yn cael ei gyfeirio i gefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi'r cynllun maethu cenedlaethol yng Nghymru – Maethu Cymru.  Bydd cyllid yn cael ei ddefnyddio i roi nifer o ymgyrchoedd recriwtio ar waith a fydd yn cael eu targedu i ddiwallu anghenion y gwasanaeth, yn ogystal â gwreiddio'r rhaglen waith a gyflawnwyd yn ystod 2021.  Mae recriwtio gofalwyr maeth yn allweddol i lwyddiant a datblygiad maethu awdurdodau lleol a bydd y brand yn helpu awdurdodau lleol i ddileu elw a gwella ansawdd y lleoliadau o ddewis i blant mewn gofal.

**Polisi a goruchwylio darpariaeth holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

Mae darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn parhau i gael ei monitro'n fisol drwy adroddiad Checkpoint Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hwn yn darparu data ynghylch nifer y cysylltiadau, y nifer sy'n ymwneud â diogelu, plant sy'n derbyn gofal a chymorth, a phlant sy'n derbyn gofal.

Yn ogystal â hyn, bydd data 'mesur gweithgareddau a pherfformiad' y Fframwaith Perfformiad a Gwella ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei gyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2022. Mae'r data hwn yn rhoi crynodeb blynyddol o weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr**

Bydd gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn gallu elwa o'r £1.245m o gyllid bob blwyddyn, ac rydym yn ymrwymo i gefnogi gofalwyr di-dâl o bob oed yn 2023-24. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni camau gweithredu yn y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yng Nghymru a'i Chynllun Cyflawni cysylltiedig, a lansiwyd yn 2021. Bydd hyn ochr yn ochr â chyllid yng nghynllun grantiau'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy (2020-25), a chymorth drwy fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u ffrydiau ariannu.

**Teuluoedd yn Gyntaf**

Nod Teuluoedd yn Gyntaf yw gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n rhoi pwyslais ar ymyrraeth gynnar, atal, a darparu cefnogaeth i deuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r teulu cyfan i atal problemau rhag gwaethygu tuag at argyfwng.

Mae'r rhaglen yn hyrwyddo gwaith aml-asiantaeth i sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cydgysylltiedig pan fydd ei angen arnynt. Gelwir hyn yn ddull 'Tîm o Amgylch y Teulu'. Dangosodd gwerthusiad o Teuluoedd yn Gyntaf fod Tîm o Amgylch y Teulu yn un o lwyddiannau allweddol y rhaglen, gan alluogi teuluoedd i deimlo eu bod wedi'u grymuso i gymryd rheolaeth er mwyn gwella canlyniadau eu teuluoedd.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn un o chwe rhaglen o fewn y Grant Plant a Chymunedau sy'n canolbwyntio ar ymyrryd ac atal yn gynnar (mae Dechrau'n Deg hefyd wedi'i gynnwys yn y CCG).

Cyn cyflwyno'r CCG ym mis Ebrill 2019, derbyniodd Teuluoedd yn Gyntaf ddyfarniad ariannol blynyddol pwrpasol o £7.6m yn 2018-19.

Rydym wedi darparu £40m o refeniw ychwanegol hyd at 2024-25 ar gyfer cymorth a chefnogaeth gynnar, gan gynnwys ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf, sy'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi mwy o blant a theuluoedd ledled Cymru.

**Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar**

Mae Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn canolbwyntio ar ddatblygu system blynyddoedd cynnar fwy cydgysylltiedig ac ymatebol sy'n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth galon y system, ac sy'n cynnwys y cyfnod cyn-geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (0-7).

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru i ystyried sut i ddarparu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy systematig, gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'n rhaglenni presennol, fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bellach yn rhan o'r rhaglen fel cynlluniau braenaru. Rydym yn buddsoddi £6m yn 2023-24 i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws holl ranbarthau Byrddau Iechyd yng Nghymru, wrth iddynt brofi'r elfennau craidd ar gyfer system blynyddoedd cynnar a threialu gwahanol fodelau a dulliau darparu aml-asiantaeth, gan adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn rhaglenni presennol fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'r gyllideb yn lleihau ym Mlwyddyn Ariannol 2024-25 yn unol â rhaglen waith y cynllun peilot.

Bydd yr hyn a ddysgir o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y prosiectau braenaru Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith cenedlaethol, a fydd yn nodi'r elfennau allweddol ar gyfer system blynyddoedd cynnar ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cyflwyno ein holl raglenni a pholisïau blynyddoedd cynnar yn y dyfodol.

**Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar**

Mae ein gweledigaeth ar gyfer **Addysg a Gofal yn ystod Plentyndod Cynnar (ECEC)** yng Nghymru yn golygu dileu'r rhaniad artiffisial rhwng lleoliadau addysg a gofal, gan sicrhau bod pob lleoliad sy'n darparu ECEC yn cyfrannu at les a datblygiad plentyn ar sail gyfartal – un system sengl gyda'r plentyn yn ganolog. Mae hyn yn golygu edrych ar ansawdd y ddarpariaeth, sut y gallwn sicrhau bod cynifer o blant â phosibl yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth o ansawdd uchel a'r hyn y mae angen i ni ei wneud i gefnogi ein gweithlu. Mae Llywodraeth Cymru yn cychwyn ar daith i fabwysiadu dull Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar (ECEC) yng Nghymru ar gyfer plant 0-5 oed.

**Dechrau'n Deg i blant dan 4 oed**

Mae Dechrau'n Deg yn Ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Datblygwyd y rhaglen Dechrau'n Deg ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Mae pedair elfen graidd, gan gynnwys gofal plant rhan-amser, o ansawdd uchel, gwell ymweliadau iechyd, cymorth magu plant a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i barhau i gefnogi ein rhaglen flaenllaw Dechrau'n Deg. Ac, yn unol â'r Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru, rydym wedi ymestyn yr ymrwymiad hwn i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r gwaith o gyflwyno cam un yr ehangu wedi dechrau erbyn hyn, ac mae'n cynnwys cynnig yr holl wasanaethau Dechrau'n Deg i tua 2,500 ychwanegol o blant dan bedair oed. Dyma'r cam cyntaf tuag at ein hymrwymiad uchelgeisiol i ehangu gofal plant a ariennir i bob plentyn dwy oed, fel y nodir yn y Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Rydym yn disgwyl i Gyfnod 2 gefnogi miloedd yn rhagor o bobl ifanc 2 oed i gael gofal plant o ansawdd uchel. Mae canllawiau drafft ar gyfer Cam 2 wedi cael eu rhannu ag awdurdodau lleol i gael sylwadau arnynt. Bydd gofyn iddynt rannu eu cynlluniau ar gyfer cyflawni gyda ni ym mis Ionawr 2023.

**Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – Y Blynyddoedd Cynnar**

Gwyddom fod datblygiad Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu yn ffordd bwysig o ragweld cynnydd yn nes ymlaen mewn llythrennedd. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu gwan ymysg plant yn cael effaith ar amrywiaeth eang o ganlyniadau, gan gynnwys ymddygiad ac iechyd meddwl, llesiant a chyflogadwyedd. Dyna pam rydym wedi blaenoriaethu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, gan eu bod yn hanfodol ar gyfer canlyniadau hirdymor cadarnhaol. Nod Siarad gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, yw ceisio sbarduno gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau SLC.

Rydym yn diogelu ein buddsoddiad yn 2023-24 i gefnogi'r ymrwymiadau yn Siarad gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu i gyflawni ein hymrwymiad cyffredinol i wella canlyniadau i blant drwy ddull newydd o hyrwyddo a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.

**6. Gwybodaeth fanwl am ddyraniadau yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal a mesurau atal a chefnogi cysylltiedig**

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth fanwl am y dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft gyffredinol 2023-24 fel sy'n berthnasol i'n gwasanaethau ymchwiliad a lansiwyd yn ddiweddar ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal: archwilio diwygiadau radical, gan gynnwys:

- Cyn gofal: Lleihau nifer y plant yn y system ofal yn ddiogel. Yn cynnwys dyraniadau ar gyfer cymorth i deuluoedd, gwasanaethau ar ffiniau gofal ac eiriolaeth i rieni.
- Mewn gofal: Gwasanaethau o safon a chefnogi plant mewn gofal. Yn cynnwys trafodaethau gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch costau cynyddol posibl gofal cymdeithasol i blant a lliniaru unrhyw effaith ar blant
- Ar ôl gofal: Cefnogaeth barhaus pan fydd pobl ifanc yn gadael gofal gan gynnwys y sefyllfa ddiweddaraf ar y cynllun peilot incwm sylfaenol ac ar gyllid ar gyfer Pan Fydda i'n Barod mewn gofal maeth.

**Y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol**

Cyflwynwyd y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ym mis Ebrill 2022 i gefnogi gweithgarwch i hyrwyddo diwygio a gwella gofal cymdeithasol, i ategu'r cyllid a ddarperir yn y setliad Llywodraeth Leol. Defnyddir y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r gwaith o ddiwygio Gofal Cymdeithasol, i wella'r ddarpariaeth a chynyddu cynaliadwyedd gwasanaethau ar draws y sector gofal cymdeithasol. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio gofal cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Ein huchelgais yw newid y system gyfan ac, wrth ei gwraidd, rydym am weld mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu galluogi i fyw gyda'u teuluoedd ac yn eu cymdogaethau cartref gyda llawer llai angen mynd i ofal. Yr ydym hefyd am sicrhau bod y cyfnod y mae pobl ifanc mewn gofal mor fyr â phosibl.

Rydym wedi ymrwymo i gadw teuluoedd gyda'i gilydd. Ein gweledigaeth yw ailgynllunio'r ffordd yr ydym yn gofalu am blant a phobl ifanc fel y gallwn wneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli'n lleol, sydd wedi'u cynllunio'n lleol ac sy'n atebol yn lleol. Mae'n ymwneud â rhoi'r math iawn o ofal ar waith ar gyfer pob plentyn: diwygio a chydgysylltu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a chefnogi'r rhai sy'n gofalu am blant yn well.

Bydd y cynnydd yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol o £10m i £52m yn 2023-24 ac ailddyrannu cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i wella'r gefnogaeth a ddarperir i Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Dyfarnwyd cyllid i Awdurdodau Lleol i gefnogi cynigion i gyflawni'r ymrwymiadau hyn.

**Dileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal**

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, mae ymrwymiad clir i 'leihau elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal' fel elfen allweddol o'r agenda radical hon.

Mae'r dyraniad yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu o £10m yn 2022/23 i £16m yn 2023/24.

Mae adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am gael gofal gan sefydliadau preifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylid cael marchnad ar gyfer gofal i blant, nac y dylid gwneud elw o ofalu am blant sy'n wynebu heriau penodol yn eu bywydau ac mae'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i roi terfyn ar hyn. Mae hyn yn golygu y bydd y gofal i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan sefydliadau sector cyhoeddus, elusennol neu ddielw.

Ein nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi yng ngofal plant sy'n derbyn gofal yn gwneud elw i unigolion nac endidau corfforaethol, ond yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant i ddarparu gwell profiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc, gan roi sylw i ddatblygu a gwella gwasanaethau a datblygiad proffesiynol pellach i staff.  Rydym yn bwriadu canolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar ofal preswyl a gofal maeth i blant.

Dros weddill tymor y Senedd hon, mae angen i ni ganolbwyntio ar weithio gyda phlant sydd â phrofiad o ofal, awdurdodau lleol a phartneriaid i gynyddu darpariaeth gyhoeddus a dielw felly mae sylfaen gref i bontio i ofal dielw sy'n diwallu anghenion a hawliau plant a phobl ifanc.

**Diwygio Radical**

Mae'r dyraniad yn y Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol ar gyfer diwygio gwasanaethau plant yn radical wedi cynyddu o £3m yn 2022/23 i £10m yn 2023/24.

Rydym wedi ymrwymo drwy ein Rhaglen Lywodraethu i edrych ar ddiwygio radical ar y gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn gwireddu gweledigaeth ac uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar ymarfer cyson, ymddygiadau llai gwrth-risg a dulliau adferol cenedlaethol a fabwysiadwyd ledled Cymru. Nid cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn unig yw cyflawni'r weledigaeth hon; mae'n gofyn am weithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau'r trydydd sector.

Bydd y rhaglen yn darparu ymyriadau ataliol i deuluoedd sydd â phlant ar gyrion gofal gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth i rieni, cynadleddau grwpiau teulu, diwygio Cyfiawnder Teuluol a fframwaith ymarfer cenedlaethol.  Bydd hefyd yn galw am fwy o ymyrraeth a chefnogaeth i awdurdodau lleol nad ydynt yn cyflawni ein huchelgais i leihau nifer y plant mewn gofal yn sylweddol, a dyma fu ffocws ymweliadau diweddar Gweinidogion ag awdurdodau lleol a bydd yn parhau felly ar gyfer gweddill yr ymweliadau hyn.

**Gwaith trawslywodraethol/sector ar atal**

Mae cynnal ein rhaglen Dechrau'n Deg flaenllaw yn Ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu. Datblygwyd y rhaglen Dechrau'n Deg ar sail tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio o ran rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Mae pedair elfen graidd, gan gynnwys gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel sy'n cael ei ariannu, mwy o ymweliadau iechyd, cymorth magu plant, a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn Dechrau'n Deg, sy'n rhaglen flaenllaw sy'n cyrraedd tua 36,000 o blant dan bedair oed sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ym mhob cwr o Gymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos ei fod yn gwneud gwahaniaeth i'r plant hynny sy'n manteisio ar y rhaglen. Mae cyllidebau refeniw craidd wedi cael eu diogelu ar gyfer cymorth a chefnogaeth gynnar, gan gynnwys ar gyfer Dechrau'n Deg, gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi mwy o blant a theuluoedd ledled Cymru a sicrhau ein bod yn cefnogi ein plant ieuengaf i gael y dechrau gorau mewn bywyd.  Fodd bynnag, yn ôl y bwriad, rydym yn gweld diwedd ar y cyllid ychwanegol ar gyfer y Gronfa Datblygiad Plant a'n cynllun Cymorth Cynnar.  Darparwyd y cyllid hwn fel ymateb dwys tymor byr i'r pandemig ac mae'n dod i ben yn unol â chynlluniau gwaith.

Yn y Rhaglen Lywodraethu ddiweddaraf ac yn dilyn y Cytundeb Cydweithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn dwy oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd Cam 2 yr ehangu yn digwydd yn ystod 2023-24 a 2024-25. Bydd yn adeiladu ar ehangu Cam 1, lle rydym yn ymestyn darpariaeth Dechrau'n Deg i 2,500 o blant ychwanegol, gyda'r ddarpariaeth ychwanegol yn dechrau ym mis Medi 2022. Bwriedir ehangu eto yn 2023-24.

**Rhaglen Drawsnewid Integreiddio’r Blynyddoedd Cynnar**

Mae Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn canolbwyntio ar ddatblygu system blynyddoedd cynnar fwy cydgysylltiedig ac ymatebol sy’n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth galon y system, ac sy’n cynnwys y cyfnod cyn-geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (0-7).

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru i ystyried sut i ddarparu gwasanaethau’r blynyddoedd cynnar mewn ffordd fwy systematig, gan ddefnyddio’r gwersi a ddysgwyd o’n rhaglenni presennol, fel Dechrau’n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

Mae’r rhan fwyaf o’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bellach yn rhan o’r rhaglen fel cynlluniau braenaru. Rydym yn buddsoddi £6m yn 2023-24 i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws holl ranbarthau Byrddau Iechyd yng Nghymru, wrth iddynt brofi’r elfennau craidd ar gyfer system blynyddoedd cynnar a threialu gwahanol fodelau a dulliau darparu aml-asiantaeth, gan adeiladu ar yr hyn sy’n gweithio’n dda mewn rhaglenni presennol fel Dechrau’n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.

**Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu – Y Blynyddoedd Cynnar**

Gwyddom fod datblygiad Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu yn ffordd bwysig o rag-weld cynnydd yn nes ymlaen mewn llythrennedd. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu gwan ymysg plant yn cael effaith ar amrywiaeth eang o ganlyniadau, gan gynnwys ymddygiad ac iechyd meddwl, llesiant a chyflogadwyedd. Dyna pam rydym wedi blaenoriaethu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant, gan eu bod yn hanfodol ar gyfer canlyniadau hirdymor cadarnhaol. Nod Siarad gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu, yw ceisio sbarduno gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau SLC.

Rydym yn diogelu ein buddsoddiad yn 2023-24 i gefnogi’r ymrwymiadau yn Siarad gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu i gyflawni ein hymrwymiad cyffredinol i wella canlyniadau i blant drwy ddull newydd o hyrwyddo a chefnogi anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant.

**Cyflog Byw Gwirioneddol**

Bydd dyraniad y Cyflog Byw Gwirioneddol tua £70m yn 2023-24. Bydd y cynnydd yn berthnasol i weithwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal a gofal cartref (gwasanaethau oedolion a phlant) a gweithwyr gofal cartref cofrestredig mewn lleoliadau byw â chymorth. Bydd hefyd yn cael ei dderbyn gan bob cynorthwyydd personol sy’n cael ei ariannu drwy daliad uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.

**7. Costau deddfwriaeth**

- Gweithredu Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn ei flwyddyn gyntaf mewn grym ac unrhyw addasiadau i ddyraniadau a wnaethpwyd yng ngoleuni blwyddyn gyntaf y gweithredu.

**Diweddariad 2022-23**

Daeth Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 i rym ar 21 Mawrth 2022.
Yn ystod y flwyddyn ariannol 2022-23 hyd yma, mae’r gwaith gweithredu wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth; gweinyddu Grant Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y tu allan i’r Llys; a chasglu data, monitro ac ymchwil gymdeithasol i oleuo’r adolygiad ôl-weithredu o’r ddeddfwriaeth.

***Codi ymwybyddiaeth:*** Fel y cyhoeddwyd at ddibenion craffu ar y gyllideb y llynedd, £400,000 yw'r dyraniad cyllideb ar gyfer yr ymgyrch rhoi terfyn ar gosbi corfforol yn 2022-23, ac rydym yn disgwyl gwario'r dyraniad llawn. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o ddyraniad y gyllideb ar gyfer 2021-22, pan oedd angen canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth helaeth, ac ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, cyn i'r newid yn y gyfraith ddod i rym. Mae codi ymwybyddiaeth barhaus yn dal yn bwysig er mwyn helpu i gyflawni'r amcan polisi o leihau nifer yr achosion o gosbi plant yn gorfforol, a chynyddu'r gefnogaeth i'r egwyddor bod cosbi plant yn gorfforol i gyd yn annerbyniol. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli (sydd wedi bod yn rhan o'n strategaeth ymgysylltu am y tair blynedd flaenorol) yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ariannol, ond rydym wedi lleihau'r lefelau ymgysylltu hyn yn raddol a byddwn yn adolygu canfyddiadau ein gwaith ymgysylltu i lywio gweithgarwch yn y dyfodol.

Ar ben hynny, dyrannwyd £400,000 i'r rhaglen *Magu Plant*. *Rhowch amser iddo* i gynyddu'r gallu i gyfleu negeseuon am fagu plant yn gadarnhaol a dewisiadau cadarnhaol yn lle cosb gorfforol. Mae'r ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo* yn parhau i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth gyda magu plant drwy wefan bwrpasol, hysbysebu digidol a sianeli cyfryngau cymdeithasol. Ar ôl codi'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â Covid, mae sioe deithiol *Magu Plant.* Rhowch amser iddo hefyd wedi ymweld ag amrywiol leoliadau ledled Cymru, gan weithio gyda'r gweithlu magu plant lleol i gyrraedd a darparu gwybodaeth a chyngor i rieni a gofalwyr yn yr ardal leol.

***Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys:*** Buom yn gweithio'n agos gyda'r heddlu, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill i lunio cynigion ar gyfer cynllun dargyfeirio a fyddai'n galluogi'r heddlu i gyfeirio unigolion at awdurdodau lleol i gynnig cymorth magu plant wedi'i deilwra, fel amod o benderfyniad y tu allan i'r llys. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £810,000 o gyllid grant i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth hwn. Mae data'n cael ei gasglu i ddeall mwy am sut mae'r grant yn cael ei ddefnyddio, gan gynnwys nifer yr atgyfeiriadau drwy'r cynllun, a bydd hwn yn cael ei gyhoeddi pan fydd ar gael ac yn cael ei sicrhau o ran ansawdd. Lluniwyd canllawiau cynhwysfawr mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol a'r heddlu, ac mae'r rhain ar gael yma:
Grant Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys: canllawiau | LLYW.CYMRU

***Casglu, monitro a gwerthuso data:*** Nid yw ein trefniadau ar gyfer casglu a monitro data yn golygu cost cyllideb, gan fod gwaith casglu a dadansoddi data yn cael ei reoli gan staff Llywodraeth Cymru, gyda mewnbwn gan ein partneriaid mewn awdurdodau lleol, heddluoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Rydym wedi comisiynu ymchwil i olrhain lefelau ymwybyddiaeth ac agweddau tuag at gosbi corfforol, drwy gwmni omnibws Beaufort (gwaith maes a gyflawnwyd ym mis Tachwedd 2022); amcangyfrifir bod cost yr arolwg hwn a'r adroddiad yn llai na £10,000 yn 2022-23.

**Gwariant a ragwelir ar gyfer 2023-24:**

Bydd y flaenraglen waith yn parhau i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu; cefnogaeth gyda magu plant y tu allan i'r llys; a chasglu, monitro a gwerthuso data.
Mae dyraniad y gyllideb ar gyfer y gwaith gweithredu yn 2023-24 hyd at £1,260,000, sy'n cynnwys:

- Hyd at £400,000 ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu
- Hyd at £810,000 ar gyfer Grant Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys
- Hyd at £50,000 ar gyfer ymchwil a gwerthuso, gan gynnwys yr arolwg a'r adroddiad olrhain ymwybyddiaeth rheolaidd, ac ymchwil ansoddol ychwanegol posibl a fydd yn archwilio effaith y ddeddfwriaeth ar y rheini a allai gael eu heffeithio ganddi.

***Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu:*** Dyrannwyd hyd at £400,000 i gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl ledled Cymru yn ymwybodol o'r newid yn y gyfraith.

Mae ein hasiantaeth gyfathrebu yn defnyddio arolwg omnibws i dracio lefelau ymwybyddiaeth yn rheolaidd, sy'n dangos bod *Stopio Cosbi Corfforol* wedi llwyddo i gyrraedd lefelau uchel o ymwybyddiaeth. Yng ngoleuni hyn, rydym yn ystyried a allwn wneud rhywfaint o arbedion mewn cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol, ond byddwn yn parhau i ddarparu gohebiaeth wedi'i thargedu mewn meysydd penodol ac ar gyfer grwpiau penodol. Er enghraifft, gwyddom o wledydd eraill ei bod yn bwysig parhau i sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael i rieni newydd, ac i newydd-ddyfodiaid i'r wlad. Mae'n bosibl, felly, y bydd y gwariant ar godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu yn llai na £400,000, gan fod dulliau cyfathrebu wedi'u targedu yn gyffredinol yn costio llai na dulliau cyfathrebu torfol, ond byddwn yn monitro'r sefyllfa'n ofalus.
***Cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys:*** Dyrannwyd cyllid dangosol o £810,000 y flwyddyn ar gyfer cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys hyd at 2024-25, i'n galluogi i adolygu a yw'r cyllid wedi'i anelu at y lefel gywir i helpu i sicrhau bod y cynllun dargyfeirio'n llwyddiannus.

Mae'n rhy fuan eto i ddod i unrhyw gasgliadau am hyn. Mae angen rhywfaint o amser ar y cynllun, ac mae angen i ni gasglu data am ychydig flynyddoedd i asesu canlyniadau'r cynllun.

Dylid nodi, os yw'r cymorth rhianta ychwanegol sy'n cael ei gaffael drwy'r grant yn fwy na'r angen i gefnogi'r cymorth rhianta ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys sy'n cael ei ddarparu ochr yn ochr â datrysiad y tu allan i'r llys sy'n cael ei gynnig gan yr heddlu, yna mae capasiti ychwanegol ar gael i gefnogi'r cymorth rhianta ehangach sy'n cael ei gynnig gan yr awdurdod lleol. O'r herwydd, mae'r grant yn cefnogi amcanion polisi'r newid yn y gyfraith drwy hyrwyddo rhianta cadarnhaol, gan gynnwys sut i ddarparu arweiniad a disgyblaeth drwy ddulliau cadarnhaol yn lle cosbi corfforol.
***Ymchwil***: Bydd hyd at £10,000 o'r £50,000 o ddyraniad cyllideb ar gyfer ymchwil yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr arolwg a'r adroddiad olrhain omnibws blynyddol. Bydd y gweddill ar gael i gefnogi'r posibilrwydd o gaffael ymchwil ansoddol gydag ymarferwyr i archwilio sut mae'r newid yn y gyfraith wedi effeithio ar ddarpariaeth rheng flaen, os o gwbl.

- Goblygiadau ariannol neu a ragwelir yn 2022-23 a 2023-34 unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o fewn portffolio'r Gweinidog.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU.

**8. Effaith costau byw ar ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2023-24**

Gwybodaeth am effaith ddisgwyliedig costau byw ar yr MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2023-24 a chyfrifoldebau polisi ehangach y Gweinidog ar gyfer:

- Darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru ac effaith costau ynni cynyddol ar y ddarpariaeth hon.
- Polisi a goruchwylio'r ddarpariaeth o holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau cysylltiedig gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, yn benodol:
- Effaith costau byw ar wasanaethau diogelu plant o ran anghenion cynyddol posibl ac unrhyw gostau uwch sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau
- Effaith costau byw o ran darparu gofal cymdeithasol i blant, er enghraifft costau uwch gofal preswyl a maeth; costau byw uwch i aelwydydd sy'n cefnogi trefniadau Gofal gan Berthynas neu Warcheidwaeth Arbennig.

**Costau Byw**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith yr argyfwng costau byw ar iechyd a lles y boblogaeth, ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi pobl drwy'r argyfwng costau byw hwn drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r rheini sydd ei angen fwyaf a thrwy raglenni a chynlluniau sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl. Yn y flwyddyn ariannol hon, mae hyn yn werth tua £1.6bn ar draws holl gyllideb Llywodraeth Cymru.

Bydd y dyraniadau cyllideb drafft yn parhau i gynnig cymorth i'r rhai mwyaf anghenus, drwy amrywiaeth o raglenni a chynlluniau gros y llywodraeth. Er enghraifft, byddwn yn parhau i gynnig talebau Cychwyn Iach i ddarparu cymorth ychwanegol i brynu ffrwythau a llysiau iach yn ystod beichiogrwydd ac i rieni plant ifanc. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ein dull system gyfan o wella lles meddyliol mewn ysgolion a mynediad rhwydd at gymorth iechyd meddwl, er enghraifft ein llinell gymorth CALL a therapi ar-lein.

Mae'r Cabinet wedi cytuno yn y gyllideb ddrafft i gynnal cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol ar y lefelau presennol ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf (£38.5 miliwn), gan ddarparu £18.8 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar gyfer y gyllideb sylfaenol. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn edrych ar opsiynau polisi o ran yr hyblygrwydd presennol a gweithrediad y contract newydd sy'n dechrau ym mis Ebrill 2023 a bydd yn gwneud cyhoeddiad pan fydd y cynlluniau'n cael eu cwblhau. Mae partneriaid yn dweud bod y gronfa hon yn hanfodol, yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw. Ers mis Ebrill 2022 mae wedi darparu bron i £20 miliwn o gymorth i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol, sy'n cynnwys cymorth ar gyfer taliadau tanwydd oddi ar y grid.

Bydd ymdrechion ar y cyd yn parhau i roi arian yn ôl ym mhocedi pobl, drwy raglenni fel y cynnig gofal plant am ddim, prydau ysgol am ddim i bawb yn ogystal â chynnal y gefnogaeth bresennol, fel presgripsiynau am ddim.

Rydym yn cydnabod yr effaith y gall bod yn ddi-waith ei chael ar lesiant y gweithlu, a bydd ein cyllideb ddrafft yn ein galluogi i ddarparu Cymorth yn y Gwaith parhaus tan fis Mawrth 2025 sy'n adeiladu ar y Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith presennol a ariennir gan Ewrop i ehangu'r gefnogaeth o'i ddarpariaeth bresennol yng Ngogledd a De-orllewin Cymru i Gymru gyfan o fis Ebrill 2023 ymlaen. Bydd hyn yn galluogi mwy o bobl sy'n absennol o'r gwaith, neu sydd mewn perygl o fod yn absennol oherwydd eu salwch corfforol neu feddyliol, i gael cymorth iechyd galwedigaethol am ddim i aros mewn gwaith.

Rydym hefyd yn darparu cymorth cyflogadwyedd parhaus i bobl sy'n gwella o salwch meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau ac sy'n ddi-waith. Mae'r cymorth mentora cyfoedion hwn yn cael ei ddarparu tan fis Mawrth 2025 a bydd yn helpu'r bobl fwyaf ymylol sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur i gael gwaith cynaliadwy, yn codi incwm aelwydydd ac yn darparu llwybr o dlodi gan ddod â sicrwydd i unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer parhad ein Cronfa Cefnogi Gofalwyr lwyddiannus. Sefydlwyd y gronfa yn 2020, a'i nod yw lliniaru effaith ariannol y costau byw cynyddol i ofalwyr di-dâl drwy grantiau uniongyrchol a datblygu gwasanaethau cefnogi lleol. Mae'r gronfa wedi llwyddo i leihau caledi ariannol ar unwaith gan gysylltu mwy o ofalwyr di-dâl â chefnogaeth barhaus. Ers ei lansio, mae wedi bod o fudd i dros 10,000 o ofalwyr di-dâl. Yn 2021- 22, nid oedd 33 y cant o'r buddiolwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyn hynny. Mewn rhai ardaloedd roedd y ffigur hwn mor uchel â 70 y cant. Felly, drwy'r cynllun hwn, mae mwy o ofalwyr di-dâl yn cael cymorth ataliol i wella eu hiechyd meddwl a'u lles.

Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith wirioneddol ar ofalwyr ein teuluoedd agored i niwed yng Nghymru. Cafwyd sawl erthygl yn y wasg ac ymgyrch gan y Rhwydwaith Maethu yn nodi y gallai llawer o deuluoedd maeth a pherthnasau gael eu gorfodi i roi'r gorau i'r plant yn eu gofal os nad ydynt yn cael cymorth ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymchwil y Rhwydwaith Maethu ynghylch costau llawn gofalu am blentyn mewn gofal maeth. Credwn y dylai'r rhai sy'n gofalu am ein plant sydd â phrofiad o ofal gael digon o adnoddau i dalu am gostau'r plant yn eu gofal. Gwnaethom gomisiynu adolygiad cynhwysfawr o'r Lwfans Sylfaenol Cenedlaethol, sef y lwfans craidd sylfaenol y mae gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau yn ei dderbyn i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â

gofalu am y plant yn eu gofal. Y bwriad yw y bydd hyn yn gosod meincnod ar gyfer cyfraddau talu i bob gofalwr maeth a gofalwr sy'n berthnasau.  Roedd yr adolygiad yn cynnwys edrych ar yr union gostau sy'n gysylltiedig â gofalu am blentyn, a'r effaith ar allu teulu maeth i ennill neu ddiwallu anghenion yr holl blant yn y tŷ. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad er mwyn pennu cyfraddau talu yn y dyfodol.
Gan weithio ochr yn ochr â Maethu Cymru, rydyn ni'n edrych ar sut gallwn ni gysoni'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau er mwyn cynnig cefnogaeth gyson i ofalwyr ledled Cymru.  Bydd hyn yn cynnwys edrych ar sut gall awdurdodau lleol gefnogi rhai ymrwymiadau ariannol megis darparu gostyngiadau yn y dreth gyngor a chael gafael ar gyfleusterau hamdden i gefnogi teuluoedd ymhellach.

Yn ddiweddar, rydym wedi cynnal adolygiad o'r cymorth craidd sydd ar gael, gan gynnwys cymorth ariannol, i deuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig yng Nghymru.  Rydym wrthi'n adolygu'r canfyddiadau hyn a byddwn yn sefydlu Bwrdd Gweithredu Strategol i fwrw ymlaen â'r argymhellion o 2023/24 ymlaen.

**Cyflog Byw Gwirioneddol**
Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn ymrwymiad allweddol yn ein rhaglen lywodraethu i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol. Bydd sicrhau gwell cyflog drwy godi'r Cyflog Byw Gwirioneddol sydd yn ein cyllideb ddrafft yn helpu i fynd i'r afael â chyflogau isel sy'n gysylltiedig â'r sector, yn cefnogi'r argyfwng costau byw ac yn gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau a bywoliaeth, a dyma'r gwahaniaeth sy'n sicrhau bod gwaith yn talu a bod modd talu costau byw.

Papur 10a – Atodiad A - Sylwadau ar bob un o Gamau Gweithredu y cyllidebau Plant yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Derfynol 2022-23 a Chyllideb Ddrafft 2023-24

| **Cam Gweithredu: Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu<br>BEL 060 – Dyraniad y Blynyddoedd Cynnar Cymru Iachach** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 (2024-25) £m** |
| 7.1 | - | 7.1 | 3.8 | - | 3.8 |

Mae BEL 60 yn y Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu yn cynnwys y dyraniad cyllid gwreiddiol a wnaed i gefnogi Cymru Iachach.

Fel rhan o'r ddarpariaeth gyllidebol hon, pennwyd llinell sylfaen o £7m i gefnogi'r Blynyddoedd Cynnar (fel ar gyfer y gyllideb atodol gyntaf yn 2021).

Fel rhan o'r cynnydd o £28m yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar a nodwyd yn 22-23, dyrannwyd £11.5m i ddechrau i BEL 60. Mae amryw o drosglwyddiadau cyllidebol wedi'u gwneud i'r Grant Plant a Chymunedau, sydd bellach yn rhan o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r gyllideb ar gyfer 24-25 yn cynrychioli'r balans sy'n weddill.

| **Cam Gweithredu: Cefnogi Plant** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 (2023-24) £m** | **Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m** | **Newid £m** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24 (2024-25) £m** |
| 111.256 | 170.235 | 281.491 | 112.106 | 177.685 | 289.791 |

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn y cam gweithredu hwn yn cefnogi'r cynnig gofal plant (sy'n ddarostyngedig i drefniadau craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg). Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer y Grant Trawsnewid Plant sy'n Derbyn Gofal, sy'n darparu cyllid i nifer o fentrau sy'n gwella canlyniadau plant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau bod pob plentyn mewn gofal yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phlant eraill. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb Plant Agored i Niwed sy'n cefnogi plant sydd wedi cael eu mabwysiadu er mwyn sicrhau

y gallan nhw a'u teulu gael gafael ar y gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt i ddechrau eu bywyd fel teulu.

**Esboniad o'r Newidiadau i Gam Gweithredu Cefnogi Plant**

**Trosglwyddiadau MEG i MEG (Cylchol)**

- **£160.235m (23-24) a £167.685m (24-25)** – Trosglwyddiad cylchol o gyllid y Grant Plant a Chymunedau i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Addasiadau i'r gyllideb yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£10.000m** – Cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer Dechrau'n Deg i gefnogi ehangu. Addasiad cylchol o Gam Gweithredu i Gam Gweithredu yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

| Cam Gweithredu: CAFCASS Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Derfynol 2022 (2023-24) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (2023-24) £m | Cyllideb Derfynol 2022 (2024-25) £m | Newid £m | Cyllideb Ddrafft 2023-24 (2024-25) £m |
| 14.725 | 0.470 | 15.195 | 17.725 | 0.470 | 15.195 |

Mae Cafcass Cymru yn wasanaeth gweithredol a gaiff ei arwain gan alw sy'n darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae ymarferwyr Cafcass Cymru yn gweithio gyda bron i 11,200 o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y system cyfiawnder teuluol, gan sicrhau bod ein hymyriadau yn hyrwyddo llais y plentyn, yn canolbwyntio ar eu hawliau, eu llesiant a'u buddiannau pennaf er mwyn cyflawni gwell canlyniadau i'r plentyn dan sylw yn y System Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn ceisio dylanwadu ar y system cyfiawnder teulu a gwasanaethau i blant yng Nghymru, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel i Weinidogion a sicrhau bod anghenion teuluoedd a phlant o Gymru yn cael eu hadlewyrchu mewn datblygiadau proses a pholisi. Ar wahân i gostau staffio a rhedeg y sefydliad, mae'r gyllideb yn darparu cyllid grant er mwyn helpu rhieni sydd wedi gwahanu, pan geir cyfarwyddyd i wneud hynny gan y Llys Teulu, i gael cyswllt â'u plant. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido'r gwaith o ddarparu'r rhaglen Gweithio Gyda'ch Gilydd er Lles Plant, sy'n cefnogi rhieni sydd wedi gwahanu, neu sydd wrthi'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad eu hunain yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn cael y brif flaenoriaeth.

**Esboniad o'r Newidiadau i Gam Gweithredu CAFCASS Cymru**

**Addasiadau i'r gyllideb yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 23-24 a 24-25**

- **£0.470m** – Cynnydd yn y gyllideb ar gyfer costau yn ymwneud â staff. Addasiadau technegol cylchol o Gam Gweithredu i Gam Gweithredu yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ailalinio ymrwymiad y gyllideb).

## Papur 11 - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – 19 Ionawr 2022 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

**Rhagymadrodd**

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys cynlluniau gwario ar gyfer 2023-24 i 2024-25. Yn y papur hwn cyflwynir tystiolaeth i'r Pwyllgor ynghylch cynigion cyllidebol ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol yn ymwneud â chyllidebau Tai, Adfywio a Thir fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd ar 13 Rhagfyr 2022.

Yn Atodiad A ceir dadansoddiad o'r ffigurau perthnasol o'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Newid Hinsawdd yn ôl Maes Rhaglen Wario, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL). Adlewyrchir y ffigurau hyn yn y tabl isod.

**Tablau Ariannol**

| | **2022-23 Cyllideb Derfynol £'000** | **2023-24 Cyllideb Ddrafft £'000** | **Newid £'000** | **2024-25 Cyllideb Ddrafft £'000** | **Newid £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 237,508 | 249,648 | 12,140 | 256,148 | 6,500 |
| Heb Fod yn Arian Parod | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **237,508** | **249,648** | **12,140** | **256,148** | **6,500** |
| **Cyfalaf** | **697,500** | **834,000** | **136,500** | **865,500** | **31,500** |

**Ni ddyrannwyd unrhyw gyfalaf trafodiadau ariannol fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft. Ystyrir a gwneir dyraniadau fel rhan o'r Gyllideb Derfynol.*

**Dyraniadau a wnaed i gefnogi Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Dai yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Yn unol ag egwyddorion rheoli cyllideb Llywodraeth Cymru, mae dyraniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn wedi targedu ymyriadau sy'n fforddiadwy ac yn cynnig gwerth am arian. Rhoddir manylion y dyraniadau hyn a'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu a gefnogir ganddynt yn y papur hwn.

Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig Strategol ochr yn ochr â'n Cyllideb Ddrafft ar 13 Rhagfyr; mae hwn yn nodi sut mae ein hymyriadau wedi cael eu targedu i fynd i'r afael ag effeithiau economaidd, effeithiau hinsawdd ac effeithiau eraill. Gwnaed dyraniadau drwy'r portffolio hwn i fynd i'r afael ag effeithiau a nodwyd a chan gofio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; darperir y manylion hyn yn y papur hwn.

**<u>Digartrefedd</u> – Dyraniad refeniw o £46.147m yn 2023-4, £5m pellach yn 24-25**

**Y Grant Cymorth Tai – Dyraniad refeniw o £166.8m yn 2023-24 a 2024-25**

Mae gwneud diwygiadau sylfaenol i wasanaethau digartrefedd er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym yn flaenoriaeth allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu, sy'n ymrwymo i "***Diwygio cyfraith tai a gweithredu argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym***". Mae diwygio'r system dai yn cynnig y cyfle i gyfrannu'n sylweddol at Gymru decach a mwy cyfartal.

Bydd cyllid refeniw ychwanegol o £10m yn y gyllideb Atal Digartrefedd yn rhoi hwb i'r buddsoddi mewn atal digartrefedd ac ymyriadau lliniaru ledled Cymru, yn helpu awdurdodau lleol i barhau â'n hegwyddor o 'beidio ag anghofio am heb', yn ogystal â pharhau i gefnogi datblygiad cynllun cenedlaethol sy'n ***cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref*** drwy estyn ein Cynllun Lesio Cenedlaethol. Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith o ddiwallu ein hamcan i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu cyflym a bydd Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf. Mae buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd yn cyflawni'n unol ag amcanion polisi allweddol, yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill ac yn gwella canlyniadau i unigolion a theuluoedd. Felly mae'r ffocws parhaus a chynyddol ar fesurau atal drwy'r Grant Cymorth Tai a'r Grant Atal Digartrefedd yn hanfodol.

Bydd ein cymorth yn sicrhau bod gennym system sy'n rhoi'r bobl gywir yn y cartrefi cywir yn y cymunedau cywir gyda'r cymorth cywir, er mwyn i bobl lwyddo a ffynnu. Mae angen i'r fframwaith deddfwriaethol, polisi a chyllid gael ei ddiwygio a'i gysoni i gyflawni hyn. Heb os, mae'r pandemig wedi cyflymu agweddau ar y gwaith ehangach o drawsnewid gwasanaethau digartrefedd, yn bennaf o ran yr ystyriaethau polisi ynghylch angen blaenoriaethol. Er mwyn sicrhau parhad y dull o 'beidio ag anghofio am neb' gwnaethom gyflwyno trefniadau cyfreithiol trosiannol yn ddiweddar, fel rhan o'r trawsnewidiad mwy hirdymor i ffwrdd oddi wrth angen blaenoriaethol ac at system sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd ac ailgartrefu cyflym. Er bod y dull hwn yn sicrhau nad oes neb yn cael eu gorfodi i gysgu allan yng Nghymru, mae'n arwain at niferoedd digynsail o bobl yn cael cymorth i gael llety dros dro - 8,652 o bobl ar 30 Medi 2022, sy'n rhoi cryn bwysau ar awdurdodau lleol o ran adnoddau.

Bydd y cyllid ychwanegol felly yn helpu awdurdodau lleol i gynyddu mesurau atal digartrefedd er mwyn ceisio lleihau'r llif o bobl sydd angen llety dros dro. Bydd hefyd yn cynorthwyo â chostau llety dros dro er mwyn parhau â'r dull o beidio ag anghofio am heb yn ystod y cyfnod pontio, cyn y diwygio deddfwriaethol ehangach a'r newid i ddull ailgartrefu cyflym. Bydd swyddogion yn gweithio gyda'r sector i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n cael yr effaith fwyaf.

O ystyried yr ystod eang o bobl y gall digartrefedd effeithio arnynt, rhoddwyd ystyriaeth sylweddol i grwpiau gwarchodedig. Rydym wedi edrych ar y data a gallwn weld bod angen gwasanaethau penodol ledled Cymru i wasanaethu grwpiau penodol o gleientiaid sydd ag anghenion unigryw. Mae'r Grant Cymorth Tai (a osodwyd ar linell sylfaen o £166.8m ar draws y ddwy flwyddyn ariannol) yn helpu i greu gwasanaethau mwy arbenigol a all gefnogi grwpiau gwahanol, e.e. menywod y mae digartrefedd, yn ogystal â cham-drin domestig a thrais rhywiol, yn effeithio arnynt. Drwy gael y fath gymorth, bydd menywod yn fwy tebygol o gysylltu â gwasanaethau, yn hytrach nag aros 'o'r golwg' ac mewn perygl. Yn yr un modd, bydd gwasanaethau sy'n sensitif o ran oedran neu rywioldeb yn hanfodol i gleientiaid LGBTQ+ ifanc sydd angen cymorth arbenigol er

mwyn teimlo'n ddigon diogel i geisio cymorth a symud i lety mwy parhaol.  Mae sicrhau ein bod yn diwallu anghenion pobl ethnig leiafrifol amrywiol hefyd yn bwysig, o ystyried effaith anghymesur digartrefedd ar rai pobl ethnig leiafrifol. Mae gwasanaethau cofleidiol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys cymorth i'r rhai â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau, wedi dod yn rhai prif ffrwd drwy'r cyllid ychwanegol a roddwyd i'r Grant Cymorth Tai yn 2021-22.

Mae'r buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd yn cyflawni'n unol ag amcan polisi allweddol, mae'n lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill ac yn gwella canlyniadau i unigolion a theuluoedd. Er enghraifft, amcangyfrifwn, ar hyn o bryd, oherwydd y pandemig, fod o leiaf 8,652 o bobl mewn llety dros dro ledled Cymru. Mae tystiolaeth gan Crisis UK yn dangos bod pobl sy'n ddigartref am dri mis neu fwy yn costio £18,388 ar gyfartaledd i wasanaethau cyhoeddus (iechyd a chyfiawnder troseddol) dros y cyfnod o 12 mis. Byddai hyn yn cyfateb i dros £159.1m mewn costau amcangyfrifedig i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (dros £55.7m mewn gwasanaethau iechyd yn unig) pe bai'r rhai sydd mewn llety brys ar hyn o bryd yn ddigartref am dri mis neu fwy. Mae'r ffocws parhaus ar fesurau atal drwy'r Grant Cymorth Tai i gadw pobl yn eu cartrefi yn hanfodol felly.

Amcangyfrifodd ymchwil gan Cymorth Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i effaith gymdeithasol ac ariannol y Grant Cymorth Tai fod y grant yn gwneud arbediad blynyddol gros i wasanaethau cyhoeddus o £300.4m, neu arbediad blynyddol net o £176.7m (o ystyried gwariant blynyddol y Grant ym mis Gorffennaf 2019). Mae hyn yn arbediad net amcangyfrifedig i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o £1.40 am bob £1 o gyllid ar gyfer y Grant. Mae pob punt o gyllid y Grant yn gwneud arbediad net amcangyfrifedig o £5.20 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

Felly, yn y pen draw, mae trawsnewid yn ymwneud â'r angen i symud adnoddau er mwyn lleddfu pwysau a galw o rannau eraill o'r system. Ceir tystiolaeth anecdotaidd yn ystod y pandemig fod darparu llety i bobl a oedd wedi wedi bod yn cysgu allan am gyfnod hir wedi galluogi gwasanaethau cyhoeddus ehangach i ymgysylltu â phobl, gan eu helpu i sefydlogi a rheoli arferion camddefnyddio sylweddau a defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a chorfforol, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau brys.

Bydd y cyllid ychwanegol a ddyrennir yn y gyllideb yn fodd i barhau i ddilyn y trywydd hwn wrth inni symud yn fwy tuag at atal, a galluogi gwasanaethau digartrefedd i bontio tuag at ddull ailgartrefu'n gyflym.

O'r dyraniad o £13m i'r BEL Digartrefedd yn 2023-24, bydd **£1.4m** yn cefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i*"**Defnyddio'r Ddeddf Rhentu Cartrefi i roi mwy o sicrwydd i rentwyr a datblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref"***. Rydym eisoes wedi cyhoeddi y byddwn yn cyflwyno cynllun lesio cenedlaethol ledled Cymru i wella mynediad i dai fforddiadwy tymor hwy yn y sector rhentu preifat. Bydd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r cynllun i gyflawni eu dyletswyddau o ran digartrefedd ac atal digartrefedd. Bydd perchnogion eiddo'n cael eu hannog i lesio eu heiddo yn gyfnewid am warant rhent a chyllid ychwanegol i wella cyflwr yr eiddo; a bydd tenantiaid yn elwa ar ddiogelwch deiliadaeth tymor hwy (rhwng 5 ac 20 mlynedd) ar renti sydd wedi'u cyfyngu i gyfraddau Lwfans Tai Lleol. Mae cyllid refeniw yn helpu awdurdodau lleol i staffio a gweinyddu'r cynllun ac mae'n sail i'r gwaith o gymell perchenogion eiddo a rhoi cymorth i denantiaid.

**<u>Cyflenwad y Sector Rhentu Preifat</u> – Dyraniad cyfalaf o £0.5m yn 2022-23, £1.5m yn 2023-24, a £1.5m yn 2024-25.**

Bydd mynediad i fwy o dai fforddiadwy o ansawdd da yn sbardun allweddol wrth helpu i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Bwriad y cynllun lesio i'r sector rhentu preifat, a elwir yn Cynllun Lesio Cymru, yw mynd i'r afael â rhai o'r anawsterau y mae landlordiaid a thenantiaid yn eu profi yn y sector rhentu preifat drwy wella mynediad at dai fforddiadwy tymor hwy yn y sector rhentu preifat. Mae'r cynllun yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru, gyda 15 o'r 22 Awdurdod Lleol wedi ymuno ar hyn o bryd. Mae'r cynllun yn cefnogi'n uniongyrchol y gwaith o gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ***ddatblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref***.

O dan y cynllun, anogir perchenogion eiddo i roi eu heiddo ar les i'r awdurdod lleol yn gyfnewid am sicrwydd rhent a chyllid ychwanegol i wella cyflwr yr eiddo a bydd yr awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r cynllun i gyflawni eu dyletswyddau o ran digartrefedd ac atal digartrefedd. Yr uchelgais erbyn diwedd blwyddyn 5 yw y bydd pob awdurdod lleol wedi lesio 1% o'u sector rhentu preifat drwy'r cynllun, sef oddeutu 1,500 eiddo ledled Cymru (yn seiliedig ar y 15 Awdurdod Lleol sydd wedi ymrwymo hyd yma). Yn y flwyddyn gyntaf hon o Gynllun Lesio Cymru, roedd tua 75% o'r eiddo sy'n dod yn rhan o'r cynllun wedi bod yn wag am fwy na chwe mis cyn hynny, sy'n helpu i gynyddu'r cyflenwad o eiddo sydd ar gael.

Bwriad y cynllun yw darparu llety i'r rhai sydd dan fygythiad o ddigartrefedd ac mae wedi'i gynllunio i adlewyrchu anghenion plant a rhieni a/neu ofalwyr, pobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a phobl eraill aallai wynebu rhwystrau penodol.

Gan fod y cynllun hefyd yn darparu cartref diogel i unigolion, mae manteision amrywiol yn gysylltiedig â hynny, gan gynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gan ei fod yn darparu llety tymor hwy ar gyfraddau lwfans tai lleol i gartrefi ar incwm isel, gan wneud y sector rhentu preifat yn hygyrch i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ariannol ar hyn o bryd neu sy'n byw yn y llety o'r ansawdd gwaethaf yn y sector hwnnw, heb fawr ddim sicrwydd deiliadaeth. Mae darparu tai o ansawdd da, lle sicrheir hyd deiliadaeth, yn helpu i atal a lliniaru cyflyrau corfforol a meddyliol tenantiaid, sydd yn ei dro'n arwain at lai o alw ar y GIG a at gymdeithas iachach.

Bydd rhoi mwy o sicrwydd o ran llety i denantiaid yn cyfrannu at Gymru Iach a mwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynus, a Chymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Dangosir hyn gan fanteision iechyd clir cael cartref o ansawdd da sy'n fforddiadwy ac a leolir mewn man diogel.

Mae buddsoddi yn y sector rhentu preifat yn cyfrannu at yr economïau lleol, gan greu a chefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi, a gwella iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd pobl. Fel rhan o'r gwaith hwn eir ati i wella'r stoc dai ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac ansawdd y stoc dai honno yn y sector rhentu preifat. Mae cefnogi'r gwaith o ddarparu cartrefi fforddiadwy hefyd yn helpu i greu swyddi, cyfleoedd hyfforddi a chadwyni cyflenwi datblygu tai lleol.

Mae'r rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru yn anelu at gefnogi'r rhai sydd â'r angen blaenoriaethol mwyaf am dai, a mentrau i ddarparu tai newydd a/neu fforddiadwy. Mae'r cynllun hwn yn ymdrin ag angen mewn modd gwahanol wrth iddo geisio lleddfu'r pwysau ar y galw am dai cymdeithasol trwy ei ddefnydd o'r sector rhentu preifat a chynyddu'r opsiynau i ddiwallu'r angen am dai brys.

**<u>Polisi Tai</u> – Dyraniad refeniw o £6.471m yn 2023-24, ar sail llinell sylfaen am y ddwy flynedd nesaf**

Mae £6.471m wedi cael ei ddyrannu i'r BEL Polisi Tai fel pecyn cyllid i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau i fodloni ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

Daeth deddfwriaeth Rhentu Cartrefi i rym ar 1 Rhagfyr 2022 a bydd hyn yn gwella diogelwch deiliadaeth yn sylweddol drwy sicrhau y bydd tenantiaid sydd heb dorri eu contract yn cael isafswm o chwe mis o rybudd i ddod o hyd i gartref newydd. Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn gwneud newidiadau pwysig eraill, megis amddiffyn tenantiaid rhag cael eu troi allan i ddial arnynt a sicrhau bod cartrefi yn addas i fyw ynddynt, a fydd yn cynnwys gosod larymau mwg a charbon monocsid a chynnal profion rheolaidd ar ddiogelwch trydanol..

Rydym hefyd yn cefnogi ***"Sicrhau bod landlordiaid Rhentu Doeth Cymru yn ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth a throseddau casineb ac yn cynnig cymorth priodol"*** drwy hyfforddi landlordiaid ac asiantiaid rheoli sy'n rhentu eiddo yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector a Rhentu Doeth Cymru i ddatblygu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ymateb yn gyflym i gwynion am hiliaeth a throseddau casineb ar gyfer yr holl landlordiaid ac asiantiaid rheoli sy'n rhentu eiddo yng Nghymru. Cyflwynir yr hyfforddiant ochr yn ochr â rhaglen gyfathrebu codi ymwybyddiaeth, sy'n targedu tenantiaid, a fydd yn canolbwyntio ar sut i roi gwybod am hiliaeth a throseddau casineb a ble i gael help a chefnogaeth.

Bydd cyllid refeniw ychwanegol £0.6m i gychwyn yn cefnogi'r gwahanol linynnau o weithgarwch o fewn y **Cynllun Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd** sy'n ategu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "***greu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg***". Mae hyn yn cynnwys uwch-reolwr cynllun peilot Llywodraeth Cymru, dau aelod staff penodedig yn yr ardal beilot, gwerthuso a chyfnewid arferion da. Mae £8.5m yn ychwanegol wedi'i ddarparu dros dair blynedd i gefnogi'r canllawiau pwrpasol ar gyfer Cymorth Prynu yn yr ardal beilot. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi Cyngor Gwynedd gyda'r sail dystiolaeth a'r costau gweithredol er mwyn rhoi cyfarwyddyd cynllunio Erthygl 4 ar waith yn yr ardal beilot (os bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu ei fod yn dymuno cymhwyso cyfarwyddyd yn yr ardal).

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'n glir ein hymrwymiad i fynd i'r afael â fforddiadwyedd mewn ardaloedd lle ceir nifer mawr o ail gartrefi, ac i ddatblygu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Cafodd ymgynghoriad ar y cynllun ei lansio gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 23 Tachwedd 2021 a lansiwyd y cynllun yn Hydref 2022. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu ar sawl ymyriad sydd â'r nod o gefnogi cymunedau Cymraeg. Yn eu plith mae cefnogi cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol a arweinir gan y gymuned, sefydlu grŵp llywio gwerthwyr tai a sefydlu comisiwn ar y Gymraeg. Bydd yr ymyriadau yn y cynllun drafft, os cânt eu datblygu yn dilyn yr ymgynghoriad, yn ategu'r gwaith a wneir yn ardal beilot ail gartrefi Dwyfor.

Byddwn yn cynnal ein cyllid i asiantaethau **Gofal a Thrwsio** er mwyn darparu gwasanaethau i gefnogi rhyddhau pobl o'r ysbyty yn gyflym ac atal derbyniadau i'r ysbyty**.** Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dirprwyo rhan o'u grant Galluogi gan Lywodraeth Cymru i asiantaethau Gofal a Thrwsio i gynyddu eu gallu i ddarparu gwasanaethau addasiadau, ac mae mwyafrif y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn comisiynu gwasanaethau ychwanegol gan Gofal a Thrwsio i ddiwallu anghenion lleol penodol.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd wedi ymrwymo i ***"Ddeddfu i weithredu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â diwygio lesddaliadau".***

Mae'r sector tai lesddaliadol yn rhan bwysig o'r farchnad dai genedlaethol. Mae'n cynnwys tua 4.5 miliwn o gartrefi yng Nghymru a Lloegr. Mae tua dwy ran o dair o'r rhain yn fflatiau ac mae traean yn dai. Yng Nghymru, mae lesddaliadau yn cyfrif am tua 16% o'r holl anheddau. Mae hyn yn cyfateb i ffigur bras iawn o 235,000 o gartrefi. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cynnig diwygiadau eang er mwyn ei gwneud hi'n haws i lesddeiliaid estyn neu brynu rhydd-ddaliad eu cartrefi, ac i hyrwyddo mabwysiadu cyfunddaliad fel math o berchenogaeth sy'n cynnig mwy o hawliau na lesddaliad. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i ddiwygio'r system lesddaliadau drwy gydweithio â Llywodraeth y DU, yn enwedig am fod rhai agweddau ar y ddeddfwriaeth i weithredu argymhellion

Comisiwn y Gyfraith yn debygol o ymwneud â materion a gadwyd yn ôl. Drwy ddilyn y trywydd hwn gellir cyflwyno set fwy cynhwysfawr a buddiol o ddiwygiadau i lesddeiliaid yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Bydd cyllid ychwanegol parhaus yn helpu i ymgysylltu â datblygu'r ddeddfwriaeth bwysig hon, gan sicrhau bod y newidiadau a wneir yn cwrdd ag anghenion lesddalwyr Cymru.

Drwy weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio lesddaliadau a sicrhau bod mannau agored a chyfleusterau ar ystadau yn cael eu hariannu'n deg, sy'n un o ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn cyfrannu at ein hamcan llesiant o wneud ein dinasoedd, trefi a phentrefi yn fannau hyd yn oed yn well i fyw a gweithio ynddynt.

Bydd y cyllid ychwanegol hefyd yn cefnogi gwaith i ***"Gyhoeddi Papur Gwyn i gyflwyno cynigion ar gyfer yr hawl i gartrefi digonol, gan gynnwys rhenti teg a ffyrdd newydd o sicrhau bod cartrefi'n rhai y gall pobl ar incwm lleol eu fforddio"***. Bydd cyllid yn cefnogi gwaith i sefydlu sail dystiolaeth ac i ddatblygu polisi o ran yr ymrwymiad hwn i ddatblygu papur gwyn ar Renti Teg a'r Hawl i Gartrefi Addas.

Bydd y balans y cyllid yn helpu i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gan bawb gartref addas ac y cyflawnir cydraddoldeb ac y cyrhaeddir safonau tai uchel ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyflawni'r ymrwymiadau yn y Rhaglen Llywodraethu sy'n cynnwys **Datblygu *mesurau treth, cynllunio a thai effeithiol pellach i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwarchod.*** Mae'r ymrwymiadau hyn yn ymwneud â'n gwaith ym maes datrys materion ail gartrefi a thai fforddiadwy. Hyd yma, rydym wedi ymgynghori ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar, ac wedi lansio ymgyngoriadau ar newidiadau posibl i'r system gynllunio a'r Dreth Trafodiadau Tir. Caiff penderfyniadau yn ymwneud â'r meysydd hynny, ac effeithiau ariannol opsiynau, eu hasesu'n llawn yn unol â'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym hefyd wedi sefydlu cynllun peilot i brofi ymyriadau yn Nwyfor. Bydd y gyllideb yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno a gwerthuso'r cynllun peilot yn ogystal â chydgysylltu'n ganolog ein gwaith o ddatblygu a gweithredu polisïau.

**<u>Diogelwch Adeiladau</u> - Dyraniad refeniw o £6.000m yn 2023-4, £0.5m pellach yn 2024-25. Dyraniad cyfalaf o £135m yn 2023-24, a £165m yn 2024-25.**

Mae Diogelwch Adeiladau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol bwysig bod preswylwyr yn teimlo'n saff ac yn ddiogel yn eu cartrefi.

Roedd y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiadau a'r ymholiadau yn nodi meysydd i wella diogelwch ein hadeiladau. Fe wnaethom gynnigTrefn Diogelwch Adeiladau newydd i Gymru sy'n cyflwyno newidiadau sylweddol i'r system bresennol.

Mae dau faes gwaith penodol yn Rhaglen Diogelwch Adeiladau Cymru:

- mynd i'r afael â materion diogelwch tân mewn adeiladau o 11 metr a throsodd yn ein stoc adeiladu bresennol

- diwygio'r drefn diogelwch adeiladau yn sylweddol, gan edrych ar sut rydym yn sicrhau bod adeiladau sydd ag anheddau lluosog yn cael eu gwneud mor ddiogel â phosibl yn y dyfodol.

Mae helpu i adfer adeiladau sydd â diffygion diogelwch tân presennol, gan ddelio'r un pryd â'r her o ddal y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif, yn gymhleth iawn - yn enwedig gan nad yw pob agwedd ar y materion hyn o fewn pwerau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â diogelwch adeiladau yng Nghymru a pharhau i ddatblygu ein rhaglen adfer adeiladau ochr yn ochr â rhaglen ddiwygio sylweddol i sefydlu trefn diogelwch adeiladau addas i'r diben yng Nghymru.

Ar 30 Medi 2021 agorwyd Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, gan ofyn i Bersonau Cyfrifol adeiladau o uchder canolig a mawr gyflwyno datganiad o ddiddordeb.  Dyma'r man cychwyn ar gyfer cael mynediad at gymorth gan Lywodraeth Cymru.

Hyd yn hyn (20 Medi 2022) rydym wedi derbyn 261 o ddatganiadau o ddiddordeb.

Mae arolwg digidol wedi'i gynnal ar gyfer pob un o'r 261 o ddatganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd hyd yma.

Os nad oes gwybodaeth a thystiolaeth ar gael, neu os ydynt wedi dyddio, yn anghyflawn neu'n codi pryderon am risg diogelwch tân, mae'r adeiladau hynny wedi'u nodi ar gyfer gwaith arolygu ymwthgar pellach.  Mae 163 o adeiladau wedi'u nodi sy'n gofyn am arolygon ymwthgar pellach. Mae'r arolygon hyn a y gweill ac mae 105 o arolygon wedi'u cwblhau hyd yma.

Telir am y gwaith arolwg digidol ac ymwthgar gan Lywodraeth Cymru. Drwy ariannu a chomisiynu'r arolygon, bydd Llywodraeth Cymru'n cael darlun clir, cyson a chynhwysfawr o faterion yn ymwneud â diogelwch adeiladau ledled Cymru.

Rydym hefyd wedi cytuno i ddarparu cyllid ar gyfer arolygon a wnaed cyn lansio'r Rhaglen Diogelwch Adeiladau, yn amodol ar fodloni rhai meini prawf penodol.

Mae'r gwaith arolygu hwn yn hanfodol os ydym am ddeall y gwaith adfer sy'n angenrheidiol i leihau risg tân mewn adeiladau o uchder canolig a mawr yng Nghymru.

Ochr yn ochr â gwaith arolygu, rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau â datblygwyr i sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod datblygwyr yn talu i adfer materion diogelwch tân.  Mae hyn yn cynnwys paratoi Cytundeb Datblygwyr a dogfennau cyfreithiol ffurfiol fel sail iddo.

Mae'r gwaith hwn yn cymryd amser, ac rydym wedi lansio Cynllun Cymorth i Lesddalwyr i gefnogi lesddalwyr sydd mewn caledi ariannol difrifol, gan gynnig cyngor ariannol annibynnol a lle bo hynny'n briodol, yr opsiwn i werthu eu fflat a naill ai ei rentu'n ôl neu symud ymlaen.

Bydd cyllid cyfalaf yn cefnogi'r gwaith o gyweirio adeiladau a chefnogi lesddeiliaid. Rydym wedi cymryd camau breision i fynd i'r afael â'r mater hynod gymhleth hwn.  Mae'r cam cyntaf hollbwysig yn parhau i'n helpu i ddeall gwir faint y broblem ac yn llywio datblygiad yr atebion cywir er mwyn mynd i'r afael â hi yn briodol. Bydd cyllid i gefnogi gwaith cyweirio yn ceisio mynd i'r afael â diogelwch tân mewn adeiladau amlfeddiannaeth mewn modd cyfannol ac yn sicrhau nad oes rhaid i neb arall wynebu'r anawsterau hyn eto yn y dyfodol.

Bydd Tîm Arolygu ar y Cyd sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r asiantaethau gorfodi presennol yn cynnig llwybr arall i wella diogelwch adeiladau i drigolion.  Mae gwaith i sefydlu strwythur a llywodraethiant y Tîm Arolygu ar y Cyd yn parhau i fynd rhagddo yn dilyn recriwtio'r arweinydd strategol yn llwyddiannus (10 Hydref 2022). Mae'r rôl hon yn hanfodol i fireinio'r trefniadau gweithio manwl ar gyfer sefydlu'r tîm yn ffurfiol.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ymgysylltu â phreswylwyr yn ganolog i'n diwygiadau deddfwriaethol, ac roedd ein papur gwyn yn amlinellu diwygiadau eofn a phwysig i gryfhau llais preswylwyr er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae mwy o ran mewn materion sy'n effeithio ar eu cartrefi ac y gallant fod yn hyderus bod eu hadeiladau'n ddiogel. Dylai pob preswylydd, ni waeth beth fo'i ddeiliadaeth, ddisgwyl bod ei lais yn cael ei glywed. Mae sicrhau bod proses gyfathrebu ac ymgysylltu dda â phreswylwyr yn hanfodol, nid yn unig i ddiogelwch adeiladau ond hefyd i gydlyniant cymunedol a llesiant cymdeithasol. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ymrwymiadau hyn.

**<u>Tir</u> – Dyraniad refeniw o £1.150m yn 2023-24 a £0.1m arall yn 2024-25. Dyraniad cyfalaf o £20m yn 2023-24, a £25m yn 2024-25.**

Bydd y cyllid refeniw yn cefnogi adnoddau ychwanegol i alluogi'r Is-adran Tir i gyflawni uchelgeisiau'r gweinidogion lle mae'r Is-adran Tir yn gyfrifol am gynyddu nifer y tai fforddiadwy/cymdeithasol ledled Cymru a chyflwyno "Safleoedd Enghreifftiol" yn ei phortffolio tir. Bydd hefyd yn galluogi holl botensial y portffolio tir i gael ei wireddu dros y 5 mlynedd nesaf o ran cyflenwi tai fforddiadwy o ansawdd da. Gallai'r safleoedd sydd yn yr arfaeth gyflenwi tua 2,600 o unedau tai dros y 5 mlynedd nesaf

Bydd yr adnodd yn galluogi'r Is-adran Tir i fynd ar drywydd yr agenda o sicrhau'r gwerth gorau am arian i'r cyhoedd o'i phortffolio tir. Bydd yn gosod manyleb ar gyfer perfformiad sy'n gyson â'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ei safonau ar gyfer amcanion polisi, yn arbennig tai fforddiadwy, creu lleoedd, lleihau carbon, bioamrywiaeth, cadwyn gyflenwi, buddiannau cymunedol ac ati. Bydd y broses hon yn fodd i ddewis y cynllun gorau a chyflawni'r gwerth gorau am arian i'r cyhoedd.

Mae'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau yn ategu uchelgeisiau ymyriadau eraill a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus yn ehangach, gyda'r nod o ddatgloi potensial datblygu tir cyhoeddus er budd cyhoeddus, yn enwedig er mwyn bodloni gofynion tai cymdeithasol a fforddiadwy. Prif nod y cynllun yw cefnogi'r uchelgais am ddatblygiadau carbon isel, ynni effeithlon, ar raddfa fach. Mae gan y gronfa ddiddordeb arbennig mewn ceisiadau sy'n ceisio datgloi cynlluniau a fydd yn defnyddio dulliau adeiladu modern a thechnolegau arloesol, ac a fydd yn cyflawni atebion yn gyflym.

Mae'r Gronfa yn rhaglen wedi'i thargedu a lywir gan gyfalaf sy'n canolbwyntio ar ryddhau tir cyhoeddus lle mae gwaith datblygu wedi arafu. Bwriedir iddi alluogi cyrff cyhoeddus a phartneriaid sector cyhoeddus i oresgyn rhwystrau rhag datblygu, h.y. pontio'r "bwlch dichonoldeb" a chyflawni newid.

Mae'r cyllid cyfalaf hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ***targed o 20,000 o gartrefi newydd*** drwy sicrhau cartrefi fforddiadwy cynaliadwy sydd wedi'u cynllunio'n dda ar dir y sector cyhoeddus, gan gynnwys ein portffolio tir ein hunain, lle bydd yn ceisio sefydlu meincnod newydd ar gyfer datblygiadau preswyl. Cyflawnir pob cynllun mewn cyd-destun creu lleoedd, gyda'r nod o sicrhau 50% o gartrefi fforddiadwy a mandadu safonau gofod a llywio arloesedd mewn atebion ynni carbon isel a dulliau adeiladu modern.

**Adfywio - Dyraniad refeniw o £1.271m yn 2023-24, ac £1.671m yn 2024-25. Dyraniad cyfalaf o £40m yn 2023-24, a £40m yn 2024-25.**

Mae buddsoddiad adfywio Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ganol trefi a dinasoedd er mwyn cryfhau eu defnydd cymdeithasol, diwylliannol a gwasanaeth cyhoeddus gan felly greu mannau cynaliadwy. Fe'i cyflawnir drwy ddull creu lleoedd integredig o dan y rhaglen Trawsnewid Trefi, sy'n darparu cymorth hyblyg mewn ymateb i'r materion a'r heriau a wynebir gan drefi unigol ledled Cymru, gan ystyried effeithiau posibl newid hinsawdd yn y dyfodol ac ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy. Ei hamcan cyffredinol yw twf cynaliadwy trefi a dinasoedd, a'u trawsnewid yn lleoedd y gall pobl fyw, gweithio, dysgu a hamddena ynddynt.

Caiff canol trefi eu hadfywio mewn modd cynaliadwy drwy dri amcan:

*Ffocws ar Ganol y Dref yn Gyntaf*

- Creu'r achos cryfaf dros egwyddorion 'Canol y Dref yn Gyntaf' o fewn y llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn ehangach, a herio datblygiadau 'y tu allan i drefi'
- Gweithio ar draws adrannau'r llywodraeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau strategol a fydd yn adfywio canol trefi, gan sicrhau'r effaith fwyaf posibl drwy gydgysylltu

strategol ar lefel Llywodraeth Cymru a lefel leol ym meysydd Trafnidiaeth, Iechyd ac Addysg, yn arbennig

*Cyflawni newid cadarnhaol i leoedd*

- Buddsoddi mewn seilwaith a fydd yn adfywio canol trefi ar ôl COVID-19 er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy
- Ailddychmygu'r stryd fawr i sicrhau manteision ehangach a gwneud lleoedd i gefnogi canol trefi yn lleol ac mewn cyd-destun rhanbarthol

*Adeiladu capasiti lleol i gyflawni gwaith adfywio*

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ym meysydd datblygu ac adfywio er mwyn profi a gweithredu prosesau adfywio canol trefi sy'n addas at y diben
- Sicrhau bod gan awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni lleol eraill y gallu a'r adnoddau i gyflawni gwaith adfywio drwy fwy o gymorth gan y llywodraeth, gan gynnwys ffyrdd mwy cydweithredol o weithio a chyflwyno adnoddau digidol.

Mae ein buddsoddiadau yn canolbwyntio ar ganol trefi er mwyn lliniaru effaith y dirywiad cyflym a brofwyd gan lawer o drefi dros nifer o flynyddoedd a'i atal rhag gwaethygu. Unwaith y ceir dirywiad gwelir yn aml gynnydd cysylltiedig mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd a thlodi. Mae'r gost i gymunedau yn ogystal â'r pwrs cyhoeddus yn cynyddu. Mae methiant canol trefi i ddiwallu anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y cymunedau a wasanaethir ganddynt yn aml yn cael effaith anghymesur ar bobl hŷn a'r rhai ar incwm is, sy'n cael llai o gyfle i gael gafael ar wasanaethau mewn mannau eraill.

Ein nod gydag adfywio yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau a brofir yng nghanol trefi drwy fuddsoddi mewn lleoedd sy'n tanberfformio ar hyn o bryd, yn economaidd ac o ran llesiant, er mwyn gwella eu perfformiad. Wrth wneud hynny, anelwn at wella lefelau cyffredinol o ffyniant a llesiant yng Nghymru gyfan.

Mae buddsoddi mewn adfywio, drwy Trawsnewid Trefi, yn gyson ag amcanion llesiant canlynol Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- *Gwneud ein dinasoedd, ein trefi, a'n pentrefi yn lleoedd hyd yn oed yn well i fyw a gweithio* ynddynt; drwy ddarparu cyllid i fusnesau gan gynnwys, y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, i wella bywiogrwydd ein trefi a'n dinasoedd a gwella argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol; cyfrannu at falchder dinesig. Mae hygyrchedd gwasanaethau mewn lleoliadau canol tref hawdd eu cyrraedd yn lleihau anghydraddoldeb;

- *Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau 'r dyfodol.* Mae Trawsnewid Trefi yn canolbwyntio ar gynlluniau cyfalaf ac mae'r rhain yn aml yn gysylltiedig â sgiliau a chreu swyddi. Drwy gael canol trefi bywiog a chynaliadwy gallwn greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau ac yn creu swyddi. Mae polisi Canol y Dref yn Gyntaf yn ceisio sicrhau bod busnesau newydd a swyddi medrus i'w gweld fwyfwy yng nghanol trefi a dinasoedd, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus. Ffocws ar ystod ehangach o weithgareddau a defnyddiau yng nghanol trefi, yn cynnwys gofod busnes hyblyg, gwasanaethau hamdden a gwasanaethau lleol, a fydd yn denu entrepreneuriaid ac yn creu cyfleoedd gwaith yng nghanol y dref;

- *Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn*: Bydd gwaith adfywio yn ymateb drwy greu neu wella mannau gwyrdd cyhoeddus er mwyn gwella prydferthwch a bioamrywiaeth, mynd i'r afael â draenio a gwella ansawdd aer. Caiff prosiectau effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd ffisegol maent ynddo a chânt eu dylunio, eu

cynllunio a'u hadeiladu i'r safonau amgylcheddol uchaf (e.e. BREEAM, graddau A EPC ac ati) gyda safonau dylunio yn cael eu hadolygu gan Gomisiwn Dylunio Cymru mewn achosion priodol. Blaenoriaethir cyllid ar gyfer prosiectau sy'n ailddatblygu ac yn adeiladu eiddo carbon isel.

Bydd ein buddsoddiad mewn Adfywio yn helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau canlynol yn y Rhaglen Lywodraethu:

- ***Galluogi canol ein trefi i ddod yn fwy ystwyth yn economaidd drwy helpu busnesau i weithio’n gydweithredol, cynyddu eu cynnig digidol a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau cyflenwi lleol.***

Drwy ein Rhaglen Lywodraethu, rydym yn ymrwymedig i wneud ein dinasoedd, ein trefi a’n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt. Mae busnesau yn ein trefi, yn enwedig yn y sectorau manwerthu a lletygarwch, yn wynebu heriau enfawr effaith Brexit, pandemig y Coronafeirws a phrinder mewn cadwyni cyflenwi. O ganlyniad, mae trefi wedi wynebu, ac yn wir yn dal i wynebu, heriau sylweddol – na chânt eu rhagweld yn aml - sy'n arwain at lai o ymwelwyr. Mae'n ansicr faint o'r newidiadau i arferion fydd yn barhaol neu a yw rhai ohonynt yn rhai dros dro ac, ar ôl y pandemig, y gall mwy o hyder arwain at fwy o ymwelwyr. Fodd bynnag, er mwyn i bobl allu dychwelyd iddynt, mae angen i'r busnesau a'r gwasanaethau mewn trefi oroesi. Mae diogelu'r busnesau a'r gwasanaethau hyn a'u helpu i addasu yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein trefi.

Byddwn yn annog ac yn cefnogi'r defnydd o dechnoleg ddigidol gan fusnesau canol trefi drwy ehangu’r rhaglen Trawsnewid Trefi – Trefi SMART. Mae hyn yn cynnwys defnyddio data i helpu busnesau i wella eu dealltwriaeth o'u sail cwsmeriaid a thueddiadau a fydd yn cefnogi busnesau gyda'u gweithgareddau cynllunio a marchnata yn y dyfodol. Hefyd, byddwn yn cefnogi busnesau i gydweithio, er enghraifft, drwy ddatblygu mwy o Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod gan fusnesau bresenoldeb ffisegol yng nghanol trefi, mantais gystadleuol dros weithredwyr sydd ar-lein yn unig, a llais cryfach mewn datblygiadau lleol.

- ***Datblygu uwchgynllluniau ar gyfer trefi a’r stryd fawr.***

Mae ein buddsoddiadau adfywio strategol yn targedu gwella gwead canol trefi, gan greu'r amgylchedd iddynt arallgyfeirio fel mannau byw, dysgu, hamdden a gwaith. Mae'r arallgyfeirio hwn wrth wraidd cynaliadwyedd ein trefi. Byddy polisi Canol y Dref yn Gyntaf Cymru'r Dyfodol yn cael dylanwad uniongyrchol ar leoliad gwasanaethau cyhoeddus, a datblygiadau manwerthu a masnachol, ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yng nghanol trefi. Mae awdurdodau lleol, dan arweiniad y polisi hwn, yn paratoi cynlluniau defnydd tir hirdymor i gyflwyno'r mathau hyn o ddefnydd yng nghanol trefi. Bydd tai deiliadaeth gymysg o ansawdd da yng nghanol trefi yn cefnogi ffyniant a dichonoldeb gwasanaethau sy'n bodoli eisoes a rhai newydd ac yn galluogi preswylwyr i gael gafael arnynt drwy ddefnyddio seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy. Drwy gynllunio cydleoli'r tai hyn â chyfleusterau hamdden, dysgu a gwaith, gellir cefnogi ecosystemau cryf o breswylwyr, gwasanaethau a busnesau, a chyfrannu at gynaliadwyedd canol trefi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Drwy'r ymrwymiad hwn, byddwn yn cefnogi uwchgynlluniau trefi i helpu i ddatblygu mannau cynaliadwy. Caiff y cynlluniau eu hystyried drwy gyd-destun gofodol ehangach y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg a byddant yn ymateb i egwyddorion Polisi Cynllunio Cymru. Bydd y cynlluniau'n hyblyg ac yn cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid eraill o'r cychwyn cyntaf, gyda chyngor arbenigol yn gan Gomisiwn Dylunio Cymru

- ***Grymuso cymunedau i fod â mwy o ran mewn cynlluniau adfywio lleol.***

Roedd cyllid drwy ein rhaglen Trawsnewid Trefi yn arfer cael ei ddyrannu'n rhanbarthol a'i

ddarparu gan ein partneriaid awdurdod lleol.  Er gwaethaf llwyddiant y dull hwn, rydym hefyd yn ymrwymedig i weithio'n agosach gyda grwpiau mwy lleol.  Mae cydweithio, ymgysylltu a chymorth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r bobl sy'n dibynnu ar drefi ledled Cymru ac yn eu defnyddio yn fwy tebygol o ddatblygu cynlluniau trefi sydd â sylfaen dilys a gwell siawns o ddwyn ffrwyth.  Bydd yn galluogi trefi unigol i gael budd o well canlyniadau drwy ein rhaglen Trawsnewid Trefi drwy nodi'r cymysgedd o gymorth sy'n gweddu orau i'w nodweddion penodol, cryfderau lleol, diwylliant a threftadaeth. Drwy'r ymrwymiad hwn, byddwn yn helpu grwpiau lleol i chwarae rhan yn y broses o benderfynu beth sy'n digwydd yn eu trefi yn ogystal â datblygu dysgu ac ymgysylltu rhwng lleoedd.

- ***Creu mwy o fannau gwyrdd cymunedol yng nghanol trefi.***

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ein hymrwymiad i ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd a glas. Mae ein dogfen Adeiladu Lleoedd Gwell yn canolbwyntio ar feysydd allweddol Polisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys pwysigrwydd mannau gwyrdd, annog creu lleoedd newydd, a gwella mynediad pobl i fannau gwyrdd.

Mae cyflwyno seilwaith gwyrdd a thir cyhoeddus gwell yng nghanol trefi yn ganolog i greu lleoedd llwyddiannus ac felly yn rhan hanfodol o'n rhaglen Trawsnewid Trefi. Caiff mannau gwyrdd a thir cyhoeddus eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd ac felly maent nid yn unig yn rhan hanfodol o adfywio amgylcheddol trefi, ond hefyd eu hadfywiad cymdeithasol. Bydd sgwariau gerddi, parciau bach, llwybrau cerdded â choed naill ochr ac ardaloedd wedi'u tirlunio nid yn unig yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, ond i gyd yn cyfrannu at falchder dinesig.

- ***Addasu mannau cyhoeddus ar gyfer digwyddiadau awyr agored, marchnadoedd, gwerthwyr stryd, parciau dros dro a pharciau bach.***

O ystyried yr heriau a wynebir gan ein canol trefi oherwydd cyfyngiadau Covid, mae partneriaid cyflawni wedi ceisio cefnogi gweithgarwch a ffyniant busnesau. Mae parhad y gefnogaeth hon yn flaenoriaeth wrth wneud ein trefi a'n dinasoedd yn fannau mwy deniadol i fyw, gweithio a hamddena ynddynt.Drwy'r ymrwymiad hwn byddwn yn cefnogi amrywiaeth o ymyriadau mwy hyblyg sy’n costio llai ac sy'n grymuso awdurdodau lleol, sefydliadau cymunedol a phartneriaid eraill i ddod ynghyd mewn partneriaethau rhanbarthol i benderfynu ar y defnydd mwyaf priodol o gynlluniau a sut y cânt eu defnyddio'n effeithiol yng nghanol trefi.

Mae digwyddiadau awyr agored, megis gwyliau a marchnadoedd, yn ffordd allweddol o ddenu pobl ac ymwelwyr i ganol trefi a darparu cynnig mwy amrywiol a chymdeithasol i'r gymuned leol. Mae marchnadoedd a gwerthwyr dros dro yn aml yn gwerthu cynnyrch lleol, gan leihau effaith y gadwyn gyflenwi ar yr amgylchedd a darparu cynnyrch o safon yn lleol sy'n lleihau'r angen i deithio. Mae hefyd yn galluogi busnesau bach lleol i ffynnu ac yn cynnig cyfleoedd risg isel i werthwyr, gan roi arian yn ôl yn yr economi leol lle mae llawer o werthwyr yn tyfu, yn magu ac yn cynhyrchu eu cynhyrchion.

Ystyrir bod rhoi seilwaith gwyrdd mewn canol trefi yn ganolog i greu lleoedd llwyddiannus ac yn rhan hanfodol o brosiectau a gefnogir o dan ein rhaglen Trawsnewid Trefi, yn dilyn cyflwyno'r Gronfa Beilot Seilwaith Gwyrdd gwerth £9 miliwn yn llwyddiannus yn 2020-21.Mae amrywiaeth o ymyriadau Seilwaith Gwyrdd eisoes wedi cael eu cefnogi ac wedi cael croeso, gan gynnwys parciau bach yng nghanol trefi Penarth a Chasnewydd, a pharc bach dros dro yng Nghastell Caerdydd.

- ***Cynnig cefnogaeth i ddatblygu cofrestr o adeiladau gwag a helpu busnesau bach i symud i siopau gwag.***

Mae eiddo gwag yn graith ar ganol trefi, cymdogaethau cyfagos, ac yn destun pryder parhaus i'r bobl sy'n byw yn y cymunedau hyn. Maent yn dreth ar adnoddau llywodraeth leol a chanolog ac yn aml maent yn ddrud i'w hadfer. Deallwn fod eiddo gwag yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol, eu bod yn aml yn beryglus ac, os nad ymdrinnir â nhw, y gallant gyfrannu'n uniongyrchol at ddirywiad ardal. Maent hefyd yn creu canfyddiad o ddirywiad ym meddyliau pobl a busnesau lleol, sy'n tanseilio hyder yn yr ardal. Fodd bynnag, mae eiddo gwag yn amlwg yn ased cymunedol nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol.

Mae sawl rheswm pam y mae eiddo'n wag, ac un her yw cael gafael ar y data i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r eiddo hyn sy'n wag o hyd ac nid dim ond y rhai sy'n wag dros dro (er enghraifft, sydd mewn cyflwr da ac ar y farchnad). Mae sefydlu cofrestr o adeiladau gwag a chefnogi busnesau i fynd i mewn iddynt yn un o nifer o fesurau ac ymyriadau a gymerir gennym i fynd i'r afael â phroblem eiddo gwag.

**<u>Cwmni Adeiladu Cenedlaethol</u> – Dyraniad refeniw o £1m yn 2023-24, ar sail llinell sylfaen yn y blynyddoedd wedyn.**

Mae £1m wedi'i dyrannu yn 2022-23 ar sail reolaidd fel rhan o Gytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru i "***sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy"***. Erbyn hyn mae cytundeb cyffredinol ar y gwaith uniongyrchol i fwrw ymlaen ag ef ac mae'r rhaglen waith yn cael ei datblygu.

Ar hyn o bryd mae swyddogion wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cynnydd a'r camau gweithredu y gellir eu cyflawni o fewn cyfnod y Cytundeb Cydweithredu a'r gyllideb gysylltiedig, ond gan hefyd anelu at barhau i ddiffinio'r swyddogaethau canolig a thymor hwy ar gyfer Unnos a'r camau canlyniadol sy'n ofynnol i ysgogi'r gweithgareddau hyn yn ystod Blynyddoedd 1 a 2 Cynllun Busnes Unnos. Bydd gwaith hefyd yn cael ei wneud i gwblhau strwythur cwmni priodol ar gyfer Unnos.

**<u>Y Grant Tai Cymdeithasol -</u> Dyraniad cyfalaf ar gyfer Grant Tai Cymdeithasol, gwerth £330m yn 2023-24, a £325m yn 2024-25.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i "***adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu"*** er mwyn mynd i'r afael â phrinder tai ac allyriadau nwyon tŷ gwydr y wlad, ynghyd ag ymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal digartrefedd ac ailgartrefu'n gyflym.

Bydd hyn yn galluogi unigolion ac aelwydydd i gael gafael ar gartrefi o ansawdd uchel sy'n fforddiadwy i'w rhentu a'u rhedeg yng Nghymru. Mae cartrefi cymdeithasol yn gosod y meincnod ar gyfer ansawdd; disgwyliwn safonau uchel o ofod, ansawdd, effeithlonrwydd ynni a gwneud lleoedd gan sector tai cymdeithasol Cymru.

Rydym yn gweithredu'r Model Hyfywedd Safonol (SVM) er mwyn gallu canolbwyntio ar werth am arian. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau economaidd presennol, mae bwlch ariannol llawer uwch ym mhob safle yn y rhaglen oherwydd costau cynyddol ac felly disgwylir i lefelau grant gynyddu'n sylweddol, yn y tymor byr o leiaf.

Y Grant Tai Cymdeithasol**:**

- Darparu cartrefi sy'n gynnes, yn ddiogel, yn effeithlon o ran ynni ac o ansawdd uchel i'r bobl sydd eu hangen fwyaf, gan helpu i leihau tlodi tanwydd.

- Cefnogi'r economi sylfaenol, y diwydiant adeiladu a'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, gan gynnwys swyddi a phrentisiaethau
- Cefnogi'r newid trawsffurfiol oddi wrth wasanaethau digartrefedd at broses ailgartrefu gyflym, sy'n golygu bod pobl ddigartref yn cael eu helpu’n gyflym i symud yn ôl i gartrefi parhaol addas.
- Helpu pobl hŷn a'r rhai sydd angen gofal ychwanegol i osgoi dibynnu ar ofal preswyl neu hirdymor, gan leihau'r baich ar y GIG.
- Darparu tai cymdeithasol o ansawdd da sy'n cael effaith sylweddol ar bobl a chymunedau, gan helpu i gyflawni ein nod hirdymor o roi terfyn ar ddigartrefedd, gwella iechyd corfforol ac iechyd meddwl, a sicrhau bod y rhai ag anghenion cymhleth yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

**<u>Tai dan Arweiniad y Gymuned</u> – dyraniad refeniw o £220,000 yn 2023-4 a £220,000 yn 2024-25**

Er mwyn bodloni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i 'gefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned, ac ymddiriedolaethau tir cymunedol', bydd cyllid refeniw yn cael ei ddarparu i raglen 'Cymunedau Creu Cartrefi' Cwmpas, i helpu’r sector tai a arweinir gan y gymuned i dyfu. Darperir arian refeniw hefyd ar gyfer swydd Galluogwr Tai Cymunedol yn ardal beilot Ail Gartrefi Dwyfor. Mae'r rhaglen hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd.

**<u>Hwyluswyr Tai Gwledig</u> – dyraniad refeniw o £141,555 yn 2023-24 a £143,409 yn 2024-25**

Bydd cyllid refeniw yn cael ei ddarparu i Alluogwyr Tai Gwledig mewn chwe ardal ledled Cymru i weithio gyda chymunedau i nodi'r angen am dai lleol ac i hwyluso darparu tai mewn ardaloedd gwledig. Mae'r rhaglen hon yn cyfrannu'n uniongyrchol at y targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd.

Mae cryn dipyn o waith yr Is-adran Tir a'r cyllid cysylltiedig yn cyd-fynd ag effeithiau'r Grant Tai Cymdeithasol a'r targed o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu. Bwriedir i'r holl gynlluniau a gyflawnir gan bortffolio'r Is-adran Tir gyflenwi cartrefi y bydd eu hanner yn fforddiadwy. Bydd nifer o'r cynlluniau hefyd yn cynnwys, er enghraifft, ysgol gynradd newydd, man agored cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol. Bwriedir i'r cynlluniau osod meincnod newydd ar gyfer effeithlonrwydd ynni a dylunio a byddant yn seiliedig ar fod yn ddi-garbon ac ar well safonau lle. Bwriedir iddynt hefyd hyrwyddo dulliau adeiladu modern, yn enwedig gweithgynhyrchu oddi ar y safle. Bydd y datblygiadau hefyd yn anelu at hwyluso hunanadeiladu a, lle bo'n briodol, gefnogi datblygiadau a arweinir gan y gymuned.

Er enghraifft, bydd y datblygiad yn Cosmeston yn cyfrannu tua 250 o gartrefi at y targed penodol hwn ond bydd hefyd yn creu ysgol gynradd newydd, sydd eto yn gyson â'r amcanion llesiant a geir yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ceisio buddsoddi mwy nag £1.5bn yng ngham nesaf Ysgolion yr 21ain Ganrif a datblygu ysgolion carbon sero net ac agor cyfleusterau ysgolion i gymunedau lleol. Mae'r cynigion ar gyfer Cosmeston yn cynnwys cyfleusterau a fydd ar gael i'r gymuned leol ac yn darparu canolfan ar gyfer gweithgareddau lleol, ac maent wedi'u cynllunio i roi'r syniad o greu lle wrth wraidd popeth, gan leihau anghydraddoldeb a chefnogi amcanion llesiant.

Bydd y cyllid ychwanegol yn galluogi'r Is-adran Tir i gyflawni uchelgeisiau'r gweinidogion lle mae'r Is-adran Tir yn gyfrifol am gynyddu nifer y tai fforddiadwy/cymdeithasol ledled Cymru a chyflwyno "Safleoedd Enghreifftiol" yn ei phortffolio tir. Bydd hefyd yn galluogi holl botensial y portffolio tir i gael ei wireddu dros y 5 mlynedd nesaf o ran cyflenwi tai fforddiadwy o ansawdd da. Gallai'r safleoedd sydd yn yr arfaeth gyflenwi tua 2,600 o unedau tai dros y 5 mlynedd nesaf

**<u>Y Rhaglen</u> <u>Addasiadau Brys</u> - Dyraniad cyfalaf o £19.500m yn 2023-24, a 2024-25.**

Mae addasiadau yn ffordd effeithiol o wella iechyd a lles pobl hŷn, ac oedolion a phlant anabl. Gallant atal cwympiadau, lleihau'r angen i fynd i'r ysbyty a hwyluso'r broses o ryddhau cleifion, lleihau'r ddibyniaeth ar ofal, osgoi'r angen i symud i ofal preswyl a gwella ansawdd bywyd a lles unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn sylweddol.

Mae'r Rhaglen Addasiadau Brys yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau:

- Byddwn yn cynnal ein cyllid cyfalaf ar gyfer awdurdodau lleol o dan y rhaglen **Galluogi** fel y gallant ddarparu addasiadau o faint canolig, megis lifftiau grisiau ac ystafelloedd gwlyb mewn ystafelloedd ar y llawr gwaelod, a hynny heb ddefnyddio prawf modd fel a fyddai'n ofynnol ar gyfer Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl.

- Byddwn yn parhau i gefnogi asiantaethau **Gofal a Thrwsio** fel y gallant wneud addasiadau bach yn gyflym fel bod modd rhyddhau pobl o ysbytai'r GIG yn amserol ac atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen. Mae hyn yn lleddfu costau ar ofal cymdeithasol drwy leihau'r pwysau ar ofal yn y cartref a gofal preswyl

- Mae ein **Grant Addasiadau Ffisegol** yn galluogi cymdeithasau tai traddodiadol i wneud addasiadau ar gyfer tenantiaid mewn tai cymdeithasol ac yn lleihau'r pwysau ar gyllidebau cyfalaf awdurdodau lleol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Mae'r buddsoddiad hwn mewn tai o fudd sylweddol i'r GIG a gwasanaethau gofal, ac yn cyfrannu at yr agendâu cydraddoldebau a threchu tlodi. Drwy hwyluso byw'n annibynnol, mae'r rhaglen yn cael effaith arbennig o gadarnhaol ar bobl hŷn a phob anabl.

Yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae darparu addasiadau i alluogi pobl i barhau i fyw yn annibynnol yn ymyrraeth ataliol hirdymor ac mae'n cynnwys pobl anabl wrth wneud dewisiadau am eu bywydau. Mae'r cyfalaf hefyd yn fuddsoddiad mewn swyddi lleol gan mai contractwyr a chadwyni cyflenwi lleol a ddefnyddir yn bennaf.

Mae'r angen yn cynyddu mewn termau real, o ganlyniad i COVID-19 ac wrth i gyfran y boblogaeth hŷn gynyddu'n gyflymach na disgwyliad oes iach.

Rydym yn awyddus i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael rôl gryfach yn y gwaith o oruchwylio darparu addasiadau yn eu rhanbarthau. Mae ystyried addasiadau yn rhan hanfodol o gynllunio ar gyfer anghenion gofal a chymorth y boblogaeth ac, fel y cyfryw, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu hystyried fel rhan o'u cylch gwaith.

Mae'r cynllun Grant Addasiadau Ffisegol yn grant sy'n seiliedig ar ddyraniad ers Ebrill 2022, ac mae'n gweithredu o fewn cyllideb sefydlog. Mae'r gyllideb o £10m ar gyfer y Grant yn cynrychioli tua 17% o'r holl wariant ar addasiadau (yn cynnwys Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl awdurdodau lleol) ar 5.5% o'r stoc tai.

Rwy'n dal yn bryderus am y lefelau isel o ddarpariaeth addasiadau yn y sector rhentu preifat. Nid yw cyllid yn unig yn ddigon. Bydd angen inni hefyd wella dealltwriaeth landlordiaid sector preifat o bwysigrwydd addasiadau.

**<u>Cronfa Tai â Gofal</u> - dyraniad cyfalaf o £60.5m yn 2023-24, a £60.5m yn 2024-25.**

Bydd ein buddsoddiadau yn y Gronfa Tai â Gofal yn helpu i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu: "***Cefnogi datblygiad tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal" ac i "ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu catrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.”***

Mae'r rhaglen ariannu hon yn darparu tai a llety i ddiwallu anghenion gofal, h.y. gofal ychwanegol a llety arall i bobl hŷn a phobl â dementia; byw â chymorth i ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu corfforol a dysgu a/neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD) a phroblemau iechyd meddwl; llety agos i'r cartref i blant ag anghenion cymhleth; a lleoliadau gofal canolradd.

Bydd cynyddu maint a chyflymder y buddsoddiad mewn tai a llety arbenigol yn helpu i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio ac sy’n fwy anabl, yn ogystal â gwella bywydau plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac oedolion ag anableddau dysgu.

Ein prif nod fydd cynyddu'r stoc bresennol o dai â gofal. Mae'r mwyafrif o'r unedau hyn yn debygol o fod yn dai Gofal Ychwanegol i bobl hŷn, ochr yn ochr â datblygiadau ar raddfa lai i ddarparu llety byw â chymorth i oedolion ag anabledd dysgu. Unedau tai cymdeithasol â thenantiaid yw'r rhain a fydd yn cyfrif tuag at y targed o ***20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu***.

Byddwn yn blaenoriaethu buddsoddi mewn llety preswyl ar raddfa fach i blant ag anghenion uwch er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn agosach at adref ac osgoi lleoliadau y tu allan i'r sir/allan o'r wlad. Byddwn yn buddsoddi mewn amrywiaeth o lety tymor byr a chanolig yn y gymuned, fel camu i fyny/camu i lawr, llety adsefydlu a llety pontio ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal a'r rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl a lles emosiynol.

**<u>Cymorth Prynu </u>- Dyraniad cyfalaf o £2.5m yn 2023-24, a £4m yn 2024-25.**

Mae ein cynllun Cymorth Prynu wedi'i gynllunio i gefnogi perchentyaeth rhannu ecwiti ac mae ar gael ar gartrefi presennol. Mae Cymorth Prynu yn bennaf yn cynorthwyo pobl a hoffai brynu cartref presennol, yn eu cymuned, ond nad oes ganddynt yr adnoddau ariannol llawn i allu gwneud hynny, gan felly gefnogi pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Mae'r cynllun yn un profedig sydd wedi cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru, ar raddfa fach, ers sawl blwyddyn ac mae'n boblogaidd mewn ardaloedd gwledig, lle nad yw cartrefi newydd sbon ar gael yn hawdd.

Gan adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol o £9.7m mewn 178 o gynlluniau Cymorth Prynu yn ystod tymor diwethaf y Llywodraeth, mae'r gyllideb ddrafft hon yn ymrwymo i fuddsoddi £7.5m mewn 50 o gynlluniau Cymorth Prynu eraill dros y 3 blynedd nesaf, yn dibynnu ar amodau'r farchnad. I ddechrau bydd y buddsoddiad yn hwyluso argaeledd y cynllun yn yr ardal beilot arfaethedig ar gyfer ail gartrefi, ac yn caiff y cynllun ei gyflwyno'n ehangach mewn rhannau eraill o Gymru. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo gyda Chyngor Gwynedd, a'i asiant cyflenwi Grŵp Cynefin, i deilwra'r cynllun er mwyn diwallu anghenion lleol yn well yn yr ardal beilot.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'n glir ein hymrwymiad i fynd i'r afael â fforddiadwyedd mewn ardaloedd lle ceir nifer mawr o ail gartrefi, a datblygu ***Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*** y mae Cymorth Prynu yn rhan ohono, a dyma'r unig gynnig o ran cartrefi i'w prynu. Rydym yn dilyn trywydd tair elfen er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau â lefel uchel o ail gartrefi yng Nghymru, a bydd Cymorth Prynu yn rhan o'r pecyn i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd drwy dargedu a theilwra rhaglenni tai sy'n bodoli eisoes. Byddwn yn buddsoddi £7.5m mewn tua 50 o gynlluniau Cymorth Prynu dros y 3 blynedd nesaf, yn dibynnu ar sefyllfa'r farchnad dai.

Mae'r cynllun yn cynnig cymorth i dalu 30-50% o bris prynu cartref ledled Cymru, gyda chymorth i dalu 10 - 50% o'r pris prynu yn cael ei dreialu yn yr ardal beilot. Caiff hwn ei ad-dalu wrth werthu'r cartref. Mae ar gael i bawb, a chaiff ei reoli gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a all osod gofynion ychwanegol ar ymgeiswyr megis yr angen am gysylltiad lleol. Felly, ystyrir bod y cynllun yn allweddol i gefnogi'r gwaith ar liniaru materion fforddiadwyedd mewn rhai cymunedau y mae niferoedd mawr o ail gartrefi yn cael effaith sylweddol arnynt.

**<u>Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Bwlch Taliadau Gwaddoli</u> - Dyraniad cyfalaf o £108m yn 2023-24, a £108m yn 2024-25.**

Nododd gwerthusiad annibynnol o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ym Mehefin 2021 fod SATC wedi gwella ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru yn sylweddol ers 2002. Byddai rhoi'r gorau i ddarparu cymorth yn golygu bod safonau tai ar gyfer rhai o gartrefi mwyaf bregus Cymru yn dirywio ac y byddai enw da Gweinidogion mewn perygl, megis y sefyllfa ddiweddar yn Lloegr, lle canolbwyntir ar gartrefi nad ydynt yn addas i fyw ynddynt.

Caiff £108m y flwyddyn ei wario drwy Safon Ansawdd Tai Cymru i helpu landlordiaid cymdeithasol i ddarparu cartrefi cymdeithasol cynnes o ansawdd da, i rai o aelwydydd mwyaf agored i niwed Cymru. Mae hyn yn 35% o waith SATC i gyflawni a chynnal y safon, a’r sector yn cyfrannu 65%. Byddai unrhyw leihad mewn cyllid yn golygu bod landlordiaid yn gwario mwy i gynnal a chadw cartrefi presennol i safon SATC, gan beryglu eu gallu i gyflenwi cartrefi newydd a chyflawni mesurau diogelwch adeiladau.

Mae'r safon SATC newydd, y disgwylir iddi fynd yn fyw yn 2023, yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol, yn ofyniad statudol ar gyfer yr holl landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru, a disgwylir i hyn ymgorffori safon effeithlonrwydd ynni uwch a safon datgarboneiddio.

Bydd SATC2023 yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio tai cymdeithasol a bydd rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru yn hwyluso gwaith profi a dysgu er mwyn llywio gwaith ôl-osod hirdymor ehangach ar bob cartref, ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru. Bydd buddsoddiad parhaus SATC 2 o 2023 ynghyd â chyllid y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn parhau i roi hwb i ffyniant lleol drwy dwf busnesau bach a chanolig eu maint, a datblygu cadwyni cyflenwi.

Mae trefniadau cytundebol taliadau gwaddoli i Drosglwyddiadau Gwirfoddol ar Raddfa Fawr yn weithredol am 30 mlynedd i gyd, gyda'r rhan fwyaf o’r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy’n trosglwyddo stoc yn cael 15-20 mlynedd yn weddill ar eu cytundeb â Llywodraeth Cymru. Byddai torri'r cytundeb yn peri'r risg o Adolygiad Barnwrol yn syth.

**<u>Dyraniad refeniw Datgarboneiddio Preswyl</u> o £2.173m yn 2023-24, £0.5m pellach yn 2024-25. Dyraniad cyfalaf o £92m yn 2023-24, a £92m yn 2024-25.**

Mae'r 1.4 miliwn o gartrefi yng Nghymru yn gyfrifol am 27% o'r holl ynni a ddefnyddir yng Nghymru ac am 15% o'n holl allyriadau nwyon tŷ gwydr ymhlith defnyddwyr. Mae ôl-osod y cartrefi hyn yn fesur ataliol sylfaenol oherwydd mae'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi er mwyn lleihau eu hallyriadau carbon i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni targedau carbon cyfreithiol rwymol, yn ogystal â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatgarboneiddio cartrefi preswyl drwy ôl-osod. Amcangyfrifir y bydd yn costio cyfanswm o ryw £15bn i ddatgarboneiddio'r stoc dai yn seiliedig ar amcangyfrifon Ysgol Pensaernïaeth Cymru. Mae mwy na £10bn ohono ar gyfer y stoc tai cymdeithasol a chartrefi sydd mewn tlodi tanwydd.

Defnyddir cyllid refeniw i helpu i gefnogi'r gwaith o sefydlu canolfan Perfformiad Sero Net Tai er mwyn darparu cymorth annibynnol i'r sector tai yng Nghymru. Caiff y ganolfan ei rhedeg fel model busnes ‘Er Da’ a bydd yn gwneud y canlynol:

- dwyn ynghyd arbenigedd mewn ymchwil a datblygu ym maes datgarboneiddio sy'n symud yn gyflym;
- darparu gwybodaeth dechnegol;
- cyngor ac arbenigedd ôl-osod sy'n benodol i dai;
- galluogi mynediad at unigolion cymwysedig a busnesau bach a chanolig sydd wedi'u hardystio i gynnal arolygon a gweithgareddau datgarboneiddio,
- gweithredu fel cyfrwng dysgu i gynhyrchu data ar y cynlluniau a gefnogir, er mwyn eu rhannu â sefydliadau eraill. Bydd hyn yn helpu'r sector tai ar draws pob deiliadaeth i wybod beth sy'n gweithio, a'r un mor bwysig - beth nad yw'n gweithio.

Defnyddir cyllid refeniw i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r agenda ddatgarboneiddio ar gyfer tai a chyflawni'r rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio. Hefyd defnyddir cyllid refeniw i dalu costau staff ychwanegol er mwyn cyflawni'r buddsoddiad cyfalaf sy'n deillio o ôl-osod cartrefi. Heb y cyllid hwn ni chaiff yr hyn sydd i'w gyflawni o dan y Rhaglen Lywodraethu ei gyflawni. Er mwyn gwario buddsoddiad cyfalaf sylweddol mae angen sgiliau a goruchwyliaeth briodol er mwyn sicrhau bod gweithgareddau cyllido yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethiant corfforaethol a rheoli risg. Mae'n allweddol bod buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn sicrhau gwerth i'r pwrs cyhoeddus.

Yn unol â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu: "***Datgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol",*** bydd cyllid refeniw yn cyflymu mynediad landlordiaid at gymorth annibynnol mewn da bryd ar gyfer lansiad y safon ddatgarboneiddio Safonau Ansawdd Tai Cymru newydd yn 2023, gan felly gyflymu'n sylweddol y gwaith o ddatgarboneiddio'r sector tai ac ôl-osod rhagor o gartrefi.

Defnyddir cyllid refeniw yn bennaf i gefnogi'r sector tai cymdeithasol, drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, a fydd yn hwyluso gwaith profi a dysgu er mwyn llywio gwaith ôl-osod hirdymor ehangach ar yr holl gartrefi, ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru, yn cynnwys datblygu Pasbort Adnewyddu Adeiladau ac yna ddilyn y mesurau sy'n ofynnol er mwyn gallu datgarboneiddio cartrefi ledled Cymru. Ein huchelgais yw sicrhau bod pob landlord tai cymdeithasol yn cymryd rhan yn y cynllun hwn dros y tair blynedd nesaf fel y gallant integreiddio'r agenda ddatgarboneiddio yn eu rhaglenni cynnal a chadw sydd wedi'u cynllunio.

Bydd y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn cynnig cyllid bwlch i landlordiaid er mwyn helpu i hwyluso'r gwaith o ddatgarboneiddio'r stoc dai. Bydd unrhyw leihad mewn cyllid yn debygol o arwain at oedi wrth gymryd camau i fynd i'r afael â'r agenda ddatgarboneiddio – gan felly effeithio ar yr amserlen ar gyfer targedau newid hinsawdd cyfreithiol rwymol a'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod

Bydd y cyllid grant parhaus yn golygu y bydd yr adnoddau, strategaethau a buddiannau economi sylfaenol a ddechreuwyd yn y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio bresennol yn parhau i gael eu datblygu a'u cynnal ar lefel sydd ei hangen er mwyn datblygu'r cyfleoedd i gyflawni yn erbyn ymrwymiadau adferiad economaidd gwyrdd y Cabinet. Ymhellach, heb y fath barhad a thwf, bydd y sector busnes, landlordiaid a pherchnogion preifat yn wynebu anhawster sylweddol i gyflawni targedau datgarboneiddio.

Rhaid i'r buddsoddiad mewn SATC ac ôl-osod ar draws stoc tai Cymru gael ei ystyried yng nghyd-destun budd sylweddol i lesiant, arbedion cost mewn gwasanaethau a thwf economaidd lleol. Gallai buddsoddi mewn dros filiwn o gartrefi y degawd hwn greu enillion economaidd mawr yn ogystal â lleihau ein hallyriadau a lleihau tlodi tanwydd.

Mae ôl-osod y cartrefi hyn yn fesur ataliol sylfaenol oherwydd mae'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi er mwyn lleihau eu hallyriadau carbon i helpu Gweinidogion Cymru i gyflawni targedau carbon cyfreithiol rwymol. Bydd ein strategaeth a'n buddsoddiad yn blaenoriaethu tai cymdeithasol, yn dangos arfer orau, yn datblygu cadwyni cyflenwi a sgiliau a fydd yn ysgogi'r

farchnad ac yn llywio strategaeth ar gyfer rhaglenni ôl-osod cartrefi perchennog-ddeiliaid. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol, eu tenantiaid, BBaChau, cyrff cyllido a rhanddeiliaid allweddol eraill gydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau sydd o fudd i bawb.

Bydd ein buddsoddiad mewn Atgyweiriadau Mawr a Datgarboneiddio Preswyl yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu: ***"Parhau i wella cartrefi presennol, gan ein helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, creu swyddi mawr eu hangen, cyfleoedd hyfforddi a chadwyni cyflenwi".*** Rhaid i'r buddsoddiad mewn SATC ac ôl-osod ar draws stoc tai Cymru gael ei ystyried yng nghyd-destun budd sylweddol i lesiant, arbedion cost mewn gwasanaethau a thwf economaidd lleol. Gallai buddsoddi mewn dros filiwn o gartrefi y degawd hwn greu enillion economaidd mawr yn ogystal â lleihau ein hallyriadau a lleihau tlodi tanwydd.

**<u>Tai'r Farchnad: Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol</u> - Dyraniad cyfalaf o £25m yn 2023-24, a £25m yn 2024-25.**

Bydd yr arian grant hwn yn dod â hyd at 2,000 o dai gwag yn ôl i gael eu defnyddio. Ar hyn o bryd mae 22,140 o eiddo gwag tymor hir yng Nghymru (2022-23) Nid yw'r nifer hwn wedi newid i raddau helaeth yn ystod y 5 mlynedd blaenorol. Drwy'r grant hwn, rydym am fynd i'r afael â'r eiddo gwag anodd sy'n gyson wag ac nid y rhai sy'n wag dros dro yn unig (er enghraifft, eiddos sydd mewn cyflwr da ac sydd ar y farchnad) ac felly bydd angen i eiddo fod yn wag am o leiaf 12 mis i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at argymhelliad 9 yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar eidd gwag, sef adolygu'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer cynlluniau sy'n cynnig cymorth ariannol i berchnogion eiddo gwag.

Bydd cyllid ar gael i dalu am gost gwaith adferol i wneud eiddo yn addas i fyw ynddo ac, yn unol â'n hymrwymiadau yn yr hinsawdd, bydd gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn ofyniad fel rhan o'r gwaith a wneir ar yr eiddo. Bydd amod ar y cyllid, sef bod rhaid i'r ymgeisydd fyw yn yr eiddo am o leiaf 5 mlynedd. Gan fod tai gwag yn faes cyfrifoldeb a rennir rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, er mwyn cymryd rhan yn y cynllun bydd angen i awdurdodau lleol ddarparu cyfraniad ariannol o 10% o'u dyraniadau tybiannol bob blwyddyn.

Er bod y llywodraeth hon yn ymrwymedig i dai cymdeithasol, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi bod yn glir bod angen parhaus yng Nghymru am dai'r farchnad, sy'n hanfodol i greu safleoedd tai deiliadaeth-gymysg er mwyn creu cymunedau gwirioneddol gynaliadwy.

Mae tai gwag yn malltod ac yn niwsans yn ein cymunedau. Nid yn unig y maen nhw'n denu ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn achosi problemau iechyd yr amgylchedd ac yn cyfrannu at ddirywiad cyffredinol yn eu cymdogaethau, maen nhw hefyd yn adnodd sy'n cael ei wastraffu. Mae hyn yn peri rhwystredigaeth yn enwedig pan fo tai yn brin.

Papur 11a – Atodiad A - Dadansoddiad Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb

| **NEWID HINSAWDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYLLIDEB ADNODDAU** | | | | | |
| **Cam gweithredu** | **Rhif y BEL** | **Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | **Cyllideb Derfynol 2022-23** | **Cyllideb Ddrafft 2023-24** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25** |
| | **Cyfanswm Tai ac Adfywio** | | **237,508** | **249,648** | **256,148** |
| **Atal Digartrefedd** | 1120 | Digartrefedd | 31,147 | 46,147 | 51,147 |
| | **Cyfanswm Atal Digartrefedd** | | **31,147** | **46,147** | **51,147** |
| **Byw'n Annibynnol** | 1100 | Polisi Tai | 6,471 | 6,471 | 6,471 |
| | 1083 | Y Grant Cymorth Tai | 166,763 | 166,763 | 166,763 |
| | **Cyfanswm Polisi Tai** | | **173,234** | **173,234** | **173,234** |
| **Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel** | 1065 | Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd | 773 | 2,173 | 2,673 |
| | **Cyfanswm Cyflawni Tai o Ansawdd** | | **773** | **2,173** | **2,673** |
| **Diogelwch Adeiladau** | 2255 | Diogelwch Adeiladau | 8,545 | 6,000 | 6,500 |
| | **Cyfanswm Diogelwch Adeiladau** | | **8,545** | **6,000** | **6,500** |
| **Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | 0984 | Y Grant Cyllid Tai | 13,100 | 13,100 | 13,100 |
| | **Cyfanswm Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | | **13,100** | **13,100** | **13,100** |
| **Cyllid Refeniw Tai** | 1181 | Cyllid Refeniw'r Rhaglen Dai | 1,073 | 173 | 173 |
| | **Cyfanswm Cyllid Refeniw Tai** | | **1,073** | **173** | **173** |
| **Yr Is-adran Tir** | 6410 | Cronfa Rhyddhau Tir | 2,120 | 2,150 | 2,250 |
| | **Cyfanswm Adran Tir** | | **2,120** | **2,150** | **2,250** |
| **Adfywio** | 4151 | Adfywio | 2,116 | 1,271 | 1,671 |
| | 4162 | Awdurdod Harbwr Caerdydd | 5,400 | 5,400 | 5,400 |
| | **Cyfanswm Adfywio** | | **7,516** | **6,671** | **7,071** |

| RHAN O'R PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) NEWID HINSAWDD | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYLLIDEB GYFALAF** | | | | |
| **MEG** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | **2022-23 Y Gyllideb Derfynol £000** | **Newidiadau £000** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000** |
| **Newid Hinsawdd** | Rhaglen Addasiadau Brys | 19,500 | 0 | 19,500 |
| | Y Sector Rhentu Preifat | 500 | 1,000 | 1500 |
| | **Cyfanswm y cam gweithredu Byw'n Annibynnol** | **20,000** | **1,000** | **21,000** |
| | **Cyfanswm y maes rhaglen wario Polisi Tai** | **20,000** | **1,000** | **21,000** |
| | Diogelwch Adeiladau | 75,000 | 60,000 | 135,000 |
| | **Cyfanswm y cam gweithredu Diogelwch Adeiladau** | **75,000** | **60,000** | **135,000** |
| | Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Chyllid Bwlch Taliadau Gwaddoli | 108,000 | 0 | 108,000 |
| | Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd | 72,000 | 20,000 | 92,000 |
| | **Cyfanswm y cam gweithredu Cyflawni Tai o Ansawdd** | **180,000** | **20,000** | **200,000** |
| | **Cyfanswm y maes rhaglen wario Diogelwch, Rheoliadau a Safonau Tai** | **255,000** | **80,000** | **335,000** |
| | Y Grant Tai Cymdeithasol | 310,000 | 20,000 | 330,000 |
| | Tir ar gyfer Tai | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm y cam gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy** | **310,000** | **20,000** | **330,000** |
| | Tai'r Farchnad | 10000 | 15000 | 25000 |
| | Cymorth Prynu | 2000 | 500 | 2500 |
| | **Cyfanswm y cam gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad** | **12000** | **15500** | **27500** |
| | Cronfa Gofal Integredig | 60,500 | 0 | 60,500 |

| RHAN O’R PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) NEWID HINSAWDD | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CYLLIDEB GYFALAF** | | | | |
| **MEG** | **Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)** | **2022-23 Y Gyllideb Derfynol £000** | **Newidiadau £000** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2023-24 £000** |
| | **Cyfanswm y cam gweithredu Cronfa Gofal Integredig** | **60,500** | **0** | **60,500** |
| | Adfywio | 20,000 | 20,000 | 40,000 |
| | **Cyfanswm Adfywio** | **20,000** | **20,000** | **40,000** |
| | **Cyfanswm y maes rhaglen wario Cartrefi a Lleoedd** | **402,500** | **55,500** | **458,000** |
| | Cronfa Rhyddhau Tir | 20,000 | 0 | 20,000 |
| | **Cyfanswm cam gweithredu yr Is-adran Tir** | **20,000** | **0** | **20,000** |
| | **Cyfanswm maes rhaglen wario yr Is-adran Tir** | **20,000** | **0** | **20,000** |
| | **RHAN O’R PRIF GRŴP GWARIANT NEWID HINSAWDD CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF** | **697,500** | **136,500** | **834,000** |

Papur 12 - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – 25 Ionawr 2023 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd

***Nid yw ffigurau'r gyllideb yn 22-23 yn cynnwys cyllidebau Cyfalaf Trafodion Ariannol at ddibenion cymharu***

Mae'r papur hwn yn cyflwyno manylion am gynigion y gyllideb Newid Hinsawdd fel y'u nodir yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr 2022. Hefyd, ceir y diweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor.

## Y Cyd-destun Strategol

Mae'r tabl isod yn cynnig trosolwg o gynlluniau dangosol y MEG Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2023-24

| CLIMATE CHANGE - SUMMARY | 2022-23 Final Budget March 2022 | 2023-24 Indicative Final Budget March 2022 | 2023-24 Changes | 2023-24 Draft Budget December 2022 | 2024-25 Indicative Final Budget March 2022 | 2024-25 Changes | 2024-25 Indicative Draft Budget December 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| Resource | 1,166,512 | 1,155,512 | 31,915 | 1,187,427 | 1,177,512 | 31,915 | 1,209,427 |
| Capital | 1,644,573 | 1,657,778 | 0 | 1,657,778 | 1,605,393 | 0 | 1,605,393 |
| **Total Resource & Capital** | **2,811,085** | **2,813,290** | **31,915** | **2,845,205** | **2,782,905** | **31,915** | **2,814,820** |
| | | | | | | | |
| **Total AME** | **100,393** | **124,448** | **-69,246** | **55,202** | **4,740** | **-67,808** | **-63,068** |
| | | | | | | | |
| **CLIMATE CHANGE - TOTAL BUDGET** | **2,911,478** | **2,937,738** | **-37,331** | **2,900,407** | **2,787,645** | **-35,893** | **2,751,752** |

## Adnoddau

Ar gyfer adnoddau, mae llinell sylfaen 2022-23 ar gyfer Cyllideb ddrafft 2023-24 yn adlewyrchu'r Gyllideb Derfynol. Crynhoir y newidiadau o ran adnoddau fel a ganlyn:

| | **Newidiadau 2023-24** | **Newidiadau 2024/25** |
|---|---|---|
| Trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn | 55,000 | 55,000 |
| Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn | -20,045 | -20,045 |
| Trosglwyddiadau MEG i MEG | -3,040 | -3,400 |
| **Cyfanswm** | **31,915** | **31,915** |

Mae'r gyllideb Adnoddau ar gyfer y MEG Newid Hinsawdd wedi cynyddu £55m yn 2023-24 o gymharu â llinell sylfaen cyllideb derfynol ddangosol 2023-24, gyda chynnydd arall o £55m yn 2024-25.

Crynhoir cyfanswm y dyraniadau adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y tablau isod:

| BEL | Disgrifiad o'r Trosglwyddiad | 2023-24 £000 | 2024-45 £000 |
|---|---|---|---|
| 1895 | Trosglwyddiad i mewn o Gronfeydd Wrth Gefn i gynorthwyo Trafnidiaeth Gyhoeddus Trafnidiaeth Cymru | 40,000 | 40,000 |
| 1120 | Trosglwyddiad i mewn o Gronfeydd Wrth Gefn i gynorthwyo Digartrefedd | 10,000 | 10,000 |
| 1895 | Trosglwyddiad i mewn o Gronfeydd Wrth Gefn i gynorthwyo gyda'r cynnydd costau byw ar sail chwyddiant ar gyfer Cyrff Hyd Braich – Trafnidiaeth Cymru | 5,000 | 5,000 |
| **Cyfanswm** | | **55,000** | **55,000** |

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ail-flaenoriaethu fel y gellir rhyddhau cyllid o bortffolios a'i ailddyrannu ledled y Llywodraeth. Yr egwyddorion a oedd yn sail i'r ymarfer ail-flaenoriaethu hwn oedd sicrhau cyllideb gytbwys, diogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen a diogelu'r Rhaglen Lywodraethu.

O ganlyniad i'r ymarfer hwn, mae cynlluniau drafft y gyllideb yn adlewyrchu'r syniad o ddychwelyd arian o'r MEG Newid Hinsawdd i gronfeydd wrth gefn canolog, sef £20.025m yn 2023-24, gyda'r lleihad yn cael ei gynrychioli yng nghyllideb 2024-25. Caiff y newidiadau hyn ar gyfer llinellau cyllidebau sy'n berthnasol i'r pwyllgor hwn eu crynhoi yn y tabl canlynol:

| BEL | Disgrifiad o'r Trosglwyddiad | 2023-24 £000 | 2024-45 £000 |
|---|---|---|---|
| 2832 | Galluogi Adnoddau Naturiol | -1,380 | -1,380 |
| 2827 | Coedwigaeth | -1,100 | -1,100 |
| 2190 | Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol | -1,575 | -1,575 |
| 2490 | Y Tirwedd a Hamdden Awyr Agored | -300 | -300 |
| 2255 | Diogelwch Adeiladau | -3,545 | -3,545 |
| 1181 | Cyllid Refeniw'r Rhaglen Dai | -900 | -900 |
| 4151 | Adfywio | -915 | -915 |
| 1895 | Trafnidiaeth Cymru | -9,603 | -9,603 |
| 3759 | Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol | -106 | -106 |
| 3770 | Ynni Glân | -621 | -621 |
| **Cyfanswm** | | **-20,045** | **-20,045** |

Hefyd, cafwyd un trosglwyddiad MEG i MEG yn y cynigion cyllideb hyn, sef £3.04m sy'n cynrychioli cynlluniau y dechreuwyd arnynt o fewn y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol ac sydd

bellach wedi cael eu trosglwyddo i Awdurdodau Lleol trwy gyfrwng y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol.

## Gwariant Ataliol

Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n ategu mesurau ataliol cyn belled ag y bo modd. Mae gwerth am arian, ynghyd ag eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol, yn hollbwysig o ran cyflawni ein blaenoriaethau. Ar ôl cynllunio'r gwariant yn unol â'r blaenoriaethau, mae gennym brosesau sefydledig ar waith i sicrhau y bydd yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer y dibenion arfaethedig.

Defnyddir metrigau penodol i werthuso rhaglenni cymorth, fel y nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru er enghraifft.

Cyfeirir at yr asesiad a'r gwerth am arian yn nes ymlaen yn y cwestiynau penodol.

## Llunio polisïau ar sail tystiolaeth

Mae tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau yn sail i'n penderfyniadau ariannol, megis gwaith ymchwil cyhoeddedig, ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith gwerthuso polisïau yr ymgymerwyd ag ef yn y gorffennol, ac ystadegau. Caiff y dystiolaeth hon ei hymwreiddio yn y broses benderfynu. Dyma rai enghreifftiau:

Rhoddir nifer fawr o eitemau untro i ddefnyddwyr, a'r rheini wedi'u gwneud o blastig fel arfer. Caiff yr eitemau hyn eu rhoi am ddim neu am bris rhad wrth brynu bwydydd neu ddiodydd. Mae'r eitemau hyn yn fach iawn ac nid oes gwerth mawr yn perthyn iddynt, i'r defnyddiwr nac i'r manwerthwr. Yn aml, ystyrir nad yw'r gost na'r ymdrech o'u gwahanu, eu glanhau a'u prosesu at ddibenion ailgylchu yn werth y drafferth. O'r herwydd, caiff llawer iawn o'r cynhyrchion hyn eu gwaredu mewn gwastraff cyffredinol, naill ai gan y defnyddiwr neu'r manwerthwr, neu cânt eu taflu ymaith fel sbwriel. Yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddeddfu er mwyn cael gwared ag eitemau plastig untro a gaiff eu taflu ymaith yn gyffredin fel sbwriel. Y bwriad yw dylanwadu ar ddefnyddwyr er mwyn iddynt ddechrau ymddwyn mewn modd mwy cynaliadwy (er enghraifft trwy ddefnyddio cynhyrchion amldro), a rhwystro'r effeithiau amgylcheddol dilynol sy'n gysylltiedig ag eitemau untro.

Ceir amrywiaeth o dystiolaeth i ategu'r syniad y dylid gweithredu Strategaeth yr Economi Gylchol yn ehangach, yn cynnwys gwaith dadansoddi cyfansoddol newydd yn ymwneud â ffrydiau gwastraff, data am berfformiad ac effeithlonrwydd gweithrediadau ailgylchu a rheoli gwastraff Awdurdodau Lleol, a mesur effaith garbon ein hailgylchu.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cyhoeddi fframwaith monitro a gwerthuso ar ein rhan ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd y fframwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i olrhain cynnydd yn erbyn cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau ac i bennu unrhyw feysydd lle mae angen cyflwyno ymyriadau pellach i'n galluogi i gyflawni ein targedau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb ddrafft yn dangos sut rwyf wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Aethom ati i adolygu tueddiadau cyfredol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'u heffeithiau posibl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Gwnaethpwyd hyn er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, na fydd ymatebion byrdymor yn arwain at effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

Cydnabyddir bod Strategaeth yr Economi Gylchol, sef *Mwy nag Ailgylchu*, yn strategaeth enghreifftiol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a hynny o ran y modd y cafodd ei datblygu trwy ddefnyddio'r pum ffordd o weithio a'r modd mae'n defnyddio nodau'r Ddeddf i bennu pa weithredoedd sy'n cynyddu'r manteision o symud i economi gylchol, fel rhan allweddol o'r pontio tuag at Gymru Ddi-garbon. Cyhoeddwyd Asesiad o Nodau ochr yn ochr â'r strategaeth, ac ynddo nodir y cyfraniad at bob un o'r saith nod. Parhawyd â'r dull hwn wrth gyflawni'r camau a nodir yn y strategaeth, gan sicrhau eu bod nid yn unig yn esgor ar ganlyniadau amgylcheddol hollbwysig, ond eu bod hefyd yn gwella canlyniadau cymdeithasol ac economaidd allweddol i Gymru. Er enghraifft, rhoi dull cylchol ar waith i wella effeithlonrwydd adnoddau, i greu cyfleoedd gwaith ac i wella cystadleurwydd mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio. Mae hyn yn cynnwys manteision cymdeithasol allweddol hefyd, yn arbennig yn ystod argyfwng costau byw – er enghraifft, ailddosbarthu bwyd i gymunedau agored i niwed (bwyd a fyddai, fel arall, wedi cael ei wastraffu) a rhoi cyfleusterau trwsio ac ailddefnyddio ar waith.

**Asesu cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant**

Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, aethom ati i roi dull integredig ar waith wrth asesu effeithiau, yn ogystal ag ystyried yr effaith a gaiff penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n parhau i fod yn ysgogwr pwysig o ran arwain ystyriaethau'n ymwneud â'r Gyllideb.

Mae ein Cyllideb yn pennu effeithiau ein penderfyniadau gwario, gan dynnu sylw at benderfyniadau gwario sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein rhanddeiliaid. Ategir hyn gan Asesiad Strategol Integredig o'r Effaith (SIIA), lle nodir y dystiolaeth gyd-destunol a ategodd ein penderfyniadau gwario.

Er enghraifft, cynhaliwyd asesiad effaith llawn ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth trwy gyfrwng y broses asesu effeithiau integredig; ac ar gyfer y strategaeth, cafodd cynrychiolwyr yr holl grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig eu cynnwys yn y broses (wrth ddrafftio'r strategaeth ac yn ystod y cam ymgynghori), yn cynnwys plant, pobl hŷn a'r holl gomisiynwyr, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. Felly, mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn adlewyrchu barn a chyfraniad y bobl hyn, ac mae'r gyllideb yn cyflawni'n fras y nodau a'r amcanion a gynhwysir yn y strategaeth.

**Ymateb i'r argyfwng costau byw**

**Esbonnir yn y fan hon a yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng costau byw wedi siapio eich dyraniadau yn y gyllideb ddrafft, a sut**

Mae effaith y cynnydd mewn costau byw a methiant Llywodraeth y DU i sicrhau cyllid arall yn lle cyllid yr UE wedi arwain at heriau sylweddol ar gyfer rhaglenni yn fy mhortffolio. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio blaenoriaethu ein cyllidebau er mwyn amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed a chynnal ein hymrwymiad i greu Cymru gryfach, decach a gwyrddach wrth inni baratoi ein Cyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24.

Rwy'n cydnabod bod y pwysau costau byw yn effeithio ar Gyrff Hyd Braich sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar ran Llywodraeth Cymru. Rwy'n falch fod y cynigion cyllideb hyn yn darparu £10m yn ychwaneg yn 23/24 a 24/25 (£5m y flwyddyn) i gynorthwyo gyda'r pwysau costau byw yn y meysydd mwyaf hanfodol. Ond sylweddolaf na fydd modd i'r arian hwn ymdrin â'r holl bryderon ac y bydd y sefyllfa'n dal i fod yn anodd i nifer o sefydliadau.

**Deddfwriaeth**

Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Bydd Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) yn gwahardd neu'n cyfyngu ar werthu nifer o gynhyrchion plastig untro a gaiff eu taflu ymaith yn gyffredin fel sbwriel. Bydd y ddeddfwriaeth yn cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddeddfu er mwyn cael gwared ag eitemau plastig untro a gaiff eu taflu ymaith yn gyffredin fel sbwriel. Bydd y ddeddfwriaeth yn ein helpu i droi cefn yn gyflymach ar gynhyrchion plastig untro ac yn ein hannog i symud at ddefnyddio cynhyrchion amldro neu gynhyrchion sy'n llai niweidiol i'r amgylchedd. Mae hefyd yn cyfrannu at nodau strategol ehangach, sef cefnogi'r arfer o ddatblygu economi gylchol yng Nghymru, gan fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Er mwyn ategu'r broses o roi'r Bil ar waith, bydd angen i'r gwariant gyfleu i'r cyhoedd ac i fusnesau bod angen iddynt baratoi ar gyfer y gwaharddiadau, yn ogystal â rhoi gwybod iddynt pa gynhyrchion sy'n berthnasol i'r ddeddfwriaeth. Hefyd, bydd y gyllideb yn cael ei defnyddio i ategu proses ehangach ar gyfer casglu tystiolaeth gogyfer cam nesaf y cynhyrchion.

Rheoliadau i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunyddiau pacio plastig

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, lle canolbwyntir ar y cychwyn ar fesurau i ymdrin â gwastraff deunyddiau pacio a Chynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, ochr yn ochr â datblygu deddfwriaeth i weithredu diwygiadau ailgylchu ar gyfer busnesau, y cyhoedd a'r trydydd sector. Cafodd yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Cod Ymarfer sylfaenol ei lansio ym mis Tachwedd fel rhan o'r Wythnos Hinsawdd.

Y Bil Diogelwch Tomenni Glo arfaethedig;

Mae setliad y gyllideb refeniw ar gyfer diogelwch tomenni glo yn cynnwys costau ar gyfer cwmpasu a chynllunio cofrestr asedau genedlaethol, ac ar gyfer recriwtio Bwrdd i'r awdurdod goruchwylio newydd, yn cynnwys y costau rhedeg cychwynnol yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Hefyd, mae'r gyllideb ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn cynnwys cronfeydd ar gyfer tîm o Lywodraeth Cymru, a fydd yn sefydlu'r corff cyhoeddus newydd.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn wrthi'n cael ei ddatblygu, fel sy'n ofynnol cyn cyflwyno'r Bil Diogelwch Tomenni Glo. Bydd hwn yn cyflwyno costau manwl ar gyfer sefydlu'r corff cyhoeddus newydd (yn cynnwys staffio) a gweithredu'r gyfundrefn newydd. Bydd rhagdybiaethau fel chwyddiant cyflogau a chodiadau cyflog yn cael eu hymgorffori yn y gwaith hwn.

Y Bil Aer Glân arfaethedig

Mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi ymrwymo i gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru. Bydd y Bil a gyflwynir yn cynnwys cynigion yn ymwneud â thargedau ansawdd aer cenedlaethol (sy'n ystyried canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd), hyrwyddo ymwybyddiaeth, Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, rheoli mwg, gadael injans cerbydau i redeg, a strategaethau cenedlaethol yn ymwneud ag ansawdd aer a seinweddau. Bydd y cynigion hyn yn gwella gallu'r llywodraeth genedlaethol a llywodraethau lleol i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael, gan esgor ar fanteision uniongyrchol yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd, cynefinoedd a bioamrywiaeth. Bydd cyllid penodol yn cynorthwyo i weithredu'r Bil, yn cynnwys cyllid ar gyfer casglu tystiolaeth, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth.

**Rhaglen Lywodraethu**

Mae'r Tasglu Bioamrywiaeth yn ategu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ymwreiddio bioamrywiaeth ym mhopeth a wnawn. Er mwyn parhau â'r gwaith o brif ffrydio bioamrywiaeth, sydd hefyd yn un o ofynion y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ac yn un o argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, dyrannwyd arian ar gyfer hyn trwy gyfrwng rhaglen sy'n

canolbwyntio ar bobl, ar ein systemau ac ar dreialu atebion arloesol oddi mewn ac oddi allan i Lywodraeth Cymru. Hefyd, mae cyflawni gofyniad Adran 6 trwy weithio gydag awdurdodau lleol i brif ffrydio, cynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth, yn rhan allweddol o'r gwaith hwn.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu targedau a dyletswydd statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddwysáu yn dilyn COP15, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2022, trwy gytuno ar gyfres o dargedau byd-eang newydd. Er mwyn cyflawni hyn, dyrannwyd cyllideb ar gyfer darparu'r cymorth technegol ac academaidd angenrheidiol er mwyn sicrhau y defnyddir dull cadarn, seiliedig ar dystiolaeth wrth ddatblygu targedau CAMPUS.

Mae angen gwaith i ategu ymchwil a datblygu ynghyd â gwella seilwaith er mwyn cyflawni ymyriadau llwyddiannus ar gyfer rhaglenni adfer morfeydd heli a morwellt. I barhau â hyn, dyrannwyd cyllideb i'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur.

**Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, a gweithio gyda chydweithwyr yn y Cabinet**

Cymru Sero Net, a gyhoeddwyd y llynedd cyn COP26, yw ein Cynllun Trawslywodraethol. Mae'n pennu ein camau gweithredu ar y cyd ar draws Portffolios Gweinidogion dros y blynyddoedd nesaf.

Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r cynllun a helpu i ysgogi gweithredu, rydym wedi sefydlu trefniadau llywodraethu mewnol ar gyfer datblygu a chyflawni Cymru Sero Net. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys:

- Cabinet Trawslywodraethol a ategir gan drafodaethau tymhorol ynghylch newid hinsawdd, yn ogystal ag integreiddio trwy drafodaethau ehangach;
- Bwrdd Portffolio a gadeirir gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Newid Hinsawdd gyda swyddogion arweiniol ar gyfer pob sector allyriadau a maes trawsbynciol;
- Trefniadau penodol i fonitro ac ysgogi'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

**Esbonnir yn y fan hon sut mae datganiad Llywodraeth Cymru ynghylch yr argyfyngau 'hinsawdd' a 'natur' wedi dylanwadu ar y broses a roddwyd ar waith eleni i bennu'r gyllideb**

Mae ystyriaethau Newid Hinsawdd yn allweddol i Lywodraeth Cymru ar draws pob maes polisi fel y gellir ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Mae'r Prif Weinidog wedi dangos yn glir bod Newid Hinsawdd wrth galon a chraidd agenda'r Llywodraeth.

Ar 28 Hydref 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun Cymru Sero Net, lle nodir y cam nesaf yn ein siwrnai (2021 i 2025) tuag at gyrraedd sero net erbyn 2050. Mae'r cynllun yn cynnwys mwy na 120 o bolisïau a chynigion gan y Llywodraeth. Mae'r rhain yn ymdrin â meysydd o bob math – o adfer mawndiroedd i deithio llesol, o sgiliau gwyrdd i ynni adnewyddadwy.

Cenhadaeth y portffolio yw cyflawni sero net a rheoli risgiau'n ymwneud â'r hinsawdd yng Nghymru. Yn ôl ein cynghorwyr statudol, sef y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, bydd Cymru yn wynebu costau sylweddol gyfer pontio tuag at Sero Net (oddeutu £1.4bn yn 2025) ac mae angen buddsoddi llawer mwy mewn technolegau carbon isel yn ystod yr ail gyllideb garbon, sy'n cyd-ddigwydd â thymor presennol y Llywodraeth.

Mae Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn pennu gweledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy. Mae'n cynnwys pedair uchelgais drawsbynciol, lefel uchel dros gyfnod o 20 mlynedd – uchelgeisiau a all esgor ar fanteision ehangach i bobl, i gymunedau, i'r amgylchedd, i'r economi, i leoedd, i ddiwylliant ac i'r iaith. Bydd yr uchelgeisiau hyn yn cael eu cyflawni trwy gyfrwng pum blaenoriaeth, gan dargedu ffyrdd o leihau'r angen i deithio ac annog dulliau teithio gwahanol.

Mae'n newid ein dull o ran gwneud penderfyniadau a buddsoddi. Mae'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn rhoi blaenoriaeth i fodloni'r galw am deithio trwy gyfrwng cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na defnyddio cerbydau preifat. Mae'r hierarchaeth buddsoddi yn canolbwyntio ar fesurau i reoli'r galw, ynghyd â gwneud gwell defnydd o'r seilwaith presennol (yn cynnwys gwaith cynllunio cydgysylltiedig rhwng trafnidiaeth a defnydd tir) ac ehangu a hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy.

**Esbonnir yn y fan hon sut rydych wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y Cabinet i sicrhau bod yr amgylchedd, colledion bioamrywiaeth a newid hinsawdd wedi bod wrth "galon a chraidd" y broses ar gyfer pennu'r gyllideb**

Mae gweithredu ar yr argyfyngau hinsawdd a natur yn parhau i fod wrth galon a chraidd y llywodraeth hon; yn wir, dyna pam cafodd y portffolio Newid Hinsawdd ei greu. Mae wedi dwyn ynghyd feysydd polisi mawr er mwyn helpu Cymru i gyrraedd ei tharged cyfreithiol rwymol – sef cyflawni'r targed Sero Net erbyn 2050.

Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i roi cymorth uniongyrchol i ymdrin ag uchelgais y Rhaglen Lywodraethu, sef mynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

**Datgarboneiddio**

Mae gan yr Economi Gylchol le cwbl greiddiol yng Nghynllun Sero Net Cymru. Ym mhob rhan o'r Cynllun cynhwysir camau gweithredu ar gyfer cael Cymru a fydd yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, o ddatgarboneiddio cerbydau casglu sbwriel i gynorthwyo busnesau i gael cyngor ynghylch defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Yn hyn o beth, cydnabyddir y cysylltiad hollbwysig rhwng defnydd anghynaliadwy a'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Ceir cynnydd yn y gyllideb fel y gellir parhau i gyflawni'r strategaeth Mwy nag Ailgylchu, a fydd yn ceisio adeiladu ar sylfeini ein system ailgylchu wych er mwyn cynorthwyo i bontio tuag at economi gylchol lle bydd adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio. Elfen allweddol o'r cymorth hwn yw cynnydd mewn cyllid cyfalaf fel y gellir rhoi'r gwelliannau seilwaith angenrheidiol ar waith i bontio tuag at economi gylchol, sy'n cyfateb i rywfaint yn llai na hanner cyfanswm allyriadau Cymru.

**Targedau uwch o ran lleihau allyriadau interim ar gyfer 2030 a 2040, a tharged sero net ar gyfer 2050 a dyraniadau'r gyllideb.**

Caiff ein targedau ar gyfer lleihau allyriadau eu pennu ar lefel Cymru, ac o'r herwydd mae Cymru Sero Net yn gynllun Cymru Gyfan – gan gydnabod y bydd angen i bawb weithredu. Golyga hyn y bydd y costau a'r manteision hefyd yn cael eu rhannu ar draws y gymdeithas.

Er na wyddys yn iawn eto beth fydd y costau ariannol sy'n gysylltiedig â phontio tuag at sero net erbyn 2050, cynhwysir amcangyfrif o'r gost ddangosol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer sero net. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, amcangyfrifwn y bydd y gost ychwanegol ar gyfer bodloni sero net, o gymharu â senario lle na chymerir unrhyw gamau mewn perthynas â'r hinsawdd, yn arwain at gostau adnoddau gwerth presennol ychwanegol o rhwng £10bn ac £16bn dros y cyfnod hyd at 2050 (caiff y ffigurau hyn eu seilio ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o bum llwybr y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd tuag at sero net). Y costau adnoddau ychwanegol yw'r costau (a'r arbedion) ariannol sy'n angenrheidiol i ddarparu'r un nwyddau a'r un gwasanaethau mewn modd carbon isel neu garbon sero, ac maent yn cynnwys costau buddsoddi cyfalaf a delir ymlaen llaw a chostau/arbedion gweithredu. Fodd bynnag, gall fod cydeffeithiau cymdeithasol sylweddol yn gysylltiedig â'r broses o bontio tuag at sero net – sef cydeffeithiau na chânt eu meintioli yn ein dadansoddiad, fel iechyd a chyfalaf naturiol.

Mae cryn dipyn o ansicrwydd yn gysylltiedig ag amcangyfrif costau yn y dyfodol o ran targedau allyriadau hirdymor sy'n cynyddu dros amser. Mae'r ansicrwydd yn deillio o gwestiynau ynghylch

cost a datblygiad technolegau carbon isel yn y dyfodol, a chamau gweithredu gan y llywodraeth, busnesau, rhanddeiliaid ehangach a defnyddwyr.

Beth bynnag fo'r ansicrwydd hwn, rydym yn awyddus i wella ein sylfaen dystiolaeth yn barhaus, ynghyd â gwella ein dealltwriaeth o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â chyrraedd sero net er mwyn ein helpu i hwyluso'r dull pontio rhataf ac isaf ei garbon. Mae Cymru Sero Net yn tynnu sylw at rai costau buddsoddi ychwanegol sy'n angenrheidiol ar lefel Cymru yn ystod yr ail Gyllideb Garbon, a hefyd mae'n pennu amryfal fuddsoddiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud er mwyn cyflymu'r pontio tuag at sero net. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd y sector preifat a Llywodraeth y DU yn talu cyfran helaeth o'r costau buddsoddi.

**Gwaith yr aethpwyd i'r afael ag ef i amcangyfrif yr effaith garbon a gaiff penderfyniadau gwario a sut mae hyn wedi dylanwadu ar ddulliau dyrannu**

Rydym yn parhau i geisio gwella a datblygu'r modd yr ystyriwn garbon wrth wneud penderfyniadau trwy ddefnyddio offer fel ein proses asesu effeithiau integredig. Trwy gyfrwng ein Cynllun Gwella'r Gyllideb, rydym wedi pennu'r camau a roddwn ar waith i ystyried sut gellir cryfhau'r asesiad o effaith garbon ein rhaglenni gwario.

Mae'r gwaith hwn, sy'n llywio ein paratoadau ar gyfer y gyllideb, yn ystyried yr effaith gynyddol a gaiff gwariant Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r effaith ehangach a gaiff gweithredu polisïau ar allyriadau carbon. Byddwn yn cyflwyno diweddariad o Gynllun Gwella'r Gyllideb ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft. Bydd y diweddariad hwn yn cyflwyno rhagor o fanylion am y cynnydd a wnawn o ran asesu effeithiau carbon ein gwariant.

Strategaeth Buddsoddi mewn Seilwaith.

Un o'r elfennau pwysicaf y gallwn ei hystyried yw'r cysylltiad rhwng y seilwaith a gynhaliwn a'r effaith a gaiff y seilwaith hwnnw ar ein hamgylchedd.

Mae ein strategaeth newydd ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn olynu'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r strategaeth hon yn pennu'r fframwaith ar gyfer y modd y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn seilwaith, a chaiff ei chynllunio ar sail y pedair thema llesiant, sef llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Bydd ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng hinsawdd wrth galon a chraidd y strategaeth, yn cynnwys yr ymrwymiad i gyrraedd sero net ac ymdrin â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Lluniwyd y strategaeth yn benodol ar gyfer cynorthwyo i gyflawni economi carbon sero net. Ochr yn ochr â buddsoddi mewn seilwaith cerbydau trydan a thrydaneiddio rheilffyrdd (lle mai'r prif ddiben yw datgarboneiddio), gallwn ddylanwadu ar y modd y cyflawnir ein rhaglen buddsoddi cyfalaf ehangach mewn meysydd fel ysbytai ac ysgolion er mwyn cyfrannu at gyrraedd sero net. Bydd nifer o'r polisïau a nodir yn y cynllun hwn yn ymddangos hefyd mewn cyfres o ddogfennau a fydd yn disgrifio'r strategaeth newydd hon ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith.

**Cydweddu cyllidebau cyllidol a chyllidebau carbon**

Rydym yn parhau i gydweddu ein proses ar gyfer ymdrin â chyllidebau carbon a chyllidebau cyllidol, ac rydym yn defnyddio ein cynllun Cymru Sero Net i gynnig arweiniad ar ein gwariant. Mae ein cynlluniau datgarboneiddio hirdymor yn ein helpu i gydweddu gwariant y dyfodol ar ei sail.

**Strwythur y Gyllideb**

**<u>Crynodeb o'r Dyraniadau a'r Newidiadau</u>**

**Manylion am gyllideb ddrafft 2023-24, ac unrhyw gyllidebau dangosol yn y dyfodol, yn ôl Meysydd Rhaglenni Gwariant (SPA), Camau Gweithredu a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb**

**(BEL), rhai refeniw a chyfalaf, ynghyd â dyraniadau Cyllideb 2022-23 fel cymhariaeth. Disgrifiad naratif o'r meysydd polisi a ariannwyd trwy gyfrwng pob BEL. Crynodeb o unrhyw newidiadau a wnaed yn y strwythur a chyflwyniad o'r gyllideb o'i chymharu â blynyddoedd blaenorol, yn cynnwys manylion ynglŷn â sut mae Meysydd Rhaglenni Gwariant, Camau Gweithredu neu Linellau Gwariant yn y Gyllideb yn ymwneud â'r rhai a ddefnyddiwyd yn 2022-23 a chan sicrhau y gellir cymharu dyraniadau 2023-24 â blynyddoedd blaenorol.**

Yn Atodiad A ceir tablau BEL llawn ar gyfer y portffolio Newid Hinsawdd, fel y'u cyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft.

**Trafnidiaeth**

**Sut mae'r gyllideb ddrafft yn ategu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth, yn arbennig o ran cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r strategaethau a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig, yn cynnwys sut rydych wedi blaenoriaethu cyllid, fforddiadwyedd eich blaenoriaethau ac unrhyw feysydd sy'n destun pryder**

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglenni metro ar gyfer De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru a Gogledd Cymru, gan wneud hynny mewn ffordd a fydd yn integreiddio â'r modd y darperir gwasanaethau craidd, sef bysiau, teithio llesol a rheilffyrdd. Hefyd, bydd ein buddsoddiadau'n ategu'r gwaith o ddatblygu ein llwybr gwledig a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu ymyriadau trafnidiaeth gyhoeddus mewn cymunedau gwledig ledled Cymru, ac yn arbennig felly yn y Canolbarth lle na cheir cynllun Metro yn y rhanbarth.

Ymhellach, bydd y buddsoddiad yn ategu'r gwaith parhaus o ddatblygu prosiectau strategol bwysig ledled Cymru i gynorthwyo i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a bydd yn ein helpu i sicrhau'r newid angenrheidiol mewn dulliau teithio er mwyn inni allu cyrraedd targedau Cymru Sero Net. Mae'r prosiectau hyn yn aml-ddull; maent yn ategu datblygiadau seilwaith, cynlluniau gwasanaethau, datblygiadau digidol, datblygiadau data a gwaith newid ymddygiad mewn cynlluniau bysiau, rheilffyrdd a theithio llesol ledled Cymru mewn ardaloedd a all elwa i'r eithaf ar y newid posibl mewn dulliau teithio. Caiff ein blaenoriaethau o ran buddsoddi eu pennu yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth; cyhoeddwyd y cynllun hwn ym mis Gorffennaf, fel y gellid ymgynghori yn ei gylch.

**Adferiad trafnidiaeth gyhoeddus ar ôl y pandemig, gan gynnwys cymorth i weithredwyr ac effaith pandemig y coronafeirws, a'r adferiad ar ôl y pandemig, gan gynnwys cymorth i ddarparwyr trafnidiaeth.**

Drwy gydol y pandemig, bu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r diwydiant bysiau yn ddiwyro, a rhoddwyd mwy na £150m o arian i'r diwydiant i'w gynorthwyo trwy effeithiau pandemig y coronafeirws, ac i adfer ar ei ôl.

Mae arian wedi'i ddyrannu er mwyn cynorthwyo gydag incwm tocynnau Trafnidiaeth Cymru, sy'n parhau i ddioddef yn dilyn pandemig y coronafeirws gan fod llai o bobl yn mynd ar deithiau cymudo; er, caiff hyn ei wrthbwyso'n rhannol gan gynnydd mewn teithiau hamdden.

**Cyflwyno'r fasnachfraint rheilffyrdd.**

Mae'r cyllid refeniw a chyfalaf a ddyrannwyd yn darparu ar gyfer cyflawni'r fasnachfraint Rheilffyrdd gan Trafnidiaeth Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru. Fel rhan o hyn, bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i gyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys buddsoddi £800m mewn cerbydau rheilffyrdd newydd sbon a fydd yn darparu trenau newydd, cyflymach a mwy cyfforddus, ac yn arwain at gyflwyno gwasanaethau amlach a llwybrau newydd.

**Cyflwyno Metros Gogledd-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.**

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglenni metro ar gyfer De-ddwyrain Cymru, De-orllewin Cymru a Gogledd Cymru, gan wneud hynny mewn ffordd a fydd yn integreiddio â'r modd y darperir gwasanaethau craidd, sef bysiau, teithio llesol a rheilffyrdd. Hefyd, bydd ein buddsoddiadau'n ategu'r gwaith o ddatblygu ein llwybr gwledig a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu ymyriadau trafnidiaeth gyhoeddus mewn cymunedau gwledig ledled Cymru, ac yn arbennig felly yn y Canolbarth lle na cheir cynllun Metro yn y rhanbarth.

Ymhellach, bydd y buddsoddiad yn ategu'r gwaith parhaus o ddatblygu prosiectau strategol bwysig ledled Cymru i gynorthwyo i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a bydd yn ein helpu i sicrhau'r newid angenrheidiol mewn dulliau teithio er mwyn inni allu cyrraedd targedau Cymru Sero Net. Mae'r prosiectau hyn yn aml-ddull; maent yn ategu datblygiadau seilwaith, cynlluniau gwasanaethau, datblygiadau digidol, datblygiadau data a gwaith newid ymddygiad mewn cynlluniau bysiau, rheilffyrdd a theithio llesol ledled Cymru mewn ardaloedd a all elwa i'r eithaf ar y newid posibl mewn dulliau teithio.

**Cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith rheilffyrdd.**

Bydd y cyllid cyfalaf a ddyrennir i Trafnidiaeth Cymru yn galluogi'r sefydliad i barhau i gyflawni rhaglen drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae'r rhaglen drawsnewid hon yn uwchraddio traciau a signalau ac yn mynd i'r afael â gwaith trydaneiddio, a bydd hyn oll yn arwain at ddarparu gwasanaethau cyflymach a mwy niferus, gan wella mynediad a chysylltiadau rhwng cymunedau'r cymoedd a Chaerdydd.

**Datblygu Trafnidiaeth Cymru – yn cynnwys dadansoddiad o ddyraniad cyllideb Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y flwyddyn, gan nodi ei gyllideb gorfforaethol ochr yn ochr â dyraniadau ar gyfer darparu rhaglenni penodol.**

O gofio bod Trafnidiaeth Cymru yn sefydliad cymharol newydd sy'n dal i esblygu, rydym yn mynd ati'n barhaus i chwilio am ffyrdd o symleiddio prosesau. Byddwn yn gwneud ein gorau i roi amser digonol i'r Pwyllgor graffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol.

**Argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru.**

Bydd gwaith Uned Gyflawni Burns yn parhau i gynorthwyo i gyflawni canfyddiadau Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Bydd y rhain yn cynnwys parhau i ddatblygu cynlluniau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid fel y gellir gwneud penderfyniad buddsoddi terfynol ynghylch tri mesur cyn gynted â phosibl, sef: i) cysylltiadau teithio llesol a bysiau rhwng Caerdydd a Chasnewydd; ii) blaenoriaeth Casnewydd Canolog ar gyfer Seilwaith Teithio Llesol a Bysiau – datblygu cynlluniau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â'r flaenoriaeth Teithio Llesol a Bysiau ar lwybrau a fydd yn cysylltu â Chasnewydd Canolog; iii) mynediad i fysiau at Dwnnel Hafren, a datblygu a gweithredu gweithgareddau gyda rhanddeiliaid i ysgogi newid mewn dulliau teithio.

**Buddsoddi yn y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd. Yn arbennig, sut mae canlyniad yr adolygiad ffyrdd wedi llywio'r dyraniadau, a sut cafodd unrhyw gyllid ar gyfer ffyrdd ei ailddyrannu.**

Cafodd cyllid ar draws trafnidiaeth ei gydweddu â'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy a bennir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'r dull hwn yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn teithio llesol megis cerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus fel bysiau a rheilffyrdd, yn hytrach nag i fuddsoddi mewn camau a fydd yn cynyddu'r defnydd o gerbydau preifat. Mae'r dull hwn yn hanfodol o ran cyflawni ein targedau ar gyfer newid dulliau teithio a'n hymrwymiadau newid hinsawdd.

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd, cyflwynodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yr wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad ffyrdd, gan nodi bod ymateb i'r argymhellion yn waith cymhleth – rhywbeth a gymhlethwyd yn fwy fyth gan y lleihad sylweddol yn ein grym gwario. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried ein hymateb llawn i'r Adolygiad Ffyrdd yng ngoleuni'r dirywiad yn y sefyllfa gyllidol ac economaidd y mae Llywodraeth y DU wedi ein rhoi ynddi.

Byddwn yn nodi ein hymateb, ynghyd â'r cynlluniau hynny y byddwn yn bwrw ymlaen â nhw, yn ein Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Mae nifer o raglenni wrthi'n cael eu cyflawni ar draws y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, a'u bwriad yw mynd i'r afael â gwaith ataliol. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys:

- Y Clefyd Coed Ynn – Mesurau rhagweithiol i ganfod a gwaredu coed heintiedig a allai achosi problemau diogelwch ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.

- Triniaethau ataliol ar arwynebau ffyrdd – Chwistrellu sylwedd ar arwynebau ffyrdd er mwyn ymestyn haen dreulio'r gerbytffordd. Bydd hyn yn arwain at waith cynnal a chadw anamlach, a bydd yn lleihau costau a charbon.

- Y Rhaglen Diogelwch Cymunedol – rhaglen ddiogelwch ragweithiol lle gwrandewir ar anghenion cymunedau o ran gwella diogelwch ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, ynghyd ag ymateb i'r anghenion hynny.

- Adnewyddu goleuadau strydoedd – gosod lampau LED er mwyn lleihau costau a charbon.

- Er mwyn diogelu at y dyfodol a pharatoi ar gyfer digideiddio'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, rydym yn buddsoddi mwy na £40m yn y gwaith o ddarparu ffeibr band eang ar hyd 152 cilomedr o'r rhwydwaith.

Er mwyn mynd i'r afael ag ôl-groniad amcangyfrifedig o £1bn o ran gwaith cynnal a chadw cyfalaf ar draws holl asedau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, bydd swyddogion yn ceisio datblygu rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr (MAR) y gellid ei chyflwyno dros gyfnod o 5 i 10 mlynedd, gyda'r amserlenni wedi'u haddasu i gyfateb i'r cyllid sydd ar gael. Byddai'r rhaglen nid yn unig yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw, ond gallai hefyd gyflawni nifer o'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru o ran ail-neilltuo lle ar ffyrdd ar gyfer teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a lleihau carbon trwy ymgymryd â gwaith cynnal a chadw mewn modd cyfannol ac effeithlon trwy ddefnyddio deunyddiau lleol a chanddynt oes faith. Ar hyn o bryd, nid oes arian wedi'i neilltuo ar gyfer y rhaglen hon.

**Cyflwyno polisi teithio llesol – gan gynnwys tabl sy'n manylu ynghylch cyfanswm y dyraniadau a dyraniadau fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer teithio llesol ar gyfer 2023-24, o gymharu â phob un o'r tair blynedd flaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a chyfalaf fod yn glir ac wedi'u hollti yn ôl ffrydiau ariannu unigol (y gronfa teithio llesol, y gronfa trafnidiaeth leol, llwybrau diogel mewn cymunedau ac ati).**

Yn unol â'r targedau o ran newid dulliau teithio yn Llwybr Newydd a'n hymrwymiad Carbon Sero Net, mae teithio llesol yn parhau i fod yn ganolbwynt i fuddsoddi, yn enwedig trwy gyfrwng y Gronfa Teithio Llesol. Er mwyn cydnabod natur leol y seilwaith teithio llesol, caiff y rhan fwyaf o'r cyllid ei gyfeirio at awdurdodau lleol.

Bwriad y Gronfa Teithio Llesol yw galluogi awdurdodau lleol i gyflwyno rhwydweithiau llwybrau teithio llesol sydd newydd gael eu diweddaru ac a gymeradwywyd gan Weinidogion eleni. Mae'r Gronfa yn cynnwys dyraniad craidd ar gyfer pob awdurdod lleol ynghyd ag elfen gyllido gystadleuol. Caiff y Gronfa ei hategu gan raglenni cyllido ychwanegol llai.

Mae'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn canolbwyntio ar wella teithio i'r ysgol ac ni chaiff ei gyfyngu'n ddaearyddol i drefi mwy sy'n ganolbwynt i'r Gronfa Teithio Llesol.

Bydd cyllid ar gyfer cynlluniau teithio llesol a leolir ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ac sy'n croesi'r Rhwydwaith hwnnw yn cael blaenoriaeth, a bydd modd bwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn trwy gynnal deialog â'r awdurdodau lleol perthnasol. Hefyd, bydd cynlluniau teithio llesol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Metro neu gynigion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cael eu datblygu ar y cyd yn y cyd-destunau hyn.

| | Dyraniadau Teithio Llesol – holl grantiau cyfalaf Awdurdodau Lleol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
| Y Gronfa Teithio Llesol | £9,031,092 | £29,127,943 | £25,140,454 | £56,003,830 | £48,106,000 | £57,000,000 |
| Y Gronfa Trafnidiaeth Leol | £11,267,202 | £7,303,259 | £896,000 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | £5,048,314 | £5,362,121 | £4,141,501 | 6,554,231 | £4,263,050 | £5,000,000 |
| Cyllid ychwanegol (Covid) | | | £16,205,917 | £1,030,000 | | |
| Prosiectau Teithio Llesol Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru | | | | £517,000 | | |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | | | | | | 2,000,000 |
| Cyfanswm | £25,346,608 | £41,793,323 | £46,383,872 | £64,105,061 | £52,369,050 | £64,000,000 |
| Y boblogaeth* | 3,138,631 | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,107,500 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Cyfanswm fesul pen o'r boblogaeth | £8.08 | £13.26 | £14.63 | £20.63 | £16.85 | £20.60 |
| *amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth hyd at 20/21, data'r Cyfrifiad ar gyfer 21/22, seilir y cyfrif ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael | | | | | | |

| | Dyraniadau Teithio Llesol – cyllid cyfalaf arall | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
| Rhaglen Teithio Llesol Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru | £1,650,000 | £1,650,000 | £1,650,000 | £3,650,000 | £3,000,000 | £3,000,000 |
| Grantiau a gwariant o fath arall yn ymwneud â Theithio Llesol (yn cynnwys prosiectau Teithio Llesol y Metro a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, gwelliannau i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol | | | | £510,000 | £4,070,000 | 4,250,000 |
| Cyfanswm | £1,650,000 | £1,650,000 | £1,650,000 | £4,160,000 | £7,070,000 | £7,250,000 |
| Y boblogaeth* | 3,138,631 | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,107,500 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Cyfanswm fesul pen o'r boblogaeth | £0.53 | £0.52 | £0.52 | £1.34 | £2.28 | £2.33 |
| *amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth hyd at 20/21, data'r Cyfrifiad ar gyfer 21/22, seilir y cyfrif ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael | | | | | | |

| | Dyraniadau Teithio Llesol – refeniw | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
| Y Rhaglen Teithiau Llesol | £237,000 | £375,000 | £375,000 | £375,000 | £375,000 | £375,000 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Teithio Llesol a chymorth i weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol (Trafnidiaeth Cymru ac Awdurdodau Lleol) | | | £1,000,000 | £1,549,000 | £0 | £0 |
| Cymorth i weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol | £171,915 | £224,446 | £178,988 | £135,280 | £809,300 | £1,000,000 |
| Cyfanswm | £408,915 | £599,446 | £1,553,988 | £2,059,280 | £1,184,300 | £1,375,000 |
| Y boblogaeth* | 3,138,631 | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,107,500 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Cyfanswm fesul pen o'r boblogaeth | £0.13 | £0.19 | £0.49 | £0.66 | £0.38 | £0.44 |
| *amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth hyd at 20/21, data'r Cyfrifiad ar gyfer 21/22, seilir y cyfrif ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael | | | | | | |

| | **Teithio Llesol – o bob math** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **18/19** | **19/20** | **20/21** | **21/22** | **22/23** | **23/24** |
| Cyfanswm | £27,405,523 | £44,042,769 | £49,587,860 | £70,324,341 | £60,623,350 | £72,625,000 |
| Y boblogaeth* | 3,138,631 | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,107,500 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Cyfanswm fesul pen o'r boblogaeth | £8.73 | £13.97 | £15.64 | £22.63 | £19.51 | £23.37 |
| *amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth hyd at 20/21, data'r Cyfrifiad ar gyfer 21/22, seilir y cyfrif ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael | | | | | | |

**Cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol, gan gynnwys tabl sy'n manylu ynghylch cyfanswm y dyraniadau a'r dyraniadau fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer 2023-24 o gymharu â phob un o'r tair blynedd flaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a chyfalaf fod yn glir a dylai'r tabl gael ei hollti yn ôl ffrydiau ariannu unigol (Grant Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau, BES2, Tocynnau Teithio Rhatach ac ati).**

Rydym wedi parhau i gynorthwyo'r diwydiant bysiau yn 2022-23 trwy roi cyllid i gynorthwyo'r diwydiant i bontio tuag y 'normal newydd' ar ôl COVID.

| Cyfanswm fesul pen o'r boblogaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Refeniw Bysiau – 2019-20 i 2023-24 | | | | | |
| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
| Amcangyfrif canol-blwyddyn o'r boblogaeth yng Nghymru* | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,107,500 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Grant Defnyddwyr Bysiau'r DU yng Nghymru | £243,368 | £182,918 | £289,457 | £395,000 | £395,000 |
| Cludiant i'r Ysgol | £0 | £0 | £10,000 | £10,000 | £10,000 |
| CYMORTH REFENIW BYSIAU | £1,325,425 | £6,111,471 | £1,061,818 | £677,000 | £677,000 |
| Y Gymdeithas Cludiant Cymunedol – Cyllid Craidd | £164,298 | £138,284 | £285,482 | £285,482 | £285,482 |
| Y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau – Traws Cymru | £25,000,000 | £25,000,000 | £25,000,000 | £25,000,000 | £25,000,000 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Refeniw Bysiau – Traws Cymru | £3,741,342 | £4,018,818 | £3,159,745 | £3,159,745 | £3,159,745 |
| Traveline Cymru | £998,612 | £998,612 | £998,616 | £998,616 | £998,616 |
| Tocynnau Teithio Consesiynol | £26,375,441 | £33,915,450 | £62,595,259 | £60,482,000 | £60,482,000 |
| Teithio Rhatach i Bobl Ifanc | £2,531,786 | £1,906,536 | £1,999,969 | £2,000,000 | £2,000,000 |
| Y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau – COVID | £0 | £70,620,830 | £59,099,546 | £28,000,000 | £28,000,000 |
| | | | | | |
| Cyfanswm | £60,380,273 | £142,892,919 | £154,499,892 | £121,007,843 | £121,007,843 |
| Cyfanswm fesul pen o’r boblogaeth | £19.15 | £45.16 | £49.72 | £38.94 | £38.94 |

| Cyfanswm fesul pen o’r boblogaeth | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Cyfalaf Bysiau – 2019-20 i 2022-23 | | | | | |
| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
| Amcangyfrif canol-blwyddyn o’r boblogaeth yng Nghymru* | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,174,970 | 3,184,311 | 3,107,500 |
| Tocynnau Teithio Consesiynol | £35,240,000 | | | | |
| Cynnal Bysiau | | £1,000,000 | | | |
| Bws Cymru - buddsoddi mewn gwasanaethau bysiau | | | | | |
| | | | | | |
| Cyfanswm | £35,240,000 | £1,000,000 | £0 | £0 | £0 |
| Cyfanswm fesul pen o’r boblogaeth | £11.18 | £0.32 | £0.00 | £0.00 | £0.00 |

**Cefnogi blaenoriaethau trafnidiaeth leol.**

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau lleol sy’n cynorthwyo i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Bydd cyllid yn y flwyddyn ariannol nesaf yn canolbwyntio ar 20 milltir yr awr a seilwaith bysiau.

Fel rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn adolygu’r modd y gwariwn y Gronfa Trafnidiaeth Leol yn y dyfodol ochr yn ochr â’r blaenoriaethau a bennir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac yng ngoleuni’r modd y symudir tuag at gynlluniau trafnidiaeth ranbarthol y mae’n ofynnol i Gydbwyllgorau Corfforedig eu llunio bellach.

**YNNI A CHYNLLUNIO – ARIANNU CAMAU GWEITHREDU**

**Polisïau a rhaglenni i ategu datgarboneiddio yn y sector tai, yn cynnwys dyraniadau ar gyfer Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.**

Trwy ddatblygu dull datgarboneiddio ar gyfer y stoc dai gyfan, bydd modd llunio strategaeth hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd a datgarboneiddio ar gyfer y sector. Bydd hyn yn helpu i fodloni disgwyliadau ail gyllideb garbon Cymru Sero Net a bydd yn helpu i integreiddio ag amcanion ehangach yn ymwneud â thai.

Disgwylir i'r rhaglen newydd gynorthwyo'r sector cymdeithasol, y sector perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat. Disgwylir y bydd ar gael i bawb, yn cynnwys y bobl hynny 'sy'n gallu talu', ond ceir pwyslais ar roi arian i'r cartrefi gwaethaf yn gyntaf, yn cynnwys y rhai mewn tlodi tanwydd.

Bydd y dull yn cael ei ddatblygu trwy ddysgu ar sail y Rhaglen Cartrefi Clyd a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, a bydd yn cael ei gydweddu â dulliau eraill a roddir ar waith gan Lywodraeth Cymru, megis Safon Ansawdd Tai Cymru a Chynllunio Ynni Ardal Leol.

Agwedd hollbwysig ar y rhaglen newydd fydd dysgu ar sail y cydweithredu a'r partneriaethau a gafwyd trwy gyfrwng ein hamryfal raglenni tai, er enghraifft gweithio'n llwyddiannus gydag awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, grwpiau cymunedol ac eraill.

Heb os nac oni bai, mae datgarboneiddio cartrefi preifat yn fwy cymhleth na delio â'r sector cymdeithasol neu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd, felly byddwn yn parhau i gymhwyso ethos y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, sef 'profi a dysgu'. Fel man cychwyn, mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio a'r Rhaglen Tai Arloesol eisoes yn annog mentrau cymunedol lleol ar raddfa fach ar draws sectorau tai.

Yn y tymor byr, byddwn yn parhau i gyflwyno'r Rhaglen Cartrefi Clyd a bydd y gyllideb gyfalaf yn codi £5m i £35m yn 2023/24 yn y gyllideb ddrafft.

**Y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio**

Mae Gweinidogion wedi rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi yn y dasg o ddatgarboneiddio tai cymdeithasol trwy gyfrwng y cyllid a roddir i landlordiaid cymdeithasol yn sgil y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Rydym yn dechrau gyda thai cymdeithasol, cyn symud ymlaen at ddeiliadaethau eraill, oherwydd yn y fan honno y gallwn gael y dylanwad mwyaf. Wrth sianelu buddsoddiadau'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio trwy gyfrwng landlordiaid cymdeithasol, gellir ategu dull 'profi a dysgu' o ran sut i ddatgarboneiddio cartrefi mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Yn achos y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, trwy dargedu dull 'profi a dysgu', y targed yw buddsoddi £270m mewn cartrefi cymdeithasol dros dymor y llywodraeth. (Gwariwyd oddeutu £70m hyd yn hyn.)

**Cyflawni rhaglenni ynni adnewyddadwy a rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn y sector cyhoeddus, yn cynnwys cyllid ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.**

Mae'r gyllideb yn darparu cyllid cyfalaf a chyllid refeniw i gynorthwyo Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i weithredu. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig arbenigedd masnachol, ariannol a thechnegol i'r sector cyhoeddus a'r sector ynni lleol er mwyn iddynt allu llunio cynlluniau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Hefyd, mae'r gwasanaeth yn ymgymryd â rôl arwain strategol ar draws y sectorau, gan ganolbwyntio ar gynyddu uchelgeisiau, capasiti a gallu.

Mae'r ymrwymiad i Ehangu'r arfer o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ymhlith cyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol yng Nghymru, sef cynnydd o dros 100MW erbyn 2026, yn ychwanegol at y

targed o sicrhau bod 1 gigawat o gapasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu'n lleol erbyn 2030. Dengys Strategaeth Gwireddu Buddion y rhaglen y bydd yr uned yn esgor ar refeniw a buddion amgylcheddol sylweddol i Gymru. Bydd y dyraniadau cyllideb yn ein galluogi i sefydlu tîm bach i ddatblygu'r cysyniad o 'ddatblygwr cyhoeddus Cymreig', fel y nodir yn y Cytundeb Cydweithredu, ynghyd â datblygu nifer fechan o brosiectau ar gyfer Llywodraeth Cymru – sef prosiectau a fydd yn cynnig cymorth i gymunedau a chyrff cyhoeddus pan fo capasiti yn peri problemau iddynt. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 yn cynyddu'r cyfalaf sydd ar gael i'r gwasanaeth ynni i £25m; £14.5m oedd y swm yn 2022/23. Caiff hyn ei ategu ymhellach gan ad-daliadau benthyciadau sy'n deillio o fenthyciadau di-log blaenorol, a bydd yn helpu i gyflwyno rhagor o wres carbon isel yn y sector cyhoeddus.

**Gweithredu argymhellion a chamau gweithredu sy'n deillio o archwiliad dwfn Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy.**

Mae ein harchwiliad dwfn i ynni adnewyddadwy yn nodi cyfleoedd ac yn trafod rhwystrau a chamau gweithredu arfaethedig y gallwn eu cymryd er mwyn cynorthwyo i gynyddu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yng Nghymru. Rydym yn bwrw ymlaen â'r argymhellion a gyflwynwyd gan grŵp yr archwiliad dwfn ac mae ein cyllideb yn adlewyrchu'r gwaith hwn.

Rydym wedi ariannu dadansoddiad a chymorth annibynnol er mwyn llywio datblygiad ymgynghoriad sydd ar y gorwel – sef ein hymgynghoriad ynghylch targedau ynni adnewyddadwy newydd. Rydym wedi rhoi arian i Energy Systems Catapult er mwyn ei gynorthwyo i ddatblygu Cynlluniau Ynni Ardal Leol a chynllun cenedlaethol, ac rydym yn rhoi adnoddau i'r tîm lleol ar gyfer cyflawni'r cynlluniau hynny ledled Cymru. Hefyd, rydym wedi penodi arbenigedd allanol i lunio Strategaeth Wres i Gymru; bydd y strategaeth hon yn cynnwys y modd y rhoddir cyngor a chymorth i aelwydydd.

Rydym wedi blaenoriaethu adnoddau er mwyn gweithredu'r argymhellion fel y gellir ymdrin â rhwystrau o ran cydsynio. Mae hyn yn cynnwys cyllid i ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer amgylchedd y môr yng Nghymru, ariannu'r adolygiad o drwyddedu morol, a chyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ymateb i'r nifer cynyddol o brosiectau ynni adnewyddadwy (ar y tir ac ar y môr) sydd angen cyngor a chydsyniad.

Yn dilyn yr archwiliad dwfn, rydym wedi cynyddu'r arian ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i gefnogi grantiau mynediad i grwpiau cymunedol, er mwyn cynorthwyo'u prosiectau. Mae'r arian yn galluogi'r grwpiau i gyflogi staff ac archwilio cyfleoedd ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau rhanberchnogaeth. Hefyd, rydym wedi rhoi pedair gwaith yn fwy o arian i Ynni Cymunedol Cymru er mwyn iddo allu cyflawni ei gynllun busnes tair blynedd.

**Datblygu cynigion ar gyfer Ynni Cymru**

Rydym yn parhau i weithio gyda Phlaid Cymru ar yr ymrwymiad pwysig hwn yn y Cytundeb Cydweithredu fel y gallwn weithio tuag at sefydlu Ynni Cymru ac ehangu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned yng Nghymru. Yn y tymor byr, bydd y gwaith yn canolbwyntio ar gwmpas Ynni Cymru, gan weithio gyda phartneriaid allweddol yn cynnwys Ynni Cymunedol Cymru a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Hefyd, byddwn yn canolbwyntio ar y modd y byddwn yn sefydlu'r endid newydd i gefnogi ei weithrediad, ynghyd â'r modd y gall Ynni Cymru weithio ochr yn ochr â'r datblygwr mawr newydd yn y sector cyhoeddus.

## Yr Amgylchedd

**Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, yn cynnwys rheoli a monitro'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol.**

Bydd y buddsoddiad hwn yn parhau i gyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur (https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur) – sef rhai'n ymwneud â diogelu cynefinoedd a rhywogaethau pwysig iawn a chreu rhwydweithiau ecolegol cadarn. Y bwriad yw diweddaru'r cynllun yn 23/24 er mwyn adlewyrchu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar ôl COP15.

Bydd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn elwa ar gyllid trwy barhau i gyflawni ein Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn 23/24, gan helpu i gyflawni ein targed '30 erbyn 30'. Mae hyn yn allweddol o ran gwella cyflwr a chysylltiad ein safleoedd ar y tir ac ar y môr, gan greu rhwydweithiau ecolegol cadarn a fydd yn galluogi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd yn y perygl mwyaf i ffynnu. Hefyd, bydd yn helpu i gyflwyno natur i ble bynnag y mae pobl yn byw trwy ymgysylltu â chymunedau lleol – bydd hyn o fudd i'n hamgylchedd, ond hefyd bydd o fudd i'n hiechyd a'n llesiant ni fel pobl. Bydd gwaith monitro a gwerthuso cadarn yn rhan hollbwysig o'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur.

**Y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd a Natur am Byth.**

Y Rhaglen Rhwydweithiau Natur

Y Rhaglen Rhwydweithiau Natur – Bydd y dyraniad hwn yn ei gwneud hi'n bosibl i barhau i gyflawni'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed gan CNC i gyflawni Cytundebau Rheoli Tir a hefyd Cronfa Rhwydweithiau Natur y Loteri Genedlaethol, gan ymgorffori argymhellion yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth.

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Mae'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn ei thrydedd flwyddyn ar hyn o bryd. Mae isafswm cyllid dangosol wedi'i ddyrannu ar gyfer dwy flynedd arall – sef £23.4m o gyllid cyfalaf a £7.1m o gyllid refeniw.

Mae'r rhaglen wedi bod yn hynod lwyddiannus yn ystod ei dwy flynedd gyntaf. Gellir crynhoi'r hyn a gyflawnwyd gan y rhaglen fel a ganlyn:

Tabl 1 – Prif Allbynnau'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, 2020-2022.

| Prif Allbynnau | Cyfansymiau 2020/21 a 2021/22 |
|---|---|
| Creu mannau gwyrdd neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol | 1460 |
| Dolydd blodau gwyllt ac ymylon ffyrdd; arferion lladd gwair newydd | 455 |
| Creu perllannau cymunedol | 290 |
| Prosiectau tyfu cymunedol | 345 |
| Cynnwys gwirfoddolwyr | 7000 |
| Plannu coed (mewn trefi, coetir dwys bach, ymylon ffyrdd, parcdir) | 150 hectar (amcangyfrif) |

O ran holl fesurau penodol y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 'creu Mannau Gwyrdd', mae modd i'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur eu cyflawni; yn wir, aethpwyd y tu hwnt i'r gofynion mewn sawl achos. O ran pwysigrwydd arbennig i Fioamrywiaeth, mae'r rhaglen wedi ariannu newidiadau Cymru gyfan mewn arferion lladd gwair ar ymylon ffyrdd a mannau gwyrdd cyhoeddus. Mae'r

newid ymddygiad hwn bellach wedi ennill momentwm – elfen bwysig er mwyn gallu parhau â'r arfer.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi proses gystadleuol ar waith i ddod o hyd i reolwyr ar gyfer y cynllun, fel y gellir cyflawni gwaith yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Mae angen amlen ariannu o £7m (refeniw) a £23m (cyfalaf) fan leiaf dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn sicrhau parhad y rhaglen yn unol â'r dulliau cyflawni presennol. Fodd bynnag, cynlluniwyd y rhaglen mewn modd a fydd yn ei galluogi i fod yn hyblyg, er mwyn iddi allu ymateb i gyfleoedd neu fanteisio ar gyllid ychwanegol.

Mae natur hyblyg y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn ein galluogi i addasu'n gyflym i amgylchiadau newidiol. Gwelir hyn yn y modd cyflym y cafodd fy nghyhoeddiad ynghylch cyllid ychwanegol o £3.3m ar gyfer camau gweithredu Bioamrywiaeth ei gyfuno â Chynllun Partneriaeth Natur Leol y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

Mae modd i'r rhaglen hon addasu'n rhwydd i waith trawsadrannol, fel y gwelir yn y cynllun peilot cyfredol ar gyfer cynyddu Capasiti'r Môr a'r Arfordir, *Cynllun Partneriaeth Morol ac Arfordirol*, a roddir ar waith trwy gyfrwng y Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur.

Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

Dadansoddi tystiolaeth yn ymwneud â thargedau sero net yw sail y cynnydd yn y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, sy'n hollbwysig o ran diwallu anghenion poblogaeth Cymru. Mae hyn wedi llywio'r cynigion gwariant yma.

Natur am Byth

Natur am Byth – Bydd y dyraniad yma'n darparu arian cyfatebol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r prosiect pedair blynedd hwn a roddir ar waith o dan arweiniad CNC. Nod y prosiect yw mynd i'r afael â dirywiad y rhywogaethau sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf yng Nghymru trwy weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid a helpu i ymdrin â'r argyfwng natur.

**Canlyniadau archwiliad dwfn Llywodraeth Cymru i fioamrywiaeth a'r ymrwymiadau disgwyliedig a wneir yn COP15.**

Bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn mynychu COP15 eleni. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu targedau natur yng Nghymru, ynghyd â'u pennu mewn cyfraith, er mwyn ysgogi gweithredu yn y dyfodol – bydd angen cyllid i ategu datblygiad technegol y targedau hyn (fel y nodir uchod). Hefyd, bydd angen diweddaru ein strategaethau allweddol, megis y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, er mwyn adlewyrchu'r camau brys mae angen eu cymryd i gyflawni ein hymrwymiadau yn erbyn y targedau byd-eang, fel y gellir gwrthdroi'r dirywiad mewn natur.

Esgorodd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth ar amryw o argymhellion sy'n anelu at ysgogi camau y gallwn eu cymryd ar y cyd yn syth er mwyn helpu i gyflawni un o nodau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, sef '30 erbyn 30', yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfwng natur. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i gynorthwyo i gyflawni'r argymhellion a'r camau gweithredu. Er mwyn inni allu cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur erbyn 2030, bydd angen darparu cyllid digonol – mae cyllideb wedi cael ei dyrannu i gynorthwyo i ddatblygu model cyllid arloesol ar gyfer y dyfodol. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu ar gyfer rhoi hwb i'r Rhaglen Fawndiroedd a hefyd ar gyfer gwaith pellach y Partneriaethau Natur Lleol.

**Datblygu'r Parc Cenedlaethol newydd yn ardal Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.**

Cyfrifoldeb y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yw dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn ardal Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Bydd dyraniad cyllideb penodol yn 2023-24 yn parhau i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yn ardal Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae dynodi Parc Cenedlaethol yn ymrwymiad sylweddol, ac mae'r mwyafrif o'r cyllid hwn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru, sef ein cynghorwr statudol yn y maes yma, i ymgymryd â'r rhaglen ffurfiol baratoadol angenrheidiol. Mae CNC wedi cwblhau ei waith ar baratoi proses newydd a symlach ar gyfer asesu'r achos dros ddynodi tirweddau newydd yng Nghymru yng nghyd-destun deddfwriaeth Cymru. Ochr yn ochr â hyn, mae CNC yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth angenrheidiol a gaiff ei defnyddio i asesu'r achos dros y Parc Cenedlaethol newydd. Hefyd, bydd CNC yn llunio proses ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn sicrhau y bydd gan yr holl randdeiliaid lais. Mae'r cyllid hwn yn sicrhau bod CNC yn ymgymryd â'r gwaith Dynodi mor effeithiol a thrylwyr â phosibl, gyda'r arbenigedd a'r capasiti angenrheidiol. Llwyddwyd i recriwtio 6 o bobl i swyddi newydd yn nhîm y Rhaglen.

Hefyd, mae'r cyllid yn cynnig refeniw ychwanegol i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel y bydd modd meithrin capasiti a chydnerthedd tra bwrir ymlaen â'r gwaith dynodi a chyn creu Parc Cenedlaethol newydd yn yr ardal.

**Cyflawni'r Cynllun Aer Glân.**

Nod Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach, yw gwella ansawdd yr aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, ar fioamrywiaeth ac ar yr economi. Mae'r Cynllun yn pennu llwybr ar gyfer sicrhau aer glanach, ar sail pedair thema graidd:

- Pobl – Diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Yr Amgylchedd – Cymryd camau i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth
- Llewyrch – Gweithio gyda diwydiant i leihau allyriadau, gan helpu i greu Cymru lanach a mwy llewyrchus
- Lle – Creu lleoedd cynaliadwy drwy wella prosesau cynllunio, seilwaith a thrafnidiaeth

Rydym yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o waith gydag adrannau'r Llywodraeth, gwahanol sectorau yn yr economi a'r cyhoedd er mwyn bwrw ymlaen â'r camau uchelgeisiol a nodir yn y Cynllun. Bydd y cyllid yn helpu i gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun, yn cynnwys camau i gydymffurfio ar frys â therfynau $NO_2$ statudol, ymestyn ein gallu i ymateb i ddigwyddiadau, a gwaith ar Reoli Ansawdd Aer yn Lleol (gan sicrhau bod y gyfundrefn yn canolbwyntio ar iechyd a'i bod yn rhoi dull ataliol ar waith). Hefyd, bydd mesurau yn y Cynllun yn helpu i gyflawni ymrwymiadau'r DU i leihau allyriadau llygryddion erbyn 2030, a bydd yn ategu ein nodau datgarboneiddio.

**Gweithredu'r strategaeth Coetiroedd i Gymru, yn cynnwys y strategaeth Coedwig Genedlaethol.**

Mae'r gyllideb ddrafft yn dyrannu [£8.1m] o gyllid refeniw a [£23m] o gyllid cyfalaf ar gyfer coedwigaeth. Er y gwelir lleihad o £1.1m (refeniw) o gymharu â chynlluniau blaenorol, bydd y gyllideb refeniw ar gyfer coedwigaeth yn dal i fod ymron £3m yn fwy yn 23/24 o gymharu â 22/23.

Bydd yr arian hwn yn cynorthwyo i ddatblygu'r Goedwig Genedlaethol, yn cynnwys creu coetiroedd newydd a chyfoethogi coetiroedd sy'n bodoli eisoes trwy gyfrwng rowndiau pellach y

Grant Buddsoddi mewn Coetir; bydd yn darparu cyllid ar gyfer saith o swyddogion cyswllt ar gyfer y Goedwig Genedlaethol, a fydd yn gweithio gyda thirfeddianwyr ledled Cymru; a bydd hefyd yn ariannu'r gwaith o greu Coedwigoedd Bychain.

Ymhellach, bydd cyllid coedwigaeth yn ategu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i greu Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren a swyddogaethau coedwigaeth trawsffiniol megis iechyd coed a'r Cod Carbon Coetiroedd.

Ymrwymwyd £32m dros gyfnod o dair blynedd i'r cynlluniau newydd ar gyfer creu coetiroedd, a lansiwyd ym mis Awst 2022.

**Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn cynnwys y defnydd a wneir o'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol.**

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn pennu sut byddwn yn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol dros y degawd nesaf gyda'r amcan o flaenoriaethu buddsoddiadau, gwella ein dealltwriaeth o'r risg, meithrin cydnerthedd, atal rhagor o bobl rhag dod i gysylltiad â'r risg, ac ymateb i ddigwyddiadau.

Bydd y cyllid ychwanegol yn helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth hon, yn ogystal â chyfrannu at ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithredu i gynyddu'r cyllid cyfalaf a fuddsoddwn mewn llifogydd a gwella cydnerthedd cenedlaethol. Gwelir hyn yn ein buddsoddiad mwyaf erioed o ran amddiffyn rhag llifogydd, lle aethom ati yng nghyllideb 2022-23 i ymrwymo mwy na £214m dros gyfnod o dair blynedd (Cyfalaf a Refeniw). Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi ein Hawdurdodau Rheoli Risgiau i gyflwyno amddiffynfeydd newydd a gwell, ynghyd â mynd i'r afael â gwaith cynnal a chadw a mân waith ar asedau presennol, ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd, cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a llunio rhagolygon, yn ogystal â rhybuddio, mapio a modelu perygl llifogydd. Hefyd, bydd y cyllid yn helpu i wella gwaith blaengynllunio.

Ymhellach, bydd y cynnydd yn y gyllideb Llifogydd yn helpu i gyflawni cynlluniau yn y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol a fydd, ar ôl iddynt gael eu cwblhau, yn lleihau perygl llifogydd a/neu erydu arfordirol i fwy na 15,200 o gartrefi a busnesau. Bydd hyn yn helpu i gyflawni bron i 35% o ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu, sef ariannu ffyrdd ychwanegol o amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi.

Yn sgil y refeniw ychwanegol, bydd modd darparu ffyrdd ychwanegol o amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi, ynghyd â chyflwyno atebion seiliedig ar natur yn holl brif ddalgylchoedd Cymru a sefydlu cynllun penodol i gynorthwyo i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir.

**Datblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol, a gwaith yr Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio tuag at sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru yn ystod tymor y Senedd bresennol. Mae cyllideb o £480,000 ar gael ar gyfer y gwaith hwn.

Daw'r costau a ysgwyddir mewn perthynas â'r Asesydd Diogelu'r Amgylchedd o gyllideb £45,000 a neilltuir ar gyfer swyddogaethau Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru. Arferai'r gyllideb hon eistedd o fewn y BEL Ymadael â'r UE, ond bydd yn cael ei throsglwyddo i'r MEG Newid Hinsawdd o ail gyllideb atodol 2022-23 ymlaen ac fel rhan o broses y Gyllideb ar gyfer y dyfodol. Mae'r mesurau interim hyn yn cynnig llwybr i bobl ar gyfer crybwyll pryderon ynglŷn â gweithredu cyfraith amgylcheddol hyd nes y caiff y mesurau parhaol eu rhoi ar waith.

**Cyflawni Cynllun Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Manylion am ddyraniadau cyllideb ar gyfer CNC, yn cynnwys:**

Bydd cyllideb yn cael ei dyrannu ar gyfer ariannu prosiectau llwyddiannus a ddyfarnwyd yn ystod 'galwad i weithredu' 2023-24, gan gyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a bennwyd yn fframwaith cynllun rheoli rhwydweithiau Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru. Disgwylir i'r dyraniadau gyfateb i ddyfarniadau a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol a deillio o'r cyllidebau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau'r Môr.

**Sut mae unrhyw ganfyddiadau datblygol mewn perthynas â'r adolygiad llinell sylfaen wedi llywio a dylanwadu ar ddatblygu'r gyllideb ddrafft, a chyllid ar gyfer y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr**

Yn fy llythyr i'r pwyllgor ym mis Mai 2022, fe wneuthum gadarnhau bod fy swyddogion yn gweithio gyda CNC i archwilio'r modd y dyrennir ei adnoddau ar sail ei swyddogaethau statudol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethau yn yr hyn a elwir yn 'adolygiad llinell sylfaen'. Gan weithio ochr yn ochr â'm swyddogion, gofynnais i CNC gyflwyno rhagor o wybodaeth y gellid ei hystyried cyn diwedd Gorffennaf 2022. Cyflwynwyd yr wybodaeth honno yn ôl y gofyn ac rydym yn parhau i weithio gyda CNC i ddarparu rhagor o gyllid Cymorth Grant i roi sicrwydd i'w gyllidebau o flwyddyn ariannol 2023/24 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys £800k i sicrhau y caiff y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr ei hariannu. Ymhellach, byddwn yn gweithio gyda CNC i ystyried Cytundeb Lefel Gwasanaeth Ynni Adnewyddadwy a fydd yn ystyried cyllid ar gyfer y Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr ochr yn ochr â threfniadau ar gyfer cyflawni argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o Drwyddedu Morol.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda CNC i sicrhau bod yr adnoddau sydd ganddo wrth law yn gymesur â'r angen a'u bod yn cydweddu â'i gyfrifoldebau statudol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Dros y blynyddoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan CNC yr hyblygrwydd mwyaf posibl wrth ddyrannu ei adnoddau, a phan fo'n bosibl ac yn briodol byddwn yn cael gwared â rhwystrau sy'n ei atal rhag gwneud hynny.

**Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Manylion am ddyraniadau cyllideb ar gyfer y Comisiwn.**

Yn ystod haf 2022, aeth y Dirprwy Weinidog ati i benodi Dirprwy Gadeirydd, sef Dr Jennifer Baxter, ynghyd â chwech o Gomisiynwyr newydd i weithio ochr yn ochr â'r Cadeirydd, Dr David Clubb.

Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ei adroddiad blynyddol, lle pennir ei raglen waith ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae gwaith ymchwil yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy ar y gweill. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cynnwys tri darn o waith sy'n ystyried y tensiwn a gyfyd o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy; y ffyrdd gorau o gyfleu gwerth ynni adnewyddadwy i Gymru; a sut gallwn ymgysylltu â chymunedau ynglŷn â datblygiadau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol. Y Comisiynwyr Aleen Khan a Nick Tune sy'n arwain y gwaith hwn.

Mae'r Cytundeb Cydweithredu rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru yn ymrwymo y bydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn asesu sut gellir lleihau'r tebygolrwydd y bydd cartrefi, busnesau a seilwaith ledled y wlad yn dioddef llifogydd erbyn 2050.

Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gwmpasu prosiectau a fydd yn cynorthwyo Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru i fynd i'r afael â'r asesiad hwn. Hefyd, mae Grŵp Cynghori sy'n cynnwys arbenigwyr technegol wrthi'n cael ei ffurfio er mwyn helpu i arwain y gwaith hwn. Y Comisiynwyr Eurgain Powell ac Eluned Parrott sy'n arwain y gwaith hwn.

# Papur 12a – Llinellau Gwariant y Gyllideb – Prif Grwp Gwariant Newid Hinsawdd

Mae manylion y Llinellau Gwariant ar y Gyllideb ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Newid hinsawdd ar gael yma:

[Tablau ategol ar gyfer tystiolaeth ysgrifenedig gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd]

Papur 13 - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol – papur yn unig

**Barn ar y Gyllideb Ddrafft**

1. Fel Llywodraeth Cymru, byddwn yn parhau i weithio i flaenoriaethu ein cyllidebau i warchod y rhai mwyaf agored i niwed a chynnal ein hymrwymiad i greu Cymru gryfach, tecach a gwyrddach wrth inni baratoi ein Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth fod hon wedi bod yn gyllideb heriol, a'r un fwyaf heriol ers datganoli.

2. Rydym wedi cyhoeddi ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol o'r Gyllideb Ddrafft, sy'n amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol a fu'n sail i'n penderfyniadau am wariant, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc. Mae'r Asesiad hwn yn un o blith nifer o ddogfennau sydd wedi'u cyhoeddi fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft, ac mae effaith y penderfyniadau am wariant wedi'i hamlinellu yn y prif naratif ym mhennod pedwar, a ategir gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad A. Ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, byddwn yn cyhoeddi crynodeb helaeth o holl dystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar y dyraniadau ym mhob Prif Grŵp Gwariant; bydd hyn yn rhoi cyfrif manylach o effaith penderfyniadau ynghylch y Gyllideb Ddrafft ar grwpiau gwahanol.

3. Sefydlwyd y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, sef Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn flaenorol, ym mis Chwefror 2022. Rôl y Grŵp yw rhoi cyngor, adborth a thystiolaeth o safbwynt cydraddoldeb a chynhwysiant er mwyn sicrhau bod prosesau cyllidebol a threth yn gwella dros y tymor hwy, er mwyn cysoni cyllid â chanlyniadau yn well. Prif ddiben y Grŵp yw cefnogi'r broses o gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb Llywodraeth Cymru (y Cynllun). Nod y Cynllun yw ystyried sut y gallwn wella'r ffordd rydym yn asesu effaith penderfyniadau ynghylch y Gyllideb. Rydym wrthi'n gweithio gyda Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc Plant yng Nghymru i gyd-lunio fersiwn i bobl ifanc o'r Cynllun, i'w chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023.

4. Mae pobl ledled Cymru yn wynebu dyfodol ansicr o ganlyniad i'r argyfwng costau byw na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae'r argyfwng hwn yn fwy tebygol o effeithio ar deuluoedd â phlant na theuluoedd hebddynt.

5. Bydd yn cael yr effaith fwyaf ar blant o aelwyd sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn cynnwys:
    - Plant a phobl ifanc anabl neu sy'n byw mewn aelwyd â pherson anabl
    - Plant Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol
    - Plant mewn aelwydydd un rhiant

6. At hynny, mae'r teuluoedd sy'n wynebu mwy o risg o ganlyniad i'r argyfwng costau byw yn cynnwys:
    - Aelwydydd â phlant ifanc
    - Plant sy'n byw mewn teuluoedd mwy lle mae mwy o blant

7. Fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2023-24, mae nifer o ddyraniadau wedi'u gwneud mewn perthynas â Phlant a Phobl Ifanc. Mae hyn yn cynnwys parhau â'n hymrwymiad i gefnogi'r Grant Amddifadedd Disgyblion drwy ddyrannu £9m ychwanegol yn 2023-24. Bwriedir i hyn helpu plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel a phlant sy'n derbyn gofal i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n eu hatal rhag gwireddu eu potensial yn llawn.

8. Caiff ysgolion yng Nghymru eu hariannu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol - darperir cyllid i ysgolion yn bennaf drwy'r setliad llywodraeth leol. O ganlyniad i'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud, rydym yn darparu £227m ychwanegol yn 2023-24 a £268 ychwanegol yn 2024-25 i'r setliad llywodraeth leol, a fydd yn cynnwys cymorth i ysgolion; mae hyn yn adeiladu ar y £0.75bn a amlinellwyd gennym hyd at 2024-25 fel rhan o'n Hadolygiad o Wariant ar gyfer 2022-2025.

9. Yn ychwanegol at y cyllid rydym yn ei ddarparu i ysgolion drwy'r Setliad Llywodraeth Leol, rydym yn darparu cyllid ychwanegol drwy gyllidebau Addysg, gan gynnwys £5.5m ychwanegol i gefnogi parhad y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn unol ag ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu, a £4.5m pellach i gefnogi'r gwaith o roi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith fel rhan o'n rhaglen diwygio addysg hirdymor. At hynny, rydym yn darparu gwerth £9m ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth ôl-16, gan gynnwys adolygiad o gyllid Adnewyddu a Diwygio a phwysau penodol eraill ar y chweched dosbarth mewn ysgolion a'r sector addysg bellach.

10. Rydym hefyd wedi gallu dyrannu £18.8m ar gyfer y Cynllun Cymorth Dewisol a £2.2m ar gyfer y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol. Awgryma data y caiff 50% o daliadau'r Gronfa Cymorth Dewisol eu gwneud i aelwydydd â phlant. Bydd y cymorth ychwanegol yn sicrhau bod y cyllid hwn yn parhau i fod ar waith pan fydd unigolion a theuluoedd ledled Cymru yn wynebu costau digynsail am hanfodion fel bwyd a thanwydd. Mae'r cynllun peilot incwm sylfaenol yn ymyriad radical sy'n cefnogi grŵp o bobl ifanc sy'n gadael gofal drwy roi incwm misol o £1,600 (cyn treth) iddynt.
    Rydym yn parhau i gefnogi'r cynllun peilot, a fydd ar waith dros y ddwy flynedd nesaf, ac yn dyrannu £2.2m ychwanegol yn 2023-24.

**Gweithio ar draws y Cabinet i sicrhau bod y Gyllideb yn hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol**

11. Fel Cabinet, rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol; ystyrir y materion hyn drwy Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw yn ogystal ag Is-bwyllgor y Cabinet ar y Rhaglen Lywodraethu.

12. Ym mis Mawrth eleni, cyflwynais bapur gerbron y Cabinet ar fesurau trawslywodraethol i drechu tlodi, a gefnogwyd yn ddiamwys gan fy nghydweithwyr yn y Cabinet. Cynhaliais gyfres o gyfarfodydd dwyochrog dilynol i drafod beth arall y gallwn ei wneud ar draws y llywodraeth i drechu tlodi ac anghydraddoldeb. Rhoddodd y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg gyflwyniad yn yr Uwchgynhadledd ddiweddaraf ar Drechu Tlodi a Chostau Byw ym mis Tachwedd, ac mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol hefyd wedi cyfrannu at yr Uwchgynadleddau a gynhaliwyd gennym yn 2022. Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi cynnal nifer o gyfarfodydd ar y cyd â rhanddeiliaid am fod cysylltiad annatod rhwng ein hymrwymiad i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

**Tlodi Plant**

13. Mae'r Gweinidogion yn ymrwymedig i gyflawni'r amcanion sy'n canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc, lleihau anghydraddoldebau o ran addysg, iechyd a chanlyniadau economaidd, creu economi a marchnad lafur gref a chymryd camau i gynyddu incwm aelwydydd.

14. Fel y gwyddoch, mae Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw, a gadeirir gan Brif Weinidog Cymru, yn rhoi cyfeiriad strategol i'n hymateb i'r argyfwng costau byw. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ymdrechion Llywodraethu Cymru a'n partneriaid ar wella canlyniadau i

aelwydydd incwm isel a sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ar draws portffolios.

15. Mae ein Strategaeth Tlodi Plant yn nodi amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi plant drwy ganolbwyntio ar yr hyn y gwyddom ei fod yn gweithio'n dda gan ddefnyddio'r ysgogiadau sydd ar gael.

16. Byddwn yn adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion tlodi plant cyn y flwyddyn newydd. Rwyf wedi ymrwymo i ddiwygio'r strategaeth bresennol. Er bod yr amcanion yn dal i fod yn berthnasol, nid yw'r strategaeth ei hun yn cydnabod effaith y pandemig, ein hymadawiad o'r DU na'r argyfwng costau byw ar dlodi.

17. Bydd y strategaeth newydd yn nodi ein dull gweithredu ar y cyd fel Llywodraeth i drechu tlodi plant. Byddaf yn cyflwyno papur gerbron y Cabinet ym mis Ionawr a fydd yn rhoi'r cyfle i drafod ein dull gweithredu ymhellach.

18. Ni fydd fawr ddim costau yn gysylltiedig â datblygu'r strategaeth ddiwygiedig. Byddant yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r camau a gymerir i sicrhau bod rhanddeiliaid a sefydliadau, pobl a chymunedau a phlant a phobl ifanc yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu i'n helpu i gymryd camau i sicrhau bod lleisiau'r rhai y mae tlodi'n cael yr effaith fwyaf andwyol arnynt yn cael eu clywed.

**Deilliannau addysgol, y Grant Datblygu Disgyblion  a bylchau mewn cyrhaeddiad**

19. Mae atal effeithiau tlodi ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc wrth wraidd ein Grant Datblygu Disgyblion blaenllaw. Rydym wedi ehangu'r Grant Datblygu Disgyblion o flwyddyn i flwyddyn i adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, gan ddyrannu mwy na £130m ar gyfer 2022-23. Mae hyn yn cynnwys Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar.

20. Mae'r argyfwng costau byw a'r dirywiad economaidd presennol yn effeithio ar aelwydydd incwm is. Gan adeiladu ar yr £20m ychwanegol a ddyrannwyd fel rhan o Adolygiad o Wariant y llynedd, rydym yn dyrannu £9m pellach i'r Grant Datblygu Disgyblion o 2023-24 i gefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn economaidd.

21. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr rhanbarthol y Grant Datblygu Disgyblion i nodi'r meysydd hynny lle y gall cyllid gael yr effaith fwyaf, yn enwedig yng nghyd-destun argymhellion a nodwyd yr adroddiad ar yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru; gan flaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion mwy difreintiedig; a gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau fformiwlâu cyllido ysgolion mwy cyson a thryloyw.

22. Rydym wedi nodi'n glir fod mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad wrth wraidd ein cenhadaeth genedlaethol ym maes addysg. Mae gan y Grant Datblygu Disgyblion ran allweddol i'w chwarae yn hyn o beth, a byddwn yn adeiladu ar yr arferion effeithiol sydd eisoes yn bodoli drwy sicrhau ein bod yn targedu'r cyllid yn y ffordd orau posibl. Er mai mater i ysgolion ddylai penderfynu sut i ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion fod yn y pen draw, mae angen i'r penderfyniadau hyn fod yn fwy strategol ac yn fwy seiliedig ar dystiolaeth, ac mae angen iddynt gael eu monitro'n drylwyr o ran eu heffaith. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi diweddaru telerau ac amodau'r grant a byddwn yn llunio canllawiau newydd i ysgolion ar ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, gan weithio'n agos gyda'r Sefydliad Gwaddol Addysgol.

23. Rydym yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor sy'n cynnal ymchwil ar dargedu cyllid

amddifadedd ysgolion yn effeithiol yng Nghymru. Prif nodau'r prosiect ymchwil yw:

- Adolygu sut y caiff y Grant Datblygu Disgyblion ei ddefnyddio yng Nghymru a sut y caiff grantiau tebyg eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r DU.
- Adolygu'r prif ddangosyddion a ddefnyddir gan ysgolion i dargedu cyllid a dylunio ymyriadau.
- Gwerthuso sut mae trefniadau adrodd yn effeithio ar ddysgu, staff ysgolion a deilliannau dysgwyr.
- Adolygu a gwneud argymhellion ar fesurau priodol a thystiolaeth o ddeilliannau.
- Nodi pa waith pellach y mae angen ei wneud i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar waith llunio polisïau yn y dyfodol, prosesau dyrannu adnoddau a dulliau targedu adnoddau, a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth.

24. Mae plant sy'n derbyn gofal ymhlith ein plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed. Yn ogystal â chymorth drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, ers 2021-22 rydym wedi darparu cyllid grant cychwynnol i nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn rhoi model Ysgolion Rhithwir ar waith, sydd â'r nod o wella profiadau a deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd a'r rhai sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol. Y gyllideb ar gyfer 2022-23 yw £1.1m ac mae hwn yn gynllun peilot parhaus a fydd yn parhau yn ystod ei flwyddyn olaf yn 2023-24.

25. Rydym wedi nodi grŵp bach o arweinwyr i weithio fel Pencampwyr Cyrhaeddiad a fydd yn darparu cymorth rhwng cymheiriaid penodol i benaethiaid mewn ysgolion sy'n rhan o'r cynllun peilot, yn mynychu trafodaethau bord gron ar wersi a ddysgwyd, yn rhannu eu profiadau ac yn eirioli dros y maes polisi pwysig hwn. Mae hwn yn gynllun peilot cefnogol a hunanddethol, sy'n gweithio gyda phenaethiaid sydd wedi dangos cynnydd parhaus wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, sydd â phrofiad o fentora a meithrin gallu a dealltwriaeth o bwysau cynyddol costau byw ar rieni a theuluoedd. Bydd y cynllun peilot yn dangos arweinyddiaeth systemau ar waith, ac mae'n canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei ddysgu am y dull gweithredu cefnogol hwn i lywio polisïau ac arferion yn y dyfodol. Cynhelir y cynllun peilot gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol ac rydym yn darparu
£157,600 ar gyfer y gwaith hwn.

26. Drwy Raglen Lywodraethu 2021-2026, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo o wneud y canlynol: *'Buddsoddi yn amgylchedd dysgu Ysgolion Bro, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol.'* Mae hyn yn rhan allweddol o'n nod i sicrhau cydraddoldeb addysgol drwy ein polisi ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'n rhan yr un mor allweddol o'n nod i greu cymunedau cysylltiedig sy'n ffynnu ac sydd wedi'u grymuso.

27. Ein huchelgais yw sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn Ysgol Fro sy'n ymateb i anghenion ei chymuned, yn meithrin partneriaeth gref â theuluoedd ac yn cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill.

28. Yn 2022-23, rydym wedi buddsoddi'r canlynol:
    - £3.84m i gynyddu nifer y swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gyflogir gan ysgolion, gan sicrhau bod rhan o'u rôl yn canolbwyntio ar wella presenoldeb disgyblion;
    - £660k i dreialu'r broses o benodi rheolwyr ysgolion bro;
    - gwerth £20m o fuddsoddiad cyfalaf i alluogi ysgolion i ddatblygu ymhellach fel asedau cymunedol, gan wneud yr ysgol yn fwy hygyrch ac agored i'w chymuned leol.

**Y Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

29. Rydym yn deall y rhwystrau penodol o ran iaith a diwylliant y gall plant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hwynebu, a dyna pam y mae'n bwysig eu bod yn cael eu cefnogi i wireddu eu potensial yn llawn.

30. Rydym wedi darparu cyfanswm o £11m i awdurdodau lleol yn 2022-23 drwy'r Grant Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol, Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ariannu gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol, a bydd y cyllid hwn yn parhau ar gyfer 2023-24. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi anghenion addysgol pob plentyn a pherson ifanc o gymunedau ethnig lleiafrifol, gan gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae'r cyllid hwn yn cydnabod y rôl bwysig y mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn ei chwarae i gefnogi plant a phobl ifanc, a'r cynnydd parhaus yn nifer y dysgwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, y mae angen cymorth arnynt.

**Cynhwysiant Digidol mewn ysgolion**

31. Fel rhan o'n rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu', roedd Cymru mewn sefyllfa dda i gefnogi pob dysgwr drwy ddarpariaeth dysgu ar-lein ac ni fu fawr o dro yn sefydlu cymorth ar gyfer dysgwyr a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol mewn ysgolion a gynhelir drwy'r sylfeini a sefydlwyd gan raglen technoleg addysg Hwb.

32. Cydnabu'r Sefydliad Polisi Addysg strategaeth ddigidol Llywodraeth Cymru, seilwaith presennol a chydweithrediad ag awdurdodau lleol fel ffactorau galluogi allweddol i ysgolion ledled Cymru gyflwyno dysgu digidol, yn enwedig yn ystod y pandemig.

33. Mae cydraddoldeb digidol yn hollbwysig ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i nodi cyfleoedd newydd i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i wella safonau a lleihau effaith addysg ar aelwydydd, fel darparu'r cytundeb trwyddedu Microsoft Education i Gymru gyfan er mwyn galluogi pob dysgwr ac athro i lawrlwytho Microsoft Office gartref **am ddim.**

34. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwbl ymrwymedig i barhau i gefnogi platfform technoleg addysg Hwb er mwyn sicrhau mynediad teg i bob ysgol a gynhelir at becynnau ac adnoddau y gellir eu defnyddio unrhyw bryd, unrhyw le. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mwy na £180 miliwn, gan gynnwys £10 miliwn arall yn y flwyddyn ariannol hon, i ddiogelu seilwaith technoleg addysg ar gyfer y dyfodol ac wedi darparu mwy na 230,000 o ddyfeisiau defnyddwyr terfynol, ac mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i ddiweddaru'r adnoddau a'r perifferolion addysgu a dysgu ledled Cymru er mwyn helpu i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

35. Gall ysgolion ledled Cymru hefyd fanteisio ar lwyfan dysgu digidol Hwb, sy'n helpu i wella'r defnydd o dechnoleg ddigidol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae Hwb yn rhoi mynediad i bob disgybl ac athro mewn ysgolion a gynhelir, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill ym maes addysg, fel athrawon dan hyfforddiant ac athrawon cyflenwi, i amrywiaeth o seilwaith, pecynnau ac adnoddau digidol dwyieithog sy'n helpu i drawsnewid addysgu a dysgu digidol yng Nghymru. Mae llwyfan dysgu digidol Hwb wedi'i ddylunio i sicrhau y gellir defnyddio'r adnoddau, y pecynnau a'r gwasanaethau unrhyw le, unrhyw bryd, ar ddyfais wedi'i chysylltu â'r Rhyngrwyd.

36. Drwy'r mentrau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu sylfeini cenedlaethol a all gefnogi'r sector Addysg a'i drawsnewid. Mae hefyd yn sicrhau bod technoleg ddigidol wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru ac yn darparu cymorth i ysgolion i ysbrydoli ein hathrawon a'n dysgwyr i greu diwylliant sy'n ymgorffori arferion digidol.

**Cynhwysiant ariannol a'i gysylltiadau â'r cwricwlwm newydd**

37. Mae Cynhwysiant Ariannol a Chynllun Cyflawni Llesiant Ariannol Cymru yn cyd-fynd yn agos â'r cwricwlwm newydd i gynnig cyfleoedd dysgu i blant rhwng 3 a 16 oed.

38. Mae'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer Cymru yn cynnig gweithgareddau sy'n anelu at helpu 90,000 yn fwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru i gael addysg ariannol ystyrlon a chafodd ei lunio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau.

39. Mae addysg ariannol yn cyfeirio at unrhyw weithgaredd sy'n helpu plant a phobl ifanc i feithrin yr wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sydd eu hangen arnynt i reoli eu harian yn dda ar gyfer y dyfodol. Mae cysylltiadau cryf iawn rhwng addysg ariannol a'r rhan fwyaf o agweddau ar lesiant ariannol oedolyn/ar gyfer y dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhoi uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i Gymru wella llesiant chymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.

40. Mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u nodi yn adran Sylfeini Ariannol y Cynllun:

- cefnogi undebau llafur i ddarparu cynlluniau cynilwyr ysgol i gynyddu nifer y plant oed ysgol sy'n cynilo'n rheolaidd i gefnogi gwydnwch ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cefnogi pedwar undeb credyd i gynnal prosiectau cynilwyr ysgol ym Merthyr Tudful, Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr. Defnyddir dulliau cyflawni gwahanol - caiff rhai cynlluniau eu harwain gan y plant er mwyn cynyddu'r cyfleoedd dysgu i'r eithaf, caiff rhai eu harwain gan athrawon/gwirfoddolwyr a chaiff eraill eu cynnal gan swyddog dynodedig yn yr ysgol;
- cyflenwi'r gwerslyfr dwyieithog Mae'ch Arian o Bwys i bob ysgol uwchradd yng Nghymru a gwerthuso ei effaith;
- Mae addysg ariannol yn y cartref, yn rhaglenni hyfforddi'r llywodraeth ac mewn lleoliadau ieuenctid eraill hefyd yn flaenoriaeth. Datblygwyd a threialwyd Siarad, Dysgu, Gwneud yng Nghymru. Mae'n helpu rhieni/gofalwyr i addysgu eu plant am arian gyda'r nod o wella gallu ariannol. Caiff rhaglen Siarad, Dysgu, Gwneud hefyd ei hymestyn i ymgorffori cynnwys i blant yn eu harddegau a phobl ifanc, gan alluogi rhieni plant hŷn i'w cefnogi wrth iddynt bontio i fyd oedolion. Digideiddio cynnwys Siarad, Dysgu, Gwneud drwy gwmpasu ac ymgysylltu ag asiantaeth ddigidol i greu a chyhoeddi cynnwys Siarad, Dysgu, Gwneud yn ddigidol.

41. Mae'r prosiect braenaru hyfforddiant athrawon a gynhelir gan Young Money mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r cymorth cyfyngedig sydd ar gael i athrawon i ddarparu addysg ariannol. Y nod yw parhau i hyrwyddo'r dysgu yng Nghymru ac annog mwy o athrawon i fanteisio ar gymorth i wella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder i addysgu am arian, a gwella gallu ariannol pob ifanc. Cyhoeddwyd canfyddiadau prosiect braenaru Cymru yn ystod Gwanwyn 2022 (gwerthusiad ymchwil https://maps.org.uk/wp-content/uploads/2022/05/Prosiect- Braenaru-Cymru-Adroddiad-Terfynol-Cymraeg.pdf)

42. Y nod yw ei lansio yn y tair gwlad arall erbyn diwedd 2022, gan gyflwyno'r hyfforddiant athrawon yn ystod gwanwyn 2023, yn barod ar gyfer gwaith gwerthuso a chynllunio'r camau nesaf yn ystod hydref 2024.

43. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau a'r grŵp llywio i fonitro'r broses o roi'r camau gweithredu hyn ar waith yn barhaus, gan ystyried y newid yn y dirwedd yn sgil COVID-19 a'r argyfwng costau byw.

44. Cefnogir y Cynllun Cyflenwi gan fewnbwn gan fwy na 90 o randdeiliaid yng Nghymru, gan

gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, sefydliadol addysgol, adrannau'r llywodraeth, ac mae'r gwaith hwn ar y cyd â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn hanfodol i'w lwyddiant. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth i'w gyflawni.

**Addysg uwch**

45. Rydym yn darparu'r system cyllid myfyrwyr fwyaf blaenllaw yn y DU drwy gynnig grantiau costau byw i gefnogi'r rheini y mae angen y cymorth arnynt fwyaf. Caiff y lefelau uchaf o grantiau eu targedau at y myfyrwyr hynny o aelwydydd sydd â'r incymau isaf. Mae sicrhau y gall pob myfyriwr cymwys fanteisio ar yr un uchafswm o gyllid yn creu cyfle cyfartal i fyfyrwyr yng Nghymru.

46. Mae cymorth ar gael i'r rheini sy'n dymuno astudio cwrs addysg uwch dynodedig mewn prifysgol neu sefydliad addysg bellach yn y DU, boed hwnnw'n yn gwrs israddedig neu ôl-raddedig.

47. Rydym yn cynnig cymorth ychwanegol i fyfyrwyr anabl er mwyn sicrhau y gallant fanteisio ar yr un cyfleoedd addysg uwch a phrofiadau astudio â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl. Mae grant nad yw'n ad-daladwy o fwy na £32,000 bob blwyddyn academaidd ar gael ar gyfer cymorth anfeddygol, cymorth symudedd, cyfarpar a lle y bo angen, gwaith uwchraddio i lety byw. Nid yw'r grant yn seiliedig ar brawf modd ac mae ar gael i fyfyrwyr israddedig, ôl-raddedig, amser llawn, rhan-amser a dysgu o bell heb ostyngiad; mae'r cymorth yn seiliedig ar anghenion y myfyriwr.

48. Caiff unigolion sy'n gadael gofal dan 25 oed cymwys lefel uchaf y grant cynhaliaeth sydd ar gael nad yw'n seiliedig ar brawf modd. Mae prifysgolion yng Nghymru hefyd yn cefnogi unigolion sy'n gadael gofal drwy wahanol brosiectau, bwrsarïau a gwaith gydag elusennau arbenigol. Disgwylir i'r gwaith hwn barhau.

49. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrando ar ofalwyr ifanc ac wedi gweithio gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i wella canllawiau i ymarferwyr. O ganlyniad, cytunwyd ar fwy o ddisgresiwn wrth reoli presenoldeb gofalwyr, gan sicrhau nad oeddent yn cael eu cosbi'n ddiangen am fod yn absennol oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.

50. Rydym hefyd yn cynnig grantiau i'r rheini mewn addysg uwch sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys Grant Gofal Plant, Lwfans Dysgu i Rieni a Grant Oedolion Dibynnol.

51. Gall myfyrwyr â dibynyddion hefyd wneud cais am grantiau ychwanegol sy'n seiliedig ar brawf modd (sef Grantiau i Ddibynyddion) i helpu gydag unrhyw gostau ychwanegol y byddant yn mynd iddynt. Mae hyn yn cynnwys gofal plant. At hynny, ym mlwyddyn ariannol 2022/23, gwnaethom ddileu'r cyfyngiad a oedd yn atal myfyrwyr ar gyrsiau dysgu o bell i fanteisio ar y grantiau hyn, gan gydnabod y cynnydd mewn dysgu cyfunol a myfyrwyr sy'n awyddus i astudio'n rhan-amser er mwyn eu helpu i gydbwyso eu hymrwymiadau presennol ac astudio. Mae'r grantiau hyn bellach ar gael i fyfyrwyr newydd a myfyrwyr sy'n parhau.

52. Rydym yn cydnabod na all llawer o fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru fanteisio ar ein pecyn hael o gymorth i fyfyrwyr, ond mae'r cyllid rydym wedi'i ddarparu, i atgyfnerthu cronfeydd caledi a gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth arall yn ystod y pandemig, a chymorth brys arall a gynigir i fyfyrwyr yn ystod yr argyfwng presennol, ar gael i bob myfyriwr, gan gynnwys ein myfyrwyr rhyngwladol.

53. Mae ehangu mynediad i addysg uwch a thu hwnt yn gwneud cyfraniad sylweddol at gymdeithas ac economi Cymru, yn cefnogi ein hymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, cyfiawnder cymdeithasol, symudedd cymdeithasol, uwchsgilio economaidd a gweithgareddau cenhadaeth ddinesig sefydliadau fel gweithio gydag ysgolion.

54. Mae Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad CCAUC yn nodi'r modd y mae'n mynd ati i ehangu mynediad o dan nifer o themâu strategol. Mae gofalwyr wedi'u cynnwys fel carfan heb gynrychiolaeth ddigonol ac un o flaenoriaethau strategol CCAUC yw: blaenoriaethu gofalwyr, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal wrth ddatblygu strategaeth Ehangu Mynediad a'i rhoi ar waith. Mae camau gweithredu tuag at gyflawni'r flaenoriaeth hon yn cynnwys:
   - strategaethau a chynlluniau'r Rhaglen Ymestyn yn Ehangach i ddangos gwaith partneriaeth â sefydliadau addysg bellach, ysgolion a sefydliadau eraill i flaenoriaethu gweithgareddau i ofalwyr, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal;
   - cyhoeddi canllawiau ar gynllun ffioedd a mynediad i annog cymorth i ofalwyr, plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

55. Cefnogir y Rhaglen Weithredu gan Raglen Ymestyn yn Ehangach CCAUC. Drwy weithio gydag ysgolion, colegau a chymunedau â blaenoriaeth, nod Rhaglen Ymestyn yn Ehangach yw annog mwy o unigolion o grwpiau a chymunedau â blaenoriaeth yng Nghymru i ddilyn cyrsiau addysg uwch drwy feithrin sgiliau a dyheadau addysgol a chreu cyfleoedd astudio a llwybrau dysgu arloesol i addysg uwch.

56. Dros gyfnod y strategaeth bresennol (2022/23 i 2024/45), mae CCAUC yn bwriadu buddsoddi £2m bob blwyddyn i gefnogi strategaethau Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach. At hynny, mae sefydliadau addysg uwch yn ariannu eu cyfraniad at Raglen Ymestyn yn Ehangach drwy fuddsoddi £1.7m mewn cynllun ffioedd a mynediad bob blwyddyn, gan fuddsoddi cyfanswm o £3.7m bob blwyddyn dros gyfnod y strategaeth o 2022/23.

57. Nod y rhaglen yw ymgysylltu ag ysgolion cynradd ac uwchradd; pobl ifanc hyd at 18 oed; oedolion 21 oed a throsodd heb unrhyw gymwysterau addysg uwch, o ddau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio gydag unigolion sydd â phrofiad o ofal a gofalwyr; pobl ag anableddau; a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol er mwyn helpu i leihau'r rhwystrau i addysg a wynebir gan y grwpiau hyn.

58. Mae CCAUC wedi cael y dasg o barhau i gefnogi sefydliadau i wneud cynnydd cyflym a chyson wrth fynd i'r afael â hiliaeth a gwella profiad staff a myfyrwyr yn y sector addysg uwch, ni waeth beth fo'u cefndir hiliol. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau yn gweithio tuag at gyflawni nod siarter i ddangos eu hymrwymiad i ddileu hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol ar bob lefel yn y sector.

59. Mae CCAUC wedi dyrannu cyllid i brifysgolion yng Nghymru i gefnogi cydraddoldeb hiliol ym maes addysg uwch. Diben y cyllid yw atal anghydraddoldeb, mynd i'r afael â gwrth-hiliaeth, cefnogi newid mewn diwylliant, a helpu i gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru.

60. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a gyhoeddwyd gennym yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth, yn cynnwys camau gweithredu penodol i sefydliadau addysg uwch. Mae'r nodau a'r camau gweithredu rydym wedi'u gosod ar gyfer sefydliadau addysg uwch yn adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud yn y sector ac yn cefnogi eu gwaith i wella profiad staff a myfyrwyr addysg uwch, ni waeth beth fo'u cefndir hiliol.

61. Mae gan bob prifysgol yng Nghymru gronfeydd caledi ar waith i gefnogi myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol. Caiff gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael ei darparu ar eu gwefannau a'i hyrwyddo drwy amrywiaeth o sianeli.

62. Mae ein prifysgolion wedi bod yn cymryd camau i gefnogi eu staff a'u myfyrwyr i ddelio ag effeithiau costau byw cynyddol a phwysau ariannol eraill. Ymhlith y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith mae cronfeydd caledi cynyddol, cynlluniau bwrsari sy'n seiliedig ar brawf modd, benthyciadau byrdymor a grantiau argyfwng; mannau astudio cynnes; bwyd a phrydau cynnes am ddim neu gost isel. banciau bwyd ar y campws; cynhyrchion mislif am ddim; cyngor ariannol ar-lein am ddim; gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau eraill am ddim; yn ogystal â lwfansau milltiredd cynyddol i fyfyrwyr ar leoliadau.

63. Yn ychwanegol at gefnogi iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr, bydd y camau y mae ein sefydliadau yn eu cymryd yn helpu myfyrwyr i gadw'n iach ac i barhau i astudio, gan sicrhau y gallant lwyddo a gwireddu eu huchelgeisiau a manteisio i'r eithaf ar eu profiad yn y brifysgol.

64. Gan gydnabod yr anawsterau a'r heriau penodol a achoswyd gan y pandemig, gwnaethom ddyrannu £50m o gyllid ychwanegol i CCAUC yn 2020-21 i atgyfnerthu cymorth i fyfyrwyr, yn enwedig y rheini a oedd yn wynebu anawsterau ariannol, emosiynol neu iechyd meddwl. Darparwyd £10m yn benodol i wasanaethau iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr a £40m i atgyfnerthu cymorth i fyfyrwyr a oedd yn wynebu caledi ariannol.

**Dyraniadau ar gyfer gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Plant**

65. Mewn cyd-destun ariannol heriol iawn, mae'n bleser gennym allu cynyddu cyllideb Comisiynydd Plant Cymru.

66. Bydd hyn yn galluogi Swyddfa'r Comisiynydd Plant i gyflawni ei gwaith pwysig fel sefydliad hawliau dynol annibynnol i gefnogi hawliau plant a sicrhau y caiff eu lleisiau eu clywed.

67. Bydd y cyllid hwn yn galluogi'r Comisiynydd newydd i gynllunio ei gwaith yn unol â'r blaenoriaethau a rannwyd â hi gan blant a phobl ifanc drwy arolwg Gobeithion i Gymru. Caiff canlyniadau'r arolwg hwnnw eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Ar ôl craffu'n ddiweddar ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd, mae'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o rai o'r pryderon hynny sy'n ymwneud â'r ffaith nad oes gan blant ddigon o arian i dalu am y pethau sydd eu hangen arnynt.

68. Mae'n bleser gennym allu cynnal sefyllfa ariannol Swyddfa'r Comisiynydd Plant er mwyn iddi allu parhau â'i gwaith achos, ei gweithgareddau cyfranogi a'i hyfforddiant i gefnogi anghenion pob plentyn yng Nghymru.

Papur 14 - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – tystiolaeth ysgrifenedig gan y Prif Weindog – papur un unig

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 8 Tachwedd ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-2024.

Cysylltiadau Rhyngwladol

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r dyraniad ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn y Gyllideb Ddrafft ddangosol ar gyfer **2023-24**.

| - **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 Rhagfyr 2021** | **Trosglwyddiadau MEG i MEG** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022** |
|---|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Cysylltiadau Rhyngwladol | 8,904 | (350) | 8,554 |
| **Cam gweithredu: Rhyngwladol** | **8,904** | **(350)** | **8,554** |
| **Maes Rhaglenni Gwariant: Rhyngwladol** | **8,904** | **(350)** | **8,554** |

Mae gostyngiad o £350,000 i £8.554m yn y gyllideb o ganlyniad i drosglwyddiad MEG i MEG (Prif Grŵp Gwariant) y cytunwyd arno, o Gysylltiadau Rhyngwladol i Ddatblygiad Rhyngwladol er mwyn helpu i gyflawni agweddau Cymru ac Affrica ar y Strategaeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ryngwladol. Gwnaed y trosglwyddiad yn 2022-23 a bydd hefyd yn cael ei weithredu yn 2023-24 a 2024-25 gan ymestyn y trosglwyddiadau o £350,000 hyd at ddiwedd y Strategaeth Ryngwladol. Daw'r tabl uchod o'r tablau Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) a gyhoeddwyd ar gyfer Cyllideb Derfynol 2022-23 i 2024-25.

Ers hynny bu gostyngiad pellach o 2% i'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol fel rhan o ailflaenoriaethu cyllideb yr hydref Llywodraeth Cymru a gostyngiadau yn y gyllideb o fewn y MEG. Felly, mae cyllidebau Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2023-24 wedi gostwng o £8.554m i £8.383m (£0.171m yn llai).

Fel rhan o'r broses cyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2023-24, cytunwyd y bydd £100,000 ychwanegol yn cael ei drosglwyddo o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol o fewn MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r BEL Datblygu Rhyngwladol o fewn MEG Cyfiawnder Cymdeithasol er mwyn talu pwysau chwyddiant ar gyfer prosiect Plannu Coed Mbale. Dim ond ar gyfer blwyddyn 2023-24 y mae'r trosglwyddiad hwn. Mae hynny'n golygu mai £8.283m fydd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2023- 24.

Alldro terfynol **2021-22** ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol oedd £5.861m yn erbyn cyllideb o £8.554m - tanwariant o £2.692m. Mae'r amrywiant hwn yn ganlyniad i oedi o ran atgyfnerthu'r swyddfeydd tramor a llai o weithgareddau ymgysylltu gydol y flwyddyn. Dau ffactor yw effeithiau'r pandemig Covid, sy'n parhau i effeithio ar ranbarthau ledled y byd ar adegau gwahanol.

Roedd y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer **2022-23** yn £8.554m yn y lle cyntaf. Yna fe wnaeth Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 ar gyfer Cyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ostwng y gyllideb honno o £8.554m i £8.537m oherwydd bod £17,000 ar gyfer prydlesi IAS17 wedi cael ei ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn. Hefyd, cytunodd Cysylltiadau Rhyngwladol i drosglwyddo £100,000 i MEG yr Economi er mwyn cefnogi ymgyrch farchnata Cwpan y Byd, gyda phwyslais ar werthoedd, ac ail drosglwyddiad o £20,000 i MEG yr Economi er mwyn cefnogi'r artistiaid hynny fu'n cynrychioli Cymru yng Ngŵyl Lorient. Bydd Cysylltiadau Rhyngwladol hefyd yn derbyn dyraniad cyllid untro o £7,000 gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu er mwyn cefnogi dyfarniadau cyflog i staff wedi'u lleoli dramor. Arweiniodd hyn at gyllideb gwerth £8.424m ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2022-23.

Mae cysylltiadau rhyngwladol yn rhagweld alldro o tua £7.9m yn 2022-23 ac felly tanwariant o tua £524,000 ar gyfer eleni (i'w gadarnhau). Dylid nodi bod sawl newidyn yn ymwneud â'r rhagolwg hwn a byddwn yn ei adolygu'n gyson. Mae'r pandemig Covid wedi parhau i effeithio ar ein rhwydwaith a gwaith ymgysylltu eleni - er i raddau llai nag yn 2021-22.

<u>Datblygiad rhyngwladol</u>

Mae Cyllideb Ddrafft Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2023-24 yn £1.275m sy'n cynnwys £925,000 gan MEG gwahanol o dan gyfrifoldeb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ynghyd â'r trosglwyddiad MEG i MEG y soniwyd amdano uchod o £350,000 gan Gysylltiadau Rhyngwladol i ddarparu agweddau ar y Strategaeth Ryngwladol (prosiect Plannu Coed Mbale a phrosiectau grymuso menywod). Fel y nodwyd uchod, bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei weithredu yn 2024-2025 hefyd tan ddiwedd y Strategaeth Ryngwladol.

Fel rhan o'r broses cyllideb atodol ar gyfer 2023-24, bydd £100,000 ychwanegol yn cael ei drosglwyddo o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r BEL Datblygu Rhyngwladol o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i dalu pwysau chwyddiant ar gyfer prosiect Plannu Coed Mbale. Dim ond ar gyfer blwyddyn 2023- 24 y

mae'r trosglwyddiad hwn

Roedd y gyllideb Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2021-22 yn £1.275m, gyda dim ond £350,000 o'r cyfanswm hwnnw dan gyfrifoldeb y Prif Weinidog. Yr alldro terfynol am y flwyddyn oedd £6.775m gyda'r gorwario o £5.5m y cytunwyd arno yn 2021-2022 oherwydd rhodd gwerth £4m y Pwyllgor Argyfyngau (DEC) i Wcráin a £1.5m arall a wariwyd ar grantiau yn ymwneud â Covid gyda £0.633m fel gwariant cyfalaf.

Y gyllideb Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2022-23 yw £1.275m, gyda rhagolygon alldro o £1.375m sy'n cynnwys pwysau a ragwelir o £100,000 ar gyfer apêl llifogydd DEC Pacistan. Bydd tanwario yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn gwneud iawn y gorwariant hwn.

Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 ar gyfer Datblygiad Rhyngwladol yw £1.275m.

## Gwybodaeth arall

Cyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2023-24 yw £8.283m, ar ôl trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000 o'r grwp Cysylltiadau Rhyngwladol i gyflawni agweddau ar y Strategaeth Ryngwladol (Prosiect Plannu Coed Mbale a phrosiectau grymuso menywod) a throsglwyddiad MEG i MEG ychwanegol o £100,000 i dalu pwysau chwyddiant ar gyfer prosiect plannu coed Mbale.

O'r gyllideb hon gwerth £8.283 miliwn ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2023-24, dyrannwyd £4.684 miliwn i'r gyllideb costau rhedeg swyddfeydd tramor, £0.75 miliwn i'r gyllideb gweithgareddau swyddfeydd tramor ac wedyn £2.849 miliwn i'r gyllideb Ymgysylltu Ryngwladol.

O fewn y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol hon o £2.849m, mae £150,000 wedi'i ddyrannu i'r Cynllun Gweithredu Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol sy'n cael Blaenoriaeth, £1.3 miliwn ar gyfer Cynllun Gweithredu ar Gymell Tawel a Diplomyddiaeth Gyhoeddus ac mae £190,000 wedi'i ddyrannu i'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar.
Caiff gweddill y gyllideb, £1.21m, ei ddefnyddio i ariannu gweithgarwch trawsbynciol sy'n cefnogi ein hamcanion Cysylltiadau Rhyngwladol cyffredinol a'r Strategaeth Ryngwladol yn hytrach na'i fod yn gysylltiedig â Chynllun Gweithredu penodol.

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ein gwaith o ystyried yr ymateb amrywiol i'r sefyllfa ledled y byd. Mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i gynllunio a chynnal digwyddiadau, gyda llawer o weithgareddau yn symud ar-lein. Er hynny, mae'r pandemig wedi codi ymwybyddiaeth o Gymru ar lwyfan byd-eang hefyd, a bu diddordeb yn ymateb Cymru i COVID-19. Mae gweithgarwch bellach wedi dychwelyd i'r arfer mewn sawl rhan o'r byd, gyda China yn parhau'n eithriad amlwg.

## Meysydd penodol

### Strategaeth Ryngwladol

Bydd ymgysylltu â'n Cymry ar wasgar, ein rhanbarthau a'n gwledydd sy'n cael blaenoriaeth, sefydliadau'r celfyddydau a chwaraeon a hyrwyddo partneriaid Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i fod yn ffocws sylweddol i ni, a byddwn yn parhau i ddyrannu cyllid o'n cyllideb ymgysylltu rhyngwladol yn 2023-24 i gefnogi hyn.
Byddwn ni'n parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid strategol i baratoi cynlluniau cyflawni ar gyfer 2023-24 yn ogystal â chwilio am gyfleoedd i gydweithio er mwyn cyflawni ein Strategaeth yn well.

Rydym ni'n disgwyl i'n partneriaid strategol gyflwyno eu cynlluniau ymgysylltu a chyflawni yn

chwarter cyntaf y flwyddyn nesaf a byddwn yn ystyried eu cais am adnoddau yn unol â hynny. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid strategol nad ydym yn eu hariannu'n uniongyrchol ond sy’n cyfrannu at wireddu'r Strategaeth.

Rhaglen Cymru ac Affrica

Cyllideb Cymru ac Affrica ar gyfer 2023-24 yw £1.375m - gyda'r trosglwyddiadau MEG i MEG o £350,000 a £100,000. Mae rhaglen Cymru ac Affrica yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, gyda £450,000 (drwy drosglwyddiadau) o'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Cymru ac Affrica.

Mae'r £450,00 o gyllid Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu at grant o £550,000 i raglen Maint Cymru, yn bennaf er mwyn darparu Rhaglen Plannu Coed Mbale, gyda rhywfaint o gyllid wedi'i ddyrannu i brosiect Coedwig Gymunedol Bore yn Kenya.

Mae ymrwymiadau eraill o fewn cyllideb Cymru ac Affrica y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cynnwys grant o £349,000 ar gyfer Hub Cymru Africa sy’n penderfynu ar ddyraniad cyllid y grant hwnnw ei hun. Mae Ymgyrch Cenedl Masnach Deg yn cael ei ariannu o fewn y grant hwn. Mae hefyd yn cynnwys contract o £286,000 i CGGC er mwyn cynnal a dyfarnu Cynllun Grantiau Bach Cymru ac Affrica – grantiau o rhwng £5,000 a £25,000, grant o £20,000 i DEC Cymru i gynorthwyo gyda'u gwaith codi arian a chydlynu a £100,000 i gyflwyno'r Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol – sy’n anfon pobl ar leoliadau 8 wythnos i Uganda, Namibia a Lesotho.

Swyddfeydd rhyngwladol

Y gyllideb ar gyfer Swyddfeydd Rhyngwladol yw £5,434,000. Mae'n cael ei rannu rhwng cyllideb flynyddol o £4,684,000 ar gyfer costau rhedeg swyddfeydd tramor a chyllideb flynyddol o £750,000 ar gyfer gweithgareddau cyfunol. Mae’r gyllideb costau rhedeg swyddfeydd tramor yn cynnwys rhent swyddfeydd, taliadau platfform FCDO a chyflogau staff ac argostau. Mae'r gyllideb gweithgareddau yn cefnogi gweithgarwch rhwydwaith-cyfan ar gyfer y swyddfeydd tramor. Nid ydym yn pennu cyllidebau costau rhedeg rhaglenni ar gyfer pob swyddfa gan fod y rhain yn cael eu rheoli'n ganolog. Mae'r swyddfeydd tramor hefyd yn gallu gwneud cais i'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol i gyflawni yn erbyn y cynlluniau gweithredu a gweithgarwch trawsbynciol.


Mae'r Swyddfeydd Rhyngwladol yn cyflawni yn erbyn nodau penodol y Strategaeth Ryngwladol a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig, yn ogystal â chylch gwaith cyhoeddedig y swyddfeydd unigol.

O ran ymwneud â digwyddiadau mawr/rhyngwladol, fe wnaethom gychwyn ar raglen 18 mis o ddiplomyddiaeth chwaraeon ym mis Awst 2022 - gyda'r nod o geisio manteisio ar gyfleoedd ar ôl i Gymru gyrraedd sawl pencampwriaeth o bwys mewn campau amrywiol gan gynnwys hoci, pêl-rwyd, rygbi a phêl-droed. Dechreuodd hyn gyda digwyddiad yng Ngemau'r Gymanwlad, gyda phwyslais ar ferched a menywod yn cymryd rhan ym myd y campau, gan ddenu cynulleidfa ryngwladol i glywed gan athletwyr ddoe a heddiw. Fel rhan o dwrnamaint Cwpan Pêl-droed y Dynion FIFA, rydym wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar hyd a lled y byd i geisio codi ymwybyddiaeth a phroffil Cymru. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ystyried sut i elwa i'r eithaf ar gyfleoedd chwaraeon gan ddechrau gyda Chwpan Hoci'r Byd yn India ym mis Ionawr hyd at Gwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc yn yr hydref. Hefyd, byddwn yn blaenoriaethu cyfleoedd yng Nghymru gan gynnwys Pencampwriaeth Rygbi Cadair Olwyn Ewrop yng Nghaerdydd ym mis Mai 2023. Rydym hefyd yn cynllunio digwyddiadau ymgysylltu mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau rhyngwladol eraill yng Nghymru a thu hwnt gan gynnwys Uwchgynhadledd Heriau Byd-eang Hillary Clinton yn Abertawe. Mae'n anodd mesur

cynlluniau cymell tawel, oherwydd union natur y gweithgarwch, ond mae'n arf hynod werthfawr yn ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi. Edrychaf ymlaen at drafodaethau pellach gyda'r Pwyllgor.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**